

# CABINET

## CYNGOR GWYNEDD

<b>DYDDIAD</b>	Dydd Mawrth, 19eg Chwefror, 2019
<b>AMSER</b>	1.00 y.h.
<b>LLEOLIAD</b>	Siambwr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH
<b>PWYNT CYSWLLT</b>	Annes Siôn 01286 679490 cabinet@gwynedd.llyw.cymru

### AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

Aelodau	
Dyfrig L. Siencyn	Arweinydd
Dafydd Meurig	Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Amgylchedd
Craig ab Iago	Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant
Gareth Wyn Griffith	Aelod Cabinet Prifffyrdd a Bwrdeistrefol
Nia Wyn Jeffreys	Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol
Peredur Jenkins	Aelod Cabinet Cyllid
Dilwyn Morgan	Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc
W. Gareth Roberts	Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant
Gareth Thomas	Aelod Cabinet Addysg
Ioan Thomas	Aelod Cabinet Datblygu'r Economi

## RHAGLEN

	Eitem	Cyflwynir gan	Swyddog	Tud.
1	YMDDIHEURIADAU			
2	DATGAN BUDDIANT PERSONOL			
3	MATERION BRYD			
4	MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU			
5	COFNODION CYFARFODYDD A GYNHALIUYD AR Y 15, 22 A 29 IONAWR			4 - 26
6	ADOLYGU CYNLLUN Y CYNGOR 2018-23	Cyng. Dyfrig Siencyn	Dewi Wyn Jones	27 - 160
7	STRATEGAETH GOFALWYR GOGLEDD CYMRU	Cyng. W Gareth Roberts a Cyng. Dilwyn Morgan	Morwena Edwards	161 - 254
8	CYLLIDEB 2019/20	Cyng. Peredur Jenkins	Dafydd L Edwards	255 - 401
9	CYNLLUN ASEDU CORFFORAETHOL 2019-29	Cyng. Peredur Jenkins	Dilwyn Williams	402 - 431
10	<p>CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD</p> <p>Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinir ym maragraff 14 ac 16 o Atodiad 12A o Deddf Llywodraeth Leol 1972</p> <p>Gofynnir i gadw'r eitem yn eithriedig o dan yr adran isod:  14.10.2 Gwybodaeth Eithriedig – Disgresiwn i Wahardd y Cyhoedd  (a) Ceir gwahardd y cyhoedd o gyfarfodydd pryd bynnag y bo'n debygol, oherwydd natur y</p>			

	<p>busnes sydd i'w drafod, neu natur y trafodion, y byddai gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei ddatgelu.</p> <p>Mae'r adroddiad yn cyfeirio at amodau masnachol sensitif sy'n destun negodi ar hyn bryd gyda cwmni Byw'n Iach Cyf a'i gyfreithwyr. Gall cyhoeddi'r adroddiad ac ystyriaethau'r Cabinet yn llawn danseilio gallu'r Cyngor i sicrhau'r amodau gorau ar gyfer gwarchod ei ddiddordebau. Mae hefyd yn ymwneud a chyngor cyfreithiol ar y cytundeb a'r amodau a gynigir o safbwynt y cwmni a materion trethiant.</p> <p>Ymhellach, gall rhyddhau'r crynodeb o amodau arfaethedig ganiatáu i gyflenwyr annibynnol o'r Cyngor ddod i gasgliadau ynglŷn pherfformiad ariannol a gall hynny yn ei dro danseilio unrhyw drefniadau caffael yn y dyfodol fyddai'n gadael y Cyngor yn agored i risg ariannol.</p>			
11	CONTRACT CWMNI BYW'N IACH CYF	Cyng. Craig ab Iago	Sioned Williams	

# Eitem 5

---

## Y CABINET DYDD MAWRTH, 15 IONAWR 2019

---

### Yn bresennol-

Y Cynghorwyr: Dyfrig L. Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Wyn Griffith, Nia Wyn Jeffreys, Peredur Jenkins, Dilwyn Morgan, W Gareth Roberts, Ioan Thomas a Gareth Thomas

### Hefyd yn bresennol-

Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dewi Morgan (Uwch Reolwr - Refeniw a Risg, Cyllid) ac Annes Siôn (Swyddog Cefnogi Aelodau)

### Erail a wahoddwyd:

Eitem 6: Roland Evans (Uwch Reolwr Diwylliant a Chymunedau)

#### 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.  
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

#### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

#### 3. MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw fater brys.

#### 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

#### 5. COFNODION CYFARFODYDD A GYNHALIWDYD AR 18 RHAGFYR

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfodydd y Cabinet a gynhaliwyd ar y 18 o Ragfyr fel rhai cywir

#### 6. CYNLLUN GWYNEDD 2018-2023 - ADNODD I'R CYNLLUN 'CYNYDDU BUDD DIGWYDDIADAU MAWRION'

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Ioan Thomas

#### PENDERFYNWYD

1. Ymrwymo £50,000 o Gronfa Trawsffurfio'r Cyngor yn ystod blwyddyn ariannol 2019-20 er mwyn gwireddu'r Cynllun 'Cynyddu Budd Digwyddiadau Mawrion i Wynedd'.
2. Adolygu cynnydd y weithgaredd ar ymrwymadau pellach i gefnogi



gweddill y Cynllun cyn diwedd 2019.

## **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod digwyddiadau mawrion yn hynod bwysig nid yn unig i economi Gwynedd ond er mwyn sicrhau fod Gwynedd yn le da i fyw ar gyfer trigolion y sir. Ategwyd fod y buddsoddiad wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac nad oedd yr arian yma yn mynd tuag at ariannu swydd Rheolwr Digwyddiadau ond yn hytrach am arian fydd ar gael ar gyfer digwyddiadau. Nodwyd mai cyfraniad bychan sydd yn cael eu cynnig i drefnwyr digwyddiadau drwy'r gronfa. Ymhelaethwyd gan nodi fod dylanwad ac effeithiau yn sgil buddsoddiad y Cyngor yn sicrhau cyfleoedd i fusnesau lleol fanteisio ar gytundebau, creu cyfleoedd i bobl ifanc a chymunedau gyfrannu a bod lle canolog i iaith a diwylliant Gwynedd.

Nodwyd fod buddsoddiad o £51,750 o arian gan y Cyngor y llynedd gan ategu fod yr arian wedi denu £217,000 o arian gan Lywodraeth Cymru i ddigwyddiadau ac roedd cyfanswm y gyllideb dros £4.6m. Mynegwyd fod hyn yn dangos fod gwerth yn y buddsoddiad yma.

Tynnwyd sylw at uchafbwyntiau 2018-19 o ran digwyddiadau gan nodi fod Bwrlwm Bermo wedi denu 1,000 o bobl i gymryd rhan mewn digwyddiad allan o dymor ym mis Hydref. Soniwyd am ddigwyddiad Red Bull gan nodi eu bod wedi cytuno i ddefnyddio Plas Tan y Bwlch fel llety ar gyfer Red Bull Hardline. Pwysleisiodd yr Uwch Reolwr ar gyfer Diwylliant a Chymunedau pwysigrwydd y dylanwad mae'r Cyngor yn ei gael wrth fuddsoddi mewn digwyddiad gan nodi fod dylanwad o ran iaith, cyfleoedd i ddefnyddio cwmnïau lleol ac i sicrhau'r deilliannau gorau ar gyfer y Cyngor a'i thrigolion.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Holwyd sut mae'r Cyngor yn monitro a gwerthuso digwyddiadau, nid yn unig y rhai sydd yn derbyn buddsoddiad ond y rhai nad ydynt yn ei dderbyn yn ogystal. Mynegwyd fod yr atodiadau i'r adroddiad yn dangos y llwyddiant economaidd, ac efallai fod angen ehangu ar y monitro yn benodol wrth edrych ar iaith, nifer yr unigolion yn gwirfoddoli ac effaith diwylliannol. Gofynnwyd i'r adran wneud hyn ac i adrodd yn ôl ar y rhain y flwyddyn nesaf.

## **7. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET AMGYLCHEDD**

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Dafydd Meurig

### **PENDERFYNWYD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

## **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan fod yr Aelod Cabinet, ar y cyfan yn hapus a pherfformiad yr adran Amgylchedd. Ategodd fod yr amser mae hi yn cymryd i

benderfynu a'r cais cynllunio wedi bod yn ansefydlog ar ddechrau eleni, ychwanegodd fod effaith y Cynllun Dirprwyo newydd yn dechrau ymddangos yw hyn ac y bydd yn sefydlogi gan ei fod yn cael ei fonitro drwy gofnodi ar wahân gan y bydd y niferoedd y ceisiadau fydd angen mynd i bwyllgor yn lleihau.

Tynnwyd sylw ar Wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd gan nodi fod y gwasanaeth yn parhau i fod y tu ôl o ran arolygiadau Hylendid Bwyd a Safonau Bwyd. Ychwanegwyd fod swyddogion ychwanegol bellach wedi eu penodi, ac mae'r gwasanaeth wedi mabwysiadau trefniadau mwy effeithlon drwy gynnal archwiliadau hylendid a safonau bwyd yn yr un ymweliad ble mae hyn yn bosib.

Mynegwyd fod perfformiad cyfartaledd y dyddiadau a gymerir i benderfynu cais trwydded tacsî wedi gwella o'i gymharu â'r adroddiad diwethaf. Nodwyd fod cyfartaledd prosesu trwyddedau gyrwyr wedi gostwng yn ogystal. Ychwanegwyd wrth herio perfformiad y gwasanaeth nodwyd fod trwydded ar gyfer cwmnïau a cherbydau tacsîs yn cael eu prosesu yn gyflym iawn ac o fewn 2 ddiwrnod ar gyfartaledd, ond fod nifer cynnydd yn y nifer o drwyddedau ar gyfer gyrwyr. Nodwyd fod y drefn o wneud gwiriad DBS yn gallu bod yn araf a bod y drefn o drefnu gwrandawiaidau o flaen Is-bwyllgor Trwyddedu yn gallu ychwanegu oediad i'r broses.

Nodwyd fod Canran adeiladau gyda system diogelwch cyflawn wedi dirywio yn sylweddol o 91% i 73%. Esboniwyd fod aelod staff wedi bod yn absennol oherwydd salwch, ac nad oedd aelod arall staff gyda'r arbenigedd i wneud y gwaith. Mynegwyd fod camau yn ei le bellach i sicrhau fod y Gwasanaeth yn gallu parhau i wneud y gwaith yn absenoldeb aelod staff. Nodwyd fod cynlluniau arbedion wedi ei gwireddu ac amlinellwyd blaenoriaethau Cynllun y Cyngor gan nodi fod y rhain wedi ei datblygu yn dilyn trafodaethau a chynghorwyr am eu wardiau. Mynegwyd fod camau yn cael eu cymryd er mwyn cwblhau'r blaenoriaethau.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod pryder am ddiffyg parcio yn ardal y Bala sydd yn un o flaenoriaethau Cynllun y Cyngor bellach wedi ei ddatrys.
- Trafodwyd blaenoriaeth Cynllun y Cyngor am ddiogelwch tu allan i'r ysgolion yng Nghaernarfon gan nodi fod angen edrych ar y safle i gyd gan fod y Ganolfan Hamdden a'r Ganolfan Dennis ar yr un safle.
- Trafodwyd mesurydd perfformiad yr adran am gwynion trafniadaeth gan nodi fod amryw wedi canmol y bysus yn dilyn newid cwmni. Nodwyd fod y mesurydd yma yn edrych ar gwynion gan nodi sut mae'r adran wedi ymateb i'r cwynion.

## **8. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL AC YMGYNHORIAETH GWYNEDD**

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Gareth Griffith

### **PENDERFYNWYD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

## TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod gwelliant i berfformiad Gwasanaethau Stryd eleni, y gwasanaeth sydd yn cadw strydoedd y sir yn lan a thaclus. Ychwanegwyd fod y mesurydd glendid ac edrychiad strydoedd hyd yma eleni yn 74.1% sydd yn dangos cynnydd o berfformiad y llynedd a oedd yn 71.95%. Mynegwyd fod canran strydoedd sydd â safon B, B+ ac A wedi gweld cynnydd o 94.1% yn 2017/18 i 98.5%. Tynnwyd sylw at y newid yn y mesurydd perfformiad ar gyfer canran tipio anghyfreithlon a gliriwyd o fewn 5 diwrnod. Nodwyd fod y perfformiad ar gyfer y mesurydd newydd yma yn dangos ar gyfartaledd ei bod yn cymryd 1.7 diwrnod i'r adran glirio unrhyw dipio anghyfreithlon, ac ar y cyfan mae'r adran yn gweld hwn yn berfformiad eithaf da ac yn un gellir ei ddefnyddio fel gwaelodlin.

Mynegwyd fod canran y gwastraff trefol a anfonir i dirlenwi yn is eleni yn y cyfnod o Ebrill i Hydref sef 17.98% o'i gymharu â 24.33%. Mynegwyd fod y gwelliant hwn o ganlyniad i'r ffaith fod mwy o wastraff wedi cael ei drin drwy'r drefn llosgi ac o ganlyniad ddim wedi'i anfon i dirlenwi.

Trafodwyd safon y ffyrdd gan nodi fod Prif Ffyrdd dosbarth A a B mewn cyflwr cymharol a bod gwelliant i'r weld y ffigyrau cymariaethau cenedlaethol. Mynegwyd fod dosbarth C sydd mewn cyflwr gwael wedi gwaethygu ond mynegwyd fod yr adran wedi derbyn arian gan y Llywodraeth a bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i lonydd dosbarth C. Nodwyd fod angen i'r adran greu mesur ar gyfer ffyrdd di-ddosbarth gan and yw'r ffyrdd yn rhan o'r mesuriadau cenedlaethol. Ategwyd gan fod cynifer o ffyrdd y Sir yn rhai di-ddosbarth mae cyflwr y ffyrdd yma yn hanfodol bwysig i drigolion Gwynedd.

Tynnwyd sylw at doriadau a chynllun cau 50 allan o 73 o doiledau cyhoeddus y sir gan nodi fod angen llunio Strategaeth Toiledau Cyhoeddus erbyn Mai 2019, a bydd yn dod i'r Cabinet i gael ei drafod. Ar y cyfan, nodwyd fod yr aelod cabinet yn hapus ar y sefyllfa ariannol ac arbedion.

Mynegwyd fod yr Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd wedi cyrraedd ei brif fesur wedi ei gyrraedd, a bod tafluniad y sefyllfa NET ddiweddaraf yn dangos elw o £23,583. Nodwyd fod yr adran wedi ennill Gwobr Genedlaethol am Gydweithio yn ddiweddar. Nodwyd fod yr aelod yn hapus iawn gyda'r ddwy adran.

### Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Tynnwyd sylw at gynllun Lampau LED's a nodwyd nid yn unig ei fod yn arbediad arian ond ei fod yn arbed ar garbon, a'i fod yn cyd-fynd ar agenda gostwng carbon.
- Mynegwyd ei bod yn syniad da i ddechrau mesur ffyrdd di-ddosbarth gan fod llawer o'r lonydd yma yn yr ardaloedd gwledig ar draws y sir a fydd yn gymorth i'r trigolion.
- Nodwyd ei bod yn anodd cael mesurydd ar gyfer baw ci, ond efallai y gall fod adroddiad byr tro nesaf a holwyd os oes unrhyw beth y gall y Cyngor ei wneud i fod o flaen y gad gydag annog pobl i godi a glanhau eu baw ci. Nodwyd fod yr eitem hon yn cael ei hymchwilio gan y pwyllgor Craffu.
- Holwyd os bydd gwastraff trefol yn mynd i dirlenwi yn lleihau unwaith y

bydd y gwastraff i gyd yn cael ei losgi yn y prosiect rhanbarthol.  
Cadarnhawyd y bydd unwaith y bydd y safle yn mynd yn weithredol, ym  
mis Mai

9.

### **BLAEN RAGLEN Y CABINET**

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Dyfrig Siencyn

### **PENDERFYNWYD**

Derbyn y blaen raglen.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a daeth i ben am 1:40pm

### **CADEIRYDD**

---

## Y CABINET DYDD MAWRTH, 22 IONAWR 2019

---

### **Yn bresennol-**

Y Cynghorwyr: Dyfrig L. Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Wyn Griffith, Nia Wyn Jeffreys, Peredur Jenkins, Dilwyn Morgan, W Gareth Roberts, Gareth Thomas, Ioan Thomas

### **Hefyd yn bresennol-**

Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol) ac Annes Sion (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Eitem 5: Marian Parry Hughes (Pennaeth Adran Plant a Cefnogi Teuluoedd)

Eitem 6: Alun Lloyd Williams (Uwch Swyddog Dysgu a Datblygu)

Eitem 7: Garem Jackson (Pennaeth Adran Addysg)

Eitem 8-10: Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid)

Eitem 6-11: Geraint Owen (Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol)

### **1. YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.  
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau

### **2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

### **3. MATERION BRYD**

Nid oedd unrhyw faterion bryd.

### **4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

### **5. CAIS AM ADNODD TRAWSNEWID GWASANAETH PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dilwyn Morgan

### **PENDERFYNIAD**

Neilltuo £34,382 o Gronfa Cynllun y Cyngor i ariannu swydd swyddog trawsnewid

am gyfnod penodol o flwyddyn yn yr Adran Blant a Chefnogi Teuluoedd i gynnal adolygiad penodol er mwyn sicrhau fod gwasanaethau'r Adran yn gweithredu yn y modd mwyaf effeithlon posib.

## **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y Gwasanaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd yn adran uchelgeisiol. Mynegwyd eu bod yn awyddus i gynnal adolygiad o waith yr adran er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio yn effeithlon. Ychwanegwyd fod derbyn yr adnodd am sicrhau tystiolaeth er mwyn herio, nid yn unig, prosesau'r adran ond prosesau partneriaid rhanbarthol a chenedlaethol yn ogystal. Mynegwyd fod adnabod cyfleoedd cydweithio ar draws y Cyngor a phartneriaid yn rhan allweddol o'r gwaith, a'i fod yn cyd-fynd a'r weledigaeth ehangach fel datblygu Strategaeth Cefnogi Teuluoedd. Ategwyd y bydd manteision ariannol i'r adran yn dilyn yr adolygiad ond pwysleisiwyd nad hyn yw prif amcan yr adran, ond yn hytrach i sicrhau fod yr adran yn gweithio yn y ffordd fwyaf effeithlon posib.

Ychwanegodd Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd fod trafodaethau wedi eu cynnal er mwyn i'r adran symud tuag at weithio yn fwy effeithlon, gan nodi yn hanesyddol nad yw'r gwasanaeth wedi gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i wireddu effeithlonrwydd. Ategwyd mai rhan allweddol o'r gwaith fydd i newid diwylliant ac i atgyfnerthu meddylfryd Ffordd Gwynedd, a drwy hyn cynnig y gwasanaeth gorau i drigolion Gwynedd. Mynegwyd fod yr adran wedi derbyn archwiliad Cenedlaethol llawn o'i gwasanaethau'r llynedd ac felly mae'r adran yn ymwybodol eu bod yn eu prosesau yn gadarn ac effeithiol. Mynegwyd fod y cais ar gyfer Swyddog Rhan Amser 3 diwrnod yr wythnos, am gyfnod penodol a fydd nid yn unig yn gwneud yr adolygiad ond yn adnodd i wireddu'r argymhellion.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd y byddai cael rhywun a'r secondiad i'r swydd yn syniad da gan fod y staff yn deall meddylfryd Ffordd Gwynedd. Ychwanegwyd fod secondiad yn ogystal yn cynnig cyfle i swyddogion ddatblygu eu sgiliau yn ogystal.
- Trafodwyd adolygu prosesau gan nodi ei fod yn bwysig os yn dod o hyd i heriau tu hwnt i brosesau'r Cyngor ei bod yn bwysig fod yr adran yn eu herio.
- Nodwyd y bydd yr ymarfer yn un gwerthfawr a fydd ac oblygiadau tu hwnt i'r Cyngor yn y maes Plant.

## **6. PRENTISIAETHAU – BID I GRONFA CYNLLUN Y CYNGOR**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys

### **PENDERFYNWYD**

- a) Cymeradwyo sefydlu cynllun prentisiaethau.
- b) Ymrwymo £300,000 o'r Gronfa Cynllun y Cyngor er mwyn sefydlu cynllun prentisiaethau i gyflogi o leiaf 20 prentis newydd yn 2019.

## **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y cynllun yn un syml ond arloesol a blaengar. Diolchwyd i staff am eu gwaith caled yn datblygu'r cynllun. Ymhelaethodd yr Aelod Cabinet ar y weledigaeth wleidyddol sydd tu ôl i'r cynllun.

- I. Iaith - mynegwyd y bydd y cynllun yn rhoi mwy o gyfle i dderbyn hyfforddiant a datblygu sgiliau ac arbenigedd drwy gyfrwng y Gymraeg. Gobeithir y bydd hyn yn annog cynnydd o ddefnydd y Gymraeg.
- II. Gwlad - nodwyd fod cynllun prentisiaethau yn amcan cenedlaethol. Yn ychwanegol at hyn, mynegwyd, mae'n gyfle i Gyngor Gwynedd ddangos esiampyl i gynghorau a chyrff cyhoeddus eraill o botensial y cynllun.
- III. Pobl - esboniwyd fod linc bendant rhwng y cynllun hwn a gwella bywydau trigolion Gwynedd. Ymhelaethodd drwy nodi mai dim yn unig i'r ugain a fydd yn cael y prentisiaethau ond yn y gymuned yn fwy ehangach. Ychwanegwyd gan nodi y bydd yn ysgogi ymdeimlad o obaith a hyder yng nghymunedau Gwynedd
- IV. Plant - Nodwyd y bydd y cynllun yn gyfle i herio sterioteips cymdeithasol. Mynegwyd y bydd yn daith hir ond bydd yn gyfle i blant allu anelu at eu swydd ddelfrydol.

Mynegwyd fod modd i adrannau fod yn rhan o'r cynllun, a bydd angen i benaethiaid gysylltu er mwyn gweld beth yw cyfloed yn eu gwasanaethau.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd fod yr eitem yn amserol wrth feddwl am Wylfa. Mynegwyd y bydd cael prentisiaethau o fewn yn sicr yn rhoi cyfle i bobl ifanc i aros yn yr ardal ac i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Nodwyd fod angen cofio fod arian ar gael i gynlluniau arloesol er yr holl son am arbedion. Amlygwyd pwysigrwydd cadw pobl ifanc yn yr ardal er mwyn cynnal cymunedau cynaliadwy.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd roi cyfleoedd a buddsoddi mewn pobl ifanc.

## **7. CAIS AM ADNODDAU CYNLLUN Y CYNGOR I DRAWSNEWID Y GYFUNDREFN ADDYSG**

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Gareth Thomas

### **PENDERFYNWYD**

- a) Ymrwymo £103,492 o Gronfa Cynllun y Cyngor am gyfnod o ddwy flynedd i ariannu swydd Rheolwr Prosiect a fyddai'n galluogi'r Adran i ymateb a gweithredu ar brosiectau unigol i drawsnewid y gyfundrefn ysgolion yn amserol ac fel maent yn codi ac yn unol â'r egwyddorion addysg mabwysiedig.
- b) I adolygu'r sefyllfa pan ddaw'r ddwy flynedd gychwynnol i ben, a/neu os rhagwelir cynnydd yn nifer y prosiectau unigol pellach fydd angen eu gweithredu i drawsnewid y gyfundrefn ysgolion yn sgil mabwysiadu'r

egwyddorion addysg.

## **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod gan yr adran Addysg nifer o gynlluniau cyffroes yn rhan o Gynllun y Cyngor. Nodwyd fod yr Adran yn gyfrifol am nifer o brosiectau lefel uchel sydd yn cwmpasu o amgylch trawsnewid y gyfundrefn, cryfhau arweinyddiaeth a moderneiddio addysg. Ychwanegwyd fod yr adran wedi mabwysiadu Egwyddorion Addysg newydd a fydd yn sail i wireddu gweledigaeth yr adran.

Nodwyd fod gan yr adran gynlluniau di-gyfalaf fydd angen sylw o dan arweiniad y Swyddogion Addysg Ardal. Ategwyd fod y cynlluniau yn cyd-fynd a'r egwyddorion megis:

- Sefydlu trefniant federal ffurfio rhwng Ysgol Brynaerau ac Ysgol Talysarn
- Newid oedran mynediad Ysgol dyffryn Ardudwy ac Ysgol Llanbedr
- Dyfodol Cwm y Glo.

Mynegwyd y bydd angen i bob un o'r prosiectau ddilyn proses statudol gyflawn, sydd yn drwm waeth pa mor fychan yw'r cynllun. Nodwyd ei bod yn gyfnod gydag amryw o newidiadau o fewn yr adran addysg ac mae'n bosib y bydd cyfloed di-gyfalaf eraill yn codi. Er mwyn galluogi'r Adran i ymateb a dilyn yr egwyddorion, eglurwyd, bydd angen sicrhau adnodd ychwanegol.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod yr arian yn mynd i sicrhau fod prosiectau yn cael eu cwblhau ac yn symud y gyfundrefn addysg yn eu blaen.

## **8. CYLLIDEB REFENIW 2018/19 – ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2018**

Cyflwynwyd gan Cyng. Peredur Jenkins

### **PENDERFYNIAD**

- Dderbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd 2018 o'r Gyllideb Refeniw, a nodi'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.
- Gofyn i'r Aelod Cabinet ar gyfer Oedolion, Iechyd a Llesiant, ynghyd â'r Pennaeth Adran, i fynd at wraidd gorwariant y gwasanaeth Darparu a chymryd camau i leihau'r gorwariant, ac i adrodd i'r Cabinet ar y cynllun ymateb.
- Oherwydd cynnydd yn y gorwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb gan yr Adran Plant a Theuluoedd ers yr adolygiad diwethaf, i ystyried y sefyllfa pan dderbynnir adroddiad perfformiad yr Aelod Cabinet (Cabinet 29/01/19) gyda golwg ar geisio lleihau'r gorwariant erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- Oherwydd lefel y gorwariant ar gludiant disgyblion gan yr Adran Addysg, i



ystyried y sefyllfa pan dderbynnir adroddiad yr Aelod Cabinet (Cabinet 29/01/19).

- Caniatáu'r Adran Amgylchedd i neilltuo (£60k) o danwariant yr adran ar gyfer cynnal adolygiad gan gomisiynu ymchwil gan y Brifysgol a chyflogi swyddogion ychwanegol i gasglu tystiolaeth yn y maes Cludiant Cyhoeddus yn dilyn nifer o faterion dros y blynyddoedd diwethaf.
- Cynaeafu (£2,984k) o'r tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol,
  - gyda (£700k) cysylltiedig â'r premiwm Treth y Cyngor i'w neilltuo i gronfa benodol i'w ystyried ar gyfer y Strategaeth Dai.
  - (£435k) yn ymwneud â chostau cyfalaf i'w drosglwyddo i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf.
  - gyda'r gweddill sef (£1,849k) i'w drosglwyddo i Gronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol i gynorthwyo gyda phwysau anochel un-tro ar gyllidebau'r Cyngor.

## TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adran yn manylu ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw a'r rhagolygon at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mynegwyd fod y darlun yn gymysg gyda rheolaeth ariannol dderbyniol gan nifer o adrannau'r Cyngor. Ychwanegwyd fod gorwariant sylweddol yn cael ei ragweld yn yr Adran Addysg, Plant a Chefnogi Teuluoedd a Phrifyrdd a Bwrdeistrefol.

Tynnwyd sylw y bydd pum adran ynghyd a chyllidebau Corfforaethol yn tanwario, ond bydd y pum adran arall yn gorwario. Mynegwyd fod yr Adran Oedolion, lechyd a Llesiant yn gorwario o ganlyniad i orwariant yn y gwasanaeth Darparu a Llithriad yn y cynlluniau arbedion. Ychwanegwyd y bydd lleihad yn y gorwariant o ganlyniad i ddefnydd o arian grant.

Nodwyd fod gorwariant yn yr Adran Blant a Chefnogi Teuluoedd yn dwysau, er hyn mae derbyn grant diweddar gan Lywodraeth Cymru wedi lleihau'r gorwariant ychydig. Esboniwyd mai cludiant tacsis a bysus ysgolion sydd yn parhau i greu gorwariant o fewn yr Adran Addysg. Wrth edrych ar yr adran Economi, nodwyd mai llithriad yn y cynllun arbedion yn y maes Hamdden a gostyngiad yn y rhagolygon incwm yw'r rhesymau dros y gorwariant. Mynegwyd fod yr Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol wedi cychwyn ar gymryd camau i leihau'r gorwariant yn y maes Gwastraff.

Nodwyd wrth edrych ar gyllidebau corfforaethol fod y rhagolygon yn ffafriol, ac mai 2018/19 yw'r flwyddyn gyntaf o gasglu'r Premiwm Treth Cyngor. Ychwanegwyd fod y rhagolygon o gynhaeafu'r dreth ychwanegol yma'n uwch, ond fod ôl-ddyddio trosglwyddiadau eiddo o'r rhestr Treth Cyngor i'r rhestr Treth Busnes yn lleihau'r incwm.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Nodwyd mai trefn gyllidebol yr Adran Gyllid yw'r rheswm dros y sefyllfa ariannol derbyniol, ar y cyfan, a diolchwyd i'r Adran am eu gwaith caled.

## **9. RHAGLEN GYFALAF 2018/19 – ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Peredur Jenkins

### **PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd (sefyllfa 30 Tachwedd 2018) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:

- £9,000 cynnydd mewn defnydd o fenthyca
- £3,502,000 cynnydd mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- £30,000 cynnydd mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- £488,000 cynnydd mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- £220,000 cynnydd mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill

### **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mai prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf diwygiedig a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu. Nodwyd fod dadansoddiad yn yr adroddiad o'r rhaglen gyfalaf gwerth £51m am y dair blynedd nesaf.

Ategwyd fod yr adroddiad yn manylu ar y ffynonellau, yn bennaf grantiau wedi'u denu, i ariannu'r cynnydd net dros £4m ers yr adolygiad diwethaf.

Nodwyd fod gan y Cyngor gynlluniau pendant yn eu lle er mwyn buddsoddi oddeutu £28.5 miliwn eleni, ac mae £6.9miliwn ohono wedi'i ariannu drwy grantiau.

## **10. TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Peredur Jenkins

### **PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnydd calonogol tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2018/19 a blynyddoedd blaenorol.

### **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad a oedd yn nodi cynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion y Cyngor yn flynyddol. Tynnwyd sylw ar yr atodiad sydd yn dangos fod dros 95% o'r arbedion ar gyfer 2015/16 - 2017/18 wedi'u gwireddu. Ategwyd gan nodi fod ychydig o lithriad ar 15 cynllun a saith ohonynt gan yr adran Oedolion, lechyd a Llesiant ble mae her o wireddu'r cynlluniau yn parhau. Ychwanegwyd fod pedwar cynllun yn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, ble mae'r Cabinet wedi cytuno i ohirio eu gweithredu ar gynllun 'Canolfannau Ailgylchu'. Nodwyd fod un cynllun

sef 'Dechrau I'r Diwedd' yn cael ei lithro gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd.

Nodwyd fod cynlluniau gwerth dros £2.5miliwn o arbedion gan y Cyngor yn Strategaeth Ariannol 2018/19. Ychwanegwyd fod 64% o'r cynlluniau wedi'u gwireddu, gyda 7 ar drac i gyflawni o fewn amser, a 5 cynllun yn llithro.

Mynegwyd mai un o'r llithriadau yw'r Cynllun 'Dechrau I'r Diwedd' a bod adolygiad o'r cynllun wedi ei gynnal gan yr Adran Plant, gyda swyddogion Cyllid a'r Rheolwr Ymchwil a Gwybodaeth yn ail ymweld â thybiaethau'r model gwreiddiol.

Esboniwyd fod gwireddu bron i £27m o arbedion ers Ebrill 2015 wedi bod yn amser heriol i'r Cyngor a diolchwyd i staff ac i'r holl Aelodau Cabinet am eu gwaith.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd am y gwaith, gan ychwanegu ei bod yn dda fod y Cyngor yn gweithredu'n effeithlon. Ategwyd fod y Cyngor yn wynebu gorfod gwireddu mwy o arbedion, ond fod angen sicrhau lles pobl Gwynedd wrth wneud y penderfyniadau yma.

## **11. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS GEFNOGAETH GORFFORAETHOL A CHYFREITHIOL**

Cyflwynwyd gan Cyng. Nia Jeffreys

### **PENDERFYNIAD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

### **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mai dyma ail adroddiad perfformiad yr Aelod Cabinet. Tynnwyd sylw at brosiectau'r adrannau gan bwysleisio rhai prosiectau penodol. Wrth edrych ar y prosiect o hybu defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor nodwyd ei bod yn falch fod y Cyngor yn gweithredu'n fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg. Ategwyd fod y Cyngor yn sicrhau fod cefnogaeth ar gael i ddarparu'r gwasanaeth gorau i drigolion Gwynedd. Nodwyd fod cefnogaeth i swyddogion a rheolwyr yn ogystal i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol bellach gan fod Swyddog Dysgu a Datblygu penodol ar gyfer y Gymraeg. A diolchwyd i'r Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant am eu gwaith caled yn sicrhau fod deunyddiau'r cwrs IOSH bellach ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mynegwyd fod cynnydd o 4% o wariant refeniw a chyfalaf y Cyngor, a phwysleisiwyd pwysigrwydd o daro'r balans rhwng sicrhau gwerth am arian a'r budd o wario gyda chwmnïau lleol. Tynnwyd sylw at y cynllun 'Lleihau'r Bwlch Cyflog Rhwng Merched a Dynion' sydd yn ceisio hybu'r nifer o ferched o fewn arweinyddiaeth y Cyngor. Nodwyd fod angen dileu unrhyw elfen o'r amodau

gwaith o fewn y Cyngor sydd yn rhwystr i ferched ymgeisio am swydd arweiniol.

Tynnwyd sylw at ddatblygiad Hunanwasanaeth ar wefan y Cyngor sydd yn rhoi mynediad at wybodaeth i drigolion 24 awr y dydd. Mynegwyd fod niferoedd o gyfrifon hunanwasanaeth yn parhau i gynyddu gyda 36,197 cyfri bellach. Nodwyd fod dau 'digwyddiad gwybodaeth' wedi ei gynnal rhwng Gorffennaf a diwedd Hydref ble mae gwybodaeth wedi ei anfon i gyfeiriad anghywir neu wybodaeth wedi ei ddwyn/colli. Nodwyd y rhesymau dros hyn gan nodi fod trefniadau wedi eu tynhau ers mwyn sicrhau na fydd yn digwydd eto.

Nodwyd fod yr Aelod Cabinet yn hapus a chynnydd yn y Gwasanaeth Cyfreithiol, a bu i'r Aelod longyfarch y Gwasanaeth am lwyddo i gynnal safon LEXCEL, sydd yn safon cydnabyddedig Cymdeithas y Gyfraith o ran "Excellence in Legal Practive Management and Client Care".

Materion yn codi o'r drafodaeth

- Tynnwyd sylw at y nifer o ddiffygion wedi eu hamlygu mewn archwiliadau rhaglunedig yn yr Adran Briffyrdd a Bwrdeistrefol, a nododd yr Aelod Cabinet dros Briffyrdd a Bwrdeistrefol y bydd yn trafod y data a'r adran.
- Trafodwyd App Gwynedd gan holi am niferoedd sydd yn defnyddio'r ap, mae 386 wedi ei lawr lwytho hyd yma, ond ychwanegwyd nad yw wedi cael ei lansio yn llawn eto.

## **12. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS DDATBLYGU'R ECONOMI**

Cyflwynwyd gan Cyng. Ioan Thomas

### **PENDERFYNIAD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

### **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad wedi ei greu yn dilyn cyfarfodydd herio perfformiad yr adran sydd ag aelodau o'r Pwyllgor Craffu yn rhan o'r panel. Trafodwyd prosiectau Cynllun y Cyngor gan dynnu sylw yn gyntaf at gynllun Busnesau sy'n cael Cymorth i Ffynnu. Nodwyd fod rhai busnesau yn cael trafferth i gysylltu â'r Cyngor, mynegwyd fod Cyngor Dinbych bellach ac un aelod o staff i ddelio ac unrhyw ymholiadau ynglŷn â datblygu'r economi gan fusnesau. Mynegwyd fod yr Aelod Cabinet yn awyddus symud ymlaen i ddatblygu cynllun o'r fath yng Ngwynedd.

Trafodwyd cynllun Creu Swyddi Gwerth Uchel a nodwyd fod gwaith o ddatblygu safle Llanbedr yn parhau. Nodwyd y bydd datganiad gan y Parc Cenedlaethol yn fuan yn rhoi diweddariad ar y cynllunio i adeiladu ffordd newydd yn Llanbedr. Nodwyd fod perchnogion y Maes Awyr Llanbedr fod cynnydd wedi bod yn nifer yr ymholiadau gan fusnesau awyrennau a gofod er mwyn lleoli yn achlysurol ac i sylfaenu o fewn y safle datblygu. Ychwanegwyd fod y gwaith adeiladu yn parhau

er mwyn datblygu'r safle ymhellach.

Tynnwyd sylw at Raglen Arloesi Gwynedd Wledig gan nodi fod Ysgol Dronau wedi ei redeg yn ystod y cyfnod ble mynydd dros 25 o bobl ifanc am 6 penwythnos o weithgareddau wedi bod yn llwyddiannus. Ychwanegwyd yn dilyn cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru i ddarpariaeth WiFi cyhoeddus mewn cymunedau gwledig, fod trefniadau mewn lle ar gyfer gosod offer mewn 7 o gymunedau.

Mynegwyd fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig bellach wedi cadarnhau mai enwebiad Llechi Gwynedd fydd y nesaf i gael ei gyflwyno I Bwyllgor Treftadaeth y Byd o Brydain.

Trafodwyd Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig gan fod gwaith carthu basn marina Doc Fictoria wedi bod yn llwyddiannus. Nodwyd ei bod yn amserol i edrych ar ddyfodol Hafan, Pwllheli a nodwyd fod Bwrdd Prosiect wedi ei benodi. Nodwyd fod gwaith o greu Gwefan twristiaeth Eryri Mynyddoedd ac Mor yn parhau gan y Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata Digwyddiadau. Ychwanegwyd fod fersiwn newydd o'r wefan ar fin gael ei ryddhau i'r sector am fewnbwn cyn iddi fynd yn fyw o fewn y misoedd nesaf.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Tynnwyd sylw at ddiffyg gorfod busnes yn parhau i fod yn rhwystr ar gyfer cwmnïau sydd yn awyddus i leoli yn sir. Nodwyd fod trafodaethau am y Cynllun Asedau am y deg mlynedd nesaf ar droed ac efallai bydd modd darparu gofod busnes, ychwanegwyd mai adeiladau mae busnesau yn awyddus i'w cael yn hytrach nac unedau.

### **13. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS GYLLID**

Cyflwynwyd gan Cyng. Peredur Jenkins

#### **PENDERFYNIAD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

#### **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei fod yn amlinellu beth sydd wedi digwydd yn yr Adran Gyllid, gan nodi fod yr Aelod Cabinet ar y cyfan yn gyfforddus â'r perfformiad, ond fod camau priodol wedi'u cymryd er mwyn gwella perfformiad pan yn briodol.

Wrth edrych ar werth holl ddyledion amrywiol dros 6 mis oed, mynegwyd mai'r Bwrdd lechyd oedd yn gyfrifol am gyfran sylweddol o'r dyledion hynny, ac yn dilyn y cyfarfod perfformiad bu trafodaethau gyda swyddogion perthnasol o'r Bwrdd lechyd er mwyn datrys y broblem.

Mynegwyd fod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, fel rhan o ychwanegu gwerth ac i ddenu incwm, wedi darparu gwasanaeth archwilio i 67 o gynghorau tref a chymuned. Ychwanegwyd fod Swyddfa Archwilio Cymru mewn adolygiad cenedlaethol diweddar, wedi arddangos ffurf adroddiad Gwynedd fel 'arfer da'.

Trafodwyd y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth (TG), gan nodi fod Strategaeth TG newydd yn destun trafodaethau, a bydd hwnnw'n dod i'r Cabinet yn ystod mis Mai. Ychwanegwyd fod gwaith wedi cael ei wneud ar y cyd â'r Adran Addysg er mwyn datblygu strategaeth TG newydd i'r ysgolion hefyd. Esboniwyd fod y cyswllt yr ysgolion i'r rhyngwyd wedi gwella a chyflymu'n sylweddol.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd i staff yr Adran am wneud eu gwaith mor effeithiol.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2.20 y.h.

**CADEIRYDD**

---

## Y CABINET DYDD MAWRTH, 29 IONAWR 2019

---

### **Yn bresennol-**

Y Cynghorwyr: Dyfrig L. Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Wyn Griffith, Nia Wyn Jeffreys, Peredur Jenkins, Dilwyn Morgan, W Gareth Roberts, Gareth Thomas ac Ioan Thomas

### **Hefyd yn bresennol-**

Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol) ac Annes Siôn (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Eitem 5: Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth)

Eitem 6: Marian Parry Hughes (Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd)

### **1. YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau

### **2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Cyng. Nia Jeffreys, gan fod ei gwr yn gweithio fel Swyddog Tân rhan amser, nid oedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu.

### **3. MATERION BRYN**

Nid oedd unrhyw faterion bryn.

### **4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

### **5. YMATEB CYNGOR GWYNEDD I'R PAPUR GWYNED: YMGYNGHORIAD AR DDIWYGIO TREFNIADAU LLYWODRAETHU A CHYLLIDO AWDURDODAU TAN AC ACHUB CYMRU**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dyfrig Siencyn

### **PENDERFYNIAD**

Penderfynodd y Cabinet i ganiatáu swyddogion i ffurfio ymateb terfynol i'r ymgynghoriad uchod yn seiliedig ar yr ymateb drafft sydd wedi ei baratoi ar ran y Cyngor i'r Ymgynghoriad ar ddiwygio trefniadau llywodraeth a chyllido

Awdurdodau Tan ac Achub Cymru a gyflwynwyd yn Atodiad 1, gan addasu i newid y cyfeiriad at y "Gogledd Cymru" i gyfeirio at "y Gogledd" ac i nodi pe na fyddai'r trefniadau cyllido yn newid i drefniadau praesept yn dilyn yr ymgynghoriad, y byddai angen ystyriaeth bellach i aelodaeth yr Awdurdod Tan ac Achub er mwyn sicrhau fod gan y Cynghorau lais uniongyrchol yn y penderfyniadau cyllidol.

### **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei fod yn amlinellu ymatebiad Cyngor Gwynedd i'r ymgynghoriad ar ddiwygio trefniadau llywodraethu a chyllido Awdurdodau Tan ac Achub Cymru. Mynegwyd y drefn ar hyn o bryd a nodwyd fod 5 aelod etholedig yn aelodau o'r Awdurdod Tan. Nodwyd fod yr ymatebiad y Cyngor yn cefnogi parhau i gadw'r Awdurdodau unigol fel y maent ac i beidio greu un Awdurdod ar gyfer Cymru gyfan. Ategwyd fod angen Awdurdod sydd yn adnabod ac yn gweithredu yn lleol i'r Gogledd.

Nodwyd fod awgrym i'r Awdurdodau Tan ac Achub gael eu roi o dan Gomisiynydd yr Heddlu, esboniwyd nad oedd yr ymateb yn cytuno a hyn a bod angen sicrhau aelodaeth y Cyngor ar yr Awdurdod er mwyn sicrhau llais Cyngor Gwynedd. Ategwyd y byddai modd cael trafodaeth bellach ar efallai lleihau'r niferoedd o aelodau etholedig.

Nodwyd mai'r elfen bwysicaf yn yr ymgynghoriad yw'r elfen gyllidol gan ei fod yn drafodaeth sydd yn codi'n flynyddol. Mynegwyd fod cyfraniad y cyhoedd i'r Awdurdod Tan ac Achub yn cael ei nodi o dan cyfraniad at Cyngor Gwynedd ar y bil Treth Cyngor. Esboniwyd y byddai yn syniad i godi praesept fel mae'r Heddlu yn ei wneud, sydd yn sicrhau atebolrwydd i'r Cyngor yn ogystal. Ychwanegwyd os bydd praesept yn cael ei godi angen eglurdeb a chytundeb dros Gymru gyfan.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Tynnwyd sylw at addasiadau ieithyddol gan nodi fod agen newid y cyfeiriad at y "Gogledd Cymru" i gyfeirio at "y Gogledd".
- Holwyd os arian ar gyfer yr Awdurdod Tan ac Achub yn dod drwy'r cynghorau holwyd pan nad oes Cydbwyllgor fel ar gyfer meysydd eraill fel Addysg. Esboniwyd for yr Awdurdod Tan ac Achub yn Awdurdod Cyhoeddus ar ben ei hun, ac ar hyn o bryd yn cael rhan o arian drwy'r Cyngor ac o ganlyniad fod aelodau etholedig yn rhan o'r Awdurdod. Nodwyd os byddai'r drefn cyllidol presennol yn parhau yn dilyn yr ymgynghoriad y bydd angen ystyriaeth bellach i aelodaeth yr Awdurdod Tan ac Achub er mwyn sicrhau llais Cyngor Gwynedd wrth drafod elfennau cyllidol.
- Nodwyd pwysigrwydd mai'r Cyngor sydd yn dewis yr aelodau i fod yn rhan o'r Awdurdod.

## **6. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. W Gareth Roberts

### **PENDERFYNWYD**



Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

## **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adran wedi bod yn cymryd camau er mwyn ailgyflwyno ac ail edrych ar sut maent yn cynnig gwasanaethau i drigolion Gwynedd. Ychwanegwyd fod yr adran wedi bod yn arloesol ac yn weithgar a'u bod parhau i ddatblygu er mwyn cyrraedd pen y daith. Ategwyd mai yn y dyfodol mai gwaith ataliol fydd yn cael blaenoriaeth er mwyn cyrraedd dyheadau pobl ac i wneud ymyrraeth fuan.

Mynegwyd fod gwaith ataliol yn cyfarch y problemau cyllidol yr adran. Nodwyd fod yr adran wedi derbyn arian ar gyfer prosiectau dros dro gan y Llywodraeth, ond yn aml fod y buddion yn rhai tymor hir a bod disgwyliad i'r prosiectau barhau yn dilyn y grant drwy'r gyllideb graidd. Mynegwyd fod hyn ddim bob amser yn bosibl.

Pwysleisiwyd mai prif her yr adran yw bod trigolion yn byw yn hyn a niferoedd uwch a'r cyflwr dementia. Ychwanegwyd fod gwaith wedi ei wneud i gyfarch yr heriau mewn rhai ardaloedd ac yn benodol ar ddarparu cefnogaeth dementia o safon uchel. Mynegwyd pwysigrwydd sicrhau'r gofal yma ym mhob ardal yng Ngwynedd er mwyn sicrhau fod cefnogaeth ar gael yn agos i gartrefi'r unigolion. Ychwanegwyd fod y gwaith yma ar y cyd a'r Maes lechyd, a'u bod yn gweithio fel un gwasanaeth i gefnogi anghenion yr unigolyn.

Nodwyd fod niferoedd unigolion sydd methu eu rhyddhau yn amserol o'r ysbyty oherwydd rhesymau cymdeithasol wedi lleihau dros y tri mis diwethaf. Nodwyd mai cydweithio a datblygiad y timau adnoddau cymunedol yw'r rheswm dros hyn. Ynghyd a datblygu cynlluniau gofal cartref yn ardal Tywyn a Pwllheli. Ychwanegwyd fod Hafod y Gest, sydd yn dai gofal ychwanegol ym Mhorthmadog, bellach wedi agor. Mynegwyd fod cynllun y prosiect 'Pontio'r Cenedlaethau' yn carlamu yn ei blaen. Cynllun sydd yn dod a phlant, pobl ifanc a phobl hyn at ei gilydd yw hon. Ategwyd fod yr unigolion sydd wedi cymryd rhan wedi mwynhau.

Tynnwyd sylw at un her fawr sydd i'w gweld ar draws y Gogledd y diffyg nifer o seiciatryddion, yn benodol ym Meirionydd ac Arfon. Mynegwyd fod wedi ei uchafu i'r Bwrdd lechyd am drafodaeth bellach.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Holwyd os oes modd cyfuno dau brosiect - Hafod y Gest, Porthmadog a Pontio y Cenedlaethau, gan fod Ysgol Eifion Wyn mor agos i adeilad Hafon y Gest. Mynegwyd fod trafodaethau yn cael ei gynnal a Grŵp Cynefin am y mater, ac ychwanegwyd fod lleoliad Hafod y Gest yn Hwb sydd ar gael i'r gymuned gyfan. Ychwanegwyd fod modd i'r unigolion a fydd yn aros yno hefyd barhau i fynychu gweithgareddau o fewn y gymuned yn y llyfrgell a'r ganolfan hamdden gan fod yr adeilad mor ganolog.
- Tafodwyd os byddai modd defnyddio pobl ifanc yn eu harddegau yn ogystal ar gyfer y cynllun Pontio'r Cenedlaethau' ac nid plant ifanc yn unig.

- Tynnwyd sylw ar y Bwrdd Iechyd yn ail asesu holl gynlluniau'r Cyngor Iechyd Cymunedol (CIC), ac o ganlyniad mae posibilrwydd y bydd lleihad mewn cyfraniadau a throsglwyddo'r gost i awdurdodau lleol. Esboniwyd y sefyllfa ar hyn o bryd, ac mae trafodaeth yn cael ei gynnal. Ychwanegwyd fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn talu, ar gyfartaledd, cyfradd uwch yng Ngwynedd nac unrhyw sir arall. Nodwyd efallai y byddai'n syniad cael cymodwr yn rhan o'r trafodaethau rhwng CIC a'r Cyngor. Ychwanegwyd fod angen meini prawf clir ar gyfer ariannu pecynnau gofal fel bod y rheolau yn gwbl glir mai pwy sydd yn ariannu pa elfennau.

## **7. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD AELOD CABINET DROS BLANT A CEFNOGI TEULUOEDD**

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Dilwyn Morgan

### **PENDERFYNWYD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad ond yn wyneb y gorwariant sylweddol a adroddwyd yn ystod yr adolygiad cyllidol diwethaf, gofyn i'r Prif Weithredwr; y Pennaeth Cyllid a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol gwrdd gyda'r Aelod Cabinet a'r Adran i weld pa feysydd y dylid eu blaenoriaethu o ran sylw ariannol i osgoi ymdrech gwastraffus ar faterion na ellir gwneud dim ynglŷn â hwy.

### **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi y bydd yn amlinellu'r diweddaraf am yr adran, a diolchwyd i'r aelodau craffu a oedd yn rhan o'r cyfarfod herio perfformiad am eu cyfraniad. Mynegwyd fod yr Aelod Cabinet, ar y cyfan, yn hapus a pherfformiad yr adran, ond fod ambell i lithriad ond nid yw un o'r llithriadau yn achos pryder o ran diogelwch o fewn yr adran.

Tynnwyd sylw at flaenoriaethau'r adran gan nodi fod y Strategaeth Cefnogi Teuluoedd yn datblygu gwasanaethau mwy integredig o fewn y Cyngor a gyda phartneriaid. Mynegwyd fod gwaith mapio yn cael ei wneud ar hyn o bryd. Ychwanegwyd fod y gwaith o ddatblygu'r strategaeth a'r cyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru i uno eu grantiau atalio wedi rhoi cyfle i'r adran adelwyrchu ar eu cyfeiriad. Ategwyd ei bod yn gyfnod cyfores iawn. Mynegwyd bellach fod gan y Cyngor Fwrdd Cefnogi Llesiant, a fydd yn hybu gweithio yn drawsadrannol ar gyfer lles trigolion Gwynedd. Tynnwyd sylw yn ogystal at Strategaeth Rhiantu Corfforaethol, gan nodi fod grwpiau tasg wedi eu sefydlu i geisio adnabod lle sydd angen ei wella ac i adnabod ymarfer da. Mynegwyd fod y gwaith yn un uchelgeisiol iawn.

Tynnwyd sylw at adolygiad 'Dechrau I'r Diwedd' sydd yn gynllun arbedion sydd wedi bod yn waith ar y cyd rhwng yr Adran Blant a Cefnogi Teuluoedd, Cyllid a'r Rheolwr Ymchwil a Gwybodaeth. Nodwyd fod yr adolygiad yn nodi cynnydd yn y nifer o blant mewn gofal fesul categori. Ategwyd fod lleihad yn y nifer o blant ag anableddau Dysgu / anghenion dwys ond fod cynnydd yn y nifer o fewn categorïau eraill. Ychwanegwyd fod gwaith yn parhau i edrych ar y sefyllfa.

Mynegwyd fod y wybodaeth yn yr adolygiad yn amlygu fod achosion bellach yn anodd ei ragweld. Ategwyd ei bod yn anodd rhoi cyllideb bendant gan fod angen bod yn ofalus ac ymateb i achosion mor effeithiol â phosib. Ychwanegwyd fod gwaith yn cael ei wneud i geisio gwella'r sefyllfa ariannol. Pwysleisiwyd fod yr adran yn ceisio bod yn gyfrifol a chyfrannu at y cyllidebau arbedion. Mynegwyd fod cost lleoliadau preswyl yn uchel ac felly mae'r lefel gorwariant yn llawer yn uwch, mynegwyd fod trafodaethau yn cael ei gynnal yn rhanbarthol er mwyn edrych ar gost.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod gorwariant o fewn yr Adran Blant yn broblem genedlaethol ond mynegwyd fod pryderon yn codi am nad oes unrhyw oleuni ariannol. Holwyd beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud am y gorwariant cenedlaethol yn y maes. Mynegwyd fod y Gweinidog dros Lywodraeth Leol newydd yn dymuno cael deialog agored ac i wella'r berthynas rhwng y Llywodraeth a'r Awdurdodau Lleol. Pwysleisiwyd fod angen cyfleu darlun clir o'r sefyllfa a sicrhau ei fod yn destun trafodaeth genedlaethol.
- Pwysleisiwyd fod yr adran er yn holl ddadansoddi, yn parhau i fethu rhagweld yr achosion a fydd yn codi o fewn y maes, ychwanegwyd fod yr adran nid yn unig yn edrych o fewn y Cyngor ond ar y sefyllfa tu hwnt i'r sir.
- Mynegwyd fod yr adolygiad Cenedlaethol yn amlygu fod y gwasanaeth yn gweithio yn effeithiol dros y plant, ond amlygwyd fod y broblem gyllidol yn un sydd angen ei drafod. Ychwanegwyd fod gorwariant i'w weld ym mhob gwasanaeth o fewn yr adran a nodwyd fod angen gofyn i'r Prif Weithredwr; y Pennaeth Cyllid a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol gyfarfod gyda'r Aelod Cabinet a'r Adran i weld pa feysydd y dylid eu blaenoriaethu o ran sylw ariannol i osgoi ymdrech gwastraffus ar faterion na ellir gwneud dim ynglŷn â hwy.

## **8. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS ADDYSG**

Cyflwynwyd gan Cyng. Gareth Thomas

### **PENDERFYNIAD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad

### **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan dynnu sylw at rai prosiectau yn y Cynllun Strategol. Nodwyd fod Egwyddorion Addysg bellach wedi eu mabwysiadu gan y Cabinet a byddant yn cael eu hystyried wrth ymateb i unrhyw gyfleoedd i'r dyfodol. Mynegwyd fod yr adran yn edrych ymlaen at gyd-weithio a GwE er mwyn trefnu hyfforddiant perthnasol ar gyfer cryfhau Arweinyddiaeth o fewn ysgolion.

Mynegwyd wrth edrych ar raglen Ysgolion Unfed Ganrif ar Hugain fod y mwyafrif

ohonno i'w gweld, ar hyn o bryd, yn Nalgylch Bangor. Nodwyd fod gwaith adeiladu wedi cychwyn ar Ysgol y Garnedd a thrafodaethau yn parhau gyda chynlluniau Ysgol y Faenol. Wrth edrych ar Ddalgyllch y Bala, mynegwyd fod Pennaeth bellach wedi ei phenodi ac y bydd yn mynd ati i benodi'r staff. Mynegwyd fod yr adeilad wedi ei ddefnyddio fel gofod cymdeithasol a bod y noswaith wedi bod yn llwyddiannus.

Nodwyd fod gwaith o Drawsnewid y Ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn mynd rhagddi. Ategwyd fod gwedd 1 o'r gwaith trawsnewid wedi ei gwblhau ond fod angen mwy o sylw ar gyfer Gwedd 2 sydd yn ymwneud a'r ddeddf newydd a phriodoli a chreu trefniadau newydd i brosesau gwaith ar draws yr ysgolion.

Mynegwyd nad oes modd cymharu canlyniadau eleni cymaint â'r blynyddoedd sydd wedi mynd heibio o ganlyniad i'r addasiadau i'r polisi cenedlaethol. Trafodwyd fod canlyniad TGAU Saesneg wedi gostwng eleni o ganlyniad i gynnydd sylweddol yn ffiniau'r graddau. Mynegwyd fod Cymwysterau Cymru wedi cyhoeddi adolygiad hynod dechnegol i gyfiawnhau eu prosesau, ategwyd fod y swyddogion a'r Aelod Cabinet o'r farn nad yw'r cyfiawnhad yn ddigonol. Esboniwyd fod trafodaethau yn parhau.

Trafodwyd y sefyllfa ariannol gan dynnu sylw at Orwariant Cludiant. Mynegwyd y prif resymau a oedd yn cynnwys

- £149,000 o ganlyniad i gytundebau newydd yn sgil agos Ysgol Hafod Lon
- £125,000 o ganlyniad i gytundebau newydd yn y maes cludiant
- £73,000 o ganlyniad i gynnydd yn unedau ABC Dolgellau a Cymerau gan fod dwy uned ar agor 4 diwrnod yr wythnos, tra bod y ddarpariaeth flaenorol ar agor 5 diwrnod yr wythnos.
- £69,000 o ganlyniad effaith ail dendro dros yr haf
- £69,000 o ganlyniad i gytundeb newydd prif lif.

Ychwanegwyd nad oes un plentyn yn cael ei gludo heb yr hawl angenrheidiol. Mynegwyd for yr adran yn gweithio gyda'r Adran Amgylchedd a bydd adroddiad pellach i'r Cabinet yn dilyn.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Trafodwyd y gorwariant yn y gwasanaeth cludiant gan nodi fod nifer o resymau dros y gorwariant. Nodwyd mai beth sydd yn cael ei amlygu yw fod angen edrych ar y broses ac i ddysgu gwersi cyn symud ymlaen.

## **9. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS DAI, DIWYLLIANT A HAMDDEN**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Craig ab Iago

### **PENDERFYNIAD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

### **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adran yn gwneud gwaith da a chyffroes. Tynnwyd sylw at y gwasanaeth Llyfrgelloedd Gwynedd gan nodi fod 2,422 o blant wedi cymryd rhan yn Sialens Darllen Haf, a bod 46,851 o lyfrau plant wedi eu darllen dros gyfnod y sialens. Ychwanegwyd fod dros 1,000 o blant wedi mynychu gweithgareddau Hwyl Haf i Blant.

Mynegwyd fod strwythur newydd y Gwasanaeth Ieuencid yn ei le a bod y sefyllfa bellach yn llawer gwell ac yn bositif. Nodwyd fod y canlyniadau yn galonogol gyda 1,107 o bobl ifanc wedi derbyn cefnogaeth gan y gwasanaeth, gydag amrywiaeth o weithgareddau wedi ei gynnal. Pwysleisiwyd fod y strwythur newydd yn gweithio ac wedi llwyddo, ac mae hynny wedi digwydd o ganlyniad i gydweithio gyda Chynghorau Cymuned. Tynnwyd sylw at ardal dyffryn Nantlle, gan nodi fod darpariaeth dda wedi ei greu o dan arweiniad yr ieuencid.

Ychwanegwyd fod Cynllun Llysgenhadon Ifanc Gwynedd yn parhau i fod yn llwyddiannus gyda 255 o Lysgenhadon yn rhoi oriau o amser i wirfoddoli'r cynllun. Nodwyd fod 8 o'r Llysgenhadon wedi bod yng Nghaerdydd i'r Gynhadledd Genedlaethol, a bu i'r aelod o staff Hannah Hughes, ennill gwobr Swyddog Llysgenhadon Ifanc y Flwyddyn.

Nodwyd fod gwaith yn cael ei wneud ar Strategaeth Tai'r Cyngor, a fydd yn dangos y ffordd i'r gwasanaeth am y 5 mlynedd. Ychwanegwyd fod y strategaeth yn un arloesol. Adroddwyd fod cynnydd yn y galw ar y gwasanaeth digartrefedd, ond fod gwaith yn cael ei wneud i'w leihau. Ychwanegwyd fod Swyddog Ail Sefydlu wedi ei bennod a fydd yn bwynt cyswllt sydd yn darparu gwasanaeth i'r unigolion sydd angen Cymorth.

Mynegwyd ar gyfer y dyfodol y bydd y maes yn defnyddio'r drefn craffu yn fwy effeithiol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod llawer o gyfleoedd wedi bod i ieuencid yn dilyn ail strwythuro'r Gwasanaeth Ieuencid, a nodwyd fod y dystiolaeth yn dangos fod cyfleoedd i bobl ifanc a'i fod yn wasanaeth hyblyg.
- Nodwyd ers bod y cyfrannau bodlonrwydd cwsmer yn uchel nodwyd fod y nifer o ddiwrnodau calendr ar gymerwyd i roi grant cyfleusterau anabl yn parhau i fod yn uchel. Nodwyd fod hyn oherwydd fod ystod eang o ddatrysiadau eu hangen. Mynegwyd ar gyfer rhai achosion fod angen cais cynllunio i addasu tai ac eraill dim ond addasiadau o fewn y tŷ. Nodwyd yn sicr fod angen gweithio yn agos ar adran gynllunio a lleihau'r nifer dyddiau. Esboniwyd fod yr unigolion sydd yn derbyn addasiadau yn deallt pam yr oedi ac mae eglurhad clir yn cael ei gynnig ar hyd y daith.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2.40 y.h.

**CADEIRYDD**



## CABINET CYNGOR GWYNEDD



### Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

**Dyddiad y cyfarfod:** 19eg Chwefror 2019  
**Aelod Cabinet:** Y Cyngorydd Dyfrig Siencyn  
**Swyddog Cyswllt:** Dewi W. Jones  
**Rhif Ffôn Cyswllt:** 01286 679233  
**Teitl yr Eitem:** Adolygu Cynllun y Cyngor 2018-23

#### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1. Cymeradwyaeth y Cabinet i Gynllun y Cyngor 2018-23 (Adolygiad 2019/20) i'w gyflwyno i'r Cyngor ar y 7fed o Fawrth 2019.

#### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1. Er mwyn sicrhau fod cytundeb ar gynnwys y Cynllun, ei fod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r blaenoriaethau sydd wedi eu hadnabod cyn ei gyflwyno i'r Cyngor.

#### 3. CYFLWYNIAD

3.1. Mabwysiadwyd Cynllun y Cyngor gwreiddiol ar gyfer 2018-23 gan y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar yt 8fed o Fawrth 2018.

3.2. Pwrpas adolygu'r Cynllun oedd edrych ar lle rydym wedi cyrraedd ar ôl blwyddyn o weithredu'r Cynllun, yn ogystal â gwneud yn siwr ein bod yn parhau i wneud y pethau iawn.

3.3. Er mwyn adolygu'n iawn, roedd angen inni ystyried beth oedd wedi newid ers y llynedd, gan edrych ar y materion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a pholisi sydd yn dylanwadu ar y Cyngor ac sy'n debygol o ddylanwadu ar lesiant pobl Gwynedd i'r dyfodol.

3.4. Fel y fersiwn gyfredol mae Cynllun y Cyngor 2018-23 (Adolygiad 2019/20) yn cynnwys **Cynllun Cryno** a hefyd **Cynlluniau Adran** unigol. Ceir copi o'r Cynllun yn **Atodiad 1**.

3.5. Mae'r **Cynllun Cryno** yn cynnwys gweledigaeth y Cyngor ynghyd ag amcanion llesiant a blaenoriaethau gwella ar gyfer y cyfnod dan sylw. O dan bob blaenoriaeth gwella ceir crynodeb o'r hyn y bwriedir ei wneud.

3.6. Ceir disgrifiad o waith dydd i ddydd yr Adrannau o fewn y **Cynlluniau Adran**. Yn ogystal, ceir disgrifiad manylach o'r hyn y bwriedir ei wneud er mwyn ymateb i'r blaenoriaethau gwella.

- 3.7. Dylid nodi bod angen gwneud rhywfaint o waith pellach ar ddiwyg y Cynllun a bydd hyn wedi ei wneud erbyn i'r ddogfen gael ei chyflwyno i'r Cyngor Llawn ar y 7fed o Fawrth.

#### 4. YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

Nodir isod y materion sydd angen i aelodau'r Cabinet eu hystyried cyn cymeradwyo'r Cynllun:

- 4.1. Mae'r prosiectau canlynol unai wedi eu cwblhau neu wedi trosglwyddo i fod yn rhan o waith dydd i ddydd yr Adrannau perthnasol yn ystod 2018/19 :

- **Trawsnewid y gyfundrefn ysgolion** – Adran Addysg
- **Rhiantu Corfforaethol** – Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd
- **Gwireddu Arbedion** – Adran Cefnogaeth Gorfforaethol/Cyllid

- 4.2. Mae'r prosiectau canlynol wedi eu hychwanegu:

##### **Blaenoriaeth Gwella 1**

- **Hybu Canol Tref** – Adran Economi a Chymuned
- **Cynllun Prentisiaethau** – Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

##### **Blaenoriaeth Gwella 2**

- **Darpariaeth Ôl-16** - Adran Addysg
- **Dalgylch Trefferthyr** - Adran Addysg

- 4.3. Yn ogystal, mae'r prosiectau canlynol wedi newid:

##### **Blaenoriaeth Gwella 3**

- **Trechu tlodi** – bydd y pwyslais yn newid i ganolbwyntio ar y maes ataliol a'r gefnogaeth a gynigir gyda'r teitl yn newid i **Cefnogi Llesiant Pobl** – Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd
- **Lleihau'r Bwlch Cyflog Rhwng Merched a Dynion** – teitl wedi newid i **Merched mewn Arweinyddiaeth** – Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

##### **Blaenoriaeth Gwella 4**

- **Tai Addas a Fforddiadwy ac Adnabod a Hyrwyddo Cynlluniau a Mentrau Tai** – gwaith yn parhau fel rhan o brosiect **Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd** – Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

#### 4.4. Adnoddau

Mae angen adnoddau ychwanegol er mwyn cyflawni'r prosiectau a nodir o dan nifer o'r blaenoriaethau gwella o fewn y cynllun. Heb yr adnodd mae'n bosibl na fydd modd i ni gyflawni'r hyn a nodir ym mhob achos.

Ar hyn o bryd cynigir bod yr holl brosiectau yn cael eu cymeradwyo fel rhan o'r cynllun, yn amodol ar gytundeb gan y Cabinet i ariannu prosiectau penodol wedi iddynt ystyried pob achos busnes perthnasol. Mae penderfyniadau i ariannu wedi digwydd eisoes, yn rhannol neu yn llawn ar gyfer rhai prosiectau, a disgwylir i hyn barhau wrth i brosiectau aeddfedu.



#### 4.5. **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)(2015)**

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae angen i gyrff cyhoeddus gyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y byddant yn gwella llesiant.

Bu i ni ymgynghori gyda'r Aelodau Etholedig a'r cyhoedd ynghylch y materion sy'n effeithio ar eu llesiant fel rhan o'r broses o ddatblygu'r cynllun cyfredol gan hefyd ddadansoddi canlyniadau Aseiad Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn.

Gan fod y dystiolaeth a ddefnyddiwyd i lunio'r amcanion llesiant ar gyfer 2018/19 yn parhau i fod yn berthnasol awgrymir bod yr amcanion hynny yn parhau ar gyfer 2019/20. Ceir rhestr o'r amcanion llesiant yn y Datganiad Llesiant ar ddiwedd y Cynllun.

#### 4.6. **Deddf Cydraddoldeb 2010**

Mae gofyn statudol i baratoi ac ystyried canfyddiadau aseiad o effaith o safbwynt cydraddoldeb wrth baratoi'r cynllun yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 fel y gweithredir yng Nghymru. Atodir yr aseiad yn **Atodiad 2**.

Nid yw'r aseiad ar y Cynllun yn ei gyfanrwydd yn canfod unrhyw effaith fyddai'n cyfiawnhau gwyro oddi wrth yr argymhelliad a rhagwelir elfennau fyddai ag effaith positif. Bydd aseiad effaith Cydraddoldeb llawn yn cael ei wneud ar bob cynllun unigol fydd yn deillio o'r blaenoriaethau gwella.

### 5. **CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

- 5.1. O gymeradwyo'r cynllun, bwriedir ei gyflwyno i'w fabwysiadu yng nghyfarfod llawn nesaf y Cyngor ar y 7fed o Fawrth 2019.

#### **Barn y Swyddogion Statudol:**

##### **i. Y Swyddog Monitro:**

O fewn Cynllun y Cyngor mae agweddau statudol sydd yn cael eu cyfarch, yn benodol felly ynglŷn ag Amcanion Gwella ( Mesur Llywodraeth Leol ( Cymru) 2009) ag Amcanion Llesiant a osodir yn unol â'r gofyn yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol( Cymru ) 2015. Drwy adolygu'r Cynllun yn flynyddol mae'r Cyngor yn cyfarch y gofynion adolygu a gosod blynyddol sydd yn berthnasol i'r rhain. Rwy'n cefnogi'r argymhelliad o safbwynt priodoldeb

##### **ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Mae Cynllun y Cyngor yn ddogfen allweddol, sy'n gosod allan yr hyn y mae Cyngor Gwynedd am anelu i'w wneud dros y pedair blynedd nesaf.

Mae Cronfa Cynllun y Cyngor yn parhau, er mwyn ariannu blaenoriaethau'r Cynllun, ond mae cyfran o'r gronfa yma eisoes wedi cael ei ymrwymo. Mae tebygolrwydd y bydd gofynion adnoddau'r holl flaenoriaethau gwella sydd yn y Cynllun yn fwy na'r arian fydd ar gael iddynt, tra mae priodoldeb ariannol yn golygu y bydd rhaid sicrhau bod ffynhonnell ariannu wedi cael ei adnabod ar gyfer unrhyw ymrwymiad i wario.

Felly, fel mae Rhan 4.4 o'r adroddiad yn nodi, bydd raid i'r Cabinet ystyried pob achos busnes yn unigol cyn cytuno i'w ariannu. Byddaf yn diweddarau'r Cabinet ar sefyllfa ddiweddaraf y Gronfa ar yr achlysuron hyn.

**Atodiadau**

**Atodiad 1** – Cynllun y Cyngor 2018-23 (Adolygiad 2019-20)

**Atodiad 2** – Asesiad Cydraddoldeb



# Cynllun Cyngor Gwynedd 2018 - 2023

*Adolygiad 2019/20*





# Cynnwys



	Tudalen
<b>Rhagair Arweinydd y Cyngor</b>	<b>3</b>
<b>Cynllun Cryno</b>	<b>4</b>
<b>Atodiad 1 – Cynlluniau Adrannol</b>	<b>21</b>
<b>Addysg</b>	<b>23</b>
<b>Oedolion, Iechyd a Llesiant</b>	<b>31</b>
<b>Priffyrdd a Bwrdeistrefol</b>	<b>41</b>
<b>Plant a Chefnogi Teuluoedd</b>	<b>47</b>
<b>Amgylchedd</b>	<b>55</b>
<b>Economi a Chymuned</b>	<b>65</b>
<b>Ymgynghoriaeth Gwynedd</b>	<b>77</b>
<b>Cefnogaeth Gorfforaethol</b>	<b>82</b>
<b>Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)</b>	<b>94</b>
<b>Gwasanaethau Cyfreithiol</b>	<b>100</b>
<b>Gwybodaeth Ariannol</b>	<b>102</b>
<b>Atodiad 2 – Datganiad Llesiant Cyngor Gwynedd</b>	<b>104</b>

Os oes arnoch angen y ddogfen hon mewn iaith neu fformat arall ffoniwch 01766 771000 neu anfonwch e-bost i [cydraddoldeb@gwynedd.llyw.cymru](mailto:cydraddoldeb@gwynedd.llyw.cymru)

Os oes arnoch angen mwy o wybodaeth am y Cynllun hwn cysylltwch â Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor drwy ffonio 01766 771000  
Ymweld â'r wefan – [www.gwynedd.llyw.cymru/CynllunYCyngor](http://www.gwynedd.llyw.cymru/CynllunYCyngor)  
Neu anfonwch e-bost i [cynlluncyngor@gwynedd.llyw.cymru](mailto:cynlluncyngor@gwynedd.llyw.cymru)

Graffeg “designed by Freepik”

## RHAGAIR I GYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023 – ADOLYGIAD 2019/20



Braint yw cael cyflwyno Cynllun Cyngor Gwynedd 2018 – 2023 sydd wedi ei adolygu a'i addasu i adlewyrchu'r hyn a gyflawnwyd dros y flwyddyn diwethaf, ac i ychwanegu rhai prosiectau newydd sydd ar y gweill.

Mae ei ddiwyg yn glir ac yn rhwydd i'w ddarllen a'i ddeall, a bydd yn sail i'n gwaith a'n hawydd i wella bywydau dinasyddion y sir.

Yng Ngwynedd ein huchelgais yw i gyflawni drwy fod yn arloesol ac yn effeithiol yn ein gwaith i ddarparu gwasanaethau hanfodol i bobl Gwynedd. Yn ganolog i hyn rydym yn benderfynol o drawsnewid ein ffyrdd o weithio a chydweithio gyda phartneriaid ar sawl lefel. Gwneir hyn er gwaethaf gwasgfa ariannol Llywodraeth y Deyrnas Unedig a setliad ariannol hynod siomedig gan Lywodraeth Cymru, sy'n dangos diffyg dealltwriaeth a diffyg parch at waith

llywodraeth leol. Eto fyth bu raid i ni chwilio am arbedion sylweddol ac fe wnaed pob ymdrech ac fe lwyddwyd i amddiffyn y gwasanaethau hynny sydd yn bwysig i bobl Gwynedd.

Mae'r Cynllun wedi ei baratoi yn dilyn ymgynghoriadau gyda'n cynghorwyr a gyda'r cyhoedd, ond croesawaf unrhyw sylw neu awgrym i wella ar ei gynnwys.

Mae'r rhan gyntaf, y Cynllun Cryno, yn ddatganiad o brif flaenoriaethau'r Cyngor gan adnabod y meysydd lle y mae angen newid ac ymdrech benodol i weithredu. Eto pwysleisiaf mai Cynllun i osod cyfeiriad i weithredu yw hwn nid rhestr o ddyheadau yn unig. Er hynny rhaid rhybuddio y gallai'r wasgfa ariannol gyfyngu ar ein gallu i wireddu rhai o'n cynlluniau.

Yn yr ail ran fe fanylir ar wasanaethau holl adrannau'r Cyngor yn y Cynlluniau Adrannol. Wrth eu darllen, mae'n werth adlewyrchu ar yr holl feysydd y mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau a phwysigrwydd rheiny i'n cymdeithas.

Mae ein hymrwymiad i arwain ac i fod ar flaen y gad wrth hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ym mhob man ac ar bob achlysur yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i ni. Mae hynny'n gydnaws ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a byddwn yn cydweithio a'n partneriaid ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn i weithredu ein cynlluniau llesiant.

Mae ein huchelgais dros bobl Gwynedd yn glir ac yn gadarn. Fodd bynnag, mae ansicrwydd mawr yn ein hwynebu dros y flwyddyn nesaf hon yn wyneb yr anrhefn yn San Steffan a'r effeithiau difrifol a allai hynny ei olygu i'n dinasyddion yma.

Er hyn, daliwn ati yma i weithredu ein Cynllun ac i warchod buddiannau ein pobl a'n cymunedau yma yng Ngwynedd.



## ADOLYGU'R CYNLLUN

Cafodd Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 ei fabwysiadu gan y Cyngor ym mis Mawrth 2018. Pwrpas y Cynllun yw rhannu uchelgais y Cyngor o weld pob cymuned yng Ngwynedd yn ffynnu, gan ddweud pa waith y byddwn yn ei flaenoriaethu er mwyn gwireddu'r uchelgais honno.

Rydym wedi disgrifio'r prosiectau y byddwn am ganolbwyntio arnynt er mwyn gwneud y gwahaniaeth i gymunedau Gwynedd yn rhan gyntaf y Cynllun, a'r rhain yw ein Blaenoriaethau Gwella. Mae ail ran y Cynllun, sef y Cynlluniau Adran, yn rhoi mwy o gig ar asgwrn y Blaenoriaethau Gwella yn ogystal â disgrifio sut mae gweddill ein gwaith dydd i ddydd yn cyfrannu at wireddu'r uchelgais.

Bu i ni adolygu cynnwys y Cynllun dros y misoedd diwethaf er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn parhau i wneud y pethau sy'n bwysig i bobl Gwynedd gan edrych ar y materion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a pholisi sy'n dylanwadu ar y Cyngor ac sy'n debygol o ddylanwadu ar bobl Gwynedd i'r dyfodol.

Rydym fel Cyngor yn adolygu ein gwaith yn gyson er mwyn sicrhau ein bod ar y trywydd cywir. Mae Blaenoriaethau Gwella'r Cynllun hwn, ynghyd â gweddill gwaith dydd i ddydd y Cyngor wedi bod yn derbyn sylw yn Adroddiadau Herio Perfformiad Aelodau Cabinet sy'n cael eu trafod mewn cyfarfodydd rheolaidd o'r Cabinet. Os oes angen gwneud mwy, neu lai, neu newid unrhyw brosiect, yna byddwn yn gwneud hynny.

Bydd y fersiwn hon o'r Cynllun, Adolygiad 2019/20, yn disodli'r fersiwn wreiddiol a cheir rhestr isod o'r prif addasiadau a wnaed i'r Cynllun yn dilyn yr adolygiad:

Cwblhawyd y prosiectau canlynol neu maent wedi trosglwyddo i fod yn rhan o waith dydd i ddydd yn ystod 2018/19 :

- **Trawsnewid y gyfundrefn ysgolion**
- **Rhiantu Corfforaethol**

Mae'r prosiectau canlynol wedi eu hychwanegu:

- **Darpariaeth Ôl-16**
- **Dalgylch Treferythyr**
- **Hybu Canol Tref**
- **Cynllun Prentisiaethau**

Yn ogystal, mae'r prosiectau canlynol wedi newid:

- **Tai Addas a Fforddiadwy ac Adnabod a Hyrwyddo Cynlluniau a Mentrau Tai** – gwaith yn parhau fel rhan o brosiect **Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd**
- **Trechu tldi** – bydd y pwyslais yn newid i ganolbwyntio ar y maes ataliol a'r gefnogaeth a gynigir gyda'r teitl yn newid i **Cefnogi Llesiant Pobl**
- **Lleihau'r Bwlch Cyflog Rhwng Merched a Dynion** – teitl wedi newid i **Merched mewn Arweinyddiaeth**

Fel y nodwyd eisoes, mae sefyllfa ariannol fregus Cymru a Phrydain yn gosod cryn her i ni fel Cyngor wrth i ni gynllunio ein gwasanaethau i'r dyfodol. Mae toriadau i'n cyllideb yn golygu bod parhau i ddarparu nifer o wasanaethau yn anodd tu hwnt. Rhaid, felly, bod yn greadigol ac ystyried pob ffordd posib o ddarparu'r gwasanaethau y mae pobl Gwynedd yn eu haeddu. Rydym yn datgan yn glir fodd bynnag y bydd unrhyw newid yn seiliedig ar un llinyn mesur yn unig – yr angen i weld pob cymuned yng Ngwynedd yn ffynnu ac i wella lles ein trigolion i'r dyfodol.

Ers i'r Cynllun gwreiddiol gael ei fabwysiadu mae Bwrdd Gwasanaethau Gwynedd a Môn wedi mabwysiadu eu Cynllun Llesiant yn ystod gwanwyn 2018. Mae'r amcanion llesiant a'r blaenoriaethau a amlygir o fewn y Cynllun Llesiant yn gyson â'r rhai sydd o fewn Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023, heblaw am un, sef effaith newid hinsawdd.

Mae Cynllun y Cyngor yn canolbwyntio ar y gwasanaethau dydd i ddydd a'r materion y mae'r Cyngor wedi eu blaenoriaethu tra bydd y Cynllun Llesiant yn canolbwyntio ar y meysydd lle y teimlir y gall sefydliadau cyhoeddus wneud mwy o wahaniaeth i lesiant pobl yr ardal trwy weithio ar y cyd.

**Ein uchelgais yw gweld pob cymuned yng Ngwynedd yn ffynnu, a'n bod fel pobl yn...**

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud

Ennill cyflog digonol i ni fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd

Cael byw mewn cartrefi o ansawdd a fewn ein cymunedau

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg

Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib

Cael manteisio ar harddwch naturiol y sir

**Byddwn yn gwneud hyn drwy arloesi a bod ar flaen y gad ym mhopeth yr ydym yn ei wneud, gan ganolbwyntio ar...**

Greua economi hyfyw a ffyniannus

Roi cyfle i bob disgybl gael y cyfle i gyflawni ei botensial

Leihau anghydraddoldeb o fewn y sir

Sicrhau mynediad at gartref addas

Helpu pobl i fyw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg

Helpu pobl sydd angen cefnogaeth i fyw eu bywydau fel y dymunant

Roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud

**...fydd yn cael ei gynnal gan holl waith dydd i ddydd Adrannau'r Cyngor.**



Sylfaen caniatáu i bobl Gwynedd ffynnu yw sicrhau fod yna swyddi addas ar gael yn y sir sy'n talu cyflogau sy'n caniatáu iddynt gynnal eu hunain a'u teuluoedd.

### Y pethau yr ydym eisiau eu gwneud yn well :



#### Blaenoriaeth Gwella I



**Creu economi hyfyw a ffyniannus.**

### Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

#### 1. Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru



#### Adran Economi a Chymuned

Ar ddiwedd 2017 bu i bartneriaeth sy'n cynnwys chwe chyngor gogledd Cymru, partneriaid busnes, colegau a phrifysgolion lansio Cais Twf Gogledd Cymru yn ffurfiol. Nod y cais yw denu buddsoddiad busnes i Ogledd Cymru, gan helpu cwmnïau lleol i fanteisio ar gyfleoedd y gadwyn gyflenwi, ac annog sgiliau cysylltiedig â gwaith yn y rhanbarth. Gallai dros 5,000 o swyddi gael eu creu, yn ogystal â busnesau a thai newydd (gan gynnwys tai fforddiadwy).

Rydym fel Cyngor yn aelod gweithgar o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru sy'n arwain ar **Weledigaeth Twf Gogledd Cymru**. I'r dyfodol, byddwn yn parhau â'n gwaith gyda'r Bwrdd er mwyn sicrhau bod Gwynedd yn elwa'n deg o fuddsoddiad a ddaw i ranbarth Gogledd Cymru, a'n bod yn cydweithio â'n partneriaid er mwyn gwneud y gorau o'r buddsoddiad hwnnw.

#### 2. Cadw'r Budd yn Lleol



#### Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am brynu nifer o nwyddau a gwasanaethau ac yn awyddus i geisio sicrhau fod busnesau lleol yn gallu cystadlu ac ennill y cytundebau hyn er mwyn sicrhau fod cymaint o wariant y Cyngor ag sy'n bosibl yn aros yn lleol. Yn 2017/2018, fe lwyddwyd i gynyddu'r canran o wariant lleol i 62% o'i gymharu â 58% y flwyddyn flaenorol. I'r dyfodol byddwn yn parhau â'r gwaith o godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth busnesau am drefn caffael y Cyngor gan ddarganfod ffyrdd pellach i'w cefnogi i gyflawni'r gwasanaethau rydym eu hangen.

### 3. Creu Swyddi Gwerth Uchel (Cyflog £26,500 neu fwy)



Adran Economi a  
Chymuned

Mae cyflogau isel yn nodwedd amlwg yng Ngwynedd, gyda thâl wythnosol trigolion y sir (£478) ymysg yr isaf yng Nghymru, a thâl isel ar ei waethaf yn ein cymunedau gwledig (£418), sef yr ail isaf yn y Deyrnas Unedig.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, un o brif flaenoriaethau'r Cyngor yw gweithio gyda phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat i greu mwy o **swyddi gwerth uchel**. I'r dyfodol, byddwn yn parhau i geisio creu'r amodau i ddenu buddsoddiad i mewn i safleoedd strategol megis Atomfa Trawsfynydd, Maes Awyr Llanbedr a Pharc Bryn Cegin/Parc Menai. Rydym yn targedu sectorau sy'n talu'n dda trwy greu amgylchedd sy'n cefnogi busnesau newydd a thyfu busnesau presennol, a sicrhau fod y gweithlu lleol yn gallu manteisio ar y cyfleoedd.

### 4. Arloesi Gwynedd Wledig



Adran Economi a  
Chymuned

Mae natur ein heconomi wledig yn golygu mai un person yn unig sy'n gweithio yn 78% o fusnesau Gwynedd, ac mae gormod o waith o fewn sectorau nad ydynt yn talu'n dda. Mae hyn yn arwain at fgythiadau o ran cynaladwyedd ein cymunedau gwledig.

Mae sicrhau cysylltedd ddigidol i'n cymunedau gwledig a bod gan y gweithlu a busnesau gwledig y sgiliau i fanteisio arnynt yn fater sydd angen ymateb iddo os ydym am sicrhau cymunedau llewyrchus.

Rydym eisoes wedi denu £4miliwn o arian Rhaglen Datblygu Gwledig i Wynedd i ddatblygu dulliau arloesol o weithio, gan dreialu nifer o syniadau newydd cyffrous. Gallwn symud ymlaen bellach i ddatblygu ein prosiectau fydd yn annog arloesedd yn y sectorau traddodiadol (megis amaeth a thwristiaeth), a gwella isadeiledd digidol cymunedau gwledig.

Byddwn yn parhau i gydweithio â Grŵp Llandrillo Menai a'r sector breifat er mwyn sefydlu hwb arloesi gwledig yn Glynllifon fydd yn arwain ar y gwaith. Byddwn hefyd yn cydweithio gyda Siroedd Môn, Ceredigion a Sir Gâr i ddysgu sut ellid datblygu'r economi wledig a thrwy hynny gynnal yr iaith Gymraeg. Rydym hefyd yn dylanwadu a lobiö yn rhanbarthol ac yn genedlaethol ar ran anghenion Gwynedd wledig.

### 5. Cynyddu Budd Digwyddiadau Mawrion



Adran Economi a  
Chymuned

Mae digwyddiadau cyhoeddus yn cynnig cyfle masnachol i fusnesau lleol gyflenwi neu ddarparu gwasanaethau. Mae cynnal **digwyddiadau mawrion** yn fodd codi proffil Gwynedd a'i marchnata fel lle cyffrous a byrlymus i fyw, i ymweld, ac yn leoliad delfrydol i fusnesau fuddsoddi.

I'r dyfodol, byddwn yn parhau i weithio i sicrhau bod busnesau lleol yn elwa o ddigwyddiadau proffil uchel, a arweiniodd at fuddsoddiad o £5.3m yng Ngwynedd yn 2017/18. Bydd hyn yn arwain at gyfleoedd i hyrwyddo'r sir, cynnydd yn nifer yr ymwelwyr, a chynnydd yn nifer y cyfleoedd i gwmnïau lleol weithio neu gynnig gwasanaethau i'r digwyddiadau.

## 6. Hybu Canol Tref



**Adran Economi a  
Chymuned**

Mae **canol trefi** bywiog yn gallu cyfrannu'n sylweddol i lewyrch economaidd a chymdeithasol ardaloedd lleol.

Mae "stryd fawr" nifer o drefi Gwynedd angen cefnogaeth i sicrhau eu bod yn ffynnu er mwyn cynnal a chreu gwaith a darparu'r ystod o nwyddau a gwasanaethau sydd eu hangen ar drigolion ac ymwelwyr. Byddwn, felly, yn parhau i weithio fel Cyngor cyfan i edrych sut allwn ni gefnogi a hwyluso adfywio canol trefi er mwyn iddynt gynnal ystod o wasanaethau i drigolion lleol ac ymwelwyr o fewn amgylchedd fywiog â naws Cymreig.

## 7. Rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar waith



**Adran Economi a  
Chymuned**

Mae nifer o gymunedau mwyaf anghenus Gwynedd yn gyfoethog o ran treftadaeth ac yn gartref i Safleoedd Treftadaeth y Byd presennol neu arfaethedig, megis y cyn ardaloedd llechi traddodiadol.

Yn ystod 2018/19 dewiswyd yr ardaloedd llechi gan Lywodraeth San Steffan fel enwebiad nesaf y DU ar gyfer dynodiad Safle Treftadaeth y Byd UNESCO. Hefyd, sicrhawyd dros £60,000 o arian loteri i gefnogi cymunedau i elwa o'r dynodiad.

I'r dyfodol byddwn yn parhau i weithio i sicrhau statws Safle Treftadaeth y Byd i'r diwydiant llechi yng Ngwynedd. Bydd y gwaith yma'n cynnwys rhaglen o weithgareddau adfywio yn yr ardaloedd hyn fydd yn arwain at gynnydd ym mherchnogaeth trigolion o'u treftadaeth, gwell gwedd a golwg i gymunedau ac yn ansawdd y profiad i dwristiaid.

## 8. Elwa o Dwristiaeth



**Adran Economi a  
Chymuned**

Er mai Twristiaeth yw un o brif sectorau economaidd Gwynedd mae ymwelwyr yn ychwanegu'n sylweddol i'r pwysau ar isadeiledd cyrchfannau'r sir; cost sy'n cael ei ysgwyddo'n bennaf gan drigolion Gwynedd.

I'r dyfodol, byddwn yn cydweithio gyda'r diwydiant i ystyried y posibilrwydd o gael ymwelwyr i gyfrannu'n ariannol at gynnal a gwella cyrchfannau Gwynedd a chodi safonau'r sector twristiaeth. Drwy wneud hyn, byddwn yn gwella darpariaeth cyrchfannau'r sir ynghyd â chynyddu safon darpariaeth y diwydiant i ymwelwyr.

## 9. Busnesau'n Cael Cymorth i Ffynnu



### Adran Economi a Chymuned

Mae busnesau'r sir yn ymwneud â nifer o Adrannau'r Cyngor neu yn derbyn gwasanaeth ganddynt, gan gynnwys trethi, cynllunio, safonau masnach, rheolaeth adeiladu a chaffael. Drwy fabwysiadu dull gweithredu sy'n rhoi anghenion busnesau yn ganolog, ac yn ei gwneud hi'n haws i fusnesau gysylltu a chydweithio â'r Cyngor, gellid cefnogi ac annog busnesau i sefydlu a thyfu yn y sir. Yn dilyn gwaith ymchwil rydym wedi adnabod enghreifftiau o ymarfer da gan gynnwys rhaglen "Gwell Busnes i Bawb" gan Gyngor Sir Dinbych.

I'r dyfodol, byddwn yn parhau gyda'r gwaith o adolygu sut mae gwasanaethau'r Cyngor i fusnesau yn cael eu darparu er mwyn ystyried a oes lle i wella ac yn gweithredu ar unrhyw wersi ddaw i'r amlwg i sicrhau fod busnesau yn cael eu cynorthwyo i ffynnu. Byddwn hefyd yn cefnogi datblygu Rhwydwaith Busnes Gogledd Cymru gan gydweithio â phartneriaid yn y sector cyhoeddus a phreifat ar draws y rhanbarth.

## 10. Cynllun Prentisiaethau



### Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu gweledigaeth genedlaethol ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion datblygu sgiliau hanfodol yng Nghymru a'r economi ehangach, adnabod y meysydd blaenoriaeth a sut y bydd prentisiaethau yn rhan annatod o wireddu hynny.

Mae'r Cyngor eisoes wedi adnabod meysydd addas ar gyfer sefydlu prentisiaethau ac wedi clustnodi cyllid er mwyn gwireddu'r cynlluniau hynny am y ddwy flynedd nesaf. Yn ystod 2019/20 byddwn yn sefydlu Cynllun Prentisiaethau fydd yn cyflogi o leiaf 20 prentis o'r newydd.

Os am fanteisio ar unrhyw gyfleoedd fydd yn codi, mae'n allweddol fod gan Wunedd gyfundrefn addysg gynaliadwy o ansawdd, sy'n rhoi'r sgiliau i'n trigolion fanteisio ar y cyfleoedd hynny.



## Blaenoriaeth Gwella 2



**Pob disgybl yn cael y cyfle i gyflawni ei potensial.**

**Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?**

### 1. **Dalgylch Bangor, Dalgylch y Berwyn, Dalgylch Trefferthyr, Ddarpariaeth Ôl-16**



**Adran Addysg**

Er mwyn i blant a phobl ifanc Gwynedd gael eu haddysgu yn yr amgylchedd dysgu gorau posib rydym yn cynllunio a gwireddu prosiectau arloesol i addasu ysgolion, neu adeiladu ysgolion newydd

Byddwn yn parhau, neu'n cychwyn gwaith i wella'r ddarpariaeth addysg a'i safonau yn **Nalgylch Bangor, Dalgylch y Berwyn a Dalgylch Trefferthyr**. Byddwn hefyd yn ystyried rhinweddau'r **Ddarpariaeth Ôl-16** presennol ar draws y sir er mwyn gweld sut y bydd yn gallu wynebu cyfleoedd a heriau'r dyfodol.

### 2. **Cryfhau Arweinyddiaeth**



**Adran Addysg**

Mae angen i ni **Gryfhau Arweinyddiaeth** yn ein hysgolion er mwyn creu yr amgylchiadau gorau i'n dysgwyr gael y profiad dysgu gorau posib. Byddwn yn datblygu cyfeiriad a chynlluniau clir ar gyfer pob haen o arweinyddiaeth fydd ei angen ar ein cyfundrefn addysg yng Ngwynedd nawr ac i'r dyfodol gan annog a hyrwyddo dysgu proffesiynol arweinwyr ar bob lefel o fewn ein hysgolion. Yn ogystal, byddwn yn adnabod a thargedu arweinwyr y dyfodol, gan sicrhau eu bod yn dilyn rhaglen briodol o ddysgu proffesiynol.

### 3. **Trawsnewid y Ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad**



**Adran Addysg**

Rydym wedi adnabod bod angen i ni **Drawsnewid y Ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad**, er mwyn sicrhau fod y plant a phobl ifanc sydd ei angen yn derbyn y gefnogaeth fwyaf addas i gyflawni eu potensial. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r gynhafiaeth yn y dosbarth a sut mae hyn yn cael ei drefnu, y ddarpariaeth cyn-ysgol, darpariaeth ôl-18 ac Ysgolion Arbennig.

Rhaid cydnabod hefyd, ar hyn o bryd, nad yw pob un yn ein cymdeithas yn cael y cyfleoedd i gyflawni eu potensial. Yn sicr, fel ym mhob sir yng Nghymru, mae yna anghydraddoldeb yn bodoli o fewn y sir ar wahanol lefelau, gyda'r anghydraddoldeb a grëir gan dlodi yn uchel o ran y niwed sy'n cael ei greu.

Mae'n amlwg fod tlodi hefyd yn gallu cael effaith andwyol sylweddol ar lesiant, ac yn arbennig felly y dyfodol a gynigir i blant. Tra bod gennym wasanaethau sy'n ceisio meirioli effeithiau tlodi, mae'n ddyletswydd arnom ystyried a oes mwy y gallwn ei wneud

Mae'n ddyletswydd arnom hefyd i gynnal gwasanaethau o safon ar gyfer edrych ar ôl y plant hynny sy'n cael eu hunain mewn sefyllfaoedd lle mae angen i'r Cyngor gymryd cyfrifoldeb amdanynt. Yn y pen draw, nid oes unrhyw un ohonynt eisiau bod yn y fath sefyllfa.



### Blaenoriaeth Gwella 3



#### Lleihau anghydraddoldeb o fewn y sir.

#### Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

#### 1. Pobl Gwynedd i Chwarae Rhan Lawn yn y Byd Gwaith



#### Adran Economi a Chymuned

Byddwn yn cynorthwyo mwy o **Bobl Gwynedd i Chwarae Rhan Lawn yn y Byd Gwaith** a all arwain at fuddion o ran iechyd, cyfleoedd bywyd plant a balchder mewn cymunedau, yn ogystal â chynyddu eu henillion. Mae bod y tu allan i'r byd gwaith a diweithdra yn uwch yn Arfon na'r cyfartaledd sirol, ond byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gyfres o weithgareddau fydd yn annog trigolion Gwynedd gyfan i mewn i fyd gwaith.

#### 2. Cefnogi Llesiant Pobl



#### Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

Pwrpas y prosiect yw sicrhau bod cefnogaeth ar gael i bobl i gyfarch eu hanghenion llesiant mewn ffordd hawdd, cydlynys ac sydd ar gael yn lleol.

Byddwn yn helpu pobl gyda materion amrywiol megis: anawsterau riantu a magu teulu, cael a chynnal cartref, cynnal perthnasau iach, delio gyda chamddefnyddio sylweddau ac alcohol, trais, troseddu ac effeithiau hynny, byw'n iach ac actif, incwm annigonol a diffyg gwaith, methu aros mewn addysg, diffyg cymwysterau a sgiliau sylfaenol, gofalu, heneiddio, unigrwydd a diffyg cysylltiadau cymdeithasol.

### 3. Strategaeth Cefnogi Teuluoedd



#### Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

Bydd cynnig cefnogaeth i rai teuluoedd cyn i faterion ddwysau yn hanfodol er mwyn eu helpu i ffynnu ac i leihau'r angen am wasanaethau mwy dwys. Rydym eisoes wedi mapio'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael i deuluoedd, ac i'r dyfodol byddwn yn parhau i ddatblygu'r **Strategaeth Cefnogi Teuluoedd** ar y cyd gyda'n partneriaid allweddol, megis y Bwrdd Iechyd, gwasanaethau'r trydydd sector, a chymunedau Gwynedd.

### 4. Merched mewn Arweinyddiaeth



#### Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Byddwn yn adolygu'r amodau a'r amgylchedd gwaith er mwyn sicrhau ein bod yn flaengar yn annog **Merched Mewn Arweinyddiaeth** ac yn adnabod a cheisio dileu unrhyw rwystrau all fod yn atal merched rhag cyrraedd swyddi arweiniol a rheolaethol o fewn y Cyngor.

Mae gan y maes Tai rôl allweddol i helpu'r Cyngor gyflawni ein huchelgais. Gwyddwn fod cael cartref sydd yn addas ac o safon yn arwain at well iechyd, cymunedau mwy gwydn a phoblogaeth sydd yn gallu cyfrannu yn llawn i gymdeithas. Mae'n bwysig ein bod yn datblygu cynigion tai amrywiol, arloesol, a gwyrdd, darparu tai y gall pobl fyw ynddynt trwy gydol euhoes yn ogystal â chynnig cefnogaeth gynnar i'r rhai sydd ei angen. Fel Awdurdod Lleol, byddwn yn ymyrryd i annog ystod o opsiynau cefnogaeth a llety er mwyn ymateb i anghenion y boblogaeth heddiw, ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Llaw yn law â hyn, rhaid sicrhau fod y camau a gymerir yn parchu diwylliant cymunedau'r sir.



## Blaenoriaeth Gwella 4



**Mynediad at gartref addas.**

**Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?**

### **I. Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd 2019-24**



**Adran Oedolion,  
Iechyd a Llesiant**

Byddwn yn gweithredu **Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd 2019-24** gan gymryd y camau i sicrhau bod pobl Gwynedd yn gallu canfod cartref addas, nad oes neb yn ddigartref, a bod anghenion iechyd a llesiant yn cael eu cyfarch. Byddwn hefyd yn sicrhau bod y cartrefi hyn yn gyfeillgar i'r amgylchedd ac ein bod yn cynnig gwasanaethau ataliol, di-dor ar lefel lleol.



Un nodwedd unigryw sydd gan Wynedd fel sir hefyd yw ei Chymreictod. Mae Cyngor Gwynedd ei hun wedi ymrwymo i weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond ni fydd hynny ynddo'i hun yn ddigonol os ydym am gadw natur unigryw'r sir yn fyw.



## Blaenoriaeth Gwella 5



**Byw bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg.**

**Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?**

### 1. Y Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus



**Adran Cefnogaeth  
Gorfforaethol**

Byddwn yn cydweithio â sefydliadau cyhoeddus eraill, drwy Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, i sicrhau ein bod yn arloesi yn narpariaeth **Y Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus** yn y sir. Byddwn hefyd yn annog pobl Gwynedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg wrth ymwneud â'r sefydliadau hynny.

### 2. Busnesau Gwynedd i Ddefnyddio'r Gymraeg



**Adran Cefnogaeth  
Gorfforaethol**

Byddwn yn annog **Busnesau Gwynedd i Ddefnyddio'r Gymraeg**, ac i weld y budd o gyfathrebu'n ddwyieithog wrth gynnig gwasanaeth. Byddwn yn ystyried sut orau all y Cyngor hyrwyddo hyn a sut fedrwn ni a sefydliadau eraill ddylanwadau fwyaf effeithiol ar ddefnydd busnesau a'u cwsmeriaid o'r Gymraeg.

### 3. Hybu Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor



**Adran Cefnogaeth  
Gorfforaethol**

Mae Cyngor Gwynedd wedi bod ar flaen y gad o ran sicrhau fod gwasanaethau i drigolion ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ein bod yn gweithredu'n fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n waith parhaus i **Hybu'r Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor**, a bydd pwyslais y cyfnod nesaf ar weithio gyda gwasanaethau rheng-flaen i ddatblygu sgiliau staff newydd a chyfredol er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gynnig pob agwedd ar ein gwasanaethau yn gwbl ddwyieithog.

#### 4. Strategaeth Iaith Uwchradd



Adran Addysg

Byddwn yn datblygu ar waith arloesol y Siarter Iaith i ysgolion cynradd drwy ymestyn y gefnogaeth i **Strategaeth Iaith Uwchradd**. Nod y strategaeth yw hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymysg pobl ifanc o fewn y cwricwlwm ac yn gymdeithasol. Bydd gan bob ysgol uwchradd gynllun gweithredu unigol ac unigryw fydd yn adlewyrchu cyd-destun ieithyddol yr ysgol a'r gymuned o'i hamgylch.

Nodwedd arall o Wynedd yw'r ffaith fod gennym ganran uwch o bobl hŷn yn byw yma nag mewn nifer o ardaloedd eraill yng Nghymru. Tra bod y Cyngor wedi bod yn dda iawn am ddarparu cefnogaeth i'r bobl hynny o bob oed sydd angen gofal, mae'r cynnydd yn niferoedd y bobl hŷn, y cyfyngiadau ariannol a thrafferthion darganfod gweithlu i fedru parhau i ddarparu'r gwasanaethau yma yn golygu bod yn rhaid i ni feddwl am atebion gwahanol.

Y gwir amdani yw bod nifer fawr o bobl hŷn am barhau i fyw eu bywydau fel y dymunant sydd yn aml yn golygu pethau gwahanol i wahanol unigolion. Mae angen i ni newid ein gwasanaethau i fod wedi eu teilwra yn agosach at wir anghenion y rhai hynny sydd angen ein cymorth.

Ein gweledigaeth yw bod ein gwasanaethau cymunedol yn cael eu trawsnewid i alluogi cymorth a chefnogaeth gynnar i bobl gael ei ddarparu yn eu cartrefi ac o fewn eu cymunedau eu hunain. Trwy'r dull yma fe welwn well canlyniadau i unigolion, a bydd y galw am dderbyniadau i'r ysbyty a darpariaeth gofal yn lleihau dros amser. Mae cynllun Llywodraeth Cymru 'Cymru Iachach' yn gosod gweledigaeth hirdymor ar gyfer system gyfan iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol, gan ganolbwyntio ar iechyd a llesiant ac atal salwch. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, mae'n rhaid i ni barhau i drawsnewid gwasanaethau gofal.



## Blaenoriaeth Gwella 6



**Helpu pobl sydd angen cefnogaeth i fyw eu bywydau fel y dymunant.**

### Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

#### 1. Ail-ddylunio ein Gwasanaethau Gofal



**Adran Oedolion,  
Iechyd a Llesiant**

Byddwn yn **Ail-ddylunio ein Gwasanaethau Gofal** ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd i sicrhau bod gan oedolion sy'n byw yng Ngwynedd fynediad hawdd ac uniongyrchol at wasanaethau sy'n bwysig iddynt.

Mae 5 Tîm Ardal wedi eu sefydlu ar draws y sir, gan ddod â gweithwyr a darparwyr gwasanaethau gofal ac iechyd at ei gilydd er mwyn cydweithio i ymateb i anghenion y boblogaeth leol. Hyd yma mae'r cydweithio hwn wedi bod yn galonogol iawn ac felly byddwn am barhau i drawsffurfio gwasanaethau cymunedol i alluogi mwy o ymatebion cynnar ac ataliol ar lefel lleol i'r dyfodol.

I'r dyfodol byddwn yn parhau i arbrofi hefo ffyrdd newydd o ddarparu pecynnau gofal cartref, ac yn edrych ar gydweithio a chydgyllunio yn y maes anabledau dysgu. Byddwn am weld bod trefniadau gadael yr ysbyty yn effeithiol ac yn cyd-fynd â beth sy'n bwysig i'r unigolyn. Byddwn hefyd yn parhau gyda gwaith i fuddsoddi yn ein cartrefi preswyl, a sicrhau gofal addas i unigolion mewn argyfwng yn y maes iechyd meddwl.

## 2. Gwydnwch Cymunedol



Adran Oedolion,  
Iechyd a Llesiant

Byddwn yn cydweithio efo cymunedau er mwyn cynorthwyo pobl i fyw yn annibynnol o fewn eu cymunedau cyn hired ag sy'n bosibl.

Mae gwaith yn mynd rhagddo er mwyn cynyddu'r opsiynau gofal i bobl o fewn eu cymunedau gan gysylltu'r rhai sydd angen cymorth gyda gwasanaethau, adeiladu ar gryfderau unigolion, adnabod bylchau sy'n bodoli a thrwy hynny hybu gweithgarwch cymunedol

I'r dyfodol byddwn yn parhau gyda'r gwaith hyn gan geisio gwella ein dealltwriaeth o anghenion ein poblogaeth ar lefel lleol a'r ffordd orau i ymateb i hynny.

## 3. Y Gweithlu a Recriwtio o fewn y Maes Gofal



Adran Oedolion,  
Iechyd a Llesiant

Mae recriwtio i'r maes Gofal yn heriol am amryw o resymau. Mae gennym weithlu effeithiol ac ymroddedig, ond mae'n rhaid i ni sicrhau fod gennym ddigon o weithwyr â'r sgiliau angenrheidiol er mwyn ymdopi gyda'r angen cynyddol sy'n debygol o godi yn y dyfodol.

Mae gwaith eisoes ar y gweill er mwyn ceisio deall beth yw'r broblem yng Ngwynedd o ran recriwtio yn y maes. Ar ôl cyhoeddi'r canfyddiadau, byddwn yn ystyried os oes angen gwneud rhywbeth yn wahanol neu yn ychwanegol. Dengys canfyddiadau cychwynnol yr ymchwil ein bod ar y trywydd cywir o ran ein hymdrechion i ail ddylunio model busnes Gofal Cartref.

Byddwn hefyd yn gweithio i godi proffil a statws gweithwyr gofal trwy hyrwyddo llwybrau gyrfaol yn y maes ac adolygu ein cynllun prentisiaethau o fewn y Cyngor, fel bod gyrfa o fewn gwaith gofal cymdeithasol yn ddewis gyrfa gadarnhaol.



## Blaenoriaeth Gwella 7



Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.

Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

### 1. Arfogi Unedau i roi "Ffordd Gwynedd" ar Waith



Adran Cefnogaeth  
Gorfforaethol

Ein cyfrifoldeb ni fel Cyngor yw sicrhau, wrth i ni ddarparu ein gwasanaethau, mai anghenion pobl Gwynedd sy'n llywio sut y byddwn yn cynnig y gwasanaeth hynny. Trwy wneud hyn fe ddylem osgoi unrhyw drefniadau gwaith diangen.

Byddwn yn adolygu ein trefniadau gwaith presennol gan herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac ystyried a oes lle i wella. Mae gwaith eisoes wedi ei wneud i hyfforddi penaethiaid, uwch reolwyr a rheolwyr yn egwyddorion Ffordd Gwynedd, ac mae nifer o adolygiadau gwasanaeth wedi eu cynnal neu ar waith.

Yn y dyfodol byddwn yn parhau i gynnal hyfforddiant i reolwyr newydd ac yn cefnogi gwasanaethau i gynnal adolygiadau er mwyn sicrhau fod pobl Gwynedd yn ganolog i'w gweithgareddau.

### 2. Datblygu Arweinyddiaeth



Adran Cefnogaeth  
Gorfforaethol

Byddwn yn **Datblygu Arweinyddiaeth** trwy fod yn flaengar yn arfogi a miniogi sgiliau arweinwyr ar draws y Cyngor er mwyn cyrraedd y nod o roi pobl Gwynedd yn ganolog. Mae holl Aelodau'r Cabinet wedi datblygu sgiliau arwain fel unigolion ac ar y cyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, tra bod y rhan helaeth o reolwyr y Cyngor wedi cwblhau rhaglen ddatblygu sy'n canolbwyntio ar ymddygiadau arwain.

Byddwn yn parhau i gynnig cyfleon datblygu i Aelodau a rheolwyr gyda'r ffocws o arwain pobl yn hytrach na rheoli pobl yn unig. Yn ogystal bydd y 'Rhwydwaith Rheolwyr' yn cael ei ailsefydlu er mwyn rhoi cyfle i reolwyr ar draws y Cyngor i rannu arfer da a derbyn hyfforddiant.

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Cyngor eisoes yn cyflawni amrediad eang o weithgareddau, sy'n ceisio sicrhau ein bod yn cyflawni'r weledigaeth sydd gennym. Ond nid da lle gellir gwell, rydym yn cydnabod fod yna enghreifftiau lle nad ydym yn edrych ar bethau drwy lygaid ein trigolion bob tro, ac mae angen sicrhau fod hynny'n digwydd ym mhobman o fewn y Cyngor.

Nid yw hynny yn golygu gwneud pob dim i bawb wrth gwrs, gan nad yw adnoddau yn caniatáu i ni wneud hynny. Mae'n golygu ein bod yn blaenoriaethu'r pethau hynny sydd bwysicaf i'n cymunedau, a sicrhau fod yr adnoddau prin sydd gennym yn cyfrannu at wneud yr hyn sydd bwysicaf i bobl Gwynedd (gan dderbyn y bydd y blaenoriaethu o reidrwydd yn golygu peidio â chyflawni dyheadau pawb).

Mae'r pwyso a mesur yma hefyd yn gorfod digwydd ar adeg pan fo'r arian sydd ar gael i wasanaethau yn lleihau'n sylweddol. Yn hynny o beth, bydd angen sicrhau fod yr arian yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r pethau pwysicaf.

Bydd Strategaeth Ariannol y Cyngor, a'r gyllideb, yn cael eu trafod gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2019. Y rhain fydd ein sylfaen ar gyfer medru ceisio cyflawni'r Blaenoriaethau Gwella uchod, wrth geisio dygymod hefyd gyda'r cynnydd parhaus yn y galw am ein gwasanaethau.

Mae'r wasgfa ariannol sy'n cael ei osod ar y Cyngor yn parhau, gyda lleihad pellach yn y grant yr ydym yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru yn 2019/20. Ar yr un pryd mae'r galwadau ychwanegol am wasanaethau a chwyddiant yn cynyddu ein costau o £13m. Os am barhau i fedru cyfarch y materion hynny sy'n bwysig i bobl Gwynedd bydd angen i ni ychwanegu at y £51m o arbedion yr ydym eisoes wedi gorfod eu darganfod dros yr 8 mlynedd diwethaf gan wireddu £5.5m o arbedion pellach. Hyd yn oed wedyn bydd angen i'r Dreth Gyngor gynyddu hefyd.

Yn anorfod, mae'r Strategaeth Ariannol yn mynd i fod yn ddibynnol ar y blaenoriaethau a nodir uchod.

Bydd y Strategaeth yn llawn i'w gweld ar safle we'r Cyngor ar ôl ei mabwysiadu gan y Cyngor.



# Cynlluniau Adran



Mae'r rhan gyntaf o'r Cynllun, y Cynllun Cryno, wedi canolbwyntio ar weledigaeth y Cyngor ynghyd â'n Blaenoriaethau Gwella ar gyfer y 5 mlynedd o 2018-23.

Mae'r rhan nesaf o'r Cynllun yn cynnwys Cynlluniau yr Adrannau o fewn y Cyngor, gan roi mwy o gig ar asgwrn y Blaenoriaethau Gwella sydd wedi eu hamlygu gyda ffrâm o'u hamgylch. Maent hefyd yn cynnwys disgrifiadau o waith 'dydd i ddydd' yr adrannau, ac mae llawer ohono yn ddyletswydd statudol ac yn orfodol i ni ei wneud, megis diogelu plant ac oedolion neu ddarparu addysg.

Yn ychwanegol at y Blaenoriaethau Gwella a'r gwaith 'dydd i ddydd' yma mae Blaenoriaethau Lleol wedi eu hadnabod gan yr Aelodau Etholedig fel y materion sy'n bwysig i drigolion eu hardal hwy. Trafodwyd yr rhain fel rhan o'r gwaith o baratoi Cynllun y Cyngor, a byddwn angen rhoi ystyriaeth bellach i sut allwn ni ymateb iddynt. Mae'r Blaenoriaethau Lleol wedi eu hamlygu o fewn ffrâm sydd â chefnidir lliw iddi.

Mae'r Cyngor yn dilyn egwyddorion cyffredinol ac yn gweithredu mewn meysydd sy'n croesi ar draws gwaith sawl adran, megis cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg, ymdrechu yn erbyn tlodi ac yn y blaen. Er fod cyfrifoldeb ar bob adran i weithredu arnynt mae'r disgrifiad o'r gwaith wedi ei nodi yng Nghynllun yr Adran sy'n arwain arno.

Ceir rhestr o'r holl Adrannau isod ynghyd â gwybodaeth am eu prif gyfrifoldebau. Mae'r wybodaeth ariannol am gyllidebau pob adran i'w cael gyda'i gilydd ar y diwedd.

Os ydych am gysylltu â'r Adrannau neu'r Pennaeth gallwch ffonio 01766 771000 neu ddilyn y dolenni isod i'n gwefan.

	Pennaeth	Tudalen
<b>1. Adran Addysg</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cefnogi gweithrediad dydd i ddydd Ysgolion Gwynedd</li> <li>Cefnogi a sicrhau cynnal a gwella safonau addysg mewn cyfleusterau modern</li> <li>Darparu cefnogaeth a gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol</li> <li>Arwain ar weithrediad y Siarter Iaith yng Ngwynedd a thrwy Gymru</li> </ul>	<b>Garem Jackson</b> <a href="#">Manylion Cyswllt</a>	23
<b>2. Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Galluogi Oedolion Gwynedd i "Fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw"</li> <li>Darparu gwasanaethau gofal trwy bartneriaethau a chydweithio</li> <li>Cynnig darpariaeth gofal cartref, gofal dydd a gofal preswyl</li> <li>Cefnogi teuluoedd digartref ac adnabod blaenoriaethau ar gyfer tai cymdeithasol a thai fforddiadwy.</li> </ul>	<b>Aled Davies</b> <a href="#">Manylion Cyswllt</a>	31
<b>3. Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Casglu ailgylchu, gwastraff bwyd a gwastraff gweddilliol trigolion Gwynedd</li> <li>Cynnal a chadw ffyrdd a strydoedd y sir</li> <li>Torri gwair a chynnal meysydd chwarae</li> </ul>	<b>Steffan Jones</b> <a href="#">Manylion Cyswllt</a>	41

#### 4. Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

**Marian Parry Hughes** 47  
Manylion Cyswllt

- Diogelu plant a phobl ifanc rhag niwed
- Gweithio i roi sefydlogrwydd i deuluoedd, plant a phobl ifanc

#### 5. Adran Amgylchedd

**Dafydd Wyn Williams** 55  
Manylion Cyswllt

- Gwasanaethau Cynllunio a Thrwyddedu
- Archwiliadau hylendid bwyd a safonau masnach
- Rheoli eiddo'r Cyngor
- Gwasanaeth rheoli Parcio a rheoli Pla
- Gwarchod a hyrwyddo mynediad i gefn gwlad

#### 6. Adran Economi a Chymuned

**Sioned E Williams** 65  
Manylion Cyswllt

- Datblygu Economi Gwynedd trwy gefnogi busnesau, twristiaeth a marchnata ac adfywio cymunedol
- Llyfrgelloedd, Amgueddfeydd ac Archifau
- Gwasanaethau Ieuenctid
- Canolfannau Hamdden

#### 7. Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy

**Huw Williams** 77  
Manylion Cyswllt

- Gwasanaeth Ymgynghorol Masnachol yn darparu gwasanaeth cynllunio a rheoli prosiectau isadeiledd
- Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu
- Awdurdod Arweiniol Llifogydd Lleol

#### 8. Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

**Geraint Owen** 82  
Manylion Cyswllt

- Galw Gwynedd a Siopau Gwynedd
- Gwasanaethau Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Hyfforddiant
- Gwasanaethau Gweinyddol a Chefnogol y Cyngor

#### 9. Adran Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)

**Dafydd L Edwards** 94  
Manylion Cyswllt

- Cefnogaeth ariannol a chyfrifol i holl wasanaethau'r Cyngor
- Gweinyddu Treth Cyngor a Chronfa Bensiwn Gwynedd
- Cefnogi a datblygu darpariaeth Technoleg Gwybodaeth y Gyngor

#### 10. Gwasanaeth Cyfreithiol

**Iwan Evans** 100  
Manylion Cyswllt

- Cefnogaeth gyfreithiol i holl wasanaethau'r Cyngor
- Gweinyddu Etholiadau Gwynedd
- Cefnogi gwasanaeth y Crwner ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru

#### 11. Gwybodaeth Ariannol

102





# Adran Addysg



# Adran Addysg



Pwrpas yr Adran Addysg yw sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn derbyn yr addysg a'r profiadau gorau yn ein hysgolion i'w galluogi i gyrraedd y safonau uchaf ac i feithrin y cymwysterau a'r sgiliau sy'n eu galluogi i fyw a ffynnu.

## GWASANAETH GWELLA YSGOLION

Cyfrifoldeb yr Adran Addysg a GwE mewn partneriaeth gyda'n hysgolion yw addysgu ein plant, ac mae canlyniadau ein hysgolion yn gyson dda. Gwasanaeth gwella ysgolion yw GwE, sydd yn gweithio ar ran chwe Awdurdod y gogledd, i arwain, trefnu a chydlynu gwelliannau ym mherfformiad ysgolion.

Mae'r bartneriaeth rhwng yr Adran Addysg a GwE yn rhoi cefnogaeth a her i'n hysgolion er mwyn gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu yn y dosbarth, i gefnogi arweinwyr i wella ansawdd yr arweinyddiaeth yn ein hysgolion – hyn oll er mwyn gwella canlyniadau ymhellach ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc.

Yng Ngwynedd, mae 86 o ysgolion cynradd, 13 o ysgolion uwchradd, 2 ysgol arbennig ac 1 ysgol ddilynol.

### Perfformiad Haf - Uwchradd

Canran y disgyblion Cyfnod Allweddol 3 (14 oed) sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig, mewn Cymraeg neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth



Haf 2016  
92.0%



Haf 2017  
92.8%



Haf 2018  
92.8%

Mae'r ysgolion yn darparu addysg gynhwysol i blant a phobl ifanc hyd at 16 oed, gyda 43.8% o'r disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim (PYD) yn 2018 yn ennill 5 gradd TGAU A\*-C, gan gynnwys Cymraeg (iaith) neu Saesneg (iaith), a Mathemateg neu Mathemateg (rhifedd) (TL2+).

Yng Ngwynedd, caiff addysg ôl-16 ei darparu mewn partneriaeth gyda'r colegau a'r ysgolion uwchradd yn Arfon, gan Goleg Meirion-Dwyfor (Grŵp Llandrillo Menai) yn Nwyfor a Meirionnydd ac Ysgol y Berwyn, yn ardal Y Bala

Canran y disgyllion 15 oed (ar y 31 Awst blaenorol sydd yn ennill 5 gradd TGAU A\*-C, gan gynnwys Cymraeg (iaith), neu Saesneg (iaith), a Mathemateg neu Mathemateg (rhifedd) (TL2+)



Canran y disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (11 oed) sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth



Haf 2016  
89.8%



Haf 2017  
92.1%



Haf 2018  
91.2%

## Perfformiad Haf 2017 – Cynradd

Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (7 oed) sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (Dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS))



81.7%

## Trawsnewid y gyfundrefn ysgolion

Yn dilyn ymgynghori ar gynaliadwyedd y gyfundrefn addysg yng Ngwynedd, ynghyd â phryderon cyffredinol nad yw'r gyfundrefn ysgolion bresennol yn gynaliadwy, bu i Gabinet y Cyngor fabwysiadu'r egwyddorion addysg addas i bwrpas canlynol fydd yn sail ar gyfer gwireddu gweledigaeth yr Adran Addysg a datblygu'r gyfundrefn er sicrhau addysg o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc Gwynedd ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, sef:

- Cyfundrefn o ysgolion uwchradd hyfyw
- Dim mwy na dau ystod oedran o fewn yr un dosbarth yn y cynradd
- Oddeutu 80% o amser digyswllt i'r Pennaeth ganolbwyntio ar faterion arweinyddiaeth yn y cynradd

Yn sgil mabwysiadu'r egwyddorion, bydd y maes hwn yn trosglwyddo'n rhan o waith dydd i ddydd yr Adran gan y rhagwelir nad proses gyflym, yn ystod cyfnod y Cyngor hwn, fydd gweithredu'r egwyddorion ar draws y gyfundrefn. Byddwn yn symud ymlaen yn bwyllog i sicrhau fod y gyfundrefn addysg yn gallu ymateb i'r newidiadau enfawr sydd ar y gorwel, megis newidiadau i drefn arolygu ysgolion (Estyn), ynghyd â newidiadau sylweddol iawn i'r cwricwlwm a threfniadaeth ein hysgolion yn sgil argymhellion Yr Athro Donaldson.

## Cryfhau Arweinyddiaeth

## Blaenoriaeth Gwella 2



Mae pwysigrwydd arweinyddiaeth, a hynny er mwyn sicrhau'r deilliannau gorau i ddysgwyr, yn cael ei gydnabod yn flaenoriaeth. Rydym yng Ngwynedd yn sicrhau bod ein cynlluniau i ddatblygu arweinyddiaeth yn cefnogi a galluogi'r bwriad i drawsnewid y gyfundrefn addysg i'r dyfodol ar sail yr egwyddorion, gan hefyd gymryd i ystyriaeth y cyd-destun lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Byddwn yn datblygu cyfeiriad a chynlluniau clir ar gyfer pob haen o arweinyddiaeth fydd ei angen ar ein cyfundrefn addysg yng Ngwynedd nawr ac i'r dyfodol gan annog a hyrwyddo dysgu proffesiynol arweinwyr ar bob lefel o fewn ein hysgolion. Byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu a chynorthwyo'r gyfundrefn er mwyn sicrhau'r amodau gorau i arweinyddiaeth addysgol allu ffynnu. Yn ogystal, byddwn yn adnabod a thargedu arweinwyr y dyfodol gan sicrhau eu bod yn dilyn rhaglen briodol o ddysgu proffesiynol.

## TÎM MODERNEIDDIO ADDYSG

Mae rhai o adeiladau ein hysgolion yn hen ac yn anaddas i gyfarch anghenion dysgu ac addysgu ein plant yn y dyfodol. Pwrpas y gwasanaeth yma ydy cynllunio a gwireddu prosiectau arloesol i addasu ysgolion neu adeiladu ysgolion newydd er mwyn i blant a phobl ifanc Gwynedd gael eu haddysgu yn yr amgylchedd dysgu gorau posib i'w galluogi i ffynnu.

Dros y cyfnod 2012-2021 bydd y Cyngor wedi llwyddo i fuddsoddi gwerth £69 miliwn i wella cyflwr ac amgylchedd dysgu ysgolion er lles plant y Sir.

Mae'r Tîm Moderneiddio Addysg yn datblygu modelau darparu addysg hyfyw sy'n ceisio:

- sicrhau amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf i blant a staff ysgolion Gwynedd
- gwella amodau ac amgylchiadau i benaethiaid er mwyn eu galluogi i arwain a rheoli ysgolion yn effeithiol a effeithlon
- sicrhau'r defnydd gorau a mwyaf effeithiol o gyllideb yr Adran Addysg.



## Darpariaeth Ôl-16

## Blaenoriaeth Gwella 2



Mae amrywiaeth yn y ffordd y caiff addysg ôl-16 ei ddarparu ar draws y sir. Caiff addysg ôl-16 ei ddarparu mewn partneriaeth gyda'r ysgolion uwchradd a'r colegau yn Arfon, gan Goleg Meirion-Dwyfor (Grŵp Llandrillo Menai) yn Nwyfor a Meirionnydd ac Ysgol y Berwyn, yn ardal Y Bala.

Byddwn yn ystyried rhinweddau'r gwahanol ddarpariaethau sy'n weithredol ar hyn o bryd, ynghyd â'r cyfleoedd a'r heriau i'r dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys cwblhau gwaith ymchwil ynghyd ag adroddiad ar y ddarpariaeth gyfredol ar draws y sir a fydd yn sail i ystyried a oes achos dros newid ai peidio i'r ddarpariaeth yn y dyfodol.

## Dalgylch Bangor

## Blaenoriaeth Gwella 2



Mae nifer o ysgolion cynradd yn nalgylch Bangor (ac yn arbennig yn ardal Penrhosgarnedd) yn llawn neu'n orlawn. Rydym wedi llwyddo i ddenu arian gan Lywodraeth Cymru i'w fuddsoddi yn narpariaeth addysg o fewn y dalgylch, gyda'r Cyngor yn darparu hanner yr arian hefyd ynghyd â chyfraniadau a ddaw yn sgil caniatâd cynllunio i ddatblygu tai newydd o fewn yr ardal.

Rydym wedi adolygu'r ddarpariaeth addysg gynradd ym Mangor, ac mae'r Cabinet wedi cymeradwyo cynllun gwerth £12.7m. Fel rhan o'r cynllun, adeiladir ysgol newydd ar gyfer Ysgol y Garnedd ar gyfer 420 o ddysgwyr fydd wedi ei gwblhau erbyn Medi 2020. Byddwn hefyd yn cychwyn ar y gwaith o addasu safle ac adeilad presennol Ysgol y Faenol ar gyfer 315 o ddysgwyr fydd hefyd yn cynnwys gofod cymunedol fydd wedi ei gwblhau erbyn Ionawr 2021.

## Dalgylch y Berwyn

## Blaenoriaeth Gwella 2



Mae'r Cyngor eisoes wedi penderfynu ad-drefnu addysg yn nalgylch y Berwyn er mwyn rhesymoli'r gyfundrefn ysgolion a gwella'r ddarpariaeth addysg a'i safonau.

Mae'r gwaith adeiladu wedi dirwyn i ben, ac yr ydym wedi agor Llyfrgell, Theatr, Neuadd Chwaraeon a chae pêl-droed bob tywydd sydd yn adnodd ar gyfer holl ysgolion y dalgylch yn ogystal â'r gymuned ehangach

Byddwn yn cwblhau'r gwaith o sefydlu Ysgol Godre'r Berwyn ar gyfer disgyblion 3-19 oed ar safle Ysgol y Berwyn, Y Bala, a fydd hefyd yn cynnig gwasanaethau i'r gymuned leol erbyn mis Medi 2019. Golyga hyn gwblhau'r broses o sefydlu'r corff llywodraethol a chynorthwyo gyda'r trefniadau ar gyfer agor y Campws Dysgu newydd

## Dalgylch Trefferthyr

## Blaenoriaeth Gwella 2



Mae'r Cyngor wedi penderfynu adeiladu ysgol gynradd newydd yn nalgylch Trefferthyr, Cricieth yn sgil cyflwr gwael yr adeilad presennol.

Byddwn yn cwblhau'r gwaith o gynllunio ac adeiladu'r adeilad newydd erbyn Medi 2021. Bydd yr ysgol yn cynnwys cyfleusterau ar gyfer y blynyddoedd cynnar ynghyd â gofod i'r cylch meithrin.

## GWASANAETH ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY)

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi plant a phobl ifanc gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol – sy'n cynnwys meysydd anghenion dysgu penodol, cyfathrebu a rhyngweithio, nam golwg, nam clyw a meddygol/corfforol.

Mae'r gwasanaeth yn rhoi ymyrraeth gynnar a chymorth wedi ei deilwra ar gyfer pob disgybl unigol drwy dîm o athrawon a chymorthyddion arbenigol. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cynhaliadaeth i ysgolion trwy'r Gwasanaeth Seicoleg. Mae pob disgybl yn cael mynediad llawn i ysgolion Gwynedd gan sicrhau, felly, fod pob plentyn yn cyrraedd ei lawn botensial.

### Trawsnewid y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad

### Blaenoriaeth Gwella 2



Mae gwaith eisoes wedi'i gyflawni i drawsnewid y gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiad, er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd ei angen yn derbyn y gefnogaeth fwyaf addas i'w galluogi i gyflawni eu potensial. Mae'r gwaith o ddatblygu'r gwasanaeth ymhellach yn parhau.

Byddwn yn parhau i ddatblygu'r gynhaliadaeth yn y dosbarth a sut mae hyn yn cael ei drefnu, darpariaeth cyn-ysgol, darpariaeth ôl-16 ac Ysgolion Arbennig. Byddwn hefyd yn adeiladu ar y gwaith partneriaethol presennol rhwng ein Hysgolion Arbennig a chydag ysgolion prif lif yr awdurdod er mwyn gwella profiadau dysgu plant ag anghenion dwys a chymhleth. Craidd y gwaith yma fydd sicrhau fod ein systemau yn cyd-fynd â gofynion Deddfwriaeth newydd Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru.

## GWASANAETH LLES A CHYNHWYSIAD

Mae'r gwasanaeth lles a chynhwysiad yn cefnogi ysgolion i hyrwyddo presenoldeb, ymddygiad cadarnhaol a chefnogaeth i blant a phobl ifanc sydd yn profi anawsterau ymddygiadol, emosiynol a/neu ddatblygiad cymdeithasol. Cyflwynir y gefnogaeth yma gan dîm o athrawon arbenigol, swyddogion lles, cwnselwyr ysgol a chymorthyddion arbenigol.

Rydym yn sicrhau bod disgyblion ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol yn cael eu cynnwys yn llawn o fewn ysgolion Gwynedd drwy hyfforddi, cefnogi ar lawr dosbarth a darparu gwasanaeth cynnal ymddygiad y tu allan i ysgolion prif lif. Mae'r gwasanaeth lles yn hyrwyddo presenoldeb drwy weithio gyda disgyblion, ysgolion a theuluoedd. Mae presenoldeb ysgolion Gwynedd dros y tair blynedd ddiwethaf wedi bod yn gyson dda.

### Canran presenoldeb mewn ysgolion



<b>Cynradd</b>	<b>95.4%</b>	<b>95.3%</b>	<b>94.8%</b>
	<b>2015/16</b>	<b>2016/17</b>	<b>2017/18</b>
<b>Uwchradd</b>	<b>95.0%</b>	<b>95.2%</b>	<b>94.7%</b>
	<b>2015/16</b>	<b>2016/17</b>	<b>2017/18</b>

Nifer o waharddiadau parhaol yn yr ysgolion:

Cynradd – 5.2%

Uwchradd – 5.3%

Er bod presenoldeb yn uchel a chyfraddau gwaharddiadau parhaol yn isel, mae'r her o gynnal a hyrwyddo lles a chynhwysiad yn dwysáu gyda nifer cynyddol o ddisgyblion yn arddangos ymddygiad heriol. Bydd y gwasanaeth yn sicrhau bod ein hysgolion wedi eu hyfforddi a'u cefnogi'n gywir i gwrdd â'r her.

Yn sail i hyn oll, mae'r gwasanaeth yn darparu arweiniad arbenigol ym maes diogelu. Darperir hyfforddiant a chyngor arbenigol i ysgolion ar draws yr awdurdod.

## YR IAITH GYMRAEG

Mae'r Gymraeg yn treiddio drwy holl waith a gwasanaethau'r Adran Addysg. Mae dogfen statudol 'Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg' yn gosod disgwyliadau clir i'r Adran ac i'n hysgolion ar gyfer y Gymraeg fel pwnc ac fel cyfrwng dysgu.

Mae Gwynedd wedi arwain ar waith arloesol i ddylanwadu ar ddefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg yn yr ysgolion cynradd drwy gyfrwng y Siarter Iaith Gymraeg. Pwrpas y Siarter yw cael y plant i siarad Cymraeg y tu allan i'r dosbarth, gan sicrhau cyfranogiad gan bob aelod o gymuned yr ysgol i wireddu'r nod. Mae'r Adran hefyd wedi arwain a chefnogi Llywodraeth Cymru i ledaenu'r Siarter iaith yn genedlaethol.



### Strategaeth Iaith Uwchradd

### Blaenoriaeth Gwella 5



Yn sgil llwyddiant y Siarter, mae galw cynyddol wedi bod i sicrhau dilyniant iddi yn yr ysgolion uwchradd. Mae tystiolaeth o waith ymchwil a gomisiynwyd gan yr Adran Addysg yn profi'r angen am gynllun a strategaeth i hyrwyddo'r defnydd cwricwlaidd a chymdeithasol o'r Gymraeg yn ein hysgolion uwchradd.

Rydym yn parhau i gyflogi Cydlynedd Strategaeth Iaith Uwchradd fydd yn darparu her a chefnogaeth briodol i'n hysgolion uwchradd. Bydd gan bob ysgol uwchradd gynllun gweithredu unigol ac unigryw fydd yn adlewyrchu cyd-destun ieithyddol yr ysgol a'r gymuned o'i hamgylch. Bydd y bobl ifanc eu hunain hefyd yn datblygu rhaglen o weithgareddau anffurfiol a chyffrous ar gyfer eu cyfoedion, er mwyn codi statws a chynyddu'r cyfleoedd anffurfiol i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

Mae'r Adran hefyd yn cynnal Canolfannau Iaith sy'n darparu cwrs dwys yn y Gymraeg i fewnfudwyr er mwyn eu helpu i ddysgu Cymraeg a chyfrannu i fywyd addysgol a chymdeithasol Gwynedd. Mae'r Canolfannau yma yn allweddol i helpu ein hysgolion cynradd ac uwchradd i weithredu'r Polisi Iaith.

## **GWASANAETH Y SWYDDFEYDD ARDAL**

### **Swyddfeydd Addysg Ardal**

Ers peth amser, mae cynnydd wedi bod ym mhryderon penaethiaid ysgolion ynglŷn a'u hamodau gwaith wrth iddynt orfod cyflawni nifer o rolau gwahanol; fel arweinwyr, rheolwyr, athrawon a gweinyddwyr. Mae arolygiadau Estyn yn ddieithriad yn dangos mai arweinyddiaeth effeithiol, gyda'r adnoddau ac amser digonol ynghlwm wrthi, sydd yn arwain at addysg dda a safonau uchel.

Byddwn yn parhau i ddatblygu'r Swyddfeydd Addysg Ardal er mwyn datblygu'r gefnogaeth a'r gynhafiaeth i'n hysgolion, a rhesymoli a rhannu'r gofynion rheolaethol. Gwneir hynny drwy ddatblygu rôl y Swyddogion Busnes a Gwasanaethau i gydlyn a hwyluso gwaith partneriaethol rhwng yr ysgolion eu hunain, a rhwng adrannau'r Cyngor, er mwyn lleihau baich gwaith rheolaethol a gweinyddol penaethiaid ac athrawon.

## **GWASANAETH ADNODDAU**

Pwrpas y gwasanaeth yma ydy rhoi cefnogaeth statudol angenrheidiol i ysgolion Gwynedd allu gweithredu o ddydd i ddydd. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys mynediad i ysgolion, cyflogau a chontractau staff, glanhau, arlwyo a chynlluniau bwyta'n iach, a chludiant i ysgolion. Rhoddir hefyd gefnogaeth cyllidol, adnoddau dynol, iechyd a diogelwch a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu i ysgolion. Mae'r gwasanaeth hefyd yn rhoi cefnogaeth i Lywodraethwyr.





# Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant



# Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant



Mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn darparu amryw o wasanaethau gofal cymdeithasol i drigolion 18 oed neu hŷn sydd angen cyngor, gwybodaeth, cymorth neu ofal oherwydd anghenion penodol.

Prif egwyddorion yr Adran yw:

- Sicrhau llesiant y rhai sydd angen gofal a chymorth
- Bydd ein gwasanaethau yn canolbwyntio ar bobl, ac yn rhoi llais cryf iddynt yn y penderfyniadau a wneir am y cymorth a gânt
- Caiff gwasanaethau eu darparu drwy bartneriaethau a thrwy gydweithredu
- Bydd gwasanaethau'n ceisio atal anghenion unigolion rhag cynyddu, ac yn ymdrechu i sicrhau bod y cymorth iawn ar gael ar yr adeg iawn.

Mae'r pedwar egwyddor uchod yn plethu i gyflawni un nod yr Adran sef i alluogi i oedolion Gwynedd : **“Fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw”**



## Tai

Rydym fel Gwasanaeth Tai yn gweithredu i atal digartrefedd yn ogystal â darparu cefnogaeth i deuluoedd neu unigolion sy'n canfod eu hunain yn ddigartref. Rydym yn cefnogi pobl i gynnal a diogelu eu tenantiaeth, ac yn sicrhau bod tai amldeiliadaeth yn ddiogel ac yn cwrdd â safonau diogelwch.

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn adnabod blaenoriaethau ar gyfer datblygu tai cymdeithasol o'r newydd a chynlluniau ar gyfer tai fforddiadwy. I'r dyfodol, byddwn yn anelu i gynyddu'r niferoedd drwy wneud y gorau o'r grantiau ddaw gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â chymdeithasau tai. Rydym hefyd yn gweinyddu'r Gofrestr Tai Cyffredin mewn partneriaeth â chymdeithasau tai ac yn blaenoriaethu ceisiadau am eiddo cymdeithasol. Byddwn yn anelu i gynyddu'r nifer o gartrefi drwy dargedu eiddo gwag ar draws Gwynedd er mwyn eu dychwelyd i ddefnydd addas. Byddwn hefyd yn archwilio tai rhent er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd safon dderbyniol.

Gwaith arall sydd gennym yw asesu a darparu addasiadau ar gyfer cartrefi pobl a phlant anabl er mwyn helpu unigolion i allu parhau i fyw yn annibynnol ac i geisio lleihau dibyniaeth a galw ar wasanaethau eraill.

**Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd**  
**2019-24**

**Blaenoriaeth Gwella 4**



Un o'r heriau mwyaf i Wynedd yw sicrhau digon o dai pwrpasol ac o safon i gyfarch anghenion poblogaeth sydd yn newid. Yn ystod 2018/19 buom yn canolbwyntio ar weithredu 2 brosiect er mwyn gwella mynediad pobl Gwynedd at dai addas. Roedd y 2 brosiect, sef **'Tai Addas a Fforddiadwy'** ac **'Adnabod a Hyrwyddo Cynlluniau a Mentrau Tai'** yn asesu'r sefyllfa gyfredol, a chan ddefnyddio canlyniadau'r asesiadau daeth yn amlwg bod angen i ni ailgynllunio ein darpariaeth ar gyfer y dyfodol.

Mae'r galw am dai cymdeithasol a fforddiadwy yng Ngwynedd ar hyn o bryd yn uwch na'r cyflenwad sydd ar gael, ac mae nifer cynyddol o bobl yn ddigartref neu yn o dan fgythiad o ddigartrefedd yng Ngwynedd. Nid yw ein ymateb hyd yma yn cyfarch anghenion y boblogaeth leol rŵan nac i genedlaethau'r dyfodol. Gan ddefnyddio'r wybodaeth yma, rydym wedi llunio Strategaeth Dai sydd yn anelu i wneud y gorau o'n cyflenwad o dai yng Ngwynedd, gwella eu safon yn ogystal â gwella mynediad i dai drwy gryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl i'w galluogi i fyw yn annibynnol o fewn eu cymunedau. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi unigolion sydd yn dioddef o drais yn y Cartref, problemau iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau yn ogystal â'r rhai sydd yn dangos ymddygiad heriol/ gwrth gymdeithasol sydd mewn perygl o golli eu tenantiaeth.

O 2019/20 ymlaen byddwn yn cymryd camau i wireddu blaenoriaethau'r Strategaeth Tai (2019-24) er mwyn :

- Sicrhau bod pobl Gwynedd yn gallu canfod cartref addas
- Sicrhau bod neb yn ddigartref yng Ngwynedd
- Cyfarch anghenion iechyd a llesiant pobl Gwynedd
- Sicrhau bod cartrefi pobl Gwynedd yn gyfeillgar i'r amgylchedd
- Cynnig gwasanaethau ataliol, di-dor ar lefel lleol.

### Blaenoriaeth Lleol

Mae yna bryder bod nifer uchel o dai aml-ddeiliadaeth (Houses in Multiple Occupation – HMOs) ym Mangor, gan effeithio'n negyddol ar ymddangosiad y ddinas. Mae pryder hefyd fod y sefyllfa yn arwain at nifer uwch na'r cyffredin o dai gwag, gyda sgil effaith ar leihau'r farchnad dai i drigolion lleol.

Mae'r materion uchod yn derbyn sylw o fewn y Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd 2019-2024



### Llesiant

Mae'r Uned Llesiant wedi ei sefydlu i hyrwyddo egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014), sef yr angen i weithio'n ataliol ac i gydweithio ag unigolion a chymunedau er mwyn canfod yr atebion gorau i wella lles ein trigolion.

Rydym yn hybu gwasanaethau ataliol o fewn cymunedau ac yn hyrwyddo elfennau llesiant mewn Cynlluniau Gofal a Chymorth. O safbwynt dyletswydd yr Adran i ddarparu "gywbodaeth, cyngor a chymorth" o dan y Ddeddf, rydym yn datblygu adnoddau megis Dewis Cymru ac yn gobeithio sefydlu hybiau gywbodaeth leol, trwy ddatblygu rôl "cysylltwyr cymunedol" a chydweithio'n agos gyda mudiadau trydydd sector, mentrau cymdeithasol, grwpiau cymunedol a chyda'r trigolion eu hunain.

Rydym yn cydweithio gyda phartneriaid i gefnogi gofawyr anffurfiol ac yn codi eu proffil ymysg y gweithlu er mwyn cynyddu'r ddealltwriaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr. Rydym yn cydweithio yn agos gyda gwasanaethau eraill oddi mewn i'r Cyngor trwy sefydlu Partneriaeth Ddysgu Iechyd Meddwl Gwynedd gan gydweithio gyda Llyfrgelloedd, Rhaglenni Byw'n Iach, yr Uned Celfyddydau a'r Tîm Adfywio Bro. Rydym hefyd yn cydweithio â phartneriaid allanol sy'n darparu gwasanaethau llesiant emosiynol a chymdeithasol i drigolion Gwynedd. Drwy'r Cynllun Heneiddio'n Dda Gwynedd 2017-18 datblygwyd prosiect Pontio'r Cenedlaethau oedd yn dod â'r hen a'r ifanc at ei gilydd ac sydd wedi profi llwyddiant mewn gwahanol ardaloedd o Wynedd. Mae'r prosiect bellach yn cael ei werthuso gan Ganolfan Ymchwil Heneiddio a Dementia Prifysgol Bangor. Bydd yn bwysig cydweithio gyda chymunedau Gwynedd i barhau i hyrwyddo cymunedau cyfeillgar i ddementia sy'n adeiladu ar lwyddiant y prosiect Dementia Go. Byddwn yn parhau i hyrwyddo gwydnwch cymunedol fydd yn adeiladu ar gryfderau cymunedau Gwynedd i atal y galw am wasanaethau gofal a chymorth.

## Ail-ddylunio Gwasanaethau Gofal

## Blaenoriaeth Gwella 6




Rydym wedi bod yn cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i sicrhau bod gan oedolion sy'n byw yng Ngwynedd fynediad syml ac uniongyrchol at wasanaethau sy'n bwysig iddynt. I'r perwyl hwn rydym, ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd, wedi sefydlu 5 Tîm Ardal leol sydd yn darparu gwasanaeth di-dor. Mae'r timau yma yn adeiladu ar gryfderau'r unigolyn a'r gymuned ac yn sicrhau bod ein trefniadau gadael yr ysbyty yn effeithiol ac yn cyd-fynd â beth sy'n bwysig i'r unigolyn hwnnw.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda'n darparwyr gwasanaethau gofal ac yn arbrofi efo ffyrdd newydd o gomisiynu pecynnau gofal cartref. Mae canlyniadau'r arbrawf yma wedi bod yn hynod gadarnhaol a byddwn yn symud ymlaen i ail gomisiynu gan ddefnyddio'r ffordd newydd.

Mae'r maes Anableddau Dysgu yn datblygu ac yn aeddfedu. Mae cydweithio a chyd cynllunio da wedi digwydd ar draws y maes yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a hyderwn y bydd y cyfleoedd i wneud mwy gyda'n darparwyr yn lleol yn amlygu eu hunain dros y flwyddyn sydd i ddod. Mae cynnig ymyrraeth ataliol yn gyrru'r maes gyda ffocws ar ddatblygu gwasanaethau cymunedol.

Byddwn yn parhau gyda'r gwaith o drawsffurfio gwasanaethau cymunedol i alluogi mwy o ymatebion cynnar ac ataliol ar lefel lleol a hynny ar y cyd gyda'n partneriaid allweddol megis iechyd, y trydedd sector a gofawyr. Bydd ein Timau Ardal wedi eu cyd-leoli mewn 'clwstwr' ehangach o ddarparwyr a gwasanaethau sylfaenol a chymunedol, fel mae'r darlun isod yn dangos. Bydd hyn yn cynnwys datblygu hybiau iechyd a gofal o fewn ardaloedd Bangor a Dyffryn Nantlle. Bydd ein hasesiadau poblogaeth a llesiant yn ein galluogi ni i sicrhau bod gwasanaethau o fewn y 'clystyrau' yn cyd-fynd ag anghenion y boblogaeth leol, yn cael eu darparu gan wahanol ddarparwyr ac yn cael eu cydlynu yn ddi-dor o amgylch anghenion yr unigolyn.



Rydym yn symud i ddull o weithio sydd yn rhoi fwy o bwyslais ar iechyd a llesiant a gwaith ataliol. Trwy'r dull yma o weithio byddwn yn gweld gwell deilliannau i unigolion, galluogi pobl fyw yn annibynnol o fewn eu cymunedau mor hir â phosib a bydd llai o angen am ofal dwys. Byddwn yn buddsoddi yn ein hadeiladau ar draws ein gwasanaethau, rydym eisoes wedi buddsoddi yn ein Cartrefi Preswyl yn Nhywyn, Nefyn, Llan Ffestiniog a Bangor. Byddwn dros y flwyddyn sydd i ddod yn parhau gyda'r rhaglen waith o ran gwella ein darpariaeth gofal dwys, bydd hyn yn golygu datblygu Unedau Dementia yn y cartrefi Cefn Rodyn, Hafod Mawddach a Phlas Hedd.

Byddwn yn parhau gyda'n prosiect Gofal Cartref sydd wedi bod yn treialu ffyrdd newydd ar arloesol o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal sy'n canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bobl sy'n derbyn gwasanaethau iechyd a gofal. Mae hefyd yn ymateb i broblemau megis y diffyg gwasanaeth gofal ac iechyd yn rhai ardaloedd o'r Sir, a allai arwain at bobl yn gorfod aros yn yr ysbyty am gyfnod hirach nag y dylent. Mae'n rhaglen waith o newid diwylliant ac mae canfyddiadau cynnar y prosiect yn addawol iawn bydd yn dylanwadu ar sut y byddem yn comisiynu gofal cartref i'r dyfodol.

Mae'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl yn cydweithio â'r Bwrdd Iechyd a phartneriaid eraill i weithredu'r Strategaeth Iechyd Meddwl. Y flaenoriaeth gychwynnol ydi sicrhau bod gofal addas ar gael pan mae unigolion mewn argyfwng. Fel rhan o'r gwaith yma, rydym yn edrych ar ddatblygu gwasanaeth sydd yn ymateb i anghenion unigolion 7 diwrnod yr wythnos 9yb-7yh. Y bwriad yw sicrhau bod unigolion yn cael mynediad amserol ar wasanaethau addas.

Yn ogystal, fe fyddwn yn cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd er mwyn cryfhau gwasanaethau iechyd meddwl yn lleol ac yn edrych ar ffyrdd arloesol o wella gwasanaeth anabledde dysgu.



Bydd dull system gyfan o ddarparu iechyd a llesiant fel sydd yn cael ei ddisgrifio yn 'Ail-ddylunio Gwasanaethau Gofal' uchod yn mynd tu hwn i ddarparu gwasanaethau cymorth yn y cartref neu mewn gofal preswyl. Bydd gweithgareddau cymunedol a chysylltiad rheolaidd â ffrindiau a chymdogion yn helpu pobl i gadw cysylltiadau, lleihau unigrwydd a chynnal iechyd meddyliol a chorfforol. Bydd gweithio o fewn trefn 'Clystyrau' yn galluogi'r holl asedau cymunedol i gydweithio yn ddi-dor er lles yr unigolyn.

Rydym wedi bod ysgogi a chefnogi cymunedau Gwynedd i fod yn wydn. Mae'r gwaith yma wedi arwain at ddatrysiadau ataliol eu natur sydd wedi cynyddu opsiynau gofal lleol i bobl. Mae'r Cynllun Cysylltwyr Cymunedol wedi cychwyn ers Medi 2017 ac mae unigolion o'r 3ydd sector yn gweithio oddi mewn i'n Timau Ardal. Maent yn mapio gwasanaethau a grwpiau sydd yn bodoli o fewn cymunedau gan gysylltu unigolion sydd angen cymorth gyda'r gwasanaethau hynny ynghyd ag adnabod bylchau yn y gwasanaeth a hybu mentrau cymunedol. Byddwn yn ehangu'r cynllun yma er mwyn sicrhau ei fod yn waith annatod o ddydd i ddydd ein gwasanaethau. Mae hyn yn allweddol ar gyfer asesu anghenion ein poblogaeth ar lefel lleol mewn modd parhaus.

Ein bwriad dros y blynyddoedd nesaf yw parhau i edrych ar gyfleoedd i adeiladu ar y cryfderau sydd o fewn ein cymunedau a cheisio cyd-gynhyrchu ystod lawn o gefnogaeth ataliol er mwyn ei gwneud hi'n haws i bobl barhau i fyw yn annibynnol yn eu cymunedau. Bydd hyn yn cynnwys gweithio'n agos gyda gofalwyr i geisio dod i ddatrysiadau cywir er budd y rhai sydd angen gofal. Ar lefel rhanbarthol rydym wedi datblygu a chyd gynhyrchu 'cynnig' i ofalwyr, sy'n cynnwys safonau gwasanaeth rydym yn ymrwymo i'w cyflawni. Byddwn dros y misoedd yn sicrhau ein bod yn ymrwymo yn llawn i'r safonau.

Rhan allweddol o wydnwch cymunedol yw sut mae gwahanol genedlaethau yn cyd-fyw a chymdeithasu a dechreuwyd prosiect arloesol Pontio'r Cenedlaethau fis Mai 2018. Ei bwrpas yw atal unigrwydd rhwng plant, pobl ifanc a phobl hŷn trwy ddod a hwy at ei gilydd i wneud gweithgareddau hwyliog a diddorol.

Byddwn yn parhau i ddatblygu gwasanaethau ataliol sydd wedi eu hanelu at gefnogi trigolion, gan gysylltu pobl â chefnogaeth o fewn eu cymunedau gan ganolbwyntio ar y 5 Ardal.

Mae'r Bartneriaeth Dysgu wedi ei sefydlu o fewn y Gwasanaeth Iechyd Meddwl er mwyn edrych ar waith ataliol a llesiant unigolion sydd yn seiliedig ar y 'Pum ffordd at les'. Mae'r Bartneriaeth yn datblygu llyfryn sydd yn nodi pa gefnogaeth sydd ar gael o fewn wahanol ardaloedd o fewn y Sir. Ein bwriad yw datblygu grwpiau fydd yn cefnogi'r gwaith yma.





## Oedolion

Rydym fel gwasanaeth Oedolion yn gweithio mewn partneriaeth gydag oedolion dros 18 mlwydd oed, oedolion ag anabledd corfforol a phobl hŷn i adnabod yr hyn sydd yn bwysig iddynt, a'u cefnogi i ddod o hyd i ddatrysiadau i gyflawni eu hamcanion personol. Mae'r gwasanaeth yn asesu yn unol ag egwyddorion Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (2014) mewn dull sy'n adeiladu ar gryfderau unigolion. Mae'r gwasanaeth yn darparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth.

I'r dyfodol, byddwn yn adeiladu ar y berthynas waith effeithiol rhwngom fel Cyngor â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, asiantaethau statudol a'r trydydd sector, a hynny er mwyn cyfarch amcanion personol oedolion.

Canran o bobl hŷn ac oedolion ag anableddau corfforol lle gwelir cynnydd mewn cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt



2016/17  
88.0%



2017/18  
80.5%

## Anableddau Dysgu



Rydym fel gwasanaeth Anableddau Dysgu yn darparu cefnogaeth weithgar ar sail egwyddorion Cefnogaeth Actif a Chefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol mewn dull 'person yn ganolog' sydd yn canolbwyntio ar allbynnau lles cadarnhaol i'r unigolyn. Rydym yn asesu yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (2014) mewn dull sy'n adeiladu

ar gryfderau unigolion. Mae'r gwasanaeth yn hybu gwasanaethau integredig gan barhau i ddatblygu'r berthynas bositif gyda phartneriaid ac asiantaethau eraill, gan gynnwys iechyd, asiantaethau statudol a'r trydydd sector, er mwyn cyfarch ystod eang o anghenion pobl gydag anableddau dysgu.

Mae ein gweledigaeth yn canolbwyntio ar ddatblygu gwasanaethau ataliol ar draws y sir a fydd yn cynnwys ffocws ar anghenion oedolion sydd ar y sbectrwm awtistiaeth. Yn ogystal, rydym eisieu canolbwyntio ar ddarpariaeth sydd yn datblygu cyfleoedd i bobl ag anableddau dysgu i ddatblygu perthnasoedd. Fel ffordd ymlaen i gyfarch y nod yma, byddwn yn parhau gyda'r gwaith o ddatblygu hybiau cymunedol o amgylch y sir.

Byddwn yn datblygu fframwaith gofal ysbaid yn ystod 2019. Yn ogystal, rydym yn anelu i ddatblygu darpariaeth gofal ysbaid yn ardal Pwllheli.

Mae'r gwaith y tîm Cefnogaeth Actif a Chefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol dros y flwyddyn diwethaf wedi arwain at ddatblygiadau positif i drigolion y sir. Prif ffocws y tîm yma dros y blynnyddoedd nesaf fydd canolbwyntio yn benodol ar waith ataliol.

Nod craidd arall y gwasanaeth yw parhau i ddatblygu cyfleoedd dydd i bobl ag anghenion dwys a chymhleth. Rydym yn anelu i gynllunio gwasanaethau i'r dyfodol er mwyn sicrhau fod cyfleoedd lleol ar gael ar gyfer yr oedolion yma, er mwyn iddynt allu byw, derbyn cefnogaeth a mynychu

cyfleoedd dydd yn eu cynefin. Fel rhan o'r gwaith yma, rydym am weithio i ddatblygu'r cyfleoedd sydd ar gael fel rhan o Gynllun Cymunedol Arfon. Mae'n holl bwysig ein bod yn cydweithio gyda holl ddarparwyr lleol ac yn parhau i ddatblygu gwaith y Grŵp Trawsffurfio Anableddau Dysgu.



## Iechyd Meddwl

Rydym fel Gwasanaeth Iechyd Meddwl yn gweithio ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd gan weithio'n aml-ddisgyblaethol. Rydym yn gweithredu yn unol â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, i gefnogi unigolion efo problemau iechyd meddwl o fewn y gwasanaethau cynradd ac yn cefnogi unigolion efo anghenion mwy dwys neu gymhleth. Mae'r gwasanaeth yn gweithio efo unigolion er mwyn hyrwyddo adferiad ac i'w cefnogi i fyw yn annibynnol. Rydym hefyd yn cynnig asesiad a chefnogaeth i ofalwyr iechyd meddwl.

Mae'r mesur yn canolbwyntio ar anghenion unigolion yn hytrach na 'diagnosis' ac mae'n cael ei arwain gan y prif egwyddorion a ganlyn:

- Cynnwys cleifion a'u gofalwyr wrth gynllunio, datblygu a gweithredu'r cynllun gofal a thriniaeth
- Cydraddoldeb, urddas ac amrywiaeth - angen sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn rhoi ystyriaeth i hil, rhyw, crefydd, rhywioldeb, oed ac unrhyw anabledd wrth gynllunio a darparu gwasanaeth
- Mae angen sicrhau bod cleifion a'u gofalwyr yn cael eu cynnwys yn y cynllunio ac felly mae angen cyfathrebu'n glir drwy fod yn ymwybodol o iaith a diwylliant y claf
- Mae'r cynllun gofal a thriniaeth angen bod yn holistig ac yn rhoi'r person yn ganolog
- Mae'r cynllun gofal a thriniaeth angen bod yn gymesur i'r angen a'r risg. Mae hyn yn cydnabod nad oes gan bawb anghenion dwys a bod cymorth syml yn gallu gwella ansawdd bywyd a dylid sicrhau bod y gofal a'r driniaeth yn integredig. Mae'r gweithwyr proffesiynol angen cydnabod bod amrediad o wasanaethau a all gynorthwyo unigolion boed hynny'n statudol neu'n wirfoddol.



## Uned Diogelu

Mae'r Uned Diogelu yn rhoi cefnogaeth i staff yr Adran i ddilyn y drefn diogelu. Rydym yn cydweithio'n agos efo'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol er mwyn creu gweithdrefnau rhanbarthol.

Mae cyfathrebu cyson efo ddarparwyr, y Bwrdd Iechyd ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru er mwyn rhannu pryderon ac ymarfer da. Mae'r Uned yn gyfrifol am fonitro ddarparwyr mewnol ac allanol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau a'r gofal sydd yn cael eu darparu a'u comisiynu o ansawdd uchel. Mae'r Uned hefyd yn cynnal archwiliadau o brofiadau defnyddwyr gwasanaeth er mwyn dysgu am brofiadau gwael ac ymarfer da. Rydym yn gosod cysondeb ynghylch beth sydd yn cael ei ystyried yn achos diogelu neu beidio, yn arwain ar

Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle mae'r risg wedi ei reoli

2015/16  
96.7%

2016/17  
97.9%

2017/18  
97.6%



achosion o bryderon cynyddol, trefniadau o Ddiogelu Rhag Colli Rhyddid (trefn sydd yn cefnogi ac amddiffyn pobl sydd yn methu gwneud penderfyniadau eu hunain nac yn gallu rhoi caniatâd am eu gofal) ac yn ymateb i gwynion a phryderon yn amserol.

## Darparu



Rydym fel Gwasanaeth Darparu yn darparu gofal preswyl, gofal cymunedol a gofal dydd ar gyfer oedolion ag anghenion dwys, cymhleth.

Mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am y meysydd isod :

- Darpariaeth Gofal Preswyl (11 o gartrefi preswyl sydd ym mherchnogaeth y Cyngor, gyda 2 yn gartref ag unedau dementia ac 1 yn arbenigo mewn gofal dementia pur)
- Darpariaeth Gofal Cartref
- Gofal Galluogi a Chanolraddol (gofal dros dro)
- Gofal Cynhaliaeth (gofal hir dymor)
- Darpariaeth Gofal Dydd (4 ar draws y sir, 1 yn cynnig gofal arbenigol ar gyfer pobl sydd yn byw efo Dementia)

### Blaenoriaeth Lleol

Mae potensial i ddatblygu darpariaeth gofal pwrpasol yn ardal Dolgellau a byddwn yn archwilio i'r posibiladau o gydweithio â phartneriaid eraill er mwyn ariannu cynllun o'r fath. Mae galw tebyg am unedau pwrpasol ar gyfer trigolion Llŷn, a thrwy gydweithio ag eraill gallwn fesur yn union pa ddarpariaeth sydd ei hangen, a sut orau i'w chyllido.

Mae'r flaenoriaeth yma yn derbyn sylw o fewn y rhaglen gwella 'Ail Ddylunio Gofal'

### Y Gweithlu a Recriwtio o fewn y Maes Gofal

### Blaenoriaeth Gwella 6



Bydd ein llwyddiant i wireddu 'Blaenoriaeth Gwella 6' yn ei gyfanrwydd, sef 'Sicrhau fod gennym wasanaethau gofal sy'n helpu pobl i fyw eu bywydau fel y maent yn dymuno' yn ddibynnol ar sicrhau gweithlu ar gyfer y maes Gofal. Mae recriwtio i'r maes Gofal yn heriol am amryw o resymau a thra bod gennym weithlu effeithiol ac ymroddedig, mae'n rhaid i ni sicrhau fod gennym ddigon o weithwyr â'r sgiliau angenrheidiol i ddiwallu'r angen cynyddol sy'n codi.

Cyn medru sefydlu cynllun gweithredu i ddatrys y broblem mae angen i ni sicrhau ein bod yn wir ddeall y broblem ac rydym wedi comisiynu ymchwiliad annibynnol i'r sefyllfa bresennol yng Ngwynedd, y pwysau ar ein gweithlu ac i'r Cyngor.

Yn ystod 2019/20 byddwn yn ystyried canfyddiadau'r ymchwiliad ac unrhyw argymhellion ddaw o adolygiad craffu, gan benderfynu beth ddylid ei wneud yn ychwanegol neu'n wahanol i'r hyn sydd ar waith yn barod. Mae canfyddiadau dechreuol yr ymchwil yn amlygu amryw ffactor allweddol sy'n cadarnhau ein bod ar y trywydd cywir o ran ein hymdrechion i ail ddylunio model busnes Gofal Cartref.

Rydym hefyd yn cydnabod, yn ogystal â chael y cymysgedd sgiliau cywir, bydd angen newid diwylliannau ac ymddygiadau ac i hyrwyddo cymryd risgiau positif; a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid a sefydliadau academiaidd i ddatblygu a chyflawni hyn.

Byddwn hefyd yn gweithio i godi proffil a statws gweithwyr gofal trwy adolygu llwybrau gyrfaol presennol, fel bod gyrfa mewn gwaith gofal cymdeithasol yn ddewis gyrfa gadarnhaol a byddwn yn hyrwyddo'r maes gofal fel gyrfa drwy ledaenu gwybodaeth briodol i sefydliadau lleol. Byddwn hefyd yn adolygu ein cynllun Prentisiaeth o fewn y Cyngor i geisio dylanwadu ar y nifer o brentisiaethau o fewn y maes gofal.



## Gwasanaeth Busnes

Mae'r Gwasanaeth Busnes yn darparu cefnogaeth i dimau rheng-flaen yr Adran Oedolion, lechyd a Llesiant a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, a hynny er mwyn eu galluogi i gyflawni eu pwrpas er lles trigolion Gwynedd. Yn benodol er mwyn hwyluso trefniadau gwaith effeithlon, darperir rheolaeth a chymorth o ran systemau technoleg gwybodaeth yn ogystal â chefnogaeth weinyddol i'r Timau dan sylw.

Cynigir hefyd amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi i weithwyr ar draws y maes gofal er mwyn sicrhau fod gennym y gweithlu mwyaf addas i ofalu am drigolion y Sir i'r dyfodol.

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn helpu pobl i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt trwy sicrhau fod unrhyw un sy'n derbyn gofal yn derbyn cyngor a chefnogaeth ariannol briodol, a thrwy hyn byddant yn llawn ymwybodol o unrhyw oblygiadau ariannol sydd ynghlwm â'u dewisiadau gofal. Pan fo angen, mae darpariaeth hefyd yn ei le ar gyfer rheoli arian trigolion bregus sydd â neb i'w cynorthwyo. Mae'r Gwasanaeth yn darparu cefnogaeth fusnes i wasanaethau sy'n hyrwyddo annibyniaeth megis Taliadau Uniongyrchol a Thechnoleg Gynorthwyol.

Y Gwasanaeth Busnes sy'n gyfrifol am gasglu, dadansoddi a dehongli data er mwyn caffael a chomisiynu gwasanaethau yn effeithiol, a hynny mewn maes ble mae'r galw yn cynyddu ac adnoddau yn prinhaus. Yn ogystal â hyn mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am reoli a gyrru newid er mwyn galluogi i'r Adran Oedolion lechyd a Llesiant gyflawni'r prosiectau a fydd yn trawsnewid ein gwasanaethu i bobl Gwynedd i'r dyfodol.



# Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol



# Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol



Mae'r Adran hon yn gofalu am asedau a darparu gwasanaethau pwysig ar gyfer sicrhau amgylchedd glân a diogel i drigolion Gwynedd.


## Cynnal Priffyrdd



Mae'n bwysig bod busnesau a thrigolion Gwynedd yn medru symud yn rhwydd a diogel o fewn y Sir ac er mwyn sicrhau hyn mae'r Cyngor yn cynnal 2,697 cilomedr o **ffyrdd sirol** ynghyd â 199 cilomedr o **Gefnffyrdd** (sef priffyrdd o bwysigrwydd cenedlaethol, ar ran Llywodraeth Cymru). Ar hyn o bryd mae ein priffyrdd yng Ngwynedd, sef ffyrdd Dosbarth A a B, mewn cyflwr da gyda llai na 4% ohonynt yn ddiffygiol ac angen sylw.


Gyda lleihad yn y gyllideb berthnasol, parhau mae'r dirywiad yng nghyflwr ein ffyrdd Dosbarth C a Di-ddosbarth. Oherwydd y pwysau ariannol ar y Cyngor mae'n anorfod y bydd pwysau pellach ar y gyllideb cynnal ffyrdd, a bydd gennym her i atal dirywiad yn safon ein ffyrdd, yn enwedig ffyrdd o lai o flaenoriaeth sef Dosbarth C a Di-ddosbarth.

### Canran Priffyrdd Sy'n Ddiffygiol



Mae Cod Ymarfer cenedlaethol newydd mewn grym erbyn hyn sydd yn rhoi pwyslais ar reoli risg. Mae gwaith ar droed ar draws Cymru ar hyn o bryd er mwyn datblygu cynlluniau gweithredu cyson wrth archwilio cyflwr ffyrdd. Fel rhan o'r gwaith hwn, yr ydym yn y broses o adolygu a diweddarau ein Cynllun Cynnal Asedau Priffyrdd.

### Canran o ddigwyddiadau o ddifrod peryglus i ffyrdd a phalmentydd a atgyweiriwyd neu a wnaethpwyd yn ddiogel o fewn 24 awr i'r amser hysbysu



I'r dyfodol byddwn yn ceisio atal dirywiad sydyn yn safon ein ffyrdd.

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am arwain partneriaeth o saith Cyngor yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru er mwyn rheoli a chynnal 1100km o gefnffyrdd (priffyrdd cenedlaethol pwysig Llywodraeth Cymru).




**Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru**  
**North & Mid Wales Trunk Road Agent**

Ein Gwasanaeth gwaith Priffyrdd sydd yn gyfrifol am y gwaith cynnal a chadw ynghyd â delio â damweiniau a digwyddiadau sy'n deillio o dywydd garw.

## Goleuo Stryd

### Lampau i'w newid i LED



Rydym yn cynnal 18,705 o **oleuadau stryd** a 6,067 o **arwyddion** wedi eu goleuo er mwyn gwneud ein ffyrdd yn fwy diogel ac i drigolion fedru defnyddio ein strydoedd yn ddiogel wedi iddi dywyllu. Mae goleuadau yn defnyddio ynni trydan sydd ag effaith andwyol ar yr amgylchedd o safbwynt allyriadau carbon a llygredd golau.

Dros y 3 mlynedd ddiwethaf rydym wedi bod yn newid ein goleuadau stryd ac arwyddion i dechnoleg LED (light emitting diode) gyda'r mwyafrif yn pylu neu ddiffodd pan fo'n briodol. Mae hyn i bwrpas lleihau costau ynni, lleihau allyriadau carbon ac atal llygredd golau heddiw ac i'r dyfodol.


O ran yr amgylchedd leol, mae'n hynod bwysig bod **ein strydoedd yn lân a diogel** ac felly rhaid glanhau strydoedd yn rheolaidd. Mae edrychiad strydoedd a manau cyhoeddus yn bwysig i drigolion Gwynedd ac mae tîm bychan o swyddogion yn gyfrifol am ymdrin â throseddau amgylcheddol fel tipio slei bach, graffiti a baw cŵn. Rydym, ar gyfartaledd, yn cymryd 1.76 diwrnod i glirio eitemau tipio anghyfreithlon ar ôl cael gwybod amdanynt. Rydym yn defnyddio mesur o'r enw Mynegai Glendid i asesu safon glendid ac edrychiad strydoedd.

## Glanhau Strydoedd



Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn gwneud arolwg i sefydlu faint o 'ddiffygion' fel sbwriel, chwyn, baw cŵn, gwm cnoi a stympiau sigarets sydd ar unrhyw stryd. Yn ôl yr arolwg annibynnol, mae safon glendid ac edrychiad strydoedd Gwynedd yn parhau i fod yn dda ac mae'n debyg bod newid ymddygiad er gwell yn ddiweddar i atal llanast.

### Mynegai glendid strydoedd (Arolwg Cadw Cymru'n Daclus)





**Canran o'r graffiti a phosteri sy'n ymguddio arwyddion traffig ac yn achosi peryglon a lanhawyd/cliriwyd o fewn 24 awr i'r amser hysbysu**

**100%**

**Canran y priffyrdd a thir perthnasol a archwiliwyd sydd â'u safon glanweithdra yn uchel neu dderbyniol**



**98.5%**

## Casglu Gwastraff ac Ailgylchu

Mae'n hanfodol ymdrin â **gwastraff** mewn modd cywir os am amddiffyn ein hamgylchedd ac osgoi creu problemau i'n plant a phlant ein plant. Mae claddu gwastraff yn y ddaear yn achosi llygredd i'r tir, dŵr a'r awyr. Mae angen cynyddu ailgylchu, ailddefnyddio a chompostio gwastraff i osgoi hyn.

Mae'r newidiadau i drefniadau casglu sbwriel pob tair wythnos a chasglu gwastraff bwyd a deunyddiau ailgylchu yn wythnosol, wedi arwain at gynydd mewn ailgylchu. Mae newidiadau i'r drefn o gasglu gwastraff gardd a cherbydau casglu i rai llai niweidiol i'r amgylchedd hefyd yn cael ei weithredu.


### Ailgylchu Gwynedd



Mewn cyfnod o 3 mis rydym yn gwneud dros filiwn o gasgliadau gwastraff o dai Gwynedd. O'r casgliadau yma mae rhai yn cael eu methu, ac er bod y ffigur yma yn isel (llai na 1%) rydym yn cydnabod bod y methiant yn bwysig i'r trigolyn. Mae'r Adran erbyn hyn yn casglu gwybodaeth i ddeall pam fod hyn yn digwydd a sicrhau trefniadau newydd ar gyfer gwella perfformiad ac ymateb i broblemau perthnasol i gasgliadau gwastraff. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau uchelgeisiol i bwrras lleihau tirlenwi a chynyddu ailgylchu. Byddai'r Cyngor yn wynebu dirwyon sylweddol os nad fyddwn yn eu cyrraedd.

**Byddwn yn ceisio adeiladu ar y cynnydd mewn ailgylchu gan drigolion a busnesau er mwyn gwella ein perfformiad ailgylchu eto i'r dyfodol.**

### Canran lefelau ailgylchu / compostio masnachol





Mewn ymateb i gwynion am flerwch a sbwriel yn cael ei ollwng neu ei golli o gerbydau casglu sbwriel ac ailgylchu drwy waith ein gweithlu, mae nifer o gamau wedi eu rhoi yn eu lle er mwyn gwella'r sefyllfa yma. Mae hyn yn cynnwys defnyddio cerbydau 'Romaquip' yn lle cerbydau "Kerbside", sy'n golygu nad oes tipio uwchben uchder y cerbydau ac felly'n fwy diogel i'r gweithlu. Mae defnydd o'r cerbydau newydd hefyd yn golygu lleihad yn y nifer o ddeunyddiau sy'n cael eu gollwng o'r cerbydau o ganlyniad nad oes deunyddiau yn cael eu cadw yn rhydd wrth symud o eiddo i eiddo sy'n arwain at well trefn wrth wasanaethu'r cartgylchu. Byddwn yn parhau i ymateb i bryderon ein trigolion ac yn sicrhau gwelliant yn y sefyllfa drwy ganolbwyntio ar y cerbydau llai.

Rydym hefyd yn parhau i gydweithio ar brosiect Delwedd Bangor sydd yn symud yn ei flaen yn dda. Partneriaeth sydd wedi ei sefydlu yma gyda chynrychiolaeth o'r Cyngor Dinas, BID Bangor, Prifysgol Bangor a sawl mudiad arall. Prif ffocws y grŵp yw gwella delwedd y Ddinas. Byddwn yn dysgu o'r gwaith yma ym Mangor ac yna byddwn yn cyflwyno i ardaloedd eraill. Rydym hefyd yn cydweithio â grŵp yn Nyffryn Nantlle er mwyn gwella edrychiad yr ardal. Byddwn yn dysgu o ein profiadau o weithio gyda phrosiect Bangor wrth fwrw ymlaen gyda'r gwaith yma.

## Asedau Bwrdeistrefol



Rydym yn rheoli Amlogfa Bangor ac 16 o fynwentydd prysuraf a mwyaf y Sir.

**Mae'r gwasanaeth profedigaeth yn un hollbwysig i drigolion a byddwn yn sicrhau gwasanaeth profedigaeth sy'n briodol a pharchus.**


## Teledu Cylch Cyfyng

Er mwyn diogelu a gwarchod y gymuned rydym yn gofalu am rwydwaith o **gamerâu Teledu Cylch Cyfyng (CCTV)** ym manau poblog y Sir sef Bangor, Caernarfon a Phwllheli. Mae'r gwasanaeth yn denu incwm gan eraill ond nid yw hyn yn ddigonol i gwrdd â chostau'r ddarpariaeth.



Y llynedd cafodd dros 3,000 o ddigwyddiadau troseddol a gwrthgymdeithasol eu monitro.

**Byddwn yn parhau gyda'r gwaith o ddiogelu'r gymuned.**



Toiledau Cyhoeddus



Toiledau Cymunedol

Mae'r Adran yn gyfrifol am gynnal a glanhau **toiledau cyhoeddus** yn y sir a rheoli cynllun ar gyfer darparu toiledau eraill (toiledau cymunedol) sydd ar agor i'r cyhoedd gan fusnesau a grwpiau yn y gymuned. Nid oes rhaid i'r Cyngor ddarparu toiledau cyhoeddus ac ni roddwyd blaenoriaeth i'r ddarpariaeth gan drigolion yn yr ymarferiad Her Gwynedd. Gyda'r arian yn brin, rhaid oedd dod o hyd i ffyrdd eraill o'u darparu ac erbyn yr ydym wedi partneriaethu gyda Cyngorau Tref a Chymuned y Sir.



## Trwy bartneriaethu, byddwn yn ceisio cadw toiledau cyhoeddus drwy'r sir ar agor.



Mae'r Adran yn gyfrifol am gynnal **ymylon ffyrdd a thiroedd agored** er mwyn gwella ansawdd amgylchedd ein trefi a'n pentrefi a'u gwneud yn fwy diogel i drigolion. Er ein bod yn torri gwair yn llai aml, rhaid gofalu am ddiogelwch y cyhoedd. Mae'r Adran yn torri gwair i adrannau eraill o'r Cyngor, ac i sefydliadau eraill e.e. ysgolion, canolfannau hamdden, cartrefi preswyl a Chartrefi Cymunedol Gwynedd.

## Byddwn yn hybu bywyd gwyllt gan gadw'n trefi a'n pentrefi yn daclus a diogel.



Meysydd gydag offer  
i blant ifanc

4

Meysydd gydag offer  
i blant hŷn yn ogystal

Mae pob plentyn, rhiant a gofalwr plant yn gwerthfawrogi **meysydd chwarae** ac rydym yn cynnal 131 ohonynt ledled y sir. Mae offer chwarae yn ddrud iawn ac mae'r arian ar gyfer cael offer newydd yn hynod brin.



## Byddwn yn ceisio cynnal meysydd chwarae fel eu bod yn ddiogel i blant a phobl ifanc gael eu mwynhau.

### Rhaglen Digwyddiadau 2017/18

16 Ymgyrch glanhau sbwriel / tipio slei bach gyda'r gymuned

11 Sioe deithiol amgylchedd glân mewn ysgolion

8 Prosiect atal baw cŵn yn y gymuned neu ysgolion

22 Ymweliad hybu ailgylchu mewn ysgolion

Mae'r Adran yn gyfrifol am gynnal **digwyddiadau addysgu** a chodi ymwybyddiaeth plant i ailgylchu gwastraff ac atal sbwriel, graffiti, gwaredu slei bach a phroblemau baw cŵn. Rydym hefyd yn trefnu ymgyrchoedd gwella'r amgylchedd leol gydag ysgolion a grwpiau cymunedol. Mae hwn yn waith pwysig os am newid ymddygiad er mwyn hyrwyddo amgylchedd glân a diogel heddiw ac i'r dyfodol.



**Byddwn yn parhau gyda'r rhaglen o ddigwyddiadau a'r ymgyrchoedd hyn drwy'r Sir.**





# Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd



# Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd



Ein pwrpas yw sicrhau fod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu rhag niwed; yn profi sefydlogrwydd yn eu bywyd ac yn cael y cyfleoedd gorau o ran eu hiechyd a'u lles.

Mae sawl tîm o fewn ein gwasanaeth ac rydym yn gweithio o fewn 3 haen o angen:

1. **Ymyrraeth Gynnar**
2. **Anghenion gofal a chefnogaeth, diogelu a gofal**
3. **Timau Arbenigol**

Yng Ngwynedd rydym yn credu y dylai pob plentyn a pherson ifanc gael y cyfle i gyrraedd eu llawn botensial. Rydym yn cydnabod bod plant yn datblygu orau pan maent yn cael eu cefnogi i dyfu a llwyddo o fewn eu teuluoedd a'u cymunedau. Rydym hefyd yn cydnabod bod cynnig ymyrraeth yn gynnar yn hanfodol er mwyn helpu plant a'u teuluoedd i ffynnu ac i leihau'r angen am wasanaethau mwy dwys.

Er mwyn diwallu anghenion plant a'u teuluoedd yn well, mae angen i ni weithio mewn ffordd integredig. Rydym felly am ddatblygu'r ffordd yr ydym yn cynnig ac yn darparu gwasanaeth i deuluoedd drwy fabwysiadu Strategaeth Cefnogi Teuluoedd.

## Y Strategaeth Cefnogi Teuluoedd

## Blaenoriaeth Gwella 3



Pwrpas y Strategaeth Cefnogi Teuluoedd yw datblygu gwasanaethau llawer mwy integredig o fewn y Cyngor a gyda'n partneriaid gan ganolbwyntio ein hymyraethau ar adnabod anghenion yn gynnar, targedu teuluoedd yn gywir a chynnig gwasanaethau i leihau'r angen am ymyrraeth fwy dwys.

Mae gwaith wedi ei gynnal i adnabod beth yw'r galw am gefnogaeth i deuluoedd ar draws adrannau'r Cyngor yn ogystal â mapio pa ddarpariaethau sydd ar gael i gefnogi teuluoedd ar draws Gwynedd yn barod a sut mae pobl yn cael mynediad i'r gwasanaethau yma. Mae'r gwaith yma yn gwella ein dealltwriaeth o'r sefyllfa bresennol, ac yn ein harwain i gynllunio sut y byddwn yn ymateb i'r anghenion ar y cyd gyda'n partneriaid.

Byddwn yn ailedrych ar ein trefniadau presennol yn y maes yma er mwyn gwneud mwy o'r hyn sy'n gweithio i gyflawni anghenion plant a'u teuluoedd. Bydd cynnig cefnogaeth i rai teuluoedd cyn i faterion ddwysáu yn hanfodol er mwyn helpu plant a theuluoedd i ffynnu ac i leihau'r angen am wasanaethau mwy dwys.

Byddwn yn cytuno gweledigaeth glir gyda phartneriaid allweddol megis y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'n cymunedau a'r Trydydd Sector er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i'r plant, pobl ifanc a'r teuluoedd hynny sydd angen ein cymorth.



Yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 a gyhoeddwyd fis Mawrth 2018 roeddem wedi cynllunio prosiect **'Trechu Tlodi'** er mwyn rhoi cefnogaeth i bobl Gwynedd ymdopi efo newidiadau yn y maes lles a budd-daliadau (Credyd Cynhwysol yn bennaf) ac i roi cyfleoedd gwaith i bobl sydd ddim yn rhan o'r farchnad lafur. Llwyddodd y prosiect hwn i gynyddu lefelau incwm niferoedd o deuluoedd a bu ymgyrchoedd megis 'Call efo'r Geiniog' yn help i leddfu rhywfaint ar effaith symud i'r trefniadau budd-daliadau newydd.

Gyda Chredyd Cynhwysol bellach yn weithredol yng Ngwynedd ers Rhagfyr 2018 nid oes angen i ni roi gymaint o ffocws ar ymateb i'r newid hwnnw. Mae yna gymaint o waith sydd angen ei wneud yn y maes trechu tloidi er mwyn ceisio lleddfu effaith tloidi ar bobl yng Ngwynedd, felly o 2019 ymlaen byddwn yn taflu'r rhwyd yn ehangach ac yn canolbwyntio ar y maes ataliol a'r gefnogaeth y mae holl wasanaethau'r Cyngor yn eu cynnig i drigolion y sir er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu.

Mae angen mwy o gefnogaeth ar rai trigolion ac mae'r Cyngor yn buddsoddi, darparu a chynllunio nifer o wasanaethau ac ymyraethau sy'n mynd i'r afael â chefnogi pobl gyda materion amrywiol megis: anawsterau riantu a magu teulu, cael a chynnal cartref, cynnal perthnasau iach, delio gyda cham-ddefnyddio sylweddau ac alcohol, trais, troseddu ac effeithiau hynny, byw'n iach ac actif, incwm annigonol a diffyg gwaith, methu aros mewn addysg, diffyg cymwysterau a sgiliau sylfaenol, gofalu, heneiddio, unigrwydd a diffyg cysylltiadau cymdeithasol.

Yn ystod cyfnod nesaf Cynllun y Cyngor byddwn yn dod i gytundeb ar y cyfeiriad, sgôp a rhaglen waith **'Cefnogi Llesiant Pobl'** er mwyn sicrhau ein bod ni'n gwneud y gorau o'r adnoddau sydd gennym i ddiwallu anghenion yn gynnar, cyd-gynllunio gwasanaethu ac ymyraethau priodol, ac ystyried effeithlonrwydd ein trefniadau darparu presennol.

## Ymyrraeth Gynnar

Mae yna wasanaethau sefydledig yng Ngwynedd lle ceir tystiolaeth o lwyddiant ac rydym eisoes wedi datblygu sawl prosiect ataliol effeithiol. Mae'r Cyngor yn comisiynu dwy raglen wrthdlodi fawr a ariennir gan grant, sef Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf, sy'n cefnogi plant a'u teuluoedd

## Dechrau'n Deg

Ein pwrpas yw gwneud gwahaniaeth pendant i gyfleoedd bywyd plant o dan 4 oed mewn ardaloedd penodol yng Ngwynedd drwy gynnig pecynnau rhiantu, cadw cyfrif, coginio, chwarae, gofal dydd a darpariaethau cylchoedd meithrin.

Yn ystod y flwyddyn 2017/18 deliodd panel cyfeiriadau Dechrau'n Deg gyda 437 o gyfeiriadau am wasanaeth. Mae hyn yn cymharu â 350 o gyfeiriadau yn ystod 2016/17. Dosbarthwyd nifer o'r pecynnau ymyrraeth i'r timau amlasiantaethol i'w gweithredu, boed yn staff iechyd, gofal plant, cefnogi teuluoedd neu ddatblygiad iaith gynnar.



**Canran o deuluoedd sydd wedi adrodd cynnydd yn dilyn derbyn gwasanaeth gan y Tîm o Amgylch y Teulu**

**2015/16**  
**25%**

**2016/17**  
**95%**

**2017/18**  
**92%**



## Tîm o Amgylch y Teulu

Ein pwrpas yw ymyrryd yn gynnar pan fo problemau o fewn teuluoedd yn dod i'r amlwg, ond mae hyn yn digwydd yn wirfoddol gyda chaniatâd y teulu. Byddwn yn helpu drwy ymateb i anghenion a darparu gwasanaethau priodol.

Rydym wedi derbyn 649 o gyfeiriadau i'r Tîm o Amgylch y Teulu yn ystod 2017/18 ac mae canran uchel o deuluoedd yn nodi fod gwahaniaeth cadarnhaol i'w bywydau yn dilyn derbyn ymyrraeth.

## Ardaloedd 'Plant yn Gyntaf'

Rydym yn treialu ardaloedd 'Plant yn Gyntaf' yn ardal Maesgeirchen, Bangor, er mwyn helpu i greu gwasanaethau mwy integredig ac er mwyn lleihau'r nifer o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a meithrin cryfder cymeriad ein plant a'n pobl ifanc. Megis cychwyn ar y gwaith yr ydym ond mae'r Cynllun Rhoi Plant yn Gyntaf yn flaenoriaeth i'r Adran.

## Gwasanaethau Ieuencid

Mae cael y cyfle i gymdeithasu, i gymryd rhan mewn gweithgareddau a pharhau i ddysgu a datblygu sgiliau newydd y tu allan i'r ysgol yn bwysig i bobl ifanc y Sir. Ond, oherwydd y pwysau sydd ar adnoddau'r Cyngor a'r angen i foderneiddio i gyd-fynd â dyheadau pobl ifanc y Sir, rydym wedi newid sut mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaeth ieuencid. Rydym felly yn ystod 2017/18 wedi sefydlu gwasanaeth ieuencid newydd ar draws Gwynedd.

Ein nod yw parhau i gefnogi pobl ifanc i ddysgu a datblygu sgiliau i ddibenion personol, emosiynol, cymdeithasol ac addysgol.


## Anghenion gofal a chefnogaeth, diogelu a gofal

Mae'r mwyafrif o blant a phobl ifanc yng Ngwynedd yn byw bywydau hapus, diogel ac yn mwynhau cyfleoedd i ddysgu ac i chwarae. Fodd bynnag, mae rhai plant a'u teuluoedd angen cyngor a chymorth mwy ffurfiol ar adegau.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am arwain, ymchwilio a rheoli ymyraethau diogelu plant y sir. Rydym yn gweithio'n agos gydag ysgolion, yr Heddlu, y Bwrdd Iechyd, meddygon, ac ymwelwyr iechyd ayyb i gyflawni'r cyfrifoldeb statudol yma. Mae'r cyfrifoldeb i ddiogelu yn un o gyfrifoldebau pwysicaf i'r Cyngor.


Mae'r **Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth** yn cynnal safonau uchel wrth ymateb yn amserol i gyfeiriadau all fod yn rhai diogelu, ac i gyfeiriadau am ofal a chefnogaeth. Er mwyn diogelu plant a phobl ifanc rydym yn ymateb heb oedi i gyfeiriadau. Pan fo'r cyfeiriadau hynny yn cynnwys pryderon am honiadau o gamdriniaeth, rydym angen ymchwilio i'r honiadau yn unol â'r Canllawiau Amddiffyn Plant. Byddwn yn gwneud penderfyniad ar bob achos o fewn pedair awr ar hugain er mwyn penderfynu ar y ffordd orau i ymateb.

Mae'r **Timau Gwaith Cymdeithasol** yn cynnig cefnogaeth ac ymyrraeth ddwys i blant a'u teuluoedd. Mae gweithwyr cymdeithasol yn gweld plant a'u teuluoedd yn rheolaidd ac yn cadw cysylltiad da gyda hwy gan fod yn effro i faterion o risg a lleihau risgiau i blant a phobl ifanc. Rydym yn sicrhau fod adnoddau ar gael i'w cefnogi a bod eu hanghenion yn glir i ni. Mae cynlluniau yn eu lle wedyn ar gyfer ymateb i'w anghenion. Ar adegau, rydym yn cyfeirio ymlaen i dimau sydd yn cynnig ymyrraeth fwy arbenigol.




Rydym yn awyddus iawn i ddatblygu ein hymyraethau gyda theuluoedd a bydd y Strategaeth Cefnogi Teuluoedd a'r bwriad o weithio yn fwy integredig yn ein helpu ni i gynnig ymyrraeth yn gynt i deuluoedd i sicrhau ein bod yn diwallu eu hanghenion cyn i broblemau waethygu. Rydym hefyd yn cynnal ymchwiliadau amddiffyn plant, ac weithiau mae rhai teuluoedd angen cefnogaeth ddwys iawn ac mae angen i ni ddod â phlant sydd mewn perygl i ofal y Cyngor.

Mae plant yn dod i'n gofal fel arfer o dan amgylchiadau anodd iawn, ac rydym yr un mor uchelgeisiol ar gyfer y plant yma ag y byddai unrhyw un ar gyfer ei blentyn ei hun. I sicrhau fod plant a phobl ifanc yn profi sefydlogrwydd rydym yn cefnogi plant i fyw gartref gyda chefnogaeth lle bo hynny'n bosibl. Rhoddir pwyslais hefyd ar geisio lleoli plentyn gydag aelodau o'i deulu estynedig neu ffrindiau'r teulu. Lle nad yw hynny'n bosibl, lleolir y plentyn gyda gofawyr maeth cofrestredig, neu ar adegau bydd rhai plant a phobl ifanc angen unedau preswyl arbenigol i gwrdd ag anghenion penodol.



Rôl y **Tîm Maethu** yw sicrhau fod gennym ddigon o rieni maeth i ddiwallu anghenion plant sydd yn methu byw gartref. Rydym yn asesu a chefnogi gofawyr maeth er mwyn iddynt allu cynnig y gefnogaeth angenrheidiol i blant sy'n dod i'n gofal, ac mae hyn yn flaenoriaeth uchel i'r Adran. Rydym yn ymwybodol bod plant sydd mewn sefyllfaoedd sefydlog yn cael y cyfle gorau i brofi'r ffiniau hynny sydd yn allweddol i ddatblygiad da. Mae hyn yn gosod y sylfaen ar gyfer cyflawni'r canlyniadau gorau iddynt.

Tra bo plentyn yng ngofal y Cyngor, ein cyfrifoldeb yw darparu cynllun gofal clir ar ei gyfer sydd yn cael ei adolygu yn rheolaidd er mwyn sicrhau fod y penderfyniadau iawn yn cael eu gwneud er lles y plentyn ac nad oes unrhyw oediad yn ei gynllun.



Mae'r **Tîm Ôl-16** yn cefnogi pobl ifanc sydd un ai angen eu diogelu neu angen gofal a chefnogaeth, ac mae'n cynnwys pobl ifanc sydd wedi gadael gofal hyd at 25 oed. Mae'r gweithwyr yn gweld y bobl ifanc yn rheolaidd ac yn annog iddynt gadw cysylltiad da gyda'u teuluoedd ac yn datblygu eu sgiliau i fyw yn annibynnol. Mae'r Cynllun "Pan Fydda i'n Barod" yn cynnig opsiwn i bobl ifanc nad ydynt yn barod i symud o'u lleoliad maeth ar eu pen-blwydd yn 18 oed, i aros hyd nes eu bod nhw 'n barod i wneud hynny.

### Y Timau Arbenigol

Pwrpas y **Tîm Trothwy Gofal** yw lleihau anghenion drwy gynnig ymyrraeth a chefnogaeth ddwys i blant sydd ar fin dod i ofal, neu sydd newydd ddod i ofal, neu i ddychwelyd plant adref o ofal yn ddiogel. Wrth gydweithio gyda'r plant a'u teuluoedd mae anghenion iechyd corfforol, meddyliol a lles emosiynol plant a'u teuluoedd yn cael eu diwallu



Mae **Tîm Derwen** yn darparu gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc anabl a gwael a'u teuluoedd. Rydym yn darparu cymorth i bobl ifanc anabl, i'w helpu i gael eu cynnwys mewn gweithgareddau a bywyd cymunedol a chynyddu sgiliau i'w gwneud yn fwy annibynnol. Rydym yn darparu cyfnodau o ofal seibiant drwy wasanaeth cefnogol i nifer fawr o deuluoedd. Mae'r tîm yn dîm amlddisgyblaethol ac yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd. Mae gennym weithwyr cymdeithasol, nyrsys a seicolegwyr yn gweithio yn y tîm ac oherwydd ystod eang o anghenion cymhleth mae ein gweithwyr angen meddu ar sgiliau arbennig i ymateb i anghenion y plant a'u teuluoedd.

Mae'r **Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSS)** yn cynnig ymyrraeth arbenigol i deuluoedd ble mae camddefnydd o alcohol a chyffuriau gan y rheini a gofalwyr yn ffactor o risg i'r plant. Oherwydd natur ddwys yr ymyrraeth, mae'r gwasanaeth wedi ei flaenoriaethu ar gyfer y teuluoedd ble mae'r risg i blant yn uchel.



Pwrpas y **Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid** yw gweithio yn ddwys gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu i'w hatal rhag aildroseddu. Rydym yn cynnig ystod eang o ymyrraethau arbenigol ac yn gweithio gyda'r teulu cyfan er mwyn dod o hyd i ddatrysiadau i helpu'r plant a phobl ifanc rhag aildroseddu. Rydym hefyd yn gweithio yn ataliol gyda phlant a phobl ifanc i'w hatal rhag troseddu yn y lle cyntaf. Byddwn yn gwneud hyn mewn partneriaeth ag ysgolion ac o fewn cymunedau'r unigolion. Rydym yn dîm amlasiantaethol ac yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Heddlu, y Bwrdd Iechyd, Gyrfa Cymru, Tai Gogledd Cymru ac eraill.

### Sut rydym yn sicrhau ansawdd Diogelu




Er mwyn rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod ein trefniadau diogelu yn gadarn mae gennym **Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd** sydd yn canolbwyntio ar agweddau gwahanol ar y maes pwysig hwn. Rydym yn gweithredu'r dyletswyddau statudol i adolygu achosion Plant mewn Gofal, ac yn rhoi arweiniad ar amddiffyn plant, gan gadeirio Cynadleddau Achos a Chyfarfodydd Strategaeth lle mae honiadau yn erbyn pobl broffesiynol.



Byddwn yn cynnal cynadleddau amddiffyn plant mewn partneriaeth â'r teuluoedd a gweithwyr eraill. Mae ymyrryd gyda theulu i ddiogelu'r plentyn yn gallu bod yn anodd iddynt. Yn aml, nid ydynt yn croesawu'r cymorth yma ac yn aml yn cydweithredu trwy orfodaeth. Ein nod yw sicrhau fod llais y plentyn yn fwy amlwg yn y trafodaethau a bod teuluoedd yn cymryd rhan fwy effeithiol yn eu cynllun diogelu.

Mae Swyddogion Adolygu Annibynnol yn monitro cynlluniau gofal pob plentyn a pherson ifanc sydd mewn gofal. Maent yn sicrhau fod y cynlluniau gofal wedi rhoi ystyriaeth briodol a phwysau i ddymuniadau a theimladau'r plentyn, a bod y plentyn yn deall ei sefyllfa yn llawn o ystyried ei oed a'i ddealltwriaeth. Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod buddiannau'r plentyn yn cael eu diogelu trwy gydol eu hamser mewn gofal. Maent yn gwrandao ar blant, gwneud yn siŵr eu bod yn hapus gyda'u cynlluniau, sicrhau bod eu barn yn cael llais a bod eu cynlluniau yn cael eu dilyn, a bod yn ddigon grymus i wneud rhywbeth am y peth os nad ydynt yn cael eu dilyn.







# Adran Amgylchedd



# Adran Amgylchedd



Mae'r Adran yn rheoli trawsdoriad eang o feysydd o fewn y tri Gwasanaeth penodol, sef:

- Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
- Eiddo
- Trafnidiaeth a Chefn Gwlad

## Gwasanaeth Cynllunio

**Pwrpas y Gwasanaeth Cynllunio yw hwyluso a rheoli datblygiadau cynaliadwy er budd ein cymunedau, yr economi a'r amgylchedd o fewn ardal awdurdod cynllunio Gwynedd (nad yw'n cynnwys ardal y Parc Cenedlaethol).**

Er mwyn cyrraedd y nod yma, mae sawl elfen i'r gwaith:

Ers mabwysiadu'r **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd** (Gwynedd ac Ynys Môn) mae'r gwaith o baratoi 8 (allan o gyfres o 17) o Ganllawiau Cynllunio Atodol yn mynd rhagddo. Bydd y canllawiau yn rhoi cig ar esgyrn polisiau cynllunio, ac yn atgyfnerthu gallu'r Cynllun i roi sail gadarn i wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio i'r dyfodol. Mae'r trefniadau ar gyfer monitro'r Cynllun yn flynyddol hefyd yn cael eu paratoi er mwyn asesu os yw strategaeth a pholisiau'r Cynllun yn gweithio.

Rydym hefyd yn rhoi arweiniad ar faterion polisi cynllunio i Awdurdod Cynllunio Gwynedd, Awdurdod Cynllunio Cyngor Sir Ynys Môn ac i sefydliadau allanol a'r cyhoedd.

Yn ystod 2017-18 derbyniwyd dros 2,300 o ymholiadau cynllunio cyffredinol neu ymholiadau cyn cyflwyno cais.

Rydym yn gwneud penderfyniadau ar **geisiadau cynllunio** i ddatblygu tir ac yn ymdrin ag oddeutu 1,100 o geisiadau cynllunio'n flynyddol, gyda dros 85% o geisiadau'n derbyn caniatâd.

Mae ceisiadau'n cymryd 64 diwrnod i'w penderfynu ar gyfartaledd gydag oddeutu 82% yn cael eu penderfynu o fewn yr amser gofynnol.

Yn ddiweddar caniatwyd ddatblygiadau sylweddol sy'n cynnwys ysgolion newydd, is-orsaf drydan ac unedau dofednod. Caniatwyd hefyd nifer uchel iawn o geisiadau am ddatblygiadau sy'n rhoi cyfle i fusnesau presennol i ehangu ac i fusnesau newydd sefydlu, yn enwedig yn y maes atyniadau twristiaeth a busnesau cysylltiedig. Mae'r Gwasanaeth Cynllunio hefyd yn rhan allweddol o broses ceisiadau Gorchymyn Caniatad Datblygu (DCO) Wylfa Newydd a phrosiect Cysylltu Gogledd Cymru y Grid Cenedlaethol, yn ogystal â chynghori ar nifer o brosiectau mawr eraill sydd gan y Grid Cenedlaethol o fewn y sir.



Canran ein cwsmeriaid oedd yn fodlon neu'n fodlon iawn â lefel y gwasanaeth

Rydym yn cymryd **camau gorfodaeth** ar ddatblygiadau sydd heb gael caniatâd cynllunio gan ymdrin ag oddeutu 400 o achosion yn flynyddol. Fe ymchwilyd i 75% o'r achosion gorfodaeth o fewn 84 diwrnod ac mae nifer o rybuddion gorfodaeth wedi eu cyflwyno.

Mae'r Adran yn gyfrifol am fonitro gwariant cyfraniadau ariannol Cynllunio [cytundeb 106] o fewn ardal yr ACLI sydd yn gallu bod yn swm sylweddol.

Mae'r Adran hefyd yn ymgymryd â rhaglen flynyddol o waith rhagweithiol yn unol ag amcanion y Strategaeth Gorfodaeth, sydd yn cynnwys monitro'n rhagweithiol, yn ogystal â gweinyddu, cynnal, diweddarau ac adolygu cofrestr gorchymnion diogelu coed y Cyngor.

## Gwarchod y Cyhoedd


**Pwrpas y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yw gwarchod y cyhoedd mewn perthynas ag amrediad o faterion amgylcheddol ac iechyd - megis ansawdd aer, sŵn, y gadwyn fwyd ac alcohol yn ogystal â busnesau a masnachwyr ffug sy'n anfwriadol neu'n fwriadol yn torri safonau derbyniol a nodir mewn deddfwriaeth.**

Er mwyn cyrraedd y nod yma, mae sawl elfen i'r gwaith:-

### Rheolaeth Llygredd

Rydym yn sicrhau nad yw busnesau neu unigolion yn llygru'r aer, y tir, neu ddyfroedd gyda sylweddau neu sŵn annymunol drwy ymateb ac ymchwilio i gwynion llygredd a niwsans statudol.

Rydym hefyd yn asesu diogelwch dŵr yfed o darddiad preifat ac ansawdd dŵr ymdrochi a gorfodi gwelliannau fel bo angen - 730 sampl dŵr yfed a 35 sampl dŵr ymdrochi dros y flwyddyn ddiwethaf.




Rydym yn archwilio a monitro **prosesau diwydiannol** ar 47 safle a rheoleiddio allyriadau diwydiannol i'r aer (llosgyddion gwastraff olew, malurwur symudol, peiriannau sment).

Rydym hefyd yn **claddu'r meirwon** lle nad oes teulu - gyda 5 o achosion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

## Trwyddedu

Rydym yn trwyddedu'r meysydd â ganlyn er mwyn gwarchod defnyddwyr, busnesau a chymunedau Gwynedd rhag unrhyw effeithiau andwyol.

- Trwyddedu alcohol ac adloniant (yn cynnwys digwyddiadau) a gamblo.
- Trwyddedau anifeiliaid yn cynnwys siopau anifeiliaid anwes, sefydliadau marchogaeth a sefydliadau bridio cŵn.
- Cerbydau, gyrwyr a gweithredwyr taccis.
- Safleoedd carafanau, a thrwyddedu delwyr metel sgrap.
- Sectorau o fusnes all fod yn beryglus.





## Lles

Rydym yn sicrhau fod busnesau yng Ngwynedd yn cwrdd â gofynion hylendid bwyd, safonau bwyd ac iechyd a diogelwch yn y gweithle drwy ymateb i gwynion, cynnal archwiliadau rheolaidd a chynnal ymgyrchoedd addysgol.

Rydym yn gwarchod trigolion ac ymwelwyr i Wynedd rhag afiechydon heintus a chemegau niweidiol.


Rydym hefyd yn ymchwilio i ddamweiniau ac achosion o glefyd heintus yn brydlon fel bod unrhyw risgiau pellach i unigolion yn cael eu dileu.



## Safonau Masnach

Rydym yn sicrhau fod busnesau a masnachwyr yng Ngwynedd yn cwrdd â gofynion diogelwch cynnyrch (gan gynnwys nwyddau a chyfyngiad oed), masnach deg, gwarchodaeth defnyddwyr, iechyd a lles anifeiliaid a bwydydd anifeiliaid.

Rydym yn gwneud hyn drwy gyfuniad o ymateb i gwynion, cynnal archwiliadau rheolaidd, cynnal ymgyrchoedd addysgol a thargeddu masnachwyr problemau.



## Gwasanaeth Eiddo

Pwrpas y Gwasanaeth Eiddo yw sicrhau fod gennym eiddo sy'n addas i ddarparu gwasanaethau'r Cyngor ac i reoli'r asedau eiddo hynny.

Er mwyn cyrraedd y nod yma, mae sawl elfen i'r gwaith:-

### Diogelwch Eiddo a Chynnal a Chadw

Rydym yn sicrhau fod ein **adeiladau yn ddiogel ac mewn cyflwr da** i'w defnyddio i ddarparu gwasanaethau i drigolion Gwynedd drwy sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r llu o gyfrifoldebau statudol a sicrhau fod gennym raglen cynnal a chadw effeithiol.




Ysgol Newydd Bro Llifon

### Datblygu Eiddo

Pwrpas yr Uned yw datblygu adeiladau newydd neu addasu ac adnewyddu adeiladau presennol i wella'r gwasanaeth a roddir i drigolion Gwynedd.

Yn ystod 2017-18, roedd 97% o'n cwsmeriaid yn hapus gyda'r gwaith a ddarparwyd gan y Tîm Datblygu Eiddo.




## Stadau a Chyfleusterau

Ein pwrpas yw sicrhau fod y Cyngor yn derbyn y gwerth gorau wrth reoli ei bortffolio asedau eiddo a sicrhau mai dim ond yr asedau hynny sydd wirioneddol eu hangen arnom sydd yn cael eu cadw.



### Gwasanaeth Swyddfa


Mae'r Tîm Swyddfeydd yn darparu gofod swyddfa ar gyfer oddeutu 1,500 o staff mewn 7 adeilad sylweddol, gan gynnwys yr holl wasanaethau perthnasol y mae hynny yn ei olygu fel gofalu a glanhau a threfniadau diogelwch ar gyfer yr adeiladau a'u defnyddwyr.



Rydym hefyd yn darparu **gwasanaeth glanhau** ar gyfer adeiladau eraill a ddefnyddir i gynnal gwasanaethau rheng flaen y Cyngor. Rydym hefyd yn ddarparwr i gwmnïau allanol megis Cartrefi Cymunedol Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri.



## Uned Cadwraeth Ynni



Yn dilyn mabwysiadu ein Cynllun Rheoli Carbon, mae'r Tîm Ynni yn gweithredu nifer o brosiectau i **leihau allyriadau carbon**.

Mae gwaith y tîm i leihau ein defnydd wedi creu arbedion refeniw blynyddol o dros £900,000 i'r Cyngor.

Mae rhaglen i godi ymwybyddiaeth ymysg plant ysgol wedi bod yn rhan bwysig o'r gwaith hwn gan ddefnyddio cymeriadau megis Sbarci a Fflic.



## Rheoli a Gorfodaeth Parcio

Mae'r tîm parcio yn gyfrifol am **reoli dros 100 o feysydd parcio** ledled y sir ac yn gyfrifol am orfodaeth parcio ar ein strydoedd ac yn ein meysydd parcio. Nod y tîm yw defnyddio pwerau gorfodaeth yn rhesymol a theg er mwyn sicrhau parcio a llif traffig diogel i'r cyhoedd.

Mae pryder yn ardal Caernarfon a Dyffryn Ogwen am y diffyg llefydd parcio i bobl leol. Roedd gan drigolion ardal Penllyn bryder am y diffyg llefydd parcio i weithwyr ar stad ddiwydiannol Y Bala, sydd bellach wedi ei ddatrys. Ni fu i ni lwyddo i ymateb i'r pryderon hyn yn ardaloedd Caernarfon a Dyffryn Ogwen yn 2018, a byddwn yn ymchwilio ac yn edrych ar opsiynau er mwyn cyfarch y broblem.

## Rheoli Pla

Rydym yn cynnig gwasanaeth **rheoli a difa pob math o bla** drwy gontractau a thrwy ymateb i alwadau dyddiol gan y cyhoedd am gymorth i reoli pla yn eu cartrefi neu fusnesau. Rydym hefyd yn cyflawni'r gwasanaeth statudol i ofalu am gŵn strae.



## Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad

Mae pedwar maes gwaith o fewn y Gwasanaeth:


- Traffig, Prosiectau a Gwaith Stryd
- Cludiant Integredig
- Diogelwch y Ffyrdd
- Cefn Gwlad


## Traffig, Prosiectau a Gwaith Stryd

Ein pwrpas yw galluogi i'r cyhoedd ddefnyddio ffyrdd Gwynedd mewn modd diogel a dirwystr.

Rydym yn gwneud hyn drwy asesu safleoedd ar y rhwydwaith priffyrdd er mwyn adnabod unrhyw beryglon posibl a gweithredu datrysiadau os oes angen. Gall y datrysiadau fod ar ffurf creu gorchmynion traffig (cyfyngiadau cyflymder neu barcio) neu ymgymryd â chynlluniau arwyddo a marcio ffyrdd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd am sefyllfaoedd peryglus.

Rydym hefyd yn gyfrifol am sicrhau fod gweithiau arfaethedig gan ddatblygwyr a allai effeithio ar y rhwydwaith priffyrdd yn cael eu gwneud yn ddiogel ac yn unol â'r safonau cywir. Mae hyn yn golygu rhoi cyngor i ddatblygwyr a rhoi sylwadau ar geisiadau cynllunio a dderbynnir gan y Cyngor.





Rydym hefyd yn rheoli prosiectau gwella ffyrdd amrywiol ledled y sir.

Rydym bob amser yn edrych am gyfleoedd i ariannu ein cynlluniau trafndiaeth a diogelwch o ffynonellau allanol ac yn aml yn llwyddiannus yn denu arian grant o wahanol ffynonellau ar eu cyfer.

## Diogelwch y Ffyrrd


Rydym yn ceisio **lleihau anafiadau a damweiniau** ar ein ffyrdd drwy ymgymryd â mentrau priodol (lleol, rhanbarthol a chenedlaethol) gan gynnwys mesurau peirianyddol, rhaglenni addysgol, hyfforddiant, cyhoeddusrwydd a gorfodaeth.

Codwyd pryderon ynghylch diogelwch y ffyrdd tu allan i ysgolion cynradd ac uwchradd Penygroes sy'n gwasanaethu ardal Dyffryn Nantlle. Yn yr un modd, codwyd pryderon ynghylch diogelwch y ffyrdd tu allan i rai o'r ysgolion yng Nghaernarfon. Rydym eisoes wedi ymweld â'r ysgolion i drafod eu pryderon gyda nhw ac rydym ar hyn o bryd yn asesu'r safleoedd er mwyn ceisio dod o hyd i wahanol opsiynau i helpu i leihau'r risgiau i ddefnyddwyr.

## Gwaith Stryd

Rydym hefyd yn gyfrifol am gydlynu a monitro'r holl weithgareddau a wneir ar y rhwydwaith briffordd gyhoeddus gan ymgymeryddys statudol (e.e. Dŵr Cymru, BT) neu eu contractwyr. Mae hyn yn golygu prosesu ceisiadau am e.e. tyllu ffyrdd i drwsio cyfarpar a chau ffyrdd i hwyluso ymgymryd â gwaith cynnal a chadw.

Rydym hefyd yn **trwyddedu gosod sgipliau a sgaffaldiau** ar ein ffyrdd yn ogystal â gorfodi perchnogion eiddo i dorri coed, symud rhwystrau oddi ar y ffordd ac yn y blaen.



## Cludiant Integredig

Ein pwrpas yw **darparu cludiant diogel o ansawdd** sy'n gost-effeithiol yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth ac addysgu grwpiau penodol ar sut i ymdopi â pheryglon ar ein ffyrdd.

Rydym yn gwneud hyn drwy sicrhau rhwydwaith o gludiant cyhoeddus.




## Cludiant Cyhoeddus

Mae dros hanner y **llwybrau bysiau** o fewn Gwynedd yn derbyn cymorth ariannol i'w rhedeg oherwydd nad ydynt yn fasnachol-hyfyw. I hwyluso hyn, rydym yn paratoi contractau cludiant cyhoeddus yn ogystal â pharatoi a chreu amserlenni gweithredu ar gyfer y gwahanol lwybrau.

Rydym hefyd yn gyfrifol am drefnu **contractau cludiant addysg** (gan gynnwys cynllun prynu seddau) er mwyn darparu trafnidiaeth am ddim i ddisgyblion cymwys.

Mewn ardaloedd lle nad oes darpariaeth cludiant confensiynol ar gael, neu ar gyfer ein trigolion sy'n methu neu'n ei chael hi'n anodd i ddefnyddio cludiant cyhoeddus confensiynol, rydym hefyd yn ystyried cyfleoedd ar gyfer **cludiant cymunedol**.

**I'r dyfodol fe fyddwn yn ymgynghori gydag ein cymunedau i ddeall sut y gallwn ddefnyddio'r adnoddau sydd gennym i wasanaethau ein trigolion yn well. Fe fyddwn yn ogystal yn ceisio arloesi i gwrdd â'r gofyn yn y modd fwyaf cost effeithiol posib tra yn sicrhau bod gwasanaethau yn ddibynadwy ac o ansawdd.**



## Cefn Gwlad

Rydym yn **hwyluso a chynnal hawliau mynediad** y cyhoedd i gefn gwlad a'r arfordir, gwarchod bioamrywiaeth a chynefinoedd ar dir a môr, ynghyd â diogelu safon tirlun Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Pen Llŷn.

## Bioamrywiaeth



Rydym yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â dyletswyddau'r Cyngor i warchod ein bioamrywiaeth yng Ngwynedd. Rydym yn rhoi cyngor arbenigol ar geisiadau cynllunio a datblygiadau ac wedi cynnal 976 o ymgynghoriadau yn ystod 2017/18.

Mae'r Adran yn gyfrifol am gyd-gordio'r gwaith o reoli safle Ewropeaidd dynodedig ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau morol o bwysigrwydd Ewropeaidd, sef Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau, a rheoli a gweithredu prosiectau amgylcheddol megis Prosiect Ecosystemau Morol.

Mae'r Adran hefyd yn cynnal gweithgareddau gyda grwpiau lleol a'r cyhoedd i godi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd ein bioamrywiaeth.

## Mynediad i Gefn Gwlad

Mae **rhwydwaith llwybrau cyhoeddus Gwynedd** oddeutu 3,800km o hyd, ac rydym yn rhoi blaenoriaeth i gynnal y llwybrau hynny sydd wedi eu hadnabod gan gymunedau fel y rhai sy'n bwysig iddynt.

Rydym hefyd yn datblygu a chynnal y **llwybr arfordir cenedlaethol** sydd oddeutu 300km o hyd yng Ngwynedd.



Mae cynllun eisoes wedi'i wireddu ger Tŷ Moelwyn ym Mhorthmadog sy'n cynorthwyo i wella'r ddarpariaeth Llwybr Arfordir yn y dref. Byddwn yn edrych ar gyfleoedd i wella cyflwr llwybrau eraill yn yr ardal yn y man. Mae galw wedi bod yn lleol i gwblhau'r llwybr beicio rhwng Tywyn ac Aberdyfi ac mae eisoes yn un o flaenoriaethau'r Cyngor. Mae cynnydd wedi'i wneud ar y cynllun yma a byddwn yn cyflwyno cais i gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru maes o law er mwyn datblygu'r cynllun ymhellach. Mae galw hefyd i adeiladu llwybr aml ddefnydd rhwng Pwllheli a Llanbedrog a fyddai'n galluogi i ddefnyddwyr gael mynediad rhwydd ar hyd arfordir deheuol Pen Llŷn. Byddwn hefyd yn cyflwyno cais i Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu'r cynllun ymhellach



Rydym yn ymdrin â cheisiadau i wyro a chreu llwybrau ac yn cynnal a diweddarau'r map diffiniol sydd yn dangos **rhwydwaith hawliau tramwy'r sir**.

Rydym hefyd wedi paratoi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy sydd yn gosod fframwaith ar gyfer gwella'r rhwydwaith ac yn rheoli tiroedd sydd yn cynnwys 6 gwarchodfa natur a thiroedd eraill.

Mae'r Adran yn gwarchod a cheisio rheoli ansawdd **Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn** (AHNE) yn unol â phrotocol. Mae Cynllun Rheoli AHNE yn cael ei weithredu gan y Cyngor a sefydliadau eraill.



**I'r dyfodol, ein bwriad yw sicrhau bod ein rhwydwaith beicio yn addas i'w bwrpas ac, yn hynny o beth, datrys agweddau sydd yn rhwystro eu llawn defnydd. Byddwn yn ogystal yn manteisio ar gyfleoedd grantiau i ehangu'r rhwydwaith "Teithio Llesol" sydd yn cynnig buddion iechyd ac amgylcheddol.**



# Adran Economi a Chymuned



# Adran Economi a Chymuned



**Mae'r Adran Economi a Chymuned yn cynnwys ystod o wasanaethau sydd yn anelu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol cymunedau Gwynedd.**



## Datblygu Economi Gwynedd

Rydym yn cydweithio gyda phartneriaid i greu'r amodau i fusnesau a mentrau sefydlu, cystadlu a datblygu yng Ngwynedd gan greu a chynnal swyddi o ansawdd ar draws y sir.

**Mae perfformiad yr economi yn effeithio ar ansawdd bywyd trigolion Gwynedd gan ddylanwadu ar gostau byw ac incwm aelwydydd.**

Mae economi Gwynedd yn perfformio yn gymharol dda ar lefel Cymru ond ddim o'i gymharu â rhanbarthau eraill o Brydain ac Ewrop. Mae lefelau cyflog yng Ngwynedd yn llawer is na rhannau eraill o Gymru ac mae gwerth cynhyrchiant busnesau Gwynedd yn isel o'i gymharu ag ardaloedd eraill. Mae'n bwysig felly fod Cyngor Gwynedd yn cymryd camau rhagweithiol i greu'r amodau fyddai'n galluogi i fusnesau dyfu a sbarduno twf yn yr economi a hynny mewn cyfnod o ansicrwydd economaidd wrth i Brydain adael yr Undeb Ewropeaidd.

Dyma fraslun o waith yr Adran yn 2019/20:

### Cefnogi Busnes

Mae 15,100 o fusnesau, mentrau a chwmnïau cymunedol yng Ngwynedd. Mae'r Adran yn darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ymarferol i'w helpu i sefydlu a datblygu er mwyn cynnal a chreu swyddi. Mae'r Gwasanaeth yn rhoi sylw arbennig i gefnogi busnesau Gwynedd i dendro'n llwyddiannus am waith a chadw'r budd yn lleol o gytundebau

yn y sector cyhoeddus a phreifat a hynny drwy gydweithio gyda Thîm Caffael Cyngor Gwynedd a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae'r Adran hefyd yn darparu 87 o unedau gwaith ar hyd a lled y sir i alluogi i fusnesau fod yn gystadleuol a dros y flwyddyn nesaf byddwn yn cyflwyno trefniadau rheoli newydd ar gyfer yr unedau yma.



394

**o fusnesau  
wedi derbyn  
cymorth yn  
2017/18**

Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn ceisio deall effaith Brexit ar fusnesau Gwynedd gan godi ymwybyddiaeth o ffonellau cymorth busnes er mwyn galluogi busnesau i ymdopi ar newid.

Ein blaenoriaeth gwella yn 2019/20 fydd:

## Busnesau'n Cael Cymorth i Ffynnu

## Blaenoriaeth Gwella I



Mae busnesau'r sir yn ymwneud â nifer o Adrannau'r Cyngor neu yn derbyn gwasanaeth ganddynt, gan gynnwys trethi, cynllunio, safonau masnach, rheolaeth adeiladu a chaffael.

Drwy fabwysiadu dull gweithredu sy'n rhoi anghenion busnesau yn ganolog, ac yn ei gwneud hi'n haws i fusnesau gysylltu a chydweithio â'r Cyngor, gellid cefnogi ac annog busnesau i sefydlu a thyfu yn y sir. Yn dilyn gwaith ymchwil rydym wedi adnabod enghreifftiau o ymarfer da gan gynnwys rhaglen "Gwell Busnes i Bawb" gan Gyngor Sir Dinbych.

I'r dyfodol, byddwn yn parhau gyda'r gwaith o adolygu sut mae gwasanaethau'r Cyngor i fusnesau yn cael eu darparu er mwyn ystyried a oes lle i wella ac yn gweithredu ar unrhyw wersi ddaw i'r amlwg i sicrhau fod busnesau yn cael eu cynorthwyo i ffynnu. Byddwn hefyd yn cefnogi datblygu Rhwydwaith Busnes Gogledd Cymru gan gydweithio â phartneriaid yn y sector cyhoeddus a phreifat ar draws y rhanbarth.

## Rhaglenni Datblygu Economaidd

Yn ogystal â chefnogi busnesau yn uniongyrchol, mae'r Adran yn cydweithio gyda phartneriaid ar draws rhanbarth gogledd Cymru er mwyn targedu adnoddau i fuddsoddi mewn pecyn o brosiectau isadeiledd a sgiliau i fusnesau ffynnu i'r dyfodol.

**£ 320 miliwn**  
o fuddsoddiad gan brosiectau yn  
yr economi ers 2000



Ein blaenoriaethau gwella yn 2019/20 fydd:

## Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru

## Blaenoriaeth Gwella I



Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn arwain ar y weledigaeth twf. Mae'r fargen twf wedi ei seilio ar 7 rhaglen sef Rhaglen Ynni Carbon Isel; Rhaglen Gweithgynhyrchu Uwch; Diwydiannau ar y Tir a Thwristiaeth; Rhaglen Tir ac Eiddo; Rhaglen Sgiliau a Chyflogaeth; Rhaglen Digidol; Rhaglen Trafnidiaeth Strategol.

Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn cyfrannu tuag at waith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru er mwyn sicrhau fod Gwynedd yn elwa o'r buddsoddiadau a ddaw drwy'r Weledigaeth Twf.

## Creu Swyddi Gwerth Uchel (Cyflog £26,500 neu fwy)

## Blaenoriaeth Gwella I



Mae cyflogau isel yn nodwedd amlwg yng Ngwynedd, gyda thâl wythnosol trigolion y sir (£478) ymysg yr isaf yng Nghymru, a thâl isel ar ei waethaf yn ein cymunedau gwledig (£418), sef yr ail isaf yn y Deyrnas Unedig.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, un o brif flaenoriaethau'r Cyngor yw gweithio gyda phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat i greu mwy o swyddi sy'n talu'n well.

Ymhlith uchafbwyntiau 2018/19 oedd sicrhau £7.5m o arian Ewropeaidd ar gyfer datblygu isadeiledd Canolfan Awyrfod Llanbedr i ddenu busnesau i'r safle, a derbyniwyd hwb sylweddol i broffil safle Atomfa Trawsfynydd pan lansiwyd y ddêl sector niwclear gan Lywodraeth Prydain yno.

Byddwn yn parhau i dargedu sectorau sy'n talu'n dda trwy greu amgylchedd sy'n cefnogi busnesau newydd a thyfu busnesau presennol, a sicrhau fod y gweithlu lleol yn gallu manteisio ar y cyfleoedd. Byddwn hefyd yn parhau i geisio creu'r amodau i ddenu buddsoddiad i mewn i safleoedd strategol megis Atomfa Trawsfynydd, Maes Awyr Llanbedr a Pharc Bryn Cegin/Parc Menai.

## Arloesi Gwynedd Wledig

## Blaenoriaeth Gwella I



Mae natur ein heconomi wledig yn golygu mai un person yn unig sy'n gweithio yn 78% o fusnesau Gwynedd, ac mae gormod o waith o fewn sectorau nad ydynt yn talu'n dda. Mae hyn yn arwain at fygythiadau o ran cynaladwyedd ein cymunedau gwledig.

Mae sicrhau cysylltedd ddigidol i'n cymunedau gwledig, a bod gan y gweithlu a busnesau gwledig y sgiliau i fanteisio arnynt, yn fater sydd angen ymateb iddo os ydym am sicrhau cymunedau llewyrchus.

Rydym eisoes wedi denu £4miliwn o arian Rhaglen Datblygu Gwledig i Wynedd i ddatblygu dulliau arloesol o weithio ac ystod o ddatblygiadau cyffrous er mwyn targedu'r cymunedau gwledig.

Yn ystod 2018/19 fe wnaethom sicrhau arian i gefnogi 10 o drefi a phentrefi gwledig y sir i ddatblygu gwasanaeth WiFi i'r cyhoedd. Cafodd ystod o syniadau eu treialu drwy Arloesi Gwynedd Wledig, gan gynnwys lansio 'maes chwarae digidol' yng Nglynllifon, sy'n cynnig cyfleoedd cyffrous i arbrofi gyda'r Rhyngwyd Pethe i ymateb i heriau ardaloedd gwledig.

Byddwn yn adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes wedi ei wneud i drawsnewid yr economi wledig trwy gyflwyno arloesedd o fewn sectorau traddodiadol (megis amaeth a thwristiaeth) ynghyd â chefnogi buddsoddiad yn isadeiledd ddigidol ein cymunedau gwledig trwy Gwynedd Ddigidol gan roi sylw arbennig i ardaloedd Dwyfor a Meirionnydd. Rydym yn cydweithio gyda Grŵp Llandrillo Menai a'r sector breifat er mwyn sefydlu hwb arloesi gwledig yn Glynllifon fydd yn arwain ar y gwaith.

Byddwn hefyd yn parhau i gydweithio gyda Siroedd Môn, Ceredigion a Sir Gâr i ddyysgu sut ellid datblygu'r economi wledig a thrwy hynny gynnal yr iaith Gymraeg. Rydym hefyd yn dylanwadu a lobbio yn rhanbarthol ac yn genedlaethol ar ran anghenion Gwynedd wledig.

## Rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar waith

### Blaenoriaeth Gwella 1



Mae nifer o gymunedau mwyaf anghenus Gwynedd yn gyfoethog o ran treftadaeth ac yn gartref i Safleoedd Treftadaeth y Byd presennol neu arfaethedig, megis y cyn ardaloedd llechi traddodiadol.

Mae cyfle yma i ni ddefnyddio dynodiad Safle Treftadaeth y Byd fel arf i adfywio ein cymunedau llechi ac i gynyddu gwerth y diwydiant ymwelwyr.

Yn ystod 2018-19 cafodd yr ardaloedd llechi ei dewis gan Lywodraeth San Steffan fel enwebiad nesaf y DU i UNESCO ar gyfer dynodiad Safle Treftadaeth y Byd. Hefyd, sicrhawyd dros £60 mil o arian loteri i gefnogi cymunedau i elwa o'r dynodiad.

Rydym yn edrych i wireddu rhaglen o weithgaredd adfywio yn yr ardaloedd hyn fydd yn arwain at gynydd ym mherchnogaeth trigolion o'u treftadaeth, gwedd a golwg cymunedau ac yn ansawdd y profiad i dwristiaid, ynghyd â pharhau i weithio i sicrhau statws Safle Treftadaeth y Byd i'r diwydiant llechi yng Ngwynedd.

## Hybu Canol Tref

### Blaenoriaeth Gwella 1



Mae canol trefi bywiog yn gallu cyfrannu'n sylweddol i lewyrch economaidd a cymdeithasol ardaloedd lleol.

Mae "stryd fawr" nifer o drefi Gwynedd angen cefnogaeth i sicrhau eu bod ffynnu gan gynnal a chreu gwaith a darparu'r ystod o nwyddau a gwasanaethau sydd eu hangen gan drigolion ac ymwelwyr.

Byddwn yn parhau i weithio fel Cyngor cyfan i edrych sut allwn ni gefnogi a hwyluso adfywio canol trefi er mwyn iddynt gynnal ystod o wasanaethau i drigolion lleol ac ymwelwyr o fewn amgylchedd fywiog â naws Cymreig.

## Mwy o drigolion Gwynedd yn chwarae rhan lawn yn y byd gwaith

### Blaenoriaeth Gwella 3



Mae ystod o drigolion ym methu â chyflawni eu llawn potensial gan eu bod wedi eu tangyflogi neu neu wedi eu heithrio o gyflogaeth. Gall bod y tu allan i'r byd gwaith arwain at leihau cyfoeth trigolion a chynyddu'r galw ar adnoddau cyhoeddus ac mae atal hyn yn rhan allweddol o'r agenda gwrth dlodi. Ceir budd uniongyrchol o fod mewn gwaith o ran cynyddu enillion, ond hefyd ceir budd ehangach o ran iechyd, cyfleoedd bywyd plant a balchder mewn cymunedau.

Yn 2018/19 sicrhawyd arian cronfa Cymunedau am Waith a mwy i'r Sir, fydd yn cyfarch unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth bresennol gan gynnig cymorth i unigolion sydd allan o waith neu wedi ei tangyflogi.

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gyfres o weithgareddau er mwyn cael mwy o drigolion Gwynedd i waith llawn amser gan leihau segurdod a diweithdra.

## Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau

Mae'r diwydiant twristiaeth yn gyflogwr allweddol yng Ngwynedd. Gyda gwerth economaidd o bron i £1biliwn, mae dros 15,000 o bobl yn gweithio yn y maes. Rydym yn helpu'r diwydiant i ddenu pobl drwy'r flwyddyn sy'n debygol o wario mwy yn lleol, megis ymwelwyr sy'n mwynhau'r awyr agored ac ymwelwyr sy'n ymddiddori yn hanes a diwylliant arbennig Gwynedd. Er mwyn cyflawni hyn yn fwy

# 37,439

o ddilynwyr ar gyfryngau  
cymdeithasol Eryri,  
Mynyddoedd a Môr



effeithlon rydym yn ailddatblygu ein plattform marchnata Eryri Mynyddoedd a Môr yn ddigidol ac yn cydweithio gyda phartneriaid i adnabod blaenoriaethau i gefnogi prif gyrchfannau twristiaeth Gwynedd a'r sector yn ehangach.

Rydym hefyd yn cefnogi trefnwyr digwyddiadau i greu bwrlwm mewn cymunedau ar draws y sir hefyd.

### Ein blaenoriaethau gwella yn 2019/20 fydd:

#### Cynyddu Budd

#### Digwyddiadau Mawrion

#### Blaenoriaeth Gwella I



Mae digwyddiadau cyhoeddus yn cynnig cyfle masnachol i fusnesau lleol gyflenwi neu ddarparu gwasanaethau. Trwy gynnal digwyddiadau mae modd codi proffil Gwynedd a'i marchnata fel lle cyffrous a byrlymus i fyw, i ymweld ac yn lleoliad delfrydol i fusnesau fuddsoddi.

Rydym eisoes wedi bod yn llwyddiannus yn denu nifer o ddigwyddiadau proffil uchel cenedlaethol a rhyngwladol i'r sir a arweiniodd at fuddsoddiad o £5.3m yn 2017/18.

Rydym yn awyddus i barhau â hyn yn 2019/20 a sicrhau bod busnesau lleol yn elwa o'r digwyddiadau. Bydd hyn yn arwain at gyfleoedd i hyrwyddo'r sir, cynnydd yn nifer yr ymwelwyr â'r sir, a chynnydd yn nifer y cyfleoedd i gwmnïau lleol weithio neu gynnig gwasanaethau i'r digwyddiadau.

#### Elwa o Dwristiaeth

#### Blaenoriaeth Gwella I



Er bod Twristiaeth yw un o brif sectorau economaidd Gwynedd mae ymwelwyr yn ychwanegu'n sylweddol i'r pwysau ar isadeiledd cyrchfannau'r sir; cost sy'n cael ei ysgwyddo'n bennaf gan drigolion Gwynedd.

Rydym yn edrych ar gydweithio gyda'r diwydiant i ystyried y posibilrwydd o gael ymwelwyr i gyfrannu'n ariannol at gynnal a gwella cyrchfannau Gwynedd a chodi safonau'r sector twristiaeth. Drwy wneud hyn, byddwn yn gwella darpariaeth cyrchfannau'r sir ynghyd â chynyddu safon darpariaeth y diwydiant i ymwelwyr.



## Morwrol a Pharciau Gwledig

Gan fod tirwedd ac amgylchedd naturiol Gwynedd mor bwysig i ffyniant y sir, mae'r Adran yn ceisio sicrhau adnoddau diogel o ansawdd yn ein parciau gwledig, ein harbyrau, ein marinas ac ar draethau Gwynedd er mwyn creu atyniadau hamdden i bobl leol ac ymwelwyr. Mae'r Adran yn rheoli 301km o arfordir Gwynedd gan ganolbwyntio ar 8 o draethau Baner Las, 4 harbwr a 2 hafan gan gynnwys Hafan Pwllheli sy'n cynnig llety i 700 o gychod. Mae'r Adran hefyd yn rheoli parciau gwledig yng Nglynllifon a Phadarn.



**2700**  
o gychod yn defnyddio  
ein harbyrau yn flynyddol

Yn 2019/20 byddwn yn:

- Diweddarau Cynllun Rheolaeth Traethau Gwynedd
- Gweithredu Strategaethau Carthu Harbwr Pwllheli a Doc Victoria
- Datblygu opsiynau rheoli Hafan a Harbwr Pwllheli i'r dyfodol
- Datblygu opsiynau rheoli Parciau Gwledig Glynllifon a Pharc Padarn i'r dyfodol.

Ein blaenoriaethau lleol fydd:

Wrth ymgynghori gyda chynghorwyr lleol ardaloedd Porthmadog, Ffestiniog a Phenllyn yn ôl yn Haf 2017, nodwyd dyhead i ddenu mwy o swyddi tymor hir sy'n talu cyflogau da er mwyn gwella sefyllfa economaidd trigolion lleol. Mae'r flaenoriaeth Creu Swyddi Gwerth Uchel yn datblygu cyfleoedd newydd yn Nhrawsfynydd a Llanbedr fydd yn elwa'r cymunedau hyn. Yn ardal Porthmadog, nodwyd yn ogystal fod pryder ymysg y cynghorwyr lleol ynglŷn â chyflwr rhai safleoedd segur yn yr ardal ac mewn ymateb i hyn byddwn yn effro i unrhyw gyfleoedd i gefnogi gwella neu aildefnyddio'r safleoedd.

Wrth ymgynghori gyda chynghorwyr ardal Dolgellau daeth i'r amlwg fod cysylltedd gwael ffonau symudol a band eang yn llesteirio trigolion a busnesau'r ardal. Rydym yn ceisio sicrhau blaenoriaeth i'r sir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau yn y maes drwy'r ddilyn egwyddorion Gwynedd Ddigidol.

Yn ardaloedd Dyffryn Ogwen a Dyffryn Nantlle, nododd y cynghorwyr lleol fod hyrwyddo ac adfywio'r stryd fawr yn flaenoriaeth leol, ac rydym wedi gwneud ceisiadau amlinellol ar gyfer peth gweithgaredd adfywio yn yr ardaloedd.

Wrth ymgynghori gyda chynghorwyr ardal Bangor, nodwyd dyhead i wella edrychiad yr ardal leol ac i ymateb i siopau gwag, gan nodi dymuniad i gydweithio â phartneriaid megis busnesau lleol a Chynghorau Tref a Chymuned i greu incwm er mwyn cyfrannu at y gwaith. Gallai hyn yn ei dro gefnogi busnesau a chrefftwyr lleol. Rydym yn ystyried y cyfleoedd i adeiladu ar y gwaith a wneir eisoes ar y cyd ag Ardal Gwella Busnes Bangor a'n partneriaid yn lleol ac yn rhanbarthol er mwyn llunio ymateb. Mae arian grant ychwanegol i uchafu budd y Cynllun Benthyciadau di-log wedi ei sicrhau.

Mae cyswllt hefyd gyda'r flaenoriaeth sirol ar gyfer rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar waith, a nodir uchod. Dylai adfywio'r ardaloedd yma wella unrhyw ddelwedd negyddol sy'n deillio o fod yn ardaloedd ôl-ddiwydiannol gan ryddhau eu potensial.



## Cefnogi Cymunedau Cryf

Rydym yn sicrhau mynediad at wybodaeth, cefnogaeth a chyfleusterau i rymuso cymunedau a galluogi i bobl gyflawni eu llawn botensial. Rydym hefyd yn hyrwyddo mynediad, yn gwarchod ac yn dathlu ein diwylliant a'n treftadaeth.

**Mae'r Adran yn darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd fydd yn helpu i greu cymunedau gwydn; cefnogi cynhwysiad pobl yn eu cymunedau a mynd i'r afael â thlodi.**

Yr ydym yn sicrhau mynediad at wybodaeth, cefnogaeth a chyfleusterau i drigolion ddatblygu eu sgiliau a chyflawni eu llawn botensial. Er mwyn creu cymunedau atyniadol, mae'r Adran hefyd yn hyrwyddo mynediad i'r celfyddydau ac yn gwarchod a dathlu ein diwylliant a'n treftadaeth.

Dyma fraslun o waith yr Adran yn 2019/20:

### Cefnogi Cymunedau

Mae'n bwysig bod grwpiau gwirfoddol a mentrau lleol yn cael eu cefnogi i ymateb i gyfleoedd ac anghenion lleol. Mae gan y Cyngor rwydwaith o swyddogion i gefnogi cymunedau a 'CIST' o grantiau i gefnogi prosiectau cymunedol.



72

o brosiectau sy'n datblygu gwasanaeth newydd/diogelu mynediad at wasanaeth

Byddwn yn targedu rhai cymunedau yn fwy na'i gilydd gan roi sylw penodol i gynllunio cefnogaeth i ardaloedd gyda'r anghenion mwyaf.

Yn 2019/20 byddwn yn:

- Ail lansio gwasanaeth Cefnogi Cymunedau ar draws Gwynedd
- Mesur maint a natur y galw am gymorth gan gymunedau ac ystyried opsiynau i ddarparu'r gwasanaeth i'r dyfodol

### Gwasanaeth Llyfrgelloedd

Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth mewn 9 prif lyfrgell, 4 llyfrgell gymunedol a 3 dolen clicio a chasglu ar draws y sir. Mae'n bwysig i bobl Gwynedd eu bod yn gallu menthyg llyfrau, e-lyfrau, llyfrau llafar neu DVD o'u dewis. Ond nid yw holl drigolion Gwynedd yn gallu cyrraedd eu llyfrgell leol felly mae'r Cyngor hefyd yn darparu llyfrgell deithiol sy'n ymweld â 129 o arosfannau mewn trefi a phentrefi ac yn ymweld â 87 cartref unigolion, (gwasanaeth cludo i'r cartref i bobl sy'n gaeth i'w cartrefi). Mae Llyfrgelloedd Gwynedd yn cael eu comisiynu gan Adran Addysg i ddarparu Gwasanaeth Lori Ni sy'n ymweld â phob ysgol Gynradd, Arbennig a Chanolfannau iaith ddwywaith y flwyddyn i fenthyg llyfrau darllen i blant 3-11 oed. Benthycwyd 491,275 o lyfrau gan bobl Gwynedd yn 2017-18.

30,283

o bobol Gwynedd yn aelodau o Lyfrgell



Mae pobl Gwynedd yn defnyddio'r llyfrgelloedd ar gyfer llawer iawn mwy na dim ond benthyg llyfrau. Maent yn llefydd croesawgar i bobl eu defnyddio ar gyfer amryw o weithgareddau - darllen a dysgu, mynediad at wybodaeth am faterion megis iechyd a lles, chwilio am waith, gwasanaethau lleol, yn ogystal â Gwynedd Ni sydd yn cynnwys gwybodaeth benodol i deuluoedd am wasanaethau a gweithgareddau i blant. Mae trigolion Gwynedd hefyd yn dod i ddefnyddio un o'r 110 o gyfrifiaduron, neu'r Wi-Fi, sydd yn y llyfrgelloedd yn rhad ac am ddim.

Yn 2019/20 byddwn yn:

- Paratoi achos busnes am adnoddau i uwchraddio cyfleusterau Llyfrgell Pwllheli
- Gwreiddio trefniadau hunan wasanaeth newydd ymhob llyfrgell ar draws y sir
- Parhau i gydweithio gyda chymunedau a hyrwyddo mynediad i'r gwasanaeth newydd
- Ystyried rôl Llyfrgelloedd o fewn cymunedau ar gyfer y dyfodol

## Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau

Mae'r Gwasanaeth yn rhedeg dwy amgueddfa yng Ngwynedd ac yn gyfrifol am edrych ar ôl casgliadau a chreu arddangosfeydd yn y ddwy, sef Storiell ac Amgueddfa Lloyd George.

Mae llawer o'n gwaith yn y maes celfyddydau cymunedol yn targedu prosiectau iechyd, lles, addysg a thaclo unigrywdd. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am ddyrannu grantiau celfyddydol er mwyn cefnogi safon a chyfluoedd celfyddydol i bawb.



Mae'r Gwasanaeth yn cefnogi rhaglenni celfyddydol amrywiol er mwyn sicrhau fod y celfyddydau'n fyw yn ein cymunedau a bod mynediad at y celfyddydau yn ein hardaloedd gwledig.

Ein nod fydd parhau i gyfoethogi bywydau trigolion Gwynedd trwy hyrwyddo dealltwriaeth o'n hetfeddiaeth a'n diwylliant unigryw.

Yn 2019/20 byddwn yn:

- Gweithio gyda Chyfeillion Amgueddfa Lloyd George i greu ffordd newydd o reoli'r Amgueddfa
- Sicrhau llwyddiant cynllun Storiell a sefydlu Ymddiriedolaeth Ddatblygu ar ei gyfer allai weithio gyda'r sector gelfyddydol a threftadaeth yng Ngwynedd yn y dyfodol
- Gweithio gyda'r sector gelfyddydol i wireddu amcanion ein strategaeth newydd i'r celfyddydau
- Cefnogi Ysgol Godre'r Berwyn i sefydlu cyfleusterau celfyddydol cymunedol newydd
- Datblygu cynlluniau i uwchraddio cyfleusterau Neuadd Dwyfor ac adnabod modelau darparu cynaliadwy i'r dyfodol.

## Gwasanaeth Archifau

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb statudol i warchod ein cofnodion cyhoeddus a gwneud yn siŵr bod gan bobl fynediad atynt. Rydym yn gwneud hyn trwy ddau archifdy yng Ngwynedd - Archifdy Caernarfon ac Archifdy Meirionnydd yn Nolgellau.



# 8,267

o ddefnyddwyr yn defnyddio'r  
archifdai

Mae gan Archifdai Gwynedd ystod eang o ddogfennau, lluniau, mapiau a phapurau newydd gyda'r ddogfen hynaf yn dyddio'n ôl i 1176. Ceir amrediad o gasgliadau cyhoeddus, swyddogol a phreifat sy'n adlewyrchu diwylliant a threftadaeth cymunedau Gwynedd. Mae'r Archifdai yn darparu sesiynau blasu, a chysiau hanes teulu ac yn cydweithio gydag ysgolion cynradd Gwynedd.

Yn 2019/20 byddwn yn:

- hyrwyddo mynediad i'r gwasanaeth
- cydweithio gyda Llywodraeth Cymru ac archifau eraill ar draws Gogledd Cymru i adnabod cyfleoedd i wneud y defnydd gorau o adnoddau archifau yn y rhanbarth.

Ein blaenoriaethau lleol fydd:

Yn ardal Ffestiniog fe ddaeth i'r amlwg fod pryderon ymysg y cynghorwyr lleol pan gynhaliwyd sesiwn ymgynghori â hwy ynglŷn â dyfodol y Ganolfan Gymunedol a'r gwasanaethau a leolir yno, a gwnaeth y tîm Adfywio arolwg diweddar ar adeiladau cyhoeddus ar hyd a lled Gwynedd. Dangosodd yr arolwg fod defnydd aneffeithiol yn cael ei wneud o nifer o adeiladau cyhoeddus ym Mlaenau Ffestiniog gan gynnwys y Ganolfan Gymunedol. Mae cyfle yma, mewn cyfnod o gynni ariannol, i rannu adnoddau yn well i'r dyfodol.



## Gwella Iechyd Trigolion Gwynedd

Rydym yn cydweithio gyda phartneriaid er mwyn ysbrydoli, cefnogi a galluogi i bobl Gwynedd fod yn egniol a byw eu bywydau yn iach.

**Mae tueddiadau iechyd trigolion Gwynedd ychydig is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Ond gyda lefelau gordewdra plant 4 oed yng Ngwynedd ymysg yr uchaf yng Nghymru, mae'n allweddol fod Cyngor Gwynedd a phartneriaid yn ymateb a chreu'r amodau i hyrwyddo byw'n iach.**

Dyma un o brif amcanion yr Adran, sef cydweithio gyda phartneriaid yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol er mwyn ysbrydoli, cefnogi a galluogi trigolion Gwynedd i fod yn egniol a byw eu bywydau yn iach.

Dyma fraslun o waith yr Adran:

## Rhaglenni Byw'n Iach

### Tîm Chwaraeon am Oes

Mae'r Adran yn trefnu a chynnal ystod o weithgareddau chwaraeon o fewn ysgolion, y gymuned ac yn yr awyr agored er mwyn ysbrydoli plant a phobl ifanc i gymryd rhan a mwynhau chwaraeon.



49%

o blant yn cymryd rhan mewn chwaraeon 3 gwaith yr wythnos

Mae'r canran o blant Gwynedd sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon o leiaf dair gwaith yr wythnos wedi cynyddu o 43% yn 2013 i 49% yn 2018, ac rydym yn anelu at gynyddu'r ffigwr yn uwch yn 2020. Fodd bynnag, mae'r ansicrwydd cenedlaethol am drefniadau ariannu rhaglenni chwaraeon i'r dyfodol yn gosod her i gynnal rhai gweithgareddau. Er mwyn cael yr effaith orau gyda'r adnoddau sydd ar gael, rydym yn edrych ar ffyrdd gwahanol o ddarparu rhaglenni i ysbrydoli pobl ifanc i fod yn egniol yn y dyfodol.

Yn 2019/20 byddwn yn:

- Cydweithio gyda phartneriaid er mwyn datblygu model newydd i ddarparu gwasanaeth ar draws Gogledd Cymru
- Cydweithio gyda Chyrff Llywodraethol Chwaraeon er mwyn cynnig ystod o weithgareddau sy'n ymateb i'r galw a'r cyfleoedd sydd ar gael yn y sir.

### Tîm Cyfeirio i Ymarfer



67%

wedi gwella eu sgôr ansawdd bywyd

Mae'r Adran yn cefnogi trigolion Gwynedd i wella cyflwr eu hiechyd drwy'r Tîm Cyfeirio i Ymarfer. Dyma wasanaeth arbenigol gydag ystod o weithgareddau i helpu lleihau effaith cyflyrau sy'n atal trigolion Gwynedd rhag ymarfer a gwella eu hiechyd. Mae

cynnydd sylweddol wedi bod yn niferoedd y cleientiaid ar gyfer y gwasanaeth yma, yn arbennig yn y meysydd dementia a chyflyrau cronig, ac mae tystiolaeth glir yn dangos effaith y buddsoddiad ar ansawdd bywyd ac iechyd. Ond mae bygythiad i gyllideb y gwasanaeth gan ei bod yn ddibynnol iawn ar grantiau a bydd rhaid edrych ar fodolau gwahanol i'w gynnal i'r dyfodol.


Yn 2019/20 byddwn yn:

- Ymateb yn briodol i'r lleihad yn y buddsoddiad ariannol er mwyn ceisio cynnal gwasanaeth sirol.
- Cytundebu gyda chwmni Byw'n Iach i ddarparu'r gwasanaeth ar ran y Cyngor i'r dyfodol.

## Canolfannau Byw'n lach

Mae gan Cyngor Gwynedd rwydwaith o 12 o ganolfannau hamdden ar draws Gwynedd sy'n denu 1.3 miliwn o ymweliadau bob blwyddyn. Mae'r ddarpariaeth yma yn galluogi i drigolion Gwynedd o bob oedran ddysgu sgiliau newydd a mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau egniol mewn lleoliadau diogel.

Dangoswyd drwy arolwg bodlonrwydd diweddar fod 90% o'n defnyddwyr yn fodlon iawn gyda'r hyn a gynigir ac mae'r adborth yma wedi bod yn allweddol er mwyn galluogi'r Cyngor i gynllunio gwelliannau i'r dyfodol.



Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwmo i barhau i ddarparu Canolfannau Byw'n lach i'r dyfodol, ond er mwyn cyflawni arbedion ariannol, wedi sefydlu Cwmni Byw'n lach er mwyn rhedeg y canolfannau ar ei rhan i'r dyfodol. Bydd

yr Adran yn gosod contract i Gwmni Byw'n lach i reoli'r gwasanaeth o 1 Ebrill 2019 a bydd holl staff y canolfannau wedi trosglwyddo i'r Cwmni erbyn y dyddiad hwn.

Yn 2019/20 ein blaenoriaeth fydd:

- Cefnogi Cwmni Byw'n lach i sefydlu a darparu'r gwasanaeth i drigolion Gwynedd yn unol â'r cytundeb.
- Sefydlu trefniadau i fonitro perfformiad Cwmni Byw'n lach yn unol â'r cytundeb.
- Sefydlu trefniadau i uwchraddio a buddsoddi yn y cyfleusterau yn unol â'r cytundeb



# Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd



## Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC)



Mae Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd yn cyflawni swyddogaethau statudol y Cyngor yn y meysydd Risg Llifogydd a Rheolaeth Adeiladu. Mae gweddill gwaith yr Adran yn ymwneud â darparu gwasanaeth ymgynghorol masnachol i gleientiaid mewnol ac allanol, gan arbenigo mewn prosiectau peirianyddol neu adeiladu.

### Risg Llifogydd



Rydym yn gwireddu ein dyletswyddau statudol fel yr Awdurdod Arweiniol Llifogydd Lleol (AALL) dros Wynedd, gan ddilyn yr egwyddor o edrych yn hirdymor i leihau risg llifogydd i gymunedau Gwynedd.

Yn y dyfodol, byddwn yn datblygu ein gwaith ymhellach yn y 3 maes critigol canlynol:

#### Cynllunio ar gyfer Buddsoddi

Ein dyletswydd o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (RRLD) yw ymchwilio i ddigwyddiadau llifogydd - ers i'r Ddeddf ddod i rym yn 2010, mae Cyngor Gwynedd wedi ymchwilio i 42 digwyddiad o lifogydd mewnol ar gyfartaledd pob flwyddyn.

Rydym yn cadw cronfa ddata o ddiffygion, ac unrhyw bryderon sy'n gysylltiedig â llifogydd sy'n cael eu codi gan drigolion Gwynedd, lle'r ydym yn anelu at gynorthwyo. Ein nod yw ymateb i bryderon yn yr amserlen fyrraf posibl.

Mae casglu'r wybodaeth hon yn ein galluogi i greu darlun o berygl llifogydd lleol ar draws Gwynedd, sy'n sail i'n cynllun rheoli perygl llifogydd. Mae ceisiadau grant yn cael eu gwneud wedyn i Lywodraeth Cymru i ymchwilio a rheoli perygl llifogydd yn yr ardaloedd lle mae'r pryder mwyaf.

Yn yr un modd, rydym yn buddsoddi yn yr ardaloedd arfordirol sydd fwyaf o dan fygythiad o erydiad arfordirol er mwyn ceisio rheoli'r risgiau sy'n eu hwynebu. Mae'r buddsoddiad presennol yn cynnwys amddiffyn yr arfordir yn Borth y Gest, gwaith amddiffyn afon yn Llanberis, a bydd y cynlluniau hyn yn lleihau'r risg i oddeutu 150 o bobl.

#### Cynnal a Chadw Asedau

Rydym yn gyfrifol am gynnal 129 o asedau arfordirol sy'n ymestyn ar hyd 19km o amddiffynfeydd arfordirol, a hefyd 40 o asedau sy'n rheoli'r risg o lifogydd o gyrsiau dŵr cyffredin.

Mae arolygu a chynnal yr asedau hyn yn hanfodol wrth warchod cannoedd o gartrefi, busnesau a seilwaith critigol mewn cymunedau ledled Gwynedd. Bwriad y gwaith hwn yw i'w gallu rhoi darlun ar unrhyw adeg o ble yng Ngwynedd sydd mewn risg mwyaf. Rydym hefyd yn cynnal rhaglen fonitro arfordirol i nodi newidiadau i'r arfordir o ganlyniad i newid hinsawdd, sef newidiadau allai effeithio ar ein



19 km

o amddiffynfeydd arfordirol  
yn cael eu cynnal



cymunedau arfordirol yn y blynyddoedd i ddod. Rhoddir sgôr amod rhwng 1 a 5 i bob ased, a gosodir targed ar gyfer pob ased, ein nod yw bod pob ased yng Ngwynedd i gyrraedd ei sgôr cyflwr targed.

## Rheoleiddio

Fel AALL mae gan Gyngor Gwynedd rôl reoleiddiol i atal datblygiadau a gweithgareddau a allai gyfrannu at berygl llifogydd. Mae'r rhain yn bennaf yn cynnwys:

- Cymeradwyo a mabwysiadu systemau draenio cynaliadwy ar gyfer datblygiadau newydd a fydd yn rheoli'r risg o ddŵr wyneb. Mae hon yn ddyletswydd statudol newydd a fydd yn cael ei datblygu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, a bydd mabwysiadu a chymeradwyo ceisiadau yn brydlon yn cynorthwyo'r ymgeisydd a'r broses gynllunio.
- Sicrhau bod unrhyw waith sy'n cael ei wneud o fewn cwrs dŵr cyffredin yn cael yr effaith leiaf posib ar berygl llifogydd a'r amgylchedd. Rydym yn ymateb i 40 cais adeiladu y flwyddyn ar gyfartaledd, a'r amser ymateb statudol yw 28 diwrnod ond bwriedir cymeradwyo cyn gynted ag y bo modd.





## Uned Rheolaeth Adeiladu



Rydym yn cydweithio gyda'r cyhoedd a phartneriaid er mwyn i'n cymunedau gael adeiladau diogel sydd yn cyd-fynd â'r gofynion technegol diweddaraf.

Mae'n rhaid i waith adeiladu gael ei gyflawni yn unol â gofynion penodol Rheoliadau Adeiladu. Mae hyn yn bwysig a gwerthfawr i bobl Gwynedd, gan y bydd yn sicrhau bod unrhyw waith adeiladu yn ddiogel ac o'r safon angenrheidiol.

### Bodlonrwydd Cwsmer (sgôr allan o 10)

2014-15	2015-16	2016-17	2017-18
			
8.7	9.1	9.3	9.6

Rydym yn anelu i fynd y tu hwnt i'r gofynion statudol drwy ddarparu gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, gan gynnig cyngor, cymorth technegol, asesu cynlluniau ac archwiliadau safle i bob math o waith adeiladu.

Yn nhermau adeiladau peryglus, rydym yn cynnig gwasanaeth 24 awr i sicrhau bod iechyd a diogelwch trigolion Gwynedd yn cael ei ddiogelu rhag adeiladau a strwythurau peryglus.

Ar gyfer ceisiadau Cynllun Llawn, mae'r gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu yn anelu i archwilio'r cynlluniau o fewn 15 diwrnod gwaith, gyda'r penderfyniad yn cael ei ryddhau cyn gynted â phosib. Er mwyn cymeradwyo'r cais (penderfyniad cyntaf), bydd y swyddogion Rheolaeth Adeiladu yn cynnig cydweithio gydag adeiladwyr a phenseiri er mwyn gwella safon y cais.

I'r dyfodol byddwn yn datblygu ein gwaith ymhellach yn y meysydd canlynol:

- Holiadur arolwg boddhad cwsmeriaid.
- Niferoedd o ddiwrnodau i archwilio cynlluniau llawn.
- Canran o geisiadau cynlluniau llawn a gymeradwywyd/gymeradwo'n amodol (Penderfyniad cyntaf).
- Adeiladu peryglus - amser i sicrhau bod yr adeilad/safle yn ddiogel.

## Gwasanaethau Ymgynghoriaeth



**Rydym yn dylunio a rheoli prosiectau sy'n ymwneud â ffyrdd, strwythurau, adeiladau ac ati yng Ngwynedd a thrwy Gymru, gan greu a chynnal swyddi o ansawdd ar draws y Sir, a chyfrannu tuag at gostau cynnal Cyngor Gwynedd.**

Mae costau rhedeg y Gwasanaeth Ymgynghorol yn cael eu hennill drwy ffioedd cleientiaid sydd yn ei dro yn cyfrannu tuag at weddill costau Cyngor Gwynedd, drwy gyfrannu at orbenion a thargedau ariannol.

## Strwythur Gweithredol Gwasanaethau Ymgynghoriaeth

Mae Ymgynghoriaeth Gwynedd yn delio â phob darn o waith fel prosiect unigol, pa bynnag Uned mae'r gwaith wedi deillio ohoni. Golyga hyn y gall unigolion o unrhyw Uned ar draws y sefydliad weithredu fel arweinydd neu aelodau o'r tîm prosiect i sicrhau llwyddiant.

Drwy'r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth rydym yn creu swyddi proffesiynol lleol na fyddant yn y Sir fel arall. Mae'n rhaid i'r Gwasanaethau Ymgynghorol weithredu drwy ddulliau arloesol a chynaliadwy, yn ogystal â bod yn gystadleuol yn ein pris.

### Perfformiad Gyllidol

	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18
<i>Trosiant</i>	£6.1m	£5.8m	£5.5m	£5.5m	£5.3m
<i>Elw/Colled</i>	+£120K	+£21K	-£34K	+£96.5K	+£81K

## Unedau Priffyrdd, Adeiladwaith ac Adeiladu

Rydym yn gwneud gwaith rheoli prosiectau sydd yn cynnwys dylunio, anghenion amgylcheddol a daearyddol.

## Uned Dŵr ac Amgylchedd

Mae'r Uned yn gweithio ar ddylunio strwythurau arfordirol a chynlluniau atal llifogydd.

Gall Cyngor Gwynedd ddenu arian ar gyfer y gwaith yma drwy ennill grantiau sylweddol.

## Uned Fusnes

Rydym yn gwasanaethu a chefnogi holl unedau'r Adran, ac yn gweithredu'r prosesau angenrheidiol i gynnal y busnes.

### **I'r dyfodol byddwn yn datblygu ein gwaith ymhellach yn y meysydd yma i:**

- parhau i gystadlu yn ystod 2019/20 am waith dylunio ffyrdd, pontydd a phrosiectau er mwyn cefnogi budd ariannol y Cyngor, a sicrhau'r elw mwyaf posib o £107,000.
- Gynorthwyo AECOM i gyflwyno'r gwaith uwchraddio'r A5025, o'r Fali i Wylfa newydd.
- Gyflogi chwe aelod newydd o staff.



# Adran Cefnogaeth Gorfforaethol



# Adran Cefnogaeth Gorfforaethol



Mae'r Adran yn atgyfnerthu gallu'r Cyngor i ddarparu'r gorau i drigolion Gwynedd trwy gyfuniad o wasanaethau cefnogol, arbenigol a rheng-flaen. Mae hyn yn rhoi cyfle i weddill y Cyngor ganolbwyntio ar y gwasanaethau eraill a ddarperir yn uniongyrchol i'r cyhoedd.

## Cyswllt Cwsmer



Mae Galw Gwynedd, o'i ganolfan ym Mhenrhyndeudraeth, yn ymateb i alwadau ffôn, negeseuon e-byst a cheisiadau am wasanaeth ar-lein ar ran gwasanaethau'r Cyngor. Mae Siop Gwynedd yn Nolgellau, Pwllheli a Chaernarfon yn gweithredu fel siop-un-stop a derbynfa i'r un pwrpas, yn ogystal â gweithredu fel pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer y Gwasanaethau Trethi a Budd-dal.

Ateb galwadau ffôn, ar gyfartaledd o fewn 40 eiliad



Derbynnir tua 200,000 galwad ffôn yn Galw Gwynedd bob blwyddyn, a daw o leiaf 20,000 o ymwelwyr i Siopau Gwynedd yn flynyddol.

I'r dyfodol byddwn yn:

- darparu hunanwasanaeth ar-lein ar gyfer nifer cynyddol o ymholiadau a cheisiadau am wasanaeth. Rydym fel Cyngor am i bobl Gwynedd fedru cysylltu i gael gwasanaeth neu wybodaeth ar adegau sy'n gyfleus iddynt
- adolygu trefniadau Bathodynau Glas a Gwasanaeth Switsfwrdd er mwyn gwella gwasanaeth i gwsmeriaid
- cyflwyno trefniadau cyswllt amgen e.e. "web-chat".

## Cofrestru




Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth cofrestru o bedwar lleoliad ar draws y Sir gan gynnwys Ysbyty Gwynedd.

Cofrestrwyd dros 5,600 o briodasau, partneriaethau sifil, genedigaethau a marwolaethau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a derbyniwyd dros 3,000 o geisiadau am dystysgrifau.

I'r dyfodol byddwn yn:

- cynnal asesiadau manwl gwaith Cofrestryddion er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion ar bob achlysur
- adolygu trefniadau gwaith yn y maes Priodasau, er mwyn datblygu'n gwasanaeth i fod ar gael drwy hunan-wasanaeth
- cryfhau ein trefniadau parhad gwasanaeth.



## Cyfathrebu ac Ymgysylltu




Mae'r Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn hwyluso deialog ddwyffordd gyda phobl Gwynedd, staff a chynghorwyr.

Mae'r cyfathrebu yma yn cynnwys cynnal perthynas ragweithiol gyda'r cyfryngau, cynnal gwefan a chyfrifon gwefannau cymdeithasol y Cyngor, cyhoeddi Newyddion Gwynedd, cydgordio cyfleoedd i bobl Gwynedd leisio barn ar waith y Cyngor a chynnal trefniadau cyfathrebu mewnol y Cyngor.

I'r dyfodol byddwn yn:

- cryfhau'r gyfundrefn cyfathrebu mewnol ymhellach gan ganolbwyntio ar sefydlu trefn i adnabod a chyfathrebu nifer cyfyngedig o brif negeseuon a mesur y graddau mae'r negeseuon yma yn treiddio ymysg y gweithlu;
- darparu mwy o wasanaethau fydd ar gael 24 awr y dydd ar wefan y Cyngor;
- cwblhau'r gwaith o gryfhau "brand gweledol" fel bod pobl Gwynedd yn ymwybodol o'r gwasanaethau a'r gefnogaeth a ddarperir gan y Cyngor.

Dilynwyr Gwefannau Cymdeithasol y Cyngor



## Cefnogi Busnes y Cyngor



Mae'r Gwasanaeth hwn yn cydlynu trefniadau ar gyfer cyhoeddi cynllun busnes, cynllun cydraddoldeb ac adroddiadau perfformiad y Cyngor yn ogystal â chynghori a chefnogi gwaith prosiect, adolygiadau gwasanaeth ac ymchwiliadau craffu. Byddwn yn helpu gwasanaethau'r Cyngor i roi ystyriaeth deg i gydraddoldeb a hawliau pob unigolyn ac yn cynorthwyo swyddogion a chynghorwyr i herio cynlluniau ac arferion gwaith.

I'r dyfodol byddwn yn:

- gweithredu amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol presennol a datblygu a chyhoeddi'r cynllun newydd ar gyfer cyfnod 2020-24.
- datblygu a chyflwyno cyfres o weithdai Rheolaeth Prosiect i staff y Cyngor er mwyn eu cyflwyno i brif egwyddorion rheolaeth prosiect.

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am arwain gwaith partneriaeth rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn:

## Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn



Mae cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn yn ogystal â'r Bwrdd Iechyd, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn cydweithio'n agos ar ffurf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn gwella lles trigolion mewn sawl maes.

Cyhoeddodd y Bwrdd Gynllun Llesiant ym mis Mehefin 2018, gyda'r nod o sicrhau bod darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio i gyflawni newidiadau cadarnhaol i gymunedau'r ddwy sir.

I'r dyfodol byddwn yn:

- cadarnhau trefniadau i gyflawni a monitro'r amcanion llesiant a'r meysydd blaenoriaeth sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Llesiant



## Diogelwch Cymunedol



Byddwn yn arwain ar waith y ddau Gyngor ynghyd a'r Heddlu, y Gwasanaeth Tân, y Gwasanaeth Prawf a'r Bwrdd Iechyd i daclo a lleihau trosedd ac anhrefn er budd diogelwch a lles pobl y ddwy sir

I'r dyfodol byddwn yn:

- datblygu a gweithredu cynllun newydd er mwyn ymateb i flaenoriaethau adnabuwyd ym maes trosedd ac anhrefn yn y ddwy sir.

## Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg



Mae holl wasanaethau'r Cyngor ar gael i'r cyhoedd yn y Gymraeg a Saesneg, ond iaith weithredol y Cyngor yw'r Gymraeg, ac felly rydym yn hybu ac yn galluogi'r defnydd o'r Gymraeg drwy ein holl wasanaethau. Mae'r Cyngor eisiau gweld sefyllfa ble mae Gwynedd yn parhau i fod yn gadarnle i'r iaith a'i bod yn iaith bob dydd sydd yn cael ei chlywed a'i siarad yn naturiol gan blant, pobl ifanc ac oedolion ar draws y sir.

I'r dyfodol byddwn yn:

- Gweithredu ar raglen waith gychwynnol Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023 gan ddatblygu prosiectau cydweithio ar draws y meysydd dan sylw.
- Hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng cymdeithasu naturiol yng nghymunedau'r Sir drwy waith y fenter iaith, Hunaniaith.



## Hybu Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor

### Blaenoriaeth Gwella 5



Mae Cyngor Gwynedd wedi bod ar flaen y gad o ran sicrhau fod gwasanaethau ar gael yn y Gymraeg a sicrhau bod gwaith mewnol y Cyngor yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. Serch hynny, rydym yn cydnabod ein bod mewn cyfnod heriol a bod angen gweithio yn barhaus i wthio'r ffiniau er mwyn gwneud yn siŵr bod gwasanaethau yn manteisio ar bob cyfle i hybu defnydd o'r Gymraeg ac yn galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun.

Fe fyddwn yn parhau i weithio gyda gwasanaethau, yn enwedig rhai rheng flaen, i ddatblygu sgiliau staff newydd a chyfredol ac achub ar gyfleon newydd i sicrhau ein bod yn cynnig pob agwedd ar ein gwasanaethau yn gwbl ddwyieithog

## Y Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus

### Blaenoriaeth Gwella 5



Ar hyn o bryd mae anghysondeb yn narpariaeth gwasanaethau dwyieithog gan gyrrff cyhoeddus yng Ngwynedd sy'n golygu nad yw hi bob amser yn bosibl i drigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth gyfathrebu efo cyrff cyhoeddus.

Yn dilyn cymeradwyo rhaglen waith yn y maes hwn, ac fel rhan o Is-grŵp Cymraeg y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, byddwn yn parhau i yrru ar brosiectau fydd yn ceisio gosod safon ddisgwyliedig a chyson ar draws y cyrff cyhoeddus – gyda'r nod o annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y cyswllt cyntaf gyda gwasanaethau.

## Busnesau Gwynedd yn Defnyddio'r Gymraeg

### Blaenoriaeth Gwella 5



Mae gan fusnesau Gwynedd rôl i'w chwarae wrth hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg, a'n bwriad fydd annog busnesau i ddefnyddio'r iaith wrth gynnig gwasanaeth.

Cytuno ar a chlydlynu rhaglen waith bwrpasol.



## Ymchwil a Gwybodaeth




Er mwyn i bob gwasanaeth yn y Cyngor fod yn gweithio'n llwyddiannus yn unol ag egwyddorion Ffordd Gwynedd maent angen deall beth ydi anghenion eu cwsmeriaid, yn gallu mesur os ydyn nhw'n cyflawni yr hyn sy'n bwysig i'w cwsmeriaid, ac yn gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth o'r effaith ar bobl Gwynedd. I wneud hyn i gyd mae gwybodaeth – ei gasglu, ei gadw, a'i ddadansoddi – yn hollbwysig. Rydyn ni yma i gefnogi gwasanaethau'r Cyngor i wneud hyn.

Gan bod cymaint o wybodaeth yn cael ei ddal ar gyfer darparu gwasanaethau'r Cyngor, yn cynnwys gwybodaeth am bobl, mae angen gwneud yn siŵr fod y trefniadau ar gyfer creu, cadw, rhannu a defnyddio'r wybodaeth yma yn gweithio'n iawn ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth.

I'r dyfodol byddwn yn:

- adolygu sut mae staff a rheolwyr ar draws y Cyngor yn gallu cael gafael ar wybodaeth a thystiolaeth, a gwella ffurf a chynnwys yr hyn sydd ar gael iddynt a pa mor hawdd yw cael ato (e.e. drwy'r mewnrwyd)
- cyfrannu at ddatblygiad systemau adnoddau dynol y Cyngor, yn benodol i wella'r math o wybodaeth a dadansoddiadau mae rheolwyr yn gallu cael atynt yn hawdd ynglŷn â'u gweithlu. Bydd hyn yn allweddol i lwyddiant datblygiadau megis cynllunio'r gweithlu a rheoli talent o fewn y Cyngor, ac yn ein galluogi ni fel Gwasanaeth i ganolbwyntio ar waith mwy arbenigol fydd yn rhoi atebion busnes ym maes gwybodaeth adnoddau dynol
- gwneud y mwyaf o botensial system rheoli dogfennau a chofnodion newydd y Cyngor (iGwynedd), gan helpu gwasanaethau i ddatblygu pethau sy'n hwyluso ffyrdd o weithio a dileu camau diangen
- sicrhau bod trefniadau ac arferion gwaith newydd sydd wedi'u cyflwyno ar draws y Cyngor i gydymffurfio â deddfwriaeth gwybodaeth newydd (GDPR) erbyn 2018, yn gwreiddio ac yn gadarn
- adolygu trefniadau Canolfan Gofnodion y Cyngor i weld sut gall trefniadau weithio'n well heb effeithio ar yr adnodd sydd ar gael i flaenoriaethau eraill y Gwasanaeth




## Caffael



Mae'r Cyngor yn gwario dros £97m y flwyddyn ar gaffael, neu brynu, gwahanol nwyddau a gwasanaethau o gyllidebau referniw. Yn 2017/18, roedd pryniant o nwyddau a gwasanaethau lleol gyfwerth a £60miliwn i'r economi leol.

I'r dyfodol byddwn yn:



- **Cryfhau a datblygu'r arbenigedd caffael o fewn y Cyngor ac adolygu'r hyn yr ydym yn ei brynu ar hyn o bryd** - byddwn yn asesu'r trefniadau rheolaeth categori i sicrhau bod y trefniadau yn cael ei weithredu a bod y teclynau a'r trefniadau yn addas i'w pwrpas. Byddwn hefyd yn sicrhau bod egwyddorion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn cael eu mabwysiadu yn ein gweithgareddau caffael drwy sicrhau bod agweddau amgylcheddol, cymdeithasol ac ariannol yn cael yr ystyriaeth briodol.
- **Mabwysiadu'r arfer orau yn y maes** - byddwn yn adolygu ein systemau pwrcasu electroneg er mwyn sicrhau bod ein trefniadau yn effeithiol ac effeithlon. Gan fod ein gallu i reoli cytundebau yn hanfodol i sicrhau gwerth am arian, byddwn hefyd yn ceisio datblygu ein trefniadau ar gyfer dadansoddi gwariant y Cyngor. Wrth wneud hynny, anelir i sicrhau bod ein prynwyr yn gwneud penderfyniadau gwybodus a deallus wrth gaffael.
- **Cynlluniau i gefnogi'r farchnad** - byddwn yn adnabod unrhyw ddiffyg yn y farchnad fesul cytundeb sydd yn rhwystro cwmnïau rhag ymgeisio am waith a chynnig cefnogaeth briodol iddynt allu ymgeisio i gyflawni'r gwasanaethau rydym eu hangen i'r dyfodol

## Cadw'r Budd yn Lleol

## Blaenoriaeth Gwella I



Mae'r Cyngor yn gyfrifol am brynu nifer o nwyddau a gwasanaethau ac yn awyddus i geisio sicrhau fod busnesau lleol yn gallu cystadlu ac ennill y cytundebau hyn er mwyn sicrhau fod cymaint o wariant y Cyngor ag sy'n bosibl yn aros yn lleol. Yn 2017/2018, fe lwyddwyd i gynyddu'r canran o wariant lleol i 62% i'w gymharu â 58% y flwyddyn flaenorol. Cyflwynwyd trefniadau newydd i geisio prynu nwyddau a gwasanaethau mewn ffyrdd mwy arloesol ac effeithlon, a chymerwyd camau er mwyn hwyluso gallu busnesau i gystadlu am gytundebau.

Yn 2018/19, byddwn yn parhau gyda'r gwaith hynny er mwyn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth busnesau am drefn caffael y Cyngor gan ddarganfod ffyrdd pellach i'w cefnogi i gyflawni'r gwasanaethau rydym eu hangen.

## Democratiaeth a Chyfieithu




Mae'r Gwasanaeth Democratiaeth yn

- cynnal y drefn bwyllgorau ac yn cefnogi cynghorwyr yn eu gwaith.
- Darparu gwasanaeth chyfieithu i'r Gymraeg a'r Saesneg ar bapur ac ar lafar i staff, aelodau a thrigolion.

Rhoddir cefnogaeth amrywiol i'r 75 cynghorydd, yn eu swyddogaethau gwahanol, er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau a gweithredu er lles trigolion Gwynedd.

I'r dyfodol byddwn yn:

- Datblygu trefniadau craffu rhanbarthol ar y cyd ag awdurdodau eraill
- Paratoi at fesur Llywodraeth Leol drafft trwy ddatblygu trefniadau gwe ddarlledu a mynychu o bell
- Gweithredu ar ganlyniadau'r adolygiad o'n trefniadau craffu er mwyn cyfrannu fwyfwy at wella gwasanaethau.



## Cynlluniau Argyfwng

Mae gan y Cyngor rôl i baratoi cynlluniau ar gyfer ymdrin ag argyfwng ac i gydweithio efo'r gwasanaethau brys, asiantaethau a gwirfoddolwyr er mwyn gofalu am les y cyhoedd.

Mae darparu cyfleusterau bwyd a gorffwys, llety dros-dro a diogelwch ffyrdd yn enghreifftiau amlwg o'r cyfrifoldebau penodol sydd gan y Cyngor wrth ymateb i argyfwng.

## Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol



Mae'r tîm o ymgynghorwyr a swyddogion adnoddau dynol yn gyfrifol am gynghori rheolwyr a phenaethiaid ysgolion ar faterion cyflogi staff. Mae hynny'n cynnwys yr amodau gwaith, materion cyflog cyfartal, ailstrwythuro neu dorri ar wasanaethau, ymdrin â disgyblaethau a chwynion, rheoli absenoldebau a recriwtio a phenodi. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn arwain y gwaith o adolygu a datblygu'r amodau gwaith lleol, a thrwy hynny hyrwyddo arferion cyflogi da.

Mae'r tîm eleni eisoes wedi ymdrin â thua 130 o achosion unigol. Mae hefyd ar hyn o bryd yn cynghori ar faterion staffio sy'n gysylltiedig â phrosiectau fel sefydlu'r Cwmni Byw'n lach a'r agenda ad-drefnu ysgolion.

I'r dyfodol byddwn yn:

- Sefydlu dealltwriaeth o gydweithio â phob adran, fel sail i ddatblygu model busnes sy'n cefnogi rheolwyr y Cyngor i gymryd perchnogaeth o faterion adnoddau dynol dydd i ddydd
- Cydweithio â phob adran o fewn y Cyngor i ystyried a sefydlu eu hanghenion cynllunio'r gweithlu, a'u cynorthwyo a chefnogi i ddechrau mynd i'r afael â'r materion sy'n codi o hynny
- Adolygu pob un o amodau gwaith lleol presennol y Cyngor, yn ogystal â datblygu rhai o'r newydd, fel eu bod yn adlewyrchu'r a chefnogi'r ffordd mae'r Cyngor am i'w staff weithio
- Gweithredu ar ddyfarniad tâl 2019/20 ar gyfer gweithwyr llywodraeth leol a chyflwyno strwythur tâl wedi newydd sy'n ffurfio rhan o'r gytundeb tal cenedlaethol.

## Merched mewn Arweinyddiaeth

## Blaenoriaeth Gwella 3



Er yn gadarn ei fod yn talu cyflog ar sail cyfartal, mae'r Cyngor yn cydnabod bod y nifer o ferched sydd yn cyflawni swyddogaeth rheolaethol o fewn y Cyngor yn anghymesur a rhaniad o fewn y gweithlu cyfan h.y. 70% merched 30% dynion.

Prif amcan y prosiect hwn felly yw hybu'r nifer o ferched sy'n ymgeisio ac yn cyrraedd swyddi uwch o fewn y Cyngor trwy adolygu'r amodau a'r amgylchedd gwaith er mwyn denu mwy o ferched i ymgymryd â'r gwaith i'r dyfodol. Byddwn yn ymgynghori yn eang o fewn y Cyngor gyda merched ac yn tynnu ar waith sydd eisioes wedi'i gynnal mewn sefydliadau eraill.

## Gwasanaeth Cefnogol



Mae'r Gwasanaeth Cefnogol yn darparu cymorth gweinyddol megis trefnu penodiadau, archebu nwyddau, argraffu, talu biliau a dosbarthu post i staff y Cyngor.

Yn 2017/18, mae'r Gwasanaeth wedi canolbwyntio ar symleiddio trefniadau gweinyddol, lleihau gwaith papur diangen a galluogi i staff a rheolwyr gael mynediad at wasanaeth a gwybodaeth yn uniongyrchol ac yn amserol.

I'r dyfodol byddwn yn:

- cyflwyno mynediad ar-lein i wasanaethau allu gwirio cofnodion troseddol
- mewnosod trefniadau recriwtio a phenodi er mwyn lleihau gweinyddiaeth fewnol a hefyd hwylyso'r dasg i unigolion wrth ymgeisio am swydd efo'r Cyngor.
- newid y drefn o gyfathrebu a gweinyddu trwy bapur i fod yn gweithio'n electroneg.

## Gwasanaeth Ymgynghorol Iechyd, Diogelwch a Llesiant



Mae'r Gwasanaeth yn rhoi cyngor a hyfforddiant ar faterion iechyd a diogelwch, yn ymchwilio i ddamweiniau a digwyddiadau ac yn gwirio safonau o ran trefniadau iechyd a diogelwch ar draws y Cyngor.

Yn ychwanegol at hyn rydym yn cefnogi staff trwy gyfnodau o absenoldebau, yn rhoi cyngor i reolwyr ar iechyd eu staff ac asesu addasrwydd i weithio yn dilyn anaf neu salwch, yn sgrinio iechyd gweithwyr ac yn cynnal gwyladwriaeth iechyd ar staff.

Cynhaliwyd adolygiad o'r gefnogaeth lles meddyliol yn 2017/2018 ac adnabuwyd nifer o agweddau ar gyfer gwella gan gydnabod mai dyma'r prif reswm am salwch ymysg staff y Cyngor

I'r dyfodol byddwn yn:

- Lleihau absenoldebau, a canolbwyntio yn benodol ar flaenoriaethu'r rhaglen waith yn y maes lles meddyliol ac ar sut orau i ymdopi efo straen
- Parhau i hybu model busnes newydd ar gyfer y Gwasanaeth er mwyn annog perchnogaeth yn y gwasanaethau o faterion iechyd a diogelwch dydd i ddydd o fewn y Cyngor
- Sicrhau fod pob carfan o'r gweithlu wedi eu hasesu ar gyfer yr angen am wyladwriaeth iechyd.



## Dysgu a Datblygu'r Sefydliad



**Dysgu a  
Datblygu'r  
Sefydliad**

Mae'r Gwasanaeth yn cynnig cefnogaeth dysgu a datblygu perthnasol, ymgynghori ac ymateb i anghenion unigolion a thimau, helpu i ddatblygu awyrgylch waith a buddiannau fel bod pawb yn rhoi o'u gorau, helpu gwasanaethau i adnabod cyfleoedd i wella ac yn datblygu talent i lenwi bylchau'r dyfodol.

Golyga hyn ddarparu rhaglenni *Dysgu a Datblygu* i staff (ar bob lefel) ac Aelodau Etholedig, a'u hadolygu'n barhaus i sicrhau perthnasedd. Rydym yn gweithio hefo timau a swyddogion i 'lenwi bylchau' yn y ddarpariaeth a theilwra teitlau i gyfarfod eu hanghenion.

Byddwn yn hybu a chefnogi unigolion i gymryd perchnogaeth dros eu dysgu eu hunain, a chynigir amrediad o ddulliau dysgu sy'n cynnwys y 'traddodiadol' yn ogystal a dulliau arloesol megis *cymhelliant a mentora*, dysgu trwy brofiad a defnyddio technoleg. Ein bwriad yw datblygu ac ymestyn y ddarpariaeth e-ddysgu.

Byddwn yn *Datblygu'r Sefydliad* drwy gynorthwyo'r Cyngor i sefydlu a datblygu'r awyrgylch waith sy'n caniatáu i staff fod ar eu gorau, a rhoi pobl Gwynedd yn ganolog. Mae hyn yn cynnwys datblygu ymddygiadau a diwylliant priodol gan ddilyn egwyddorion *Buddsoddwyr Mewn Pobl*, datblygu trefniadau

gwaith amgen a sicrhau llais i staff. Ochr yn ochr a hyn, byddwn yn parhau i ymestyn y buddiannau presennol sydd ar gael i staff.

Elfen bwysig arall yw *Gwella Gwasanaeth* drwy ymateb yn gadarnhaol i *Gwynion*, gan hwyluso trefniadau i Wasanaethau'n cymryd perchnogaeth drostynt, a dysgu ohonynt.

I'r dyfodol byddwn yn:

- Cyflwyno gwasanaeth Dysgu a Datblygu ar-lein MoDS (Modiwl Datblygu Staff)
- Datblygu cynlluniau Datblygu Gweithlu'r Dyfodol (gan gynnwys Adnabod a Rheoli Talent)
- Sefydlu diwylliant Gwerthuso Parhaus sy'n cysylltu'n uniongyrchol i egwyddorion Ffordd Gwynedd

### Datblygu Arweinyddiaeth

### Blaenoriaeth Gwella 7



Mae sefydlu arweinyddiaeth sy'n gosod cyfeiriad, ysgogi eraill a chreu yr amgylchedd priodol ar gyfer ffynnu yn greiddiol i alluogi i'r Cyngor gyflawni'r nod o roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth y mae'n ei wneud. Mae'r rhaglen ddatblygu ar gyfer miniogi sgiliau arwain Aelodau Etholedig a swyddogion yn symud yn ei flaen yn addawol iawn. Mae holl Aelodau'r Cabinet wedi datblygu sgiliau arwain fel unigolion ac ar y cyd yn ystod y flwyddyn diwethaf, tra bo'r rhan helaethaf o reolwyr y Cyngor wedi cwblhau'r rhaglen datblygu sydd yn canolbwyntio ar ymddygiadau arweinwyr ac ar ddealltwriaeth o'r egwyddorion gweithredu sydd ynghlwm a sefydlu a chynnal y diwylliant newydd.

Byddwn yn parhau i gynnal y cyfleon datblygu i Aelodau a rheolwyr gyda'r ffocws ar ddiwylliant o arwain pobl yn hytrach na rheoli pobl yn unig. Byddwn yn ail-sefydlu'r 'Rhwydwaith Rheolwyr' hefyd a bydd hyn yn gyfle i reolwyr ar draws y Cyngor rannu arfer da a derbyn hyfforddiant pellach.

### Arfogi Unedau i roi Ffordd Gwynedd ar Waith

### Blaenoriaeth Gwella 7



Ni fydd sicrhau diwylliant cyson yn digwydd ar ei ben ei hun, a phwrpas y prosiect hwn fydd arwain timau gwasanaeth i adlewyrchu ar eu trefniadau gwaith presennol, herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac ystyried a oes lle i wella.

Drwy wneud hyn byddwn yn sicrhau fod pob uned gwasanaeth o fewn y Cyngor yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth y maent yn ei wneud. Bydd hefyd yn sicrhau ein bod yn ystyried dulliau amgen o weithredu (gan gynnwys cydweithio ag eraill) gan fesur y syniadau hynny yn ôl un llinyn mesur yn unig - sef i ba raddau y mae'n cynyddu'r budd i bobl Gwynedd.

Rydym eisoes wedi llunio rhaglen ddatblygu yn seiliedig ar ddysgu yn y gweithle ac wedi cynnal hyfforddiant ar egwyddorion Ffordd Gwynedd i benaethiaid, uwch reolwyr a'r rhan helaethaf o reolwyr. Yn ogystal, mae nifer o adolygiadau gwasanaeth wedi eu cynnal neu ar waith o fewn y Cyngor

Mae'r Strategaeth Ffordd Gwynedd wreiddiol a gyhoeddwyd yn Hydref 2015 wedi dod i ddiwedd ei hoes. Byddwn, yn dilyn ymgynghoriad, yn cyhoeddi strategaeth ar ei newydd wedd yn ystod 2019/20 tra'n parhau i gynnal hyfforddiant i reolwyr newydd a chefnogi gwasanaethau hefo adolygiadau ar draws y Cyngor er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i pa bynnag weithgaredd yr ydym yn ymwneud ag o.

## Cynllun Prentisiaethau

## Blaenoriaeth Gwella I



Mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu'r weledigaeth genedlaethol ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion o ddatblygu sgiliau hanfodol yng Nghymru a'r economi ehangach, adnabod y meysydd blaenoriaeth a sut y bydd prentisiaethau yn rhan annatod o wireddu hynny.

Mae'r Cyngor eisoes wedi adnabod meysydd priodol ar gyfer sefydlu prentisiaethau ac wedi clustnodi cyllid er mwyn gwireddu'r cynlluniau hynny am y ddwy flynedd nesaf.

Byddwn yn sefydlu Cynllun Prentisiaethau fydd yn cyflogi o leiaf 20 prentis o'r newydd yn ystod 2019/20.



# Adran Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)





## Adran Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)



Bwriad yr Adran Cyllid yw cyfrannu at gyflawni'r nod o geisio'r "gorau i bobl Gwynedd mewn cyfnod anodd" drwy:


- Sicrhau'r gefnogaeth briodol i weithrediad busnes y Cyngor a'i wasanaethau wrth reoli, gwarchod a datblygu ei sefyllfa ariannol, er mwyn sefydlu cymuned gynaliadwy mewn modd agored, ymatebol a blaengar.
- Sicrhau arweiniad cefnogol proffesiynol a thechnoleg o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo gwerthoedd sylfaenol y Cyngor ac annog mentergarwch.
- Darparu gwasanaethau rheng-flaen (fel casglu refeniw, a thalu budd-daliadau) o ansawdd addas i'r cwsmer, gan ddarparu tegwch i bobl a chymunedau, a rhoi ffocws ar drigolion.

### Gwasanaeth Budd-daliadau

Rydym yn gweinyddu cymorth budd-daliadau i tua 7,500 o denantiaid i dalu eu rhenti, ac i tua 10,000 o unigolion, cyplau neu deuluoedd i dalu eu bil Treth Cyngor, gan anelu i wneud hynny'n brydlon a chywir.

Fe welir o'r graff bod y nifer o ddiwrnodau y mae'n ein gymryd i ni dalu wedi gostwng hyd at 2017 a byddwn yn ceisio lleihau'r amser eto i'r dyfodol.

***Yn ystod 2019/20 byddwn yn parhau i gynorthwyo pobl Gwynedd fel bo'r angen yn dilyn cyflwyniad gwasanaeth llawn Credyd Cynhwysol yn Hydref a Rhagfyr 2018.***




### Gwasanaeth Trethi

Heb Dreth Cyngor a Threthi Busnes, ni fyddai'n bosib i'r Cyngor ddarparu ei wasanaethau. Mae'r gwasanaeth yma yn gweinyddu a chasglu Treth Cyngor dros 61,500 eiddo, a Threth Busnes (Treth Annomestig) tua 7,500 eiddo busnes yn y ffordd fwyaf prydlon ac effeithlon bosib, gan gynnwys gweinyddu'r amrywiaeth o ddisgowntau, eithriadau a chynlluniau rhyddhad sydd ar gael.

Rydym yn deall yn iawn nad yw hi'n hawdd i bawb dalu'r trethi yma, ac fe fyddwn yn ceisio bod yn hyblyg (e.e. annog trefniadau a chytundebau talu) a chydymdeimladol i amgylchiadau unigolion. Rydym yn ceisio cymell unigolion i ofyn am gyngor ar gyllido personol a chyngor dyledion ehangach.

Canran Treth Cyngor a Threthi Busnes sy'n cael eu casglu o fewn y flwyddyn




## Gwasanaeth Incwm

Mae'r Cyngor yn derbyn incwm (e.e. grantiau, taliadau am wasanaeth) o bob math, ac mae'r Gwasanaeth Incwm yn prosesu'r incwm yma, gan gasglu dyledion y Cyngor yn brydlon ac effeithlon er mwyn gwneud yn fawr o'r incwm. Rydym fel gwasanaeth yn ystyried anghenion adrannau'r Cyngor a gweithredu'n sensitif i amgylchiadau ariannol dyledwyr wrth fynd at ei waith.

**Rydym wedi adnabod yr angen i wella prosesau adennill rhai o ddyledion yr Adran Oedolion, lechyd a Llesiant, a byddwn yn cydweithio â'r Adran honno er mwyn gwneud yn fawr o'r arian dyledus sy'n cael ei gasglu ac sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau.**

■ Gwerth dyledion amrywiol dros 6 mis oed



## % anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod



2017/18  
91%



2016/17  
91%



2015/16  
92%

## Gwasanaeth Taliadau

Rydym yn gyfrifol am dalu credydwyr y Cyngor a GwE yn gywir ac ar amser. Byddwn yn talu dros 105,267 o anfonebau yn flynyddol, gyda 91% o'r anfonebau yn cael eu talu o fewn 30 diwrnod ar gyfartaledd, gan anelu i flaenoriaethu talu cyflenwyr lleol yn brydlon.

**Byddwn yn symud i drefniadau o e-anfonebu a hynny er mwyn gwella effeithlonrwydd y gwasanaeth. Bydd y trefniadau yma'n lleihau'r oedi wrth dalu ac yn ein galluogi i gael rheolaeth dros yr holl anfonebau fydd yn cyrraedd y Cyngor.**


## Gwasanaeth Cyflogau

Mae dros 7,200 o unigolion gwahanol yn gweithio i'r Cyngor er mwyn ei alluogi i wasanaethu ar ran pobl Gwynedd, a phwrpas y Gwasanaeth Cyflogau ydi sicrhau eu bod yn cael eu talu yn gywir ac ar amser. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cadw cyfrifon priodol ar gyfer talu cyrff allanol fel Cyllid a Thollau ei Mawrhydi (HMRC).

**Byddwn yn adolygu pa wybodaeth sydd angen ei chynnwys ar y slipiau cyflog, megis amlygu cyfraniad pensiwn cyflogwr ac ati.**

## Gwasanaeth Pensiynau

Mae'r Gwasanaeth Pensiynau yn gyfrifol am weinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) ar ran dros 40 o gyflogwyr gan gynnwys Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r gronfa yn cynnwys dros 16,000 o aelodau actif, 10,000 o aelodau gohiriedig a 9,000 o bensiynwyr. Mae dyletswyddau'r gwasanaeth o ddydd i ddydd yn cynnwys sefydlu record i aelodau newydd; gwneud newidiadau i gofnodion aelodau; cyfrifo buddion gohiriedig; trosglwyddo hawliau pensiwn i mewn ac allan o'r CPLIL, a thalu buddion ar ôl ymddeoliad a marwolaeth aelodau'r cynllun.



**Byddwn yn gwella eglurder dogfennaeth, er mwyn sicrhau eu bod yn ddealladwy i bawb.**

## Gwasanaeth Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys

Yn y gwasanaeth yma rydym yn buddsoddi arian y Cyngor er mwyn ennill llog i gyfrannu at ariannu gwasanaethau. Rydym hefyd yn rheoli buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn er mwyn sicrhau'r gallu i dalu pensiynau rŵan ac i'r dyfodol. Yn ychwanegol at hyn, rydym yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ar fenthyciadau tymor hir.

Amcan yr uned yw cadw'r arian yn ddiogel, ennill llog a sicrhau fod arian ar gael i dalu am wariant dyddiol.

Yn ystod 2017/18 arhosodd gweithgarwch benthyca'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol. £211,000 oedd cyfanswm y llog a dderbyniwyd ar fuddsoddiadau sydd yn uwch na'r £173,000 oedd yn y gyllideb. Nid oedd unrhyw fanciau yr oedd y Cyngor wedi'u defnyddio ar gyfer buddsoddi wedi methu talu.

**Mae cronfeydd pensiwn llywodraeth leol yng Nghymru yn gweithio drwy bŵlio buddsoddiadau er mwyn cael y budd gorau o gyd-fuddsoddi.**

## Gwasanaeth Cyllid a Chyfrifeg (yn cynnwys Unedau datganoledig)

Rydym yn darparu gwasanaeth cyllid a chyfrifeg, a chynorthwyo a chefnogi gwasanaethau i fod yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae'r gwasanaeth:

- Yn monitro ac adrodd yn rheolaidd ar berfformiad ariannol y Cyngor.
- Yn darparu cefnogaeth ariannol gyda chyllideb gros o dros £405 miliwn
- Yn gyfrifol am gynhyrchu cyfrifon terfynol ar gyfer cyfrifon Cyngor Gwynedd, dau Cyd-Bwyllgor a chyfrifon yr Harbwr.
- Yn cynorthwyo'r adrannau i wireddu dros £48.5 miliwn o arbedion a thoriadau ers 2010/11, sydd yn 96% o'r targed arbedion, gydag ychydig o lithriad ar y gweddill. Mae'r gwaith o gefnogi'r drefn arbedion yn parhau.



**Llwyddiant i gadw  
o fewn y gyllideb  
-0.36%**

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cyhoeddi adroddiad archwiliad diamod ar ddatganiadau ariannol 2017/18, sef bod y cyfrifon wedi eu paratoi'n briodol ac yn rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa ariannol.

**Byddwn yn darparu mwy o gyngor ariannol i holl ddeiliaid cyllidebau'r Cyngor, yn ogystal â chyngor "busnes" i adrannau.**


**Nid yw'r arian mae'r Cyngor yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru yn ddigonol i dalu am y gwasanaethau allweddol mae'r Cyngor yn ddarparu. Felly, er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys byddwn hefyd yn parhau i wireddu'r arbedion sydd eisoes wedi eu cymeradwyo, a hefyd yn sicrhau ein bod yn cynllunio ar y cyd â phobl Gwynedd i ddarganfod a dethol yr arbedion fydd eu hangen er mwyn ymateb i'r her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn y dyfodol.**

## Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Rydym yn adolygu trefniadau llywodraethu a gweinyddol y Cyngor er mwyn rhoi hyder i'r awdurdod ac i'r dinesydd fod y trefniadau yma yn gadarn. Byddwn yn adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

Ar gyfer 2018/19, cyflwynwyd trefn newydd o osod adroddiadau Archwilio Mewnol mewn un o bedwar categori o sicrwydd cyffredinol. Mae adborth gychwynnol wedi bod yn bositif iawn.

Cwblhawyd y drefn o ddatblygu "camau gweithredu cytunedig", sef cytundeb rhyngom â rheolwyr ar draws y Cyngor ar sut i wella rheolaeth a lleihau risgiau.



## Gwasanaeth Risg ac Yswiriant

Mae angen i holl adrannau'r Cyngor asesu'r bygythiadau a chyfleoedd all eu hwynebu wrth ddarparu eu gwasanaethau, a blaenoriaethu eu gweithgareddau ar sail yr asesiad. Rôl y Gwasanaeth Risg ac Yswiriant ydy cynghori a chefnogi'r adrannau wrth wneud hyn. Rydym hefyd yn amddiffyn buddiannau trethdalwyr drwy sicrhau trefniadau yswiriant priodol ac ymdrin â thua 250 o hawliadau'r flwyddyn.

## Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth

**Rydym yn gweithredu Strategaeth Technoleg Gwybodaeth y Cyngor er mwyn helpu pobl Gwynedd i gael mynediad rhwydd at wybodaeth a gwasanaethau'r Cyngor, ac i staff weithio'n effeithlon.**

Wyneb y gwasanaeth yw'r Gwasanaeth Cefnogol a'r Ddesg Gymorth sy'n cefnogi 2,350 o ddefnyddwyr ac yn diwallu tua 20,000 cais am wasanaeth gan gynnwys darparu 450 cyfrifiadur newydd bob blwyddyn a 1,780 o ffonau symudol a chyfrifiaduron llechen.

Mae'r Strategaeth Technoleg Gwybodaeth yn sicrhau bod ein gwasanaethau technoleg yn cael eu cyflwyno ar seiliau cadarn sy'n

cael ei gefnogi gan yr *Uned Isadeiledd, Teleffon a Rhwydwaith*, gan ymledu i 250 adeilad, 1,400 o bwyntiau mynediad di-wifr a 2,370 o gysylltiadau ffôn ac yn cefnogi'r holl systemau yn ein canolfan data ar 440

### % argaeledd rhwydwaith

2017/18 – 99.98%  
2016/17 – 99.94%  
2015/16 – 99.95%



### % argaeledd Safle We Cyhoeddus

2017/18 – 99.41%  
2016/17 – 99.98%  
2015/16 – 99.62%



gweinyddwr a 880TB o storfa. Er y seiliau cadarn, mae angen cyflwyno gwellianau i gryfhau gwytnwch y seiliau hyn, a bydd y gwaith hwn yn parhau drwy hanner cyntaf 2019/20.

Fe fydd y Strategaeth bresennol yn cael ei hollynu gan Strategaeth Ddigidol newydd yn ystod 2019/20 gan drawsnewid ein gwasanaethau ymhellach.

Mae'r *Uned Datblygu a Gwasanaeth Gwybodaeth Ddaearyddol* yn darparu oddeutu 160 system sydd wedi eu datblygu o amgylch anghenion pwrpasol y defnyddiwr, gan gynnwys systemau sy'n cael eu defnyddio gan yr adrannau i wasanaethu'r cyhoedd, rhyngwynebau uniongyrchol i'r cyhoedd a hunan-wasanaeth i staff.

Mae'r *Uned Rheoli Rhaglen ac Arloesi* yn darparu cefnogaeth i'r adrannau ar gyfer diwallu eu hanghenion TG, gan gynnwys archebu cyfarpar a deunyddiau TG, gweithredu a monitro cytundebau a dadansoddi anghenion.

**Yn ystod 2019/20 byddwn yn cynnal ymarferion pellach i gryfhau gwytnwch ein darpariaeth a'r gofyn cynyddol i gefnogi gwasanaethau 24/7 awr.**



# Gwasanaethau Cyfreithiol



# Gwasanaethau Cyfreithiol



**Mae'r adran yn cefnogi gallu'r Cyngor i ddarparu'r gorau i drigolion Gwynedd drwy gyfuniad o wasanaethau cefnogol a rheng-flaen.**

## CYFREITHIOL

**Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn darparu cefnogaeth gyfreithiol ar draws holl ystod gwaith y Cyngor, o amddiffyn plant ac erlyn i baratoi gorchmynion traffig a thrafodion tir ac eiddo.**

Yn ogystal â bod ar gael i ymdrin ag ymholiadau dyddiol, mae'r tîm yn ymdrin â tua 900 o achosion a thrafodion yn flynyddol ar gyfartaledd.

## PRIODOLDEB

**Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn cefnogi'r Pwyllgor Safonau a'r Swyddog Monitro i weithredu eu cyfrifoldebau am briodoldeb gweithrediad y Cyngor, y Cyfansoddiad a chwynion ynghyd â'r fframwaith foesebol ar gyfer aelodau'r Cyngor a Chynghorau Tref a Chymuned.**

Rydym yn parhau i gefnogi cyfundrefn priodoldeb Cyngor Gwynedd ynghyd â'r gyfundrefn foesebol i Gynghorau Tref a Chymuned y Sir.

## ETHOLIADAU

**Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn darparu cefnogaeth i'r Swyddog Canlyniadau a'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd.**

Rydym fel tîm yn gweinyddu'r gofrestr etholwyr ynghyd â chynnal etholiadau ac is-etholiadau lleol a chenedlaethol, refferenda neu boliau o fewn y sir.

## Prosiectau

Mae'r Gwasanaeth yn gweithredu ar brosiect i wella defnydd o amser ac adnoddau er mwyn gwneud y gorau o'r capasiti sydd ar gael i gynnyddu cofrestru ymhlith carfanau ble mae lefelau'n is na'r cyfartaledd, ac hefyd hyrwyddo ymhlith oedran uwchradd.

## CRWNER

**Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn darparu cefnogaeth i Wasanaeth y Crwner ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru.**

Rydym yn cefnogi a gweinyddu trefniadau'r Crwner ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru.

### Dangosyddion 2017/18

Canran holiaduron bodlonrwydd cwsmer sy'n sgorio 10/10





# Gwybodaeth Ariannol




## **GWYBODAETH ARIANNOL 2019/20**

Bydd yr wybodaeth yn cael ei pharatoi erbyn cyfarfod Cyngor Gwynedd ar 7 Mawrth 2019



# Datganiad Llesiant Cyngor Gwynedd



## DATGANIAD LLESIANT CYNGOR GWYNEDD 2019/20

### Cyflwyniad

Rydym fel Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau Gwynedd.

Byddwn yn sicrhau bod y Cyngor yn ystyried yr hirdymor, gan gydweithio ac ystyried pobl o bob oedran wrth ddatrys ac atal problemau. Bydd gweithredu yn y modd hwn yn ein galluogi i gwrdd ag anghenion presennol ein cymunedau gan sicrhau nad yw penderfyniadau heddiw yn niweidiol i genedlaethau'r dyfodol.

Fe adolygwyd y gyfres wreiddiol o amcanion llesiant (a fabwysiadwyd ar gyfer y Cyngor yng Nghynllun y Cyngor 2017/18) fel rhan o'r broses o lunio Cynllun y Cyngor ar gyfer 2018-23. Mae'r dystiolaeth a gymerwyd i ystyriaeth yn cynnwys gwybodaeth o sesiynau ymgynghori a gynhaliwyd gyda Aelodau Etholedig ar draws y Sir, adborth o sesiwn ymgynghori gyda aelodau Pwyllgorau Craffu y Cyngor, ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus ar flaenoriaethau arfaethedig ar gyfer Cynllun y Cyngor a chanlyniadau Aseiad Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn.

Defnyddiwyd y wybodaeth hyn i ddatblygu'r gyfres newydd o amcanion llesiant ar gyfer 2018/19 a bu i ni hefyd edrych i gynhoi, mireinio a gwella ar y gyfres wreiddiol o amcanion a fabwysiadwyd. Wrth adolygu ein hamcanion llesiant ar gyfer 2019/20 teimlir fod y dystiolaeth uchod yn parhau i fod yn gyfredol ac felly bydd ein hamcanion llesiant yn parhau fel ag yr oeddent.

### Uchelgais ac Amcanion Llesiant y Cyngor

Ein uchelgais yw gweld pob cymuned yng Ngwynedd yn ffynnu, a'n bod fel pobl yn...

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
- Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir.

Bydd gwaith dydd i ddydd y Cyngor a'r blaenoriaethau gwella sydd wedi eu hadnabod yng Nghynllun y Cyngor 2018-23 yn cyfrannu tuag at yr amcanion uchod.

## Nodau Llesiant Cenedlaethol

Ceir crynodeb o'r nodau llesiant cenedlaethol isod.

### **CYMRU LEWYRCHUS**

Cymdeithas arloesol sy'n defnyddio adnoddau'n ddarbodus, pobl addysgedig, sy'n creu cyfoeth a gwaith.

### **CYMRU GYDNERTH**

Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau iach sy'n cefnogi gwydnwch a gyda'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

### **CYMRU IACHACH**

Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle mae pobl yn deall beth sy'n effeithio ar eu hiechyd.

### **CYMRU FWY CYFARTAL**

Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

### **CYMRU O GYMUNEDAU CYDLYNUS**


Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

### **CYMRU Â DIWYLLIANT BYWIOG LLE MAE'R GYMRAEG YN FFYNNU**

Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

### **CYMRU SY'N GYFRIFOL AR LEFEL FYD-EANG**

Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.



## **Sut mae amcanion llesiant y Cyngor yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol?**

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu 7 o amcanion llesiant sy'n cyfrannu tuag at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol. Mae'r tabl isod yn amlinellu'r cyswllt rhwng ein hamcanion llesiant a'r nodau llesiant cenedlaethol. Nodir hefyd bod ein gwaith dydd i ddydd yn cyfrannu tuag at y nodau llesiant cenedlaethol.

Byddwn yn sicrhau bod trigolion Gwynedd yn:	Llewyrchus	Cydnherth	Iachach	Cyfartal	Cymunedau Cyclynus	Diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu	Yn gyfrifol ar lefel byd-eang
Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel							
Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau							
Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd							
Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud							
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl							
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg							
Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir.							

### Sut y byddwn yn gweithredu i'r dyfodol?

Wrth gyflawni ein gwaith fe fyddwn yn ceisio sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â'r pum egwyddor datblygu cynaliadwy sydd wedi eu mabwysiadu'n genedlaethol:

- **Tymor Hir** - Cydbwysio anghenion tymor byr gyda rhai hirdymor a chynllunio ar gyfer y dyfodol
- **Atal** - Neilltuo adnoddau ar gyfer atal problemau rhag digwydd neu waethygu. Byddwn yn rhoi sylw i broblemau drwy atal ac ymyrryd yn fuan yn hytrach na thrwy ymateb.
- **Integreiddio**- Cael effaith gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a diwylliant.
- **Cydweithredu** - Gweithio gyda phartneriaid eraill i ddarparu gwasanaethau
- **Cynnwys (Cyfathrebu ac Ymgysylltu)** - Cynnwys pobl Gwynedd wrth geisio gwireddu ein cynllun a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal.

Mae ein gwasanaethau eisoes yn gweithredu mewn ffordd sy'n dilyn yr egwyddor datblygu cynaliadwy gan fabwysiadu ymagwedd hirdymor a dull cydweithredol, gan weithio mewn partneriaeth a chynnwys sefydliadau, unigolion a chymunedau. Yn ogystal, rydym yn

gweithredu yn ataliol lle'n bosib wrth ymateb i anghenion cyfredol a lleihau dibyniaeth, e.e. ym maes Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Ar ôl dweud hynny, mae dyfodiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wedi cynnig y cyfle inni fel Cyngor i gymryd stoc o'r hyn rydym eisoes yn ei wneud i weithio mewn ffordd gynaliadwy a gosod uchelgais i ni'n hunain ar gyfer y cyfnod nesaf.

Bydd unrhyw benderfyniadau ariannol yn rhoi sylw gofalus i'n gallu i gyflawni'r hyn rydym wedi ei amlinellu yng Nghynllun y Cyngor 2018-23, a byddwn yn adolygu'r hyn rydym yn ei wneud yn barhaus er mwyn sicrhau fod llesiant pobl Gwynedd i'r dyfodol yn rhan ganolog o'r ffordd rydym yn cynllunio a darparu ein gwasanaethau.

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

## 1 Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r Cynllun dan sylw?

Cynllun y Cyngor 2018 – 23 – *Adolygiad 2019/20*

### 1.2 Beth ydi pwrpas y Cynllun sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Pwrpas Cynllun y Cyngor ydi adnabod blaenoriaethau a meysydd allweddol i'w gweithredu rhwng 2018 a 2023. Cafodd fersiwn wreiddiol y Cynllun ei fabwysiadu gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 8 Mawrth 2018.

Caiff y Cynllun ei adolygu'n flynyddol a'i ail-gyhoeddi gydag unrhyw addasiadau angenrheidiol. Dyma'r newidiadau sydd wedi eu gwneud yn *Adolygiad 2019/20* -

Mae'r prosiectau canlynol unai wedi eu cwblhau neu wedi trosglwyddo i fod yn rhan o waith dydd i ddydd yr Adrannau perthnasol yn ystod 2018/19 :

- **Trawsnewid y gyfundrefn ysgolion** – Adran Addysg
- **Rhiantu Corfforaethol** – Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd
- **Gwireddu Arbedion** – Adran Cefnogaeth Gorfforaethol/Cyllid

Mae'r prosiectau canlynol wedi eu hychwanegu:

#### **Blaenoriaeth Gwella 1**

- **Hybu Canol Tref** – Adran Economi a Chymuned
- **Cynllun Prentisiaethau** – Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

#### **Blaenoriaeth Gwella 2**

- **Darpariaeth Ôl-16** - Adran Addysg
- **Dalgylch Treferthyr** - Adran Addysg

Yn ogystal, mae'r prosiectau canlynol wedi newid:

#### **Blaenoriaeth Gwella 3**

- **Trechu tlodi** – bydd y pwyslais yn newid i ganolbwyntio ar y maes ataliol a'r gefnogaeth a gynigir gyda'r teitl yn newid i **Cefnogi Llesiant Pobl** – Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd
- **Lleihau'r Bwlch Cyflog Rhwng Merched a Dynion** – teitl wedi newid i **Merched**

## **mewn Arweinyddiaeth – Adran Cefnogaeth Gorfforaethol**

### **Blaenoriaeth Gwella 4**

- **Tai Addas a Fforddiadwy ac Adnabod a Hyrwyddo Cynlluniau a Mentrau Tai – gwaith yn parhau fel rhan o brosiect **Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd – Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant****

Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yma yn edrych ar y Cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae disgwyl i bob cynllun unigol gael Asesiad ar wahân. Dyletswydd y person sy'n gyfrifol am y cynllun unigol yw gwneud yr Asesiad yna.

### **1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?**

Dewi Jones, Rheolwr Uned Cefnogi Busnes y Cyngor

### **1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?**

27 Mehefin 2017, fersiwn 1 yn ymwneud â'r ymgysylltiad  
13 Rhagfyr 2017, fersiwn 2, asesiad llawn o'r Cynllun  
Hwn yw fersiwn 3 – 4 Chwefror 2019.

## **2) Gweithredu**

### **2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?**

Aelodau, defnyddwyr gwasanaeth, trigolion Gwynedd, partneriaid ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn

### **2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion cydraddoldeb?**

Ymgynghoriad 6 wythnos yn ystod gaeaf 2017/18 i gyflwyno ac egluro'r blaenoriaethau drafft i'r cyhoedd, partneriaid a sefydliadau lleol a chodi ymwybyddiaeth o'r cyfle iddynt gymryd rhan yn yr ymarferiad drwy gwblhau holiadur byr ar-lein ar [www.gwynedd.llyw.cymru/ymgyngori](http://www.gwynedd.llyw.cymru/ymgyngori). Roedd copïau papur hefyd ar gael yn llyfrgelloedd a Siopau Gwynedd leol.



Anogwyd cymaint â phosib o bobl Gwynedd i gwblhau a dychwelyd yr holiadur gan ddefnyddio gwefan y Cyngor, y wasg leol, rhaeadru'r neges trwy ein partneriaid, gwefannau cymdeithasol ac e-newyddlen aelodau etholedig Rhaeadr.

Cysylltwyd â cymaint a phosib o grwpiau diddordeb a grwpiau sy'n cynrychioli neu'n gweithio hefo pobl a/neu blant hefo nodweddion cydraddoldeb i roi gwybod iddynt am yr ymgysylltiad ac i ofyn iddynt hysbysu eu defnyddwyr am yr holiadur.

### 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Derbyniwyd 197 o holiaduron.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr gwblhau cwestiynau am eu nodweddion cydraddoldeb (yn ddewisol) a roedd yr wybodaeth a gasglwyd fel a ganlyn:

- 1) Cwblhau'r holiadur fel...
  - Unigolyn - 159
  - Sefydliad neu fusnes – 5
  - Dim ateb – 33
  
- 2) Rhyw
  - Gwryw - 84
  - Benyw - 65
  - Gwell gennyf beidio â dweud – 9
  - Dim ateb – 39
  
- 3) Grŵp oedran
  - 18-29 - 8
  - 30-39 - 23
  - 40-49 - 29
  - 50-59 - 34
  - 60-69 - 31
  - 70 neu'n hyn - 25
  - Gwell gennyf beidio â dweud - 9
  - Dim ateb – 38
  
- 4) Hunaniaeth genedlaethol
  - Cymro / Cymraes – 77
  - Sais / Saesnes – 22
  - Prydeiniwr / Prydeinwraig – 46
  - Arall – 9
  - Gwell gennyf beidio â dweud – 8
  - Dim ateb – 35

5) Tarddiad Ethnig

- Gwyn - 141
- Cymysg / sawl grwp ethnig – 4
- Du / Affricanaidd / Caribiaidd – 1
- Gwell gennyf beidio â dweud – 11
- Arall – 3
- Dim ateb – 37

6) Ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl?

- Ydw - 15
- Nac Ydw - 129
- Gwell gennyf beidio â dweud – 15
- Dim ateb – 38

7) Crefydd

- Christian (pob enwad) – 72
- Hindw – 2
- Dim crefydd – 52
- Anffyddiwr – 5
- Tyst Jehova – 1
- Dyniaethwr -1
- Vasinava – 1
- Wicca - 1
- Arall – 7
- Gwell gennyf peidio â dweud – 17
- Dim ateb – 38

8) Cyfeiriadedd Rhywiol

- Heterorywiol / Strêt - 127
- Dyn hoyw – 1
- Deurywiol – 1
- Arall – 8
- Gwell gennyf beidio â dweud - 20
- Dim ateb – 40

9) Rhywedd adeg geni

- Gwryw - 79
- Benyw – 61
- Rhyngrywiol - 1
- Gwell gennyf beidio â dweud - 15
- Dim ateb – 41

10)Y ffordd rydych yn meddwl amdanoch chi eich hun

- Gwryw - 77

- Benyw - 59
- Arall – 8
- Gwell gennyf beidio â dweud - 13
- Dim ateb - 40

Nid oedd yn bosib adnabod patrwm yn ymatebion unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb

## 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Fel rhan o'r broses o lunio Cynllun y Cyngor ar gyfer 2018-23 yn 2018 cynhaliwyd cyfres o 8 cyfarfod ardal yn ystod mis Gorffennaf er mwyn rhoi cyfle i aelodau lleol amlygu unrhyw faterion oedd angen sylw o fewn yr ardal oedd hynny. Yn ogystal, bu i aelodau'r Pwyllgorau Craffu adnabod materion yr oeddent hwy o'r farn y dylid eu cynnwys o fewn Cynllun y Cyngor i'r dyfodol.

Cynhaliwyd 4 sesiwn gweithdy pellach gydag aelodau ym mis Medi yng Nghaernarfon, Penrhyndeudraeth, Dolgellau a Phwllheli. Bwriad y gweithdai hyn oedd rhoi cyfle iddynt adnabod y blaenoriaethau sirol i'w cynnwys o fewn Cynllun y Cyngor a chynnig sylwadau pellach ar y blaenoriaethau sydd wedi eu hadnabod fesul ardal.

## 2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Nac oes

## 3) Adnabod yr Effaith

### 3.1 Beth yw'r effaith fydd y Cynllun newydd yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb? Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb.

Nodweddion	Sut fath o effaith?	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	Dim wedi ei adnabod	Nid oes unrhyw gynlluniau unigol yn ymwneud â'r nodwedd yma. Bydd angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried.

<p><b>Yr iaith Gymraeg</b></p>	<p>Positif</p>	<p>Mae hwn yn faes blaenoriaeth felly disgwylir cael effaith positif ar yr iaith Gymraeg. Disgwylir i bob cynllun unigol i edrych ar yr effaith ar yr iaith wrth wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar wahân.</p> <p>Wrth sôn am flaenoriaethu'r Gymraeg yn benodol yn yr ymgynghoriad, roedd 18 o'r sylwadau yn cefnogi'r angen i flaenoriaethu'r Gymraeg ac 14 yn dweud na ddylid gwario arian ar yr iaith.</p> <p>Derbyniwyd nifer o sylwadau am ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y gymuned neu thu allan i'r ystafell ddosbarth hefo mudiadau fel Clwb Ffermwyr Ifanc yn cael eu crybwyll gan nifer yn sgil cynnig i ad-drefnu'r Gwasanaeth Ieuencid.</p> <p>Yn ychwanegol adnabuwyd yr anghenion canlynol - i'r Cyngor helpu'r sector breifat i gynnig darpariaeth Cymraeg, mwy o arwyddion dwyieithog, a sicrhau swyddi neu dai addas er mwyn cadw pobl ifanc yn yr ardal. Credai un fod y Gymraeg yn sgil i ddenu swyddi i'r ardal.</p> <p>Roedd pryder fod blaenoriaethu'r Gymraeg yn gelyniaethu'r di-Gymraeg a thwristiaid. Roedd pryder hefyd am gostau, gyda nifer yn credu nad oedd eisiau gohebu'n ddwyieithog ond yn hytrach yn newis iaith y derbynnydd ac nad oes angen cyfieithu ar y pryd os yw pawb yn gallu siarad Saesneg. Nodwyd y gallai polisi staffio'r Cyngor elyniaethu pobl di-Gymraeg a gallai'r Cyngor golli allan ar staff sy'n fwy galluog/profiadol. Credwyd fod hyn yn arbennig o debygol mewn meysydd fel gofal. Awgrymwyd y dylid cael cyfle i ddysgu'r Gymraeg 'on the job' a hefyd y dylai'r Cyngor annog, nid gorfodi, staff i siarad yr iaith.</p> <p>Roedd galw gan un person i'r ohebiaeth gan ysgolion fod yn ddwyieithog yn hytrach nag uniaith Gymraeg.</p> <p>Yn ôl yr ymatebwyr, y pethau pwysig am wersi Cymraeg oedd eu cost, eu cyfleuster (trafnidiaeth ayb) a'u haddasrwydd.</p> <p>Derbyniwyd nifer o sylwadau am y Gymraeg wrth drafod materion plant, pobl ifanc a theuluoedd yn ogystal. Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau hynny'n erbyn rhoi ffafiaeth i'r iaith Gymraeg. Mae pryder y</p>
--------------------------------	----------------	---

		<p>byddai'n effeithio safonau addysg a recriwtio staff a hefyd am y gost. Dywedwyd y dylid gadael i athrawon ddatblygu sgiliau iaith tra yn y swydd. Ar y llaw arall derbyniwyd sylwadau am yr angen i datblygu deunyddiau e.e. apps, a rhoi gwersi Cymraeg am ddim.</p> <p>Er nad yn sôn am yr iaith Gymraeg yn benodol, mae nifer o sylwadau yn ymwneud â'r angen am dai fforddiadwy a thai i bobl lleol.</p> <p>Nodwyd yr angen am Gymraeg clir wrth gyfathrebu hefo'r cyhoedd, yn arbennig adroddiadau addysg. Nodwyd hefyd yr angen i wella safon yr iaith mewn gohebiaeth ayb a'r angen i'w wirio cyn ei anfon. Roedd yr ymatebydd yn derbyn mai oherwydd fod y Gymraeg yn iaith naturiol roedd y gwallau'n digwydd.</p>
<b>Anabledd</b>	Positif	<p>Mae gofal yn faes blaenoriaeth felly disgwylir cael effaith bositif. Disgwylir i bob cynllun unigol arall edrych ar yr effaith ar anabledd wrth wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar wahân.</p> <p>Mae'r ymatebion i'r ymgysylltiad yn dangos cefnogaeth mawr i'r gweithlu gofal gyda nifer eisiau iddynt gael codiad yn eu cyflog, amodau gweithio gwell, mwy o hyfforddiant a'r siawns i symud ymlaen yn eu gyrfa. Roedd pryder am y trosiant yn y gweithlu. Mae galw hefyd am wella safonau o fewn cartrefi gofal ac i ddenu mwy o bobl ifanc i fewn i'r maes.</p> <p>Neges gryf arall yw'r angen i wneud gwaith ataliol er mwyn sicrhau nad yw pobl angen gofal iechyd a dysgu o ymarfer da manau eraill. Dangoswyd cefnogaeth gryf i adnoddau fel llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden fel adnoddau ar gyfer hyn a byddai toriadau yn y meysydd hyn yn "false economy". Pwysleisiwyd hefyd yr angen am drafnidiaeth.</p> <p>Hefyd mae'r angen i'r Cyngor gydweithio mwy, yn fewnol a gyda mudiadau allanol fel iechyd a'r trydydd sector, yn neges gryf gan y rhai sydd wedi ymateb i'r ymgynghoriad. Dylid hefyd rhoi cefnogaeth i gymunedau a darparu adnoddau fel gofal iechyd a cartrefi gofal ychwanegol yng nghefn gwlad yn ogystal â'r trefi mawrion.</p>

		<p>Adnabuwyd y camddefnydd o fannau parcio hygyrch i bobl anabl. Dau berson o blaid pobl anabl yn talu am barcio, un ohonynt yn berson anabl. Dywedodd un person anabl fod ceir wedi parcio ar y pafin yn broblem iddo.</p> <p>Mae'r angen am amrywiaeth o dai wedi ei adnabod gan gynnwys rhai hygyrch.</p> <p>Dau berson yn poeni nad oeddynt yn cyrraedd meini prawf am ofal er ei bod yn anabl.</p> <p>Nodwyd fod pobl anabl a hefo rhai cyflyrau iechyd fwy o angen toiledau cyhoeddus.</p> <p>Credai nifer o Feirionnydd nad oedd ansawdd gofal yn wastad ar draws y sir hefo un person yn gofyn am ganolfan i bobl ag Alzheimers yn y rhanbarth ac un arall yn nodi pryder am fethu cael gofal yn y Gymraeg yno. Nododd un person anabl nad oedd yn bosib cael pobl i lanhau yn Meirionydd. Roedd wedi derbyn rhestr gan y Cyngor ond nid oedd neb arno o'i ardal. Credai fod hyn oherwydd yr angen i siarad Cymraeg. Roedd yn pryderu oherwydd yr effaith ar anghenion iechyd.</p>
<b>Rhyw</b>	Positif	<p>Ceir un cynllun unigol yn y benodol yn y maes yma sef "Ystyried a oes modd gwneud mwy o fewn polisi cyflogaeth y Cyngor i hybu'r nifer o ferched sy'n cyrraedd swyddi uwch" felly disgwylir effaith positif yma. Wedi dweud hynny nid yw'n bosib adnabod effaith y Cynllun yn ei gyfanrwydd heb gwblhau asesiadau effaith ar y cynlluniau unigol eraill.</p>
<b>Oedran</b>	Positif	<p>Mae oedran yn cael ei flaenoriaethu mewn nifer o feysydd felly disgwylir cael effaith positif ar faes plant, pobl ifanc a phobl hŷn.</p> <p>Disgwylir i bob cynllun unigol i edrych ar yr effaith ar oeddrannau gwahanol wrth wneud Aseiad Effaith Cydraddoldeb ar wahân.</p> <p>Roedd yr ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth i waith ym maes Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd, yn enwedig cymorth ac ymyrraeth cynnar, cryfhau addysg a rhoi hyfforddiant i bobl ifanc er mwyn iddynt cael swyddi. Roedd pryder fod pwyslais ar yr iaith Gymraeg yn effeithio recriwtio ac ansawdd addysg o fewn yr ysgolion. Nodwyd pwysigrwydd</p>

		<p>darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol. Roedd nifer yn mynegi nad oeddynt eisiau gweld toriadau ym maes gofal plant. Dywedodd un person ei bod yn bwysig i gefnogi pobl ifanc ar ôl iddynt adael gofal.</p> <p>Mae pryder ein bod yn colli pobl ifanc dawnus. Swyddi tymhorol twristiaeth ddim yn cadw pobl ifanc yn yr ardal. Diffyg gobaith a dyhead yn broblem i bobl ifanc ym Meirionnydd yn ôl un person. Pobl ifanc angen gwaith i dalu am dai.</p> <p>Mae'r Cyngor yn adnabod y bydd newid mewn demograffeg, hefo'r gymuned yn mynd yn hŷn. Mae'r ymateb i'r ymgysylltiad yn dangos fod pobl yn pryderu am ddarpariaeth i'r dyfodol, e.e. cartrefi gofal, oherwydd y newidiadau hyn. Mae galw i bobl allu byw yn annibynnol yn eu cymunedau ac i roi cefnogaeth i'r cymunedau hynny er mwyn lleihau'r angen am ofal. Mae un ymatebwr eisiau prentisiaethau i bobl hŷn nid yn unig pobl ifanc ac un arall yn nodi'r ffaith fod pobl hŷn angen parcio mewn llefydd agosach at y canol i dref.</p> <p>Gwelir galw hefyd am feithrin perthynas da rhwng y cenedlaethau, gyda'r rhaglen deledu Hen Blant Bach yn cael ei enwi. Un person yn cynnig y dylidparu pobl hŷn unig hefo pobl ifanc digartref.</p> <p>Adnabuwyd fod ceir yn parcio ar y pafin yn broblem i bobl hŷn a theluoedd hefo plant bychan mewn pramiau.</p> <p>Carfan o bobl sydd efallai ddim yn cael llawer o sylw wrth baratoi Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yw pobl oed gwaith ond mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwarchod hawliau pobl o bob oed. Mae'r sylwadau am swyddi ayb yn berthnasol i'r oedran yma. Roedd cefnogaeth gref i greu a chadw swyddi yng Ngwynedd a gwella'r isadeiledd er mwyn gwneud hynny. Roedd yna hefyd negeseuon am wella sgiliau'r trigolion, denu cwmnïau mawr, peidio bod yn or ddibynnol ar dwristiaeth, a chefnogi datblygiadau tu allan i'r sir. Gall diffyg trafnidiaeth cyhoeddus ar yr adegau iawn greu problemau i bobl sydd eisiau gweithio.</p> <p>Mae'r angen am amrywiaeth o dai wedi ei adnabod, gyda anghenion pobl ifanc a phobl hŷn yn cael eu hadnabod. Ond eto ni ddylid anghofio anghenion</p>
--	--	--

		<p>pobl o oedran arall, gyda'r galw am dai fforddiadwy a thai i bobl lleol. Roedd sylwadau hefyd am gael tai yn agos at gyfleon gwaith a chysylltiadau trafndiaeth cyhoeddus, llacio'r rheolau cynllunio yng nghefn gwlad, edrych ar dai gwag a'r angen am dai cymdeithasol. Teimlai un person mai'r broblem oedd fod y cartrefi sydd ar gael ddim yn y lle iawn i deuluoedd ifanc (h.y. mewn trefi wrth ymyl ysgolion a siopau).</p> <p>Roedd nifer o bobl yn adnabod pwysigrwydd llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden ar gyfer plant, pobl ifanc a phobl hŷn ar gyfer cymdeithasu, iechyd a rhywle i fynd oddi ar y stryd. Nodwyd hefyd yr angen am ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc e.e. clybiau ieuenctid, Clwb Ffermwyr Ifanc.</p>
<b>Cyfeiriadedd rhywiol</b>	Dim wedi ei adnabod	Nid oes unrhyw gynlluniau unigol yn ymwneud â'r nodwedd yma. Bydd angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried.
<b>Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)</b>	Dim wedi ei adnabod	<p>Nid oes unrhyw gynlluniau unigol yn ymwneud â'r nodwedd yma. Bydd angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried.</p> <p>Dywedodd un person nad oedd lle i grefydd o fewn addysg.</p>
<b>Ailbennu rhywedd</b>	Dim wedi ei adnabod	Nid oes unrhyw gynlluniau unigol yn ymwneud â'r nodwedd yma. Bydd angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried.
<b>Beichiogrwydd a mamolaeth</b>	Dim wedi ei adnabod	Nid oes unrhyw gynlluniau unigol yn ymwneud â'r nodwedd yma. Bydd angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried.
<b>Priodas a phartneriaeth sifil</b>	Dim wedi ei adnabod	Nid oes unrhyw gynlluniau unigol yn ymwneud â'r nodwedd yma. Bydd angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried.

### 3.2 Ydi'r Cynllun yn ateb y Dyletswyddau Cyffredinol yma? Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r dyletswyddau yma



<b>Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb</b>	<b>Ydi'r polisi'n cael effaith?</b>	<b>Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?</b>
<b>Cael gwared â cham- wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth</b>	Ydi	Dylai'r meysydd blaenoriaeth a'r cynlluniau unigol gael effaith ar y ddyletswydd. Bydd angen i'r Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried.
<b>Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal</b>	Ydi	Dylai'r meysydd blaenoriaeth a'r cynlluniau unigol gael effaith ar y ddyletswydd. Bydd angen i'r Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried. Fel dywedodd un ymatebwr, mae'n bwysig cofio nodweddion cydraddoldeb unigolion wrth ddarparu gwasanaethau, yn enwedig ym maes gofal.
<b>Meithrin perthnasau da</b>	Ydi	Dylai'r meysydd blaenoriaeth a'r cynlluniau unigol gael effaith ar y ddyletswydd. Bydd angen i'r Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried.

#### 4) Dadansoddi'r canlyniadau

##### 4.1 Ydi'r Cynllun felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a beth yw'r rheswm am hyn?

Mae'n ymddangos y dylai'r meysydd blaenoriaeth gael effaith sylweddol bositif ar o leiaf rai o'r nodweddion cydraddoldeb. Dim ond wedi i'r asesiadau ar y cynlluniau unigol gael eu gwneud fydd hi'n bosib gweld yr effaith lawn.

##### 4.2 Ydi'r Cynllun felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a beth yw'r rheswm am hyn?

Nid oes effeithiau sylweddol negyddol wedi eu hadnabod hefo'r Cynllun yn ei gyfanrwydd ond dim ond wedi i'r asesiadau ar y cynlluniau unigol gael eu gwneud fydd hi'n bosib gweld yr effaith lawn.

##### 4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewisiwch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r cynllun gan ei fod yn gadarn	X
Addasu'r cynllun i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r cynllun gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r cynllun oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	

##### 4.4 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Bydd angen gwneud asesiad ar y cynlluniau unigol i adnabod unrhyw effeithiau negyddol ac adnabod y camau fydd angen eu cymryd i'w liniaru.

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

Bydd hyn yn cael ei gyfarch yn yr Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol.

**5) Monitro**

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y cynllun (cynllun gweithredu)?**

Bydd yr adrannau unigol yn gyfrifol am weithredu'r cynlluniau unigol o fewn y Cynllun. Bydd Bwrdd Prosiect Cynllun Cyngor Gwynedd yn cefnogi a monitro cynnydd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth fydd yn cynnwys edrych ar yr Asesiadau Effaith Cydraddoldeb unigol.

## CYNGOR GWYNEDD

### ADRODDIAD I'R CABINET

<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	19.02.19
<b>Aelod Cabinet:</b>	Cyng. W Gareth Roberts & Cyng. Dilwyn Morgan
<b>Awdur:</b>	Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol
<b>Rhif Ffôn Cyswllt:</b>	Est 32468
<b>Teitl yr Eitem:</b>	Strategaeth Gofalwyr Gogledd Cymru

---

#### 1. Cefndir

- 1.1 Mae dyfodiad y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi sicrhau rhagor o hawliau i ofalwyr ac wedi symleiddio a chyfuno'r gyfraith, gan roi hawliau cyfartal iddynt am y tro cyntaf â'r unigolyn maent yn gofalu amdano.
- 1.2 Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn cydnabod y rôl allweddol mae gofalwyr yn ei chwarae yn yr amgylchedd iechyd a gofal cymdeithasol, a bod angen iddynt gael eu gwerthfawrogi am y cymorth maen nhw'n ei ddarparu.
- 1.3 Mewn ymateb i hyn, dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r bartneriaeth wedi llunio strategaeth sy'n cydnabod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth gyda gofalwyr o bob oedran drwy eu cyswllt gyda gwasanaethau, ac sy'n nodi 'cynnig' dylai gofalwyr ei ddisgwyl.

#### 2 Pam bod angen Penderfyniad

Cyswllt:

01286 679729 • 01286 679490



[cabinet@gwynedd.llyw.cymru](mailto:cabinet@gwynedd.llyw.cymru)

2.1 Mae'r strategaeth wedi ei lunio yn rhanbarthol ac angen ei fabwysiadu'n lleol.

### **3. Beth yw'r Penderfyniad a geisir**

3.1 Gofynnir i aelodau ystyried a derbyn y Strategaeth Gofalwyr a sicrhau bod trefniadau addas yn eu lle i fonitro perfformiad y Cyngor yn erbyn y mesurau o fewn y strategaeth.

### **4. Beth yw'r cefndir ac ystyriaethau perthnasol**

4.1 Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi blaenoriaethu gofalwyr i sicrhau ein bod fel rhanbarth yn darparu'r gofynion ar eu cyfer sydd o fewn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)2014. Mae hyn yn ymwneud a'r gwasanaethau y mae pobl yn eu derbyn fel gofalwyr unigol, ynghyd a'r gwasanaethau a ddarperir i ofalwyr drwy weithio mewn partneriaethau.

4.2 Mae'r Ddeddf yn diffinio gofalwyr fel gofalwyr di-dâl o bob oedran a chefnidir (gan gynnwys gofalwyr ifanc) sy'n gofalu am berthynas neu gyfaill sy'n sâl, yn wan neu sydd ag anabledd, sy'n methu ag ymdopi yn eu cartref heb gefnogaeth ymarferol neu emosiynol y gofalwr di-dâl.

4.3 Mae'r Strategaeth yn pwysleisio'r angen i bartneriaid ganolbwyntio ar edrych trwy lygaid gofalwyr er mwyn deall beth sy'n bwysig iddynt a beth fydd yn cyfrannu at les ac yn gwella eu hamgylchiadau. Wrth lunio'r strategaeth mae partneriaid wedi siarad â gofalwyr am beth sydd yn eu helpu i fod yn ofalwyr, i barhau i fod yn ofalwyr ac i fyw eu bywyd y ffordd maent am ei fyw.

4.4 Yn ogystal, mae'r strategaeth yn pwysleisio'r angen i bartneriaid gydweithio gyda gofalwyr wrth ddylunio gwasanaethau cynaliadwy a fydd yn cyfrannu at gadw gofalwyr yn iach. Bydd y gwasanaethau hyn yn rhan hanfodol o seilwaith iechyd, gofal cymdeithasol a lles.

4.5 Gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau gofalwyr yng Ngogledd Cymru yw:

- Meddwl am ofalwyr
- Cynnwys gofalwyr o bob grŵp a chymuned mewn prosesau gwneud penderfyniadau a chynllunio
- Gweithio mewn partneriaeth i ddylunio a chyd gynhyrchu gwasanaethu o amgylch y gofalwr.

4.6 Mae'r weledigaeth ar gyfer gwasanaethau gofalwyr yng Ngogledd Cymru wedi arwain at ddatblygu a chyd-gynhyrchu 'Cynnig' i ofalwyr yng Ngogledd Cymru sy'n cynnwys safnau gwasanaeth mae partneriaid yn ymrwymedig i'w cyflawni, sef:

- Hyrwyddo ymwybyddiaeth gyffredinol o ofalwyr a gofalu i'r boblogaeth ehangach ac i'r staff perthnasol yn y sector iechyd a gofal.
- Meddwl am ofalwyr wrth gomisiynu ac asesu anghenion, gyda sylw i natur wledig a'r rhai sydd bellaf oddi wrth wasanaethau am resymau eraill
- Cynnwys gofalwyr o bob grŵp a chymuned mewn prosesau gwneud penderfyniadau a chynllunio
- Adnabod gofalwyr yn gynnar ar bwynt cyswllt cyntaf gyda gwasanaethau.

## **5. Materion i'w Nodi**

- 5.1 Mae galw cynyddol i gryfhau'r rhan y mae unigolion a'r gymuned yn ei chwarae, trwy ddarparu llais a rheolaeth mewn iechyd a gofal a sicrhau bod pobl o bob oed a phob cymuned yn cael eu cynnwys yn gyfartal yn rhan annatod o un o raglenni gwella'r Cyngor sef 'Gwytnwch Cymunedol'. Mae'r rhaglen yn ceisio sicrhau bod unigolion yn gallu aros o fewn eu cymunedau ac i barhau i fyw yn annibynnol o fewn eu cymunedau, a rhan allweddol i hyn yw swyddogaeth a chyfraniad enfawr gofalwyr. Mae'r strategaeth yn cyd fynd a'n gweledigaeth bod ystod o wasanaethau ataliol ar gael o fewn ein cymunedau, bydd ymrwymo i'r strategaeth yn galluogi ni i gefnogi a gofalu am ofalwyr yn well ac wrth wneud hyn osgoi problemau yn y lle cyntaf.
- 5.2 Mae'r strategaeth yn ymateb i'r anghysondeb sydd yn bodoli yn bresennol yn y 'cynnig' sydd ar gael i ofalwyr ac yng nghyd fynd gyda gweledigaeth Cyngor Gwynedd i wasanaethau gofal ac iechyd a bod gofalwyr yn rhan annatod o ofal effeithiol, a'u bod yn bartner llawn wrth gynllunio gofal i unigolion. Yn ogystal bydd gweithredu'r strategaeth yn sicrhau cysondeb gwasanaeth ar draws y rhanbarth fydd yn fwy clir i gweithiwyr, holl bartneriaid gan gynnwys darparwyr a gofalwyr.
- 5.3 Mae prif fesurau llwyddiant wedi cael eu cynnwys o fewn y strategaeth bydd yn cynnig cyfle i ni adnabod ymarfer da ac amlygu unrhyw bryderon a rhwystrau. Bydd angen sicrhau bod y mesurau yma yn derbyn sylw o fewn ein cyfarfodydd herio perfformiad perthnasol a hefyd o fewn y Bartneriaeth Gofalwyr Lleol.

## **6. Unrhyw Ymgynghoriadau a Gynhaliwyd Cyn Argymell y Penderfyniad.**

### **6.1. Barn y Swyddogion Statudol:**

#### **i. Y Swyddog Monitro:**

Fel y esbonnir yn yr adroddiad mae'r Strategaeth bwysig yma wedi ei pharatoi ac yn cael ei hargymell drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Nid oes gennyf sylwadau i'w hychwanegu ynglŷn â phriodoldeb.

#### **ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Derbyniwyd cadarnhad gan yr awdur na fyddai'r penderfyniad a geisir yma'n creu unrhyw ymrwymiad ariannol ychwanegol. O ganlyniad, rwy'n cefnogi gweithredu'r Strategaeth.

### **6.2. Barn yr Aelod Lleol:**

6.2.1 Ddim yn fater lleol.

### **6.3. Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

6.3.1 Dim i'w nodi.

**Atodiadau:**

**Atodiad 1** Strategaeth Gofalwyr Gogledd Cymru



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU  
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**



**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING  
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE



## Strategaeth Gofalwyr Gogledd Cymru

- Strategaeth i ofalwyr o bob oed

Mehefin 2018



**Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru**

Arweinwyr prosiect: Morwena Edwards

Bethan Jones Edwards

Ffion Johnstone





CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU  
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING  
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

## Strategaeth Gofalwyr Gogledd Cymru

### - strategaeth i ofalwyr o bob oed

Mehefin 2018

### Cyflwyniad

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn cydnabod y rôl allweddol mae gofalwyr o bob oed yn ei chwarae yn yr amgylchedd iechyd a gofal cymdeithasol, a bod angen iddynt gael eu gwerthfawrogi am y cymorth maen nhw'n ei ddarparu. Mae'r bartneriaeth hefyd yn cydnabod bod angen eu cefnogi yn y rôl hanfodol hon. Mae'r strategaeth hon yn cydnabod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth gyda gofalwyr drwy eu cyswllt gyda gwasanaethau ac mae'n seiliedig ar egwyddorion y model Triongl Gofal a ddatblygwyd yn wreiddiol fel canllaw i arfer gorau mewn gofal iechyd meddwl yn Lloegr.

Mae hyn hefyd yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n deddfu ar gyfer rhagor o hawliau i ofalwyr o bob oed ac sy'n symleiddio a chyfuno'r gyfraith, gan roi hawliau cyfartal iddynt am y tro cyntaf â'r unigolyn maen nhw'n gofalu amdano. Mae'r ddeddf hefyd yn rhoi hawl absoliwt i ofalwyr i ddewis p'un a ydynt yn ofalwyr neu'n parhau i fod yn ofalwyr, ac i ba raddau. Mae gan ofalwyr hawl i ddweud na o ran cymryd rôl gofalwr yn ogystal â hawl i beidio parhau â'u rôl fel gofalwr, a chael eu cefnogi yn hyn o beth.

Wrth gyfeirio at ofalwyr, rydym yn golygu gofalwyr di-dâl o bob oedran (gan gynnwys gofalwyr ifanc a gofalwyr ifanc sy'n oedolion) a chefnidir sy'n gofalu am berthynas neu gyfaill sy'n sâl, yn wan neu sydd ag anabledd, sy'n methu ag ymdopi yn eu cartref heb gefnogaeth ymarferol neu emosiynol gan y gofalwr di-dâl. Wrth gydnabod y bydd gan ofalwyr wahanol gyfrifoldebau, fel gofalwyr pobl â chyflyrau hirdymor, gofalwyr pobl â dementia, gofalwyr unigolion â phroblemau iechyd meddwl neu ofalwyr pobl sy'n camddefnyddio sylweddau, cydnabyddir bod anghenion gofalwyr yn unigryw i'r unigolyn a gallant fod yn wahanol iawn i anghenion yr unigolyn sy'n cael gofal.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio gofalwr fel person sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn. Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys gofalwyr o bob oed.

Diffinnir gofalwyr ifanc fel gofalwyr sydd dan 18 oed, a gofalwyr ifanc sy'n oedolion fel gofalwyr rhwng 16 a 25 oed.

Yn aml, nid yw gofalwyr yn eu hystyried eu hunain fel gofalwyr. Byddant yn disgrifio eu hunain fel rhiant, gŵr, gwraig, partner, mab, merch, brawd, chwaer, ffrind neu gymydog, ond nid gofalwr.

*Rhiant ofalwr* yw rhiant neu warcheidwad sydd â dyletswyddau a chyfrifoldebau ychwanegol tuag at eu plentyn oherwydd bod gan eu plentyn salwch neu anabledd. Yn aml bydd rhiant ofalwr yn ystyried eu hunain yn rhieni yn hytrach na gofalwyr, ond mae'n bosibl y bydd angen gwasanaethau ychwanegol arnynt er mwyn diwallu neu barhau i ddiwallu anghenion eu plentyn.

Ar hyn o bryd, mae gofalwyr o bob oed yng Ngogledd Cymru yn manteisio ar amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys gwybodaeth, cyngor a chymorth. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys cefnogaeth un i un, grwpiau cefnogaeth, fforymau, caffis, cefnogaeth emosiynol, cwrsela, hyfforddiant, therapïau, cyngor am fudd-daliadau, seibiannau gyrfa, cefnogaeth gan gymheiriaid, gweithgareddau, eiriolaeth, cefnogaeth i ofalwyr pobl â chyflyrau hirdymor yn ogystal â thaliadau uniongyrchol, cyllidebau cefnogaeth a grantiau untro. Caiff gofalwyr eu cefnogi gan sefydliadau trydydd sector hefyd i gael mynediad i ddysgu gydol oes, cyfleoedd cyflogaeth a gwirfoddolwyr. Mae gwasanaethau gofalwyr hefyd yn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o ofalwyr i weithwyr proffesiynol, e.e. myfyrwyr nyrsio, staff gwaith cymdeithasol a meddygon teulu a gallant ddenu ffynonellau cyllid allanol i gefnogi'r gwaith maen nhw'n ei wneud.

Er bod data meintiol ar gael ar wasanaethau sydd ar gael i ofalwyr, mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar edrych drwy lygaid gofalwyr i ddeall beth sy'n bwysig iddyn nhw a beth fydd yn cyfrannu at les a gwella eu hamgylchiadau. Mae partneriaid wedi siarad â gofalwyr o bob oed am beth sy'n eu helpu i fod yn ofalwr, i barhau i fod yn ofalwr ac i fyw eu bywyd y ffordd maent am ei fyw.

Mae cwmpas y gwaith hwn wedi cynnwys:

1. Deall ein sefyllfa bresennol a beth yw llwyddiant.
2. Deall beth yw ein blaenoriaeth o ran cyrraedd y nod.
3. Bod yn glir o ran cyllid a chynaliadwyedd gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.
4. Deall gwerth ychwanegol gweithio gyda'n gilydd yn rhanbarthol yn ogystal ag yn gydweithredol.

Nid yw wedi cynnwys dadansoddiad o wasanaethau presennol, ac nid yw wedi cynnal dadansoddiad cost a budd nac asesiad elw ar fuddsoddiad o'r gwasanaethau hynny a gaiff eu darparu ar hyn o bryd.

Mae gofalwyr o bob oed wedi dweud wrthym fod cefnogaeth ddibynadwy o ansawdd da i'r unigolyn sy'n cael gofal o bwysigrwydd mawr ac mae'n cyfrannu at eu lles fel gofalwyr. Maent hefyd wedi dweud eu bod yn gwerthfawrogi'r ystod o gefnogaeth a ddarperir gan sefydliadau trydydd sector. Yn bwysig hefyd, maent wedi dweud eu bod yn gwerthfawrogi bod rhywun yn gwrando arnynt, cael eu cydnabod, eu parchu a'u clywed gan bobl sy'n gyfrifol am ddylunio a darparu gwasanaethau iddynt a'r unigolyn maen nhw'n gofalu amdano.

Mae hyn wedi ein galluogi i gydweithio fel partneriaid i gynhyrchu ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau gofalwyr yng Ngogledd Cymru, sef:

- Meddwl am ofalwyr
- Cynnwys gofalwyr o bob grŵp a chymuned mewn prosesau gwneud penderfyniadau a chynllunio
- Gweithio mewn partneriaeth i ddylunio a chyd-gynhyrchu gwasanaethau o amgylch y gofalwr

Mae gweledigaeth partneriaid ar gyfer gwasanaethau gofalwyr yng Ngogledd Cymru wedi arwain at ddatblygu a chyd-gynhyrchu'r cynnig i ofalwyr yng Ngogledd Cymru sy'n cynnwys safonau gwasanaeth mae partneriaid yn ymrwymedig i'w cyflawni.

# Strategaeth Gofalwyr Gogledd Cymru - Crynodeb

## Y cynnig i ofalwyr yng Ngogledd Cymru

Mae gweledigaeth partneriaid ar gyfer gwasanaethau gofalwyr yng Ngogledd Cymru wedi arwain at ddatblygu a chyd-gynhyrchu'r cynnig i ofalwyr yng Ngogledd Cymru gan y grwpiau a ganlyn:

- Grŵp Strategol Gofalwyr Gogledd Cymru
- Grŵp Gweithredol Gofalwyr Gogledd Cymru
- Grŵp Gweithredol Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru
- Grŵp Cyfeirio Gofalwyr

## Canlyniadau lles personol i ofalwyr

Mae partneriaid am gyflawni'r canlyniadau lles personol a ganlyn i bob gofalwr yng Ngogledd Cymru, gydag anghenion y gofalwr yn dibynnu ar anghenion yr unigolyn sy'n cael gofal:

- Bod anghenion gofalwyr unigol, yn cynnwys anghenion iaith, yn cael eu diwallu yn y ffordd orau
- Bod gofalwyr yn cael eu hystyried ar yr un adeg â'r rhai sy'n derbyn gofal

Wrth wneud hyn, rydym hefyd am sicrhau:

- Ein bod yn darparu gwasanaethau sy'n gyson
- Bod gwerth ychwanegol o gydweithio
- Bod gwasanaethau a chyllid heb eu dyblygu
- Ein bod yn cydymffurfio ag arfer gorau

Er mwyn cyflawni hyn, bydd partneriaid yn ymrwmo i:

- **Hyrwyddo ymwybyddiaeth gyffredinol** o ofalwyr a gofalu i'r boblogaeth ehangach ac i'r holl staff perthnasol yn y sector iechyd a gofal
- **Meddwl am ofalwyr** wrth gomisiynu ac asesu anghenion, gyda sylw i natur wledig a'r rhai sydd bellaf oddi wrth gwasanaethau am resymau eraill
- **Cynnwys gofalwyr** o bob grŵp a chymuned mewn prosesau gwneud penderfyniadau a chynllunio
- **Adnabod gofalwyr yn gynnar** ar bwynt cyswllt cyntaf gyda gwasanaethau

Hefyd, fel cyflogwyr, bydd partneriaid yn:

- Adnabod gofalwyr yn y sefydliad
- Mabwysiadu seilwaith cyfeillgar
- Ymrwmo i ddarpariaeth deg i ofalwyr
- Darparu cyfleoedd i glywed llais gofalwyr yn y gweithle
- Caniatáu arferion gweithio'n hyblyg, lle bo'n rhesymol ac ymarferol

## Safonau gwasanaeth

Cafodd y safonau a ganlyn eu mabwysiadu o'r Triongl Gofal ac maen nhw'n arbennig o berthnasol i awdurdodau lleol a BIPBC. Cytunodd partneriaid bod y safonau hyn yn darparu sylfaen gref i ddatblygu gwasanaethau, gyda ac ar gyfer gofalwyr, ar draws y rhanbarth.

- Gofynnir am farn a gwybodaeth gofalwyr, a chânt eu rhannu, eu defnyddio a'u diweddarau'n rheolaidd wrth i gynlluniau a strategaethau gofal cyffredinol gael eu cyd-gynhyrchu
  - Mae staff yn ymwybodol o ofalwyr ac wedi'u hyfforddi mewn strategaethau ymgysylltu â gofalwyr o'r dechrau
  - Mae angen i staff fod yn ymwybodol o'r cyfraniad gwerthfawr gall gofalwyr ei wneud, a'i groesawu, a chadw anghenion gofalwyr eu hunain mewn cof
- Mae angen gwybodaeth, hyfforddiant a chefnogaeth ar staff i fod yn ymwybodol o ofalwyr
  - Mae cyflwyniad i'r gwasanaeth a staff ar gael sy'n canolbwyntio ar ofalwyr, gydag amrywiaeth berthnasol o wybodaeth ar draws y llwybr gofal
- Caiff gofalwyr a'r rôl hanfodol maen nhw'n ei chwarae ei nodi ar bwynt cyswllt cyntaf neu cyn gynted ag sy'n bosibl wedyn
- Mae protocolau polisi ac arfer ar gyfrinachedd a rhannu gwybodaeth ar waith
- Mae swydd(i) sy'n gyfrifol am ofalwyr ar waith (arweinwyr gofalwyr)
- Mae amrywiaeth o wasanaethau cefnogi gofalwyr ar waith

Bydd gan y safonau hyn oblygiadau i'r holl bartneriaid pan gaiff gwasanaethau i ofalwyr eu comisiynu a'u darparu:

- Comisiynu lleol, isranbarthol a rhanbarthol:
  - mae asiantaethau wedi'u dylunio i roi llais i ofalwyr mewn prosesau gwneud penderfyniadau lleol a sicrhau bod yr holl wasanaethau yn yr ardal yn fwy ymwybodol o ofalwyr a chyfeillgar i ofalwyr
  - mae gwasanaethau gydag arbenigedd gofalwyr yn gallu codi ymwybyddiaeth o ofalwyr ymhlith holl asiantaethau'r ardal
  - mae gwasanaethau wedi'u dylunio i ganfod gofalwyr a'u helpu i nodi eu hanghenion a'u hawliau
  - mae gwasanaethau cefnogi i ofalwyr gydag anghenion cefnogi penodol a/neu hawliau
- Mynediad rhwydd at wasanaethau gwybodaeth a chyingor (a lle bo'n briodol, eiriolaeth ffurfiol) wedi'u teilwra i anghenion gofalwyr ar wahanol gamau bywyd (e.e. gofalwyr ifanc, rhiant ofalwyr, gofalwyr oedolion), amgylchiadau a chyflyrau, a chamau'r daith ofalu
- Mynediad i hyfforddiant ar y sgiliau newydd gall fod eu hangen ar ofalwyr wrth iddynt ddechrau neu addasu i'w rôl ofalu newydd ac i gefnogaeth gan gymheiriaid pan fo'n briodol
- Yr hawl i asesiad (sgwrs beth sy'n bwysig) fel gofalwr yn eich rhinwedd eich hun:
  - datblygu cynllun gofal a chymorth cyffredinol
  - cyfeirio at wasanaethau priodol; a

- phenderfynu ar gymhwysedd am gefnogaeth iddynt i ofalu
- I ofalwyr cymwys:
  - Cynllun cefnogi sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau lles personol maen nhw wedi'u nodi eu hunain.
  - Bydd hefyd yn nodi'r cymorth i'w helpu i gyflawni'r canlyniadau lles personol a nodwyd.
  - Bydd yr awdurdodau lleol yn cynnal adolygiadau rheolaidd ar gynlluniau cefnogi, ac yn ail-asesu anghenion os yw eu hamgylchiadau'n newid.

Yn unol â'r safonau a gytunwyd, mae'r prif gynllun a ganlyn yn amlinellu'r camau gweithredu a'r cyfrifoldeb arweiniol dros weithredu.

Rhif	Safonau	Cam Gweithredu	Cyfrifoldeb rhanbarthol dros weithredu	Cyfrifoldeb lleol
1.	Ymgysylltu â gofalwyr a llais gofalwyr	Gofynnir am farn a gwybodaeth gofalwyr, a chânt eu rhannu, eu defnyddio a'u diweddarau'n rheolaidd wrth i gynlluniau a strategaethau gofal cyffredinol gael eu llunio.	NWCSG	Pob partner
		Mae asiantaethau wedi'u dylunio i roi llais i ofalwyr mewn prosesau gwneud penderfyniadau lleol a sicrhau bod yr holl wasanaethau yn yr ardal yn fwy ymwybodol o ofalwyr a chyfeillgar i ofalwyr	NWCSG	Pob partner
2.	Sesiwn gyflwyno a hyfforddiant i ofalwyr a staff	Mae cyflwyniad i'r gwasanaeth a staff ar gael sy'n canolbwyntio ar ofalwyr, gydag amrywiaeth berthnasol o wybodaeth ar draws y llwybr gofal	NWCOG, ar y cyd â NWYCOG	Pob partner
		Mae staff wedi'u hyfforddi mewn strategaethau ymwybyddiaeth ac ymgysylltu â gofalwyr	NWCOG, ar y cyd â NWYCOG	Pob partner
		Mae angen mynediad i hyfforddiant ar ofalwyr ar y sgiliau newydd gall fod eu hangen wrth iddynt ddechrau neu addasu i'w rôl ofalu newydd ac i gefnogaeth gan gymheiriaid pan fo'n briodol	NWCOG/NWYCOG	Pob partner
3.	Asesiad a chymorth i bob gofalwr	Gofalwyr i fod yn rhan o sgwrs asesiad (beth sy'n bwysig) yn eu rhinwedd eu hun	NWCOG/NWYCOG	Awdurdodau lleol
		Cynllun cefnogaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau lles personol maen nhw wedi'u nodi eu hunain i gyflawni'r canlyniadau lles personol a nodwyd, a bod yn destun	NWCOG/NWYCOG	Awdurdodau lleol yn gweithio gyda phartneriaid

Tud. 172

Rhif	Safonau	Cam Gweithredu	Cyfrifoldeb rhanbarthol dros weithredu	Cyfrifoldeb lleol
		adolygiadau rheolaidd ac ailasesu anghenion os bydd amgylchiadau'n newid		
		Mynediad rhwydd at wasanaethau gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth gan gymheiriaid (a lle bo'n briodol, eiriolaeth ffurfiol) wedi'u teilwra i anghenion gofalwyr ar wahanol gamau bywyd, amgylchiadau a chyflyrau, a chamau'r daith ofalu	NWCOG, ar y cyd â NWYCOG	Pob partner
		Mae amrywiaeth o seibiannau gofalwyr hyblyg ar gael	NWCSG	Awdurdodau lleol yn gweithio gyda phartneriaid
		Eiriolaeth arbenigol, gan gynnwys ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus ac ar gyfer gofalwyr ifanc	NWCSG	Awdurdodau lleol, BIPBC yn gweithio gyda phartneriaid
4.	Protocolau polisi ac arfer	Mae protocolau polisi ac arfer ar gyfrinachedd a rhannu gwybodaeth ar waith	NWCSG	Pob partner
5.	Mabwysiadu safonau cyflogwyr	<ul style="list-style-type: none"> <li>Nodi gofalwyr yn y sefydliad</li> <li>Mabwysiadu seilwaith sy'n gyfeillgar i ofalwyr</li> <li>Ymrwmo i ddarpariaeth deg i ofalwyr</li> <li>Darparu cyfleoedd i glywed llais gofalwyr yn y gweithle</li> <li>Caniatáu arferion gweithio'n hyblyg, lle bo'n rhesymol a lle bo'n ymarferol</li> </ul>	NWCOG	Pob partner
6.	Arweinwyr gofal	Mae swyddi wedi'u diffinio sy'n gyfrifol am ofalwyr ar waith	Awdurdodau lleol, BIPBC	
7.	Datblygu mesurau llwyddiant a threfniadau casglu data	Mesuryddion perfformiad wedi'u cytuno	NWCSG	Pob partner
		Trefniadau casglu data wedi'u cytuno ac ar	NWCOG/NWYCOG	Pob partner



Rhif	Safonau	Cam Gweithredu	Cyfrifoldeb rhanbarthol dros weithredu	Cyfrifoldeb lleol
		waith		

Isod, mae'r prif fesurau llwyddiant arfaethedig fel a gytunwyd gan bartneriaid. Caiff rhain eu casglu gan NWCOG a chaiff cynnydd ei fonitro gan NWCSG i wella gwasanaethau a llywio cynllunio yn y dyfodol. Mae dau o'r mesurau yr un fath â'r rhai yn Fframwaith Mesurau Canlyniadau Llywodraeth Cymru, a chredir bod y lleill yn bwysig i fesur cynnydd ein strategaeth yng Ngogledd Cymru. Mae'r mesurau llwyddiant hyn yn rhoi canolbwynt cryf ar wella amgylchiadau bywyd gofalwyr, gwrando ar eu barn a'u cynnwys wrth ddylunio gwasanaethau.

- Mae gofalwyr o bob oed yn adrodd boddhad gyda'r asesiadau a'r gefnogaeth bersonol maen nhw'n eu cael, mynediad i'r gwasanaethau maen nhw eu hangen a bod â dealltwriaeth o'u hawliau dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).
- Gall gweithwyr cymdeithasol ac ymarferwyr gofal eraill ddangos eu bod yn defnyddio'r egwyddor lles ym mhob un o'u penderfyniadau gofal cymdeithasol i oedolion.
- Mae nifer yr asesiadau yn 2018 wedi cynyddu yn unol ag amcangyfrif y Bartneriaeth Ranbarthol ei hun.
- Mae gofalwyr yn adrodd eu bod yn teimlo'n rhan o'r broses o ddylunio'r cynllun gofal a chymorth i'r unigolyn maen nhw'n gofalu amdano (Llywodraeth Cymru, 2015)
- Mae gofalwyr yn adrodd eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth i barhau yn eu rôl ofalu
- Os bydd gofalwr yn wynebu argyfwng, maen nhw'n gwybod sut i gael mynediad at wasanaeth ymateb cyflym i asesu ac i ymateb i'w hangen.

Gyda'i gilydd, bydd gweledigaeth, safonau a darpariaeth gwasanaethau o ansawdd da gan bartneriaid i ofalwyr o bob oed yng Ngogledd Cymru yn cyfrannu at wella eu hamgylchiadau a'u lles.



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU  
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**



**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING  
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE



# Strategaeth Gofalwyr Gogledd Cymru

- Strategaeth i ofalwyr o bob oed

Mehfin 2018



*dros adferiad  
o afiechyd  
meddal ddirifol*

# hafal

*for recovery  
from serious  
mental illness*



**HOW | ACTION FOR CHILDREN | WORKS**  
**SUT MAE | GWETHREDU DROS BLANT | YN GWETHIO**

**Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru**

Arweinwyr prosiect: Morwena Edwards

Bethan Jones Edwards

Ffion Johnstone



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU  
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING  
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

# Strategaeth Gofalwyr Gogledd Cymru

Mehefin 2018

## 1.0 Y cyd-destun a'r cefndir

Mae rhan allweddol i'w chwarae gan ofalwyr o bob oed yn yr amgylchedd iechyd a gofal cymdeithasol. Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn gweld gwerth mawr yn hynny ac yn cydnabod hefyd fod angen iddo weithredu i sicrhau bod gofalwyr yn cael cymorth da ym mhob math o amgylchiadau. Mae'r strategaeth hon yn cydnabod ei bod yn bwysig gweithio mewn partneriaeth â gofalwyr drwy gydol eu hymwneud â gwasanaethau ac mae wedi'i seilio ar egwyddorion y model Triongl Gofal a ddatblygwyd yn wreiddiol fel canllaw arfer da mewn gofal iechyd meddwl yn Lloegr.

Wrth gyfeirio at ofalwyr, rydym yn golygu gofalwyr di-dâl o bob oed (yn cynnwys gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc) a phob cefndir sy'n gofalu am berthynas neu ffrind sy'n sâl, yn eiddil neu'n berson anabl, nad yw'n gallu byw gartref heb gael cymorth ymarferol neu emosiynol di-dâl gan y gofalwr. Rydym yn derbyn y bydd gan ofalwyr wahanol fathau o gyfrifoldebau, fel y rhai sydd gan ofalwyr am bobl â chyflyrau hirdymor, pobl â dementia, unigolion â phroblemau iechyd meddwl neu rai sy'n camddefnyddio sylweddau, ac rydym yn cydnabod bod anghenion pob gofalwr yn unigryw ac y gallant fod yn wahanol iawn i anghenion y person y mae'n gofalu amdano.

## 2.0 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae'r pwysigrwydd o gynorthwyo gofalwyr yn gyson hefyd â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (DGCLI) sy'n darparu hawliau ychwanegol i ofalwyr o bob oed ac yn symleiddio ac yn cydgrynhoi'r gyfraith gan roi hawliau sy'n cyfateb i hawliau'r person y maent yn gofalu amdano am y tro cyntaf. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi hawl ddiamod i ofalwyr i ddewis a fyddant yn parhau'n ofalwyr ac i ba raddau. Mae'r Ddeddf yn ailddiffinio cyfrifoldeb unigolion a theuluoedd am gynnal eu hiechyd a llesiant eu hunain, a hefyd yn galw am newid mewn diwylliant i roi mwy o sylw i hybu cydnerthedd, annibyniaeth, hunanofal a chymorth cymunedol. Mae'r Ddeddf yn cydnabod bod rhan allweddol i'w chwarae gan ofalwyr yn y dull gwasanaeth ataliol ac felly dylai awdurdodau lleol helpu i sicrhau bod gofalwyr yn gallu byw eu bywydau eu hunain mor annibynnol â phosibl. Mae hawl gan ofalwyr i wrthod derbyn rôl y gofalwr yn ogystal â hawl i beidio â pharhau â'u rôl fel gofalwr ac i gael eu cefnogi yn hyn o beth. Mae'r gofynion hyn wedi'u datgan yn Rhan 9 o'r Ddeddf a hefyd yn holl rannau eraill y Ddeddf.

Y diffiniad o 'ofalwr' yn y Ddeddf yw person sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn. Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys gofalwyr o bob oed.

Y diffiniad o 'ofalwr ifanc' yw gofalwr sydd dan 18 oed, a 'gofalwr sy'n oedolyn ifanc' yw un sy'n 16-25 oed.

Yn aml ni fydd gofalwyr yn eu hystyried eu hunain yn ofalwyr. Byddant yn eu galw eu hunain yn rhiant, gŵr, gwraig, partner, mab, merch, brawd, chwaer, ffrind neu gymydog, ond nid yn ofalwr.

Mae *rhiant ofalwr* yn rhiant neu warcheidwad sydd â dyletswyddau a chyfrifoldebau ychwanegol tuag at ei blentyn am fod salwch neu anabledd gan ei blentyn. Yn aml bydd rhieni ofalwyr yn eu hystyried eu hunain yn rhieni yn hytrach na gofalwyr, ond gallent fod ag angen gwasanaethau ychwanegol er mwyn diwallu neu barhau i ddiwallu anghenion eu plentyn.

Mae'r Ddeddf:

- yn sicrhau bod gofalwyr yn gallu cael dewis ehangach o wasanaethau priodol mewn ffordd fwy hyblyg, yn cynnwys y gallu i gael gwybodaeth gynhwysfawr am bob math o gymorth a gwasanaethau y gellir eu cael heb gael asesiad ffurfiol;
- yn creu dyletswydd i awdurdodau lleol gynnal asesiadau o anghenion gofalwyr lle mae'n ymddangos bod anghenion am gymorth gan y gofalwr. Mae'r asesiad o angen yr unigolyn drwy ei hawl ei hun yn ganolog i hyn yn ogystal â'i alluedd i barhau i ofalu;
- yn ei gwneud yn ofynnol i asesiadau fod yn gymesur er mwyn sicrhau bod mwy o waith yn cael ei wneud ar ddarparu cymorth yn y gymuned, a chymorth gan sefydliadau'r trydydd sector;
- yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu cymorth eirioli i unigolion, yn cynnwys gofalwyr. Bydd y ddarpariaeth hon yn cynnwys eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn ogystal ag eiriolaeth anffurfiol.

Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod fframwaith cymhwystra cenedlaethol i benderfynu a fydd gofalwyr a aseswyd sydd â mwy o angen am gymorth yn bodloni'r meini prawf ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u pennu yn y fframwaith newydd. Bydd gofalwyr sydd ag anghenion cymwys yn cael cynllun cymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau llesiant personol y maen nhw wedi'u nodi eu hunain. Bydd hefyd yn disgrifio'r cymorth i'w helpu i gyflawni'r canlyniadau llesiant personol a nodwyd. Bydd cynlluniau cymorth yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan awdurdodau lleol, a'r anghenion yn cael eu hailasesu os bydd eu hamgylchiadau'n newid.

### 3.0 Blaenoriaethau cenedlaethol

Ar 24 Tachwedd 2017, Diwrnod y Gofalwyr, cyhoeddodd y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant fod £1 miliwn i'w ddyrannu yn 2018-19 i fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd gydweithio â'u holl bartneriaid i wella bywydau gofalwyr yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol, sef:

- Helpu i fyw yn ogystal â gofalu – rhaid i bob gofalwr gael seibiannau rhesymol oddi wrth ofalu er mwyn iddynt allu parhau i wneud hynny, ac i gael bywyd eu hunain y tu hwnt i ofalu
- Adnabod a chydabod gofalwyr – os ydym am lwyddo i sicrhau canlyniadau gwell i ofalwyr, mae'n hanfodol gwella adnabyddiaeth gofalwyr o'u rôl a sicrhau bod y cymorth angenrheidiol ar gael iddynt
- Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i ofalwyr – mae'n bwysig bod gofalwyr yn cael y wybodaeth a'r cyngor cywir priodol ble bynnag a phryd bynnag y mae angen hynny arnynt

#### 4.0 Am ofalwyr yng Ngogledd Cymru

Mae'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a gyhoeddwyd ar 1 Ebrill 2017 yn datgan bod gofalwyr yn cyflawni rôl hanfodol drwy ddarparu gofal a chymorth a'i bod wedi'i amcangyfrif eu bod yn darparu rhwng 75% a 95% o ofal, gan arbed £7.72 biliwn bob blwyddyn yng Nghymru (Yeandle a Buckner, 2015; Llywodraeth Cymru 2016).

Prif ganfyddiadau'r asesiad o anghenion oedd:

- bod nifer y gofalwyr yng Ngogledd Cymru yn cynyddu, yn enwedig yn y gogledd-orllewin
- mai pobl rhwng 50 a 64 oed sy'n fwyaf tebygol o ddarparu gofal di-dâl
- bod hanner y gofalwyr yng Ngogledd Cymru mewn cyflogaeth: yn achos gofalwyr sydd mewn cyflogaeth, mae'n hanfodol eu bod yn cael cefnogaeth gan eu cyflogwr a'u cydweithwyr i'w helpu i barhau â'u rôl gofalu
- ei bod yn debygol y bydd yr angen am ofal cymdeithasol a nodwyd mewn penodau eraill o adroddiad yr asesiad poblogaeth yn arwain at ddarparu gofal di-dâl gan nifer mwy o bobl ac am gyfnodau hirach
- bod mwy na 1,000 o ofalwyr ifanc wedi'u hadnabod ledled Gogledd Cymru, nifer sydd wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf

#### 5.0 Blaenoriaethau i ofalwyr yng Ngogledd Cymru

Mae tystiolaeth o'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, yr hyn y mae gofalwyr wedi'i ddweud wrthym a'r mapio adnoddau a ystyriwyd gan bartneriaid wedi ein harwain i nodi'r blaenoriaethau canlynol. Os bydd gofalwyr yn cael cymorth priodol gan gymdeithas, yna gellir cymryd camau i osgoi'r rhan fwyaf o'r canlyniadau negyddol. Bydd gwaith pellach ar y rhain wedi'i adlewyrchu yn rhaglenni gwaith grwpiau gofalwyr y bartneriaeth yng Ngogledd Cymru:

##### 5.1 Ymgysylltu â gofalwyr a llais y gofalwyr

Drwy wrando ar ofalwyr a chlywed eu llais, ceir dealltwriaeth werthfawr o'u bywydau ac amgylchiadau, ac mae hyn yn dangos pa mor bwysig yw ymgysylltu â nhw. Yn yr adran hon, rydym yn tynnu sylw at rai o'r materion y mae gofalwyr wedi'u codi i ddangos yr angen i'w hystyried wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

Roedd y prif ganfyddiadau o ddiwyddiadau ymgysylltu a gynhaliwyd ar gyfer yr asesiad o anghenion y boblogaeth ac o ymgynghoriadau blaenorol a gynhaliwyd gan bob cyngor a bwrdd iechyd lleol yn dangos bod modd cwrdd ag anghenion y gofalwr drwy ddiwallu anghenion y person sy'n derbyn gofal yn well:

- Mae cyfarpar ac addasiadau a thechnoleg gynorthwyol yn gallu darparu gwasanaethau gwerthfawr, er bod anawsterau'n gallu codi o ran diwallu anghenion hyfforddi a rhestrau aros
- Seibiant i ofalwyr, yn cynnwys seibiant byr i ofalwyr
- Cynnwys seibiant tymor byr i ofalwyr mewn asesiadau Gofal Iechyd Parhaus
- Mwy o weithgareddau i bobl sy'n derbyn gofal, yn enwedig unigolion â dementia
- Cymorth dibynadwy o ansawdd da i'r person sy'n derbyn gofal
- Cymorth pan fydd y gofalwr yn sâl, pan fydd yn cael triniaeth frys neu driniaeth a gynlluniwyd
- Cludiant dibynadwy i'r ysbyty sy'n cynnwys cludiant i'r gofalwr. Mae angen i ofalwyr gael yr un hawl i gael cludiant hyd yn oed pan nad yw'r person sy'n derbyn gofal gyda nhw, fel y gallant gasglu presgripsiynau, er enghraifft
- Gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol – cael gweithwyr sy'n gallu helpu â meddyginiaeth yn ogystal â gofal personol

Agweddau eraill ar gymorth penodol i ofalwyr sy'n cael eu gweld yn werthfawr yw:

- Gwybodaeth a chyngor sydd ar gael yn rhwydd (mewn un lle os oes modd)
- Cymorthfeydd gwybodaeth lleol, canolfannau gwybodaeth, pwynt mynediad sengl, pwyntiau siarad a gwasanaethau galw heibio
- Eiriolaeth i'r gofalwr
- Cymorth un-i-un i'r gofalwr, fel clust i wrando a chymorth dros y ffôn 24 awr y diwrnod
- Grwpiau cymdeithasu a grwpiau gofalwyr yn y gymuned leol
- Gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden
- Cyfleoedd i wirfoddoli
- Addysg, sgiliau a chyflogaeth
- Cydnabyddiaeth a pharch, ymgynghori â nhw fel partneriaid mewn gofal, yn cynnwys pan fydd rhywun yn dechrau derbyn gofal tymor hir
- Gwell cyfathrebu rhwng yr holl bartïon sy'n cyfrannu at ddarparu cymorth i'r gofalwr a'r person sy'n derbyn gofal
- Cymorth gan y trydydd sector – mae gofalwyr yn gweld gwerth mawr yn yr amrywiaeth o gymorth a ddarperir gan sefydliadau'r trydydd sector
- Cymorth i'r gofalwr pan fydd ei rôl gofalu yn dod i ben, yn cynnwys materion sy'n ymwneud â chyflogaeth, budd-daliadau a thai

Mae mapiau teithiau gofalwyr wedi dangos i ni fod pwynt mynediad sengl at wasanaethau yn gallu gweithio'n dda i ofalwyr drwy alluogi rhai gofalwyr i'w hatgyfeirio eu hunain i wasanaethau, cynnal y sgwrs gyntaf ar beth sy'n bwysig, dweud wrth ofalwyr ble mae gwybodaeth a gwasanaethau cymorth i ofalwyr ar gael, a deall amgylchiadau a sefyllfa unigryw'r gofalwr.

Mae storïau gofalwyr yn dangos bod rhoi gofal yn rôl emosiynol yn ogystal â swyddogaeth ymarferol, a bod gofalwyr yn rhoi gwybod am deimladau o euogrwydd, unigrwydd, gorbryder, gofid, arwahanrwydd, ofn, rhwystredigaeth, anhawster wrth ddelio â newid a phontio. Bydd y rhain yn digwydd ar wahanol



adegau yn ystod profiad y gofalwr, a bydd angen cymorth pwrpasol ar bob gofalwr.

Gellir crynhoi'r prif themâu sy'n codi o storïau ac astudiaethau achos gofalwyr fel a ganlyn:

- Arwahanrwydd y rôl gofalu
- Straen a brofir gan ofalwyr o bob oed
- Y gwerth y mae gofalwyr o bob oed yn ei weld mewn cymorth a ddarperir gan sefydliadau'r trydydd sector ac awdurdodau lleol
- Yr effaith o lesiant y person sy'n derbyn gofal ar lesiant y gofalwr
- Angen gofalwyr am seibiant
- Angen gofalwyr am wybodaeth
- Yr angen am gyflogaeth neu am ddychwelyd i gyflogaeth
- Materion gwledig

Yr un pethau sy'n bwysig yn aml i **ofalwyr ifanc** ag sy'n bwysig i bobl ifanc yn gyffredinol. Er hynny, mae eu sefyllfa fel gofalwr ifanc yn gallu effeithio weithiau ar eu ffordd o fyw, a gall fod yn anodd i ofalwyr ifanc fanteisio ar gyfleoedd sy'n cael eu cymryd yn ganiataol gan bobl ifanc sydd heb gyfrifoldebau gofalu. Y canfyddiadau o'r ymgynghori ac ymgysylltu â gofalwyr ifanc ar gyfer yr Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru oedd mai'r meysydd lle'r oedd gofalwyr ifanc yn wynebu her oedd: canolbwyntio, cyfathrebu, bod yn hyderus a gwneud ffrindiau.

Yn ogystal â hyn, mae gofalwyr ifanc wedi dweud wrthym fod iechyd a llesiant y person y maent yn gofalu amdano yn bwysig iddynt, e.e. dymuno na fydd ei riant yn dechrau yfed eto. Mae hefyd yn bwysig i ofalwyr ifanc eu bod yn cael eu derbyn gan eu grŵp cyfoedion a chan athrawon. Er bod barn pobl amdanynt yn gallu bod yn bwysig i nifer mawr o bobl ifanc, mae'r effaith bosibl o'u cyfrifoldebau gofalu ar eu bywydau yn golygu bod hyn yn cael ei deimlo'n ddwysach weithiau gan ofalwyr ifanc, e.e. agweddau pobl atynt am nad ydynt yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, neu am nad ydynt yn gallu gwneud gwaith cartref. Dywedodd un gofalwr ifanc ei fod yn ceisio gwneud ei holl waith yn yr ysgol, tra oedd pobl ifanc eraill yn gwastraffu amser yn y dosbarth, gan na fyddai'n gallu gwneud ei waith yn y cartref.

*"Pe byddai fy mam yn gwella. Pe bawn i'n gallu cofio'n well. Pe bawn i'n gallu gwneud fy ngwaith yn gyflymach. Pe bawn i'n gallu gweld fy ffrindiau y tu allan i'r ysgol yn amlach."* Gofalwr ifanc, Ynys Môn.

Mae gallu'r gofalwr ifanc i ganolbwyntio yng nghanol ei gyfrifoldebau a'i ofalon eraill yn ystyriaeth bwysig, e.e. tra bydd y person y mae'n gofalu amdano yn sâl. Ystyriaeth bwysig hefyd yw'r angen i siarad â phobl eraill am ei broblemau a'i deimladau, e.e. aelodau o'i deulu, ffrindiau, cymdogion, gofalwyr ifanc eraill yn ogystal â gweithwyr proffesiynol yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.



Mae gofalwyr ifanc hefyd wedi dweud bod chwarae a chyfleusterau hamdden yn bwysig. Yn yr un modd â phobl ifanc sydd heb gyfrifoldebau gofalu, mae gofalwyr ifanc yn mwynhau cyfrannu at ddatblygu gwasanaethau, ac yn disgwyl gweld ymagwedd gadarnhaol a pharodrwydd i ystyried syniadau newydd gan arweinwyr cymunedol i'w helpu i wneud hyn.

Mae **rhieni ofalwyr** yn dweud eu bod yn aml yn gorfod brwydro i sicrhau bod cyflwr eu plentyn yn cael ei gydnabod, a hefyd i gael sylw wedyn e.e. gan ysgolion. Gall hyn arwain at ymdeimlad o rwystredigaeth a chanfyddiad nad yw'r system yn bodoli er mwyn hwyluso materion iddynt. Gall hyn effeithio hefyd ar frodyr a chwirydd sy'n ofalwyr.

*“Y pwysau sydd arnaf fel gofalwr i wneud penderfyniadau na fyddaf bob amser yn teimlo'n esmwyth yn eu cylch a'r teimlad, os byddaf yn gwrthwynebu, fy mod yn cael fy marnu.”* Rhiant ofalwr, Gwynedd.

Bydd nifer mawr o ofalwyr yn dweud nad oes arnynt angen cymorth ac, os bydd anghenion y person sy'n derbyn gofal yn cael eu diwallu y byddan nhw hefyd yn teimlo eu bod yn cael cymorth fel gofalwyr. Mae hyn yn dangos pa mor bwysig yw gofyn am farn y gofalwr wrth gynnal asesiad o anghenion y person sy'n derbyn gofal.

## 5.2 Sefydlu a hyfforddi staff

Os gwrandewir ar brofiadau a storïau'r gofalwyr, bydd hyn yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer darparu gwasanaethau a chymorth i ofalwyr o ddydd i ddydd. Un elfen bwysig i ategu hyn yw sefydlu a hyfforddi staff. Bydd cyflwyniad da i anghenion gofalwyr sy'n hybu ymwybyddiaeth o ofalwyr a'u rôl yn cyfrannu'n fawr at ddylanwadu ar y ffordd y mae gofalwyr yn cael eu trin yng nghyd-destun diwylliant y sefydliadau sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i ofalwyr o bob oed. Bydd cymorth da gan gymheiriaid a mentora gan aelodau staff mwy profiadol ac arweinyddiaeth gryf yn hanfodol hefyd i hybu diwylliant sy'n ymwybodol o ofalwyr.

Bydd angen cynorthwyo'r gofalwyr eu hunain drwy eu hyfforddi yn y sgiliau newydd y gallai fod arnynt eu hangen wrth ddechrau yn eu rôl gofalu newydd neu addasu i'w chyflawni neu wrth i'r rôl honno ddatblygu. Gall hyn gynnwys hyfforddiant ar ofalu am anhwylderau penodol, e.e. rhoi meddyginiaeth (gofalwyr), dementia, symud a chodi a chario, sgiliau rhyngpersonol, materion ariannol, darparu gofal personol, yn ogystal â sgiliau eraill i gynnal llesiant y person sy'n derbyn gofal. Mae sefydliadau'r trydydd sector eisoes yn darparu hyfforddiant o'r fath sy'n cael ei seilio ar yr anghenion sydd wedi'u nodi gan ofalwyr ac mae'n cael ei werthfawrogi'n fawr ganddynt.

## 5.3 Asesu a chymorth i'r holl ofalwyr

Mae dyletswydd newydd ar gynghorau lleol i gynnig asesiad i unrhyw ofalwr lle mae'n ymddangos i'r awdurdod lleol y gallai'r gofalwr fod ag angen cymorth. Os bydd y cyngor lleol yn penderfynu bod anghenion y gofalwr yn bodloni'r meini prawf cymhwysra, yna rhaid iddo ystyried beth ellir ei wneud i gwrdd â'r

anghenion hynny. O'r blaen, cyfrifoldeb y gofalwr oedd gofyn am asesiad.

Bydd anghenion y gofalwr yn bodloni'r meini prawf cymhwysra am gymorth:

- a) Os yw'r angen yn codi o ganlyniad i ddarparu gofal i oedolyn neu i blentyn
- b) Os nad yw'r gofalwr yn gallu cwrdd â'r angen un ai
  - Ar ei ben ei hun, neu
  - Gyda chymorth pobl eraill sy'n barod i ddarparu'r cymorth hwnnw, neu
  - Gyda chymorth gwasanaethau yn y gymuned y mae'r gofalwr yn gallu eu cael, ac
- c) Os yw'r gofalwr yn annhebygol o gyflawni un neu ragor o'i ganlyniadau llesiant personol sy'n ymwneud â'r canlyniadau a bennwyd yn rhan 3 o'r Ddeddf

Nawr gall y cyngor lleol gynnal asesiad ar y cyd, lle mae asesiad o'r person sy'n derbyn gofal ac o'r gofalwr yn cael ei gynnal yr un pryd os yw'r ddau barti'n fodlon ac os byddai'n fuddiol gwneud hynny. Mae hwn yn arfer da er bod pryderon y gallai'r asesiad o'r gofalwr gael ei danseilio drwy ganolbwyntio ar yr hyn y gall ac na all y gofalwr ei wneud dros y person sy'n derbyn gofal yn hytrach nag edrych ar ei ganlyniadau llesiant personol arfaethedig ar eu pen eu hunain.

Yn yr elfen o'r asesiad sy'n ymwneud â'r gofalwr, mae angen canolbwyntio ar 'beth sy'n bwysig' i'r gofalwr ac ar anghenion y gofalwr drwy ei hawl ei hun, er enghraifft, ei anghenion o ran cyflogaeth, addysg a hyfforddiant.

Rhaid i'r cyngor lleol gynnwys y gofalwr yn yr asesiad a rhoi sylw i:

- Y graddau y mae'r gofalwr yn barod i ddarparu'r gofal ac i barhau i ddarparu'r gofal
- Y canlyniadau llesiant personol y mae'r gofalwr yn dymuno eu cyflawni

Wrth asesu'r gofalwr, rhaid ystyried hefyd a yw'r gofalwr yn dymuno gweithio ac a yw'n cymryd rhan neu'n dymuno cymryd rhan mewn gweithgareddau addysg, hyfforddiant neu hamdden.

Bydd angen i ofalwyr fod yn glir iawn ynghylch beth allant a beth na allant ei wneud ac unrhyw wahaniaethau rhwng eu disgwyliadau nhw a disgwyliadau'r person sy'n derbyn gofal. Bydd angen i'r bobl sy'n cynnal yr asesiadau fod yn fedrus o ran canfod y wybodaeth hon. Mae'r Ddeddf yn dweud bod angen gofyn i ofalwyr beth allant ei wneud, felly bydd angen monitro hyn i sicrhau ei fod yn digwydd ac yn cael ei gynnwys yn yr asesiad. Mae'n bwysig bod yr unigolyn yn teimlo ei fod yn bartner cyfartal yn ei berthynas â gweithwyr proffesiynol.

Gyda golwg ar **ofalwyr ifanc**, mae'r Cod Ymarfer ar gyfer y Ddeddf yn cynnwys nifer o enghreifftiau sy'n ymwneud â gofalwyr ifanc yn cynnwys:

- Nid yw'r plentyn yn debygol o gyflawni nodau datblygiadol
- Nid yw/ni fydd yr unigolyn yn gallu manteisio ar a chymryd rhan mewn gwaith, hyfforddiant, gweithgareddau gwirfoddoli neu hamdden

Wrth asesu, rhaid i'r cyngor roi sylw i'r pwysigrwydd o hyrwyddo magwraeth y plentyn gan deulu'r plentyn, i'r graddau y mae hynny'n gyson â hyrwyddo llesiant y plentyn.

Lle mae'r gofalwr yn blentyn, rhaid i'r cyngor roi sylw i'w anghenion datblygiadol ac i'r graddau y mae'n briodol i'r plentyn ddarparu'r gofal. Dylai hyn arwain y cyngor i ystyried a yw plentyn sy'n ofalwr yn blentyn sydd ag anghenion gofal a chymorth drwy ei hawl ei hun.

Mae darparwyr gwasanaethau cymorth i ofalwyr ifanc wedi nodi bod ariannu tymor byr, diffyg adnoddau ar gyfer cludiant a diffyg arian ar gyfer tripliau yn cyfyngu ar y cymorth a seibiant y gallant eu cynnig i ofalwyr ifanc. Mae sicrhau bod gofalwyr ifanc yn cael cymorth yn ôl eu hanghenion cysylltiedig ag oed yn her hefyd.

Mae'r Ddeddf yn gosod 'fframwaith cymhwysra' cenedlaethol newydd i bennu a fydd gofalwr a aseswyd ac sydd ag anghenion cymorth yn bodloni'r meini prawf ar gyfer derbyn gwasanaeth. Darperir cynllun cymorth i ofalwyr sydd ag anghenion cymwys a fydd yn canolbwyntio ar ganlyniadau llesiant personol y maent wedi'u nodi eu hunain. Bydd hefyd yn disgrifio'r cymorth i'w helpu i gyflawni'r nodau llesiant personol a nodwyd. Bydd cynlluniau cymorth yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan gynghorau lleol, a bydd anghenion y gofalwr yn cael eu hailasesu os bydd ei amgylchiadau'n newid.

#### 5.4 Gwybodaeth, cyngor a chymorth

Roedd yr ymgysylltu ar gyfer yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yn dangos ei bod yn bwysig gan ofalwyr fod gwybodaeth a chyngor ar gael yn rhwydd (mewn un lle os oes modd) a bod cymorthfeydd gwybodaeth lleol, canolfannau gwybodaeth, pwyntiau siarad a gwasanaethau galw heibio ar gael.

Mae tystiolaeth o storïau gofalwyr a sgysiau 'beth sy'n bwysig' yn awgrymu bod nifer mawr o ofalwyr nad ydynt yn ymwybodol o'u hawliau ac nad ydynt yn gwybod chwaith am y gwasanaethau gwybodaeth a chymorth sydd ar gael iddynt.

*"Doedd y teulu erioed wedi cael gwasanaethau statudol a doedd hi erioed wedi bod yn ymwybodol o unrhyw wasanaethau i gynorthwyo Gofalwyr. Ei phrif gyswllt bob amser oedd y Meddyg Teulu ond nid oedd erioed wedi rhoi gwybod iddi am unrhyw wasanaethau sydd ar gael iddi, nac am ei hawl i gael Asesiad Gofalwr."* Astudiaeth Achos, Sir Ddinbych.

Mae diffyg gwybodaeth am faterion ariannol hefyd yn gallu arwain at orbryder ymysg gofalwyr:

*"Nid oedd Mr A yn derbyn unrhyw fudd-daliadau ac nid oedd yn gwybod y gallai hawlio Lwfans Gofalwr. Nid oedd yn gwybod am y cymorth sydd ar gael i Ofalwyr yn Sir Ddinbych."* Astudiaeth Achos, Sir Ddinbych.

Cawsom wybod gan riant i blentyn â Syndrom Down nad oedd wedi cael digon o wybodaeth:

*"Wrth edrych yn ôl ar y dyddiau cynnar, doeddwn i ddim wedi cael gwybodaeth am sefydliadau fel Cymdeithas Syndrom Down neu'r Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr a fyddai wedi gallu bod o gymorth i mi fel rhiant."* Stori Rhiant Ofalwr, Gwynedd.

Mae angen gwybodaeth hefyd ar ofalwyr ifanc, a rhaid iddynt ei chael weithiau gan bobl y maent yn eu hadnabod:

*“Byddwn wedi hoffi cael gwybod rhagor am gyflwr fy mrawd.”*

*“Byddwn yn hoffi cael cymorth gan elusen awtistiaeth – rwyf am ddeall y cyflwr yn well.” Gofalwr Ifanc, Ynys Môn*

Yr enw traddodiadol ar **seibiant i ofalwyr** yw ‘respite’, ac mae’n werth nodi ar y dechrau nad oes diffiniad cenedlaethol penodol o ‘respite’. Mae’r term wedi’i gysylltu hefyd â seibiant oddi wrth rywbeth sy’n faich. At ddibenion y strategaeth hon, defnyddir y term ‘seibiant i ofalwyr’.

Mae awdurdodau lleol a BIPBC yn buddsoddi’n sylweddol mewn gwasanaethau i ofalwyr sy’n darparu seibiant tymor byr ar ffurf gwasanaethau gwarchod a/neu ofal amgen. Er bod gwasanaethau’n cael eu darparu i’r person sy’n derbyn gofal, maent yn cael eu hystyried weithiau’n wasanaethau i ofalwyr. Mae rhai o sefydliadau’r trydydd sector hefyd yn derbyn cyllid allanol i ddarparu gwasanaethau o’r math hwn.

Roedd yr asesiad o anghenion y boblogaeth wedi nodi bod dewis, argaeledd a hyblygrwydd y gwasanaethau seibiant neu seibiant byr i ofalwyr yn annigonol.

Mae hyn wedi’i gadarnhau drwy’r gwaith mapio adnoddau sy’n dangos bod gwasanaethau seibiant i ofalwyr yn cael eu darparu ym meysydd pobl hŷn, anabledau dysgu ac iechyd meddwl. Mewn gwasanaethau pobl hŷn ac anabledau dysgu, darperir seibiant i ofalwyr ar ffurf gwasanaeth gwarchod neu ofal amgen. Mewn gwasanaethau iechyd meddwl, mae’r gwasanaeth yn cynnig seibiant, cymorth a help i ddatblygu sgiliau’r gofalwr. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau gan bartneriaid yn y gweithdy, credir nad yw’r buddsoddiad o £1.25 miliwn a ddangoswyd yn y gwaith mapio adnoddau yn adlewyrchiad cywir o’r gwasanaeth seibiant i ofalwyr. Wynebwyd yr heriau canlynol wrth fapio adnoddau:

- Nid oedd modd nodi’r holl seibiannau i ofalwyr, gan nad oedd modd gwahanu’r arian a dalwyd i ddarparwyr gofal cartref annibynnol
- Nid oedd yn hawdd gwahaniaethu rhwng seibiant i’r gofalwr a seibiant i’r person sy’n derbyn gofal
- A yw’r seibiant i ofalwr yn darparu seibiant llwyr i’r gofalwr neu beidio, e.e. a yw’n defnyddio’r amser i ddal i fyny â gwaith tŷ
- Mae’n bosibl nad yw’r seibiant i ofalwyr ym mhob maes gwasanaeth wedi’i adlewyrchu’n gywir

Y brif neges a gawsom gan ofalwyr yw bod yr angen am seibiant sydd ganddynt yn ymateb i’w hanghenion, eu sefyllfa ac amgylchedd y cartref. Maent am i’w llais gael ei glywed, a bydd anghenion pob gofalwr yn wahanol. Nid ydynt yn gwerthfawrogi cael eu hysbysu am ba wasanaeth y gellir ei ddarparu iddynt; nid oes arnynt angen gwasanaeth seibiant rheolaidd i ofalwyr o reidrwydd, ac mae

hyn yn arwain weithiau at bresgripsiynu gormod o wasanaethau, sy'n achosi gwastraff.

Mewn sefyllfa lle darperir seibiant yn y cartref, mae gofalwyr wedi dweud wrthym ei bod yn bwysig bod y person sy'n derbyn gofal yn gyfarwydd â'r unigolyn sy'n darparu'r gofal, neu mae'n bosibl na fydd yn fuddiol. Mewn sefyllfa lle mae'r unigolyn sy'n darparu'r gwasanaeth gwarchod ar ei wyliau, gall y person sy'n derbyn gofal neu'r gofalwr benderfynu gohirio'r trefniant nes bydd yr unigolyn sydd fel arfer yn darparu'r seibiant i'r gofalwr yn gallu bod ar gael. Felly mae cysondeb a dilyniant y gwasanaeth yn hollbwysig i'r gofalwr ac i'r person sy'n derbyn gofal.

Mae Gofal Iechyd Parhaus (GIP) yn faes sensitif o ran darparu seibiant i ofalwyr. Mae gofalwyr wedi dweud wrthym mai'r hyn a all ddigwydd pan fydd unigolyn yn dod yn gymwys i gael cyllid GIP yw y bydd newidiadau yn y cymorth y bydd y gofalwr a'r person sy'n derbyn gofal yn gallu ei ddisgwyl. Er enghraifft, bydd BIPBC yn contractio â darparwyr sy'n wahanol i'r rheini sy'n darparu gofal drwy drefniadau comisiynu'r awdurdod lleol, fel y bydd y rhoddwr gofal yn newid.

Os yw'r person sy'n derbyn gofal yn derbyn cyllid GIP, mae'r gwasanaeth iechyd yn cydnabod bod angen seibiant ar ofalwyr ac yn gweld gwerth yn y cymorth y mae'r gofalwr yn ei gynnig i ddiwallu anghenion y person sy'n derbyn gofal. Mae'r gwasanaeth iechyd yn cydnabod ei ddyletswydd i gwrdd â holl anghenion y person sy'n derbyn gofal, yn enwedig os nad yw'r gofalwr ar gael i ofalu amdano. Gallai hyn olygu y bydd y cydlynnydd gofal yn gwneud cais am 'gyllid ychwanegol'.

Mae hefyd yn bwysig bod modd darparu seibiant i ofalwyr ar sail hyblyg a byr rybudd er mwyn i'r gofalwr barhau i fyw ei fywyd fel y mae'n dymuno, e.e. mynd i gyfarfodydd cymdeithasol ar fyr rybudd, a pheidio â gorfod gwneud trefniadau'n rhy gynnar ymlaen llaw.

Mae cynlluniau talebau ar waith mewn rhai ardaloedd yng Ngogledd Cymru i hwyluso hyblygrwydd i ofalwyr. Ar ôl cwblhau asesiad o anghenion y gofalwr, rhoddir taleb i ofalwyr cymwys sy'n ddilys am gyfnod penodol er mwyn cael seibiannau tymor byr hyblyg. Er bod datblygu cynlluniau hyblyg arloesol o'r fath yn rhywbeth cadarnhaol, mae hefyd yn bwysig bod gwerthusiadau rheolaidd yn cael eu cynnal i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu.

Byddai gofalwyr ifanc yn hoffi treulio amser oddi wrth y person y maent yn gofalu amdano i gymryd rhan yn y gweithgareddau y maent yn eu mwynhau gyda'u cyfoedion, e.e. gweithgareddau mewn canolfannau hamdden, defnyddio amwynderau lleol fel parciau, llwybrau beicio, a chymryd rhan mewn chwaraeon.

Mae gofalwyr sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn dymuno cael yr un lefel o wasanaeth â gofalwyr sy'n byw mewn trefi.

Mae gofalwyr wedi dweud bod byw mewn ardaloedd gwledig yn creu problemau iddynt o ran:

- Cael gafael ar gymorth neu seibiant i ofalwyr
- Tynnu amser teithio o'r amser sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer gwasanaeth uniongyrchol
- Arwahanrwydd

*“Nid oes cyfleusterau anabledd dysgu, gweithgareddau grŵp cymorth i'w mynychu gan fy merch yn Llangollen er ei bod yn ymddangos bod llawer mwy yn Ninbych a rhai yn Rhuthun, ond nid yw'n gallu cael cludiant i'r manau hynny.” Gofalwr, Sir Ddinbych*

Mae rhai gofalwyr yn dymuno derbyn **gwasanaethau yn Gymraeg**, yn eu dewis iaith. Roedd yr ymgynghori ac ymgysylltu ar gyfer yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth wedi dangos mor bwysig oedd hi bod gwasanaethau gofal a chymorth ar gael yn Gymraeg. Dylai gwasanaethau sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg wedi'u cynnwys wrth gynllunio a darparu gwasanaethau a bod gwasanaethau'n cael eu cynnig yn Gymraeg i siaradwyr Cymraeg heb iddynt orfod gofyn amdanynt. Er bod gwybodaeth o'r gwaith mapio gwasanaethau yn awgrymu bod gwasanaethau ar gael yn Gymraeg a Saesneg i ofalwyr, nid yw'n glir a yw gwasanaethau'n cyrraedd safonau 'Mwy na geiriau', a ydynt ar gael yn syth neu ba drefniadau sydd angen eu gwneud ymlaen llaw i gael y gwasanaethau.

## 5.5 Polisi ac ymarfer

Mae angen i bartneriaid sicrhau bod protocolau polisi ac ymarfer safonol ar waith mewn perthynas â chyfrinachedd a rhannu gwybodaeth. Drwy dreialu'r model Triongl Gofal mewn gwasanaethau adsefydlu iechyd meddwl yn BIPBC, roedd modd cynnal trafodaethau am gydsyniad a chyfrinachedd wrth weithio gyda gofalwyr.

Mae staff yn cydnabod ei bod yn bwysig cynnwys gofalwyr ond yn cyfaddef eu bod yn ei chael yn anodd gwneud hynny lle nad yw'r un sy'n derbyn gofal wedi cydsynio i hynny neu lle mae cydsyniad yn amrywio yn ôl y sefyllfa neu'r hwyliau ar y pryd. Yr egwyddorion sylfaenol sydd wedi'u cymeradwyo gan y Swyddog Arweiniol Triongl Gofal i Loegr, yn ogystal â Swyddog Arweiniol Gofalwyr BIPBC yw y bydd staff:

1. Yn siarad am yr hyn y maent yn ymwybodol ohono.
2. Yn darparu gwybodaeth nad yw'n sensitif i ofalwyr ar ffurf sy'n helpu'r gofalwr i ddeall. Er enghraifft: gwybodaeth am gyflwr penodol, neu wybodaeth ynghylch rheoli meddyginiaethau.
3. Rhoi gwybod i ofalwyr am ffynonellau gwybodaeth a chymorth.
4. Yn gallu derbyn gwybodaeth drydydd parti gan ofalwyr.
5. Yn gallu rhoi gwybodaeth i ofalwyr.
6. Mae gan ofalwyr hawl i gyfrinachedd iddyn nhw eu hunain.

Mae staff wedi croesawu'r egwyddorion sylfaenol hyn ac maent hefyd yn croesawu hyfforddiant pwrpasol ar ofalwyr a chyfrinachedd.



## 5.6 Safonau cyflogwyr

Bydd yr holl bartneriaid sy'n ymwneud â chynllunio a darparu gwasanaethau i ofalwyr yng Ngogledd Cymru yn dymuno sicrhau bod eu sefydliadau'n ymrwymo i'r canlynol:

- Adnabod gofalwyr yn y sefydliad
- Mabwysiadu seilwaith sy'n ystyriol o ofalwyr
- Darpariaeth deg i ofalwyr
- Darparu cyfleoedd i glywed llais gofalwyr yn y gweithle
- Caniatáu arferion gweithio hyblyg, lle bo'n rhesymol ac ymarferol

## 5.7 Swyddogion Arweiniol Gofalwyr

Mae'r swyddi arweiniol ar gyfer gofalwyr yn y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru ac yn BIPBC yn bwysig iawn, yn enwedig o ran datblygu a hyrwyddo gwasanaethau i ofalwyr yn lleol, gweithio gyda thimau cymunedol i ymgysylltu â gofalwyr a deall beth sy'n bwysig yn lleol, casglu a dadansoddi data, deall anghenion am wasanaethau a nodi bylchau mewn gwasanaethau. Bydd y swyddogion hyn hefyd yn gallu hwyluso timau i ddatblygu a threialu modelau gweithio newydd gyda gofalwyr, yn ogystal â darparu hyfforddiant. Byddant hefyd yn helpu arweinwyr corfforaethol i sicrhau bod safonau'r cyflogwr wedi'u bodloni. Bydd swyddogion arweiniol i ofalwyr hefyd yn gweithio gyda'u partneriaeth gofalwyr leol i weithredu'r cynnig i ofalwyr yn ogystal â gweithio ar sail ranbarthol i gynllunio gwasanaethau a chyfrannu at waith dysgu a gwella ar lefel genedlaethol.

Lle nad yw'r swyddog arweiniol i ofalwyr hefyd yn swyddog arweiniol i ofalwyr ifanc, bydd angen i'r sefydliad fod yn glir ynghylch y ffordd i ddatblygu a hyrwyddo gwasanaethau i ofalwyr ifanc mewn gwasanaethau plant.

Mae'r swyddi hyn yn gallu effeithio a dylanwadu ar y canfyddiad o ofalwyr mewn sefydliadau a hwyluso gwaith i fod yn ystyriol o ofalwyr a hybu ymwybyddiaeth ohonynt.

## 6.0 Y dull presennol o ariannu gwasanaethau i ofalwyr

Nid yw ariannu ar gyfer gwasanaethau i ofalwyr wedi cael ei strwythuro, ac mae dyraniadau ar gyfer seibiant i ofalwyr, er enghraifft, wedi'u cyfrifyddu mewn cyllidebau craidd. Mae'r Grant Trosiannol Gofalwyr a gaiff BIPBC gan Lywodraeth Cymru i reoli'r pontio rhwng Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010 (y Mesur Gofalwyr) a DGCLI wedi cael ei ddyrannu ar sail flynyddol fyrdymor.

Ar 24 Tachwedd 2017, Diwrnod y Gofalwyr, cyhoeddodd y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant fod £1 miliwn i'w ddyrannu yn 2018-19 i fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd gydweithio â'u holl bartneriaid i wella bywydau gofalwyr yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol. Cafwyd penderfyniad gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar wario'r grant ar ôl ystyried y ffrwd waith ar ofalwyr a'r cynnig i ofalwyr yng Ngogledd Cymru.

Mae awdurdodau lleol wedi cael dyraniad ar gyfer darparu seibiant i ofalwyr o bob oed yn ystod 2018-19 drwy eu Grant Cynnal Refeniw, ac mae canllawiau ar y Gronfa Gofal Integredig yn cyfeirio at y blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gofalwyr.

Mae'r gwaith mapio adnoddau yn dangos bod cyllid yn dod o nifer o ffynonellau gwahanol:

- Awdurdodau lleol
- Y trydydd sector
- Llywodraeth Cymru
- Y bwrdd iechyd
- Gwasanaethau y gellir codi tâl amdanynt

Mae'r gwaith mapio adnoddau hefyd yn dangos natur anghynaliadwy'r ariannu gan nad yw darparwyr yn gwybod a fydd ffrydiau ariannu ar gael o'r naill flwyddyn i'r llall, ac mae hynny'n creu ansicrwydd ymysg y gweithlu a throsiant staff, sydd yn ei dro'n effeithio ar y dilyniant mewn gwasanaethau i ofalwyr. Mae'r gwaith mapio adnoddau hefyd yn dangos bod darparwyr y trydydd sector wedi llwyddo i sicrhau cyllid o ffynonellau allanol yn ogystal â nawdd.

Mae darparwyr wedi nodi mai aneffeithlon yw paratoi mwy nag un adroddiad perfformiad i'r un comisiynydd, yn ogystal â gorfod adrodd ar ddata rheoli, yn hytrach na chanolbwyntio ar y canlyniadau llesiant personol go iawn i ofalwyr.

Roedd darparwyr hefyd wedi sôn am yr angen i sicrhau diogelwch y gweithlu medrus ac arbenigol yn y maes. Byddai hyn yn cyfrannu wedyn at gyflawni'r rhan o'r cynnig i ofalwyr a gytunwyd sy'n ymwneud â bod yn ymwybodol o ofalwyr. Mae darparwyr yn nodi bod contractau 3+2=5 mlynedd yn cael eu gweld yn werthfawr a'u bod yn rhoi sefydlogrwydd i'r gwasanaeth yn ogystal â chyfle i gynllunio a datblygu gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

Er bod Taliadau Uniongyrchol yn cynnig dull personol o gael gwasanaethau i unigolion, rydym yn deall mai ychydig o ddefnydd a wneir ohonynt gan ofalwyr. Mae darparu gwasanaethau Taliadau Uniongyrchol yn effeithiol yn hanfodol i weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r memorandwm esboniadol i'r rheoliadau sydd gyda'r Ddeddf<sup>1</sup> yn pwysleisio hyn:

*Mae Taliadau Uniongyrchol yn hanfodol i gyflawni nod Llywodraeth Cymru o wella llesiant pobl sydd ag angen gofal a chymorth i gyflawni eu canlyniadau llesiant a gofalwyr sydd ag angen gofal a chymorth i gyflawni eu canlyniadau llesiant. Maent yn fecanwaith ar gyfer cynyddu annibyniaeth, dewis a rheolaeth, ac maent yn galluogi cydgynhyrchu wrth gynllunio gofal sy'n rhoi rhyddid i*

---

<sup>1</sup> Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Gofal a Chymorth (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2015, Llywodraeth Cymru 2015



*unigolion gynllunio ffyrdd hyblyg ac arloesol i wireddu eu canlyniadau llesiant i'r graddau mwyaf posibl.*

Mae'r prif ysgogiad i gynyddu'r defnydd ohonynt yn gyffredinol yn debygol o ddod drwy'r gwaith a wneir gydag unigolion wrth eu hasesu gyntaf ar gyfer gwasanaethau ac wrth iddynt ddechrau trafod cynlluniau gofal a chymorth â'r staff sy'n gwneud yr asesiadau hynny, felly byddai angen gweithio ar sail ranbarthol a lleol i edrych ar y posibilrwydd o gynyddu'r defnydd o Daliadau Uniongyrchol.

Mae enghreifftiau cadarnhaol o ofalwyr sy'n oedolion yn derbyn Taliadau Uniongyrchol er mwyn cael hyblygrwydd yn eu rôl gofalu yng Ngogledd Cymru. Mae angen cynnal rhagor o drafodaethau ar y posibilrwydd o ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol i hwyluso hyblygrwydd mewn gwasanaethau i ofalwyr.

## **7.0 Y cynnig i ofalwyr yng Ngogledd Cymru**

**Mae'r cynnig gan y partneriaid i ofalwyr yng Ngogledd Cymru wedi'i ddatblygu a'i gydgyhyrchu gan y grwpiau canlynol:**

- Grŵp Strategol Gofalwyr Gogledd Cymru
- Grŵp Gweithredol Gofalwyr Gogledd Cymru
- Grŵp Gweithredol Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru
- Grŵp Cyfeirio'r Gofalwyr

**Mae partneriaid am sicrhau'r canlyniadau llesiant personol canlynol i'r holl ofalwyr yng Ngogledd Cymru:**

- Bod anghenion gofalwyr unigol, yn cynnwys anghenion o ran iaith, yn cael eu diwallu yn y ffordd orau
- Bod gofalwyr yn cael eu hystyried yr un pryd â'r person sy'n derbyn gofal
- Bod gwasanaethau'n gyson

Wrth wneud hyn, rydym hefyd am sicrhau:

- Bod gwerth ychwanegol yn cael ei greu drwy gydweithio
- Nad yw gwasanaethau a chyllid yn cael eu dyblygu
- Ein bod yn glynu wrth yr arferion gorau

**Bydd partneriaid yn ymrwymo i:**

- **Hybu ymwybyddiaeth gyffredinol** o ofalwyr a gofalu ymysg y boblogaeth ehangach ac ymysg yr holl staff perthnasol yn y sector iechyd a gofal
- **Bod yn ystyriol o ofalwyr** wrth gomisiynu ac asesu anghenion, gan roi sylw i ystyriaethau gwledig a'r rheini sydd bellaf o wasanaethau am resymau eraill
- **Cynnwys gofalwyr** o'r holl grwpiau a chymunedau mewn prosesau penderfynu a chynllunio
- **Adnabod gofalwyr yn gynnar** pan fyddant yn dod i gysylltiad â gwasanaethau gyntaf

**Beth fydd partneriaid yn ei wneud fel cyflogwyr**

- Adnabod gofalwyr yn y sefydliad
- Mabwysiadu seilwaith ystyriol o ofalwyr
- Ymrwymo i sicrhau darpariaeth deg i ofalwyr

- Darparu cyfleoedd i glywed llais gofalwyr yn y gweithle
- Caniatáu arferion gweithio hyblyg, lle bo'n rhesymol ac ymarferol

## 8.0 Safonau gwasanaeth

Mabwysiadwyd y safonau canlynol o'r model Triongl Gofal ac maent yn berthnasol iawn i awdurdodau lleol a BIPBC. Cytunodd partneriaid fod y safonau hyn yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer datblygu gwasanaethau, gyda'r gofalwr ac ar ei gyfer, ledled y rhanbarth.

- Mae barn a gwybodaeth gofalwyr yn cael eu ceisio, eu rhannu, eu defnyddio a'u diweddarau'n rheolaidd wrth gydgyhyrchu cynlluniau gofal a strategaethau cyffredinol
  - Mae staff yn ymwybodol o ofalwyr ac yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio strategaethau ymgysylltu â gofalwyr o'r dechrau
  - Mae angen i staff fod yn ymwybodol o'r cyfraniad gwerthfawr y gall gofalwyr ei roi a bod yn ystyriol o anghenion y gofalwyr eu hunain
- Mae angen i staff gael gwybodaeth, hyfforddiant a chymorth i ddod yn ymwybodol o ofalwyr
  - Mae cyflwyniad ar gael i'r gwasanaeth a'r staff sy'n canolbwyntio ar ofalwyr, ac mae gwybodaeth berthnasol ar gael ar draws y llwybr gofalwyr
- Mae gofalwyr a'u rôl hanfodol yn cael eu nodi wrth ddod i gysylltiad am y tro cyntaf neu cyn gynted â phosibl ar ôl hynny ac mae help ar gael iddynt yn y ffordd symlaf a chyflymaf bosibl
- Mae protocolau polisi ac ymarfer ar waith ar gyfrinachedd a rhannu gwybodaeth
- Mae swydd(i) wedi'u diffinio sy'n gyfrifol am ofalwyr (swyddogion arweiniol gofalwyr)
- Mae amrywiaeth o wasanaethau cymorth ar gael i ofalwyr

Bydd goblygiadau yn y safonau hyn i'r holl bartneriaid wrth gomisiynu a darparu gwasanaethau i ofalwyr:

- Ar gyfer comisiynu lleol, is-ranbarthol a rhanbarthol:
  - cynllunio asiantaethau fel eu bod yn rhoi llais i ofalwyr mewn penderfyniadau lleol a sicrhau bod yr holl wasanaethau yn yr ardal yn dod yn fwy ymwybodol ac ystyriol o ofalwyr
  - gwasanaethau ag arbenigedd gofalwyr sy'n gallu hybu ymwybyddiaeth o ofalwyr yn yr holl asiantaethau yn yr ardal
  - gwasanaethau sy'n ceisio dod o hyd i ofalwyr a'u helpu i wybod am eu hanghenion a'u hawliau
  - gwasanaethau cymorth i ofalwyr sydd ag anghenion cymorth a/neu hawliau penodol
  - cynnig Taliadau Uniongyrchol i'r rheini sydd am eu cael
- Gwasanaethau gwybodaeth a chyngor (ac eiriolaeth ffurfiol neu annibynnol os yw'n briodol) sydd ar gael yn rhwydd, wedi'u teilwra yn ôl anghenion gofalwyr mewn gwahanol gyfnodau yn eu bywyd (e.e. gofalwyr ifanc, rhieni ofalwyr, gofalwyr i oedolion), amgylchiadau a chyflyrau, a chamau ar y daith gofalu
- Y gallu i gael hyfforddiant ar y sgiliau newydd y gallai fod eu hangen ar ofalwyr wrth ddechrau neu addasu i'w rôl gofalu newydd, ac i gael cymorth gan gymheiriaid lle bo'n briodol

- Yr hawl i gael asesiad (sgwrs beth sy'n bwysig) fel gofalwr drwy'ch hawl eich hun:
  - i ddatblygu cynllun gofal a chymorth cyffredinol
  - i dynnu'ch sylw at wasanaethau priodol;
  - i bennu cymhwystra am gymorth i'ch helpu i ofalu
- Ar gyfer gofalwyr cymwys:
  - Cynllun cymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau llesiant personol y maen nhw eu hunain wedi'u nodi.
  - Bydd yn disgrifio'r cymorth i'w helpu i gyflawni'r canlyniadau llesiant personol a nodwyd.
  - Bydd cynlluniau cymorth yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan awdurdodau lleol, a bydd anghenion yn cael eu hailasesu os bydd eu hamgylchiadau'n newid

Draft

Yn unol â'r safonau a gytunwyd, mae'r prif gynllun isod yn amlinellu'r camau gweithredu a'r cyfrifoldeb arweiniol.

Rhif	Safonau	Camau gweithredu	Cyfrifoldeb rhanbarthol am weithredu	Cyfrifoldeb lleol
1.	Ymgysylltu â gofalwyr a llais y gofalwyr	Ceisio barn a gwybodaeth gofalwyr, eu rhannu, eu defnyddio a'u diweddarau'n rheolaidd wrth lunio cynlluniau gofal a strategaethau cyffredinol.	GSGGC	Yr holl bartneriaid
		Cynllunio asiantaethau fel eu bod yn rhoi llais i ofalwyr mewn penderfyniadau lleol a sicrhau bod yr holl wasanaethau yn yr ardal yn dod yn fwy ymwybodol ac ystyriol o ofalwyr	GSGGC	Yr holl bartneriaid
2.	Sefydlu a hyfforddi gofalwyr a staff	Mae cyflwyniad ar gael i'r gwasanaeth a'r staff sy'n canolbwyntio ar ofalwyr, ac mae gwybodaeth berthnasol ar gael ar draws y llwybr gofalwyr	GSGGC, drwy gydweithio â GGGIGC	Yr holl bartneriaid
		Hyfforddi staff mewn ymwybyddiaeth o ofalwyr a strategaethau ymgysylltu.	GSGGC, drwy gydweithio â GGGIGC	Yr holl bartneriaid
		Y gallu i gael hyfforddiant ar y sgiliau newydd y gallai fod eu hangen ar ofalwyr wrth ddechrau neu addasu i'w rôl gofalu newydd, ac i gael cymorth gan gymheiriaid lle bo'n briodol	GSGGC/GGGIGC	Yr holl bartneriaid
3.	Asesu a chymorth i'r holl ofalwyr	Bydd gofalwyr yn rhan o sgwrs yr asesiad (beth sy'n bwysig) drwy eu hawl eu hunain	GSGGC/GGGIGC	Awdurdodau lleol
		Cynllun cymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau llesiant personol y maen nhw eu hunain wedi'u nodi er mwyn cyflawni'r canlyniadau llesiant personol a nodwyd ac sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd, a'r anghenion yn cael eu hailasesu os bydd eu	GSGGC/GGGIGC	Awdurdodau lleol yn gweithio gyda phartneriaid

Rhif	Safonau	Camau gweithredu	Cyfrifoldeb rhanbarthol am weithredu	Cyfrifoldeb lleol
		hamgylchiadau'n newid		
		Gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth gan gymheiriaid (ac eiriolaeth ffurfiol neu annibynnol os yw'n briodol) sydd ar gael yn rhwydd, wedi'u teilwra yn ôl anghenion gofalwyr mewn gwahanol gyfnodau yn eu bywyd, amgylchiadau a chyflyrau, a chatau ar y daith gofalu	GGGGC, drwy gydweithio â GGGIGC	Yr holl bartneriaid
		Mae dewis o seibiant hyblyg ar gael i ofalwyr	GSGGC	Awdurdodau lleol yn gweithio gyda phartneriaid
		Eiriolaeth arbenigol, yn cynnwys hynny ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus a gofalwyr ifanc	GSGGC	Awdurdodau lleol, BIPBC yn gweithio gyda phartneriaid
4.	Protocolau polisi ac ymarfer	Mae protocolau polisi ac ymarfer ar waith ar gyfrinachedd a rhannu gwybodaeth.	GSGGC	Yr holl bartneriaid
5.	Mabwysiadu safonau cyflogwr	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adnabod gofalwyr yn y sefydliad</li> <li>• Mabwysiadu seilwaith sy'n ystyriol o ofalwyr</li> <li>• Ymrwymo i ddarpariaeth deg i ofalwyr</li> <li>• Darparu cyfleoedd i glywed llais gofalwyr yn y gweithle</li> <li>• Caniatáu arferion gweithio hyblyg, lle bo'n rhesymol ac ymarferol</li> </ul>	GGGGC	Yr holl bartneriaid
6.	Swyddogion arweiniol gofalwyr	Swyddi wedi'u diffinio sy'n gyfrifol am ofalwyr	Awdurdodau lleol, BIPBC	
7.	Datblygu mesurau llwyddiant a threfniadau casglu data	Cytuno ar fesurau perfformiad	GSGGC	Yr holl bartneriaid
		Cytuno ar drefniadau casglu data a'u rhoi ar waith	GGGGC/GGGIGC	Yr holl bartneriaid

## 9.0 Mesurau llwyddiant

Rydym yn nodi isod y prif fesurau llwyddiant arfaethedig y mae partneriaid wedi cytuno arnynt. Cesglir y rhain gan GGGGC a GGGIGC a bydd GSGGC yn monitro cynnydd er mwyn cyfrannu at gynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae dau o'r mesurau yr un fath â'r rheini yn Fframwaith Mesur Canlyniadau Llywodraeth Cymru, a chredir bod y lleill yn bwysig i fesur y cynnydd ar ein strategaeth yng Ngogledd Cymru. Mae'r mesurau llwyddiant hyn yn rhoi pwys mawr ar wella amgylchiadau bywyd gofalwyr, gan wrando ar eu barn a'u cynnwys wrth gynllunio gwasanaethau.

- Mae gofalwyr o bob oed yn dweud eu bod yn fodlon ar yr asesiadau a chymorth wedi'i bersonoli y maent yn eu cael, maent yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt ac maent yn deall eu hawliau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).
- Mae gweithwyr cymdeithasol ac ymarferwyr gofal eraill yn gallu dangos eu bod yn cymhwyso egwyddor llesiant yn eu holl benderfyniadau ar ofal cymdeithasol oedolion.
- Mae nifer yr asesiadau yn 2018 wedi cynyddu'n unol ag amcangyfrif y Bartneriaeth Ranbarthol.
- Mae gofalwyr yn dweud eu bod yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys wrth gynllunio'r cynllun gofal a chymorth ar gyfer y person y maent yn gofalu amdano (Llywodraeth Cymru)
- Mae gofalwyr yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael cymorth i barhau â'u rôl gofalu (Llywodraeth Cymru)
- Os yw gofalwr yn wynebu argyfwng, mae'n gwybod sut i gael gafael ar wasanaeth ymateb cyflym i asesu ac ymateb i'w angen

## 10.0 Diweddsglo

Mae gwranddo ar ofalwyr o bob oed yn sôn am eu profiadau wedi dangos bod darpariaeth o ansawdd da ar gael i ofalwyr yng Ngogledd Cymru a bod hyn yn cael ei werthfawrogi'n fawr pan fydd pethau'n mynd yn iawn. Mae gofalwyr wedi dweud wrthym hefyd fod gwasanaethau a ddarperir gan staff gwybodus yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr i'w llesiant a'u hamgylchiadau.

Er bod nifer mawr o enghreifftiau o arfer da mewn perthynas â chymorth i ofalwyr yng Ngogledd Cymru, bydd y rheini sy'n gyfrifol am weithredu'r strategaeth hon a'r cynlluniau gweithredu ar ei chyfer yn ymdrechu i sicrhau y bydd y gwasanaethau hynny'n fwy cyson ar draws y rhanbarth ac y bydd y ddarpariaeth leol ym mhob ardal yn adlewyrchu'r safonau rhanbarthol a gytunwyd.

Mae'n bwysig bod y rheini sy'n dod i gysylltiad â gofalwyr gyntaf, ym maes gofal iechyd sylfaenol efallai, neu mewn ysgolion neu awdurdodau lleol, yn gwranddo ar ofalwyr, yn meddwl am ofalwyr ac yn eu hannog i fod yn ymwybodol o'u rôl ac i ddeall y gallant elwa o'r wybodaeth a chymorth sydd ar gael iddynt.

**Atodiadau:**

**Atodiad 1: Beth sy'n bwysig i ofalwyr**

**Atodiad 2: Llwybrau gofalwyr**

**Atodiad 3: Mapio adnoddau**

**Atodiad 4: Cynllun Gweithredu Grŵp Strategol Gofalwyr Gogledd Cymru (GSGGC)**

**Atodiad 5: Cynllun Gweithredu Grŵp Gweithredol Gofalwyr Gogledd Cymru (GGGGC)**

**Atodiad 6: Cynllun Gweithredu Grŵp Gweithredol Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru (GGGIGC)**

**Atodiad 7: Cynllun Gweithredu Grŵp Cyfeirio'r Gofalwyr (GCG)**

Draft



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU  
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING  
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

## Strategaeth y gofalwyr: Adroddiad o'r hyn sy'n bwysig i ofalwyr

Mehefin 2018

### Rhagarweiniad

Mae straeon a phrofiadau gofalwyr yn cynnig ciplun defnyddiol o'r hyn sy'n bwysig iddynt, beth sy'n eu helpu i barhau yn eu rôl ofalgar a pha agweddau sy'n eu herio. Gellir crynhoi'r prif themâu sy'n codi o straeon ac astudiaethau achos gofalwyr fel a ganlyn:

- Unigedd y rôl ofalgar
- Y straen a brofir gan ofalwyr
- Y gwerth y mae gofalwyr yn ei roi i gefnogaeth sefydliadau'r trydydd sector ac awdurdodau lleol
- Effaith lles yr unigolyn sy'n derbyn gofal ar les y gofalwr
- Angen y gofalwyr am seibiant
- Angen y gofalwyr am wybodaeth
- Yr angen i fod yn gyflogedig, neu i ddychwelyd i waith
- Materion gwledig

Mae'r straeon a'r astudiaethau achos isod yn cynnig rhai enghreifftiau'n unig o'r rhai a gynigiwyd gan sefydliadau'r trydydd sector, BIPBC ac awdurdodau lleol.

### Unigedd y rôl ofalgar a'r straen a brofwyd gan ofalwyr

*"Teimlo'n unig ar adegau a byddai'n llai o straen pe bai gennym fwy o amser cymdeithasol i mi fy hun" Gofalwr, Ynys Môn*

*"Mae Mrs B yn methu dychwelyd i'r gwaith ers llawdriniaeth ei gŵr, ac weithiau mae'n ei chael hi'n anodd ymdopi â bywyd. Mae ganddynt fyngalo yng Nghymru wledig, 9 milltir i ffwrdd o'r archfarchnad agosaf. Teimla Mrs B yn unig, ac mae'n colli ei hen fywyd lle gallai gymdeithasu a threulio amser gyda ffrindiau a theulu. Dywedodd Mrs B wrthyf ei bod hi'n teimlo mai "bodoli nid byw" mae hi ac, ar adegau, yn teimlo mor isel nad yw bywyd i weld yn werth ei fyw." Astudiaeth Achos, Conwy*

"Yn ystod sgwrs gyda rhiant-gofalwr oedolyn gydag anableddau dysgu, torrodd y gofalwr i lawr gan esbonio ei bod hi dan bwysau aruthrol. Roedd ei merch wedi methu mynd i ofal dydd ers dros fis oherwydd roedd hi wedi bod yn sâl. Nid oedd y



gofalwr yn cael unrhyw gwsg o'r herwydd ac roedd gan ei phartner ei faterion iechyd ei hun ac roedd hi ei hun yn aros i gael llawdriniaeth ar ei phen-glin.

Ar ddiwedd yr alwad ffôn, dywedodd y gofalwr fod gallu siarad â rhywun am ei gofidiau gyda rhywun y gallai ymddiried ynddo wedi codi pwysau'r byd oddi ar ei hysgwyddau. Esboniodd y gofalwr nad yw hi'n cael cyfle i drafod ei gofidiau gan nad yw hi'n teimlo'n gysurus yn siarad â phobl eraill. Penderfynwyd y byddwn yn ei ffonio'n rheolaidd yn ystod yr adeg anodd hon. Teimla'r gofalwr yn llawer gwell o wybod y gall hi rannu ei holl ofidiau gyda mi. Mae'r gefnogaeth emosiynol yn parhau gyda'r gofalwr." Astudiaeth achos, Cynnal Gofalwyr.

Yn aml iawn, y pethau sydd o bwys i ofalwyr ifanc yw'r un pethau sy'n bwysig i unrhyw unigolyn ifanc. Fodd bynnag, gall eu sefyllfa fel gofalwr ifanc gael effaith ar adegau ar y ffordd y maen nhw'n byw eu bywydau, a gall y cyfleoedd y mae pobl ifanc heb gyfrifoldebau gofalgar yn eu cymryd yn ganiataol fod yn anodd i ofalwyr ifanc fynd atynt. Canfu canfyddiadau o'r ymgynghoriad a'r ymgysylltiad â gofalwyr ifanc fel rhan o'r Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru mai'r meysydd yr oedd gofalwyr ifanc yn eu cael yn heriol oedd: canolbwytio, cyfathrebu, bod yn hyderus a gwneud ffrindiau.

Mae gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc yn sôn am y pwysau maen nhw oddi tano weithiau:

*"Cofio popeth (e.e. tasgau, cael gorchmynion i wneud pethau fel rhoi'r sbwriel allan). Gweithio'n gyflym.*

*"Mae Mr A yn oedolyn ifanc sy'n gofalu am ei dad gyda chyflyrau iechyd niferus a phroblemau symudedd sylweddol. Roedd Mr A yn cael problemau gyda symud a thrafod. Roedd ei dad yn ddefnyddiwr cadair olwyn. Aeth yn unig iawn oherwydd ei rôl ofalgar. Nid aeth ar drywydd unrhyw addysg bellach ers gadael yr ysgol ac nid yw erioed wedi bod mewn gwaith.*

*Roedd gan Mr A ei broblemau iechyd ei hun hefyd ac roedd yn cael pyliau o orbryder aciwt. Roedd wedi esgeuluso ei iechyd ei hun a heb ymweld â'i feddyg teulu ers cryn amser" Astudiaeth achos, Sir Ddinbych*

Mae gallu gofalwyr ifanc i ganolbwytio ymhlith cyfrifoldebau a phryderon eraill yn broblem, e.e. tra bydd yr unigolyn maen nhw'n gofalu amdano'n sâl. Yn ogystal, yr angen i siarad gyda phobl eraill am eu problemau a'u teimladau, e.e. teulu, ffrindiau, cymdogion, gofalwyr ifanc eraill yn ogystal â gweithwyr proffesiynol yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

## **Y gwerth y mae gofalwyr yn ei roi ar gefnogaeth sefydliadau trydydd sector ac awdurdodau lleol**

Mae gofalwyr yn dweud wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r gwasanaethau cymorth a dderbyniant, nad ydynt yn gwerthfawrogi gwasanaethau sy'n gweithio'n dda iddynt yn cael eu cymryd oddi wrthynt, yn enwedig ar fyr rybudd. Os na gyflëwyd iddynt

pam y mae'r gwasanaeth yn dod i ben, teimlant yn rhwystredig ac nid ydynt yn deall pam y mae wedi digwydd.

*“Gwelais lyfryn NEWCIS yn y feddygfa a phenderfynais gysylltu â nhw. Daeth un o'r aelodau staff allan i gyfarfod â ni'n dau. Rydym wedi cael llawer o gefnogaeth dros y blynyddoedd a dydw i ddim yn credu y gallwn i fod wedi cario ymlaen hebddynt. Maen nhw wedi ein helpu ni i fynd at CAB am gymorth ariannol ac wedi ein cefnogi ni i gael cymhorthion. Rydw i bellach yn cyfarfod â gofalwyr eraill yng ngrŵp gofalwyr NEWCIS ac mae'n fy nghael i allan o'r tŷ ac rwy'n cyfarfod â phobl mewn sefyllfaoedd tebyg.” Astudiaeth achos, NEWCIS*

*“Rydw i wedi dysgu popeth yn ddamweiniol ar wahân i'r hyn a ddysgais gan Cynnal Gofalwyr a phan oedd angen i mi fynd i gael asesiad gofalwr, euthum i Dinerth Road, roedd y weithwraig gymdeithasol yno'n dda iawn a threfnodd wasanaeth eistedd croesffyrdd i mi, a oedd yn dda iawn. Dyma oedd y gwasanaeth gorau erioed, gwych, alla i ddim â'u canmol digon.” Stori'r gofalwr, Conwy*

*“Mae'r gofalwr yn gofalu am ei wraig gyda dementia; mae hi wedi gwaethygu'n gyflym yn ystod y 6 mis diwethaf. Mae'n teimlo bod y sefyllfa'n straen enfawr ac mae'n cael trafferth ymdopi gyda'i chwestiynau ac ati. Cysylltodd â'r swyddfa i ofyn am help gyda strategaethau ymdopi i reoli straen.*

Rydw i wedi bod yn cefnogi'r gofalwr dros y ddeufis diwethaf ac mae'n werthfawrogol iawn o gael rhywun sy'n deall i siarad ag ef. Rydw i wedi ymweld ag ef yn ei gartref lle trafododd wahanol ffyrdd o ymdopi ac ymateb i'r sefyllfa i leihau'r effeithiau arno ef ei hun. Dywedodd fod hyn o help mawr a rhoddodd syniadau iddo am wahanol bethau y gallai roi cynnig arnynt i ddelio â'r sefyllfa heb fynd i deimlo ar bigau'r drain neu'n gythryblus. Yn ogystal, rhoddais allwedd boced Coch Dementia iddo er mwyn ei ddangos yn dawel bach pan oedd allan gyda'i wraig, fel nad oes rhaid iddo esbonio dim byd ar lafar na theimlo cywilydd neu'n ymddiheuro am ei hymddygiad. Yn dilyn hynny, fe'i cyfeiriais at Gymdeithas Alzheimer i ofyn am weithiwr cymorth dementia i'w helpu a'i gynghori. Dilynais hyn gydag ambell i alwad ffôn i'w annog, cynnig cymorth, ac i weld beth arall allwn i wneud i'w helpu. Mae cynnydd mewn oriau seibiant yn cael eu rhoi ar waith trwy'r Gwasanaethau Cymdeithasol, ac mae seicolegydd clinigol gwadd yn cynnig ei helpu gyda'i bryder. Yn ddiweddar, anfonais wybodaeth ato mewn perthynas â'r trip i Drên Bach yr Wyddfa a drefnir gan Awyr Las i bobl sydd wedi cael diagnosis o Dementia, a'u gofalwyr, a'r diwrnod cymorth dementia yn ysbyty Alltwen. Mae'n hynod ddiolchgar am yr holl gefnogaeth a gwybodaeth ac rydw i wedi cynnig cadw mewn cysylltiad ag ef hyd nes y gellir rhagweld.” Stori gofalwr, Cynnal Gofalwyr.

*“Cafwyd atgyfeiriad gan Nyrs Arbenigol yn yr ysbyty. Angen cymorth ar ofalwr claf gan mai hi yw'r unig ofalwr am ei gŵr sydd â dementia. Mae angen gofal rownd y cloc arno ac mae'r gofalwr wedi bod yn cysgu lawr llofft nesaf at ei gŵr ers sawl mis gan nad oes gwres i fyny'r llofft ac mae ei gŵr yn methu dringo'r grisiau oherwydd ei symudedd gwael.*

Dywedwyd wrthi fod angen triniaeth arni ac mae'n poeni sut bydd hyn yn bosibl oherwydd ni all adael ei gŵr ar ei ben ei hun ac ni fydd hi'n gallu gofalu am ei gŵr yn gorfforol ar ôl y llawdriniaeth a'r driniaeth cemotherapi.

Cymorth Emosiynol – trafodwyd pryderon y Gofalwr

Cysylltwyd â'r Nyrs Seiciatrig Gymunedol a chwblhawyd y sgwrs Yr Hyn Sy'n Bwysig i adolygu'r anghenon gofal a'r gwasanaethau seibiant sydd ar gael – am gefnogaeth anghenion Gofalwr ar gyfer ei gŵr tra bydd hi'n cael triniaeth.

Cwblhawyd archwiliad budd-daliadau – Nid oes Lwfans Gweini'n cael ei dalu i'r sawl sy'n derbyn gofal ac mae'n gwbl ddibynnol ar y Gofalwr. Atgyfeiriad DWP am AA1, Credyd Pensiwn (CP) (cwblheir y cyfrifiadau gyda'r gofalwr) a bydd Eithriad i'r Dreth Gyngor yn berthnasol ar ôl dyfarnu CP. Pan ddyfernir hwn, ceir atgyfeiriad trwy gynllun Gwres Nest.

Cyllid – Esbonio cyllid lechyd a Chymdeithasol mewn perthynas â'r sawl sy'n derbyn gofal os caiff ei dderbyn i Gartref Gofal.

Cwblhawyd cais am Fathodyn Glas

Mewn adolygiad 4 wythnos yn dilyn cyfarfod gyda gofalwr yn YG

-“Fyddwn i ddim wedi gwybod am unrhyw un o'r uchod heb help y Swyddog Cymorth i Ofalwyr, Ysbyty Gwynedd” Astudiaeth Achos, Cynnal Gofalwyr.

“Mae Mrs D yn gofalu am ei mam a bellach am ei gŵr, sy'n golygu ei bod hi'n ynysig iawn heb unrhyw amser am unrhyw beth arall – “bod yn ofalwraig yw'r cyfan sydd yn fy mywyd rŵan.

Ymweld â'r Ganolfan gyda'm gŵr yw'r tro cyntaf imi deimlo bod fy rôl fel gofalwraig yn cael ei chydabod. Mae'r staff yn llawn gofal ac yn gyfrifol, os ydyn nhw'n gwybod eich bod chi'n cael unrhyw drafferthion, maen nhw'n awyddus i helpu, oherwydd maen nhw'n cydnabod bod iechyd a lles y gofalwr cyn bwysiced.” Stori Gofalwr, Sir Ddinbych

Mae rhai gofalwyr am gael gwasanaeth yn y Gymraeg, yn eu dewis iaith. Amlygodd y gwaith ymgynghori ac ymgysylltu fel rhan o'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth bwysigrwydd cael gwasanaethau gofal a chymorth ar gael yn y Gymraeg. Dylai'r gwasanaethau sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg eu hiaith yn cael eu hymgorffori wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau a bod gwasanaethau'n cael eu cynnig yn Gymraeg i siaradwyr Cymraeg heb iddynt orfod gofyn amdanynt. Er bod y wybodaeth o'r ymarfer mapio gwasanaethau'n awgrymu bod gwasanaethau ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg i ofalwyr, nid yw'n glir ydy gwasanaethau'n cyrraedd y safonau “Mwy na geiriau”, ydyn nhw ar gael yn syth neu a oes angen gwneud trefniadau ymlaen llaw i drefnu'r gwasanaethau.

## Angen y gofalwyr am wybodaeth

Mae'r dystiolaeth o straeon y gofalwyr a'r sgrysiâu Yr Hyn Sy'n Bwysig yn awgrymu bod gofalwyr yn anymwybodol o'u hawliau ar adegau a hefyd yn anymwybodol o'r gwasanaethau gwybodaeth a chymorth sydd ar gael iddynt.

“Gwnaeth y teulu byth droi at unrhyw wasanaethau statudol ac nid oedd hi byth yn ymwybodol o unrhyw wasanaethau i gefnogi Gofalwyr. Roedd ei phrif gyswllt gyda'r meddyg teulu bob tro ond ni roddodd fyth wybod iddi am unrhyw wasanaethau oedd ar gael iddi, nac am ei hawl i Asesiad Gofalwr”. Astudiaeth Achos, Sir Ddinbych.

Mae'n bwysig hefyd i ofalwyr gael gwybodaeth berthnasol ar yr adeg fwyaf priodol,

“Rwy'n credu mai'r clinig cof fyddai'r lle i roi pecyn neu wybodaeth i mi a dweud, ewch adref a phan gewch chi funud ac ar ôl i chi wneud hyn fydd popeth yn llawer gwell i chi.” Gofalwr, Conwy

Gall diffyg gwybodaeth am faterion ariannol arwain at bryder gofalwr hefyd:

“Nid oedd Mr A yn derbyn unrhyw fudd-daliadau ac nid oedd yn ymwybodol y gallai hawlio Lwfans Gofalwyr. Nid oedd yn gwybod am y gefnogaeth oedd ar gael i Ofalwyr yn Sir Ddinbych.” Astudiaeth Achos, Sir Ddinbych.

Dywedodd rhiant plentyn gyda Syndrom Down wrthym nad oedd hi wedi cael digon o wybodaeth trwy'r gwasanaeth iechyd:

“O edrych yn ôl ar y cyfnod cynnar, ni dderbyniais wybodaeth am sefydliadau fel “Cymdeithas Syndrom Down” neu'r Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr a allai fod wedi bod o gymorth i mi fel rhiant.” Stori Rhiant Gofalwr, Gwynedd.

## Effaith lles yr unigolyn sy'n derbyn gofal ar les y gofalwr

Yn aml, bydd gofalwyr yn dweud nad oes angen cymorth arnynt, ac os bydd anghenion yr unigolyn sy'n derbyn gofal yn cael eu bodloni, eu bod nhw'n teimlo hefyd eu bod yn cael eu cefnogi fel gofalwyr.

“Aeth fy mab yn sâl ac roeddwn yn gofalu amdano ar fy mhen fy hun. Cafodd wasanaethau gan Dîm Iechyd Meddwl y Gymuned. Mae gormod o siarad a dim

digon o weithredu. Mae'r gweithiwr cymorth yn mynd ag ef am brofion gwaed rheolaidd. Ar ddydd Mawrth, mae'n mynd i 'gerdded a sgwrsio', dim ond am ryw awr, ond mae'n rhoi lle i mi anadlu. Rydw i wedi bod yn gofyn am hynny ers blynyddoedd, ond mae gormod o siarad. Mae cymorth i'r rhai sy'n derbyn gofal yn gymorth anuniongyrchol i ofalwyr hefyd...

...Bu rhaid i mi ganslo gwyliau a gynigiwyd gan fy mab arall. Rydych chi'n gofidio pan fyddwch oddi cartref, a byddai'n rhaid i'r sawl sy'n derbyn gofal fynd i rywle arall...

...Y gweithiwr cymorth yw'r un mwyaf cynhyrchiol ac mae'n lleddfu'r straen ar y gofalwr" Stori Gofalwr, Gwynedd

Mae gofalwyr ifanc wedi dweud wrthym fod iechyd a lles yr unigolyn maen nhw'n gofalu amdano'n bwysig iddynt, e.e. ddim eisiau i'w rhiant ddechrau yfed eto, a bod eu teulu'n bwysig, "*oherwydd gallaf siarad â nhw drwy'r amser*". Yr hyn sy'n bwysig i ofalwyr ifanc hefyd yw bod eu grŵp cyfoedion a'u hathrawon yn eu derbyn. Er y gall yr hyn y mae pobl yn ei feddwl ohonynt fod yn bwysig i lawer o bobl ifanc, mae'r effaith y gall eu cyfrifoldebau gofalgar eu cael ar eu bywydau yn golygu bod y broblem hon yn cael ei gwaethygu i ofalwyr ifanc weithiau, e.e. agweddau y gallai fod gan bobl tuag atyn nhw oherwydd ni allant ymuno mewn gweithgareddau cymdeithasol, neu'n methu cwblhau gwaith cartref. Dywedodd un gofalwr tra'r oedd pobl ifanc eraill yn chwarae o gwmpas yn y dosbarth, roedd o'n ymdrechu i gael ei holl waith wedi'i wneud yn yr ysgol oherwydd ni fyddai'n gallu gwneud hynny adref.

"Petai mam yn gwella. Petai gennyf well cof. Pe byddwn yn gwneud fy ngwaith yn gynt. Pe allwn weld fy ffrindiau y tu allan i'r ysgol yn amlach." Gofalwr ifanc, Ynys Môn.

### Angen y gofalwyr am egwyl

Y brif neges gan y gofalwyr yw bod yr egwyl y mae arnynt ei angen o ofalu mewn ymateb i'w hanghenion, eu sefyllfa a'u hamgylchedd adref. Maen nhw eisiau i bobl wrando arnynt, a bydd gan bob gofalwr wahanol anghenion. Nid ydynt yn gwerthfawrogi pobl yn dweud wrthynt ba wasanaeth allai gael ei ddarparu iddynt, nid oes angen gwasanaeth egwyl i ofalwyr rheolaidd arnynt o reidrwydd ac weithiau mae gwasanaethau'n cael eu gordanysgrifio, gan arwain at wastraff.

Mewn sefyllfa lle mae gofal amgen yn y cartref neu wasanaeth eistedd yn cael ei ddarparu, dywedodd y gofalwyr wrthym ei bod hi'n bwysig bod yr unigolyn sy'n derbyn gofal yn gyfarwydd â'r unigolyn sy'n darparu'r gofal, neu efallai na fydd yn werth chweil. Mewn sefyllfaoedd lle mae'r unigolyn sy'n darparu'r gwasanaeth ar

wyliau, gallai'r unigolyn sy'n derbyn gofal neu'r gofalwr benderfynu gohirio'r trefniant hyd nes bod yr unigolyn sy'n darparu'r gwasanaeth fel rheol ar gael.

Mae'n bwysig hefyd i egwyliau gofalwyr allu cael eu darparu'n hyblyg ac ar fyr rybudd er mwyn i'r gofalwr barhau i fyw eu bywydau yn y ffordd yr hoffen nhw, e.e. ymuno mewn achlysuron cymdeithasol ar fyr rybudd, a pheidio â gorfod gwneud trefniadau'n rhy hir ymlaen llaw. Mater arall hefyd yw'r angen am ddigon o hyblygrwydd yn y gofal sydd ar gael i alluogi ar gyfer gofal mewn sefyllfaoedd o argyfwng a sefyllfaoedd y tu allan i oriau.

“Nid oes unman y gallwch ffonio a chael gofal mewn argyfwng neu wedi'i gynllunio ymlaen llaw am gwpl o oriau i rywun ifanc gyda dementia lle gwyddoch y byddech yn eu gadael nhw gyda rhywun maen nhw'n ei adnabod ac yn ymddiried ynddynt os nad oes gennych deulu neu ffrindiau a all helpu.” Gofalwr, Ynys Môn

Mae'n drueni oherwydd yn aml iawn mae dewis ac mae pethau ymlaen ar yr un pryd yn ystod yr wythnos ond dim byd ar y penwythnos ac rwy'n deall mai'r penwythnos yw hi, ond mae hynny'n beth mawr i lawer o bobl.” Gofalwr, Conwy.

Yn ogystal, mae angen teilwra egwyliau gofalwyr i anghenion yr unigolyn,

“O gwblhau'r asesiad, mae Gofalwr A wedi cael sgwrs gyda'i theulu dros gyfnod y Nadolig ynglŷn ag eisiau seibiant o'i rôl ofalgar. Gwrthodwyd hyn gan ei gŵr a dywedodd ei fod yn hapus i'w wraig fynd i'w grwpiau gyda'r nos oherwydd teimla y gall rheoli ei feddyginiaeth ei hun. Mae Gofalwr A bellach yn mynd i grwpiau gyda'r nos ac yn defnyddio heb fel ei seibiant hi. Yn ogystal, mae Gofalwr A wedi defnyddio'r amser hwn i fynd i'r eglwys a cheisio cael cefnogaeth drwy ei ffydd.” Gofalwr, Conwy.

Ar adegau, bydd y gofalwr am gael yr egwyl y tu allan i amgylchedd y cartref. Ar adegau eraill, byddan nhw eisiau rhywun i ddarparu gofal amgen. Dewis arall fyddai cael egwyl ar gyfer y gofalwr a'r un sy'n derbyn gofal gyda'i gilydd.

“Mae Miss C yn ofalwraig i'w mam sydd hefyd yn cael cefnogaeth aelod arall o'r teulu. Gofynnodd mam Miss C am ofal dydd er mwyn adennill ei chysylltiadau â'r gymuned a chynyddu gweithgarwch a chymhelliad.

Mynychodd y ddau ofalwr y ganolfan ddydd i gefnogi cyfnod o gartrefu ond roedd modd i staff y ganolfan ganolbwyntio ar y gofalwyr a Miss C i alluogi tri unigolyn i gael rhywfaint o seibiant a mynychu a chymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon...

..Mae'r ganolfan yn rhoi amser i ffwrdd wrth mam i'r ddau ofalwr, gan wybod yn sicr bod unrhyw ofal personol yn eu habsenoldeb yn cael ei roi gan staff wedi'u hyfforddi'n dda.” Stori'r gofalwr, Sir Ddinbych.

“Alla i ddim credu bod NEWCIS wedi rhoi'r cyfle i ni gael egwyl i ffwrdd gyda gofalwyr eraill a staff cefnogol NEWCIS. Mae bod i ffwrdd gyda gofalwyr eraill a'u hanwyliaid sydd mewn sefyllfa debyg i ni wedi ein galluogi ni i fwynhau awyrgylch cysurus, gyda chwmni da a chan deimlo'n llai ynysig. Gallwn ymlacio oherwydd gwyddwn fod rhywun yno i fi ac i'm gwraig, i'n cefnogi ni os oedd angen help arnom”.

“Nid ydym wedi cael egwyl oddi cartref ac nid ydw i wedi cael egwyl o'm rôl ofalgar ers nifer fawr o flynyddoedd. Mae hyn oherwydd ein sefyllfa ariannol ac oherwydd byddai gennyf ofn fynd â'm gwraig i ffwrdd heb gefnogaeth”.

“Mae'r egwyl hon wedi fy nghaniatáu i orffwys, clirio fy mhen, peidio â meddwl am goginio neu lanhau ac wedi rhoi i ni amser gyda'n gilydd i greu atgofion. Rwy'n ei charu hi gymaint ac rydym wedi mwynhau treulio amser o safon gyda'n gilydd. Diolch yn fawr”. Stori'r Gofalwr, NEWCIS.

Mae gan riant-ofalwyr anghenion penodol am egwyl hefyd:

“Beth sy'n fy nghadw i fynd? ...Teulu a ffrindiau ond yr hyn sy'n bwysig i ni hefyd yw'r amser i ffwrdd o ofalu. Rwy'n rhwyfo weithiau ond mae'r cyfleoedd am “amser euraidd” fel rwy'n ei alw yn brin iawn, neb i warchod l er enghraifft. Hoffwn dreulio “amser euraidd” gyda T (brawd bach l) hefyd ac fel rhiant rwy'n poeni a ydyw'n cael chwarae teg gan fod diwrnodau allan fel teulu'n tueddu i fod o gwmpas anghenion l. Stori Rhiant-ofalwr, Gwynedd.

### **Yr angen i fod yn gyflogedig, neu i ddychwelyd i waith**

Mae straeon gofalwyr am geisio dychwelyd i'r gwaith neu gydbwyso gwaith gyda chyfrifoldebau gofalu'n cael eu cynnwys yn aml. Mae angen i ofalwyr fagu eu hyder er mwyn gwneud hyn ac maen nhw'n elwa ar y gefnogaeth a roddwyd iddynt gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt ym myd gwaith.

“Un o'r pryderon sydd gan y gofalwyr ynghylch symud ei mam i gartref preswyl yw a fydd ganddi ei hunaniaeth ei hun ai peidio ar ôl iddi gollu ei rôl ofalgar. Yn ystod ymweliad â'r cartref, trafodon ni mynd yn ôl i gyflogaeth gyda thâl. Rhannodd y gofalwr ei phryderon am beidio â chael yr hyder na'r sgiliau i neidio'n ôl i'r gweithle.

Rydym wedi penderfynu cael trafodaeth, gan ganolbwyntio ar ba sgiliau a ddysgodd o'i rôl ofalgar. Yr amynedd, yr ymrwymiad, yr aberthau. Gellir cynnwys pob priodwedd bersonol dda yn ei CV a'i ffurflenni cais. Cytunodd y gofalwr a chydabyddodd y gallai ei sgiliau fod yr un mor werthfawr, neu hyd yn oed yn fwy gwerthfawr na'r rhai sydd wedi'u hastudio a'u dysgu o lyfrau.” Stori'r gofalwr, Conwy.

“Ar ôl yr alwad ffôn gyntaf, trefnwyd ymweliad â'r cartref a chynhaliwyd Asesiad o Anghenion Gofalwyr (AAG). Byddai'r AAG yn dynodi sefyllfa lawn y gofalwyr. Dynododd yr AAG fod angen cefnogaeth ar y Gofalwr o ran ei hawliau yn y gweithle a gwybod beth oedd ei dewisiadau. Trosglwyddwyd llyfryn Carers Rights gan Carers UK i'r Gofalwr a thrafodwyd dewisiadau gyda hi ynghylch sut gall cyflogwyr helpu – gweithio hyblyg, rhannu swyddi, amser i ffwrdd am argyfyngau ac ati. Cyfeiriwyd y Gofalwr i edrych ar bolisi Gofalwyr ei chyflogwr ac os oedd hi eisiau, gallai drafod ei sefyllfa gyda'i chyflogwr. Roedd ei chyflogwr eisoes yn gwybod ei bod hi'n ofalwraig.



Trafodwyd Taliadau Uniongyrchol ac Ymddiriedolaeth Penderels ac roedd y Gofalwr am gael rhagor o wybodaeth mewn perthynas â hyn. Trafodwyd bod angen Gweithiwr Cymdeithasol er mwyn iddi droi at Daliadau Uniongyrchol.

Cytunodd y Gwasanaethau Cymdeithasol daliadau uniongyrchol yn y panel ac mae'r Gofalwr bellach yn chwilio am weithiwr gofal trwy Penderels i roi'r hawl iddi gael egwyliau cyson o'i rôl ofalgar." Astudiaeth achos, Sefydliad trydydd sector.

"Gall bywyd rhywun newid mewn eiliadau...o fod yn unigolyn diwyd sydd wedi teithio'r byd i fod yn fam gyda phlentyn gydag anghenion ychwanegol – ni allaf weithio'n amser llawn bellach gan fod gennyf gynifer o apwyntiadau meddygol – Awdioleg, Cardioleg, Therapi Iaith, Pediatreg ac ati. Rydw i wedi mynychu cynifer o apwyntiadau ysbyty gydag I fy mod i wedi colli cyfrif, yn ei dro mae hyn yn cael effaith ariannol arnaf...gall weithio'n rhan-amser fod yn anodd...yn enwedig os bydd i yn anhwylyd (diffyg cwsig)...ond fel rhiant mae'r "Lwfans Gofalwr" ymhell o fod yn ddigon a theimlaf nad oes opsiwn arall ond gweithio. Gall fod yn anodd hefyd dod o hyd i waith gan fy mod i'n dibynnu ar fy nghyflogwr i ddeall fy sefyllfa fel gofalwr." *Stori Rhiant-Ofalwr, Gwynedd.*

### Materion gwledig

Mae gofalwyr sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn dymuno cael yr un lefel gwasanaeth â gofalwyr sy'n byw mewn trefi.

Mae gofalwyr yn adrodd bod byw mewn ardaloedd gwledig yn creu problemau iddynt o ran:

- Cael cymorth neu egwyl i ofalwyr
- Amser teithio'n cael ei dynnu allan o'r amser a glustnodir am wasanaeth uniongyrchol
- Unigedd

*"Nid oes cyfleusterau anabledau dysgu, gweithgareddau grŵp cymorth i'm merch eu mynychu yn Llangollen ond ymddengys bod llawer mwy yn Ninbych a rhai yn Rhuthun, ond mae'n methu cael cludiant i'r lleoedd hyn." Gofalwr, Sir Ddinbych*

Mae gofalwyr wedi nodi nad yw amser teithio pan drefnir gofal amgen yn cael ei gyfrif. Gallai gofal amgen gael ei drefnu am dair awr, ond mewn ardaloedd gwledig, gallai gymryd cyfran fawr o amser i'r gofalwr deithio i'r siopau/gweithgareddau agosaf ac ati ac wedyn byddant ond yn cael swm bach o amser i wneud yr hyn maen nhw eisiau. Mae'r problemau'n waeth mewn ardaloedd gwledig; gall gorchwylion syml fel codi presgripsiwn, apwyntiadau, teithio fod yn anodd iawn i'r gofalwr. Trafododd y gofalwyr sy'n cyfrannu at y gwaith hwn yng Ngogledd Cymru'r posibilrwydd o gael cydran asesu gofalwyr gwledig a bod premiwm yn cael ei adlewyrchu am ofal amgen gwledig. Gall cynllunio wrth gefn mewn ardaloedd gwledig fod yn hynod anodd.



## Casgliad

Yn ogystal â bod yn swyddogaeth ymarferol, mae'r gofalwyr wedi nodi bod rhoi gofal yn rôl emosiynol hefyd, gyda'r gofalwyr yn adrodd teimladau o euogrwydd, unigrwydd, gorbryder, gofid, trallod, unigedd, ofn, rhwystredigaeth, anhawster wrth ddelio â newid a thrawsnewid. Gallai rhai gofalwyr fod yn gwadu cyflwr eu hunigolyn sy'n derbyn gofal hefyd. Bydd y teimladau hyn yn digwydd ar wahanol adegau yn llinell amser profiad y gofalwr, a bydd pob gofalwr yn gofyn am gefnogaeth wedi'i theilwra.

Mae gwrando ar straeon a phrofiadau gofalwyr yn cynnig mewnwelediad i'w bywydau, yn dangos pwysigrwydd cefnogaeth ac yn pwysleisio'r materion sydd ynghlwm â'r rôl ofalgar. Mae'r gwaith hwn wedi helpu partneriaid i sicrhau y caiff gwasanaethau eu dylunio gyda'r gofalwr wrth eu gwraidd.

Mae angen i'r gwaith i wrando ar ofalwyr a chasglu eu straeon barhau. Bydd hyn yn ein helpu ni i fesur pa gynnydd rydym yn ei wneud a deall yr hyn sy'n gweithio'n dda, yr hyn sy'n cael ei werthfawrogi a'r hyn y mae angen i ni ei wneud i newid neu wella gwasanaethau.

Caiff cyfraniad straeon gofalwyr ac astudiaethau achos eu gwerthfawrogi'n fawr ac estynnir diolch yn fawr iawn i bob gofalwr a gweithiwr proffesiynol sydd wedi bod ynghlwm.



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU  
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING  
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

# Strategaeth Gofalwyr: adroddiad ar fapio teithiau gofalwyr

Mehefin 2018

## Cyflwyniad

Fel rhan o'r trafodaethau am Ffrwd Waith Gofalwyr Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru, daeth yn amlwg y byddai'n fuddiol mapio teithiau gofalwyr er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'u profiadau o'r gwasanaethau presennol.

Diben mapio teithiau'r gofalwyr oedd:

- Canfod i ba raddau y mae profiadau'r gofalwyr yn wahanol i'r broses
- Adnabod pwy ar hyd y broses all roi cymorth i ofalwyr
- Deall beth sydd angen ei newid a'i wella

## Dull

Er mwyn cwblhau'r gwaith hwn, bu i ni gydweithio â'n hawdurdod lleol a'n partneriaid iechyd i edrych ar achosion gofalwyr. Roedd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar deithiau gofalwyr trwy'r gwasanaethau statudol, gan gynnwys pa mor dda yr oedd y gwasanaethau'n gweithio gyda'r trydydd sector i ddarparu'r hyn sy'n bwysig i ofalwyr.

Roedd yr amser oedd ar gael yn golygu mai dim ond nifer fechan o achosion yr oedd posib eu hastudio.

Conwy: 3 achos – gofalwyr pobl hŷn

Sir Ddinbych: 1 achos – gofalwr unigolyn ag anabledd dysgu

Wrecsam: 1 achos – gofalwr person hŷn

BIPBC – 1 achos – claf adsefydlu iechyd meddwl, Llanfairfechan

Yng Ngwynedd, bu i ni edrych ar y gwasanaeth cymorth ar gyfer defnyddiwr gwasanaethau iechyd meddwl mewn un rhan o'r sir, a dod i ddeall ei effaith ar nifer fechan o achosion.

Roedd dwy agwedd i'r dasg fapio:

- 1) Mapio'r broses
- 2) Mapio sut y mae'r unigolyn yn mynd drwy'r broses (taith y gofalwr)

Trwy gydweithio â gweithwyr proffesiynol perthnasol mewn awdurdodau lleol ac iechyd, daethom i ddeall o'u profiadau ac o ffeiliau achos a nodiadau, sut sefyllfa y mae gofalwyr yn ei hwynebu. Wrth i drafodaethau fynd rhagddynt, cofnodwyd y broses a rhan y gofalwr ar bapur, gan arwain at drafodaeth ar sut y gellid gwella pethau. Mae esiampl i'w weld isod.

# CARER PATHWAY WORK.

## CARREG FAWR. MIH REHABILITATION UNIT.

### REBECCA JONES, STAFF NURSE

### AIMEE DANZI, CARERS LEAD OFFICER.

OFFICIAL  
PROCESS

CARER

AREA TO  
IMPROVE

### ① REFERRAL PROCESS.

EXAMINER WHO VISIT  
BY FAWR. TRY GET  
AS TO WHAT TEAM  
\* ASSESS NEEDS  
\* EXPLORE OPTIONS  
\* ASSESS ABILITY  
\* ASSESS PSYCH & SOCIAL  
\* ASSESS SUPPORT  
\* ASSESS RISK

UNDERSTAND AS  
NO INVOLVEMENT  
FROM EDWHE STAFF

TREAT AS ADULT  
MEET WHO EXPECT  
INTO EDWHE SERVICE  
TO IDENTIFY CARER  
AT INITIAL STAGE

### ② DESKTOP REVIEW ASSESSMENT. (IDENTIFIED / REQUESTED BY MANAG.)

REQUIREMENTS  
IDENTIFIED TO  
MANAGE AT A  
LOW RISK - SOME  
TECHNICAL SUPPORT  
NEEDS

CARER ASSESSMENT  
WELL IN PLACE  
WHO CAN SUPPORT  
BUT NOT OFFICE SYSTEM  
ABOUT IDENTIFYING CARER  
COULD BE MANAGED

EXPLICIT QUESTION  
- IDENTIFY CARER  
WITHIN DESKTOP  
ASSESSMENT

### ③ ADMISSION.

REQUIREMENTS  
FOR EDWHE USE  
FOLLOWING 2019  
VERSION

- IDENTIFY CARER  
• IDENTIFY CARER'S  
NEEDS AND Wishes  
TO IDENTIFY CARER  
• IDENTIFY CARER'S  
NEEDS AND Wishes  
TO IDENTIFY CARER  
• IDENTIFY CARER'S  
NEEDS AND Wishes  
TO IDENTIFY CARER

\* IDENTIFICATION OF  
REQUIREMENTS  
FOR EDWHE USE

- IDENTIFY CARER'S  
NEEDS AND Wishes  
TO IDENTIFY CARER  
• IDENTIFY CARER'S  
NEEDS AND Wishes  
TO IDENTIFY CARER

\* IDENTIFICATION OF  
REQUIREMENTS  
FOR EDWHE USE

- IDENTIFY CARER'S  
NEEDS AND Wishes  
TO IDENTIFY CARER  
• IDENTIFY CARER'S  
NEEDS AND Wishes  
TO IDENTIFY CARER

### ④ TIME WITHIN PLACEMENT.

\* IDENTIFICATION OF  
REQUIREMENTS  
FOR EDWHE USE

- IDENTIFY CARER'S  
NEEDS AND Wishes  
TO IDENTIFY CARER  
• IDENTIFY CARER'S  
NEEDS AND Wishes  
TO IDENTIFY CARER

\* IDENTIFICATION OF  
REQUIREMENTS  
FOR EDWHE USE

- IDENTIFY CARER'S  
NEEDS AND Wishes  
TO IDENTIFY CARER  
• IDENTIFY CARER'S  
NEEDS AND Wishes  
TO IDENTIFY CARER

\* IDENTIFICATION OF  
REQUIREMENTS  
FOR EDWHE USE

- IDENTIFY CARER'S  
NEEDS AND Wishes  
TO IDENTIFY CARER  
• IDENTIFY CARER'S  
NEEDS AND Wishes  
TO IDENTIFY CARER

### ⑤ DISCHARGE.

\* IDENTIFICATION OF  
REQUIREMENTS  
FOR EDWHE USE

- IDENTIFY CARER'S  
NEEDS AND Wishes  
TO IDENTIFY CARER  
• IDENTIFY CARER'S  
NEEDS AND Wishes  
TO IDENTIFY CARER

\* IDENTIFICATION OF  
REQUIREMENTS  
FOR EDWHE USE

- IDENTIFY CARER'S  
NEEDS AND Wishes  
TO IDENTIFY CARER  
• IDENTIFY CARER'S  
NEEDS AND Wishes  
TO IDENTIFY CARER

\* IDENTIFICATION OF  
REQUIREMENTS  
FOR EDWHE USE

- IDENTIFY CARER'S  
NEEDS AND Wishes  
TO IDENTIFY CARER  
• IDENTIFY CARER'S  
NEEDS AND Wishes  
TO IDENTIFY CARER

\* IDENTIFICATION OF  
REQUIREMENTS  
FOR EDWHE USE

- IDENTIFY CARER'S  
NEEDS AND Wishes  
TO IDENTIFY CARER  
• IDENTIFY CARER'S  
NEEDS AND Wishes  
TO IDENTIFY CARER

\* IDENTIFICATION OF  
REQUIREMENTS  
FOR EDWHE USE

- IDENTIFY CARER'S  
NEEDS AND Wishes  
TO IDENTIFY CARER  
• IDENTIFY CARER'S  
NEEDS AND Wishes  
TO IDENTIFY CARER

\* IDENTIFICATION OF  
REQUIREMENTS  
FOR EDWHE USE

- IDENTIFY CARER'S  
NEEDS AND Wishes  
TO IDENTIFY CARER  
• IDENTIFY CARER'S  
NEEDS AND Wishes  
TO IDENTIFY CARER

Mae'n bwysig pwysleisio nad oedd yr enghreifftiau achos a gymerwyd yn cynrychioli poblogaeth gyfan y gofalwyr ar draws y rhanbarth. Fodd bynnag, cawsant eu tynnu o wahanol feysydd gwasanaeth ledled Gogledd Cymru, gan roi cyfle i ni ddysgu o brofiadau unigolion.

## **Beth mae mapio'r daith yn ei ddweud wrthym?**

Mae'r gwaith yn dangos teithiau gofalwyr unigol ac mae wedi bod o fudd o ran ychwanegu at y dystiolaeth ansoddol y mae'r partneriaid eisoes wedi'i chasglu ynghyd yn straeon ac astudiaethau achos y gofalwyr.

O'r gwaith hwn rydym wedi gallu deall yn well sut brofiad y mae'r gofalwyr yn ei gael, a dysgu beth sy'n gweithio'n dda, beth allai weithio'n well a beth sydd angen ei newid. Mae hyn oll wedi cael ei ystyried ochr yn ochr â phethau eraill rydym wedi'u dysgu gan y gofalwyr.

Er mai dim ond nifer fechan o achosion gofalwyr a astudiwyd ar gyfer y gwaith o fapio'r daith, roedd yn adlewyrchu'r canlynol:

### **Gwybodaeth am y gofalwr:**

- Mae nifer o ofalwyr yn gwrthod asesiad gofalwr. Efallai mai'r rheswm am hyn yn rhannol yw bod gofalwyr yn eu hystyried eu hunain yn riant, gŵr, gwraig, partner, mab, merch, brawd, chwaer, ffrind neu gymydog, yn hytrach nag yn ofalwr.
- Mae gofalwyr yn tueddu i aros nes y byddant yn wynebu argyfwng cyn cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol.
- Mae gofalwyr yn ddiolchgar am y cymorth y maent yn ei gael ac yn tueddu i beidio â gofyn am fwy.
- Mae gofalwyr yn barod i roi eu hadborth a'u barn ar ba mor ddigonol yw'r gwasanaeth y maent yn ei gael pan wahoddir nhw i wneud hynny.
- Mae adolygiadau sy'n canolbwyntio ar y person ac sy'n trafod yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio cystal, yn fuddiol i'r gofalwr.
- Mae yna enghreifftiau o ofalwyr yn hunangyfeirio i'r Gwasanaeth Un Pwynt Mynediad (UPM).
- Mae cynnwys y gofalwr weithiau'n arwain at orlethu'r gofalwr.
- Mae ar ofalwyr angen cymorth emosiynol.

### **Gwybodaeth am wasanaethau'r awdurdod lleol ac iechyd:**

- Ceir enghreifftiau o wasanaethau'r UPM a meddygon teulu yn gweithio'n dda wrth adnabod gofalwyr a chynnal sgysiau 'beth sy'n bwysig' gyda nhw.
- Mae yna arferion da o ran ymgysylltu â gofalwyr o fewn BIPBC, e.e. trin y gofalwr fel partner cyfartal, croesawu'r gofalwr, cynnig gwybodaeth, cofnodi amgylchiadau'r teulu, gwahodd y gofalwr am sgwrs, cynnwys y gofalwr wrth gynllunio i ryddhau'r unigolyn y mae'n gofalu amdano, gwahodd y gofalwr i weld llety'r unigolyn y mae'n gofalu amdano, cynnwys y gofalwr wrth gynllunio triniaeth yr unigolyn y mae'n gofalu amdano.

- Mewn rhai achosion, mae'n bwysig cyfarfod y gofalwr y tu allan i'r cartref a gofyn iddyn nhw ym mha ffordd y byddai orau ganddyn nhw gyfathrebu.
- Mae Taliadau Uniongyrchol yn gweithio'n dda gan eu bod yn cynnig hyblygrwydd ac yn osgoi trefnu gormod o seibiannau i'r gofalwr (h.y. darparu nifer penodol o oriau gan ddarparwr ar gontract).
- Gall cael y cymorth priodol i'r unigolyn gydag anabledau dysgu fod yn hanfodol i les y gofalwr. Mewn un achos, roedd yr unigolyn oedd yn derbyn gofal yn gymwys i gael cynllun gofal a chymorth integredig. Pan sefydlwyd hwnnw, roedd posib bodloni anghenion lles y gofalwr gyda chymorth gan y trydydd sector a thrwy ei gyfeirio at gefnogaeth arall yn y gymuned leol.
- Mae eiriolaeth yn bwysig i wneud yn siŵr bod dymuniadau ac anghenion y gofalwr a'r unigolyn sy'n derbyn gofal yn cael eu hystyried yn llawn.
- Mae yna enghreifftiau o wasanaethau 'gwarchod' sy'n darparu gwasanaethau ychwanegol i'r unigolyn sy'n derbyn gofal, e.e. mynd â nhw am dro, gwneud y mwyaf o'r amser gyda'r unigolyn sy'n derbyn gofal.
- Mae yna fwlch yn y gwasanaethau 'gwarchod' i'r gofalwr gael seibiant ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl.
- Efallai bod y term 'gwasanaeth gwarchod' yn gamarweiniol; er nad yw gwasanaeth gwarchod yr un fath â gofal amgen, mae'n cyfeirio at wasanaeth sy'n rheolaidd yn cynnig mwy nag eistedd gyda'r unigolyn sy'n derbyn gofal.
- Ni all cymorth grŵp yn y gwasanaethau iechyd meddwl weithio mewn ardaloedd lle mae'r boblogaeth yn fwy gwasgaredig, ac mae'n dibynnu ar wasanaethau cymorth un i un.
- Mae gofalwyr yn cael eu cyfeirio at sefydliadau'r trydydd sector i gael gwybodaeth a chymorth arbenigol

### **Gwybodaeth am ein gweithlu:**

- Darperir gwasanaethau o ansawdd dda gan weithwyr proffesiynol sy'n ymwybodol o ofalwyr, sydd wedi ymrwymo i'w gwaith ac i feddwl yn greadigol er mwyn addasu'r gwasanaeth ar gyfer yr unigolyn sy'n derbyn gofal a'r gofalwr.
- Gall gweithwyr proffesiynol ymroddedig ychwanegu gwerth i wasanaethau, a meddwl y tu allan i 'lwybrau'r broses' er mwyn creu llwybr sy'n addas i'r gofalwr unigol a'r unigolyn y mae'n gofalu amdano.
- Mae yna sawl pwynt ar hyd taith yr unigolyn sy'n derbyn gofal lle mae angen i ymarferwyr ystyried y gofalwr, cynnig asesiad gofalwr ac edrych ar sut y mae'r gofalwr yn ymdopi neu weld a oes unrhyw beth wedi newid. Gwelsom enghreifftiau da o hyn.

- Gall llwybrau gofalwyr ffurfiol archwiliadwy, a gefnogir gan yr egwyddor arweiniol o roi'r gofalwr wrth wraidd y gwasanaeth, hwyluso newid mewn diwylliant.
- Er y gall gweithwyr proffesiynol weithio i sicrhau bod llwybr y gofalwr yn un esmwyth o fewn eu gwasanaeth, efallai nad yw'r gofalwr wedi cael profiad cadarnhaol cyn dod i gysylltiad â'r gwasanaeth hwnnw, neu ar ôl dod i gysylltiad â'r gwasanaeth hwnnw.
- Mae'n hanfodol sicrhau cyfathrebu da rhwng y gweithiwr proffesiynol sy'n cefnogi'r gofalwr a'r gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi'r unigolyn sy'n derbyn gofal.
- Mae'n bwysig helpu'r gofalwr i fagu hyder, hybu eu hannibyniaeth, cynnal eu hunaniaeth a datblygu gwytnwch.
- Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn cysylltu â gwasanaethau cymorth y trydydd sector a gwasanaethau eraill (e.e. OPUS) lle nodwyd y byddai hynny'n fuddiol, ond mae angen atgoffa a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r gweithwyr proffesiynol am y cymorth sydd ar gael gan y trydydd sector.

### **I ba raddau y mae profiadau gofalwyr yn wahanol i'r broses?**

Er bod prosesau amlwg o fewn iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol i ganfod beth sy'n bwysig i ofalwyr ac i'w cefnogi, mae'r gwaith a wnaed yn awgrymu mai'r agwedd bwysicaf yw bod yn ymwybodol o'r gofalwr, cael ein harwain gan anghenion y gofalwr a chydweithio â'r gofalwr a'r unigolyn sy'n derbyn gofal, gan eu rhoi nhw wrth wraidd y gwasanaeth.

### **Pwy yn y broses all roi cymorth i ofalwyr?**

Gallai gwahanol feysydd gwasanaeth fod yn darparu gwasanaethau o ansawdd dda i ofalwyr, ond mae'n bwysig bod profiad y gofalwr yn gyson ar hyd eu taith. Gallai hyn olygu edrych ar gysondeb profiad y gofalwr o fewn un sefydliad yn ogystal ag ar hyd taith lle bydd y gofalwr yn dod ar draws gwahanol sefydliadau.

### **Beth y mae angen i ni ei wneud i newid a gwella?**

- Mae angen gwneud gwaith pellach ar ddeall y rhesymau pam fod unigolion gyda chyfrifoldebau gofalu yn gwrthod asesiadau gofalwr.
- Edrych ar bosibiliadau Taliadau Uniongyrchol i alluogi hyblygrwydd yn y gwasanaethau seibiant i ofalwyr.
- Gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod taith y gofalwr yn un esmwyth a didrafferth o'u cyswllt cyntaf â'r gwasanaethau allai eu helpu.
- Sicrhau bod gofalwr yn cael cymorth wrth ymwneud â gwasanaethau, e.e. trwy sesiynau briffio ac ôl-drafodaethau, ac atgoffa staff lle bo'n briodol.
- Ystyried a fyddai eiriolwyr gofalwyr o fewn sefydliadau yn fuddiol.

- Ystyried y posibilrwydd o ymestyn egwyddorion y Triongl Gofal (sydd wedi'u rhoi ar brawf yng ngwasanaethau iechyd meddwl BIPBC) i feysydd gwasanaeth eraill.
- Sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn ymwybodol o'r trydydd sector a'r gwasanaethau cymorth eraill sydd ar gael i ofalwyr.
- Ystyried sut bydd y broses yn gweithio pan fydd pobl yn symud o un awdurdod lleol i un arall.





CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU  
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING  
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

# Y Strategaeth Gofalwyr: mapio adnoddau

Mai 2018

## Rhagarweiniad

Aethpwyd ati i fapio adnoddau fel rhan o ffrwd waith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar ofalwyr. Y nod oedd canfod y gwasanaethau sydd ar gael i ofalwyr yng ngogledd Cymru, y prif gyllidwyr ac amcangyfrif o swm y buddsoddiad.

Pennwyd cwmplas y prosiect i gynnwys gwasanaethau a ddarperir i ofalwyr yn benodol, er y gwyddom fod llawer o'r gwasanaethau a ddarperir i bobl sy'n derbyn gofal hefyd yn gwneud lles i'w gofalwyr yn bersonol. Drwy fapio'r gwasanaethau cawn gipolwg ar yr adnoddau oedd ar gael ar adeg casglu'r data.

## Yr hyn y gallwn ei ddysgu drwy fapio

- Gall roi braslun o'r gwasanaethau sydd ar gael i ofalwyr yng ngogledd Cymru ac amcan o'r buddsoddiad a wneir yn y gwasanaethau hynny.
- Gall hybu dealltwriaeth o'r modd y mae'r buddsoddiadau cyfredol yn cyfrannu at yr hyn sy'n bwysig i ofalwyr yn ôl yr hyn a ddywedant wrthym.
- Gellir ei ddefnyddio ochr yn ochr â'r 'cynnig i ofalwyr yng ngogledd Cymru' er mwyn amlygu bylchau lle gallai fod angen darpariaeth i sicrhau gwasanaethau cyson i ofalwyr yng ngogledd Cymru.
- Gallu helpu i adnabod cyfleoedd i gydlynu gwasanaethau'n well gyda chymorth gwahanol sefydliadau.
- Gall amlygu meysydd y mae angen inni ymchwilio iddynt ymhellach.

## Yr hyn na allwn ei ddysgu drwy fapio

- Ni fyddwn yn gallu gweld a yw'r ddarpariaeth neu'r buddsoddiad yn ddigonol ymhob ardal er mwyn ymateb i'r hyn sy'n bwysig i ofalwyr yn ôl yr hyn a ddywedant wrthym.
- Ni allwn weld a oes unrhyw ddyblygu gwaith rhwng y gwasanaethau. Gall amlygu meysydd y dylid ymchwilio iddynt ymhellach, ond gallai gwasanaethau o'r un fath yn yr un lleoliad fod yn cyrraedd gwahanol grwpiau o bobl, neu bobl â gwahanol hoffterau neu anghenion ychydig yn wahanol.

- Nid yw'n rhoi darlun cyfoes inni o'r gwasanaethau i ofalwyr. Gan fod gwasanaethau'n newid drwy'r amser, yr hyn sydd gennym yw ciplun a gymerwyd ar adeg benodol.
- Ni all roi'r darlun llawn inni o ran buddsoddiad mewn gwasanaethau i ofalwyr. Ariennir rhai gwasanaethau yn y fath fodd fel ei bod yn anodd gweld yn union pa gyllid oedd yn cefnogi gofalwyr yn uniongyrchol, ac felly bydd yno rywfaint o dangyfrif.
- Ni all ddangos inni'r hyn a ddylai newid o ganlyniad. Nid yw'r data dan sylw ond yn rhan o'r darlun mawr, ac mae angen ystyried yr wybodaeth ochr yn ochr â'r hyn y mae gofalwyr yn sôn amdano, ymatebion o'r gweithdai, comisiynwyr, casgliadau'r asesiad poblogaeth ac yn y blaen. Wrth ddadansoddi'r data mae angen cynnwys yr holl bartneriaid a'u bod yn llunio unrhyw argymhellion ar y cyd.

## Dulliau

Dosbarthwyd ffurflen i'r partneriaid yng ngogledd Cymru yn 2017, yn gofyn pa wasanaethau oedd ar gael yn yr ardal (gweler [Appendix \(i\)](#)). Yna fe grynhowyd yr wybodaeth mewn taenlen a'i ddosbarthu i gomisiynwyr a darparwyr gwasanaethau ym maes awdurdodau lleol ac iechyd, gan gynnwys sefydliadau yn y trydydd sector, er mwyn ei wirio. Trafodwyd fersiwn drafft yn y gweithdy gofalwyr ar 19 Mawrth, lle cafwyd cyfraniadau gan aelodau o'r Grŵp Strategol Gofalwyr, y Grŵp Gweithredol Gofalwyr, Gofalwyr Ifanc a'r is-grŵp oedolion ifanc sy'n ofalwyr, ynghyd â'r Grŵp Cyfeirio Gofalwyr. Ar ôl y digwyddiad roedd cyfle i gynnig diwygiadau pellach hyd 30 Mawrth 2018.

## Casgliadau

Yn [Appendix \(ii\)](#) ceir braslun o'r gwasanaethau yng ngogledd Cymru. Yma gwelir yr amrywiaeth helaeth o wybodaeth, cyngor a chymorth sydd ar gael ledled gogledd Cymru i helpu gofalwyr. Mae hefyd yn amlygu bylchau yn y ddarpariaeth, gan gynnwys diffyg swyddog cyswllt yn Ysbyty Glan Clwyd, a'r ffaith fod prosiectau cymorth gwaith i ofalwyr ar gael ymhobman ledled gogledd Cymru heblaw am Wrecsam. Er bod yno wasanaethau generig ar gael i ofalwyr pobl ag anawsterau â chamddefnyddio sylweddau, ni wnaeth mapio'r adnoddau ddangos fod unrhyw wasanaethau penodol ar gael ar gyfer y gofalwyr hynny. Roedd yno hefyd nifer o wahanol brosiectau'n cynnig gwybodaeth a chyngor i ofalwyr pobl â dementia ledled gogledd Cymru, a gallai hynny olygu dyblygu gwaith.

Wrth ddadansoddi'r buddsoddiad mewn gwasanaethau canfuwyd y buddsoddiad mwy na £5 miliwn mewn gwasanaethau i ofalwyr yng ngogledd Cymru, fel y gwelir yn nhabl 1. Daw'r cyllid o gyrff statudol a sefydliadau yn y trydydd sector (gweler tabl 3). Mae hyn yn amcangyfrif rhy isel o gyfanswm y cyllid sydd ar gael, gan ei bod yn anodd gweld yn union pa gyllid sy'n mynd yn uniongyrchol at gefnogi gofalwyr gyda rhai contractau.



**Tabl 1:** Buddsoddiadau mewn gwasanaethau i ofalwyr yn ôl y math o wasanaeth

Math o wasanaeth	Cost y Gwasanaeth (£ y flwyddyn)
Cymorth a chefnogaeth	2,100,000
Seibiannau i ofalwyr	1,400,000
Gofalwyr ifanc	1,000,000
Gwybodaeth a chyingor i ofalwyr	660,000
<b>Cyfanswm</b>	<b>5,200,000</b>

*Talgrynnwyd y data felly efallai na fydd yn symio.*

Dengys Tabl 2 fod oddeutu hanner y cyllid a nodwyd ar gael i gefnogi'r gofalwyr i gyd. Mae ychydig dros £1 miliwn ar gael i gefnogi gofalwyr ifanc, a £600,000 i gefnogi gofalwyr sy'n rhieni. Aiff y rhan helaeth o'r buddsoddiad mewn gwasanaethau ar gyfer cyflyrau penodol at ofalwyr pobl â dementia, a'r gyfran fwyaf wedi hynny at iechyd meddwl.

**Tabl 2:** Buddsoddiad mewn gwasanaethau i ofalwyr yn ôl pob grŵp (ar sail anghenion y sawl sy'n derbyn gofal)

Grŵp gofalwyr	Cost y Gwasanaeth (£ y flwyddyn)
Yr holl ofalwyr	2,600,000
Gofalwyr ifanc	1,000,000
Gofalwyr pobl â chyflyrau penodol	930,000
Dementia	550,000
Iechyd meddwl	370,000
Cyflyrau niwrolegol	12,000
Gofalwyr sy'n rhieni	600,000
<b>Cyfanswm</b>	<b>5,200,000</b>

*Talgrynnwyd y data felly efallai na fydd yn symio.*

Daw'r rhan helaeth o'r cyllid o awdurdodau lleol fel y gwelir yn Nhabl 3, ac mae partneriaid yn y trydydd sector yn codi cryn dipyn drwy grantiau a ffyrdd eraill o godi arian. Mae'r cyllid a ddaw gan Lywodraeth Cymru'n cynnwys arian a ddosrennir drwy awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd megis Arian Pontio i Ofalwyr, Teuluoedd yn Gyntaf a'r Gronfa Gofal Integredig.

**Tabl 3:** Buddsoddiadau mewn gwasanaethau i ofalwyr yn ôl y math o gyllidwr

Math o gyllidwr	Cyfanswm
Awdurdod Lleol	3,000,000
Y trydydd sector drwy grantiau a chodi arian	800,000
Llywodraeth Cymru	580,000
Bwrdd Iechyd	520,000
Ffioedd gwasanaethau	65,000
<b>Cyfanswm</b>	<b>5,200,000</b>

*Talgrynnwyd y data felly efallai na fydd yn symio.*

Roedd y data a gasglwyd yn cynnwys dyddiadau terfyn contractau lle'r oedd y rheiny'n hysbys, sy'n dangos mor ansicr yw'r rhan helaeth o'r cyllid. Darparwyd y daenlen gyflawn i gomisiynwyr awdurdodau lleol ac iechyd er mwyn hybu comisiynu'n lleol.

## Atodiad i: Holiadur adnoddau i ofalwyr

Gwasanaeth/ <b>Service</b>	
Darparwr/ <b>Provider</b>	
Disgrifiad byr o'r gwasanaeth/ <b>Brief description of the service</b>	
Canllawiau mynediad i'r gwasanaeth/ <b>Eligibility criteria</b>	
Sut i gyfeirio at y gwasanaeth/ <b>How to refer to the service</b>	
Oriau gwasanaeth/ <b>Hours of service</b>	
Lleoliad y gwasanaeth/ <b>Location of service</b>	
Iaith/ <b>Language</b>	
Lefelau Staffio/ <b>Staffing Levels</b>	
Cyfyngiadau/ <b>Constraints</b>	
Cost Gwasanaeth/ <b>Service Cost</b>	
Dyddiad diwedd y cytundeb/ <b>Expiry date of contract</b>	
Incwm a ffynhonnell / <b>Income and source</b>	
Unrhyw fater arall/ <b>Any other issues</b>	
Darparwyd yr wybodaeth gan/ <b>Information provided by</b>	

## Atodiad ii: Gorolwg o wasanaethau i ofalwyr yng ngogledd Cymru

Math o gymorth	Gwasanaethau sydd ar gael	Crynodeb/bylchau	Ynys Môn	Gwynedd	Conwy	Sir Ddinbych	Sir y Fflint	Wrecsam
Tud. 220	Gwybodaeth Awdurdod lleol: gwefannau, taflenni	Gwybodaeth wedi'i ddarparu ar wefanau awdurdodau lleol a thafenni i ofalwyr	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael
	Mudiadau gofalwyr: taflenni, pecynnau, gwybodaeth arbenigol	Gwybodaeth gyffredinol a gwybodaeth am gyflyrau penodol wedi'i ddarparu gan sefydliadau yn y trydydd sector	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael
	Dewis Cymru	Gwybodaeth ynglŷn â llesiant a gwasanaethau lleol.	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael
	Sefydliadau arbenigol: gwybodaeth ynglŷn â chyflyrau penodol	Gwybodaeth ynglŷn â chyflyrau penodol wedi'i ddarparu gan sefydliadau arbenigol, gyda gwybodaeth gyffredinol ar gael ar wefanau a rhai prosiectau lleol yn darparu cymorth ychwanegol.	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael
	Gwybodaeth i ofalwyr pobl â dementia	Gwybodaeth genedlaethol a lleol yn ogystal â strategaethau ymdopi sy'n rhoi gwell dealltwriaeth o ddementia i deuluoedd, ffrindiau a gofalwyr.	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael
	Swyddogion cyswllt mewn ysbytai	Ceir swyddogion cyswllt yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Maelor Wrecsam. Nid oes y fath swyddog yn Ysbyty Glan Clwyd. Mae mynediad at y gwasanaeth yn dibynnu ar ba ysbyty y mae rhywun yn mynd iddo, yn hytrach na ble mae'n byw, er enghraifft, gallai rhywun o Gonwy ddal i gael y gwasanaeth wrth fynd i Ysbyty Gwynedd.	Ar gael	Ar gael			Ar gael	Ar gael
	Cyswllt meddygon teulu a rhyddhau o'r ysbyty: presgripsiynau cymdeithasol; cydlynu ardaloedd lleol	Gwasanaeth wedi'i ddarparu i hwyluso adnabod gofalwyr yn gynnar, cymorth i ofalwyr ar adeg rhyddhau o'r ysbyty. Hefyd, gwasanaethau a ddarperir yn y gymuned fel y gall gofalwyr gael mynediad i wasanaethau cymorth a llesiant yn lleol. Gallai fod gwahanol enwau ar y gwasanaethau hyn ymhob ardal, a gallai'r math o ddarpariaeth amrywio hefyd.	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael

Cyngor	Pwyntiau Mynediad Sengl at iechyd a gofal cymdeithasol	Wedi'i ddarparu gan awdurdodau lleol/iechyd ledled gogledd Cymru ynghyd â sefydliadau yn y trydydd sector.	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael
	Prosiectau cyngor a gwybodaeth i ofalwyr	Wedi'u darparu gan sefydliadau yn y trydydd sector yn ogystal â thimau mewnol.	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael
	Cyngor am arian a budd-daliadau	Cyngor ar fudd-daliadau lles i ofalwyr wedi'i ddarparu naill ai gan awdurdodau lleol a sefydliadau gofalwyr yn y trydydd sector, neu drwy gyfeirio pobl at sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau hawliau lles.	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael
Cymorth a chefnogaeth	Eiriolaeth	Eiriolaeth wedi'i ddarparu drwy wasanaethau arbenigol ar gyfer gofalwyr. Mae sefydliadau yn y trydydd sector hefyd yn darparu eiriolaeth anffurfiol i ofalwyr. Mae amrywiaeth o wasanaethau eiriolaeth ar gael o rai ffurfiol i anffurfiol, a gwasanaeth penodol ar gyfer gofalwyr ifanc.	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael
	Asesu anghenion gofalwyr	Awdurdodau lleol, gydag un awdurdod lleol yn comisiynu gwasanaethau gan sefydliad yn y trydydd sector. Er y gallai sefydliadau yn y trydydd sector fod yn asesu anghenion gofalwyr yn anffurfiol, gan leihau'r galw am asesiadau ffurfiol gan awdurdodau lleol, nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn y data asesu anghenion.	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael
	Taliadau uniongyrchol, cyllidebau cefnogaeth	Mae awdurdodau lleol yn cynnig y rhain. Cânt eu hyrwyddo a'i defnyddio mewn amrywiaeth o ffyrdd mewn gwahanol siroedd.	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael
	Cymorth brys i ofalwyr	Gall y math o gymorth brys a ddarperir amrywio o un sir i'r llall. Ni wyddys i ba raddau y mae trefniadau wrth gefn wedi'u paratoi mewn rhai ardaloedd pan fydd gofalwyr yn mynd yn sâl neu'n methu â gofalu mwyach.	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael
	Grantiau i ofalwyr	Wedi'u darparu gan sefydliadau yn y trydydd sector ledled y rhanbarth. Gall sefydliadau yn y trydydd sector hefyd roi mynediad at grantiau o ffynonellau eraill.	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael
	Tud. 221							



Tud. 222	Seibiannau i ofalwyr	Wedi'u darparu gan sefydliadau yn y trydydd sector a/neu ddarparwyr gofal cartref ledled gogledd Cymru.	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael
	Cefnogaeth gan gymheiriaid a rhwydweithio i ofalwyr	Wedi'u darparu gan sefydliadau gofalwyr yn y trydydd sector a sefydliadau sy'n canolbwyntio ar gyflyrau penodol, gan gynnig elfen o seibiant hefyd.	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael
	Hyfforddiant	Wedi'i ddarparu gan sefydliadau gofalwyr yn y trydydd sector a sefydliadau sy'n canolbwyntio ar gyflyrau penodol.	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael
	Cefnogaeth emosiynol a chwmsela	Mae sefydliadau gofalwyr yn y trydydd sector a sefydliadau sy'n canolbwyntio ar gyflyrau penodol yn cynnig cefnogaeth emosiynol ledled gogledd Cymru. Darperir chwmsela drwy sefydliadau gofalwyr mewn rhai ardaloedd. Mae chwmsela ar gael i ofalwyr ifanc hefyd.	Ar gael i raddau	Ar gael i raddau	Ar gael i raddau	Ar gael	Ar gael	Ar gael
	Newidiadau a phontio	Awdurdodau lleol, sefydliadau gofalwyr yn y trydydd sector a sefydliadau sy'n canolbwyntio ar gyflyrau penodol. Gall y math o gefnogaeth amrywio o un sir i'r llall, a gallai gynnwys cefnogaeth emosiynol a chwmsela. Bydd cefnogaeth gan gymheiriaid a rhwydweithio hefyd yn medru cynorthwyo gofalwyr pan mae pethau'n newid.	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael
	Cefnogaeth i gael gwaith	Wedi'i ddarparu mewn rhai ardaloedd gan brosiectau a ariennir drwy Ewrop, yn ogystal ag un sefydliad yn y trydydd sector. Nid oes cefnogaeth i gael gwaith ar gael yn Wrecsam.	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	
	Cefnogaeth ar gyfer gweithgareddau hamdden/cymdeithasol	Gallai hyn gynnwys gostwng prisiau aelodaeth hamdden, cynorthwyo gyda chostau a rhoi gwybodaeth am weithgareddau hamdden/cymdeithasol anffurfiol. Wedi'i ddarparu gan awdurdodau lleol, sefydliadau gofalwyr yn y trydydd sector a sefydliadau sy'n canolbwyntio ar gyflyrau penodol. Gall y math o gymorth a	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael

Tud. 223		ddarperir amrywio o un sir i'r llall ac mae'n seiliedig ar y sgwrs 'beth sy'n bwysig'.						
	Iechyd a lles	Er bod lles gofalwyr wastad yn rhan annatod o'r asesiad o'u hanghenion, bydd y gwasanaethau hynny y cydnabyddir eu bod yn hybu lles yn amrywio. Mae un awdurdod lleol yn cyflogi swyddog sy'n helpu i gyflawni dyletswydd yr awdurdod lleol i ganolbwyntio ar les gofalwyr. Ceir prosiect yn y gogledd-ddwyrain a ariennir gan y Loteri sy'n rhoi pwyslais ar hybu lles gofalwyr.	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael
	Cefnogaeth i'r teulu cyfan	Awdurdodau lleol, sefydliadau gofalwyr yn y trydydd sector a sefydliadau sy'n canolbwyntio ar gyflyrau penodol. Gall y math o gymorth a ddarperir amrywio o un sir i'r llall ac mae'n seiliedig ar y sgwrs 'beth sy'n bwysig'.	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael
	Cymorth tai	Ni wyddys os darperir cymorth tai yn uniongyrchol ond bydd sefydliadau gofalwyr yn cyfeirio pobl at sefydliadau eraill.						
	Cymorth i fynd i'r ysgol / cynnal presenoldeb (gofalwyr ifanc)	Wedi'i ddarparu gan sefydliadau yn y trydydd sector sy'n gweithio â gofalwyr ifanc. Mae cynllun peilot eisoes wedi dechrau mewn rhai ysgolion yng ngogledd Cymru.	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael
	Cefnogaeth i ofalwyr ifanc	Wedi'i ddarparu gan sefydliadau yn y trydydd sector ledled gogledd Cymru.	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael
	Gofalwyr yn dylanwadu ar bolisiau a gwasanaethau	Cyfleoedd i fod yn rhan o lunio polisiau a gwasanaethau. Grŵp cyfeirio rhanbarthol ar gyfer gofalwyr. Cyfleoedd yn lleol drwy bartneriaethau lleol, awdurdodau lleol, sefydliadau iechyd a sefydliadau yn y trydydd sector. Mae'r mathau o gyfleoedd sydd ar gael yn amrywio o un sir i'r llall.	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael	Ar gael



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU  
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING  
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

## Cynllun Gweithredu Grŵp Strategol Gofalwyr Gogledd Cymru – I

Mae gofalwyr yn cyflawni swyddogaeth allweddol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ac mae angen eu cydnabod a'u gwerthfawrogi am y cymorth y maent yn ei ddarparu. Wrth gyflawni'r swyddogaeth allweddol hon mae arnynt hwythau angen cymorth, ac felly dylai awdurdodau lleol helpu i sicrhau bod gofalwyr yn gallu byw eu bywydau eu hunain mor annibynnol ag y bo modd. Yn hyn o beth mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi hawliau cryfach i ofalwyr ac yn symleiddio a chydgrynhoi'r gyfraith, gan roi i ofalwyr am y tro cyntaf yr un hawliau â'r bobl sy'n derbyn gofal ganddynt.

### Mae'r cynllun gweithredu'n seiliedig ar:

Y cynnig i ofalwyr yng ngogledd Cymru fel y'i cymeradwywyd yn y Gweithdy ar 19 Mawrth 2018 – Safonau rhanbarthol, comisiynu lleol.

- i) Blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer gofalwyr:
  - Helpu i fyw yn ogystal â gofalu. Rhaid i bob gofalwr gael seibiannau rhesymol oddi wrth ofalu er mwyn iddynt allu parhau i wneud hynny, ac i gael bywyd eu hunain y tu hwnt i ofalu
  - Adnabod a chydnabod gofalwyr. Os ydym am lwyddo i sicrhau canlyniadau gwell i ofalwyr, mae'n hanfodol gwella adnabyddiaeth gofalwyr o'u rôl a sicrhau bod y cymorth angenrheidiol ar gael iddynt
  - Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i ofalwyr. Mae'n bwysig bod gofalwyr yn cael yr wybodaeth a'r cyngor cywir priodol ble bynnag a phryd bynnag y mae angen hynny arnynt.
- ii) Cynllun Rhanbarthol Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru 2018-2023.

Mae'r cynllun gweithredu'n adlewyrchu'r dull 'safonau rhanbarthol, comisiynu lleol' y mae'r cynnig i ofalwyr yn seiliedig arno. Cymeradwywyd y cynnig i ofalwyr yn rhanbarthol, a bydd y rhan helaeth o'r ddarpariaeth yn digwydd yn lleol, dan arweiniad sefydliadau lleol. Ymhlith swyddogaethau'r grŵp hwn fydd cadw golwg ar gynnydd, darparu cymorth a hwyluso cydweithio lle bo hynny'n briodol, a bydd Grŵp Gweithredol Gofalwyr Gogledd Cymru yn mynd ati ar y cyd i ddarparu gwasanaethau sy'n gydnaws â'r cynnig i ofalwyr, a dod o hyd i gyfleoedd i gydweithio'n well.

	DANGOSYDD/RISG	ANGEN	CORFF ARWEINIOL/PARTNER ALLWEDDOL	LLE RYDYM NI ARNI YN AWR?	CAMAU GWEITHREDU	CYNNYDD C/M/G
	Y cynnig i ofalwyr					
1.	<b>Ceisir barn gofalwyr a gofynnir iddynt ddarparu gwybodaeth wrth gydgyhyrchu cynlluniau a strategaethau</b>	Bod gofalwyr yn cael eu cynnwys wrth ddylunio gwasanaethau	Pob partner	Arolwg Llywodraeth Cymru wedi'i wneud gan yr awdurdodau lleol  Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cynnal arolwg o foddhad cleifion  Astudiaethau achos wedi'u casglu fel rhan o'r gwasanaethau monitro	Adolygu'r wybodaeth yn yr astudiaethau achos a'i ddefnyddio'n sail ar gyfer y strategaeth gofalwyr yng ngogledd Cymru.	
2.	<b>Cynnwys gofalwyr mewn penderfyniadau lleol</b>	Asiantaethau â threfn sy'n rhoi llais i ofalwyr mewn penderfyniadau lleol, a sicrhau bod yr holl wasanaethau'n fwy ymwybodol	Pob partner	Mae angen tystiolaeth er mwyn asesu'r sefyllfa sydd ohoni	Gwneud cysylltiadau â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'u Cynlluniau Llesiant hwy.	

		o ofalwyr ac yn gyfeillgar i ofalwyr.				
<b>3.</b>	<b>Polisiau a Phrotocolau Ymarfer</b>	Gweithredir polisiau a phrotocolau ymarfer ynghylch cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth.	Pob partner	Mae angen cadarnhau'r sefyllfa sydd ohoni a'r trefniadau o ran rhannu gwybodaeth		
<b>4.</b>	<b>Mesur llwyddiant</b>	Bod yno ddulliau o fesur llwyddiant yn sail ar gyfer monitro cynnydd y strategaeth gofalwyr	Pob partner		Mabwysiadu dulliau mesur y strategaeth gofalwyr	
<b>Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014).</b>						
<b>5.</b>	Bod gwasanaeth eiriolaeth arbenigol ar gael	Bod pob gofalwr yng ngogledd Cymru'n medru derbyn gwasanaeth eiriolaeth arbenigol, gan gynnwys materion Gofal	Awdurdodau lleol, BIPBC	Mae gwasanaethau eiriolaeth anffurfiol ar gael, ac mae angen sicrhau y darperir gwasanaeth ffurfiol ledled y rhanbarth.	Mae angen gwell dealltwriaeth o'r rhesymau pam mae angen eiriolaeth ar ofalwyr, gyda'r nod o wella'r modd y darperir gwasanaethau, gan y gallai	

		lechyd Parhaus a gofalwyr ifanc.			hynny leihau'r galw am wasanaethau eiriolaeth.  Ystyried yr hyn sy'n bosibl o ran darparu cymorth ar gyfer hunan-eiriolaeth.	
<b>Asesu Anghenion y Boblogaeth</b>						
<b>6.</b>	<b>Darparu seibiannau hyblyg i ofalwyr</b>	Mae angen i ofalwyr fedru cael seibiannau ar adegau hyblyg ac yn unol â'u hanghenion o ran yr hyn sy'n bwysig iddynt.	Awdurdodau Lleol  lechyd  Y Trydydd Sector	Cafwyd trafodaeth â Phenathiaid Gwasanaethau Oedolion Gogledd Cymru ynglŷn â'r posibilrwydd o ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol mewn ffyrdd mwy blaengar er mwyn hwyluso seibiannau i ofalwyr.  Rhaglen waith Grŵp Gweithredol Gofalwyr Gogledd Cymru'n mynd rhagddi: Cyfrannu at ffrwd waith Rhwydwaith Cenedlaethol	Mae angen trafodaethau lleol er mwyn llunio achosion busnes lleol ar gyfer defnyddio Taliadau Uniongyrchol i hwyluso seibiannau hyblyg i ofalwyr.	

Tud. 227

Tud. 228

				<p>Swyddogion Gofalwyr ar gyfer Dysgu a Gwella ynglŷn â seibiannau gwahanol i ofalwyr.</p> <p>Prosiectau yn y trydydd sector ynghylch seibiannau blaengar i ofalwyr.</p> <p>Cynlluniau lleol sy'n rhan o brosiectau dan arweiniad y trydydd sector.</p> <p>Presgripsiynu lleol/cyfeirwyr cymunedol</p>		
--	--	--	--	--	--	--

## Atodiad 5 Gofalwyr: Cynllun Gweithredu Grŵp Gweithredol Gofalwyr Gogledd Cymru



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU  
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING  
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

## Cynllun Gweithredu Grŵp Gweithredol Gofalwyr Gogledd Cymru – Ebrill 2018

Mae gan ofalwyr rôl allweddol ym myd iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ac mae angen iddynt gael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi am y gefnogaeth a ddarperir ganddynt. Mae arnynt hwythau angen cefnogaeth yn y rôl hanfodol hon, a dylai awdurdodau lleol felly helpu i sicrhau y gall gofalwyr fyw eu bywydau mewn ffordd mor annibynnol â phosib. Mae hyn hefyd yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sydd yn gosod y ddeddf ar gyfer gwell hawliau i ofalwyr ac yn symleiddio ac atgyfnerthu'r gyfraith, gan roi iddynt am y tro cyntaf hawliau cyfartal â'r unigolyn y maent yn gofalu amdanynt.

### Mae'r cynllun gweithredu yn seiliedig ar:

Y cynnig i ofalwyr yng Ngogledd Cymru fel a gytunwyd yn y Gweithdy ar 19 Mawrth 2018 - Safonau rhanbarthol, comisiynu lleol

- i) Blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer gofalwyr:
  - Cefnogi bywyd ochr yn ochr â gofalu – mae'n rhaid i bob gofalwr gael seibiannau rhesymol oddi wrth eu rôl er mwyn galluogi iddynt gynnal eu gallu i ofalu, a bod â bywyd y tu hwnt i ofalu.
  - Adnabod a chydabod gofalwyr – Mae'r angen i wella'r gydnabyddiaeth a roddir i rôl gofalwyr a sicrhau eu bod â mynediad i'r gefnogaeth angenrheidiol yn sylfaenol i lwyddiant darparu gwellhad yn llesiant personol gofalwyr.
  - Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth – mae'n bwysig fod gofalwyr yn derbyn yr wybodaeth briodol a chynngor lle a phryd y bydd arnynt ei angen.
- ii) Cynllun Rhanbarthol Asesiad o Boblogaeth Gogledd Cymru 2018-2023

Mae'r cynllun gweithredu yn adlewyrchu'r dull safonau rhanbarthol / comisiynu lleol sy'n rhan o'r cynnig i ofalwyr. Mae'r cynnig ar gyfer gofalwyr wedi ei gytuno arno fel rhanbarth, gyda llawer o'r ddarpariaeth yn digwydd ar lefel lleol wedi ei arwain gan sefydliadau lleol. Bydd gan Grŵp Strategol Gogledd Cymru rôl yn y broses fonitro, gan ddarparu cefnogaeth a hwyluso gwaith ar y cyd lle bo hynny'n briodol, gyda Grŵp Gweithredol Gofalwyr Gogledd Cymru yn cydweithio i gyflenwi gwasanaethau sy'n cwrdd â'r cynnig i ofalwyr, ac adnabod cyfleoedd i weithio'n well ar y cyd.



## Atodiad 5 Gofalwyr: Cynllun Gweithredu Grŵp Gweithredol Gofalwyr Gogledd Cymru

	DANGOSYDD/RISG	ANGEN	PRIF BARTNER	LLE'R YDYM NI ARNI AR HYN O BRYD?	CAMAU GWEITHREDU AR GYFER Y DYFODOL	CYNNYDD Coch/Ambr/Gwyrdd
	Y cynnig i ofalwyr					
1	Caiff gofalwyr a'u rôl hanfodol eu hadnabod gyda'r cyswllt cyntaf neu chyn gynted â phosib wedi hynny.	Angen adnabod, cefnogi a chyfeirio gofalwyr o'r dechrau	Awdurdodau Lleol Iechyd	<p>Mae'n aneglur a yw'r holl ofalwyr wedi eu hadnabod.</p> <p>Mae rhai gofalwyr nad ydynt yn dymuno cael eu hadnabod.</p> <p>Mapio llwybrau gofalwyr</p> <p>Mae hyn yn gynwysedig yn canllaw Triongl Gofal ac fe'i weithredir o fewn gwasanaethau iechyd meddwl (Bwrdd Iechyd</p>	<p>Ymestyn gwaith y Triongl Gofal i gynnwys Gwasanaethau Acíwt, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol, a Gwasanaethau Dementia.</p>	

Tud. 230

## Atodiad 5 Gofalwyr: Cynllun Gweithredu Grŵp Gweithredol Gofalwyr Gogledd Cymru

	DANGOSYDD/RISG	ANGEN	PRIF BARTNER	LLE'R YDYM NI ARNI AR HYN O BRYD?	CAMAU GWEITHREDU AR GYFER Y DYFODOL	CYNNYDD Coch/Aubr/Gwyrdd
Tud. 231				<p>Prifysgol Betsi Cadwaladr)</p> <p>Mae cefnogaeth wedi rhyddhad o ysbytai aciwt wedi ei gryfhau gyda chefnogaeth ar gael ym mhob un o'r 3 safle ysbyty.</p> <p>Gwaith hwylusydd meddyg teulu o dan adolygiad</p>	<p>Angen am strategaeth ymadael</p> <p>Mae angen data ar y model meddyg teulu/ysbyty cymunedol sydd yn cael ei redeg fel cynllun peilot yn GOGDDC.</p> <p>Synergedd rhwng canlyniadau ac allbynnau</p>	

## Atodiad 5 Gofalwyr: Cynllun Gweithredu Grŵp Gweithredol Gofalwyr Gogledd Cymru

	DANGOSYDD/RISG	ANGEN	PRIF BARTNER	LLE'R YDYM NI ARNI AR HYN O BRYD?	CAMAU GWEITHREDU AR GYFER Y DYFODOL	CYNNYDD Coch/Aubr/Gwyrdd
Tud. 232					<p>Adnoddau Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu i'w hystyried yn ogystal â'r posibilrwydd o ddylunio poster i'w harddangos mewn meddygfeydd teulu. Angen gweithio tuag at safonau ar gyfer meddygon teulu.</p> <p>Llythyr i'w ddrafftio gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol i feddygon teulu yn nodi yr hyn y dylai'r cynnig i ofalwyr gan y prif ofalwr fod, a'r manteision iddyn</p>	

## Atodiad 5 Gofalwyr: Cynllun Gweithredu Grŵp Gweithredol Gofalwyr Gogledd Cymru

	DANGOSYDD/RISG	ANGEN	PRIF BARTNER	LLE'R YDYM NI ARNI AR HYN O BRYD?	CAMAU GWEITHREDU AR GYFER Y DYFODOL	CYNNYDD Coch/Ambr/Gwyrdd
					nhw. Copïo i staff.  Datganiad i'w wneud i ofalwyr yn nodi yr hyn a allant ei ddisgwyl.	
2	Caiff gwybodaeth a barn gofalwyr ei geisio, ei rannu, ei ddefnyddio a'i ddiweddarau'n gyson wrth i gynlluniau a strategaethau gofal cyffredinol ymfurfio.	Mae angen cynnwys gofalwyr yn y gwaith o gynllunio gwasanaethau, ac hefyd fel rhan o werthuso prosiectau a redir yn lleol.	Awdurdodau Lleol  Iechyd  Sefydliadau yn y Trydydd Sector.	Mae partneriaethau lleol, ymrwymadau lleol a gwaith datblygu strategaeth yn cynnwys gofalwyr.  Mae'r Grŵp Cyfeirio Gofalwyr y Bartneriaeth yn cyfarfod yn rheolaidd.		

Tud. 233

## Atodiad 5 Gofalwyr: Cynllun Gweithredu Grŵp Gweithredol Gofalwyr Gogledd Cymru

	DANGOSYDD/RISG	ANGEN	PRIF BARTNER	LLE'R YDYM NI ARNI AR HYN O BRYD?	CAMAU GWEITHREDU AR GYFER Y DYFODOL	CYNNYDD Coch/Ambr/Gwyrdd
Tud. 234				<p>Caiff astudiaethau achos ei casglu a'u coladu</p> <p>Arolygon – Awdurdodau lleol a phartneriaeth ar gyfer ystadegau Llywodraeth Cymru</p>		
	3i)	Mae staff yn 'ofalwyr-ymwybodol' ac wedi eu hyfforddi mewn strategaethau i ymgysylltu â gofalwyr.	Dylai staff fod yn ymwybodol o, a chroesawu'r cyfraniad gwerthfawr y gall gofalwyr ei wneud, a chadw anghenion y gofalwr eu hunain mewn cof. Mae staff angen	Awdurdodau Lleol  lechyd	<p>Mae hyfforddiant ar gael, ond nid yw'n eglur a yw hyn yn gyson ar draws gwasanaethau.</p> <p>Mae'r Triongl Gofal yn cynnwys</p>	T

## Atodiad 5 Gofalwyr: Cynllun Gweithredu Grŵp Gweithredol Gofalwyr Gogledd Cymru

	DANGOSYDD/RISG	ANGEN	PRIF BARTNER	LLE'R YDYM NI ARNI AR HYN O BRYD?	CAMAU GWEITHREDU AR GYFER Y DYFODOL	CYNNYDD Coch/Ambr/Gwyrdd
		gwybodaeth, hyfforddiant a chefnogaeth i ddod yn 'ofalwyr-ymwybodol'.		anghenion hyfforddi  Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi comisiynu Gofalwyr Cymru i gynhyrchu (ar y cyd) adnodd hyfforddi ar-lein cenedlaethol ar ymwybyddiaeth o ofalwyr, a fydd yn addas ar gyfer gweithwyr ym meysydd iechyd, awdurdodau lleol a'r Trydydd Sector.		
<b>3i i)</b>	<b>Mae anghenion hyfforddi gofalwyr yn cael sylw</b>	Anghenion hyfforddi gofalwyr i gael eu bwydo i fewn i'r Cynllun Datblygu'r Gweithlu Gofal	Awdurdodau Lleol	Darperir hyfforddiant i ofalwyr gan sefydliadau Trydydd Sector.	Dylai anghenion hyfforddi gofalwyr gael eu ymgorffori yn SCWDP, gydag ystyriaeth i'r hyfforddiant a ddarperir eisoes	

Tud. 235

## Atodiad 5 Gofalwyr: Cynllun Gweithredu Grŵp Gweithredol Gofalwyr Gogledd Cymru

	DANGOSYDD/RISG	ANGEN	PRIF BARTNER	LLE'R YDYM NI ARNI AR HYN O BRYD?	CAMAU GWEITHREDU AR GYFER Y DYFODOL	CYNNYDD Coch/Aubr/Gwyrdd
		Cymdeithasol (SCWDP).		Mae gan ofalwyr fynediad at hyfforddiant SCWDP.	gan y Trydydd Sector.	
4	<b>Mae protocolau polisi ac ymarfer ar gyfrinachedd a rhannu gwybodaeth wedi eu sefydlu.</b>	Mae angen i staff fod yn hyderus wrth rannu gwybodaeth â'r gofalwr.	Awdurdodau Lleol  Iechyd	Mae'r Triongl Gofal yn ymgorffori dealltwriaeth o gyfrinachedd a rhannu gwybodaeth.		
5	<b>Mae swyddi diffiniedig wedi eu sefydlu i fod yn gyfrifol am ofalwyr (Arweinwyr Gofalwyr)</b>	Mae'n rhaid i rôl y Swyddog Arweiniol Gofalwyr allu dylanwadu ar drafodaethau ar gyfeiriad strategol o fewn sefydliadau.	Awdurdodau Lleol  Iechyd	Mae gan bob awdurdod lleol swydd Swyddog Arweiniol Gofalwyr. Mae cyfrifoldebau yn amrywio o ardal i ardal.	Mae angen ariannu swydd Swyddog Arweiniol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o gyllideb craidd.	
6	<b>Mae cyflwyniad gofalwr-ganolog i'r gwasanaeth a'i staff ar gael, gydag amrediad perthnasol o wybodaeth ar draws y llwybr gofal.</b>	Mae angen meddwl am ofalwyr ar sail gyfartal i'r	Awdurdodau Lleol  Iechyd	Pamffledi gofalwyr ar gael gan awdurdodau lleol.	Angen am dealltwriaeth o fylchau yn y ddarpariaeth.	

Tud. 236

## Atodiad 5 Gofalwyr: Cynllun Gweithredu Grŵp Gweithredol Gofalwyr Gogledd Cymru

	DANGOSYDD/RISG	ANGEN	PRIF BARTNER	LLE'R YDYM NI ARNI AR HYN O BRYD?	CAMAU GWEITHREDU AR GYFER Y DYFODOL	CYNNYDD Coch/Aubr/Gwyrdd
		unigolyn y gofalir amdanynt.		Mae'r Triongl Gofal yn ymgorffori safon ar gyfer deunydd cyflwyniadol.	Angen cynnal archwiliad fel rhan o waith y Triongl Gofal, lle bo hynny'n bosib.	
<b>7</b>	<b>Mae amrediad o wasanaethau cefnogaeth i ofalwyr ar gael.</b>	Y gallu i ddarparu gwasanaethau pwrpasol i ofalwyr yn ôl beth sydd o bwys iddynt.	Awdurdodau Lleol  Iechyd  Trydydd Sector	Mae amrediad ar gael ar draws Gogledd Cymru, gydag amrywiaethau o ardal i ardal yn nhermau'r modd y darperir y gwasanaeth.	Partneriaethau lleol i gydweithio er mwyn sicrhau fod gwasanaethau cefnogaeth yn cael eu comisiynu mewn ymateb i beth sydd o bwys i ofalwyr.	
	<b>Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014</b>					
<b>8</b>	<b>Asesiadau o anghenion y gofalwyr</b>	Cynnal asesiadau anghenion lle mae'n ymddangos fod gan ofalwr anghenion cefnogaeth, a chynnal	Awdurdodau Lleol	Cynhelir asesiadau anghenion, ond bod diffyg eglurder a chysondeb yn y data.	Cysylltu ag arolygon gofalwyr. Beth mae gofalwyr yn ei ddweud wrthym am	

Tud. 237



## Atodiad 5 Gofalwyr: Cynllun Gweithredu Grŵp Gweithredol Gofalwyr Gogledd Cymru

	DANGOSYDD/RISG	ANGEN	PRIF BARTNER	LLE'R YDYM NI ARNI AR HYN O BRYD?	CAMAU GWEITHREDU AR GYFER Y DYFODOL	CYNNYDD Coch/Aubr/Gwyrdd
		adolygiadau rheolaidd.		Mae un awdurdod yn comisiynu darparwr trydydd sector i gynnal asesiadau ar eu rhan.	gynaliadwyedd eu rôl fel gofalwyr?	
<b>9</b>	<b>Eiriolaeth</b>	Eiriolaeth annibynnol, broffesiynol yn ogystal ag eiriolaeth anffurfiol.	Awdurdodau Lleol	Mae amrediad o wasanaethau eiriolaeth ar gael.		
<b>Asesiad o Anghenion y Boblogaeth</b>						
<b>10</b>	<b>Darpariaeth hyblyg o seibiannau ar gyfer gofalwyr</b>	Yr angen i ofalwyr allu cael mynediad at seibiannau pwrpasol a hyblyg oddi wrth y gwaith o ofalu yn unol â'r hyn sydd o bwys iddynt.	Awdurdodau Lleol  Iechyd  Trydydd Sector	Cyfrannu at ffrwd gwaith y Rhwydwaith Dysgu a Gwella Swyddogion Gofalwyr Cenedlaethol ar seibiannau amgen i ofalwyr.		

Tud. 238

## Atodiad 5 Gofalwyr: Cynllun Gweithredu Grŵp Gweithredol Gofalwyr Gogledd Cymru

	DANGOSYDD/RISG	ANGEN	PRIF BARTNER	LLE'R YDYM NI ARNI AR HYN O BRYD?	CAMAU GWEITHREDU AR GYFER Y DYFODOL	CYNNYDD Coch/Ambr/Gwyrdd
				<p>Prosiectau seibiant gofalwyr arloesol yn y trydydd sector.</p> <p>Mentrau lleol fel rhan o brosiectau a arweinir o'r trydydd sectori.</p> <p>Presgripsiynu cymdeithasol / llyw-wyr cymunedol</p>		
1 1	Cefnogi gofalwyr sydd mewn cyflogaeth.	Cyflogwyr i ddatblygu	Awdurdodau Lleol Iechyd Trydydd Sector Gofalwyr Cymru	Cynllun Cyflogwyr i Ofalwyr Gofalwyr Cymru wedi cychwyn.  Polisi Bwrdd Iechyd Prifysgol		

Tud. 239

## Atodiad 5 Gofalwyr: Cynllun Gweithredu Grŵp Gweithredol Gofalwyr Gogledd Cymru

	DANGOSYDD/RISG	ANGEN	PRIF BARTNER	LLE'R YDYM NI ARNI AR HYN O BRYD?	CAMAU GWEITHREDU AR GYFER Y DYFODOL	CYNNYDD Coch/Aubr/Gwyrdd
Tud. 240				<p>Betsi Cadwaladr ar absenoldebau gofalwyr wedi ei fabwysiadu ond heb ei roi ar waith.</p> <p>Safonau Cydnabyddiaeth Cyflogaeth gofalwyr-gyfeillgar Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru ar gael.</p>		
	1 2	Cefnogaeth i oedolion ifanc sy'n ofalwyr.	Angen cefnogaeth bwrpasol ar gyfer oedolion ifanc sy'n ofalwyr.	Trydydd Sector  Awdurdodau Lleol  Iechyd	Bylchau mewn gwasanaethau wedi eu hadnabod, sef cefnogaeth dwysach wedi ei deilwra i gynnwys cyflogaeth, hyfforddiant,	Ystyried y posibilrwydd am gais rhanbarthol wedi'i arwain o'r Trydydd Sector am arian o gronfa loteri Pawb a'i Leger mwyn gwella gwasanaethau ar

## Atodiad 5 Gofalwyr: Cynllun Gweithredu Grŵp Gweithredol Gofalwyr Gogledd Cymru

	DANGOSYDD/RISG	ANGEN	PRIF BARTNER	LLE'R YDYM NI ARNI AR HYN O BRYD?	CAMAU GWEITHREDU AR GYFER Y DYFODOL	CYNNYDD Coch/Ambr/Gwyrdd
				adeiladu hyder a thai.	gyfer oedolion ifanc sy'n ofalwyr.	

Tud. 241

DRAFT



Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio gofalwyr ifanc fel gofalwyr o dan 18 oed. Mae Cod Ymarfer Rhan 3 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn diffinio gofalwyr sy'n oedolion ifanc rhwng 16 a 25 oed. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn cynn wŷs anghenion holl ofalwyr ifanc ac sy'n oedolion ifanc hyd at 25 oed.

Mae'r anghenion a dangosyddion wedi eu tynnu o Atodiad 1 Cod Ymarfer ar ymarfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas ag Adran 3 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 (COP) <http://gov.wales/docs/dhss/publications/151218part3en.pdf> ac o Bennod Asesiad o Anghenion Gofalwyr Poblogaeth Gogledd Cymru <https://www.northwalescollaborative.wales/wp-content/uploads/2017/04/7-Carers-chapter.pdf> pages 223-230 (PNA).

**Egwyddorion Arweiniol Cynllun Gweithredu Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru**

- Bod y cynllun gweithredu yn seiliedig ar yr hyn sydd o bwys i ofalwyr ifanc/oedolion ifanc sy'n ofalwyr
- Ein bod yn cynnwys gofalwyr ifanc/oedolion ifanc sy'n ofalwyr wrth ddylunio gwasanaeth
- Ein bod yn datblygu gwasanaethau cadarn, cynaliadwy a hyblyg mewn partneriaeth i gefnogi oedolion ifanc sy'n ofalwyr

	DANGOSYDD/RISG	ANGEN	ARWEINYDD/PARTNER ALLWEDDOL	LLE RYDYM NI ARNI YN AWR?	Camau gweithredu ar gyfer y dyfodol	CYNNYDD C/A/G
1	Mae/bydd yr unigolyn yn gallu cael mynediad i gefnogaeth i gynnal neu ddatblygu'r teulu	Angen cefnogaeth cyfoedion, cwnsela a gwasanaethau seibiant gyrfa	Awdurdod lleol  Iechyd  Gwasanaethau cefnogi gofalwyr	Cyllid seibiant gofalwr ychwanegol i ALLau.  Gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion i fodoli.	Cryfhau cyswllt gyda CAMHS ac arweinwyr ACE.  Cyswllt gyda llwybrau MH	

Atodiad 6 Gofalwyr: Cynllun Gweithredu GGGIGC

Tud. 243

	neu berthynas personol sylweddol arall (COP)			<p>Gwasanaethau GI ac ysgolion cyf: cefnogaeth gan gyfoedion.</p> <p>Gwasanaethau cefnogi gofalwyr yn darparu'r mwyafrif o gefnogaeth.</p>	<p>Gofal Sylfaenol a Lles</p> <p>Mapio sut mae cwnsela ffurfiol ar gael.</p> <p>Ymholi: Cynrychiolydd Iechyd o Wasanaethau Plant.</p>	
2	Yr unigolyn yn profi colli rheolaeth, neu'n debygol o brofi colli rheolaeth, dros eu hamgylchedd uniongyrchol ac/neu fywyd bob dydd gan gynnwys sefydlogrwydd ariannol	Gall gofalwyr ifanc deimlo'n ansefydlog am eu tai gan nad ydynt yn gallu derbyn budd-daliadau neu dderbyn cyfrifoldeb i dalu treth y cyngor eu hunain (PNA)	<p>Awdurdod lleol</p> <p>Gwasanaethau cefnogi gofalwyr</p>	<p>Ddim yn gwybod ar hyn o bryd, rydym angen archwilio: Cysylltiadau gyda thai, cynllunio wrth gefn gwasanaethau GI, mynediad i gyngor budd-daliadau, hawliau lles ac ati?</p>	<p>Gweithio gyda'r A/LI i ymchwilio'r angen a'r nifer sy'n derbyn cefnogaeth sy'n ymwneud â thenantiaeth/tai i ofalwyr ifanc.</p> <p>Mapio pa wasanaethau sydd ar gael ac a oes yna angen?</p>	
3	Yr unigolyn yn methu cynnal, neu'n debyg o fethu cynnal rolau a chyfrifoldebau teulu a chymdeithasol sy'n eu galluogi i ddiwallu	Angen am seibiant i ofalwr a chyfleoedd i gymdeithasu (rhoi cyfle iddynt fod yn blentyn) (PNA)	<p>Awdurdod lleol</p> <p>Gwasanaethau cefnogi gofalwyr</p>	<p>Gwasanaethau GI ac ALI yn darparu'r darpariaethau hyn.</p> <p>Faint sy'n derbyn Aseiad Gofalwyr ar hyn o bryd? Dylai aseidiadau gofalwyr</p>	<p>Gwasanaethau Gofalwyr Ifanc i fabwysiadu protocol Aseiad Gofalwr Ifanc sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd (Vicky Allen)</p>	

Atodiad 6 Gofalwyr: Cynllun Gweithredu GGGIGC

	canlyniadau i'w hunain neu eraill (COP)			nodi ac arwyddbostio i gyflawni'r canlyniadau lles personol hyn.		
4	Mae neu gall systemau cefnogaeth gymdeithasol yr unigolyn fod mewn perygl (COP)	Mesurau ataliol i atal y systemau cefnogaeth gymdeithasol rhag bod mewn perygl (PNA)	Awdurdod Lleol  Gwasanaethau cefnogi gofalwyr	Tîm o Amgylch y Teulu(TAT)/Tîm o Amgylch Plant (TAP); cyfarfodydd Grŵp Teulu a gwasanaethau Gofalwyr Ifanc yn mynd i'r afael â'r materion hyn.	Mwy o waith i gael ei wneud o amgylch cefnogaeth gymunedol a chynhwysiant	
5	Nid yw'r unigolyn yn gallu cael neu brofi iechyd meddwl a/neu gorfforol da (COP)	Angen cefnogaeth i wella gwydnwch, lles emosiynol a hunan-barch. Angen rhwydweithiau cefnogaeth gan gyfoedion gyda gofalwyr eraill sy'n deall. Gwasanaethau a chymorth cwnsela gyda'u hanghenion iechyd eu hunain (PNA)	Iechyd  Awdurdod Lleol  Gwasanaethau cymorth.	Gwasanaethau Gofalwyr Ifanc a chwrsela mewn ysgolion. Rhai canolfannau hamdden yn cynnig gostyngiad.	Mwy o waith i gael ei wneud gyda CAMHS, gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol a MTon  Mapio wedi'i ddiweddarau o gyfleoedd hamdden presennol ar gyfer Gofalwyr Ifanc.  Cyfleoedd hyfforddiant ar-lein cyf: Gwybodaeth a	

Atodiad 6 Gofalwyr: Cynllun Gweithredu GGGIGC

Tud. 245

					gwydnwch iechyd meddwl. Beth arall sydd ar gael?	
6	Nid yw/ni fydd yr unigolyn yn gallu cael mynediad a chyfrannu at waith, hyfforddiant addysg, gwirfoddoli neu weithgareddau hamdden (COP)	Angen cefnogaeth gydag addysg a dysgu Mae oedolion ifanc sy'n ofalwyr yn colli neu'n methu 48 diwrnod o'r ysgol ar gyfartaledd bob blwyddyn (bron 5 wythnos) Gall hyn ymhlith ffactorau eraill gael effaith negyddol ar gyflawniad a chyrhaeddiad yn y dyfodol (PNA).	Awdurdod Lleol  Gwasanaethau addysg  Gwasanaethau cefnogi gofalwyr	Rhaglen YCiS  YCiS peilot mewn ysgolion cynradd o Gronfeydd Trosiannol	Potensial i weithio gyda Gwasanaeth Atgyfeirio Disgyblion a gwasanaeth Gofalwyr i ddal gofalwyr ifanc sy'n pontio  Gwneud cysylltiadau gydag Ymgynghorwyr Her.  Angen sefydlu cysylltiadau gyda Chyfarwyddwyr Addysg ac Arweinwyr Clwstwr i gyfrannu at y gwaith hwn.	
7	Diffyg ymwybyddiaeth a pharch gan rai gweithwyr proffesiynol, yn	Angen eiriolaeth, yn arbennig wrth ddelio gyda gweithwyr proffesiynol er	Awdurdod Lleol  Iechyd	Gwasanaethau Gofalwyr Ifanc  Cerdyn adnabod cenedlaethol yn cael	Eiriolaeth i Ofalwyr Ifanc fel gydag oedolion? Potensial i fapio	



Atodiad 6 Gofalwyr: Cynllun Gweithredu GGGIGC

Tud. 246

	enwedig mewn iechyd (PNA).	mwyn i'w llais gael ei glywed (PNA).		<p>ei gynnig gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>Gwasanaeth Eiriolaeth Plant (aneglur os yw hyn yn agored i Ofalwyr Ifanc)</p> <p>Hyfforddiant a dyrchafiad mewn ac i weithwyr proffesiynol iechyd gofal sylfaenol yn parhau.</p> <p>Rheoli meddyginiaethau</p> <p>Triongl Gofal</p>	<p>Dull triongl gofal ar gyfer Gofalwyr Ifanc o fewn Iechyd Meddwl</p> <p>Canolfan Addysg Fferyllol Cymru i Raddedigion</p>	
8	Gwybodaeth hygyrch hawdd i'w defnyddio, naill ai ar-lein neu un-i-un heb ddefnyddio jargon. (PNA)	Mynediad i wybodaeth, cyngor a chymorth priodol (PNA)	Pob partner	<p>Gwasanaethau Gofalwyr Ifanc</p> <p>Systemau IAA Awdurdod Lleol</p> <p>Cefnogaeth iechyd ac IAA mewnol pellach.</p>	<p>Swyddogaethau Cyffredinol 350 Deddf</p> <p>Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles. Yn ogystal, alinio i'r safonau o fewn Safonau ac Ansawdd Cenedlaethol. Fframwaith Sicrwydd Gwasanaethau</p>	

					<p>Gwybodaeth i Bobl Ifanc yn cael ei argymhell.  <a href="http://www.promo-cymru.org/resources-2/national-standards-quality-assuranceframework">http://www.promo-cymru.org/resources-2/national-standards-quality-assuranceframework</a></p> <p>Hybu gwybodaeth i Ofalwyr ifanc yn y gymuned ehangach.</p>	
9	<p>Problemau yn gwneud apwyntiadau MT a materion ehangach o fewn gwasanaethau gofal sylfaenol</p>	<p>Gwella adnabyddiaeth a dealltwriaeth o fewn gofal sylfaenol (PNA).</p>	<p>Iechyd</p> <p>Gwasanaethau cefnogi gofalwyr</p>	<p>Ymyraethau a dargedwyd a gwaith hwyluswyr MT yn parhau.</p> <p>Model newydd o hwyluswyr gofal sylfaenol yn cael ei asesu i weld os yw hyn yn cael effaith gwell.</p>	<p>Llywodraethu o amgylch gofal iechyd hygyrch a sut gallwn hyrwyddo o'r ongl hon.</p> <p>Ymgysylltu parhaus gydag arferion a reolir i ddangos y budd o ymgysylltu â Gofalwyr Ifanc.</p> <p>Ymgyrchoedd wedi eu targedu ar gyfer MTon,</p>	

Atodiad 6 Gofalwyr: Cynllun Gweithredu GGGIGC

					rhestr wirio pam ei bod yn fuddiol bod yn gynhwysol.	
10	Mae gofalwyr ifanc iawn, rhai o dan wyth oed, mewn risg arbennig a hefyd wedi eu heithrio o rai asesiadau gofalwyr ifanc a gwasanaethau yn y gorffennol ar sail na ddylai plentyn o dan wyth oed gael unrhyw gyfrifoldebau gofalu (PNA).	Mae comisiynwyr angen sicrhau bod yna gefnogaeth i'r bobl ifanc hynny boed drwy wasanaethau gofalwyr ifanc neu wasanaethau eraill i blant diamddiffyn (PNA).	Pob partner	Gweithio gydag ysgolion cynradd drwy raglen YCiS a gwasanaethau Gofalwyr Ifanc.  Gwasanaethau Gofalwyr Ifanc rhai yn gweithio o 5 oed.  Cymhwyster ar gyfer gofal a chefnogaeth Rhan 3.	Sefydlu cysylltiadau gwell ac wedi eu targedu gydag ymwelwyr ieched, nyrs ysgol a MTON.  Mapio'r gwahaniaethau o fewn gwasanaethau Gofalwyr Ifanc.  Cysylltu â meithrinfeydd preifat sydd heb gysylltu i ffrwd gwaith ehangach o bosibl.  Plentyn mewn angen/plentyn mewn perygl; ydy rolau gofalu yn cael eu dal os oes yna eisoes angen sylfaenol?	





**Grŵp Cyfeirio Gofalwyr Gogledd Cymru (GCG). Cynllun Gweithredu Ionawr 2018 – Ionawr 2019**

<i>Eitem</i>	<i>Cam Gweithredu</i>	<i>Cyfrifoldeb</i>	<i>Dyddiau Cau</i>	<i>Cynnydd</i>
<p>Catodi a sefydliadu'r gwasanaethau cynnal a gynigir i ofalwyr Hoffai gofalwyr gael cynnig pecyn pwrpasol o ofal ofleidiol wedi ei personoli.</p> <p>250</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Hysbysu'r Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol o astudiaethau achos ac esiamplau yn amlygu'r achos hwn.</li> <li>Parhau i herio hen ymddygiad o fewn Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd.</li> <li>Aelodau GCG i ddwyn materion i sylw'r GCG fel y gellir herio problemau er mwyn newid diwylliant a phrosesau.</li> </ul>	<p>PAWB</p> <p>PAWB</p>	<p>Yn parhau</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Hysbyswyd y Grŵp Arweinyddiaeth Rhanbarthol o'r mater hwn yng Ngweithdy'r GCG ar 16 Tachwedd 2017.</li> <li>Mae hyn hefyd wedi ei wneud gan weithwyr proffesiynol wrth iddynt ymwneud â'r Grŵp Arweinyddiaeth Rhanbarthol.</li> <li>Cafodd hyn ei ddal gan y Rheolwr Busnes Rhanbarthol ac wedi ei gyflwyno yn ei hadroddiad mapio.</li> <li>Cafodd hyn ei ddal o fewn ein casgliad o straeon gan ofalwyr er mwyn hysbysu'r Grŵp Arweinyddiaeth Rhanbarthol.</li> <li>Mae addysg ynglŷn â hyn yn mynd rhagddo o fewn y Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol.</li> <li>Gall aelodau GCG ddod â materion penodol i'r grŵp ac mae'r rhai y gellir mynd i'r afael â nhw yn cael eu cyflwyno i'r unigolyn priodol er mwyn iddynt ddelio â hwy.</li> </ul>
<p>Annog adnabod problemau ac ymyrraeth gynnar ar gyfer y gofalwr a'r person y gofalir</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Addysgu staff Iechyd</li> <li>Addysgu staff Awdurdodau Lleol.</li> <li>Datblygu pecyn o hyfforddiant ar gyfer holl staff Iechyd a gofal</li> </ul>	<p>Bwrdd Iechyd Awdurdodau Lleol PAWB</p>	<p>Yn parhau Yn parhau Mawrth 2018</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cynnal hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth yn barhaol. Hefyd yn edrych ar archwiliadau a chyfleoedd ar gyfer newid gweithdrefnol er mwyn gwella'r broses o adnabod gofalwyr a'r</li> </ul>

Eitem	Cam Gweithredu	Cyfrifoldeb	Dyddiau Cau	Cynnydd
<p>amdanynt, er mwyn tynnu'r pwysau oddi ar y gofalwr. Addysg a hyfforddiant o safon dda i weithwyr proffesiynol gofal iechyd ynglŷn â materion gofalwyr.</p> <p>Tud. 251</p>	<p>cymdeithasol er mwyn sicrhau cysondeb mewn ymwybyddiaeth a darpariaeth.</p>			<p>hyn mae staff yn ei wneud gyda'r wybodaeth hon unwaith y byddant wedi ei dal.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Hyfforddiant gorfodol i staff ALL ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 a hyfforddiant parhaol yn cael ei ddarparu ar draws y rhanbarth. Anghysondebau yn parhau ym mhob ALL.</li> <li>Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn datblygu pecyn hyfforddi Cenedlaethol at ddefnydd byrddau iechyd, Awdurdodau Lleol a gweithwyr gofal cymdeithasol. Cydweithiwyd â'r holl bartneriaid ac mae fersiwn ddrafft i fod i gael ei gylchredeg yn gynnar y flwyddyn nesaf.</li> </ul>
<p>Dileu rhwystrau daearyddol a rhwystrau rhannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau. Er mwyn meithrin diwylliant o bartneriaeth ac integreiddiad</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Hysbysu'r Grŵp Arweinyddiaeth Rhanbarthol o'r mater hwn.</li> <li>Hyrwyddo cysondeb gyda gwasanaethau ar draws ardaloedd daearyddol.</li> <li>Caniatáu Awdurdodau Lleol a sefydliadau'r trydydd sector i weithio'n agosach â'i gilydd.</li> </ul>	<p>PAWB</p> <p>PAWB</p>	<p>Yn parhau</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Hysbyswyd y Grŵp Arweinyddiaeth Rhanbarthol o'r mater hwn yng Ngweithdy GCG ar 16 Tachwedd 2017.</li> <li>Mae hyn hefyd wedi ei wneud gan weithwyr proffesiynol wrth iddynt ymwneud â'r Grŵp Arweinyddiaeth Rhanbarthol.</li> <li>Cafodd hyn ei ddal gan y Rheolwr Busnes Rhanbarthol ac wedi ei gyflwyno yn ei hadroddiad mapio.</li> <li>Argymhellodd y Grŵp Arweinyddiaeth Rhanbarthol bod cyllidebau gwasanaethau</li> </ul>

Eitem	Cam Gweithredu	Cyfrifoldeb	Dyddiau Cau	Cynnydd
				gofalwyr yn cael eu cronni. Bydd hyn yn rhannu'r cronfeydd sydd gennym ymhellach, ond bydd hefyd yn hyrwyddo gweithio traws ffiniol.
<p>Gwella'r profiad i ofalwyr o fewn y broses Gofal Iechyd Parhaol (GIP)</p> <p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Tud. 252</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>AD a DC i gwrdd Will Williams.</li> <li>AD i weithio'n agos gyda hyfforddwraig staff GIP Sian Kelbrick.</li> <li>AD/DC/WW i ymchwilio i ddal profiadau gofalwyr yn y broses Gofal Iechyd Parhaol a sut i wneud hyn.</li> <li>AD i gwrdd gydag ASNEW ynglŷn ag eiriolaeth yn y broses Gofal Iechyd Parhaol.</li> </ul>	<p>AD/DC Awdurdodau Lleol. GIP</p>	<p>Yn parhau</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>AC a DC wedi cwrdd WW ar 17 Hydref 2017 ac ymrwymwyd i weithio'n agosach â'i gilydd. Pwysig iawn sicrhau bod gofalwyr yn cael eu cefnogi a'u hysbysu drwy'r broses.</li> <li>Mae hyfforddiant staff yn dda iawn ac yn nodi yn amlwg beth mae gan ofalwyr hawl iddo a beth y dylid ei ddarparu iddynt. Cyfeillgar i ofalwyr, dydy hyn ddim bob amser yn digwydd yn ymarferol. Bydd AD yn cynorthwyo'r hyfforddwraig SK ac yn archwilio problemau gofalwyr mewn mwy o ddyfnder.</li> <li>DC a WW yn edrych ar sut i ddefnyddio arolwg gofalwyr er mwyn targedu arferion gwael ac amlygu arferion da yn y broses GIP.</li> <li>Cyfarfu AD â chynghorydd GIP arbenigol ar 12 Hydref o ASNEW, da iawn fodd bynnag dim ond ar gael mewn rhai ardaloedd ALL ac mae rhestrau aros hir. Eiriolaeth i'w hyrwyddo yn y broses GIP.</li> <li>AD wedi cwrdd â Sian Kelbrick Pennaeth Dros Dro Perfformiad a Chydymffurfedd GIP ar 9</li> </ul>

Eitem	Cam Gweithredu	Cyfrifoldeb	Dyddiau Cau	Cynnydd
Tud. 253				<p>Mawrth 2018, rwyf wedi cynghori ar eu strategaeth ac wedi awgrymu ffyrdd o wella cynhwysiant ac ymgysylltiad o ran gofalwyr. Rhoddodd AD gynllun gweithredu'r GCG i Sian gan adrodd y sylwadau a dderbyniwyd am y GIP yn ôl iddi. Mae Sian wedi cytuno i fabwysiadu arolwg gofalwyr allan er mwyn gyrru gwelliant ar gyfer gofalwyr a bydd hefyd yn dosbarthu Taflenni Gofalwyr BIPBC i bob unigolyn newydd sy'n derbyn gofal, a'u teuluoedd. Maent hefyd yn mynd i fabwysiadu eu llythyr gwahodd i fod yn fwy cynhwysol o ran gofalwyr ac i gynghori gofalwyr o'u hawliau a'u hawl i gael eiriolwr. Rhoddodd AD fap o wasanaethau gofalwyr a gwasanaethau eiriolaeth i GIP.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>•</li> </ul>
Hoffai gofalwyr allu cael mynediad at gyngor arbenigol a chymorth pan fydd materion yn codi o ran gofalwyr iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adrodd yn ôl i'r Grŵp Profiad Cleifion Iechyd Meddwl.</li> <li>• Argymhell gwasanaeth cymorth / gwasanaeth brysbennu ar gyfer teuluoedd a gofalwyr.</li> <li>• Annog egwyddorion Triongl Gofal drwy adran Iechyd Meddwl a fydd yn hyrwyddo cynnig cymorth a chynghori i ofalwyr ar y cyfle cyntaf</li> </ul>	AD BIPBC	Mawrth 2018	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae archwiliadau Triongl Gofal wedi eu cyflawni ym mhob uned ail sefydlu a sawl TIMC. Mae'r archwiliadau wedi eu dadansoddi ac yn y broses o adrodd yn ôl i bob uned gyda'r argymhellion a'r prosesau cymorth.</li> <li>• Bydd AD yn cychwyn crynhoi adroddiad o ganfyddiadau terfynol, datblygiadau hyd yma ac argymhellion trosfwaol ym mis Ionawr 2018.</li> </ul>



Eitem	Cam Gweithredu	Cyfrifoldeb	Dyddiau Cau	Cynnydd
	<p>posib gan atal yr angen am gyngor mewn argyfwng.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>AD i ysgrifennu a chyflwyno adroddiad i M/HPEG ar ganfyddiadau'r Triongl Gofal a chanfyddiadau GCG.</li> </ul>			<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithio'n agos gyda phartneriaid y trydydd sector a gofalwyr er mwyn gwella'r gwasanaethau ar gyfer gofalwyr lechyd Meddwl.</li> <li>(Mawrth 2018) Mae'r Unedau Ail Sefydlu bellach wedi mabwysiadu'r holl newidiadau a amlygwyd gan y Triongl Gofal ac mae llwybr gofalwyr wedi ei greu.</li> </ul>
Eitem	Cam Gweithredu	Cyfrifoldeb	Dyddiau Cau	Cynnydd
<p>Tud. 294 Cynlluniau Wythnos Gofalwyr Dydd Llun 11 Mehefin hyd at ddydd Sadwrn 17 Mehefin 2018</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Y grŵp i gynllunio gweithgareddau codi ymwybyddiaeth ar gyfer Wythnos Gofalwyr 2018</li> </ul>	Aelodau GCG	Mai 2018	<ul style="list-style-type: none"> <li></li> </ul>

<b>Cyfarfod:</b>	Cabinet
<b>Dyddiad:</b>	19 Chwefror 2019
<b>Aelod Cabinet:</b>	Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet dros Gyllid
<b>Pwnc:</b>	Cyllideb 2019/20
<b>Swyddog Cyswilt:</b>	Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid

---

## **CYLLIDEB 2019/20**

**Y Penderfyniad a geisir** (*yn amodol ar benderfyniad Cabinet ar ran 10 o'r adroddiad ac Atodiad 12*)

- (a)** Argymhell i'r Cyngor (yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2019) y dylid:
1. Sefydlu cyllideb o £247,797,900 ar gyfer 2019/20 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £176,551,790 a £71,246,110 o incwm o'r Dreth Cyngor gyda chynnydd o 5.5%.
  2. Ychwanegu £18,316,130 at y rhaglen gyfalaf i'w wario yn 2019/20 er mwyn sefydlu rhaglen gyfalaf gwerth £34,991,250 erbyn 2019/20 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.
- (b)** Cymeradwyo symud ymlaen i weithredu'r rhestr cynlluniau arbedion sy'n Atodiad 3, er mwyn sefydlu'r gyllideb argymhellir i'r Cyngor llawn.
- (c)** Nodi'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol a'r tafluniadau sy'n Atodiad 8, a mabwysiadu'r cynllun sy'n rhan 18-20 ohono.
- 

## **1. CYFLWYNIAD**

- 1.1 Rhaid i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2019/20, ac yn unol â'r drefn arferol, cyflwynir y gyllideb flynyddol o fewn cyd-destun strategaeth ariannol tymor canolig (Atodiad 8), gan sicrhau fod y gyllideb yn paratoui ar gyfer y sefyllfa i ddod, yn hytrach na chyfarch anghenion un flwyddyn yn unig.
- 1.2 Eleni, mae'r Cyngor yn elwa o'r cynllunio tymor canolig mewn blynyddoedd blaenorol, gan ein bod yn medru defnyddio rhai arbedion cynlluniwyd yn flaenorol i gynorthwyo i fantoli'r gyllideb. Er hynny, rhaid cymryd rhai penderfyniadau anodd ar gyfuniad o gyflawni arbedion ychwanegol a chodi'r Dreth 5.5%.
- 1.3 Argymhellir codi'r Dreth 5.5% yn 2019/20 er mwyn amddiffyn gwasanaethau i bobl Gwynedd, gan fyddai gweithredu'r cynlluniau arbedion eraill a ystyriwyd wedi bod yn annerbyniol oherwydd yr effaith ar bobl Gwynedd.
- 1.4 Wedi ymgynghori gyda'r cyhoedd, ac wedi trafod mewn dau gyfres o weithdai yn Rhagfyr/Ionawr, a gyda'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (14 Chwefror), mater i'r Cabinet yw ystyried y strategaeth ariannol 2019/20 – 2021/22, wrth argymhell cyllideb briodol i'r Cyngor ar gyfer 2019/20.

- 1.5 Erbyn 2019/20, byddai angen cynyddu ein gwariant o £10.37m er mwyn "sefyll yn llonydd" (mae manylion yn rhan 3 isod), gan gynnwys £2.5m i gwrdd â phwysau ar gyllidebau'r gwasanaethau (mae manylion o'r 'bidiau' unigol yn Atodiad 2).
- 1.6 Er mwyn cyfarch y bwlch ariannol, bydd raid priodoli £5.4m o arbedion (mae manylion yn rhan 4 isod a'r cynlluniau unigol wedi'u rhestru yn Atodiad 3) ac wedyn rhaid cynyddu'r Dreth Cyngor 5.5% (mae manylion yn rhan 5 isod, ac yn Atodiad 6).
- 1.7 Mae adolygiad trylwyr o'r Strategaeth Asedau ar droed, ond am y tro yma rydym wedi sefydlu rhaglen ar sail isafswm ar gyfer 2019/20, yn unol â'r hyn a nodir yn Atodiad 4, fydd yn golygu ychwanegu £18,316,130 at raglen gyfalaf 2019/20.
- 1.8 Mae'r gwaith modelu Strategaeth Ariannol Tymor Canolig sy'n Atodiad 8 yn dangos, oni bai fod rhywbeth sylfaenol yn newid yng ngweithrediadau'r Llywodraeth, ei fod yn debygol bydd angen trefniadau hyblyg er mwyn gallu gwireddu mwy o arbedion mewn blynyddoedd dilynol. I'r perwyl hyn, argymhellir y dylai'r Cabinet ystyried strategaeth arbedion i'r dyfodol, tra'n pwysu ar Lywodraeth Cymru i ariannu awdurdodau lleol yn briodol.
- 1.9 Mae cyllideb 2019/20 yn ceisio gwarchod y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu i bobl Gwynedd, ac yn argymhell cynnydd 5.5% yn y Dreth Cyngor er mwyn cyflawni'r amcan hwnnw eleni. Wrth sicrhau arbedion, bwriedir eu cyflawni yn y lleoedd hynny fydd yn cael yr ardrawiad lleiaf ar ein pobl, ond gwelir y bydd hynny yn fwy heriol erbyn 2020/21 a tu hwnt.
- 1.10 Mater i'r Cyngor llawn yw ystyried y gyllideb a gosod y Dreth Cyngor erbyn 2019/20 ar sail y materion a nodir yn yr adroddiad dilynol. Mae'r adroddiad manwl yma'n nodi'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar y gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2019/20, ac yn amlinellu'r prif newidiadau ers 2018/19.

## 2. GRANT LLYWODRAETH CYMRU

- 2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r setliad i ariannu llywodraeth leol ar gyfer 2019/20. Nodir manylion fel y'i cyhoeddwyd yn swyddogol gan Lywodraeth Cymru yn y tabl isod, ynghyd â'r gwir ffigyrau "cash":

<b>Grant Cynnal Refeniw 2018/19 – 2019/20</b>	<b>Cyfanswm Awdurdodau Cymru £</b>	<b>Cyngor Gwynedd swyddogol £</b>	<b>Cyngor Gwynedd "cash" £</b>
Grant y Llywodraeth 2018/19 (heb addasu)	4,214,066,930	176,376,410	175,127,330
Grant y Llywodraeth 2018/19 (wedi addasu)	4,227,135,930	176,926,640	175,677,570
Grant y Llywodraeth 2019/20	4,237,431,000	176,551,790	176,551,790
Cynnydd £	+10,295,070	-374,850	+874,220
Cynnydd %	+0.2%	-0.2%	+0.5%

Mae manylion pellach ar gael yma –

<https://gov.wales/topics/localgovernment/finandfunding/settlement/lg-settlement-2019-20/final-settlement-2019-20/?skip=1&lang=cy>

- 2.2 Fe welir o ffigyrau swyddogol Llywodraeth Cymru sy'n y tabl uchod yn dybiannol fod Cyngor Gwynedd yn derbyn lleihad grant o £375k erbyn y flwyddyn nesaf (ar ôl addasu'r ffigwr 2018/19 i adlewyrchu'r trosglwyddiadau i mewn i'r setliad), sy'n leihad o -0.2%, gyda chyfartaledd y cynnydd ar draws Cymru yn +0.2%.
- 2.3 Mae nifer o ffactorau yn bwydo'r fformiwla dyrannu grant llywodraeth leol, megis y nifer disgyblion, nifer hawl wyr cymorth incwm, ayb, ac nid yw'r ffactorau rheiny wedi mynd o'n plaid ni eleni.
- 2.4 Er hynny, yn groes i'r cwtogiad £374,850 sy'n ffigyrau swyddogol "tebyg wrth debyg" Llywodraeth Cymru (uchod), derbyniwyd cynnydd go sylweddol o £1,249,070 oherwydd addasiad sylfaen trethiannol sy'n ail-ddosbarthu grant rhwng awdurdodau lleol Cymru. Roedd hyn oherwydd lleihad mewn eiddo treth cyngor yng Ngwynedd (gwneud i fyny am effaith mudo 'tai gwyliau' i'r rhestr treth busnes), o'i gymharu â chynnydd cyffredinol arferol mewn eiddo treth cyngor ar draws awdurdodau lleol eraill Cymru. Golygai hynny fod y symudiad grant yn nhermau "cash" yn gynnydd net o £874,220 sy'n +0.5%.

### 3. GWARIANT REFENIW'R CYNGOR - 2019/20

- 3.1 Nodir yn y tabl isod y cynnydd yn y gwariant fydd ei angen er mwyn "sefyll yn llonydd" yn 2019/20.

#### Gofynion Gwario Ychwanegol

	£	£
Cyllideb Sylfaenol		242,862,930
Chwyddiant Cyflogau Staff	5,260,930	
Pensiynau Athrawon	1,632,340	
Chwyddiant Arall (cyflenwyr)	2,253,830	
Ardollau	372,860	
Demograffi	878,420	
Trosglwyddiadau i'r Setliad	546,640	
Bidiau - Pwysau ar Wasanaethau	2,513,390	
Addasiadau Cyllideb Amrywiol	360,060	
Neilltuo cynnyrch ychwanegol Treth Cyngor y Premiwm i Gronfa	669,560	
Cost Benthycu / Llog ar falansau	-149,270	
Addasiadau Incwm Gwasanaethau	-100,640	
Grant Pensiynau Athrawon	-1,632,340	
Grantiau Penodol	-2,000,000	
Cyfanswm net yr ychwanegiadau		<u>10,370,000</u>
Cyfanswm gofynion gwario 2019/20 cyn arbedion		<u>253,232,930</u>

### 3.2 **Cyllideb Sylfaenol 2018/19**

Er mai £243m yw gwariant net 2018/19, mae'n bwysig nodi fod gwir wariant y Cyngor yn £403m oherwydd ein bod yn derbyn llu o grantiau penodol gwerth £99m ac yn codi bron i £61m am wasanaethau yr ydym yn eu darparu.

### 3.3 **Chwyddiant Cyflogau £5.26m**

Darperir ar gyfer cynnydd tâl 2% i staff y Cyngor, yn unol â chytundeb cenedlaethol, gyda % sylweddol fwy i rai staff ar raddfeydd isaf gwerth £1.6m i gyfarch gofynion 'cyflog byw' cenedlaethol. Hefyd, darperir £1.4m ar gyfer cynnydd tâl hyd at 3.5% i athrawon ysgolion Gwynedd.

### 3.4 **Pensiynau Athrawon £1.63m**

Mae Llywodraeth San Steffan wedi codi cyfradd cyfraniad pensiwn cyflogwyr i'r Cynllun Pensiwn Athrawon o 16.5% i 23.6% o Fedi 2020, ac mae gwerth 7% o gost cyflogau athrawon ysgolion Gwynedd am 7 mis yn £1.63m. Mae'r 'Department for Education' yn ymgynghori ynglŷn ag ariannu'r gost yn llawn yn ysgolion Lloegr, ac ymhen hir a hwyr disgwylir derbyn grant penodol i ariannu'r gost yn ysgolion Cymru.

### 3.5 **Chwyddiant arall £2.25m**

Swm 'net' sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer effaith y 'cyflog byw' (isafswm tâl) ar gostau a ffioedd ein cyflenwyr preifat, ynghyd â chynnydd chwyddiant sylweddol ar gyllidebau tanwydd ac ynni.

### 3.6 **Ardollau £373k**

Yn Rhagfyr 2018, penderfynodd Awdurdod Tân Gogledd Cymru godi'r ardoll 5.2% ar yr awdurdodau cyfansoddol, sy'n cynyddu'r gofyn ar Cyngor Gwynedd o £313k, tra bu cynnydd £10k mewn ardoll draenio arbennig i 'Cyfoeth Naturiol Cymru', a chynnydd £50k yn ardoll Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

### 3.7 **Demograffi £878k**

Cyfanswm sy'n adlewyrchu +£418k oherwydd cynnydd net mewn nifer disgyblion yn yr ysgolion, +£471k i'r Adran Oedolion oherwydd cynnydd anorfod mewn costau gofalu am boblogaeth sy'n heneiddio, a +£11k oherwydd cynnydd mewn plant sy'n derbyn gofal gan yr Adran Plant a Theuluoedd.

Mae'r ffigwr net o +£418k i ysgolion yn cuddio sefyllfa wahanol mewn gwahanol sectorau, sef uwchradd +£617k, cynradd -£260k ac arbennig +£61k.

### 3.8 **Trosglwyddiadau i'r setliad £546k**

Ar wahân i adnoddau ar gyfer y gytundeb tâl athrawon (pwysau sydd wedi'i gynnwys o fewn 'Chwyddiant Cyflogau' uchod), mae dau gyfrifoldeb yn trosglwyddo i mewn i setliad grant Llywodraeth Cymru i'r Cyngor erbyn 2019/20. Bydd y cyllidebau sy'n trosglwyddo i gyllideb y Cyngor, ynghyd â'r cyfrifoldebau perthnasol, yn cael eu priodoli i'r adrannau perthnasol.

Felly, bydd cynnydd £312k yng nghyllideb yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i adlewyrchu cyfrifoldebau newydd trothwy cyfalaf gofal preswyl.

Hefyd, bydd cynnydd £234k yng nghyllideb yr Adran Addysg i adlewyrchu trosglwyddiad mwy o brydau ysgol am ddim yng nghyd-destun gweithredu'r Credyd Cynhwysol.

### 3.9 **Pwysau ar Wasanaethau £2.51m**

'Bidiau' anorfod – gweler Atodiad 2 am fanylion pob 'bid' unigol.

Argymhellir cymeradwyo ceisiadau ("bidiau") gwerth £2.51m gan adrannau'r Cyngor am adnoddau parhaol ychwanegol i gwrdd â phwysau anorfod ar eu gwasanaethau.

Hefyd, argymhellir cymeradwyo bid un-tro gwerth £38,280 o'r Gronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol.

Cofier fod nifer o brif flaenoriaethau'r Cyngor (materion datblygol er mwyn gwneud gwahaniaeth) yn cael eu hariannu a'u comisiynu ar wahân i hyn (fesul un drwy benderfyniadau'r Cabinet), drwy Gynllun y Cyngor. Beth gyflwynir drwy'r "bidiau" yma yw ymrwymadau anorfod mae'r gwasanaethau'n wynebu rŵan.

Mae pob Adran yn cael yr hawl i nodi os oes yna unrhyw wariant y mae'n rhaid i'r Cyngor ei gyflawni os yw am sicrhau parhad gwasanaeth sylfaenol. Nid ar gyfer datblygiadau newydd y mae'r pennawd, ond yn hytrach ar gyfer parhad gwasanaethau sylfaenol presennol.

Mae elfen o'r ceisiadau yma wrth gwrs yn amlygu eu hunain wrth i ni adolygu patrymau gwariant eleni. Mae eraill yn ganlyniad i faterion sy'n codi lle mae angen gwario er mwyn gwarchod deilliannau i'r cyhoedd, neu i gwrdd â gofynion statudol. Mae yna elfen hefyd o lywodraeth ganolog yn creu pwysau a disgwyliadau, wedyn ninnau'n gorfod dygymod gyda'r sgil effeithiau.

Mae'r eitemau cyflwynir yma yn Atodiad 2 wedi cael eu herio'n drylwyr gan y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Aelod Cabinet dros Gyllid cyn eu hargymell i'w cymeradwyo gan y Cabinet. Ymhellach, trafodwyd yr holl 'bidiau' yma pryd y'i cyflwynwyd ar 'sleids' i'r gyfres o 'Weithdai Cyllideb' ar 4-7 Rhagfyr 2018, lle roedd aelodau'r Cyngor yn cydsynio fod y gwariant yn anorfod.

### 3.10 **Addasiadau Cyllideb Amrywiol £360k**

Cyfanswm sy'n adlewyrchu nifer sylweddol o addasiadau mewn darpariaethau ar draws y Cyngor, ond yn bennaf neilltuo cyllideb wrth gefn ar gyfer cyfarch pwysau gwario ychwanegol posibl yn ystod 2019/20 (yn arbennig ym maes gofal plant) ac hefyd ar gyfer cyfarch sefyllfaoedd anodd gydag incwm yn ystod 2019/20 (tebyg i benderfyniad pris cinio ysgol Medi 2018).

### 3.11 **Premiwm Treth Cyngor £670k**

Argymhellir neilltuo cynnyrch Treth Cyngor y Premiwm yn 2019/20 i gronfa benodol i'w ddefnyddio er mwyn ariannu Strategaeth Tai y Cyngor. Roedd £2.03m wedi'i neilltuo yng nghyllideb gwreiddiol 2018/19, felly bydd yr ychwanegiad £670k yn golygu cyfanswm o £2.7m erbyn 2019/20.

Rhoddir sylw penodol i hyn yn Atodiad 6.

### 3.12 **Costau Benthycia a Llog ar Falansau -£149k**

Rhagamcan o ostyngiad mewn llog taladwy ar fenthyciadau yn 2019/20, wrth i hen fenthyciadau hir-dymor ddirwyn i ben.

### 3.13 **Addasu Cyllidebau Incwm Gwasanaethau -£101k**

Swm 'net' wedi addasu targed incwm gwasanaethau, yn cynnwys -£198k Oedolion (Llywodraeth Cymru wedi codi cap ffioedd di-breswyl wythnosol o £70 i £80), yr Adran Addysg +£66k (cost rhewi pris cinio ysgol ym Medi 2018), Ymgynghoriaeth -£100k

(ffioedd ar staff ychwanegol), Cyllid +£97k (£55k oherwydd costau banc newydd a £42k o addasiad sybsidi budd-dal), Economi a Chymuned +£30k (yn bennaf fffioedd Morwrol), ac Amgylchedd +£5k (+£40k fffioedd cynllunio, -£20k gofal stryd, a -£15k traffig a threfniadau statudol).

### 3.14 **Grantiau Penodol -£2m**

Derbynnir nifer sylweddol o grantiau penodol lle disgwylir yn aml i'r Cyngor ymrwymo i wariant penodol ychwanegol. Mewn rhai achosion, gellid defnyddio grantiau penodol i ariannu pwysau ar wariant anorfod.

Crybwyllwyd hyn eisoes yn 3.4 uchod lle disgwylir grant penodol er mwyn ariannu'r gost ychwanegol pensiynau athrawon. Hefyd, disgwylir grant £0.3m ar gyfer ariannu chwyddiant tâl athrawon yn 2019/20, grant pwysau gofal £1.2m gellid defnyddio er mwyn ariannu'r demograffi a 'bidiau' Oedolion a Plant, ynghyd â £0.5m i atal plant rhag cael eu derbyn i ofal gellid ei ddefnyddio i ariannu rhai bidiau ataliol yr Adran Plant.

## 4. **ARBEDION**

4.1 Roedd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a gyflwynwyd gyda chyllideb 2018/19 i'r Cyngor llawn ar yr 8fed o Fawrth 2018 yn darogan bwlch ariannu rhwng £11m a £20m dros y 3 blynedd 2018/19 – 2020/21. Felly, penderfynwyd cychwyn yn gynnar ar y dasg heriol i adnabod arbedion sylweddol ar gyfer 2019/20 a tu hwnt.

4.2 Roedd hynny yn golygu fod y Cabinet yn gosod targedau arbedion heriol i'r adrannau, ac yn ystyried dros haf 2018 yr holl gynlluniau 'posib' a gyflwynwyd gan benaethiaid adrannau. Cyflawnodd aelodau'r Cabinet waith anodd o ddethol y cynlluniau cyflwynir yma'n Atodiad 3, a diystyrro opsiynau lle fyddai'r effaith ar bobl Gwynedd yn annerbyniol.

4.3 Wedi adnabod bwlch ariannu tebygol 2019/20 yn sgîl 'setliad' dangosol siomedig Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol ym mis Hydref 2018, eglurwyd sefyllfa'r gyllideb i aelodau'r Cyngor mewn cyfres o 'Weithdai Cyllideb' ar 4–7 Rhagfyr 2018.

4.4 Wedi gwrando ar adborth aelodau yn y 'Gweithdai Cyllideb', cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid adroddiad am arbedion arfaethedig i gyfarfod y Cabinet ar 18 Rhagfyr 2018, yn nodi fod y Cyngor yn wynebu bwlch ariannu sylweddol erbyn 2019/20 ac yn cyflwyno rhaglen o arbedion ar gyfer cyfarch y bwlch yn rhannol, gyda'r cynnydd mewn Treth Cyngor yn gorfod cyfarch y bwlch gweddilliol. Penderfynodd y Cabinet fabwysiadu'r cynlluniau arbedion a gyflwynwyd mewn 6 rhestr, yn amodol ar ganlyniadau'r ymgynghoriad, fel rhai bydd rhaid i'r Cyngor gyflawni. Mae manylion y cofnodion perthnasol a'r rhestrau gwreiddiol yma –

<https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/mgAi.aspx?ID=12357#mgDocuments&LLL=1>

4.5 Cynhaliodd y Cabinet ymgynghoriad gyda'r cyhoedd yn ystod mis Ionawr 2019 ac mae'r prif negeseuon wedi'u cyhoeddi ar lein. Cyflwynir y casgliadau rheiny yma hefyd fel Atodiad 11, a rhaid i'r Cabinet dalu sylw priodol i ganlyniadau'r ymgynghoriad wrth benderfynu ar weithredu'r cynlluniau arbedion. Ystyriwyd gwrthwynebiad y cyhoedd i rai cynlluniau penodol yn y Gweithdy Aelodau ar 5 Chwefror, ac mae rhai o'r rheiny wedi'u dethol yn Atodiad 12.

- 4.6 Hefyd, cafwyd 6 'Gweithdy Arbedion' gydag aelodau'r Cyngor ar 18–28 Ionawr i glywed os roedd awydd gan aelodau i newid trywydd, a cafwyd cyfarfod torfol anffurfiol ar 5 Chwefror er mwyn sicrhau cydsyniad aelodau ar y ffordd ymlaen.
- 4.7 Felly, yn amodol ar benderfyniad Cabinet ar ran 10 o'r adroddiad ac Atodiad 12, pe bai'r Cyngor yn cymeradwyo gweithredu'r cynlluniau arfaethedig cyflwynir yn Atodiad 3, byddwn yn cynhaeafu gwerth £2.45m o arbedion pellach yn 2019/20.
- 4.8 Hefyd, er mwyn dygymod gyda'r bwloch ariannu, gellid cynhaeafu £2.48m o arbedion 'Her Gwynedd' sydd eisoes wedi'u cymeradwyo ar gyfer 2019/20.
- 4.9 Yn ogystal, gofynnwyd i'r Prif Weithredwr fwrw mlaen gyda'i syniadau i ddarganfod £0.5m o arbedion effeithlonrwydd pellach er mwyn lleihau'r bwloch ariannu.

<b>Arbedion i ddygymod gyda Bwlch Ariannu 2019/20</b>	
	£
Arbedion Cymeradwy Her Gwynedd	2,483,100
Cynlluniau Arbedion Arfaethedig	2,451,930
Arbedion Effeithlonrwydd Pellach	<u>500,000</u>
Cyfanswm yr Arbedion i gau'r Bwlch	<u>5,435,030</u>

- 4.10 O ganlyniad, byddai cyfanswm o £5.4m o arbedion i'w ddefnyddio i leihau'r bwloch ariannu. Yn amlwg, byddai penderfyniad amgen ar y cynlluniau sy'n Atodiad 12 yn golygu cyfanswm llai, fel nodir yn rhan 10 o'r adroddiad.
- 4.11 Mae'r holl gynlluniau arbedion arfaethedig sydd angen eu cymeradwyo wedi'u cyflwyno yma'n Atodiad 3 fel y'i cyflwynwyd i'r Cabinet 18/12/18, ond gyda manylion / lincs asesiadau ardrawiad wedi'u diweddarau.

## **5. BWLCH ARIANNU 2019/20, A'R DRETH CYNGOR**

- 5.1 Fe welir o ran 3 uchod fod anghenion gwario'r Cyngor (cyn tynnu arbedion) ar gyfer 2019/20 yn £253.2m. Nodwyd yn rhan 2 uchod fod y grant oddi wrth Lywodraeth Cymru am fod yn £176.6m.
- 5.2 Fel eglurwyd yn rhan 3 uchod, mae cyfanswm o £5.4m o arbedion i'w ddefnyddio i leihau'r bwloch ariannu.

<b>Sefydlu Cyllideb 2019/20</b>	
	£
Cyllideb Sylfaenol 2018/19	242,862,930
Gofynion Gwario Ychwanegol	<u>10,370,000</u>
Gofynion Gwario 2019/20 cyn Arbedion	253,232,930
llai Incwm Grant Refeniw Llywodraeth Cymru	<b>-176,551,790</b>
llai Cyfanswm yr Arbedion i gau'r Bwlch	<b><u>-5,435,030</u></b>
Bwlch gweddilliol o'r Dreth Cyngor	<u>71,246,110</u>



- 5.3 Golygai hynny fod bwlch gweddilliol o £71.25m, ac argymhellir cyfarch y bwlch hwnnw drwy'r Dreth Cyngor. Bydd angen codi'r Dreth 5.5% er mwyn cynhyrchu incwm digonol. Eto, pe bai penderfyniad amgen ar y cynlluniau arbedion sy'n Atodiad 12, yna byddai'r bwlch i'w ariannu o'r Dreth yn fwy, fel nodir yn rhan 10 isod.
- 5.4 Mae gwybodaeth gefndirol a'r cyd-destun ar gyfer gosod lefel y Dreth (ynghyd â manylion y Premiwm ar ail gartrefi a tai gwag) wedi'i gyflwyno yn Atodiad 6.

## 6. CASGLIADAU

- 6.1 Mae'r adroddiad yma a'r atodiadau yn gosod allan y ffactorau y dylid eu hystyried wrth sefydlu cyllideb 2019/20 ac yn cadarnhau rhaid parhau gyda'r strategaeth arbedion ar gyfer dygymod gyda'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cyngor.

### CYLLIDEB 2019/20

- 6.2 Yn amodol ar benderfyniad Cabinet ar Atodiad 12, argymhellir cyfarch angen gwario refeniw o £247.8m, wedi ychwanegu £10.4m (sy'n cynnwys darparu £2.5m ar gyfer pwysau ar wasanaethau).
- 6.3 Ar ôl derbyn grant gan Lywodraeth Cymru o £176.6m a dibynnu ar £5.4m o arbedion, bydd angen i lefel y Dreth Cyngor gynyddu 5.5% i gynhyrchu £71.25m o incwm er mwyn cau bwlch ariannu 2019/20.

<b>Cyllideb gytbwys ar gyfer 2019/2020</b>	
	£
Gofynion Gwario 2019/20 cyn Arbedion	253,232,930
Cyfanswm Arbedion 2019/20	<u>-5,435,030</u>
Cyllideb 2019/20	<u>247,797,900</u>
<b>I'w ariannu drwy -</b>	
Incwm Grant	176,551,790
Treth Cyngor (cynnyrch ar ôl codi 5.5%)	<u>71,246,110</u>
Cyllideb 2019/20	<u>247,797,900</u>

- 6.4 Bydd hyn yn golygu gosod cyllideb net o £247,797,900. Rhoddir ddadansoddiad o'r gyllideb fesul gwasanaeth yn Atodiad 1. Unwaith eto, pe bai penderfyniad amgen ar y cynlluniau arbedion sy'n Atodiad 12, yna byddai'r ffigwr cyllideb yn fwy, fel nodir yn rhan 10 isod.

## 7. CYFALAF

- 7.1 Bwriedir sefydlu strategaeth asedau newydd 2019/20 – 2028/29 a'i gyflwyno i'w gymeradwyo'n fuan. Mae manylion yn Atodiad 4.
- 7.2 Am y tro, argymhellir ychwanegu £18,316,130 at y rhaglen gyfalaf i'w wario yn 2019/20, er mwyn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £34,991,250 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4.

## **8. STRATEGAETH TYMOR HIRACH**

- 8.1 Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolog diwygiedig wedi'i gynnwys yma'n Atodiad 8. Eleni, mae mwy o ansicrwydd am y dyfodol oherwydd Adolygiad Gwariant 2019 Llywodraeth San Steffan.
- 8.2 Ar sail ein rhagdybiaethau, mae'n debygol bydd angen adnabod ychwaneg o arbedion erbyn 2020/21 a 2021/22, a gall hynny fod cymaint â £10m dros y ddwy flynedd. Os bydd y senario canolog i'n tafluniadau ni yn digwydd, byddai angen £5.6m mwy o arbedion dros y ddwy flynedd 2020/21 a 2021/22, ond bydd elfen o gynnyrch arbedion 2019/20 (hyd at £4.2m) ar gael i achub y blaen wrth gyfarch rhan o'r arbedion fydd angen.
- 8.3 Felly, bydd angen ystyried strategaeth arbedion i'r dyfodol, tra'n pwysu ar Lywodraeth Cymru i ariannu awdurdodau lleol yn briodol.

## **9. YSTYRIAETHAU ERAILL AC AMRYWIOL ASESIAU**

- 9.1 Ystyrir fod y lefel gyfredol o falansau cyffredinol, sef £6m, yn briodol ac nid yw'r gyllideb yma'n argymhell defnydd o'r balansau sydd yno ar gyfer llif arian ymarferol a gwariant annisgwyl. Cyflwynir wybodaeth manwl am y balansau a chronfeydd wrth gefn yn Atodiad 7.
- 9.2 Mae Atodiad 5 yn egluro sefyllfa teg iawn cyllideb ysgolion Gwynedd yn fanwl.
- 9.3 Wrth benderfynu ar gyllideb, ac yn arbennig ynglŷn â chynlluniau arbedion, rhaid i'r Cabinet a'r Cyngor ystyried effaith eu penderfyniadau o safbwynt cydraddoldeb yn unol â'r dyletswyddau statudol sydd ar y Cyngor drwy Ddeddf Cydraddoldeb 2010. O ganlyniad, mae asesiadau manwl wedi eu paratoi ar gyfer y cynlluniau arbedion unigol ac hefyd ar gyfer y Gyllideb. Mae Atodiad 9 yn ymdrin yn benodol â'r ddyletswydd, ac mae canlyniadau'r asesiadau yn cael eu crynhoi yn Atodiad 3. Mae'r asesiadau cyflawn ar gael fel dogfennau cefndir drwy ddilyn y lincs yn Atodiad 3.
- 9.4 Mae'r Cyngor yn gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn seiliedig ac wedi eu datblygu yn unol â'r ddyletswydd statudol sydd ar y Cyngor dan Adran 3 i ymgymryd â datblygiad cynaliadwy yn ei holl weithgareddau. Rhoddir gwybodaeth fanylach am y Ddeddf Llesiant a chasgliadau perthnasol yn Atodiad 10.
- 9.5 Mae rhaid i'r swyddog cyllid statudol fynegi barn am gadernid yr amcangyfrifon. Cyflwynir asesiad o risgiau a chadarnhad priodol yn Atodiad 13.

## 10. PENDERFYNIADAU AMGEN

- 10.1 Ar 5 Chwefror 2019 mewn Gweithdy Mawr Arbedion, detholwyd 5 cynllun arbediad am sylw pellach. Mae'r rhain wedi'u gosod allan yn Atodiad 12.
- 10.2 Pe bai penderfyniad i beidio gweithredu'r 5 cynllun yma, byddai'n newid y ffigyrau yn yr argymhellion uchod fel a ganlyn –

2019/20	Adroddiad Uchod	Addasiad	Wedi Newid
Cyllideb	247,797,900	+71,720	247,869,620
Incwm o'r Dreth	71,246,110	+71,720	71,317,830
Cyfanswm Arbedion	5,435,030	-71,720	5,363,310
Cynnydd Treth	5.5%	0.1%	5.6%

---

### Barn yr aelod lleol

Dim yn fater lleol

---

### Barn y swyddogion statudol

#### Swyddog Monitro:

Mae'n amlwg fod nifer o ystyriaethau i'r Cabinet roi sylw iddynt wrth ffurfio argymhelliad i'r Cyngor ar gyfer y Gyllideb ond hefyd wrth benderfynu ar y rhaglen o arbedion i gyfarch y bwlc ariannol. Darperir gwybodaeth fanwl yn yr adroddiad ynglŷn â'r ystyriaethau perthnasol. Mae'n bwysig fod y Cabinet yn rhoi sylw priodol i'r oll o'r materion yma wrth ddod i gasgliad. Adroddir mewn manylder hefyd ar ganlyniadau'r ymarfer ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd a rhaid rhoi sylw priodol i'r ymatebion a dderbyniwyd wrth ddod i gasgliad. Gallaf roi arweiniad pellach ar unrhyw agwedd yn y cyfarfod.

#### Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys. Wedi ystyried yr holl risgiau amlinellir yn Atodiad 13 i'r adroddiad, a'r camau lliniaru, rwyf o'r farn fod Cyllideb y Cyngor am 2019/20 yn gadarn, yn ddigonol, ac yn gyraeddadwy.

## **ATODIADAU**

- 1 Crynodeb Cyllideb
- 2 Bidiau
- 3 Arbedion
- 4 Cyfalaf
- 5 Ymdrin â'r Gyllideb Ysgolion yn 2019/20
- 6 Treth Cyngor
- 7 Balansau
- 8 Strategaeth Ariannol Tymor Canolig
- 9 Aseiad Effaith o Safbwynt Cydraddoldeb
- 10 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- 11 Canlyniadau'r Ymgynghoriad
- 12 Penderfyniadau Amgen
- 13 Cadernid yr Amcangyfrifon

ATODIAD 1 - CRYNODEB CYLLIDEB

CYLLIDEBAU ARFAETHDIG 2019/20 FESUL GWASANAETH											
	Cyllideb	Trosglwyddiad	Chwyddiant	Chwyddiant	Demograffi	Addasiadau	Pwysau ar	Addasu	Defnyddio	Arbedion	Cyllideb
	Sylfaenol	i'r Setliad	Cyflogau a	Arall		Cyllideb	Wasanaethau	Cyllidebau	Grantiau	a	Sylfaenol
	2018/19		Phensiynau			Armywiol		Incwm	Penodol	Thoriadau	2019/20
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>ADRANNAU</b>											
Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	2,046		28	19		0				(201)	1,892
Cefnogaeth Gorfforaethol	7,741		150	42		(9)				(363)	7,561
Cyllid	6,613		157	25		(15)	98	97		(559)	6,416
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	23,790		532	367		89	36			(260)	24,554
Amgylchedd	5,130		184	3		34	(25)	5		(367)	4,964
Ymgynghoriaeth Gwynedd	229		91	(98)		(15)		(100)		(127)	(20)
Addysg Canolog	14,431	234	250	182		265	93			(104)	15,351
Cyllideb Ysgolion	70,043	0	3,745	264	418	(257)	(68)	66	(1,932)	(248)	72,031
Economi a Chymuned	4,165		298	(105)		(434)		30		(338)	3,616
Oedolion, Iechyd a Llesiant	50,426	312	1,166	976	471	245	1,180	(199)	(1,200)	(1,465)	51,912
Plant a Chefnogi Theuluoedd	13,842		285	124	(11)	98	631		(500)	(293)	14,176
<b>Cyfanswm Adrannau</b>	<b>198,456</b>	<b>546</b>	<b>6,886</b>	<b>1,799</b>	<b>878</b>	<b>1</b>	<b>1,945</b>	<b>(101)</b>	<b>(3,632)</b>	<b>(4,325)</b>	<b>202,453</b>
Materion Corfforaethol a chyfalaf	44,942		6	453		600				(1,111)	44,890
<b>CYFANSWM GROS</b>	<b>243,398</b>	<b>546</b>	<b>6,892</b>	<b>2,252</b>	<b>878</b>	<b>601</b>	<b>1,945</b>	<b>(101)</b>	<b>(3,632)</b>	<b>(5,436)</b>	<b>247,343</b>
Llai Praesept Cynghorau Cymuned	(2,207)										(2,207)
<b>CYFANSWM GWARIANT GROS</b>	<b>241,191</b>	<b>546</b>	<b>6,892</b>	<b>2,252</b>	<b>878</b>	<b>601</b>	<b>1,945</b>	<b>(101)</b>	<b>(3,632)</b>	<b>(5,436)</b>	<b>245,136</b>
Ariannwyd Drwy: Balansau a Reserfau Penodol	1,672					420	570			0	2,662
<b>CYFANSWM GWARIANT NET =</b>	<b>242,863</b>	<b>546</b>	<b>6,892</b>	<b>2,252</b>	<b>878</b>	<b>1,021</b>	<b>2,515</b>	<b>(101)</b>	<b>(3,632)</b>	<b>(5,436)</b>	<b>247,798</b>
<b>Ariannwyd Drwy:-</b>											
Grant	175,127										176,552
Treth Cyngor	67,736										71,246
<b>Cyfanswm Incwm</b>	<b>242,863</b>										<b>247,798</b>

<b>Cyf</b>	<b>Teitl y Bid</b>	<b>Parhaol (£)</b>	<b>Un tro (£)</b>	<b>Setliad (£)</b>	<b>Cyfalaf (£)</b>
<b>Adran Addysg</b>					
Bid 1	Cludiant Tacsis Ysgolion	400,000			
Bid 2	Integreiddio – Datganiadau / Cynllun Datblygu Unigol	193,000			
<b>Adran Cyllid</b>					
Bid 3	Cynnydd ym mhrisiau Meddalwedd Microsoft	97,890			
<b>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</b>					
Bid 4	Atal Digartrefedd	35,000			
Bid 5	Anabledd Dysgu - Oed Trosglwyddo	286,800			
Bid 6	Therapydd Galwedigaethol – Anabledd Dysgu	23,000			
Bid 7	Gweithwyr Cymdeithasol – Anabledd Dysgu	45,500			
Bid 8	Cofrestru Gweithwyr Gofal		38,280		
Bid 9	Hwb Diogelu	51,000			
Bid 10	Adnoddau Parhaol i staffio Unedau Dementia newydd	808,000			
<b>Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd</b>					
Bid 11	Gweithiwr Cymdeithasol x2	100,000			
Bid 12	Capasiti ychwanegol Therapi Galwedigaethol	23,000			
Bid 13	Cyfweliadau dychwelyd adref	20,000			
Bid 14	Lleoliadau Plant	657,000			
<b>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</b>					
Bid 15	Materion Gwastraff	36,150			
<b>Adran Addysg</b>					
Set 1	Prydau Ysgol am ddim – Effaith Gwasanaeth Llawn Credyd Cynhwysol (GLCC)			234,150	
<b>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</b>					
Set 2	Newid Trothwy Cyfalaf sydd yn Sail i Hunan Ariannu Gwasanaeth Gofal o £40,000 i £50,000			312,490	
<b>Adran Economi a Chymuned</b>					
Cyf 1	Adnewyddu Traciau System Silffoedd Symudol – Storfa Llyfrgell Caernarfon				57,350
Cyf 2	Cronfa Datblygu Gwirfoddol (CIST Gwynedd)				50,000
Cyf 3	Addasu Ystafelloedd Newid yng Nghanolffannau Hamdden Glaslyn a Dwyfor				12,800
Cyf 4	Gwaith Adfer Brys Strwythurau Parc Glynllifon				48,000

<b>Manylion y Bid</b>
<b>ADRAN ADDYSG (G.T.)</b>
<p><b><u>Bid 1 Cludiant Tacsis Ysgolion - £400,000 Parhaol</u></b></p> <p>Rhagwelir gorwariant o £721,130 yn 2019/20 yn seiliedig ar gyllideb o £2,100,340 o'i gymharu ag ymrwymadau o £2,821,470:-</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Tacsis ysgolion a weithredir gan yr Uned Cludiant Integredig £2,596,620</li> <li>• Tacsis rhieni a weithredir gan yr Uned Cludiant Integredig £101,340</li> <li>• Eraill - yn cynnwys cytundebau gyda Rheilffordd Cambrian a chytundebau tacsis "Pecyn 25" a weithredir gan yr Adran Addysg a Chludiant All Sirol a weithredir gan Awdurdodau eraill £123,510</li> </ul> <p><u>Sut</u> – byddai'r bid yn lleihau'r gorwariant yng nghyllideb refeniw'r Adran.</p> <p><u>Risgiau</u> - peidio cwrdd â gofynion "Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008".</p> <p><u>Sylwadau</u> – Argymhellir cefnogi'r cais, ond mae'r Adran dan gyfarwyddyd i ddod â swm y gorwariant o dan reolaeth.</p>
<p><b><u>Bid 2 Integreiddio – Datganiadau / Cynllun Datblygu Unigol (CDU) - £193,000 Parhaol</u></b></p> <p>Ers 2016/17, mae yna gynnydd sylweddol blynyddol yng nghost Datganiadau/CDU, sydd yn bennaf wedi'i ariannu trwy leihau dyraniad 'Integreiddio Arall'. Ond bellach mae'r 'Adolygiad Strategol Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad' yn tynnu o'r pennawd yma, ac felly gwneir bid am y diffyg parhaol o £193,000.</p> <p>Os fydd y patrwm o gynnydd cost sylweddol rhwng 2016/17 a 2018/19 yn parhau yn 2019/20, bydd diffyg o £400,000 ychwanegol yn y pennawd yma. Mae Adolygiad Annibynnol yn cael ei gynnal ar hyn o bryd sy'n edrych i mewn i'r gweithdrefnau, meini prawf, a thueddiadau dros y 3-5 mlynedd diwethaf i ddarganfod a oes tueddiadau, ardrawiad mewnlifiad a phlant mewn gofal yn dod i mewn i'r sir; cefnogaeth trawsadrannol i deuluoedd bregus a baich hyn i'r Adran Addysg; effaith cychwyn y defnydd o Gynlluniau Datblygu Unigol yn hytrach Asesiadau Statudol.</p> <p><u>Sut</u> – byddai'r cyllid ychwanegol yn ariannu'r diffyg yn sgil colli cyfraniad y gyllideb 'Integreiddio Arall'.</p> <p><u>Risgiau</u> - petai'r bid yn cael ei wrthod byddai rhaid torri cwantwm ysgolion yn 2019/20.</p> <p><u>Sylwadau</u> - Argymhellir cefnogi'r cais, ond mae'r Adran dan gyfarwyddyd i gadw'r gyllideb o dan reolaeth.</p>

**ADRAN CYLLID (P.J.)****Bid 3 Cynnydd ym mhrisiau Meddalwedd Microsoft - £97,890 Parhaol**

Mae'r cytundeb am feddalwedd Windows ac Office (cynnwys e-bost, Skype a Sharepoint) ar y pris cyfredol yn dod i ben 30 Mehefin 2019, ac mae'r meddalwedd yma'n greiddiol i'n defnydd o gyfrifiaduron a does dim opsiwn ymarferol ond parhau i ddefnyddio'r meddalwedd hyn.

Sut - Byddai ariannu'r gofyn ychwanegol yn ein galluogi i barhau i ddefnyddio meddalwedd sy'n greiddiol i waith dydd i ddydd unrhyw swyddog sy'n defnyddio cyfrifiaduron.

Risgiau - Pe na fyddai cefnogaeth ariannol ychwanegol, byddwn yn wynebu cwtogi'r nifer o ddefnyddwyr cyfrifiaduron o 2,182 i 1,524. Byddai'n effaith llai andwyol na pheidio defnyddio meddalwedd Windows ac Office o gwbl. Mi fyddai'r newid yma yn ei dro yn cael effaith ar ein gallu i gefnogi a darparu gwasanaethau i drigolion y Sir.

Sylwadau – Argymhellir cefnogi'r cais.



**BIDIAU REFENIW 2019/20****ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT (G.R.)****Bid 4 Atal Digartrefedd - £35,000 Parhaol**

Mae'r Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswyddau statudol ar y Cyngor, i gynorthwyo i atal digartrefedd neu ddod o hyd i rywle arall i fyw ar gyfer pawb sy'n cyflwyno eu bod o dan fygythiad o ddigartrefedd. Ers i'r Ddeddf yma ddod i rym yn Ebrill 2015, mae cynnydd sylweddol wedi bod yn y nifer yr achosion sydd yn cael eu cyflwyno i'r gwasanaeth digartrefedd ynghyd â chynnydd yn y nifer pobl sy'n mynd i fewn i lety dros-dro.

Tra yn ymdopi â'r cynnydd sylweddol mae'r gwasanaeth wedi colli staff yn y cylch arbedion yn 2015/16. Mae hyn yn golygu fod y nifer o achosion fesul staff wedi cynyddu yn sylweddol sydd wedi arwain at llai o amser i wneud gwaith atal digartrefedd a gwaith symud pobl ymlaen ac allan o lety dros dro. Mae cynnydd hefyd yn y nifer yr achosion cymhleth sydd yn golygu bod angen treulio mwy o amser fesul achos i ddod o hyd i ddatrysiaidau.

Mae adolygiad diweddar o'r gwasanaeth gan ymgynghorydd annibynnol (Arc4, Medi 2018) yn rhagweld y bydd y cynnydd yn y galw ar y gwasanaeth yn parhau. Mae hyn yn gyffredinol ar draws Awdurdodau Lleol eraill a gwyddom fod Cyngor Conwy a Dinbych wedi buddsoddi i ymateb i'r her.

Sut - cyllido 1 Gweithiwr Achos Atebion Tai. Byddai hyn yn galluogi'r Tîm i wneud mwy o waith ymyrraeth gynnar er mwyn atal digartrefedd drwy osgoi gorfod lleoli pobl mewn llety dros dro ac yn ei dro yn lleihau'r baich ariannol a'r angen i ddefnyddio trefniadau tymor byr.

Risgiau - methiant i gyflawni cyfrifoldebau statudol i atal digartrefedd yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014; cynyddu'r amser a gymerir i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i'r cleient; nifer o bobl yn cael eu lletya mewn llety dros-dro yn cynyddu a all ansefydlogi unigolion bregus ynghyd â chynyddu'r costau.

Sylwadau - Argymhellir cefnogi'r cais.

**Bid 5 Anabledd Dysgu - Oed Trosglwyddo - £286,800 Parhaol**

Ariannu pecynnau gofal 11 unigolyn sydd yn trosglwyddo o'r Adran Plant a Theuluoedd i'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant (Anabledd Dysgu). Bydd hyn yn cynnwys Taliadau Uniongyrchol, Llety Cefnogol neu Gwasanaeth Dydd i gwrdd ag anghenion yr unigolion a'u teuluoedd.

Sut - galluogi teuluoedd/gofalwyr i barhau i ofalu am unigolion sydd ag anghenion sylweddol, gan roi cyfle i'r unigolion ddatblygu sgiliau pellach gyda'r bwriad o hybu annibyniaeth.

Risgiau - peidio cwrdd â chyfrifoldebau statudol y gwasanaeth yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a'r posibilrwydd bydd y sefyllfa gartref yn torri lawr a allai arwain at orfod lleoli'r unigolion mewn lleoliadau drytach.

Sylwadau - Argymhellir cefnogi'r cais.

**Bid 6 Therapydd Galwedigaethol – Anabledd Dysgu - £23,000 Parhaol**

*(Bid am un therapydd i'w rannu rhwng yr adran yma a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd).*

Nid oes arbenigedd Therapi Galwedigaethol wedi bod yn y Gwasanaeth Anableddau Dysgu ers rhai blynnyddoedd bellach, ac mae effaith hynny i'w weld yn eu gallu i weithio fel tîm amlddisgyblaethol, a hefyd wrth ymdrin ag achosion cymhleth (e.e. achosion llys ble mae angen adroddiadau arbenigol). Mewn cyfnod ble rydym yn trawsffurfio gwasanaethau, mae datblygu'r rôl yma yn ein gwasanaethau yn hanfodol ar sawl lefel:-

**Strategol:** Er mwyn ein cynghori ar ddatblygiadau newydd, yn enwedig ar ddyluniad yr adeiladau rydym yn eu trawsffurfio i fod yn hybiau a hefyd o ran ein datblygiadau adeiladau newydd.

**Gweithredol:** Rydym angen y rôl yma ar lefel ataliol a hefyd i gyd-weithio gyda rhai o'r achosion dwys a chymhleth. Bydd modd i'r rôl yma gyd-weithio gyda'r tîm amlddisgyblaethol i gynghori gweithwyr eraill a'r teuluoedd o ran ymdrin ag ymddygiad heriol. Byddai modd i'r rôl yma gyd-weithio gyda'r achosion dwys a chymhleth er mwyn ceisio llunio cynllun chefnogaeth mewn modd creadigol i ddiwallu anghenion mewn dull person canolog.

**Sut** - Mae elfen o'r bid yn angenrheidiol i gwrdd â chyfrifoldebau statudol y gwasanaeth yn unol â'r ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn bresennol, y gwasanaeth oedolion sydd yn cynnig y gwasanaeth, nid yw'n ddigon arbenigol i gyfarch anghenion oedolion gydag anableddau dysgu gan ganolbwyntio yn benodol ar asesiadau o ran offer. Y nod yw datblygu gwasanaeth sydd yn canolbwyntio ar ymdrin ag ymddygiad heriol ac addasu'r amgylchedd er mwyn lleihau ymddygiad anodd a heriol. Byddai hefyd lle i'r swyddogaeth yma gynghori ein staff/gweithiwr cefnogol sydd yn aml yn ymdrin ag ymddygiadau heriol ac angen y gefnogaeth a chyngor arbenigol yma.

**Risgiau** - peidio cwrdd â chyfrifoldebau statudol y gwasanaeth yn unol â'r ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a diffyg arbenigedd Therapi Galwedigaethol yn y maes Anabledd Dysgu.

**Sylwadau** - Argymhellir cefnogi'r cais.

**Bid 7 Gweithwyr Cymdeithasol – Anabledd Dysgu - £45,500 Parhaol**

Ers 2013, mae dwy swydd Gweithiwr Cymdeithasol Anableddau Dysgu wedi bod yn cael eu hariannu dros-dro o Gynllun y Cyngor. Mae nifer o fuddion i'r ddwy swydd gan gynnwys, craffu ansawdd gwasanaeth, adolygu pecynnau, asesiadau a chynlluniau gofal; casglu gwybodaeth i broffilio gwasanaeth a bwydo i mewn i'r drefn gomisiynu ar gyfer cynllunio darpariaeth gwasanaeth i'r dyfodol; rhyddhau amser pob gweithiwr i reoli fwy o achosion a chynllunio ymlaen yn fwy manwl; mwy o gapasiti i adolygu pecynnau; drwy adolygu yn rheolaidd, gallu adnabod arbedion yn syth ac addasu cynlluniau gofal yn unol â'r asesiad anghenion; datblygu pwysigrwydd adolygu ac arbedion ymhellach yn y gwasanaeth; darparu gweithwyr gyda'r hygreddedd proffesiynol i ddatblygu a newid gwasanaethau mewn dull creadigol yn sgil adolygiadau manwl; gwella ansawdd gwasanaeth a chraffu darparwyr.

Sut - Mae elfen o'r bid yn angenrheidiol i gwrdd â chyfrifoldebau statudol y gwasanaeth yn unol â'r ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Yn hanesyddol, roedd gan y Gwasanaeth Anableddau lai o Weithwyr Cymdeithasol na thimoedd eraill. Ers 2013, pan ddatblygwyd y capasiti yma fel rhan o'r gwasanaeth, mae wedi cael effaith sylweddol, yn cynnwys eu gallu i ddiwallu anghenion mewn modd creadigol, adolygu anghenion yn amserol, cyfarch dros £600k o arbedion, ac adennill symiau sylweddol drwy herio'r drefn Gofal Iechyd Parhaus a'r lleihad mewn niferoedd o oedolion yn derbyn gwasanaethau yn all-sirol i Wynedd.

Yn bresennol, mae dwy swydd ar sail dros dro. Mae'r tîm yn sefydlog ac yn gweithio yn dda. Byddai'r bid yma yn creu un swydd barhaol ar y strwythur. Mae buddsoddiad sylweddol wedi bod mewn datblygiad staff a'r tîm i gyd (mewn cyfnod positif o drawsffurfio).

Risgiau – peidio cwrdd â chyfrifoldebau statudol y gwasanaeth yn unol â'r ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a risg o golli aelodau staff allweddol.

Sylwadau - Argymhellir cefnogi'r cais.

**BIDIAU REFENIW 2019/20****Bid 8 Cofrestru Gweithwyr Gofal - £38,280 Un Tro**

Mae'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol Cymru 2016 yn nodi fod rhaid cadw cofrestr o weithwyr y maes gofal. Mae Uwch-weithwyr eisoes yn cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, ond bellach mae disgwyl i staff gofal rheng flaen e.e. Gofalwyr Cartref a Staff mewn Cartrefi Preswyl gofrestru yn flynyddol.

Mae angen buddsoddi amser yn hyfforddi a sicrhau fod staff rheng flaen yn gwybod sut i gofrestru a'r hyn sy'n ofynnol arnynt o ran hynny. Cyflwynwyd bid yn wreiddiol yn 2018/19, ac mae swyddog wedi ei phenodi i'r swydd yma o Awst 2018 hyd at ddiwedd mis Mawrth 2019. Mae hwn yn gais pellach am adnodd dros-dro i barhau gyda'r gwaith yma yn 2019/20 a 2020/21. Mae staff gofal cartref wedi dechrau cael eu hyfforddi, a rhagwelir y bydd yn cefnogi i gofrestru hyd at 30 aelod o staff y mis. Rhagwelir y byddai'r adnodd ychwanegol yma yn parhau gyda'r gwaith o gofrestru gweithlu gofal cartref yn ystod 2019/20 yn bennaf, gyda gweithwyr cartrefi preswyl yn cael sylw yn 2020/21.

Sut – er ymateb yn llawn i ofynion statudol a chefnogi'r gweithlu.

Risgiau - methu cyflogi staff ar gyfer cynnal ein gwasanaethau statudol o ran gofalu am drigolion mwyaf bregus.

Sylwadau - Argymhellir cefnogi'r cais.

**BIDIAU REFENIW 2019/20****Bid 9 Hwb Diogelu - £51,000 Parhaol**

Sefydlu Hwb Diogelu o fewn y Tîm Diogelu a Sicrwydd Ansawdd drwy ariannu swydd arweiniol i sicrhau fod yr Awdurdod yn cwrdd â'u dyletswyddau cyfreithiol mewn perthynas â materion diogelu fel sydd yn cael ei nodi yn rhan 7, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd cyfrifoldeb am ddatblygu'r Hwb Diogelu i dderbyn pob ymholiad diogelu'r Adran Oedolion ynghyd â phenderfynu a chytuno ar sut i reoli'r ymholiadau/ cyfeiriadau er mwyn sicrhau bod trigolion yn ddiogel. Bydd yn sicrhau fod cyfrifoldebau cyfreithiol a pholisïau adrannol yn y maes Diogelu yn cael eu cwrdd.

Bydd yn rhoi un pwynt cyswllt i holl gyfeiriadau ac ymholiadau diogelwch fydd yn sicrhau ymateb amserol ac addas gan atal oedi a dyblygu.

Mae Arolygaeth Gofal Cymru wedi nodi'r angen i gryfhau trefniadau mewn perthynas â materion diogelu.

Sut – bydd cael un pwynt cyswllt ar gyfer materion diogelu yn sicrhau cysondeb yn yr ymateb ar draws ardaloedd a gwasanaethau; swyddog yn datblygu arbenigedd yn y maes ac yn rhoi cyngor ac arweiniad penodol i'r gwasanaeth, ac yn gweithio yn agos iawn gyda'r timau ardal a datblygu perthynas agos gyda phartneriaid; yn cefnogi'r Adran i sicrhau fod asesiadau Lles Gorau DOLS yn cael eu cwblhau yn unol â gofynion cyfreithiol.

Risgiau - anghysondebau o ran ymateb i ymholiadau a chyfeiriadau diogelu ar draws ardaloedd a gwasanaethau; heb un un pwynt cyswllt, nid yw'r gwasanaeth yn rhwydd i unigolion gysylltu felly risg o oedi wrth ymateb; dyblygu neu ddiffyg gweithredu gan nad oes neb yn cymryd rôl arweiniol; pwysigrwydd y gwaith ddim yn cael ei amlygu wrth ychwanegu dyletswyddau i rolau arweinwyr; diffyg arbenigedd yn cynyddu risg i ddiogelwch a llesiant; heb unigolyn dynodedig, bydd yn anodd datblygu perthynas gyda phartneriaid megis swyddogion diogelu y Bwrdd Iechyd.

Sylwadau - Argymhellir cefnogi'r cais.

**Bid 10 Adnoddau Parhaol i staffio Unedau Dementia newydd - £808,000 Parhaol**

Cais am adnoddau parhaol i staffio Unedau Dementia newydd yn Llys Cadfan, Plas Hafan, Plas Hedd a Bryn Blodau i gefnogi gweithrediad y flaenoriaeth Ail-ddylunio Gwasanaethau Gofal o fewn Cynllun y Cyngor ac i gyfarfod gofynion Arolygaeth Gofal Cymru o ran staffio rotas cartrefi preswyl.

Sut – Bydd pob un o'r unedau dementia yn gartref i 7 neu 8 o unigolion.

Risgiau – Heb y buddsoddiad yma, bydd cyfraniad y pedwar cartref at amcan Cynllun y Cyngor i gynnig gofal dementia a gofal diwedd oes / mwy dwys yn agosach at adref yn cael ei gyfyngu.

Sylwadau – Mae penderfyniad Cabinet 27 Tachwedd 2018 i'w gymeradwyo wedi rhagfarnu penderfyniad ar 'bid' parhaol.

**ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD (D.M.)****Bid 11 Gweithiwr Cymdeithasol x2 - £100,000 Parhaol**

Er mwyn rheoli'r cynnydd yn y galw am wasanaeth yn sgil y cynnydd yn nifer yr achosion llys, cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd yn byw adref yn dilyn achos llys, mae'r Adran wedi gorfod sicrhau bod gan dîm plant Arfon ddigon o weithwyr cymdeithasol er mwyn dygymod gyda'r llwyth gwaith a sicrhau nad yw llwyth gwaith yn afresymol. Mae cynnal lleoliadau hefo'r rhiant yn fwy heriol na chefnogi lleoliadau maeth a phreswyl oherwydd bod y cynlluniau yn parhau i fod gyda lefel o risg yn dilyn achos llys.

Er mwyn sicrhau bod gan bob plentyn mewn gofal weithiwr cymdeithasol penodedig, mae'r adran wedi bod yn adrodd gorwariant ar swyddi gwaith cymdeithasol dros y 5 mlynedd diwethaf, gyda 2.5 swyddog yn cael eu cyflogi yn ychwanegol.

Sut – bydd yn galluogi'r tîm i barhau i weithredu fel y mae ar hyn o bryd, ond bydd yn creu dwy swydd barhaol ar y strwythur.

Risg – bydd yr Adran yn parhau i orwario ar gyfer staffio yn nhîm plant Arfon.

Sylwadau - Argymhellir cefnogi'r cais.

**Bid 12 Capasiti ychwanegol Therapi Galwedigaethol - £23,000 Parhaol**

*(Bid am un therapydd i'w rannu rhwng yr adran yma a'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant).*

Mae gwasanaeth Derwen i blant anabl yn integredig gyda'r gwasanaeth iechyd. Mae'r cyfrifoldeb i asesu addasiadau ar gyfer plant anabl yn disgyn ar Therapydd Galwedigaethol y Cyngor. Yn ogystal mae'r Therapydd yn darparu hyfforddiant ar offer symud a thrin cyn i staff allu defnyddio cyfarpar wrth weithio efo'r plant.

Mae rhestr aros am asesiadau gan y Therapydd Galwedigaethol a dim ond un Therapydd Galwedigaethol sydd ar draws y Sir. Mae achosion cymhleth hefyd yn golygu na ellir rhoi sylw i achosion llai cymhleth ddigon buan.

Mae'r llwyth gwaith yn ormod i un swyddog llawn amser ac yn absenoldeb y Therapydd Galwedigaethol, nid oes posibil gweithredu.

Sut – cynyddu capasiti Therapi Galwedigaethol a fyddai'n lleihau rhestr aros, lleihau amser disgwyl am asesiad ac felly'n darparu gwasanaeth neu addasiad yn llawer cynt.

Risg – defnydd anghywir o offer ac felly risg o niwed i blentyn ac/neu aelod staff, cwynion oherwydd methiant gan y Cyngor i ddarparu gwasanaeth ac o bosib camau gweithredu / bygythiad i gofrestrriad y Gwasanaeth Cefnogol gan CSSIW.

Sylwadau - Argymhellir cefnogi'r cais.

**BIDIAU REFENIW 2019/20****Bid 13 Cyfweiliadau dychwelyd adref - £20,000 Parhaol**

Mae ecsploetiaeth plant yn rhywiol yn un o flaenoriaethau diogelu ar gyfer y Cyngor a'r Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant. Yn y gorffennol mewn sefyllfaoedd lle bo plant mewn gofal yn mynd ar goll o ofal ac yna yn dychwelyd, byddai'r heddlu yn cynnal 'cyfweiliad dychwelyd adref' i gael gwybodaeth am y cyfnod y buont ar goll a sicrhau dim niwed. Ychydig o flynyddoedd yn ôl bu i'r heddlu sicrhau grant, a chomisiynwyd Barnardos Cymru i gynnal y cyfweiliadau yma ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal awdurdodau lleol Gogledd. Pan ddaeth cyfnod y grant i ben, datganwyd disgwyliad i'r awdurdodau lleol fod yn cynnal y cyfweiliadau yma, ac fe gymeradwywyd hyn gan y Bwrdd Gweithredol Rhanbarthol a gan y Prif Weithredwyr ar draws y Gogledd.

Mae'r cyfweiliadau dychwelyd adref i blant Gwynedd sydd yn mynd ar goll yn cael eu cynnal gan y gweithiwr cymdeithasol, a'r wybodaeth yn cael ei drosglwyddo i'r heddlu. Niferoedd bychan iawn yw'r rhain o'u cymharu â'r niferoedd nad ydynt yn blant mewn gofal i Wynedd, ond wedi eu lleoli yma mewn darpariaethau preswyl preifat. Nid oes adnoddau yn y gwasanaeth i gyfarfod y gofyn yma heb adnoddau ychwanegol.

Sut - bydd yn darparu adnodd ychwanegol i'r sefydliad ar lefel gweithiwr allweddol fydd yn cael ei leoli yn y gwasanaeth cyfiawnder ieuencid a bydd yn sicrhau y byddem yn cydymffurfio gyda disgwyliadau diogelu rhanbarthol.

Risg – dim yn cydymffurfio gyda gofynion diogelu plant a phobl ifanc fel sydd wedi ei benderfynu gan y Bwrdd Gweithredol Rhanbarthol. Yn ychwanegol, byddai diffyg cydymffurfiaeth yn y maes yma yn risg o feirniadaeth gan yr Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Sylwadau - Argymhellir cefnogi'r cais.

**Bid 14 Lleoliadau Plant - £657,000 Parhaol**

Er bod strategaethau mewn lle i ddefnyddio lleoliadau'n effeithlon ac i graffu'r trefniadau'n rheolaidd, nid oes rheolaeth ar natur a nifer y ceisiadau. Mae nifer o geisiadau eleni am achosion dwys a chymhleth sy'n gwneud lleoliad preswyl allsirol yn anorfod. Mae'r adran wedi ymdrechu i leihau'r nifer o leoliadau preswyl fel rhan o gynllun dechrau i'r diwedd, ond mae'r gofyn eleni am y math yma o leoliad yn llawer uwch na'r disgwyl.

Sut - mae'r lleoliadau cyfredol yn ymrwmo'r gyllideb bresennol, ac felly nid yw'n bosib lleoli yn ychwanegol heb orwario yn erbyn y gyllideb. Mae'r bid wedi ei selio ar amcan gwariant 2019/20.

Risg - gall peidio â lleoli arwain at sefyllfa lle na fyddwn yn gweithredu'n gyfreithiol lle mae asesiad risg yn dangos nad ydyw'n ddiogel iddynt barhau i fod adref. Hefyd bydd peidio ymateb yn arwain at orwariant.

Sylwadau - Argymhellir cefnogi'r cais.

**BIDIAU REFENIW 2019/20****ADRAN PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL (G.W.G.)****Bid 15 Materion Gwastraff - £36,150 Parhaol**

Ymdrin â deunyddiau Ailgylchu – Mae costau cynyddol o ganlyniad i fwy o ddeunyddiau ailgylchu megis rwbél, gwastraff peryglus, coed yn y Canolfannau Ailgylchu ynghyd â chostau cynyddol i'w cludo.

Sut - byddai'r bid yn sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu cadw fyny â'r gofyn ac ymdrin â deunyddiau ailgylchu.

Risgiau – methu â chyrraedd a chadw at dargedau statudol Llywodraeth Cymru a methu darparu gwasanaeth i drigolion Gwynedd.

Sylwadau - Argymhellir cefnogi'r cais.



**SETLIAD 2019/20 (TROSGLWYDDIAD MEWN / CYFRIFOLDEB NEWYDD)****Manylion y Setliad****ADRAN ADDYSG (G.T.)****Set 1 Prydau Ysgol am ddim – Effaith Gwasanaeth Llawn Credyd Cynhwysol (GLCC) - £234,150 Parhaol**

Mae Gwasanaeth Llawn Credyd Cynhwysol (GLCC) yn fudd-dal newydd sy'n cefnogi pobl ar incwm isel neu yn ddi-waith. Bydd yn disodli 6 budd-dal sef, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm; Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm; Cymhorthdal Incwm; Credyd Treth Gwaith; Credyd Treth Plant a Budd-dal Tai.

Erbyn 12 Rhagfyr 2018 bydd Gwynedd yn mynd yn fyw efo'r GLCC ac o ganlyniad, bydd disgwyl cynnydd yn niferoedd plant fydd yn derbyn cinio am ddim.

Mae Llywodraeth Cymru wedi clustnodi £7miliwn i Awdurdodau Cymru ar gyfer cyfarch effaith y GLCC ar y gwasanaeth Prydau Ysgol gan y bydd y niferoedd fydd â hawl i ginio am ddim yn cynyddu. O ganlyniad, disgwylir gostyngiad yn yr incwm prydau ysgol, a chynnydd yng nghostau prydau ysgol am ddim.

Gwneir cais am £234,150, sef elfen Gwynedd yn y trosglwyddiadau i mewn i'r setliad.

Sut – ni fydd gorwariant i gyllideb refeniw'r Adran gan fydd addasiad i gyllideb incwm prydau ysgol a'r gyllideb gwariant prydau ysgol am ddim.

Risgiau – petai'r cais yn cael ei wrthod byddai gorwariant yng nghyllideb refeniw'r Adran o 2019/20 ymlaen.

Sylwadau - Argymhellir cefnogi'r cais.

**ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT (G.R.)****Set 2 Newid Trothwy Cyfalaf sydd yn Sail i Hunan Ariannu Gwasanaeth Gofal o £40,000 i £50,000 - £312,490 Parhaol**

Cais i ymateb i ddatganiad Llywodraeth Cymru eu bod yn cynyddu'r trothwy cyfalaf a ddefnyddir i benderfynu os yw person yn hunan ariannu eu lleoliad preswyl/nyrsio o £40k i £50k, sydd yn dod i rym yn Ebrill 2019.

Gwneir cais am £312,490, sef yr elfen cyfrifoldeb newydd o'r setliad.

Sut – Bydd cynyddu'r terfyn cyfalaf yn golygu bod pobl yn cyrraedd y trothwy sy'n eu gwneud yn gymwys i dderbyn cymorth ariannol gan y Cyngor yn gynharach.

Risgiau - heb y cyllid ychwanegol bydd y gyllideb bresennol yn annigonol a'r Adran yn debygol o orwario.

Sylwadau – Argymhellir cefnogi'r cais.

**Manylion y Bid****ADRAN ECONOMI A CHYMUNED (I.T.)****Cyf 1 Adnewyddu Traciau System Silffoedd Symudol – Storfa Llyfrgell Caernarfon £57,350**

Mae'r system Silffoedd Symudol bellach yn 36 oed ac mae'r traciau erbyn hyn wedi gwisgo'n sylweddol, gan achosi i'r silffoedd ddod oddi ar y traciau yn aml. Mae hyn yn sefyllfa sy'n beryglus o ran diogelwch ac iechyd i staff. Mewn un rhan o'r system, mae'r silffoedd wedi cloi yn llwyr ac ni ellir eu symud o gwbl, yn ôl nac ymlaen ac felly, ni ellir nôl llyfrau i gyflenwi archebion gan ddefnyddwyr.

Mae'r Storfa yn cyflawni rôl hanfodol i'r gwasanaeth. Allan o 36,000 cais am lyfrau bob blwyddyn, mae 21% yn cael eu cyflenwi o'r Storfa.

Sut - datrysiad tymor hir i sicrhau fod yr adnodd Storfa yn cyflawni ei llawn swyddogaeth, gan ddarparu offer silffoedd symudol yn y man gwaith ac yn atal risg o ran iechyd a diogelwch.

Sicrhau fod y gwasanaeth Llyfrgell yn medru cyflawni ar gyfer anghenion pobl Gwynedd.

Risgiau - Nid oes modd defnyddio 1 o'r 5 system bellach, gyda risg bydd gweddill rannau o'r system yn mynd yn anweithredol. Mae risg i iechyd a diogelwch pob aelod o staff sy'n defnyddio'r silffoedd, yn arbennig felly o ran straen cefn neu anaf sylweddol os oes silff gyfan yn cwmpo.

Y risg o beidio ymateb yw cyfyngu'n sylweddol ar y gwasanaeth llyfrgell i ddarparu gwasanaeth llyfrgell lawn i drigolion Gwynedd a defnyddwyr eraill gan y byddwn yn methu a chyflenwi ceisiadau. Mae hyn eisoes yn digwydd gyda cheisiadau am lyfrau Cymraeg, ac oherwydd natur y casgliad, yn effeithio ar y sawl sy'n gwneud astudiaethau ymchwil neu addysgol yn benodol. Ni fyddem yn gallu pwrcasu ar y lefel yma o alw am lyfrau ar gais hyd yn oed pe bai'r holl lyfrau sydd eu hangen mewn print ac ar gael.

Os yw'r Storfa yn mynd yn anweithredol, bydd oblygiadau ar gyflogaeth un aelod o staff.

**BIDIAU CYFALAF 2019/20****Cyf 2 Cronfa Datblygu Gwirfoddol (CIST Gwynedd) - £50,000**

Mae cymunedau yn wynebu heriau a chyfleoedd wrth ymateb i newidiadau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd sy'n effeithio arnynt. Mae nifer o grwpiau gwirfoddol yn ymateb i'r heriau hyn drwy gynnal asedau a gweithgareddau lleol. Mae nifer o grwpiau gwirfoddol hefyd yn ymateb i'r cyfleoedd hyn drwy ddatblygu cynlluniau o'r newydd - yn benodol ar hyn o bryd yn y cyd-destun o drosglwyddo asedau o wasanaeth cyhoeddus i reolaeth gymunedol.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r cyngor, drwy y Gronfa Datblygu Gwirfoddol Cyfalaf wedi cefnogi rhai cymunedau i ddatblygu cynlluniau sydd wedi ymateb i effeithiau y cynlluniau arbedion, a'r cynllun strategol.

Sut – drwy ddarparu grantiau i grwpiau gwirfoddol ar draws y sir i ddatblygu a gwireddu prosiectau cymunedol. Yn benodol, cefnogi prosiectau sy'n ymwneud â'r agenda trosglwyddo asedau a buddsoddi mewn asedau cymunedol lleol.

Risgiau – ni fyddai gan y Cyngor adnodd ar gyfer cyfeirio grwpiau sy'n ymateb i'r agenda arbedion / toriadau.

**Cyf 3 Addasu Ystafelloedd Newid yng Nghanolfannau Hamdden Glaslyn a Dwyfor - £12,800**

Mae nifer o gwynion wedi eu derbyn gan ddefnyddwyr anabl dros y flwyddyn ddiwethaf ynglŷn â'r ystafelloedd newid yn y ddwy ganolfan uchod. Mae trefniant presennol y gofod yn golygu nad yw wastad yn bosib i ddefnyddwyr anabl cael defnydd o ofod newid sydd yn addas ar gyfer eu hanghenion.

Yng Nghanolfan Glaslyn mae un gofod cyfyng yn cael ei rannu gan deuluoedd a chwsmeriaid anabl. Bydd teuluoedd weithiau'n llenwi'r 3 ciwbicl, fel nad oes modd i gwsmeriaid anabl eu defnyddio.

Yng Nghanolfan Dwyfor mae'r gofod newid i gwsmeriaid anabl hefyd yn goridor ar gyfer teuluoedd i gyrraedd y pwll nofio. Mae hyn wedi arwain at sefyllfaoedd ble mae tadau yn anfwriadol, wedi tarfu ar breifatrwydd cwsmeriaid anabl benywaidd wrth iddyn nhw newid.

Mi fydda'r trefniadau newydd, gyda mwy o ofod newid mewn ciwbicl ar wahân hefyd yn welliant o ran ein trefniadau i deuluoedd a phobl drawsrywiol fydda'n dymuno defnyddio gofod newid preifat.

Sut - bydd addasiadau i'r ystafelloedd newid yn y ddwy ganolfan yn creu gofod fwy, yn un pwrpasol ac ar wahân ar gyfer cwsmeriaid anabl a'u gofalwyr.

Risgiau - mae risg bydd y cyngor yn cael ei herio ar sail Deddf Cydraddoldeb 2010 oherwydd ei fod yn anodd i bobl anabl cael mynediad llawn i'r cyfleusterau hamdden.

Bydd y cyfrifoldebau uchod yn parhau o dan y trefniadau newydd gyda Chwmni Byw'n Iach.cyf, oherwydd ni ellir dirprwyo cyfrifoldeb dros y ddyletswydd cydraddoldeb cyffredinol i sefydliadau allanol sy'n ymwneud â swyddogaethau ar ran y cyngor.

Mae rhesymau iechyd penodol gan rhai cwsmeriaid anabl ac mae methu a chael mynediad yn gallu arwain at broblemau iechyd ychwanegol.

Pryderon o ran diogelu plant ac oedolion bregus a'r bid yn cynnig gwelliant o ran pobl drawsrywiol a mwy na un grŵp sydd â nodweddion gwarchoddedig.

**BIDIAU CYFALAF 2019/20****Cyf 4 Gwaith Adfer Brys Strwythurau Parc Glynllifon - £48,000**

Mae maint y safle yn sylweddol iawn gyda rhan helaeth o'r safle yn agored i'r cyhoedd sydd yn denu miloedd o ddefnyddwyr i'r Parc Gwledig bob blwyddyn.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae nifer o newidiadau wedi eu gweithredu er mwyn gwireddu arbedion effeithiolrwydd. Mae'n fwiad gan yr Adran adolygu trefniadau rheoli Glynllifon i'r tymor hir. Ystyrir mai trefniant interim sydd mewn lle ar hyn o bryd yn hytrach na model cynaliadwy i'r dyfodol.

Mae materion wedi codi yn ystod y 12 mis diwethaf sydd wedi amlygu'r angen am waith adfer brys o fewn y Parc Gwledig. Mae'r rhain yn cynnwys :

- Gwaith atgyweirio brys i strwythurau megis pontydd a llwybrau sydd yn cael eu defnyddio gan ddefnyddwyr y Parc
- Gwaith atgyweirio strwythurau hanesyddol (mae'r Parc wedi ei ddynodi yn Dirlun Rhestredig Gradd 1) rhaedrau a ffosydd
- Adfer llwybrau er mwyn gwella diogelwch a mynediad
- Gwaith tocio coed er mwyn gwarchod diogelwch defnyddwyr y Parc

Prif nod y gwaith yma fyddai cwblhau gwaith adfer brys er mwyn sicrhau nad oes dirywiad pellach yn yr adnoddau hanesyddol dros y blynyddoedd nesaf.

Sut - bydd y gwariant ychwanegol yn darparu adnoddau penodol i ymateb i'r risgiau sydd wedi eu hadnabod sef, gwaith brys i bontydd £16k; mesurau brys i warchod strwythurau hanesyddol £18k; adfer llwybrau £9k; tocio coed £5k.

Rhagwelir y bydd modd cyfeirio adnoddau craidd y Gwasanaeth tuag at weithredu'r mesurau brys.

Risgiau - oblygiadau posib o beidio ymateb :

- Methiant i ymateb i beryglon rhagweladwy
- Tebygolrwydd nad yw'r Cyngor yn gwireddu dyletswydd i ofalu i'r sawl sydd yn cerdded ar y safle
- Risg o ddamwain ar y safle
- Adnoddau annigonol yn arwain at ddirywiad pellach yng nghyflwr asedau hanesyddol
- Cyngor yn agored i gyhuddiadau nad yw gerddi hanesyddol Gradd 1 yn cael eu rheoli a'u gwarchod.

## **ATODIAD 3**

### **ARBEDION**

1. Yr arbedion sydd yn cael yr ardrawiad lleiaf ar bobl Gwynedd yw arbedion effeithlonrwydd, ac yn arbennig rheiny gellir gweithredu yn y swyddfa gefn. Fodd bynnag mae'r cyfleoedd ar gyfer darganfod y fath arbedion wedi lleihau'n sylweddol dros y 10 mlynedd diwethaf, wrth i ni eu gwireddu er mwyn darganfod yr arbedion sylweddol y bu'n rhaid i ni eu darganfod dros y cyfnod.
2. Serch hynny, mae'r amrywiol adrannau wedi canfod cyfleoedd i gyflawni mwy o arbedion drwy edrych ar drefniadau neu leihau cyllidebau swyddfa gefn. Nodir y cynlluniau yma yng nghyfeirnodau 1.1 i 1.43 yn y tablau isod.
3. Mae yna arbedion effeithlonrwydd pellach i'w gwneud drwy ddarganfod ffyrdd gwahanol o gyflawni gwasanaethau, ac fe nodir y rhain yng nghyfeirnodau 2.1 i 2.19 isod.
4. Mae yna gyfleoedd hefyd wedi cael eu hadnabod i greu arbedion drwy fuddsoddi ac mae'r rhain yn cael eu hadnabod yng nghyfeirnodau 3.1 i 3.6.
5. Wedi hynny, mae yna wasanaethau eraill lle mae angen i ni ystyried y cyfleoedd codi incwm er mwyn gwarchod gwasanaethau hanfodol y Cyngor. Mae'r rhain i'w gweld yng nghyfeirnodau 4.1 i 4.28.
6. Yn y diwedd fodd bynnag, mae'n rhaid i ni ddarganfod arbedion mewn manau sy'n mynd i gael effaith ar bobl Gwynedd ac fe fydd yr effaith hwnnw yn amrywio o gynllun i gynllun.
7. Y ffordd orau o isafu'r effaith yw darbwylo eraill i gymryd y swyddogaeth drosodd, ac mae yna ddau gynllun o'r fath sy'n ymddangos yng nghyfeirnodau 5.1 i 5.2 isod.
8. Yng nghyfeirnodau 6.1 i 6.27, nodir cynlluniau eraill gallwn eu gwireddu, gan dderbyn fod yna effaith am fod ar ein trigolion, ond gan dderbyn mai rhain yw'r rhai lle bydd yr effaith leiaf yn cael ei weld.
9. Mae'n bwysig nodi fod y rhestr yma wedi cael ei lunio gan ddwyn i gof yr hyn sy'n ymddangos yn yr ymgynghoriad cyhoeddus.
10. Yn amlwg, mae Addysg o ansawdd, agweddau sylweddol o'r maes gofal, a dwy agwedd o faes Bwrdeistrefol (sef casglu gwastraff ac ail-gylchu, ynghyd â chanolfannau ail-gychu) yn ymddangos yn y 10 maes mwyaf pwysig i bobl Gwynedd.
11. Wedi dweud hynny fe welir fod popeth yr ydym yn ei wneud yn bwysig i rywun. Hyd yn oed gyda'r gweithgaredd ddaeth allan fel yr un lleiaf pwysig ar gyfartaledd o'r holl wasanaethau yr ydym yn eu cyflawni, fe welir o dudalen 17 yr adroddiad fod tua 100 o ymatebwyr wedi dweud ei fod o'n un o'r pethau mwyaf pwysig iddynt hwy.

12. Gan fod y meysydd Gofal ac Addysg yn gyfrifol am 62% o wariant y Cyngor mae'n amhosibl eu hepgor o unrhyw gyfraniad at yr arbedion, ond fe welir o'r rhestr nad oes bwriad gofyn i ysgolion gyfrannu at y cynlluniau cyflwynir yma er penderfyniad ar gyfer 2019/20. Ymhellach, mae'r elfennau y mae gofyn i'r meysydd Gofal ac Addysg gyfrannu yn cael eu cyfyngu i arbedion effeithlonrwydd, neu arbedion sydd yn cael effaith ar yr ymylon.
13. O ran y grwpiau a nodweddion gwarchoddedig, fe welwyd fod trafndiaeth gyhoeddus yn cael lle amlwg yn eu blaenoriaethau hwy. Felly, mae'r rhestr isod yn fwriadol yn ceisio gwarchod y maes hwnnw rhag unrhyw ostyngiadau cyllidol, er ein bod yn ymwybodol fod costau yn cynyddu'n sylweddol a bydd yn sialens cadw pob gwasanaeth cyfredol i fynd yng nghyd-destun y gyllideb sydd ganddynt.
14. Fe welir hefyd yn y ddogfen fod y sector fusnes yn naturiol yn cymryd agwedd dra wahanol i drigolion Gwynedd, ac yn nodi fod nifer o'r meysydd sydd yn ymwneud â'r sector fusnes yn naturiol yn fwy pwysig iddynt. Wrth lunio'r cynigion, rydym wedi ceisio osgoi effeithiau mwyaf andwyol unrhyw ostyngiadau yn y maes, gan geisio cyfyngu hynny i'r lleiafswm posibl, ond nid oes modd osgoi elfen o leihad yn ein gweithgareddau. Mae'r warchodaeth y byddem yn ei roddi yn debygol o olygu Treth Cyngor uwch na fyddem yn reddfol yn dymuno ei weld, ond mae'n bwysig ein bod yn parhau i fuddsoddi elfen o'n cyllideb yn y meysydd yma.
15. Yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2018, penderfynodd y Cabinet gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynlluniau arbedion a restrir yng nghyfeirnodau 3.1 i 6.27 isod. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 31 Ionawr 2019, a cyflwynir dadansoddiad o'r canlyniadau yn Atodiad 11.
16. Cafwyd cyfle i drafod yr ymatebion a'r dadansoddiad ynghyd â'r effeithiau posib mewn gweithdy anffurfiol o'r holl aelodau'r Cyngor ar 5 Chwefror.
17. Er mwyn sefydlu cydsyniad o'r ffordd orau ymlaen, trafodwyd canlyniadau penodol o'r ymgynghoriad i ystyried os dylid lleihau'r cynnydd 5.5% arfaethedig yn y Dreth Cyngor drwy weithredu rhagor o doriadau. Dengys yr ymgynghoriad fod dros hanner yr ymatebwyr o blaid cynnig y Cabinet, neu'r opsiwn i godi'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5% er mwyn peidio gorfod gwneud cymaint o arbedion. Roedd consensws yn y gweithdy Aelodau ar 5 Chwefror y byddai effaith y toriadau pellach yn annerbyniol.
18. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i gynigion i atal rhag gweithredu rhai cynlluniau arbedion penodol, gan felly gynyddu'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5%. Ddaru'r gweithdy bwyso a mesur effaith posib y cynigion a rhesymau'r ymatebwyr dros eu cyflwyno. Detholwyd 5 cynllun ar gyfer ystyriaeth bellach, ar sail yr ardrawiad posib, a gellir gweld y cynlluniau rheini yn Atodiad 12. Mae'r cyfiawnhad cyflwynwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad wedi ei gynnwys yn Atodiad 11, yn ôl y nifer o sylwadau a dderbyniwyd.

19. Gall gweithredu rhai o'r arbedion, wrth gwrs, orfod dilyn prosesau statudol a byddent yn ddarostyngedig i ganlyniadau prosesau o'r fath. Yn amlwg mae'r argymhelliad ac unrhyw benderfyniad yn cydnabod hyn ac nid yw yn rhagfarnu eu deilliannau.
20. Mae'r cynigion a nodir yn y rhestr ganlynol yn cynhyrchu'r arbedion isod yn 2019/20. Mae yna nifer o'r cynlluniau yma'n gwireddu arbedion mewn blynyddoedd dilynol hefyd sy'n ein helpu i gynllunio ymlaen –

		£
Rhan 1	Effeithlonrwydd Swyddfa gefn	1,272,980
Rhan 2	Effeithlonrwydd pellach	269,370
Rhan 3	Buddsoddi i arbed	21,500
Rhan 4	Cynyddu incwm	481,590
Rhan 5	Atal ond gofyn i eraill gymryd drosodd (arbediad yn cael ei gyflawni mewn blynyddoedd dilynol)	-
Rhan 6	Arbedion ag effaith (i wahanol raddau)	406,490
	<b>Cyfanswm 2019/20</b>	<b>2,451,930</b>



Atodiad 3

Tud. 286

Cyf.	Cynllun	2019/20	2020/21 ymlaen	Eglurhad	Crynodeb o'r effaith cydraddoldeb	Linc i'r asesiad effaith cydraddoldeb
1.1	Cyflawni arbedion drwy brynu'n rhatach (e.e offer swyddfa a TG)	£20,000	£40,000	Mae'r Adran Amgylchedd yn arwain ar waith o reoli pryniant categorïau corfforaethol ac yn adnabod cyfleoedd i brynu'n rhatach. Enghreifftiau o hyn yw rheoli a phrynu'n deunydd fel offer swyddfa, dodrefn swyddfa, dillad diogelwch, Technoleg Gwybodaeth, Printio ayyb. yn well.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.2	Gosod costau yn erbyn cyllidebau cyfalaf	£22,500	£22,500	Mae'r swyddogion sy'n gweithio llawn amser ar y rhaglen Ysgolion G21 ar hyn o bryd yn cael eu hariannu allan o refeniw'r Gwasanaeth. Bwriedir gosod rhai costau yn erbyn y grant Ysgolion G21. Bydd rhaid gwneud achos busnes ar gyfer pob cynllun unigol. Effaith niwtral ar drigolion Gwynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.3	Lleihau costau swyddfeydd drwy osod gofod gwag	£70,000	£0	Ystyrir fod yna gyfleoedd i wneud gwell defnydd o ofod swyddfa drwy gywasgu ychydig a chreu gofod gwag i'w osod i denantiaid ar rent masnachol. Angen gwaith marchnata, addasu gofod a negodi gyda darpar denantiaid. Effaith niwtral ar drigolion Gwynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.4	Rhesymoli ac Integreiddio'r Swyddfa gefn Adran Amgylchedd	£11,880	£23,120	Gan fod swyddfa gefn dau Wasanaeth wedi uno i greu un Uned, mae posibiliadau o welliannau effeithlonrwydd a rhesymoli'r defnydd o systemau cyfrifiadurol swyddfa gefn. Mae'r gwaith yn cefnogi dyletswyddau statudol y gwasanaeth, a hynny'n aml iawn o gychwyn hyd at ddiwedd y dyletswyddau amrywiol. Gall fod effaith o ran oedi ar drigolion Gwynedd wrth ymdrin â mater cynllunio, gwarchod y cyhoedd a pridiannau tir. Anodd yw rhagweld beth yn union fydd lefel yr oedi, ond bydd yna lai o gapasiti er y bydd swmp y gwaith yr un fath. Y cwestiwn yw a fydd modd gwneud yn iawn am y llai o gapasiti	Asesiad cryno wedi ei wneud i weld os oedd effaith. Dim effaith wedi ei adnabod ond bydd yr Adran yn monitro effaith yn enwedig ym maes anabled a'r iaith Gymraeg	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad1">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad1</a>

Atodiad 3

Tud. 287

				drwy wella effeithlonrwydd. Ni fyddwn yn gwybod hyd nes y byddwn yn ceisio ei gyflawni.		
1.5	Dileu swydd o'r Gwasanaeth Diogelwch Eiddo	£0	£30,000	Mae'r uned hon wedi bod drwy ymarferiad 'Ffordd Gwynedd' arweiniodd at drefniadau gweithio newydd a lleihad mewn costau referniw blynyddol oddeutu £55,000. Mae'r perfformiad ar y dyletswyddau craidd yn foddhaol. Fodd bynnag, mae'r maes yn un lle mae gwaith uwchlaw'r dyletswyddau craidd yn codi ar hap/byr rybudd yn dilyn digwyddiadau iechyd a diogelwch sylweddol mewn llefydd eraill e.e. Grenfell, wal fewnol yn disgyn ar blentyn mewn ysgol yn yr Alban, pryderon newydd am Radon, gofynion archwilio newydd osodir gan y cwmni yswiriant, ymateb canlyniadau gwael profion dwr yfed ar fanddaliadau ayb. O leihau'r gyllideb hon ni fyddai adnodd o fewn y tîm i ymdopi a'r math yma o waith sydd uwchlaw'r dyletswyddau craidd	Wedi ystyried yr effaith yn ofalus, mae'r Adran wedi adnabod ffyrdd amgen o gyflawni'r yr un gwaith a fydd yn golygu fod pob safle yn cael ei archwilio fel ag y mae heddiw ac felly yn osgoi effaith ar y defnyddwyr.eddion oedran ac anabled. Angen asesiad pellach	
1.6	Arbedion ailstrwythuro blaenorol o fewn Adran Cefnogaeth Gorfforaethol	£30,000	£0	Mae'r arbedion yma sy'n deillio o weddillion nifer o ail-strwythuriadau o fewn yr Adran dros y 3 blynedd diwethaf wedi eu gweithredu eisoes ac nid oes unrhyw oblygiadau pellach iddynt.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.7	Lleihau cyllidebau costau teithio a chyflenwadau Adran Cefnogarth Gorfforaethol oddeutu 10%	£40,000	£0	Mae'r arbedion yma mewn costau teithio a chyflenwadau swyddfa wedi cael eu gweithredu eisoes fel rhan o'r gwaith o baratoi ar gyfer arbedion pellach ac felly ni fydd effaith ar bobl Gwynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	

Atodiad 3

Tud. 288

1.8	Terfynu cytundeb meddalwedd	£10,000	£0	Mae'r Uned Ymchwil a Dadansoddeg yn defnyddio sustem feddalwedd arbenigol yn ôl y gofyn ond edrychir i ddefnyddio ffynonellau amgen rhatach heb lesteirio gormod ar waith yr Uned.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.9	Dileu swydd reolaethol o fewn y Gwasanaeth Datblygu Sefydliad ac uno'r Gwasanaeth hefo'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu	£44,000	£0	Mae yna dair swydd o fewn y Gwasanaeth. Dileuwyd swydd Rheolwr y Gwasanaeth ddiwedd Mehefin eleni gan uno'r cyn-wasanaeth hefo'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu oddi ar y 1af o Orffennaf. Rhagwelir y gellir parhau i gyflawni'r gwaith hwn heb effaith ar y ddarpariaeth bresennol ond o ystyried y cyfnod byr a fu ers uno'r ddau Wasanaeth, byddai'n gynamserol i ddatgan na fydd yna unrhyw effaith ar y gwasanaeth a ddarperir.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.10	Adolygu'r gefnogaeth i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	£15,000	£0	Lleihau o swydd a hanner i un swydd (swydd eisoes yn wag). Gwaith gweinyddol yw hwn sy'n ofynnol i ni ei wneud ar ran y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a bydd angen i'r Bwrdd fod yn fwy miniog o ran yr hyn y gofynnir i'r tîm cefnogol ei wneud yn ogystal â sicrhau cyfraniadau o adnodd a chapasiti gan y partneriaid eraill.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.11	Ail raddio dwy swydd o fewn yr Adran Gefnogaeth Gorfforaethol sy'n cefnogi gwaith y Cyngor	£15,000	£0	Mae'r Gwasanaeth Cefnogi Busnes yn Wasanaeth a sefydlwyd o'r newydd ym Mehefin, 2017 ac mae'n gyfuniad o sawl cyn-wasanaeth bychan. Mae angen moderneiddio'r strwythur a etifeddwyd yn sgil y newidiadau sydd wedi digwydd yn y ffordd o weithio o fewn y Cyngor e.e. perchnogaeth a chyfrifoldeb am berfformiad yn ganolog i'r disgwyliadau o'n rheolwyr yn hytrach na bod yn gyfrifoldeb penodol i'r gwasanaethau corfforaethol. Mae adolygiad o gyfrifoldebau dwy swydd wedi arwain at swydd ddisgrifiadau diwygiedig sy'n cyfarch gofynion ar gyfer y dyfodol ac mae hyn wedi arwain at	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	

Atodiad 3

Tud. 289

				arfarniadau swyddi sydd yn dyfarnu lefelau cyflog is.		
1.12	Trosglwyddo i sistem swyddfa gefn cyswllt cwsmer newydd (Ffos)	£0	£23,000	Mae'r gwasanaeth wedi penderfynu newid y sistem swyddfa gefn o un a ddarparwyd gan gyflenwr allanol i sistem a ddyluniwyd yn fewnol. Bydd hyn yn arbed costau refeniw wrth osgoi talu am drwydded flynyddol i gwmni allanol. Anelir i gwblhau'r gwaith o drosglwyddo'n llwyr i'r sistem fewnol erbyn Ebrill, 2020.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.13	Lleihau cefnogaeth weinyddol o fewn y Gwasanaeth Cefnogol drwy gyflwyno systemau TG	£65,000	£39,000	Lleihau'r adnodd gweinyddol wrth gyflwyno rhagor o fodiwlau Hunan Wasanaeth Staff (Technoleg Gwybodaeth) ar gyfer rheolwyr a staff. Rhagwelir y gellid rhesymoli'r strwythur yn dilyn cyflwyno'r modiwlau hyn gan ddileu'r angen i fewnbynnu data mwy nag unwaith o fewn llif gwaith yn y meysydd recriwtio a phenodi, prosesu amserlenni a chofnodi absenoldebau staff. Pwysleisir bod angen i'r modiwlau hyn fod wedi'u datblygu a'u cyflwyno yn llawn cyn y gellid gwireddu'r arbedion pellach o fewn y Gwasanaeth.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.14	Dileu swydd o'r Gwasanaeth Gwybodaeth yn sgil cyflwyno system electronig	£30,000	£0	Rhan o swyddogaeth y Gwasanaeth yw cefnogi adrannau gyda'r gwaith o gadw cofnodion a dogfennau. Gyda'r lleihad disgwylidig yn y gofyn am gefnogaeth yn sgil cyflwyno sistem electronig 'iGwynedd', mae'r Gwasanaeth yn credu y gellir ymdopi gyda'r gostyngiad mewn adnodd, heb effeithio yn ormodol ar wasanaethau'r Cyngor. Nid yw igwynedd wedi dwyn llawn ffrwyth eto ond credir y gellid lleddfu unrhyw effaith tymor byr o ddileu'r swydd hon	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	

Atodiad 3

Tud. 290

				trwy'r buddsoddiad presennol mewn swyddi dros-dro a gyllidir yn gorfforaethol er mwyn cyflwyno 'iGwynedd' yn llawn ar draws y Cyngor.		
1.15	Dileu un swydd swyddog adnoddau dynol ac un swydd ymgynghorydd adnoddau dynol. (Lleihad staffio o 20%) drwy newid ein model gweithredu.	£0	£80,000	Rydym yn ceisio newid i fodel gweithredu lle mae llai o ddibyniaeth ar y gwasanaeth ymgynghorol adnoddau dynol. Byddai hyn yn golygu trosglwyddo sgiliau i reolwyr fedru cyflawni eu rôl yn effeithiol ac fe fyddai hyn yn galluogi i ni leihau'r nifer o swyddogion o 2 swydd allan o 10.5. Y risg yw nad yw'r baich gwaith yn lleihau oherwydd nad yw rheolwyr yn gallu dygymod. Bydd hefyd angen sicrhau fod y gefnogaeth briodol ar gael mewn ffyrdd amgen.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.16	Lleihau'r gefnogaeth i'r Tîm Rheoli ac i gefnogi rheolaeth project.	£68,750	£41,250	Byddai un rhan o'r arbediad hwn yn golygu lleihau'r gefnogaeth uniongyrchol dydd i ddydd i'r Tîm Rheoli tra byddai'r ail ran yn golygu lleihau'r arbenigedd o fewn y Cyngor ym maes rheolaeth prosiect ac yn cyfyngu rhyw gymaint ar yr hyblygrwydd i ymateb i ofynion ar y Gwasanaeth. Credir y byddai modd dygymod hefo'r gofynion arferol gyda pheth newid yn y modd o weithio, ond efallai y byddai'r ddisgyblaeth o reoli prosiect felly yn dirywio dros amser.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.17	Dileu'r Gwasanaeth Datblygu Sefydliad	£0	£54,000	Byddai dileu'r gwasanaeth yma yn golygu na fyddai'r adnodd presennol ar gael i roi sylw i fuddiannau staff, i gynnal arolygon, i hyrwyddo'r diwylliant a chynnig cefnogaeth i reolwyr er mwyn gwreiddio egwyddorion 'Ffordd Gwynedd' nac ychwaith i weithredu fel y pwynt cyswllt gyda phobl Gwynedd ar gyfer ymdrin â chwynion ffurfiol. Mae'r uned yma wedi bod yn llwyddiannus iawn yn datblygu buddion i staff	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	

Atodiad 3

Tud. 291

				gan gynnwys negodi disgownts mewn siopau lleol ac annog siopau lleol i'w cynnig er mwyn cael staff i brynu'n lleol. Ni fyddai modd cynnal y gweithgaredd hwnnw gan olygu y byddai'n dirywio dros amser tra byddai'r agweddau eraill o'r gwaith, o anghenraid, yn derbyn llawer llai o sylw yn sgil y gofynion eraill ar y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad.		
1.18	Lleihau costau llinellau ffon drwy ddefnyddio mwy ar VOIP	£38,000	£38,000	Rydym eisoes wedi trosglwyddo nifer o linellau ffon y Cyngor i fod yn defnyddio VOIP : hynny yw, defnyddio llinellau cyfrifiadurol i wneud galwadau ffôn yn hytrach na thalu am linellau ffon draddodiadol. Byddai modd ymestyn y cysyniad tu hwnt i brif swyddfeydd y Cyngor i sefydliadau eraill, ysgolion, cartrefi gofal, ac unrhyw adeilad sydd â chyswllt rhwydwaith addas sy'n cael ei ddarparu gan y Gwasanaeth TG gan arbed arian. Ni fyddai'n cael effaith ar drigolion Gwynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.19	Negodi ffioedd Archwilio Allanol	£40,000	£0	Dengys ein proffil risg y dylem fedru ail negodi prisiau. Ni fydd yna oblygiadau ar wasanaethau'r Cyngor nac ar bobl Gwynedd. Mae yna risg y byddent yn gwrthod, ond bu peth lwyddiant mewn blynyddoedd diweddar.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.20	Newid dull ariannu Caffael Systemau	£35,000	£0	Lleihau cyllideb darparu meddalwedd gyda'r bwriad o isafu'r gefnogaeth ymgynghorol ar ein systemau. Ni fyddai unrhyw oblygiadau i bobl Gwynedd nac effaith ar wasanaethau yn y tymor-byr. Gall fod angen ariannu datblygiad yn y tymor-hir.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.21	Lleihau teithio o fewn yr Adran Gyllid o 30%	£5,750	£0	Lleihau'r gyllideb teithio ar gyfer yr adran drwy ddefnyddio dulliau cyfathrebu electronig, megis Skype for Business, cynllunio siwrneiau, ayb. Felly, ni ddylai gael effaith ar bobl Gwynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	

Atodiad 3

Tud. 292

1.22	Lleihau Staffio Gwasanaeth Incwm (Lleihau staffio o 8%)	£11,380	£0	Yn dilyn ail-strwythuro staff, mae rhan o swydd yn wag o fewn y gwasanaeth. Mae ein perfformiad presennol yn adlewyrchu hynny ac felly, mae effaith dileu'r swydd wedi ei weld eisoes ar yr adrannau perthnasol. Gellir gwneud hyn yn barhaol.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.23	Lleihau Staffio Gwasanaeth Cyflogau o 9%	£19,500	£0	Yn dilyn ail-strwythuro staff, mae un swydd yn wag o fewn y gwasanaeth. Mae ein perfformiad presennol yn adlewyrchu hynny ac felly, mae effaith dileu'r swydd wedi ei weld eisoes ar yr adrannau perthnasol. Gellir gwneud hyn yn barhaol.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.24	Lleihau staffio yn y maes cyfrifeg	£49,130	£0	Yn dilyn trosiant staff, mae un swydd yn wag o fewn y gwasanaeth. Mae ein perfformiad presennol yn adlewyrchu hynny ac felly, mae effaith dileu'r swydd wedi ei weld eisoes ar yr adrannau perthnasol. Gellir gwneud hyn yn barhaol.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.25	Defnydd tanwariant un tro i ariannu hyfforddiant	£34,400	£0	Lleihau'r gyllideb barhaol i ariannu hyfforddiant gyda'r bwriad o ddefnyddio tanwariant un-tro i'w ariannu i'r dyfodol, sydd yn golygu fod unrhyw hyfforddiant proffesiynol yn y maes Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth yn ddibynnol ar fod arian un-tro (tanwariant neu gronfa adrannol) ar gael i'w ariannu. Dim effaith ar gefnogaeth ariannol i'r adrannau / pobl Gwynedd, cyn belled bod y lefel o hyfforddiant yn cael ei gynnal. Risg yn y tymor hir fod staff ddim efo'r sgiliau angenrheidiol os na fydd y tanwariant ar gael, a byddai gwasanaeth Cyllid heb swyddogion wedi eu hyfforddi a'u cymhwyso'n briodol yn risg sylweddol i allu'r Cyngor i wneud y defnydd gorau o'i adnoddau ar ran pobl Gwynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	

Atodiad 3

1.26	Ail negodi cytundeb rhwydwaith y Cyngor	£170,000	£0	Mae hwn wedi ei gytuno gyda Llywodraeth Cymru a'n darparwr, gyda chostau'n gostwng £200,000 y flwyddyn. Byddwn angen buddsoddi £30,000 y flwyddyn er mwyn cryfhau ein cyswllt i'r rhyngrwyd oherwydd cynnydd naturiol yn nefnydd y cyfryngau digidol. Bydd angen tynnu cyllidebau i'r canol (o bob adran o'r Cyngor ac o gyllidebau datganoledig yr ysgolion) er mwyn gwireddu lleihad yn y costau fel arbedion. Ni fydd effaith ar wasanaethau cefnogol i'r adrannau na phobl Gwynedd. Mae'n gyfle i wneud arbedion a chryfhau ein darpariaeth.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.27	Lleihau costau cyflenwadau o 2.5%	£16,330	£0	Ystyrir fod modd lleihau'r gyllideb cyflenwadau drwy uchafu'r defnydd o ddulliau gweithio electronig ac osgoi cost papur, argraffu, ayb. Heb gael unrhyw effaith ar bobl Gwynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.28	Dileu swydd o'r Gwasanaeth Incwm	£5,850	£17,550	Ar hyn o bryd mae yna swydd sydd yn wag, ond a lenwyd ar sail dros dro ar hyn o bryd yn y Tîm Adennill dyledion cyffredinol. Byddai modd dileu'r swydd hon heb ddiswyddo aelod o staff parhaol, ond mae'n debyg y byddai yna effaith ar ein gallu i adennill dyledion. Ni wyddom yn union beth fyddai'r effaith hwnnw heb arbrofi i weld. Byddai colli un person sy'n adennill dyledion yn golygu llai o ymdrech yn ceisio adennill gyda'r risg y byddem yn colli mwy na fyddem yn ei arbed. Pe ddigwyddith hynny byddai angen i ni ystyried adfer yr arbediad.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	



1.29	Ymestyn egwyddorion Cynllun Peilot Alltwn ar draws y gwasanaeth	£133,500	£400,500	<p>Yn seiliedig ar dystiolaeth cynllun peilot Alltwn a thystiolaeth o siroedd eraill megis Torfaen, mae rhyddhau amser staff i gael sgysiau cychwynnol addas er cael datrysiadau cywir y tro cyntaf ynghyd ag integreiddio gyda chydweithwyr iechyd a trydydd sector, yn gallu arwain at well canlyniadau a hynny ar lai o gost. Yn aml iawn, mae hyn yn golygu datrysiadau ataliol eu natur o fewn eu rhwydweithiau a'u cymunedau lleol, yn hytrach na dibynnu'n unig ar becynnau gofal traddodiadol neu 'fwydlen' o wasanaethau Gofal Cymdeithasol. O ran hyn felly, rhagwelir y bydd yna effaith cadarnhaol ar yr unigolyn trwy allu cwrdd â'r hyn sy'n bwysig iddynt yn amserol ac mewn ffurf integredig gyda phartneriaid allweddol megis y Gwasanaeth Iechyd a'r 3ydd sector.</p> <p>Ond, er y dystiolaeth ddechreuol sydd gennym, mae'n amhosib rhagweld beth yw lefel yr arbedion effeithlonrwydd sydd yn bosib trwy ymestyn egwyddorion Ffordd Gwynedd ar draws y gwasanaeth. Y prif resymau am hyn yw bod y galw ar ein gwasanaethau yn parhau i gynyddu a chyflyrau y rhai sydd yn derbyn cefnogaeth yn dwysau, a'r ffaith fod llwyddiant newid y ffordd rydym yn gweithio yn gwbl ddibynnol ar ein gallu i greu cymunedau mwy gwydn ac integreiddio ein gwaith gyda phartneriaid allweddol i'r dyfodol. Rhaid disgwyl nes gweld profiad y tranche cyntaf cyn dibynnu ar y swm arbedion yma.</p>	<p>Dylai y newid yma yn y dull o weithio gael effaith gadarnhaol ar bob unigolyn fydd yn derbyn gwybodaeth, cyngor neu gymorth gan y gwasanaethau gofal. Bydd anghenion pob achos yn cael ei asesu yn unigol a darpariaeth addas a phriodol yn cael ei gynnig.</p>	<p><a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad2">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad2</a></p>
1.30	Gwella prosesau gwaith drwy gynnal adolygiad Ffordd Gwynedd a defnyddio modiwlau cyllid y system TG newydd o fewn yr Adran Oedolion	£40,000	£40,000	<p>Mae adolygiad 'Ffordd Gwynedd' a modiwlau cyllid y system TG newydd yn cynnig cyfleoedd i newid a gwella prosesau gwaith cyfredol.</p> <p>Rhagwelir y bydd newidiadau hyn yn arwain at allstrwythuro i dimau o fewn y gwasanaeth busnes.</p>	<p>Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan yr Uned Busnes yn cefnogi pawb sydd yn derbyn cefnogaeth gan yr Adran Ni ddylai'r unigolion weld unrhyw effaith ond bydd rhaid i'r Cyngor gadw golwg ar unrhyw effaith</p>	<p><a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad3">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad3</a></p>

				<p>Rhagwelir y bydd y cynllun yn arwain at arbedion effeithlonrwydd ac felly ddim effaith negyddol ar drigolion. Er hynny mae risg ynghlwm na fydd y cynllun y cyflawni'r arbediad yn llawn ac na fydd y rhagdybiaethau cynnar yn gyraeddadwy</p>	<p>a gwneud y newidiadau gam wrth gam. Rhagwelir y bydd addasu dulliau gwaith yn ddi-effaith hyd at drothwy ond y byddai effaith ar y gefnogaeth a gynigir os yn camu dros y trothwy hwnnw. Bydd angen monitro parhaus i sicrhau na fydd hynny yn digwydd.</p>	
1.31	Adolygu'r trefniadau gweithredu o fewn yr Adran Oedolion	£0	£135,000	<p>Byddwn yn parhau i adolygu ein prosesau gwaith i adnabod unrhyw gyfleoedd effeithlonrwydd pellach sy'n bodoli o fewn yr Adran. O ystyried y gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd allai arwain at hyd at 8 swydd FTE yn llai, a'r arbedion effeithlonrwydd sydd wedi eu canfod dros y blynyddoedd diweddar, y tebygrwydd ydi na fydd posib cyflawni'r swm dan sylw trwy arbedion effeithlonrwydd yn unig.</p> <p>Er hyn tybir y bydd yr ymarferiad o adolygu ein prosesau gwaith yn ein helpu i adnabod y toriadau fyddai'n cael yr effaith lleiaf ar bobl Gwynedd. Rhagwelwn y gallai'r toriadau yma gynnwys cynigion i dderbyn gostyngiad cyffredinol mewn safon cyflawni rhai tasgau sy'n angenrheidiol eu natur o ran gofynion cyfreithiol, yn ogystal hefyd a pheidio gwneud rhai tasgau sydd o bosib o natur fwy datblygol.</p> <p>Yn benodol o ran yr adolygiad cyfredol o roi strwythur newydd cefnogol yn ei le, tybiwn y bydd hyn yn rhoi'r balans cywir i ni i'r dyfodol o ran sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o amser staff rheng flaen. Y risg sydd ynghlwm a gwneud toriadau i'r gefnogaeth fusnes yw'r ffaith y byddai'n rhaid i weithwyr rheng flaen ymgymryd â thasgau ychwanegol ac arbenigol sy'n annhebygol o fod yn gryfder ganddynt, gan</p>	<p>Mae'r cynllun yn ymwneud â gwasanaethau sydd yn cefnogi gwasanaethau llinell flaen yr Adran. Ni ddylai unigolion sy'n derbyn gwasanaeth weld unrhyw effaith ond bydd rhaid i'r Cyngor gadw golwg ar hyn gam wrth gam. Os yw monitro parhaus yn dangos bod y newidiadau mewnol yn cael effaith ar ddarpariaeth gwasanaethau llinell flaen yna bydd angen addasu neu gyfyngu unrhyw newidiadau pellach.</p>	<p><a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad4">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad4</a></p>

Atodiad 3

Tud. 296

				arwain at sefyllfa ble byddent wrth reswm wedyn yn treulio llai o amser gyda thrigolion. Rhagwelir felly y byddai gweithredu'r elfen 'toriadau' fel rhan o'r cynllun hwn yn debygol o gael effaith negyddol ar allu ein staff rheng flaen i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i drigolion, deall anghenion ein poblogaeth ar lefel lleol, yn ogystal â gallu'r Timau Gwaith Cymdeithasol i fod yn rheoli'r galw yn effeithiol. Mae'r gefnogaeth fusnes yn gosod sylfaen gwaith gwbl allweddol os am lwyddo gyda'r sialens o reoli'r galw ar ein gwasanaethau.		
1.32	Adolygiad o drefniadau gweithredu o fewn y maes Priffyrdd	£37,500	£12,500	O gynnal adolygiad 'Ffordd Gwynedd' rydym wedi adnabod ffyrdd o ddiddymu dyblygu gwaith rhwng yr elfen gomisiynu a'r gweithlu priffyrdd. Mae'n annhebygol y byddai trigolion Gwynedd yn sylwi ar y gwahaniaeth er y gallasai arwain at lai o staff i ymateb i ymholiadau ar brydiau.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.33	Rhesymoli Gweithdai Fflyd o 3 i 2 yn y Sir	£0	£130,000	Gellir rhesymoli'r nifer gweithdai sydd gennym i arbed arian. Nid yw'n debygol y bydd yna unrhyw effaith ar drigolion Gwynedd ond yn amlwg fe allasem weld colli swyddi mechanics yn lleol hyd at 6 (F.T.E).  Nid yw'r Gwasanaeth Fflyd wedi cynnal cynllun busnes llawn gogyfer y cynllun arbedion yma nac asesiad risg o ddod lawr o dri safle i ddau. Byddai cau un gweithdy yn golygu y byddai'n rhaid i gerbydau deithio o un ardal i'r llall er cael eu gwasanaethu. Byddai'n ofynnol hefyd buddsoddi o fewn y gweithdai eraill er ymgorffori gwaith o'r gweithdy fyddai'n cau. Fe allasai hyn effeithio'r achos busnes gan ddod a maint yr arbediad net i lawr.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	

Atodiad 3

Tud. 297

1.34	Lleihau'r gyllideb ffioedd proffesiynol/ cyfreithiol	£7,260	£0	Mae 4 llinell gyllideb yn cyfrannu at y cyfanswm yma sydd yn cynnwys cyllideb i brynu gwasanaethau proffesiynol drwy asesiadau yn annibynnol o'r gwasanaeth mewn achosion llys neu cyn cychwyn achos llys a ffioedd cychwyn achosion llys. Mae'r cyllidebau yma yn eistedd gyda'r gwasanaeth plant ac mae tanwariant bychan wedi bod ar y penawdau cyllideb yn hanesyddol. Rhagwelir fod modd lleihau ychydig ar bob un o'r penawdau hyn heb gael ardrawiad ar blant a theluoedd gan barhau i gyfarfod a'r gofynion llys.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.35	Lleihau'r gyllideb hyfforddiant o fewn y Gwasanaeth Plant	£8,980	£0	Byddai dileu yr elfen hyfforddiant arbenigol o'r gyllideb yn canatau i ni arbed 3% o'r gyllideb IFSS. Ni fyddai hyn yn cael effaith ar blant, teuluoedd nac ar staff. Roedd yr elfen hon yn rhan o'r cyllid oedd ar gael i osod y gwasanaeth newydd statudol yma yn ei le ac roedd trefniadau 'train the trainer' yn bodoli o fewn y gwasanaeth. Nid yw hyn yn hanfodol bellach. 'Roedd yna hefyd anghenion hyfforddi arbenigol a oedd yn ofynol wrth sefydlu'r tim trothwy o'r newydd. Erbyn hyn mae'r gofyn hwnnw wedi lleihau yn sylweddol a staff yn ymgymryd a darpariaeth hyfforddiant cyffredinol i weithwyr proffesiynol. Ni fyddai effaith ar ddarparu gwasanaeth uniongyrchol i blant a theluoedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.36	Lleihad yng nghyllideb gefnogol yr Adran Plant a Theluoedd	£14,960	£0	Lleihad fyddai hwn yn y gyllideb offer ar gyfer y gwasanaeth fyddai yn cael dim effaith ar blant a theluoedd a lleihad hefyd yn yr opsiynau i fynychu cyrsiau hyfforddi proffesiynol allan o'r Sir sydd yn gostus o ran prynu a theithio.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.37	Dileu swydd Swyddog Cefnogol	£29,210	£0	Wrth i'r ddau gyn Brif Swyddog roddi'r gorau i'w gwaith ni fydd angen swyddog cefnogol. Mae'r cynllun yma eisoes wedi cael ei weithredu ac ni fydd effaith ar drigolion Gwynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	

Atodiad 3

Tud. 298

1.38	Dileu cyllideb gweithfeydd corfforaethol	£46,340	£0	Rhoddwyd y swm yma o'r neilltu i ariannu cynlluniau corfforaethol wrth ad-drefnu Uwch reolaeth ddiwethaf yn 2014. Yn yr hinsawdd bresennol gellir ei hepgor heb gael effaith ar bobl Gwynedd gan ystyried unrhyw angen i'r dyfodol o unrhyw danwariant neu fid unwaith ac am byth.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.39	Creu arbedion effeithlonrwydd o fewn y Gwasanaeth Crwner	£5,000	£0	Er bod y gwasanaeth yn un statudol ac nad oes gennym lawer o ddewis ynglŷn â faint yr ydym yn ei dalu (gan fod yn rhaid i ni ddigolledu'r crwner am ei gostau). Ystyrir fodd bynnag fod modd edrych am rywfaent o arbedion effeithlonrwydd a bydd adolygiad i adnabod posibiliadau heb effeithio ar bobl Gwynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.40	Lleihau 2 ddiwrnod ar gefnogaeth weinyddol etholiadau a chyfreithiol (lleihad o 7% yn y gefnogaeth weinyddol)	£6,225	£6,225	Ystyrir y byddai modd lleihau'r gefnogaeth weinyddol heb gael llawer o effaith ar drigolion Gwynedd ond mae yna siawns fechan y gallasai effeithio ychydig ar rai elfennau o'r gwaith.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.41	Dileu'r holl gyllideb cefnogi adolygiadau Ffordd Gwynedd.	£56,030	£5,340	Tra bod modd gostwng y gyllideb heb ardrawiad sylweddol byddai'r cynllun yma efallai yn arafu adolygiadau oherwydd methiant i ddatrus y cymorth ariannol sydd ei angen. Byddai'n rhaid i adrannau gyfarch yr angen hynny eu hunain. Wedi dweud hynny nid yw hynny yn afresymol.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.42	Cyfyngu amser staff i fynd ar gyrsiau addysgiadol e.e. cyrsiau BTEC, HNC a gradd.	£9,000	£0	Mae'r Adran yn rhoi cyfleoedd i staff fynd ar hyfforddiant tra'n gweithio i'r Cyngor. Drwy cyfyngu'r amser yn ystod oriau gwaith byddai hyn yn golygu fod yna fwy o amser ar gael i ennill ffi drwy gynyddu oriau cynhyrchiol yr adran.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.43	Ail strwythuro rheolaeth yr Adran Ymgynghoriaeth	£11,500	£11,500	Mae newid yn ein patrwm gwaith yn golygu fod angen i uwch swyddogion yr adran ennill fwy o ffioedd sydd rŵan yn bosib drwy i YGC wneud mwy o waith tu hwnt i Wynedd e.e. i NMWTRA, Llywodraeth Cymru, y sector breifat a llywodraethau lleol eraill. Golyga hyn felly ofyn i Uwch Swyddogion yr Adran wneud mwy o waith cynhyrchu ffi yn hytrach na gwaith "rheolaethol".	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	

Atodiad 3

2.1	Lleihau'r adnodd o fewn y Gwasanaeth Cefn Gwlad	£5,000	£15,000	Mae yna adolygiad ('Ffordd Gwynedd') ar y gweill yn yr Uned yma. Rhagdybir ar sail ein gwybodaeth o beth sy'n digwydd ar hyn o bryd y bydd cyfleoedd yn codi i ryddhau arbedion drwy'r gwaith hwnnw ond os na fydd hynny yn dwyn ffrwyth mae modd lleihau'r gyllideb drwy leihau rhywfaint ar y gwaith a wneir.	Mae'n bosib y bydd mynediad at hawliau tramwy yn hyd yn oed mwy cyfyngedig i deuluoedd, pobl hŷn a phobl anabl pe na fyddai'r Uned yn gallu cwblhau ei raglen gwaith yn llawn.	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad5">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad5</a>
2.2	Gostyngiad yn y nifer o Gynghorwyr	£0	£100,000	Mae'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth leol eisoes wedi nodi eu bod am leihau nifer yr aelodau etholedig. Er na fydd yr arbediad ar gael tan ar ôl etholiad Mai 2022, dylid ei gymryd i ystyriaeth rŵan er mwyn osgoi toriadau diangen i wasanaethau.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
2.3	Addasu trefn gwirio DBS	£0	£50,000	Mae adolygiad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd yng nghyswllt polisi presennol y Cyngor i ail-wirio cofnod troseddol pob swyddog sy'n cyflawni gwaith ple mae angen gwiriad DBS. Mae pob gwiriad yn costio £44 sy'n golygu bod y Cyngor yn talu'r ffi yma ar ddechrau cyflogaeth swyddog perthnasol ac yna pob 3 blynedd wedi hynny. Mae'n ofyn cyfreithiol i gynnal gwiriad DBS ar bob swyddog a gyflogir o'r newydd yn y meysydd perthnasol ond dewis y Cyngor yw'r ffaith ein bod yn bresennol yn ail-wirio cofnod pob 3 blynedd (er bod cefnogaeth i hynny gan sefydliadau megis yr Arolygaeth Gofal a.y.b.). Byddai peidio cynnal ail-wiriad pob 3 blynedd yn gwireddu arbediad blynyddol o £50,000 i'r Cyngor ac mae adolygiad yn cael ei gynnal er mwyn ystyried sut y byddai modd gwneud hyn heb beryglu diogelwch plant ac oedolion bregus h.y. prin iawn yw derbyn unrhyw ddadleniad o gofnod troseddol ar ôl cynnal ail-wiriad sy'n tynnu sylw at drosedd ymysg gweithlu'r Cyngor, a phan fo trosedd wedi'i chyflawni, byddai hynny yn hysbys i'r cyflogwr cyn cynnal yr ail-wiriad. Mae opsiynau eraill fyddai'n gwireddu arbediad	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	

				llai yn rhan o'r ystyriaeth hefyd ond mae angen gwaith pellach ar y posibiladau hynny cyn eu cyflwyno.		
2.4	Dileu 1 swydd o'r Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu	£0	£26,000	Mae'r Gwasanaeth hwn yn darparu cefnogaeth i'r holl waith a wneir ym meysydd ymgysylltu, gwefan y Cyngor, swyddfa'r wasg, cyfathrebu mewnol, cyfathrebu hefo cynghorwyr a chyfathrebu mewn argyfwng. Byddai lleihad o 1 swydd yn golygu ein bod yn rhagweld y byddai modd parhau i ddarparu gwasanaeth lle byddai ei angen yn ôl blaenoriaethau corfforaethol.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
2.5	Ail-strwythuro'r gefnogaeth ar gyfer Craffu	£25,000	£0	Mae angen sicrhau strwythur sydd hefo'r capasiti i gefnogi gofynion cynyddol trefniadau craffu'r Cyngor. Mae dwy swydd wedi dod yn wag o fewn y Gwasanaeth Democraidaidd ac edrychir i ail-gyfeirio adnodd ariannol i bwrpas cefnogi craffu wrth wireddu arbediad ariannol ar yr un pryd. Gellir gwneud hyn yn wyneb adolygiad o drefniadau gwaith sy'n cael ei gynnal o fewn y Gwasanaeth Democratiaeth yn bresennol h.y. dyma sy'n caniatáu'r arbediad a'r gallu i ail-gyfeirio adnodd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
2.6	Lleihau Staffio Gwasanaeth Trethi a Budd-daliadau o 4%	£40,440	£0	Mae'r swydd a hanner yma eisoes yn wag o fewn yr uned ac mae ein perfformiad presennol yn adlewyrchu hynny. Byddai peidio â'u llenwi'n barhaol yn golygu y dylem fedru cynnal y perfformiad presennol ond fe fydd yna lai o allu i ddygymod gyda sefyllfaoedd anarferol yn y dyfodol. Tra na ddylid gweld effaith ar drigolion ar adegau o bwysau arferol, bydd effaith o oedi cyn ymateb ar gyfnodau mwy prysur, neu mewn cyfnod o newid trefniadau.	Mae pobl anabl a phobl o leiafrif ethnig yn fwy tebygol fod yn anactif yn economaidd ac felly yn fwy tebygol of dderbyn budd-daliadau. Yn y mwyafrif o achosion, caiff Budd-dal Tai a Gostyngiad Treth Cyngor eu talu i unigolion sydd ag anabledd tymor hir yn syth heb wneud cais i'r Cyngor, gan eu bod yn derbyn budd-daliadau a weinyddir gan y DWP hefyd. Felly mae llai o debygolrwydd y byddai oedi mewn delio gyda'u ceisiadau i'w cymharu ag eraill.	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad6">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad6</a>

Atodiad 3

Tud. 301

2.7	Trefn slipiau electronig cyflog i bawb	£3,750	£11,250	Byddai atal slipiau cyflog papur yn llwyr yn amhoblogaidd ymysg nifer o staff sydd ar hyn o bryd yn ei dderbyn ar bapur. Mae yna berygl y gallai gynyddu'r nifer ymholiadau. Fodd bynnag, ni fyddai'n cael effaith ar y cyhoedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
2.8	Arbedion dros ben o ail-strwythuro diweddar i'r Gwasanaeth Llyfrgell	£15,000	£0	Dros y 4 blynedd diwethaf mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd wedi cyflwyno cyfres o newidiadau i'w model darparu ac wedi cyflawni arbedion i'r Cyngor yn eu sgil. Mae £15k o arbedion wedi cael eu cynhyrchu uwchlaw y targed a osodwyd i'r gwasanaeth gan y Cyngor ac yn ystod 2018/19 mae'r gyllideb yma yn cael ei defnyddio i helpu gwreiddio'r gwasanaeth newydd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
2.9	Cydweithio â'r trydydd sector i sicrhau darparwr newydd i gymryd drosodd y ddarpariaeth gofal dydd yng Nghriccieth a Blaenau Ffestiniog	£25,000	£75,000	<p>Mae yna ddwy ganolfan dydd sef Encil Y Coed, Criccieth (18 yn mynychu ar hyn o bryd gyda'r ganolfan yn agored 3 diwrnod yr wythnos) a Blaenau Ffestiniog (15 yn mynychu ar hyn o bryd gan agor 4 diwrnod yr wythnos) lle mae gan gyrrff fel Age Cymru bresenoldeb yn ardaloedd eisoes. Mae datblygiadau Hafod Y Gest a Chanolfan Goffa Ffestiniog yn gyfleon i gydweithio.</p> <p>Er y bydd parhad gwasanaeth i'r unigolion gall newid darparwr fod yn fater sensitif i fynychwyr a'u teuluoedd. Mae nifer o fynychwyr y ddwy ganolfan eisoes wedi mynd trwy newidiadau rhai blynyddoedd yn ôl wrth gau canolfan dydd Noddfa Madog ym Mhorthmadog lle bu i nifer fawr o fynychwyr y ganolfan symud i Encil y Coed a Blaenau Ffestiniog.</p> <p>Mae risg hefyd i unigolion ddewis peidio mynychu'r ddarpariaeth newydd yn yr ardal fyddai yn golygu cynnydd yn y galw am ofal cartref mewn ardaloedd lle mae'n sialens cael gofalwyr i gyflawni pecynnau gofal.</p>	Mae'r cynllun hwn yn ymwneud â newid y ddarpariaeth trwy weithio mewn partneriaeth. Bydd anghenion pob unigolyn yn parhau i gael ei asesu ar wahân. Nid yw yn gynllun sydd yn dileu gwasanaeth. Bydd yn cael ei ddarparu mewn modd amgen mwy effeithlon.	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad7">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad7</a>



				Mae arbedion i'w cael drwy ystyried cynnal y ganolfan mewn lleoliad arall yn yr ardal. Mae canolfan ddydd Blaenau Ffestiniog yn cael ei chynnal yn y ganolfan gymunedol. Rydym yn talu rhent blynyddol i'r ganolfan ac maent wedi nod pryder na fydd yn gallu cynnal ei hun heb y rhent.		
2.10	Gwell cydgordio gwasanaeth gyda'r Adran Plant a theuluoedd ar adeg oed trosglwyddo	£0	£60,000	Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn darparu gwasanaeth i blant sydd ag anableddau dysgu hyd y maent yn cyrraedd 18 oed ac yna mae'r gwasanaeth oedolion yn comisiynu gwasanaeth iddynt o hynny ymlaen. Mae cyfle i wella cydweithio a manteisio ar yr effeithlonrwydd allasai godi o fod yn cyd-gynllunio'n well. Bydd angen newid diwylliant i ddatblygu gwasanaethau ar sail egwyddorion cyd-weithio gydol oes a bydd angen datblygu trefn cyd-weithio newydd gydag lechyd ar draws y ddau wasanaeth. Yn gychwynnol, bydd modd i ni graffu'r ffordd orau o gyd-weithio wrth adolygu achosion CHC oed trosglwyddo yn gynt, gan gydweithio gyda'r Adran Plant a Theuluoedd i gynllunio'r gefnogaeth.	Dylai'r cynllun hwyluso a gwella'r gefnogaeth y mae unigolion a'u teuluoedd yn ei gael yn ystod y cyfnod y mae darpariaeth y gwasanaeth yn trosglwyddo rhwng adrannau y Cyngor.	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad8">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad8</a>
2.11	Adolygu pecynnau gofal anableddau dysgu all-sirol er mwyn adnabod lleoliadau mwy lleol i unigolion	£50,000	£50,000	Mae angen parhau gyda'r gwaith pwysig yma o adolygu pecynnau all sirol er mwyn cyd fynd gyda'r strategaeth o ddarparu cefnogaeth ar sail egwyddorion cefnogaeth actif yn y maes anableddau dysgu a'r model adfer (recovery mode) yn y maes iechyd meddwl a rhoi'r cyfle (pan yn addas) i'r sawl sydd eisiau ac angen derbyn cefnogaeth yn lleol. Fel y byddwn yn mynd trwy'r achosion ac yn edrych am ddatblygu cyfleoedd lleol i unigolion rydym yn hyderus o fedru darganfod rhai arbedion ond fe allasai cyrraedd lefel £100k fod yn her, yn enwedig wrth gyrraedd yr achosion hefo anghenion dwys a rheoli ymddygiad dwys.	Mae'r cynllun yn ymwneud â lleihau y ddibyniaeth ar leoliadau all-sirol drud a chryfhau y ddarpariaeth ar lefel lleol. Bydd pob lleoliad neu wasanaeth i gefnogi unigolion yn parhau i gael ei seilio ar asesiad unigol. Ni fydd y gwasanaeth yn newid os na ellir tystiolaethu bod y gwasanaeth sydd ei angen ar gael yn lleol. Dylai lleihau y defnydd o wasanaethau all-sirol hybu datblygiad gwasanaethau lleol a hwyluso cyswllt unigolion gyda'u teuluoedd.	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad9">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad9</a>

Atodiad 3

Tud. 303

2.12	Hurio Cerbydau Codi yn y Canolfannau Ailgylchu yn hytrach na' prynu	£15,000	£5,000	Ar hyn o bryd rydym yn prynu cerbydau codi yn y canolfannau ailgylchu ond dengys adolygiad y byddai modd arbed drwy eu hurio. Ni fyddai unrhyw effaith ar drigolion Gwynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
2.13	Rhesymoli Trefn ar ddyletswydd/ Ar alwad Priffyrdd	£7,500	£7,500	Ar hyn o bryd mae gennym drefniadau ar alwad yn y gwasanaeth Priffyrdd sydd yn derbyn a gweithredu ar alwadau gan y cyhoedd; yr heddlu ac asiantaethau eraill am faterion yn ymwneud a chynnal priffyrdd. Ar hyn o bryd trefnir y gwasanaeth ar sail ardaloedd / rhaniad uned gwaith / comisiynu. Byddai modd symud i sefyllfa o gyfuno rhai agweddau o'r drefn neu weithredu ar sail dwy ardal.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
2.14	Defnyddio deunydd rhatach ar gyfer cynnal ffyrdd	£45,000	£0	O fod yn defnyddio 'non premium binder' wrth gynnal ffyrdd ystyrir y gellir arbed arian. Ni chredir y byddai trigolion Gwynedd yn sylwi ar y gwahaniaeth. Yn wir rydym yn ei ddefnyddio yn barod mewn rhai lleoedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
2.15	Newid Teledu Cylch Cyfyng sydd gyda gofalwyr yn monitro i gyfundrefn 'heb ofalwyr'.	£0	£210,000	Gyda chytundeb y Cabinet, mae'r gwaith yma eisoes ar waith gan fod ein offer wedi cyrraedd diwedd ei oes. Mae yna bosibilrwydd wrth gwrs y bydd trigolion perthnasol yn dod i ganfyddiad nad yw'r gwasanaeth cystal â'r presennol heb oruchwyliaeth ond o ddefnyddio offer modern mae modd chwyddo lluniau camera sy'n edrych dros ardal ehangach a chael yn agos at yr un effaith.	Gan y bydd y system a ddefnyddir yn well bydd effaith positif ond ar y llaw arall ni fydd yn cael ei wyllo drwy'r amser. Felly bydd effaith positif a negyddol ar bob nodwedd cydraddoldeb.	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad10">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad10</a>
2.16	Newid trefniadau gwaith casglu gwastraff i shifftiau a chylchdeithiau llai (sydd o bosib yn golygu newid i ddiwrnod casglu i drigolion)	£0	£150,000	Mae ein profiad yn amlgu fod yna ddatl dros newid ein trefn shifftiau o ran casglu gwastraff. Tra na fyddai hyn yn golygu newid i amllder ein casgliadau, byddai'n golygu newid diwrnodau casglu i rai. Fe allasai helpu fodd bynnag gyda'r gwyn ein bod yn methu rhai casgliadau oherwydd bod rhai ar y lori yn anghyfarwydd a'r rownd gan mai'r un rhai fyddai wedyn ar y rownd yn barhaus. Fe allasai hyn helpu hefyd i greu "perchnogaeth" o'r rownd ymysg y gweithlu.	Positif - Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal. Effaith debygol wrth weld llai o ruthro i gyflawni gwaith. Perchnogaeth criw i'r un gylchdaith yn golygu y byddent yn gallu adnabod pobl sy'n derbyn cymorth ychwanegol.	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad11">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad11</a>

Atodiad 3

Tud. 304

				Bydd newid diwrnod casglu i nifer o drigolion yn achosi peth dryswch ar y cychwyn. Angen trefn amgen i sicrhau cwblhau'r dasg (cylchdaith) i roddi sicrwydd i'r trigolion bod y casglu yn cael ei wneud ar y diwrnod.		
2.17	Cefnogi a hyfforddi gwarchodwyr plant a meithrinfeydd ein hunain	£24,980	£0	Lleihad yn y gallu i ddarparu pecynnau hyfforddi a grantiau 'set up' i warchodwyr plant ac i feithrinfeydd. Ni fyddai effaith sylweddol ar blant a theuluoedd gan y byddai modd i'r gwasanaeth ddarparu'r hyfforddiant yn fewnol heb yr angen i gomisiynu yn allanol.	Bydd unrhyw effaith ar blant yn gyfyngedig	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad12">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad12</a>
2.18	Lleihau'r gyllideb Lwfans Cynllun Cynnal	£0	£30,900	Mae hon yn gyllideb fydd yn lleihau mewn gwariant dros y blynyddoedd nesaf gan ei bod yn gwireddu pecynnau cefnogi teuluoedd o dan gynllun hanesyddol. Nid oes unrhyw wariant yn cael ei gymeradwyo o'r newydd o'r gyllideb hon ers nifer o flynyddoedd ac fe fydd yn dod i ben pan mae'r bobl ifanc sydd yn parhau i dderbyn y lwfans yn troi yn 18oed. Ni fydd defnydd pellach ohoni ar ôl y 3 mlynedd nesaf ac felly ni fydd effaith ar blant a theuluoedd. Nid oes modd bellach i gymeradwyo cynlluniau o dan y trefniant yma oherwydd newid deddfwriaethol.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
2.19	Gwireddu mwy o arbedion effeithlonrwydd o fewn y Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng	£12,700	£0	Darperir y gwasanaeth yma gan Uned ar y cyd ar gyfer Gogledd Cymru. Dengys sgwrs gyda rheolwr yr uned y dylem fedru weld arbediad effeithlonrwydd pellach o'r maint yma dros y 3 blynedd nesaf. Mae £10,000 o hwn eisoes wedi ei gyflawni ac ni ddylai gael effaith o unrhyw sylwedd ar drigolion Gwynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	

Atodiad 3

Tud. 305

3.1	Darparu pwyntiau gwefru ceir trydan mewn meysydd parcio	£0	£50,000	<p>Mae defnydd ceir trydan yn cynyddu'n yn sydyn a galw cynyddol am bwyntiau gwefru mewn meysydd parcio. Mae manylion y grantiau sydd ar gael ar gyfer ariannu'r offer wrthi'n cael eu cyhoeddi. O'i wireddu byddai yna effaith bositif ar drigolion Gwynedd gan fod diffyg pwyntiau gwefru yn broblem i unrhyw un sy'n ystyried prynu car trydan yng Ngwynedd ar hyn o bryd. Mae angen gwaith manwl ar y cynllun hwn cyn gallu datgan sicrwydd o allu ei wireddu, a phwysleisiwn mai amcan yn unig ydi'r ffigwr cychwynnol yma.</p>	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
3.2	Buddsoddi mewn gwelliannau byddai yn gwneud y Neuadd Dwyfor yn fwy effeithlon gan baratoi i edrych am fodel amgen i'r dyfodol	£0	£100,000	<p>Mae'r Adran wedi derbyn adolygiad busnes o'r Neuadd sy'n amlygu o wneud newidiadau a chyda buddsoddiad cyfalaf modest, y gallai arwain at wneud y neuadd £100,000 yn rhatach i'w redeg ymhen 3 blynedd o wireddu'r cynllun. Pan drafodwyd sefyllfa Neuadd Dwyfor yn ystod ymarferiad Her Gwynedd fe benderfynodd y Cyngor na ddylid torri'r gyllideb yma bryd hynny , ond fod hynny yn amodol ar drafod opsiynau gydag unrhyw fudiad lleol gyda golwg ar iddynt gymryd cyfrifoldeb amdano gyda'r nod o leihau'r costau sy'n syrthio ar drethdalwyr Gwynedd, ac y dylid cynnwys unrhyw arbedion yn yr arbedion effeithlonrwydd.</p> <p>Nid oes diddordeb lleol wedi bod mewn rhedeg y Neuadd ond o wireddu'r cynllun yma byddai cost yr adnodd yn syrthio i £48,000 y flwyddyn. Wedi dweud hynny nid ydym yn rhedeg y fath gyfleuster mewn unrhyw leoliad arall.</p>	<p>Bydd peidio â buddsoddi yn arwain yn y pen draw at orfod cau a pheidio darparu gwasanaethau celfyddydol o'r Neuadd. Byddai hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar fwrlwm a gweithgareddau yn y Gymraeg. Mae nifer o weithgareddau celfyddydol yn targedu oedrannau penodol e.e. plant a phobl ifanc, pobl hŷn, bobl anabl a byddai cau neu gael prisiau rhy uchel yn effeithio'n uniongyrchol arnynt.</p>	<p><a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad13">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad13</a></p>

Atodiad 3

Tud. 306

3.3	Creu Uned Gofal Ysbaid newydd yn Tan Y Marian a fydd yn lleihau costau talu am leoliadau allanol	£21,500	£21,500	<p>Mae angen creu Uned Gofal Ysbaid 'bespoke' newydd yn Tan Y Marian i ganolbwyntio ar anghenion dwys a chymhleth. Mae'r angen yma wedi amlygu ei hun am sawl rheswm:-</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Newid mewn anghenion dwys a chymhleth yr oedolion rydym yn gefnogi</li> <li>2. Newid yn anghenion oed trosiannol (ifanc, canol oed, oedolion hyn)</li> <li>3. Llai o achosion yn all-sirol a fwy o oedolion yn derbyn cefnogaeth ddwys yn lleol</li> <li>4. Mwy o oedolion gydag anghenion dwys a chymhleth yn byw gartref</li> <li>5. Angen ail edrych ar y 'block booking' o wythnosau ofal ysbaid mewn dau leoliad yng Ngwynedd. Y gwasanaethau yma bellach yn methu cyfarch anghenion yr oedolion gydag anghenion corfforol ac ymddygiad mwy dwys.</li> </ol> <p>Hefyd, rydym angen gosod fframwaith sirol gofal ysbaid gyda 'menu' o ddewis ar sail galw, anghenion a lleoliad er mwyn darparu dewis ac ystod eang o wasanaethau ar draws y sir. Hynny ar sail y rhesymau uchod a hefyd er mwyn gosod trefn ar gyfer y ffordd rydym yn comisiynu gofal ysbaid. Bydd hynny yn fwy cost effeithiol yn hytrach na dilyn trefn 'spot purchase' o gyfleoedd ofal ysbaid ychwanegol. O wneud hyn oll rhagwelir y byddwn yn creu arbedion drwy leihau'r contract 'block booking, lleihau defnydd o'r drefn 'spot purchase' a chau y cyfleon 'block booking' sydd yn bodoli ar hyn o bryd.</p>	<p>Mae'r gwasanaethau a gynigir yn y safle yma yn benodol ar gyfer unigolion anableded a'u teuluoedd/gofalwyr. Bydd anghenion pob achos yn cael ei asesu yn unigol a darpariaeth addas a phriodol yn cael ei gynnig. Hyderir y bydd y cynllun hwn yn cryfhau y ddarpariaeth gwasanaeth gofal ysbaid yn y Sir.</p>	<p><a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad14">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad14</a></p>
-----	--	---------	---------	--	---	---

Atodiad 3

Tud. 307

3.4	Datblygu 3 prosiect Tai Gofal Ychwanegol arall yng Ngwynedd (Ardal Pwllheli, Ffestiniog, De Meirionnydd).	£0	£300,000	<p>Mae'r Cyngor wedi datblygu dau gynllun Tai Gofal Ychwanegol eisoes yng Ngwynedd - Bala (Awel y Coleg) a Bangor (Cae Garnedd) a'r 3ydd yn y broses o gael ei gwblhau ym Mhorthmadog (Hafod y Gest) gyda tharged arbedion ynghlwm. Yn seiliedig ar ein profiadau hyd yma, amcangyfrif y gellir gwneud arbediad o £200,000 gyda phob datblygiad newydd o gael y rhaniad a'r cydbwysedd cywir anghenion gofal ymhob datblygiad. Byddai angen buddsoddiad ariannol sylweddol i adeiladu 3 safle tai gofal ychwanegol arall yng Ngwynedd, ond yn ogystal â chreu arbedion byddai'n cwrdd â gwir anghenion bobl hyn yn well.</p> <p>Yn naturiol, byddai'n gynllun hir dymor. Byddai asiantaeth dai yn gyfrifol am adeilad. Y costau gofal fyddai'n gyfrifoldeb ar yr adran. Mae yna bosibilrwydd o ehangu'r ddarpariaeth i unigolion ac anabledau dysgu, anabledau corff a chyflyrau iechyd meddwl yn ogystal â darpariaeth i bobl hyn yn unig. Y ddarpariaeth yn golygu fod unigolion yn cael eu tenantiaeth eu hunain ac yn gallu derbyn cefnogaeth amserol petai angen i'w galluogi i barhau yn annibynnol am gyhyd ac sy'n bosib yn eu cymunedau lleol. Tystiolaeth fod yn bosib darparu gofal i unigolion ac anghenion gofal dwys iawn o fewn y cynlluniau. Y cynlluniau yn galluogi i gyplau allu aros gyda'i gilydd a derbyn cefnogaeth ac yn galluogi teuluoedd i barhau i ddarparu elfennau o gefnogaeth petaent yn dymuno.</p>	<p>Dylai y buddsoddiad a'r newid yn y ffordd bydd gwasanaethau gofal yn cael eu darparu gael effaith cadarnhaol i bawb sydd yn derbyn gwasanaeth.</p>	<p><a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad15">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad15</a></p>
-----	---	----	----------	--	---	---

Atodiad 3

Tud. 308

3.5	Lleihau dibyniaeth ar lety dros-dro trwy fuddsoddi mewn llety pwrpasol	£0	£100,000	Mae cyfrifoldeb ar yr Adran i ddarparu llety dros dro i unigolion sy'n ddigartref. Mae'r Adran yn sicrhau llety mewn gwahanol ffyrdd ond yn cael anhawster adnabod llety addas ar gyfer rhai unigolion gan fod prinder darpariaeth ar gael ac yn gorfod cyfrannu at gost y ddarpariaeth. Byddai cyflenwad o eiddo ychwanegol pwrpasol o gymorth i leihau dibyniaeth ar ffurfiau mwy costus. Pe gellid sicrhau buddsoddiad cyfalaf gan y Cyngor i sicrhau bod unedau llai a llety amgen ar gael gellid lleihau dibyniaeth ar lety dros dro. Rhaid sicrhau rheolaeth o'r unedau a bod gennym fynediad uniongyrchol iddynt a chyllid cynnal i osgoi heriau rheolaethol.	Mae'r cynllun wedi ei seilio ar gyfarch anghenion unigolion. Bydd hynny wedi ei seilio ar asesiad penodol o'u hamgylchiadau. Gan fod y cynllun yn ymwneud â gwella adroddiadau a chyfleusterau, dylai arwain at ddim newid neu newid cadarnhaol i'r rhai sydd yn cael eu cefnogi.	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad16">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad16</a>
3.6	Gosod lampau LED i weddill goleuadau stryd y Sir	£0	£45,900	Rydym eisoes wedi newid 10,264 o unedau goleuo stryd i LED. Rydym wedi derbyn cymeradwyaeth am £1.389m trwy gynllun benthyciadau'r Llywodraeth er mwyn cyflawni gwaith fyddai'n cychwyn yn Ebrill 2019 a chwblhau ym Mawrth 2022 i newid 7000 o lampau ffyrdd 'mwyaf' i rai mwy effeithiol. £184,000 fydd y swm ar gael ar ddiwedd y cyfnod y byddwn wedi ad-dalu'r benthyciad yn ôl ond dim ond 45,900 yn y blynyddoedd cychwynnol. Bydd trigolion yn sylwi ar y cychwyn cyn dod i arfer gyda'r goleuadau newydd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
4.1	Cynyddu'r ffi am y clwb gofal cyn ysgol o £0.80 i £1	£43,000	£0	Ar hyn o bryd rydym yn codi 80c am yr elfen gwarchod cyn ysgol yn ein hysgolion ac mae oddeutu 2000 o blant yn manteisio ar y gwasanaeth. O gynyddu'r ffi i £1 byddai'n rhaid i deuluoedd dalu mwy am y gwasanaeth gyda'r perygl y byddai rhai yn dewis peidio parhau a gorfod newid eu patrymau gwaith er mwyn dygymod. Gallai hefyd olygu llai o blant yn dod i gael brecwast am ddim.	Ni ragwelir y bydd yn cael effaith sylweddol negatif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb gan fod y codiad yn y ffi yn gymharol fychan er fod effaith ar blant tlotach wedi ei adnabod (e.e. rhai sy'n dod o deuluoedd hefo aelod anabl neu o leiafrif ethnig)	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad17">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad17</a>

Atodiad 3

Tud. 309

4.2	Cynyddu'r ffi ar gyfer asesu ansawdd dwr er mwyn adlewyrchu'r gost o ddarparu'r gwasanaeth.	£12,500	£12,500	Mae'n ofynnol i'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd archwilio a samplo dyfroedd dwr yfed preifat er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel. Mae'r ystod gwaith sydd ei angen i wneud hynny wedi newid dros y blynyddoedd ac fe ddylai'r ffi a godir adlewyrchu hynny. Yn naturiol o'i godi bydd yn rhaid i ddefnyddwyr ffynonellau dwr preifat dalu mwy am y gwasanaeth ond dim ond i'r graddau y mae'n cwrdd â'r gwir gostau o wneud y gwaith.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
4.3	Cynyddu incwm drwy wella'r drefn o godi cosb ar ymgymeryddwr lle nad ydynt yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth wrth weithio ar ein lonydd.	£15,000	£0	Mae modd defnyddio system dechnoleg yn fwy effeithiol i gael gwell rheolaeth ar weithiau ymgymeryddwr statudol . Mae trefniant cosb ariannol mewn lle ar gyfer peidio â chydymffurfio a'r deddfwriaeth. Byddai cael gwell rheolaeth ar y gweithiau yn arwain at adnabod unrhyw anghysondebau gan ddenu hysbysiadau cosb. Effaith niwtral ar drigolion Gwynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
4.4	Cynyddu incwm drwy ddileu parcio am ddim o Nadolig 2019 ymlaen; cynyddu'r nifer meysydd parcio sy'n rai talu ac arddangos a chynyddu ffioedd parcio gan ystyried sut y gellir yr un pryd a oes modd cadw cost parcio i drigolion yr un fath neu ei leihau hyd yn oed.	£82,500	£97,500	Mae Parcio am ddim dros gyfnod Nadolig yn gollod incwm o oddeutu £45,000.  Byddai newid criteria ar gyfer meysydd parcio talu ac arddangos yn golygu y byddwn yn codi mewn mannau sy'n ddi-dâl ar hyn o bryd, yn ogystal â chynyddu ffioedd mewn rhai lleoliadau.  Byddai codi ffioedd parcio oddeutu 10% yn amlwg yn cynhyrchu fwy o incwm ond yn taro ymwelwyr a thrigolion Gwynedd yr un fath . Yn y rhan fwyaf o feysydd parcio tymor byr byddai cost parcio am awr yn cynyddu wedyn o £1 i £1.10. Yn y rhan fwyaf o feysydd parcio tymor hir byddai cost parcio am 4 awr yn cynyddu o £2 i £2.20.  Yr hyn y byddai'r Cyngor yn dymuno ei wneud yw ystyried a ellid osgoi'r cynnydd yma ar gyfer trigolion Gwynedd neu hyd yn oed ei leihau drwy	Mae'r polisi'n debygol o gael effaith ar bobl sy'n fwy tlawd e.e. teuluoedd hefo pobl anabl, pobl o leiafrif ethnig neu deulu hefo aelod anabl. Mae maint yr effaith yn ddibynnol ar faint y ffi.	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad18">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad18</a>



				leihau pris tocyn tymor i drigolion dyweder. Byddai angen cryn dipyn o waith i sefydlu'r cynllun terfynol yn amlwg.		
4.5	Codi ffioedd difa pla er mwyn dod yn agosach at brisiau'r farchnad	£5,000	£5,000	Mae gwaith diweddar i gynyddu incwm drwy godi ffioedd a denu cwsmeriaid newydd wedi bod yn llwyddiannus. Rydym yn parhau i fod yn rhatach na chwmnïau eraill ac ymddengys felly fod yna gyfle i godi ffioedd. Byddai yna effaith fechan ar drigolion Gwynedd yn sgil cynnydd bychan mewn ffioedd e.e. triniaeth llygod mawr mewn tŷ yn codi o £40 i £45 sydd yn parhau yn gystadleuol wrth gymharu gydag oddeutu £60 gan gwmnïau preifat. Yn naturiol fe fydd angen monitro'r sefyllfa yn ofalus i sicrhau ein bod yn parhau i gynnig pris cystadleuol o gymharu ag eraill.	Asesiad cryno wedi ei wneud i weld os oedd effaith. Dim effaith sylweddol wedi ei adnabod oherwydd nad yw'r gwasanaeth sy'n cael ei ddefnyddio'n rheolaidd.	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad19">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad19</a>
4.6	Cynyddu'r ffioedd a godir ar Ymgymerywyr Statudol ayb am gau ffyrdd / gorchmynion traffig yn sylweddol uwch.	£12,500	£17,500	Mae'r cynllun yma yn golygu cynyddu ffioedd a godir ar ymgymerywyr statudol ac eraill am gau ffyrdd neu i baratoi gorchmynion traffig yn sylweddol uwch. Byddai'r effaith ar ein trigolion yn gallu cynyddu, h.y. drwy i gostau cynnal digwyddiadau gynyddu gan effeithio budd i gymunedau (rhai sydd ddim yn fasnachol eu natur). Fe allasai hyn wrth gwrs arwain ar ddigwyddiadau un ai yn cael eu cynnal heb adael i ni wybod, allasai gynyddu risg i'r cyhoedd, neu fod digwyddiadau ddim yn cael eu cynnal a lleihau'r budd cymunedol.	Mae'r Uned yn aml yn ymgymryd â chymau yn benodol mewn ymateb i geisiadau gan bobl anabl a theuluoedd er mwyn ymdrin â sefyllfaoedd sy'n peri risg iddynt. Pe bai'r gyllideb yn cael ei leihau, mae'n bosib na all yr Uned ymgymryd â'i holl gynlluniau diogelwch gan gynyddu'r perygl i bobl anabl a theuluoedd.	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad20">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad20</a>
4.7	Cynyddu incwm yr Uned Iechyd Galwedigaethol drwy werthu mwy o wasanaeth	£20,000	£0	Mae'r Uned yn cynhyrchu incwm drwy werthu gwasanaeth iechyd galwedigaethol i sefydliadau cyhoeddus eraill. Mae'r cynnydd yn y targed incwm yn seiliedig ar berfformiad y Gwasanaeth dros y tair blynedd diwethaf.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	

Atodiad 3

Tud. 311

4.8	Denu incwm ychwanegol drwy wneud gwaith i gyrff cyhoeddus eraill	£46,340	£10,000	Rydym wedi bod yn trafod yr hyn a ddarperir i gyrff allanol i adlewyrchu'n well y ddarpariaeth a roddir iddynt.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
4.9	Creu incwm drwy werthu system tracio fflyd	£0	£20,000	Mae system tracio fflyd fewnol wedi'i ddatblygu yma yng Ngwynedd, sy'n dod ag arbedion o tua £100,000 i'r Adran Priffyrdd. Mae cryn ddiddordeb gan awdurdodau eraill, wedi ymdrech i werthu'r system iddynt. Bydd ein gallu i gynhaeafu'r arbediad yn dibynnu ar y partïon eraill yn cytundebu, ond gwelir cyfle i godi incwm ychwanegol.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
4.10	Cynhyrchu incwm drwy atal twyll	£0	£40,000	Byddem yn sefydlu'r gwasanaeth er mwyn ceisio adnabod mwy o achosion twyll na'r hyn a wneir eisoes. Yn amlwg, mae'r swm a nodir yn warged sydd angen i'r gwasanaeth ei gynhyrchu ar ôl ystyried costau ei sefydlu a'i redeg. Mae yna risg na fyddai'r swm yn gwireddu ei hun, ond ni fyddwn yn gwybod heb ymgeisio. Yn sgil Deddf Diwygio Lles 2012, sefydlwyd gwasanaeth atal twyll 'SFIS' gan y DWP, yn cynnwys trosglwyddo cyn staff atal twyll y Cyngor i'r DWP yn 2015/16, cyn gweld canlyniad gweithrediad SFIS, nid oedd modd amcangyfrif maint y twyll gweddilliol tebygol. Wrth gwrs, mae'n anochel bydd elfen o dwyll sydd heb ei adnabod, a bron yn amhosib amcangyfrif faint. Mae yna risg go iawn o ddibynnu ar y swm yma felly.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
4.11	Denu incwm ychwanegol drwy Asiantaeth Casglu Fewnol	£0	£100,000	Yn hytrach na dibynnu ar asiantaethau allanol i fynd ar ôl dyledion, byddai modd sefydlu uned ein hunain. Byddai'r symiau y byddai'n rhaid i ddyledwyr eu talu (ar ben y ddyled) yn parhau i fod yr un fath ond byddai elw sy'n cael ei wneud gan asiantaethau masnachol yn dod i'r Cyngor yn hytrach nag i gwmni preifat. Mae llwyddiant mentrau o'r fath ar draws gogledd Cymru wedi bod yn amrywiol. Byddai yna gostau ynghlwm â	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	

Atodiad 3

Tud. 312

				chyflwyno'r gwasanaeth. Hefyd, mae risg arwyddocaol o fethu denu'r incwm ychwanegol, a phosibilrwydd o ddirywiad yn y cyfraddau casglu trethi.		
4.12	Cysoni trefniadau parcio drwy gyflwyno ffioedd parcio i safleoedd (e.e. ardal Y Glyn)	£20,000	£20,000	Mae ffioedd parcio eisoes yn daladwy mewn rhai meysydd parcio ym Mharc Padarn. Bwriedir cyflwyno ffioedd parcio cyffelyb mewn mannau ychwanegol (e.e. ardal Y Glyn) a fyddai yn cysoni'r trefniadau. Mae'n bwysig nodi mai trigolion Gwynedd ydi canran uchel o'r ymwelwyr sydd yn defnyddio'r safle ar gyfer pwrpasau hamdden. Byddai hefyd yn amcan i geisio cael cyrff eraill i gymryd cyfrifoldeb dros ein parciau gwledig gan leihau'r gost i ni o'u darparu. Byddai angen buddsoddiad i'w weithredu.	Mae'r polisi'n debygol o gael effaith ar bobl sy'n fwy tlawd e.e. teuluoedd hefo pobl anabl, pobl o leiafrif ethnig neu deulu hefo aelod anabl. Mae maint yr effaith yn ddibynnol ar faint y ffi.	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad18">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad18</a>
4.13	Sefydlu ffioedd parcio ar draeth Dinas Dinlle	£15,000	£35,000	Mae ffioedd parcio eisoes yn daladwy mewn rhai meysydd parcio ger prif draethau. Bwriedir cyflwyno ffioedd parcio cyffelyb mewn lleoliadau ychwanegol lle nad ydym yn codi ar hyn o bryd a fyddai yn gyson gyda mannau eraill e.e. traeth Dinas Dinlle. Dylid nodi fod canran uchel o ymwelwyr i'r traethau (yn enwedig allan o dymor) yn drigolion Gwynedd a gall arwain at gynnydd mewn parcio ar y ffordd.	Mae'r polisi'n debygol o gael effaith ar bobl sy'n fwy tlawd e.e. teuluoedd hefo pobl anabl, pobl o leiafrif ethnig neu deulu hefo aelod anabl. Mae maint yr effaith yn ddibynnol ar faint y ffi.	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad18">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad18</a>
4.14	Cynyddu ffioedd lansio ar draws traethau Gwynedd o £10 i £15.		£10,000	Mae modd cynyddu ffioedd lansio cychod o lithrfeydd y Cyngor o £10 i £15. Byddai angen buddsoddiad i'w weithredu.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	

Atodiad 3

Tud. 313

4.15	Cynyddu'r ffi i ysgolion am y gwasanaeth archifau	£5,000	£5,000	Mae yna 70 o ysgolion wedi ymrwymo i ddefnyddio'r gwasanaeth archifau eleni ac maent yn talu 50% o gost y gwasanaeth drwy dalu ffi o £254 yr ysgol. Byddai'r cynnig yn arwain at gynnydd yn ffi ysgolion i £397 yr ysgol, sef cynnydd o bron i £150 yr ysgol (yn ddibynnol ar nifer ysgolion fydd wedi ymrwymo).	<p>Os nad yw'r Gwasanaeth yn parhau pe bai Penaethiaid ysgol ddim yn gallu sicrhau y gyllideb ychwanegol gallai effeithio'n sylweddol ar y nodweddion cydraddoldeb canlynol:</p> <p>Cenedligrwydd – Mae'r deunyddiau'n cyfleu hanes y cymunedau gan adlewyrchu Cymreictod y Sir. Ymwybyddiaeth o gyd-destun ehangach eu cymunedau i ddisgyblion gan gryfhau hunaniaeth ac ymdeimlad o le.</p> <p>Yr iaith Gymraeg – Fel uchod Mae disgyblion drwy ddeall mwy am wreiddiau eu cymunedau yn gallu ymfalchïo yn hanes eu bro a chryfhau eu hunaniaeth bersonol a chymunedol.</p> <p>Oedran – effeithio ar gyfleoedd plant i feithrin a datblygu sgiliau ac yn lleihau eu profiadau.</p>	<p><a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad21">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad21</a></p>
4.16	Cynyddu ffioedd archwilio a thrwyddedu tai mewn amlddeiliadaeth o £140 i £180 yr ystafell	£0	£20,380	Rydym yn codi tal am archwilio a thrwyddedu eiddo amlddeiliadaeth gyda thrwydded wedyn yn parhau am gyfnod o 5 mlynedd. Mae'r tal yn cyfrannu at gost y gwasanaeth a gellid codi'r ffi wrth aros o fewn canllawiau'r llywodraeth. Ar hyn o bryd, codir £140 fesul ystafell a rhagwelir byddai modd codi'r ffi i tua £180 yr ystafell. Mae yna berygl y byddai yna gynnydd posibl mewn lefel rhenti i rai tenantiaid bregus wrth i'r gost gael ei throsglwyddo.	Asesiad cryno wedi ei wneud i weld os oedd effaith. Dim effaith wedi ei adnabod.	<p><a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad22">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad22</a></p>

Atodiad 3

Tud. 314

4.17	Cynyddu incwm gorfodaeth stryd drwy ddirwyo mwy o unigolion sy'n gollwng sbwriel	£10,000	£10,000	Rydym ar hyn o bryd yn edrych ar gydweithio rhanbarthol neu ymestyn pwerau gweithredu i eraill o fewn y Cyngor er mwyn gweithredu ar hwn.	Asesiad cryno wedi ei wneud i weld os oedd effaith. Dim effaith wedi ei adnabod	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad23">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad23</a>
4.18	Gwastraff Gardd: cynhyrchu mwy o incwm neu leihau costau	£25,000	£75,000	Mae yna nifer o opsiynau i arbed arian yn y maes gwastraff gardd. Byddai modd codi ar y ffi flynyddol a neu leihau'r gwasanaeth i 9 mis yn bosibl ond efallai yn creu elfen o anniddigrwydd ymysg tua traean o'n trigolion. Byddai angen ymgynghori ar y dull ffafredig o gael yr arbediad gyda'r trigolion.	Bydd yn effeithio pobl sydd ar incwm isel, sydd ddim yn gallu gwaredu eu gwastraff gardd am ddim yn y Canolfannau Ailgylchu. Y gallai hyn gynnwys grwpiau o bobl fel rhai sydd ar fudd-daliadau mewn perthynas ag anabled neu bensiynwyr ar incwm isel. Byddwn yn edrych ar ffyrdd i liniaru'r effeithiau hyn.	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad24">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad24</a>
4.19	Codi ffi am ailgyflenwi biniau sydd wedi'u difrodi gan drigolion	£6,250	£18,750	Mewn blwyddyn mae gofyn i ni ail gyflenwi 12,000 o gynhwysyddion gwastraff ac amcangyfrifir bod tua 75% o'r achosion yma oherwydd difrod gan drigolion. Gallwn ofyn iddynt dalu am ailgyflenwi. Fel cam cyntaf byddem yn codi am ail gyflenwi bin gweddilliol yn unig.	Asesiad cryno wedi ei wneud i weld os oedd effaith. Dim effaith sylweddol wedi ei adnabod	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad25">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad25</a>
4.20	Codi ffi ychwanegol am amlosgi ar yr un diwrnod a'r gwasanaeth	£10,000	£10,000	Mae modd symud trefniadau'r amlogfa i un lle rydym ond yn amlosgi ar yr un diwrnod os bydd taliad ffi ychwanegol.	Asesiad cryno wedi ei wneud i weld os oedd effaith. Dim effaith wedi ei adnabod	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad26">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad26</a>
4.21	Codi ffi amlosgi yr Amlogfa o £520 i £550	£7,500	£22,500	Codi ffi amlosgi o £520 i £550.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
4.22	Canolfannau Ailgylchu: codi ffi ar fasnachwyr	£5,000	£15,000	Ar hyn o bryd ni chaniateir i fasnachwyr fynd a deunydd i'r canolfannau ailgylchu. Drwy drwyddedu masnachwyr i gael gwneud hynny gallwn gynyddu incwm. Ni fydd effaith ar drigolion.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	

Atodiad 3

Tud. 315

4.23	Codi ffi ar waredu deunyddiau DIY (e.e. Rwbol £3 y bag neu £30 lond trelar)	£25,000	£75,000	Mae rhai cyngorau cyfagos yn codi ar drigolion am fynd a deunydd DIY i'r canolfannau ailgylchu. Mae'r deunydd yma yn ddrud i'w ailgylchu ac mae gennym bryderon fod masnachwyr yn dod a deunydd i'r safleoedd gan honni mai unigolion preifat ydynt. Rhagwelir codi ffi ar nwyddau megis rwbol, teiars, asbestos ac eraill. Er enghraifft Rwbol £3 y bag neu £30 lond trelar, teiar £4 yr un asbestos £12 y bag.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
4.24	Cynyddu ffioedd am gasglu gwastraff gan fusnesau	£0	£100,000	Er nad oes rhaid i ni ddarparu'r gwasanaeth 'rydym yn casglu gwastraff gan fusnesau ac mae o'n talu am ei hun. Mae yna ddarparwyr preifat wrth gwrs ac i raddau mae'r ffaith fod y cyngor yn darparu gwasanaeth yn helpu i gymedroli'r farchnad ac yn helpu i dalu am ein costau gorbenion. Byddai modd codi mwy ond gyda'r perygl y byddem wedyn yn colli busnes ac yn gwneud y gweddill yn aneffeithlon. Ni fyddai yna effaith ar drigolion ond bydd effaith ar 2001 o fusnesau yn y Sir.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
4.25	Cynyddu incwm drwy wneud gwaith cyfreithiol i sefydliadau cyhoeddus eraill	£33,000	£0	Fel rhan o waith o geisio annog mwy o incwm mae'r Uned wedi llwyddo i greu mwy o incwm drwy wneud gwaith i eraill . Mae'r incwm yma eisoes mewn llaw ac felly ni fyddai yna oblygiadau ar bobl Gwynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
4.26	Codi ffioedd YGC yn y maes gwaith ymgynghorol peirianeg sifil.	£40,000	£0	Codi ffioedd d er mwyn adlewyrchu symudiad o fewn y farchnad sector breifat. Byddai costau i gleientiaid yn codi wrth gwrs ond ystyrir fod hyn yn gynaliadwy o ystyried y farchnad bresennol.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
4.27	Cynyddu Incwm ar gyfer y maes atal llifogydd	£25,500	£25,500	Oherwydd yr her o newid hinsawdd mae'r Gwasanaeth wedi llwyddo i ennill gwaith fydd yn cyfrannu mwy o incwm o leiaf am y 5 mlynedd nesaf. Bydd angen cyflogi 3 swyddog ychwanegol er mwyn medru cyflawni'r gwaith hwnnw gyda risg isel i'r gwaith hwnnw leihau ar ôl 5 mlynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	

Atodiad 3

Tud. 316

4.28	Cynyddu incwm drwy gynnig cefnogaeth dechnegol, wyddonol a pheirianyddol i gynlluniau lliniaru risg llifogydd i Gynghorau ledled Cymru.	£7,500	£22,500	Mae'r adran yn datblygu arbenigedd yn y maes o atal llifogydd nad yw ar gael mewn nifer o gynghorau ac ystyrir y gellir gwerthu rhywfaint o'r arbenigedd yma i gynghorau eraill yng Nghymru. Byddai angen cyflogi 2 swyddog ychwanegol er mwyn gwneud hynny ond am y 5 mlynedd gyntaf byddai'r incwm yn ddigonol i gwrdd â'r gost a chreu elw uwch. Byddai yna risg bychan y gallasai'r gwaith leihau ar ôl y cyfnod 5 mlynedd gyntaf.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
4.29	Cynyddu incwm drwy gynnig fwy o gefnogaeth rheoli prosiect i Lywodraeth Cymru ar gynlluniau mawr.	£10,000	£0	Mae yna gyfleoedd pellach i'r Adran gynnig swyddogaeth rheoli prosiect i Lywodraeth Cymru ac er nad oes sicrwydd y gellir ei ennill, dengys profiad fod y cyfle yno a dylid anelu i ymestyn gorwelion yr adran i geisio ennill y fath waith.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
5.1	Trosglwyddo rhai toiledau cyhoeddus i eraill	£0	£50,000	Y bwriad yma yw trosglwyddo rhai asedau i'r Cyngor Cymuned / Cyngor Tref neu o bosibl i Grŵp Cymunedol. Os am gyrraedd y ffigwr byddai angen trosglwyddo rhwng 6 a 10 toiled. Byddai cyrraedd y swm yn ddibynol ar ddarganfod cyrff fyddai'n fodlon eu cymryd a'u rhedeg.	Yn gyffredinol am gael effaith positif ar nodweddion anabled, oedran (pobl hŷn a theuluoedd) a beichiogrwydd a mamolaeth. Bwriad y cynnig yw nid yn unig cyflawni arbedion ariannol, ond i geisio gwella'r modd y caiff y ddarpariaeth o doiledau ei ddarparu. Wrth ddatblygu'r cynnig, mae'r Cyngor wedi asesu anghenion eu cymuned er mwyn ceisio diwallu'r angen hwnnw yn y modd gorau posibl, a ble mae'n briodol.	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad27">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad27</a>
5.2	Trosglwyddo Meysydd chwarae i eraill	£0	£210,000	Mae yna gostau sylweddol ynghlwm a rhedeg meysydd chwarae ond mewn rhai lleoliadau mae yna gymdeithasau neu gynghorau lleol yn eu rhedeg. Yn wyneb hyn rhaid gofyn bellach yn yr hinsawdd bresennol a all y Cyngor barhau i wario ar y cyfleusterau yma. Y bwriad yma yw cynnig i gymdeithasau neu gynghorau eu derbyn a'u	Effaith posib os na fyddent yn llwyddiannus yn trosglwyddo'r asedau i'w rhedeg gan eraill. Gall y canlynid o beidio eu cynnal gael effaith negyddol o ran cyfleoedd i blant a theuluoedd cael rhywle i chwarae tu allan sydd yn bwysig iddynt gadw'n iach a heini. Yn yr	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad28">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad28</a>

Atodiad 3

Tud. 317

				rhedeg neu stopio eu cynnal yn gyfan gwbl ar ôl amser penodol.	achos yna byddai angen gwneud asesiad effaith cydraddoldeb llawn.	
6.1	Lleihau cyfraniad y Cyngor i Gwasanaeth Gwe o 1%	£6,410	£0	Mae'r Cyngor yn cyfrannu £640,000 i GwE ar gyfer gwasanaeth gwella ysgolion. Byddai lleihau'r cyfraniad yn lleihau'r adnodd fyddai ar gael i'w gynnig i ysgolion ond mae'n anodd meintoli yn union beth fyddai goblygiadau gan mai lleihau rhywfaint ar y gefnogaeth i'r ysgolion fyddai'r effaith ymarferol ac anodd yw darogan pa bryd y byddai hynny yn cael effaith. Y tebygolrwydd yw, gan mai canran fechan ydyw mai prin fyddai'r effaith ac y gellid canolbwyntio'r gostyngiad ar yr ysgolion hynny sydd angen llai o ymdrech.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
6.2	Dileu'r gwasanaeth Llyfrgelloedd i Ysgolion	£36,780	£36,780	Mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cefnogi llythrennedd a darllen yn yr ysgolion cynradd drwy Lori-Ni sy'n ymweld â'r ysgolion o leiaf dwywaith y flwyddyn er mwyn cyfoethogi profiadau darllen plant. Mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd hefyd yn darparu adnoddau i gefnogi'r cwricwlwm ar gais athrawon, mae'r adnoddau yn cynnwys llyfrau, sachau stori, deunyddiau rhyngweithiol ar gyfer y bwrdd gwyn, a setiau darllen grŵp sydd yn cyfoethogi natur y deunyddiau a'r profiad cwricwlaidd sydd ar gael i blant. Heb yr adnodd yma byddai plant â llai o fynediad at lyfrau a phrofiadau darllen hamdden, a byddai'r ysgolion a llai o adnoddau cwricwlaidd i'w galluogi i sicrhau profiadau addysg o ansawdd i blant.	Cydnabyddir y bydd y cynnig yn cael effaith ar blant, ond ni ragwelir i'r effaith hwnnw fod yn sylweddol negyddol. Mae hyn oherwydd disgwylir i ysgolion ddarparu llyfrau addas sy'n adlewyrchu gwahanol nodweddion cydraddoldeb drwy ffyrdd amgen.	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad29">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad29</a>



6.3	Lleihau amlder glanhau rhai ardaloedd mewn Ysgolion drwy gwtogi oriau o 1.7%	£17,560	£17,560	Ar hyn o bryd rydym yn glanhau ysgolion drwy fanyleb sy'n gyffredinol yn glanhau lloriau'r ysgol gyfan yn cynnwys toiledau a sychu dodrefn a chelfi yn ddyddiol, mopio tamp a sgwrio lloriau amryw o ardaloedd ond nid i gyd yn ddyddiol a 1 wythnos o lanhau dwfn (spring clean). Mae hyn oll yn costio £2,045,320. O leihau'r gyllideb o £35,120 byddai'n rhaid cwtogi amlder glanhau rhai ardaloedd o fewn yr ysgol, yr unig ffordd o wneud hyn fyddai cwtogi oriau staff. Golyga hyn, ostyngiad o 1.7% yn oriau glanhau pob safle a all olygu, er enghraifft, na fyddai modd sychu dodrefn a chelfi yn ddyddiol. Byddai hyn yn arwain at ddirywiad yn safonau hylendid ysgolion oni bai fod ysgolion yn dewis atgyfnerthu'r gyllideb o'u cyllideb craidd.	Ni ragwelir effaith sylweddol negatiff ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb gan fod maint y toriad oriau yn gymharol fychan o'i ddosrannu ar draws pob ysgol.	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad30">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad30</a>
6.4	Lleihau'r adnodd o fewn yr Uned Diogelwch Ffyrdd	£7,500	£2,500	Tîm bach o 1.5 swyddog yw hwn sy'n cyflwyno'r agwedd addysgu, hysbysebu a hyfforddi ar faterion diogelwch y ffyrdd ar draws pob oedran. Mae modd gostwng faint o ddeunyddiau hyrwyddo diogelwch y ffyrdd mae'r Uned yn bresennol yn eu dosbarthu i ddisgyblion ysgol. Ni fyddai hyn yn cael effaith niweidiol sylweddol ar y gwasanaeth o addysgu pobl fregus. Yn ogystal, mae modd rhesymoli'r nifer o groeswyr plant sydd yn cael eu cyflogi yn bresennol trwy adolygu amgylchiadau safleoedd unigol yn erbyn y meini prawf cyfredol ar gyfer sefydlu darpariaethau croesi. Fyddai hyn yn sicrhau mai ond y safleoedd sy'n peri risg isel i groeswyr fyddai'n cael eu heffeithio.	Mae potensial y byddai gostwng y nifer o groeswyr plant tu allan i'r ysgolion yn cynyddu'r risg diogelwch y ffyrdd i ddisgyblion a rhieni anabl a dim yn anabl h.y. Y byddai'r tebygolrwydd o wrthdrawiad rhwng y disgyblion a rhieni a cherbydau yn cynyddu heb groeswr yno i'w cynorthwyo i groesi'r ffordd.	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad31">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad31</a>
6.5	Lleihau'r gyllideb ar gyfer cynnal y llwybrau cyhoeddus	£5,000	£5,000	Mae'r arian cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus (Cyllideb o £177,160) yn mynd tuag at gynnal thua 1700 cilomedr o lwybrau categori 1 a 2 yn ogystal â thua 2200 cilomedr o lwybrau categori 3, 4 a di-gategori. Yn unol â Chynllun Gwella Hawliau Tramwy'r Cyngor, rydym yn	Mae'n bosib y bydd mynediad at hawliau tramwy yn hyd yn oed mwy cyfyngedig i deuluoedd, pobl hŷn a phobl anabl pe na fyddai'r Uned yn gallu cwblhau ei raglen gwaith yn llawn.	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad5">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad5</a>

				<p>blaenoriaethu gwaith ar lwybrau categori 1 a 2, felly mae rhan helaeth o'r cyllid yn cael ei ganolbwyntio ar y rhain. Mae llwybrau categori 1 a 2 yn rhai sydd yn brif lwybrau rhwng canolfannau a'r rhai sy'n cael eu defnyddio yn bennaf er pleser e.e. llwybrau o amgylch cymunedau, llwybrau cerdded cylchol, mynediad i draethau ayyb.</p> <p>Mae'r gwaith yn golygu ymgymryd â gwaith adweithiol yn dilyn cwynion, e.e. trwsio'r wyneb, trwsio strwythurau ac ymateb i dywydd eithafol e.e. coed wedi syrthio yn ystod stormydd ac ailosod arwyddion ayyb yn cael ei ymgymryd gan y Cyngor yma. Fodd bynnag, mae hefyd yn golygu rheoli tyfiant, sydd yn cael ei wneud drwy drefniant gydag ambell i Gyngor Cymuned.</p> <p>Fe fyddai effaith toriad o £10,000 yn golygu y bydd llai o'r rhwydwaith yn cael sylw, ac yn rhoi straen cynyddol ar ein gallu i annog Cyngorau Cymuned i reoli tyfiant.</p> <p>.</p>		
6.6	Lleihau'r adnodd o fewn y Gwasanaeth Polisi Cynllunio	£2,500	£2,500	<p>Mae'n bosibl rhesymoli rhywfaint ar yr uned drwy newid dyletswyddau a chanfod arbediad ond nodir fod toriad o dros 30% mewn staff wedi bod eisoes dros y 7 mlynedd diwethaf. Fe fydd effaith o leihau arbenigedd a gwydnwch ynghyd a chynnydd mewn oedi mewn cyflawni dyletswyddau statudol ar ran trigolion Gwynedd ac Ynys Môn. Bydd hefyd arafwch gyda chynghori'r Unedau Cynllunio (Rheolaeth Datblygu) y ddau gyngor ar geisiadau / cyngor cynllunio. Mae angen rhannu'r arbediad gyda Môn 50/50.</p>	Asesiad cryno wedi ei wneud i weld os oedd effaith. Dim effaith wedi ei adnabod gan mai lleihad mewn arbenigedd yn hytrach na capasiti sydd yma	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad32">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad32</a>

6.7	Lleihau'r gyllideb ar gyfer yr Uned Gorchmynion Traffig o 33%	£2,500	£7,500	<p>Byddai modd leihau rhywfaint ar gyllideb yr Uned sy'n ymwneud a gorchmynion traffig fyddai'n cyfyngu ar allu'r Gwasanaeth i ymateb i sylwadau'r cyhoedd, heddlu ayyb ar sefyllfaoedd diogelwch e.e. goryrru a pharcio anystyriol. Y gyllideb bresennol o £30,000 sy'n galluogi'r Gwasanaeth i osod gorchmynion ar ein ffyrdd a chario allan gweithiau ffisegol fel gosod llinellau dwbl melyn, cyflwyno parthau gyrru a chyflwyno mesurau tawelu traffig.</p> <p>Byddai hyn, o bosib, yn gorfodi'r Gwasanaeth i ystyried gweithredu trefniant cwota i sicrhau nad yw'r gwariant yn mynd yn fwy na'r gyllideb sydd ar gael. Byddai'n rhaid i'r math yma o drefniant fod ar sail y cyntaf i'r felin gan na fyddai'n ymarferol casglu rhestr o sefyllfaoedd er mwyn eu blaenoriaethu yn chwarter olaf unrhyw flwyddyn ariannol. Byddai gorfod ystyried y math yma o drefniant yn golygu y byddai llai o orchmynion yn cael eu prosesu.</p>	<p>Mae'r Uned yn aml yn ymgymryd â champau yn benodol mewn ymateb i geisiadau gan bobl anabl, teuluoedd a phobl hŷn er mwyn ymdrin â sefyllfaoedd sy'n peri risg iddynt. Fyddai lleihau'r gyllideb ar gyfer gosod y mesurau ffisegol ar y ffyrdd o bosib yn cynyddu'r risg i'r grwpiau yma gan y byddai angen blaenoriaethu pa weithiau sy'n cymryd lle.</p>	<p><a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad33">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad33</a></p>
6.8	Lleihau adnodd cyflogaeth dymhorol o 50% o fewn y Gwasanaeth Trethi a Budd-daliadau	£42,780	£0	<p>Bu'n rhaid gwneud defnydd helaeth o oramsen yn sgil "backlog" o 2,000 eitem ar ôl haf 2017 a haf 2018. Ar adegau prysur fel Medi/Hydref neu droad y flwyddyn ariannol, heb y gyllideb yma mi fydd oedi cyn rhoi cymorth i bobl Gwynedd i dalu eu rhent, neu wneud addasiad angenrheidiol i'w cyfrifon Treth Cyngor. Mae'n anodd meintoli beth yn union fyddai'r effaith heb adael iddo ddigwydd i weld, ond gellir rhagweld y byddai'n cymryd yn hirach i glirio unrhyw "backlog" gwaith.</p>	<p>Mewn blynyddoedd arferol, bydd y gyllideb sy'n weddill yn ddigonol i ymdopi â phwysau gwaith tymhorol. Mewn blynyddoedd o bwysau anarferol gall prinder cyllideb goramsen arwain at oedi mewn deilio â materion trethi neu ymdrin â cheisiadau budd-dal neu Ostyngiad Treth Cyngor. Mae pobl anabl ac unigolion o leiafrif ethnig yn fwy tebygol o fod yn dlawd yn ystadegol a gallai ymdrin â hawliadau budd-dâl, felly, effeithio ar bobl anabl a pobl o leiafrifoedd ethnig yn fwy na'r boblogaeth yn gyffredinol. Wedi dweud hynny, gan nad oes disgwyl i'r</p>	<p><a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad34">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad34</a></p>

Atodiad 3

Tud. 321

					toriad yma achosi unrhyw oedi, mae'r risg yn fychan iawn.	
6.9	Dileu swydd wag o fewn y Gwasanaeth Cefnogi Busnes (Ileihad o 25% yn y nifer o staff)	£23,000	£0	Mae un swydd (allan o 4 yn yr Uned) eisoes yn wag a thra ei fod yn amlwg yn amharu ar allu'r Cyngor i ddelio gyda ymholiadau gan fusnesau unigol, mae'r lefel perfformiad presennol yn adlewyrchu beth sydd modd ei wneud heb y swydd. Yn seiliedig ar ffigurau 2016/7 roedd natur yr ymholiadau yn cynnwys Ymholiadau Tir ac Eiddo (51%); Grantiau a chymorth ariannol (31%); Cymorth datblygu busnes (10%); Gwybodaeth Busnes (6%) a mewnfuddsoddi (2%). Effaith torri'r swydd hon ydi fod oedi yn yr ymateb ymholiadau busnes o gymharu â phe bydda'r swydd yn bodoli, risg na fydda'r Cyngor yn gallu rhoi cymaint o gymorth i bob ymholiad ac na fyddai'r Cyngor yn gallu bod mor rhagweithiol yn codi ymwybyddiaeth busnesau Gwynedd o gyfleoedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
6.10	Adolygu ffioedd parcio a trefniadau gweithredu Storiel	£10,000	£10,000	Mae Storiel wedi ei sefydlu fel amgueddfa ac oriel ym Mangor gydag arddangosfeydd yn cael eu trefnu mewn lloerennau cymunedol ar draws y sir er mwyn ehangu mynediad. Mae'r cynnig yma'n ymwneud ag edrych ar drefniadau gweithredu Storiel o ran cynyddu incwm, gan gynnwys adolygu ffioedd parcio.	Fe all godi targedau incwm effeithio ar ffioedd ac fe all hyn gael effaith sylweddol ar y rhai all gymryd rhan ac at ein hethos o gyfrannu at gefnogi ein cymunedau. Byddai'n rhoi rhwystr i fynediad at weithgareddau treftadol/celfyddydol penodol ar gyfer rhai hiliau, y Cymry, rhai o bob oedran, pobl anabl. Gall arwain at golli cyfle cydweithio i ddarparu cyfleoedd dysgu, hyrwyddo ein diwylliant unigryw, magu hyder, cysylltu â grwpiau lleiafrifol a hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol.	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad35">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad35</a>

6.11	Lleihau'r gwasanaeth llyfrgell deithiol - ymweld â llai o aros fannau ac yn llai aml	£7,500	£2,500	<p>Mae 3 cerbyd teithiol cymunedol gan y Gwasanaeth Llyfrgelloedd, sef, Llyfrgell Deithiol Arfon - Gwasanaeth Teithiol a Chartref Llyfrgell Deithiol Dwyfor - Gwasanaeth Teithiol a Chartref Llyfrgell Deithiol Meirionnydd - Gwasanaeth Teithiol a Chartref</p> <p>Mae'r llyfrgelloedd teithiol yn ymweld â phentrefi a stadau tai led led y sir (140 arosfan) ac yn cyflawni'r gwasanaeth misol 10 gwaith y flwyddyn. Yn ogystal i'r gwasanaeth llyfrgelloedd teithiol, mae'r cerbydau hefyd yn darparu gwasanaeth danfon i'r cartref i'r defnyddwyr hynny sydd yn gaeth i'w cartrefi neu sy'n cael trafferthion ymweld â'u llyfrgell leol am resymau gwahanol.</p> <p>Nifer y defnyddwyr 2016-17 Arfon - 103 oedolyn, 0 plentyn, 54 caeth i'r tŷ Dwyfor - 156 oedolyn, 1 plentyn, 36 caeth i'r tŷ Meirionnydd - 208 oedolyn, 10 plentyn, 84 caeth i'r tŷ</p> <p>Mae'n debyg byddai nifer o'r defnyddwyr sy'n ymweld â'r Gwasanaeth teithiol mewn arosfan pentref yn gymwys i dderbyn Gwasanaeth i'r Cartref ond eu bod yn dewis defnyddio'r arosfan teithiol er mwyn dibenion cymdeithasol.</p> <p>Drwy leihau cyllideb y gwasanaeth, byddai'r llyfrgell deithiol yn ymweld â llai o arosfannau ar draws y sir ac/neu yn ymweld â'r arosfannau yn llai aml.</p>	<p>Y defnyddwyr sydd mewn risg o gael eu heffeithio yw defnyddwyr hŷn a/neu anabl, a fydd yn colli gwasanaeth yn gyfangwbl, neu yn gorfod aros am gyfnod hirach ar ôl gwneud cais am wasanaeth llyfrgell i'r cartref. Gallai'r defnyddwyr hyn fod yn ynysig yn gymdeithasol, ac yn wynebu trafferthion mynediad at lyfrgell gyhoeddus oherwydd problemau symudedd neu anawsterau o ran trafndiaeth cyhoeddus.</p>	<p><a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad36">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad36</a></p>
------	--	--------	--------	--	---	---

6.12	Dileu 1 swydd o'r Gwasanaeth Datblygu'r Economi (lleihau staffio o 33%)	£20,000	£20,000	<p>Byddem yn anelu i gael grantiau i ariannu 1 swydd o fewn yr Uned ond pe na fyddem yn llwyddo byddai'n rhaid dileu'r swydd honno. Byddai hyn yn lleihau ein gallu i ddatblygu prosiectau strategol gan y byddai'r adnodd yn lleihau o 3 swyddog i 2.</p> <p>Y math o gynlluniau y bu'r swyddogion yma yn eu cyflawni dros y blynyddoedd diweddar yw targedu £9m i ddatblygu Plas Heli Pwllheli, targedu £13m i gefnogi datblygiad mentrau Glannau Caernarfon (Galeri, Castell, Hen Ynys a Rheilffordd Eryri), targedu £4.5m i gefnogi datblygiad mentrau Awyr Agored Meirionnydd (Coed y Brenin, Deorfa Bysgota Llyn Trawsfynydd, Antur Stiniog, Glanllyn Bala), Sefydlu Rhaglen Siopa Lleol a Rhaglen Trethi Gwella Busnes (BIDS Caernarfon a Bangor), cefnogi menter adfywio Harlech, datblygu achos busnes Safle Treftadaeth Byd i'r dyffrynnoedd llechi a thargedu cronfa Loteri £450k i'r cymunedau ynghyd a sefydlu cronfa i uwchraddio adeiladau gwag.</p> <p>Rydym yn y broses o dargedu £25m i uwchraddio safle a mynediad i faes awyr Llanbedr a thargedu £4m i adfywio canol dinas Bangor . Gyda llai o adnoddau staff, byddai llai o brosiectau yn cael eu datblygu a'u gweithredu, gan arwain o lai o fuddsoddiad mewn cymunedau i greu'r amodau fyddai'n diogelu a chreu swyddi newydd i'r dyfodol.</p>	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
------	---	---------	---------	---	----------------------------------	--

6.13	Dileu swydd a newid trefniadau rheoli y Gwasanaeth Adfywio Cymunedol (Ileihad o 20%)	£37,500	£12,500	Byddai dileu 1 swydd a newid trefniadau rheoli yn golygu fod llai o gefnogaeth gan Cyngor Gwynedd i gefnogi mentrau a grwpiau cymunedol. Mae 5 swyddog o fewn yr uned ac fe nodir isod y math o gynlluniau sydd ar hyn o bryd yn derbyn cefnogaeth - cefnogi o Ddrws i Ddrws i baratoi cais grant am fws mini newydd; Tafarn yr Heliwr Nefyn i baratoi cais grant i adnewyddu'r dafarn; caffi Noddfa a Cegin Cofi i dargedu cronfeydd grant amrywiol; Fic Penygroes i sefydlu achos busnes cadarn i dargedu grant; Cwmni Nod Glas Dinas Mawddwy i dargedu arian cyfatebol; cefnogi Cylch Meithrin Maesywaun i ail-leoli i safle Ysgol Bro Tryweryn; cefnogi partneriaeth Abermaw i adolygu adnoddau cymunedol a pharatoi achos busnes i drosglwyddo asedau; cynghori a chefnogi Partneriaeth Maesgeirchen gyda phe cyn o brosiectau cymunedol; cefnogi Partneriaeth Ogwen gyda phe cyn o brosiectau yn amrywio o sefydlu ymddiriedolaeth tir, ynni adeiladau cymunedol ac opsiynau ar gyfer safle'r llyfrgell.	Asesiad cryno wedi ei wneud. Dim effaith wedi ei adnabod	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad37">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad37</a>
------	--	---------	---------	--	--	--

6.14	Dileu 1 swydd o'r Gwasanaeth Twristiaeth a Marchnata (lleihau staffio o 25%)	£12,500	£12,500	<p>Mae'r Uned yma yn Uned o 4 sydd yn cydgordio ymdrechion rhwng partneriaid lleol; rhanbarthol a chenedlaethol ynghyd a'r diwydiant twristiaeth ei hun yn y sir er mwyn ceisio gwella a hyrwyddo Gwynedd fel cyrchfan dwristiaeth a'i farchnata drwy gyfryngau cymdeithasol a safle We Eryri Mynyddoedd a'r Môr.</p> <p>O ddileu 1 swydd byddai'n rhaid blaenoriaethu gweithgaredd allasai olygu -</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Leihau gweithgaredd marchnata - gwefan Eryri Mynyddoedd a Môr, cyfryngau cymdeithasol, taflenni a llyfrynnau ayb;</li> <li>- Leihau gweithgaredd datblygu'r sector e.e. ceisiadau grant i Croeso Cymru i wella'r cynnyrch a'r cynnig yma (Gwelwyd derbyn grantiau o dros £600,000 dros y 3 blynedd diwethaf i wella'r cynnig yma yng Ngwynedd );</li> <li>- Leihau cefnogaeth i'r bartneriaeth dwristiaeth sirol;</li> <li>- Leihau cyfraniad amser ac adnodd swyddogion i waith a phartneriaethau strategol gyda Chroeso Cymru a Gogledd Cymru</li> <li>- Dileu capasiti i weinyddu ceisiadau arwyddion brown a gwyn;</li> </ul> <p>Yn dilyn penderfyniad y Cyngor i gau rhwydwaith Canolfannau Croeso Gwynedd, mae ymholiadau gan ymwelwyr a diwydiant yn parhau i gael eu cyfeirio at y Cyngor ac ymlaen i'r gwasanaeth. Byddai dileu 1 swydd yn cael effaith ar allu'r Cyngor i ymateb i ymholiadau gan fusnesau Gwynedd, ymwelwyr a phartneriaid sector gyhoeddus a hynny ar gyfnod lle mae cynnydd sylweddol wedi ei weld mewn nifer ymwelwyr i Wynedd.</p>	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
------	--	---------	---------	--	----------------------------------	--



Atodiad 3

Tud. 326

6.15	Yn yr hir dymor, anelu i leihau'r sybsidi i'r Cwmni Hamdden newydd fydd yn cael ei sefydlu o 20%	£0	£155,000	Rydym ar fin sefydlu cwmni masnachol fydd yn ein helpu i wireddu arbedion sylweddol (£435,000). Bydd hyn yn seiliedig ar y Cyngor yn ymrwymo i dalu sybsidi o £741,000 i'r cwmni yn y tymor byr o leiaf. Y gobaith yn yr hir dymor yw y bydd y cwmni yn gallu lleihau'r sybsidi y bydd yn rhaid i'r cyngor ei dalu un ai drwy ddarganfod marchnadoedd eraill neu leihau'r costau rhedeg ymhellach. Er na fydd modd gwneud hynny yn syth mae'n rhesymol i ddisgwyl i hynny ddigwydd yn yr hir dymor.	Bydd asesiad yn cael ei wneud wrth i'r Cwmni ddatblygu ei gynigion ar gyfer gwireddu'r arbediad	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad38">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad38</a>
6.16	Lleihau cyllideb y grantiau strategol i'r celfyddydau o 20%	£0	£18,000	Fe hanerwyd y gyllideb yma yn ystod proses arbedion Her Gwynedd. Byddai gweithredu'r cynllun yma yn golygu y byddai'r Cyngor yn gorfod ystyried lefel y cymorth y gellid ei roi i'r 11 prif gwmni celfyddydol yng Ngwynedd. Nifer ohonynt yn arwain ar brosiectau sy'n cael effaith yn genedlaethol o ran y Gymraeg a diwylliant Cymru. Y cwmnïau sy'n derbyn cymorth yw - Bara caws; Cerddoriaeth mewn Ysbytai; Canolfan Gerdd William Mathias; Cofis Bach; Dawns i Bawb; Galeri Caernarfon; Fran Wen; Plas Glyn y Weddw; Llenyddiaeth Cymru; Pontio; Theatr Ardudwy; Theatr y Ddraig Nifer o'r cwmnïau hyn yn nodi bod derbyn elfen o gefnogaeth gan y Cyngor yn sicrhau eu bod yn denu arian gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac yn sicrhau buddsoddiadau uwch yn y Celfyddydau yng Ngwynedd.	Risg o golli dylanwad ar fudiadau i fabwysiadu polisiau cyfleoedd cyfartal ac iaith Gymraeg. Gall effeithio'n uniongyrchol ar fwrwlwm yn y Gymraeg a gweithgareddau'n yr iaith  Mae nifer o'r rhai sy'n derbyn grantiau yn gweithio gyda grwpiau neu oedran penodol o'r gymdeithas e.e. unigolion bregus, ieuencid, pobl hŷn gyda phroblemau iechyd/iechyd meddwl neu sy'n unig, plant a phobl ifanc, mamau a babanod ayyb.  Colli cyfle cydweithio i ddarparu cyfleoedd dysgu, hyrwyddo ein diwylliant unigryw, magu hyder, cysylltu â grwpiau lleiafrifol a hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol.  Gall gael effaith ar wasanaethau a mudiadau eraill os bydd lleihad yn y cyfleoedd i gyfranogi e.e. iechyd a lles, gweithgareddau i bobl ifanc. H.y.	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad39">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad39</a>

Atodiad 3

Tud. 327

					galw ar fwy o angen gwasanaeth gofal cymdeithasol, ysbytai, heddlu.	
6.17	Lleihau cyllideb cronfa lyfrau'r llyfrgelloedd o 10%	£19,500	£0	Mae'r gyllideb Gronfa Lyfrau wedi cael ei lleihau o 25% yn ystod ymarferiad Her Gwynedd. O'i leihau 10% ymhellach yn amlwg byddai'r dewis sydd ar gael i drigolion Gwynedd gymaint yn llai ac amseroedd aros am lyfrau yn cynyddu gan ei wneud yn llai deniadol i drigolion.	Bydd y toriad yn effeithio ar y grwpiau nodweddion cydraddoldeb yma: laith Gymraeg, Anabledd, Oedran – plant a phobl hŷn, Cyfeiriadedd Rhywiol, yn ogystal a nifer fawr o ddefnyddwyr o'r grwpiau yma sydd yn byw ar incwm isel.	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad40">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad40</a>
6.18	Adolygu pecynnau gofal anableddau corff gan gwrdd ag amcanion mewn ffordd amgen	£25,000	£75,000	<p>Mae gennym achosion sy'n costio dros £1000 yr wythnos i'r Adran sef lleoliadau all-sirol a phecynnau gofal sydd wedi eu hetifeddu o siroedd eraill o dan reolau 'ordinary residen't. O adolygu'r pecynnau yma ystyrir y gellir cwrdd ag anghenion mewn ffyrdd amgen. Mae'r arbediad yn seiliedig ar waith tebyg sydd eisoes wedi ei gyflawni yn y maes Anabledd Dysgu a bydd yna elfen allweddol o fuddsoddi i arbed drwy fuddsoddi mewn cartrefi addas, a datblygiadau tai gofal ychwanegol.</p> <p>Bydd angen penodi gweithiwr cymdeithasol am gyfnod o 18 mis i weithio ar y cynllun i adolygu'r holl achosion all-sirol a chwblhau dadansoddiad o'r angen sydd yn bodoli rŵan ac i'r dyfodol.</p> <p>Bydd hefyd angen buddsoddiad amser staff i gydweithio gyda'r unigolion ac adnabod datrysiadau cywir. Effaith gadarnhaol os ydi'n bosib i unigolion ddychwelyd i gael gofal yn lleol. Rhaid cofio fod rhai o'r unigolion wedi derbyn gofal am nifer fawr o flynyddoedd, felly mae rheoli unrhyw newid a disgwyladau am fod yn allweddol. Mae elfen o or-wasanaethu yn y pecynnau 'ordinary residence' a bydd yn broses o newid dros amser i ddod i ddygymod a</p>	<p>Mae'r cynllun yn ymwneud a chefnogi a darparu gwasanaethau ar sail angen. Yn sgil hynny, gall y dull o gefnogi fod yn wahanol ac yn fwy lleol neu gyda darparwr gwahanol. Ni ddylai y cynllun gael effaith negyddol ar unrhyw unigolyn/grwp. Bydd anghenion pob unigolyn yn cael ei asesu ar wahân.</p>	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad41">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad41</a>

				chefnogaeth sy'n cael ei ddarparu mewn modd amgen.		
6.19	Adolygiad pecynnau Gofal Iechyd Parhaus	£50,000	£150,000	<p>Wrth adolygu pecynnau gofal iechyd parhaus 'rydym yn ceisio sicrhau fod lechyd yn talu cyfraniad teg tuag at y pecynnau gofal a roddir i unigolion yn unol â'r rheolau a sefydlwyd. Mae angen parhau gyda'r gwaith pwysig yma o ran egwyddor 'gwerth gorau', ond hefyd o ran cyfrifoldeb am y pecyn cefnogaeth/gofal. Rydym yn adolygu'r drefn CHC/DST ar y cyd gydag lechyd ac yn anelu i dderbyn rhagor o fuddiannau o'r gwaith yma.</p> <p>Y bwriad yma yw mynd ar ôl yr achosion mwyaf dwys a thra byddwn yn eithaf hyderus o fedru cyflawni oddeutu £100k bydd cyflawni'r holl £200k yn fwy o her o lawer. Mae'r Gwasanaeth Anableddau Dysgu eisoes wedi gweithredu'r achosion mwy rhwydd a llai dadleuol wrth gyflawni arbedion 600k o ran adolygu pecynnau, cyflawni egwyddorion gwasanaeth gwerth gorau am arian ac wedi herio iechyd am eu cyfraniad. Nid oes modd herio pecynnau mwy nag unwaith.</p> <p>Mae yna oblygiadau capasiti staffio i wneud y gwaith a risg o gael her gyfreithiol a chwynion. Mae angen capasiti ychwanegol i graffu'r asesiad anghenion a'r DST ac i fynychu cyfarfodydd "disputes" gydag iechyd pan nad ydi'r asiantaeth yn cytuno ar benderfyniad o ran lefel CHC.</p>	<p>Mae'r cynllun hwn yn ymwneud â rhesymoli a gwella trefniadau gwaith rhwng yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd. Mae'n ymwneud â'r systemau a'r berthynas tu ôl i raglen i gefnogi unigolion ac nid ar y gefnogaeth ei hun. Ar y sail hynny, ni ragwelir effaith uniongyrchol ar unrhyw unigolion, gan nad yw yn ychwanegu at y trefniadau asesu ar y cyd sydd eisoes yn bodoli.</p>	<p><a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad42">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad42</a></p>

Atodiad 3

Tud. 329

6.20	Calendrau casglu gwastraff electronig yn unig	£22,500	£7,500	Ar hyn o bryd rydym yn dosbarthu calendrau casglu gwastraff ar bapur i bob un o'r 62500 o dai yn y sir. Byddai symud i'w darparu ar lein neu drwy gais yn unig yn creu arbediad sylweddol i ni. Mae gan 34,382 unigolyn gyfrif hunan wasanaeth ar lein ac rydym eisoes yn gohebu gyda rhain drwy'r ffurf yma mewn perthynas â gwasanaeth gwastraff gardd.	Asesiad cryno wedi ei wneud i weld os oedd effaith. Dim effaith sylweddol wedi ei adnabod	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad43">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad43</a>
6.21	Pont Abermaw – peidio talu Network Rail am yr hawl tramwy dros y bont	£0	£35,000	Roedd y cynllun yma yn un a ddaeth i'r amlwg yn ystod ymarferiad Her Gwynedd ond fe benderfynwyd bryd hynny na ddylid torri'r cyllidebau yma yr adeg hynny, ond fod hynny yn amodol ar gyrraedd targed o leihau'n sylweddol y gost i'r Cyngor o gyfrannu tuag at ei ddyfodol. Rydym yn parhau i dalu £35,000 i Network Rail gan na fu modd leihau'r gost i ni. O beidio talu cyfraniad i Network Rail, mater iddynt hwy yw a ydynt am ei gau at ddefnydd Llwybr yr Arfordir a'r Llwybr Beicio Cenedlaethol. Bydd adwaith negyddol yn lleol ac o safbwynt atyniad twristiaeth pe na fydd Network Rail yn ei gadw'n agored.	Dim effaith gwahaniaethol oherwydd Network Rail sydd berchen y bont	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad44">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad44</a>
6.22	Lleihau cyllideb Cymorth i ferched o 20%	£8,080	£2,690	Byddai modd lleihau 20% ar y gyllideb Cymorth i Ferched drwy ddileu'r gweithiwr plant o fewn Cymorth i Ferched a Trais yn y Cartref De Gwynedd. Mae'r cyfraniad yn ddewisol ac ar gael i unrhyw deulu sydd wedi dioddef neu yn byw mewn sefyllfa trais yn y cartref, nid dim ond i deuluoedd sydd yn adnabyddus i wasanaethau'r Cyngor. Gwynedd yw'r unig awdurdod yn y Gogledd sydd yn cynnal cytundeb lefel gwasanaeth gyda Cymorth i Ferched. Nid yw lleihad gan y Cyngor yn golygu na fydd modd i'r mudiad barhau i ddarparu gan fod ganddynt fynediad at ffynonellau ariannu eraill. Mae Cymorth i Ferched yn nodi eu bod yn gwneud defnydd o'r cytundeb gyda'r Cyngor i ddenu arian	Dim effaith sylweddol wedi ei adnabod ar blant a phobl ifanc gan fod gobaith y bydd y mudiad yn gallu defnyddio ffynhonnell amgen o arian	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad45">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad45</a>

Atodiad 3

Tud. 330

				a grantiau eraill i'r mudiad, ond mae yn anodd derbyn cadarnhad o hynny. Bydd gweddill cyfraniad y Cyngor yn parhau a bydd adnoddau'r Cyngor hefyd ar gael i ddarparu gwasanaeth statudol i Ferched sydd ei angen.		
6.23	Lleihau 6% ar y gyllideb eiriolaeth	£1,570	£520	Mae darparu eiriolaeth i blant a phobl ifanc sydd mewn gofal, yn anabl neu yn derbyn cynllun gofal a chefnogaeth yn ofyn statudol yn Neddf 2014. Ni fyddai lleihad o 6% yn cael ardrawiad sylweddol ar y niferoedd o blant a phobl ifanc sydd yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth gan fod y 'take-up' o wasanaeth eiriolaeth gan y plant a'r bobl ifanc cymwys yn isel o gymharu â'r capasiti o fewn y gyllideb sydd yn cael ei glustnodi. Mae yna gytundeb rhanbarthol ac ar ôl 3 mlynedd o weithredu, mae yn amlwg y gellid lleihau 6% heb ardrawiad ar wasanaeth uniongyrchol i blant ar sail data 3 mlynedd. Mae'r cytundeb yn un rhanbarthol gyda chyfraniadau gan y 5 awdurdod arall yn y Gogledd. Mae tebygolrwydd y byddai awdurdodau eraill yn lleihau eu cyfraniadau mewn amser.	Dim disgwyliad y bydd newid yn y ffordd y bydd plant a pobl ifanc yn cael mynediad i'r Gwasanaeth gan fod y niferoedd sy'n manteisio yn isel	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad46">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad46</a>
6.24	Haneru cyllideb recriwtio a hyfforddi rhieni maeth	£5,420	£0	Mae gweithgaredd recriwtio a marchnata yn gostus, ond mae modd uchafu ein gweithgaredd ar wefannau cymdeithasol a chyfryngau cost isel a gwneud mwy o ddefnydd o adnoddau cyfathrebu'r Cyngor. Rhagwelir felly mai effaith isel ar blant a theuluoedd fyddai hyn yn ei olygu a hynny oherwydd bod yna risg fechan na fyddai trefniadau newydd mor effeithiol.	Mae'n bosib torri'r gyllideb drwy ddefnyddio dulliau amgen fel fforymau cymdeithasol sy'n rhatach na dulliau traddodiadol felly ni ragwelir effaith	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad47">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad47</a>
6.25	Lleihau cyfraniad y Cyngor o 7% Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid	£12,390	£1,770	Byddai angen colli 0.4 staff FTE gan rannu'r lleihad ar draws secondiadau ac arian yn y tîm Cyfiawnder adferol (anstatudol), a byddai peth effaith ar blant a theuluoedd drwy leihad yn y gallu i wneud gwaith iawn gyda dioddefwyr; cynnal llai o brosiectau cymunedol a lleihau oriau cyswllt gyda phlant a phobl ifanc.	Nid yw'n effaith sylweddol ar bobl ifanc, ond bydd angen i ni fonitro effaith llai o gapasiti o fewn ein prosiectau cefnogi (Iechyd a Lles a Chymorth Llety). Mae'r gostyngiad flwyddyn ar flwyddyn o blant a phobl ifanc sy'n manteisio ar y gwasanaeth	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad48">www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad48</a>

Atodiad 3

					yn helpu i liniaru effeithiau'r gostyngiadau hyn.	
6.26	Lleihau adnodd o fewn yr Uned Gyfreithiol i gefnogi gwaith adrannau eraill	£7,500	£7,500	Dengys ymchwil yn y gorffennol na ellir cael y gwaith wedi ei wneud ar gost is yn allanol. Serch hynny, ystyrir y byddai modd gwasgu mwy o effeithlonrwydd allan o'r sustem gan dderbyn y byddai yna risg o weld mwy o faterion yn wynebu oedi - heb ei wireddu mae'n anodd gallu dweud faint. Byddai hefyd angen darganfod adnodd i lenwi mewn pan mae yna etholiadau.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
6.27	Ail Strwythuro'r Uned Rheolaeth Adeiladu gan leihau'r nifer o arweinyddion tîm	£23,000	£0	Byddai ail strwythuro yn lleihau nifer staff yr Uned o un a thrwy hynny mae yna berygl y gallasai'r amser i wirio cais cynlluniau llawn gynyddu o 13 diwrnod i 15 diwrnod. Mae sgôr arolwg boddhad cwsmeriaid wedi mynd i lawr o 9.6 eleni i 9.0. Mi fydd pob ymdrech yn cael ei weithredu i leihau'r effaith ar foddhad cwsmeriaid gan yr Uned.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	

## ATODIAD 4

### CYFALAF

1. Tra bod cyllidebau refeniw awdurdodau lleol yn wynebu cyfyngiadau, mae cyllidebau cyfalaf hefyd dan bwysau, ac mae ymhlygiadau refeniw i wariant cyfalaf sydd heb ei ariannu drwy grant penodol.
2. Yn wyneb y cyfyngiadau ariannol refeniw sydd yn ein hwynebu a'r ffaith fod ein Strategaeth Asedau blaenorol wedi cynnwys elfen sylweddol o fenthyca darbodus (sy'n golygu pwysau ar y gyllideb refeniw i dalu am y costau benthyca), mae adolygiad trylwyr o'r Strategaeth Asedau nesaf ar droed.
3. Gosodaf isod raglen arfaethedig ar gyfer y cynlluniau am y dair mlynedd nesaf:

<b>RHAGLEN GYFALAF</b>			
	<b>2019/20</b>	<b>2020/21</b>	<b>2021/22</b>
	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
<b>Cynlluniau Newydd</b>			
Cynllun Rheoli Asedau i'w Ddyrannu	11,728	7,535	6,610
Atgyweirio Priffyrdd	2,650	1,325	0
Gofal Plant	1,238	1,113	0
Strategaeth Dai	2,700	2,700	2,700
	<b>18,316</b>	<b>12,673</b>	<b>9,310</b>
<b>Cynlluniau Wedi eu Cymeradwyo - Eisoës ar y Rhaglen</b>	<b>16,675</b>	<b>6,129</b>	<b>0</b>
<b>CYFANSWM Y RHAGLEN</b>	<b>34,991</b>	<b>18,802</b>	<b>9,310</b>

4. Byddwn yn ariannu'r rhaglen fel a ganlyn:

<b>ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF</b>			
	<b>2019/20</b>	<b>2020/21</b>	<b>2021/22</b>
	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
<b>Cynlluniau Newydd</b>			
Darpariaeth Cyfalaf yn y Setliad	7,995	7,535	6,610
Grantiau a Chyfraniadau	2,563	2,438	0
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	7,758	2,700	2,700
	<b>18,316</b>	<b>12,673</b>	<b>9,310</b>
<b>Cynlluniau Wedi eu Cymeradwyo - Eisoës ar y Rhaglen</b>			
Benthyca Arall	1,393	777	0
Grantiau a Chyfraniadau	8,753	525	0
Derbyniadau Cyfalaf	98	750	0
Refeniw Adrannol a Chorfforaethol	265	0	0
Cronfa Cyfalaf	1,435	0	0
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	4,731	4,077	0
	<b>16,675</b>	<b>6,129</b>	<b>0</b>
<b>CYFANSWM ARIANNU'R RHAGLEN</b>	<b>34,991</b>	<b>18,802</b>	<b>9,310</b>

5. Bwriedir sefydlu strategaeth asedau newydd o 2019/20 ymlaen, yn unol â'r adroddiad a gyflwynir i'r Cabinet yn fuan yn 2019. Bydd y strategaeth asedau newydd yn weithredol am y cyfnod 2019/20 hyd at 2028/29.
6. Cymeradwywyd y drefn er mwyn sefydlu'r strategaeth nesaf gan y Cabinet ar 16 Ionawr 2018 ac yn ystod y misoedd yn dilyn gofynnwyd i holl aelodau'r Cyngor i flaenoriaethu'r cynlluniau a roddwyd ymlaen gan adrannau. Bydd adroddiad ar y cynlluniau manwl yn dod gerbron am gymeradwyaeth yn ddigon buan am y flwyddyn ariannol 2019/20.
7. Mae'r tabl uchod felly yn adlewyrchu'n fras y gofynion cyfalaf (ynghyd â'r ariannu) ar gyfer gosod cyllideb 2019/20 i 2021/22, tra bydd y manylder ar y cynlluniau unigol yn cael ei sefydlu gan y Cyngor yn y strategaeth asedau 10 mlynedd newydd.
8. Felly, gofynnir i'r Cyngor llawn ychwanegu £18,316,130 at y rhaglen gyfalaf i'w wario yn 2019/20, er mwyn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £34,991,250 erbyn 2019/20, i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn y tabl o dan rhan 4 uchod.



## ATODIAD 5

### YMDRIN Â'R GYLLIDEB YSGOLION YN 2019/20

1. Wrth ddatblygu strategaeth arbedion a chyllideb drafft ar gyfer 2019/20, cytunwyd ffordd ymlaen er mwyn osgoi trosglwyddo targed arbedion pellach i ysgolion Gwynedd eto eleni.
2. Bydd y gyllideb ysgolion yn cynyddu eleni oherwydd yr addasiadau "demograffi" arferol, sy'n deillio o newidiadau yn niferoedd disgyblion. Defnyddir gwir nifer disgyblion Medi 2018 i gyfrifo dyraniadau 2019/20. Mae'r sefyllfa yn gwahaniaethu o ysgol i ysgol, ond ar y cyfan mae effaith cynnydd niferoedd disgyblion yn golygu y byddai'r gyllideb ysgolion yn ei gyfanrwydd yn codi £418k, sy'n cynnwys lleihad -£260k cynradd a cynnydd +£617k uwchradd a +£61k i'r ysgolion arbennig. Yn erbyn y cynnydd £617k eleni, mae'r sector uwchradd yn cyflawni arbediad £299k yn 2019/20, yn dilyn penderfyniad i'w ohirio am ddwy flynedd o 2017/18, pryd roedd y demograffi uwchradd yn negyddol.
3. Gwelir yn y rhan bidiau (Atodiad 2) o'r adroddiad hwn fod argymhelliad i gytuno i ariannu bidiau gwerth £593k i'r Adran Addysg, tuag at y cyllidebau cludiant (£400k) ac integreiddio (£193k), sy'n golygu y bydd cost 'Addysg' yn cynyddu'n sylweddol rhwng 2018/19 a 2019/20. Fodd bynnag, mae lleihad £247k yn dyraniadau ysgolion yn unol â'r Adolygiad Strategol Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad. Yn sicr, wedi cymryd chwyddiant dros £4m i ystyriaeth, bydd y gyllideb ysgolion dipyn uwch yn 2019/20 na lefel 2018/19.
4. Hefyd, mae yna nifer o grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru ym maes Addysg. Tra mae'n ymddangos na fydd toriad "cash" i'r grantiau hyn eleni, mae'n debyg fod y Llywodraeth ddim yn ychwanegu chwyddiant i'w grantiau. Felly, gyda costau (chwyddiant cyflog a phensiwn athrawon) yn cynyddu 5%, bydd ysgolion yn canfod sefyllfa rhai o grantiau'r Llywodraeth fel toriad mewn termau "real". Fodd bynnag, bydd ein ysgolion yn derbyn grant newydd gan y Llywodraeth ar gyfer hyfforddi athrawon.
5. Mae Llywodraeth San Steffan wedi codi cyfradd cyfrannu cyflogwyr i'r Cynllun Pensiwn Athrawon o 16.5% i 23.6% o Fedi 2019. Bydd cost hyn yn £1.6m am y 7 mis yn 2019/20, a bydd effaith blwyddyn llawn yn £2.8m erbyn 2020/21. Mae'n 7% o gost cyflogau athrawon, ond yn gynydd 40% mewn cyfraniadau pensiwn cyflogwr.

Wrth lunio'r gyllideb hon, rhagdybiwyd bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu'r cynnydd pensiynau athrawon 2019/20 trwy grant penodol. Yn Ionawr 2019, mae'r 'Department for Education', wedi ymgynghori gyda'r sector addysg yn sôn am ariannu'r gost (£910m) yn llawn i ysgolion Lloegr. Disgwylir dyraniad dilynol i Lywodraeth Cymru, a bydd hwnnw yn cael ei basio yn ei dro i'r awdurdodau lleol, ac wedyn i'r ysgolion.

Os bydd dim ariannu trwy grant penodol, neu os bydd y grant yn bell o fod yn ddigonol, adeg hynny bydd y Cyngor yn ail ymweld â hyn a thrafod ag ysgolion sut i ddelio gyda'r pwysau un-tro yn 2019/20.

## ATODIAD 6

### TRETH CYNGOR

1. Mae'n benderfyniad allweddol i aelodau'r Cyngor llawn wneud, yn sgil yr ystyriaethau cyflwynir yma, i sefydlu union lefel y cynnydd Treth Cyngor ar gyfer 2019/20. Yr allwedd i hyn yw cael y balans yn briodol rhwng yr angen i wario ar wasanaethau i'r rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas, a'r cynnydd treth sydd yn addas i'w godi ar drigolion Gwynedd.
2. Yn y tybiaethau hanesyddol a wnaed yn ein strategaeth ariannol tymor canolig, defnyddiwyd ffigwr o 3.5%, fel amcangyfrif o'r cynnydd cyfartalog yng Nghymru. Erbyn 2016/17, penderfynwyd codi'r dreth 3.97%, er mwyn osgoi gweithredu rhai toriadau. Erbyn 2017/18, gan fod sawl mater wedi mynd o'n plaid, roedd modd i fantoli cyllideb 2017/18 gyda chynnydd 2.8% yn lefel y dreth. Erbyn 2018/19, roedd setliad grant Llywodraeth Cymru yn siomedig, ac roedd raid codi'r dreth 4.8%.
3. Eleni, erbyn 2019/20 argymhellir codi'r dreth 5.5%, fydd yn cynhyrchu £71.2m o dreth, yn cynnwys £2.7m o gynnyrch Premiwm a £2.84m o incwm ychwanegol tuag at y bwlch. Byddai hynny'n gyfystyr i gynnydd yn y Dreth Cyngor o £71.53 i eiddo mewn Band D, neu £1.37 yr wythnos. Bydd y dreth a godir gan y cynghorau cymuned a'r Awdurdod Heddlu yn ychwanegol i hyn wrth gwrs.
4. Mae dros 16.4% o dai sy'n atebol i dalu treth yng Ngwynedd yn derbyn rhyw elfen o gymorth tuag at eu Treth Cyngor, ac mae dros 60% o eiddo Gwynedd mewn bandiau is na band D. Byddai pob 0.1% ychwanegol o dreth yn addasu'r bwlch ariannol y byddem angen ei ddarganfod o tua £71,246. Felly, byddai 0.5% yn golygu addasu'r bwlch ariannol tua £356,230 tra byddai 1% yn golygu addasu'r bwlch ariannol o tua £712,461.
5. Nodir isod y cynnydd a welwyd yn Nhreth Cyngor Gwynedd, a'r cynnydd a welwyd ar gyfartaledd ar draws Cymru, ers 2014/15:

<b>Blwyddyn</b>	<b>Gwynedd</b>	<b>Cymru</b>
2018/19	4.8%	5.0%
2017/18	2.8%	3.1%
2016/17	4.0%	3.7%
2015/16	4.5%	4.3%
2014/15	3.9%	4.2%
Cyfanswm 2014-19	20.0%	20.3%
Cyfartaledd 2014-19	4.0%	4.1%

Yn 2018/19 roedd lefel Treth Cyngor Band D Cyngor Gwynedd yn £1,301, tra roedd lefel treth cyfartalog siroedd Cymru yn £1,219.

<https://gov.wales/docs/statistics/2018/180322-council-tax-levels-2018-19-en.pdf>

6. Ni wyddom yn union eto beth fydd y cyfartaledd cynnydd ar draws Cymru yn 2019/20, ond yr wybodaeth ddiweddaraf sydd gennyf yw bydd y cyfartaledd ar draws Cymru tua 5.5%. Felly, mae'r cynnig gerbron am fod yn agos iawn at lefel cyfartaledd Cymru erbyn 2019/20, ac felly yn cadw at y polisi hir-dymor.
7. Mae'r dewis rhwng cynnal gwasanaethau a threthu o hyd yn un anodd, wrth gwrs, a mater i'r holl aelodau yw pwyso a mesur a dod i'r balans y maent yn ystyried sy'n briodol. Fodd bynnag, ymhellach i sawl sgwrs anffurfiol mewn dau gyfres o weithdai aelodau, ac wedi ystyried ymateb pobl Gwynedd i'r ymgynghoriad cyhoeddus, **argymhellir cynnydd Treth Cyngor o 5.5%, fyddai'n gynnydd wythnosol o £1.37, neu £71.53 yn flynyddol, gyda threth 'Band D' o £1,372.06 am 2019/20.**

#### **CYNNYRCH PREMIWM TRETH CYNGOR AR EIDDO GWAG AC AIL GARTREFI**

8. Yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 6 Rhagfyr 2018, penderfynwyd parhau gyda'r premiwm o 50% ar ail gartrefi ac ar eiddo sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy am 2019/20. Amcangyfrifir bydd y Cyngor yn derbyn £2.7m o incwm ychwanegol yn 2019/20 trwy godi'r premiwm, a bwriedir neilltuo'r arian mewn cronfa er mwyn gweithredu'r Strategaeth Tai, fydd yn anelu i ddarparu tai ar gyfer pobl ifanc yn ein cymunedau.
9. Rhaid ymgorffori'r holl incwm a cyfarch gwariant perthnasol yng nghyllideb 2019/20.

## ATODIAD 7

### BALANSAU

1. Mae awdurdodau lleol angen lefel darbodus o 'gyfalaf gweithio' i gynnal llif arian digonol ac i gyfarch gwariant annisgwyl. Rhagwelir bydd gan y Cyngor falansau cyffredinol o £6m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, yn cynrychioli tua 1.5% o wariant refeniw gros y Cyngor.
2. 'Rydym wedi nodi, ar fwy nag un achlysur, oherwydd yr amgylchiadau tymhestlog y byddwn yn eu hwynebu dros y blynyddoedd i ddod, ei fod yn briodol cadw symiau wrth gefn er mwyn medru ymdrin gyda phroblemau allasai godi.
3. Nid oes unrhyw beth wedi digwydd yn y cyfamser i newid y farn yma, ac mae cynlluniau arbedion mwy heriol yn wyneb setliad grant siomedig Llywodraeth Cymru ar gyfer llywodraeth leol yn 2019/20 yn golygu fod y risg yn parhau (os nad yw'n dwysau). Felly, mae'r angen i sicrhau fod gennym falansau priodol i fedru dygymod gydag unrhyw sioc ariannol dal yn berthnasol (gweler Atodiad 8 am Strategaeth Ariannol tymor canolog).
4. Wedi neilltuo arian yn y Gronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol er mwyn delio gyda gorwariant posib rhai gwasanaethau yn ystod 2018/19, ac ar ôl ymrwymo £38k o gronfa penodol er mwyn ariannu'r bidiau un-tro, **argymhellir peidio defnyddio balansau cyffredinol yn 2019/20.**
5. **Mae gan y Cyngor nifer o reserfau penodol** sydd wedi eu sefydlu i gwrdd ag anghenion gwariant penodol. Mae'r rhain hefyd yn rhan o gyllideb y Cyngor, wrth gwrs, ac wedi'u craffu yn flynyddol. Rhoddwyd sylw i'r reserfau penodol gan y Cabinet ar 22 Mai 2018 a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu hefyd ar 28 Mehefin 2018, pryd cymeradwywyd trosglwyddo £2.75m o gronfeydd a darpariaethau tuag at flaenoriaethau / anghenion corfforaethol. Rwy'n adolygu lefel y reserfau yma'n barhaus, a **bwriedir cynnal adolygiad trylwyr eto erbyn Mai/Mehefin 2019**, i ystyried faint o le fydd yna i'r Cyngor newid ei flaenoriaethau tu mewn i'r reserfau yma.
6. Yn ei adroddiad "Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru", mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi datgan (ym mharagraff 1.8):

"Gall cynghorau ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i'w helpu i gydbwysu eu cyllidebau lle nad yw cynlluniau arbedion yn cyflawni'r canlyniadau disgwylidig neu lle mae'r incwm yn llai na'r disgwyl. Fodd bynnag, ni fyddai fel arfer yn briodol cyllido gwariant rheolaidd o gronfeydd wrth gefn. Mae lefel synhwyrol o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn elfen allweddol o sefydlogrwydd ariannol; bydd isafswm y lefel briodol yn amrywio gan ddibynnu ar rwymedigaethau hysbys a phosibl awdurdod a'i gynlluniau gwariant. Ceir arwyddion bod ambell gyngor yn dibynnu gormod ar gronfeydd wrth gefn cyffredinol i ymdrin â diffyg yn y gyllideb, yn hytrach na cheisio mabwysiadu dulliau mwy cynaliadwy, sy'n aml yn golygu gwneud penderfyniadau amhoblogaidd."
7. Hefyd, ar 14 Tachwedd 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad am gronfeydd wrth gefn awdurdodau lleol, sy'n rhoi cyd-destun defnyddiol i'n sefyllfa ac yn dangos Cyngor Gwynedd ar lefel rhesymol yn ganol amrediad o gronfeydd defnyddiadwy awdurdodau Cymru.

<https://gov.wales/topics/localgovernment/finandfunding/whole-government-accounts/publications/whole-government-accounts-reserves/?skip=1&lang=cy>
8. Rwy'n argyhoeddedig fod defnydd y Cyngor o gronfeydd penodol i ariannu gofynion un-tro yn weithred cwbl briodol, a ni argymhellir unrhyw ddefnydd o falansau'r Cyngor i fantoli cyllideb 2019/20.

## ATODIAD 8

### CYNLLUN TYMOR CANOLIG I DDYGYMOD Â'R BWLCH ARIANNU 2019/20 - 2021/22

1. Ers nifer o flynyddoedd bellach mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn cynllunio ymlaen llaw gan fod yn fyw i'r hyn sydd ar y gorwel bob tro wrth sefydlu ein cyllideb. Mae hyn wedi talu ar ei ganfed, a hyn mewn gwirionedd sy'n golygu ein bod wedi medru defnyddio £2.48m o arbedion 'Her Gwynedd' i fantoli cyllideb 2019/20. Nid pob Cyngor sydd mewn sefyllfa i fedru osgoi torri cyllidebau'r ysgolion, codi treth 9%, ayb, eleni.
2. Er mwyn parhau ar y trywydd yma, ar ben sefydlu cyllideb 2019/20, gwnaed ymdrech i daflunio sefyllfa ariannol ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol hefyd, fel ein bod yn gallu gosod sefyllfa 2019/20 yn ei gyd-destun ehangach a chynllunio sut yr ydym am fedru cwrdd â'r sialens o'n blaenau.
3. Ers penderfynu ar Strategaeth Ariannol 2018/19 - 2020/21 yn Chwefror / Mawrth 2018, bu gwaith manwl i ail-asesu ymrwymadau cyllidebol tebygol ac asesu amrediad o bosibiliadau. Er mwyn adnabod yr her ariannol i'r Cyngor, ymhellach i ymchwil trylwyr, nodwyd amrediad o ragdybiaethau am lefel 'setliad' grant y Llywodraeth a gofynion gwario gwasanaethau'r Cyngor, er mwyn darparu senarios ariannol tebygol ar gyfer 2019/20 - 2021/22. Cyflwynir y senarios ariannol yma i'r Cabinet / Cyngor ar ffurf y siart ffan ("twmffat tebygolrwydd") er mwyn adnabod yr angen tebygol am arbedion (neu'r 'bwlch ariannu') hyd at 2021/22.

#### Tybiaethau Grant Llywodraeth am 2020/21 a tu hwnt

4. Wrth daflunio, y ffigur sydd fwyaf ansicr yw'r ffigur grant y byddwn yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru o 2020/21 ymlaen. Gan mai 'setliad' grant canolog sy'n ariannu 72% o gyllideb net y Cyngor, mae'r elfen yma yn allweddol wrth geisio taflunio'r sefyllfa ariannol.
5. Mae cyfuniad o ffactorau economaidd a gwleidyddol yn penderfynu faint o grant fyddwn yn ei dderbyn - cyflwr yr economi, polisiau gwario a threthu, a dewisiadau blaenoriaethu Llywodraethau'r DU a Chymru. Er mwyn diweddarau'r tafluniad o'r hyn allai ddigwydd, rydym wedi defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael i ni rwan, yn cynnwys y rhagolygon ar gyfer cyfanswm gwariant cyhoeddus y DU yng Nghyllideb diweddaraf y Canghellor.
6. Mae Llywodraeth y DU yn mynd i gynnal Adolygiad Gwariant yn ystod 2019, sy'n ffactor sylfaenol allasai newid y sefyllfa'n arwyddocaol. Hwn fydd yn penderfynu sut caiff cyfanswm gwariant cyhoeddus y DU ei rannu rhwng gwahanol feysydd (a drwy hynny, faint fydd Llywodraeth Cymru yn ei dderbyn drwy weithrediad "fformiwla Barnett"). Tebyg nad oes angen ychwanegu 'chwaith bod yna haen ychwanegol o ansicrwydd am yr effaith gaiff 'Brexit' ar yr economi a, drwy hynny, faint o arian fydd ar gael i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus.

7. Er gwaetha'r ffaith bod cymaint o ffactorau economaidd a gwleidyddol yn ansicr, mae rhaid i'r Cyngor gynllunio'n ddarbodus yn y cyfamser ar gyfer amrediad o sefyllfaoedd posibl. Er mwyn modelu faint fydd o bosib yn cael ei ddyrannu i lywodraeth leol yng Nghymru, ar gyfer y rhagolygon yn yr adroddiad yma rydym wedi gwneud rhagdybiaethau rhesymol am sefyllfa adrannau perthnasol o Lywodraeth y DU, effaith fformiwla Barnett, yr incwm gaiff Llywodraeth Cymru o'r trethi datganoledig newydd, a dewisiadau Llywodraeth Cymru (faint o 'warchodaeth' a roddir i Iechyd a phrosiectau eraill).
8. O ran y ffactor olaf yma, gan nad oes gennym unrhyw wybodaeth bendant am fwriadau Llywodraeth Cymru rydym wedi gorfod rhagdybio y byddant yn parhau â'r un math o drywydd cyllido ag a welwyd dros y blynyddoedd diwethaf (h.y. rhoi llai o gynnydd i lywodraeth leol o'i gymharu â'r Gwasanaeth Iechyd ac amryw feysydd gwario eraill dan ofal y Llywodraeth). Pe baent yn newid y polisi yma fel bod gwasanaethau'n cael eu hariannu'n fwy cyfartal, byddem angen llawer llai o arbedion pellach yn 2020/21 a 2021/22.


### **Gofynion Gwario'r Cyngor**

9. Paratowyd y wybodaeth ariannol mwyaf diweddar am ofynion gwario'r Cyngor ar gyfer cyllideb 2019/20, yn seiliedig ar wir 'chwyddiant' (lefel benodol o chwyddiant ar gyflogau a chyllidebau eraill) a thueddiadau perthnasol, ynghyd â'r 'pwysau ar wasanaethau', gan gynnwys demograffeg (ystadegau nifer disgyblion a nifer pobl hŷn) a bidiau am dŵf anorfod mewn gwariant, net o addasiadau posib er mwyn isafu'r gofyniad ar y gyllideb.
10. Rydym wedi adolygu ein rhagolygon chwyddiant tâl a chwyddiant arall, ac wedi adolygu'r rhagolygon o ran galw am wasanaethau. Wrth gwrs, mae sail y rhagolygon hyn yn llai dibynadwy wrth ddarogan ymhellach i'r dyfodol.


### **Senarios Tebygol – angen am arbedion**

11. Mae ffigyrau terfynol mewn llaw ar gyfer 2019/20, ac ymddengys gellid mantoli'r gyllideb drwy gynhaeafu £5.4m o arbedion ynghyd â chynnydd o 5.5% yn lefel y Dreth Cyngor - fydd oddeutu lefel cynnydd cyfartalog awdurdodau lleol Cymru, fel crybwyllwyd yn tybiaethau'r cynllun ariannol tymor canolog blaenorol.
12. Cyflwynir siart ffan isod ar gyfer y dair blynedd i ddod (2019/20 - 2021/22) sy'n gosod darlun realistig a darbodus o'r hyn allasai ein taro. Mae'r siart ffan "twmffat tebygolrwydd" yn dangos cyfuniad o'r senarios posibl, gan ddangos canlyniadau mewn bandiau 10%.
13. Mae awdurdodau lleol yn tueddu i ddatgan ei 'bwllch ariannu' gros, cyn codi'r gyfradd Treth Cyngor. Mae'r 'bwllch ariannu' a gyfrifir yma gyntaf yn fwlch net, sy'n dangos faint o arbedion fydd angen i'r Cyngor gyflawni er mwyn mantoli'r gyllideb ar ôl codi'r Dreth tua'r cynnydd cyfartalog. Wedyn, mae'r ail siart ffan yn dangos y bwllch gros i bwrpas cymharu ag awdurdodau lleol eraill.

### Bwlch ariannol posibl Cyngor Gwynedd hyd at 2021/22



### Bwlch ariannol posibl Cyngor Gwynedd hyd at 2021/22





## Strategaeth Arbedion 2020/21 a 2021/22

14. Gallasai fod her sylweddol o flaen y Cyngor dros y 2 flynedd 2020/21 a 2021/22. Gweler o'r siart ffan bwllch net mae'n bosib y bydd angen strategaeth i ganfod cyfanswm posibl hyd at £10m o arbedion ychwanegol erbyn 2020/21 a 2021/22.
15. Gydag ansicrwydd yn deillio o Adolygiad Gwariant Llywodraeth San Steffan, mae'n bosib i'r canlyniad fod tu allan i'n 'senarios gorau / gwaethaf' ni ar y siart. Fodd bynnag, os bydd y senario 'canolog' yn digwydd, byddai angen £3.4m o arbedion ychwanegol erbyn 2020/21 a £2.2m pellach erbyn 2021/22 (cyfanswm o £5.6m), a bydd elfen o gynnyrch arbedion 2019/20 (o bosib hyd at £4.2m) ar gael erbyn 2020/21 a 2021/22. Wrth ddiystyru 10% o'r canlyniadau mwyaf ymylol, gall cyfanswm y bwllch am y ddwy flynedd amrywio rhwng £1.1m a £10m.
16. Tra dylai'n trefniadau ni anelu i fod yn ddigon hyblyg er mwyn gallu gwireddu hyd at £10m o arbedion, wedi profiad strategaeth arbedion 2019/20, gwyddom pa mor heriol oedd adnabod llai na hanner y swm yna o arbedion. Mae aelodau'r Cabinet wedi ystyried yr effaith ar wasanaethau i bobl Gwynedd a gweld fod y llinell lle na ellid torri ymhellach yn agosau.
17. Rydym wedi casglu fod y darlun cyffredinol yn ymddangos yn un difrifol iawn i sawl awdurdod lleol yng Nghymru, sy'n wynebu cryn bwysau eleni, a'u sefyllfa ariannol yn mynd yn fwy bregus. Mae rhai cynghorau wedi mentro a profi llynedd bod dim cyfyngiad 5% ar y codiad treth Cyngor erbyn hyn, ond cofier byddai codiad treth o 5% ychwanegol yn golygu dim ond tua £3.7m ychwanegol i goffrau'r Cyngor. Byddai'r swm hynny ddim yn cwrdd â chwyddiant y Cyngor, tra byddai codiad treth yn rhoi pwysau ar bobl Gwynedd.
18. Yn ddelfrydol, byddai'r Cyngor awydd gweithredu strategaeth ariannol dros 4 neu 5 mlynedd. Yn anffodus, mae hynny'n gwbl anymarferol, gan fod Llywodraeth Cymru wedi darparu setliad am un flwyddyn heb ffigwr mynegol am y flwyddyn ddilynol (yn ddealladwy efallai, yn wyneb ansicrwydd ariannol cenedlaethol oherwydd Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU yn ystod 2019, ayb).

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig am 3 blynedd

19. Felly, mae'n synhwyrol i ddelio gyda chyllideb 2019/20 rŵan, a parhau gyda'r strategaeth arbedion i ymateb yn fwy manwl erbyn y ddwy flynedd ddilynol (2020/21 a 2021/22) pryd byddwn wedi adnabod y bwllch ariannu perthnasol gyda mwy o sicrwydd.
20. Yn y cyfamser, tra'n **anelu i fod yn ddigon hyblyg er mwyn gallu gwireddu hyd at £5.6m o arbedion pellach** (achos ganolog y rhagolygon) **dros y ddwy flynedd 2020/21 a 2021/22, gan sicrhau fod pob opsiwn effeithiolrwydd yn cael ei ganfod**, rhaid cydnabod bydd hynny'n hynod heriol a dylid **pwysu ar Lywodraeth Cymru i ddarparu setliad grant briodol** am 2020/21 a thu hwnt.
21. O fewn y gyfundrefn hyn, byddwn yn parhau i weithredu **egwyddorion cyson o ran ystyried cynnydd yn y Dreth Cyngor yn agos i gynnydd gyfartalog awdurdodau lleol Cymru, uchafu'r arbedion effeithlonrwydd y gellir eu gwireddu** (er mwyn osgoi toriadau pellach), **a gweithredu toriadau ddim ond fel bydd rhaid**, er mwyn diwallu'r balans fydd ar ôl o'r bwllch ariannu.

## ATODIAD 9

### ASESIAD EFFAITH O SAFBWyNT CYDRADDOLDEB

1. Mae'r gyllideb a amlinellir yma'n ceisio parhau i ddarparu'r deilliannau priodol i holl drigolion y sir, ond gan fu cynnydd annigonol yn ein incwm i gwrdd â chwyddiant, ayb, mae'n rhaid gweithredu'r cynlluniau arbedion roedd wedi'u cymeradwyo eisoes ynghyd â'r pecyn o gynlluniau ychwanegol sy'n Atodiad 3.
2. Gydag arbedion, mae posibilrwydd i ni gael ardrawiad fyddai'n effeithio'n anghymesur ar rai gyda nodweddion gwarchodedig, ond mae'r adrannau sy'n berchen ar y cynlluniau arbedion unigol wedi cynnal asesiadau effaith priodol ynghylch y penderfyniadau ariannol ar arbedion a thoriadau gerbron yma. Lle'n briodol, yn Atodiad 3, gwelir sylwadau gyferbyn â'r cynlluniau unigol, neu linc i asesiadau manwl.
3. Ein nod oedd sicrhau fod ein penderfyniadau ariannol yn cydymffurfio â dyletswyddau'r Ddeddf Cydraddoldeb, sef:
  - Diddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol, ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd dan y Ddeddf.
  - Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
  - Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.Wrth asesu, roedd yr adrannau perthnasol wedi ceisio canfod sut i wneud y gorau o bob cyfle i wella cydraddoldeb yn ogystal â cheisio osgoi neu liniaru unrhyw effaith negyddol hyd orau eu gallu.
4. Wrth gynllunio ein cyllidebau, ar gyfer parhad gwasanaethau'r Cyngor mae ein cyfrifwyr wedi rhoi ystyriaeth i gydraddoldeb ar bob lefel, gan ddefnyddio data a thystiolaeth am ddemograffi a thueddiadau wrth gynllunio ar lefel strategol. Yn yr un modd (ond yn fwy penodol) wrth ddod i benderfyniad ar gynlluniau arbedion unigol mae penaethiaid adrannau'r Cyngor wedi casglu data, dadansoddi effaith cynlluniau a monitro'n briodol.
5. Mae gennym gyfundrefnau clir ar gyfer darganfod arbedion, sydd yn cynnwys asesiad llawn o effaith yr arbedion o safbwynt cydraddoldeb. Mae'r adran berthnasol wedi dadansoddi pob cynnig unigol, gan nodi os oes angen cynnal asesiad effaith wrth ddatblygu'r prosiect. Dyma fydd y drefn gyda'r arbedion effeithlonrwydd pellach erbyn 2019/20.
6. Mae'r gyllideb a argymhellir yn gwneud mwy na chwrdd â chostau chwyddiant. Mae o hefyd yn ceisio sicrhau fod pwysau cyllidebol anorfod sy'n disgyn ar wasanaethau (oherwydd galwadau uwch a roddir arnynt, yn sgil nifer uwch o gleientau, disgyblion, a.y.b.) hefyd yn cael eu cyfarch trwy wneud penderfyniadau cyllidebol cydwybodol a rhesymol (gweler y gofynion gwario ychwanegol, gan gynnwys 'demograffi', yn rhan 3 o'r adroddiad).
7. Mae gan bob gwasanaeth yr hawl i gyflwyno cais am adnodd os yw'n ystyried fod angen cyllideb ychwanegol i sicrhau fod gwasanaethau'n parhau. Mae'r symiau a welir o dan y pennawd "pwysau ar wasanaethau" yn gydnabyddiaeth fod y Cyngor yn darparu cyllid digonol er mwyn sicrhau nad yw ein trefniadau ariannol yn cael effaith andwyol ar lefel y gwasanaethau a ddarperir. Fe geir manylion llawn yn Atodiad 2 ac fe welir fod rhan sylweddol (£1,786,350) o'r cyfanswm bidiau refeniw parhaol (£3,060,030) yn mynd i'r maes gofal cymdeithasol, a bod mwyafrif y gweddill (£1,139,640) ohono'n mynd at anghenion arbennig disgyblion ysgolion.

Dyma gyflwyniad am Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb gan y Swyddog Polisi a Cydraddoldeb arbenigol, ynghyd a'i sylwadau yn benodol am effaith yr arbedion (nid yw wedi sylwebu ar agweddau eraill bositif o'r gyllideb crybwyllir uchod, megis 'bidiau' gofal).

### **Beth yw asesiad effaith cydraddoldeb?**

Mae'n bwysig iawn fod ystyriaeth yn cael ei roi i bobl hefo'r 9 nodwedd cydraddoldeb sy'n cael eu gwarchod dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wrth wneud penderfyniadau ynglŷn ag arbedion. Y naw nodwedd yma yw - oedran, rhyw, hil, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, a phriodas a phartneriaeth sifil. Mae nifer o'r nodweddion hyn yn gyffredin i holl bobl Gwynedd e.e. nid oes unrhyw un o'n trigolion sydd heb oedran neu hil. Mae'r lleill yn nodweddion sy'n effeithio canran o bobl Gwynedd ond mae'n bwysig cofio fod pobl sydd â pherthynas hefo'r unigolyn hefyd yn cael eu diogelu e.e. teulu, ffrindiau, gofalwyr (yn achos anabledd) ayb. Heb ystyried yr effaith ar y nodweddion yma nid yw'n bosib inni sicrhau tegwch i bobl Gwynedd.

Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi dyletswydd gyffredinol arnom ni fel Cyngor i roi sylw dyledus i'r angen i:

1. Diddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y ddeddf
2. Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rhai nad ydynt
3. Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt

Dylid nodi fod y ddyletswydd gyffredinol ond yn berthnasol i 8 allan o'r naw nodwedd (nid yw'n cynnwys priodas a phartneriaeth sifil).

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi dyletswyddau pellach ar fudiadau cyhoeddus yng Nghymru, sef dyletswyddau penodol. Un o'r dyletswyddau hynny yw gwneud asesiad effaith cydraddoldeb wrth ystyried cyflwyno polisi newydd neu wneud newidiadau neu doriadau i wasanaeth. Mae angen tystiolaeth ddigonol i ystyried a fyddai'r penderfyniad yn effeithio'n anghymesur ar bobl yn rhannu un nodwedd warchoddedig neu fwy. Mae angen hefyd asesu effaith ar ei allu i gydymffurfio a'r ddyletswydd gyffredinol. Gofynnir i ni sicrhau fod tystiolaeth berthnasol er mwyn deall effaith debygol neu wirioneddol polisiau, gan gynnwys barn pobl hefo nodweddion gwarchoddedig.

### **Faint o bwyslais a ddylid ei roi ar asesiad effaith cydraddoldeb?**

Ar ôl ystyried hyn, rhaid i'r penderfynwyr roi sylw dyledus (hy pwysau priodol) i ganlyniadau aseidiadau o'r fath. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol ystyried gweithredu i ymdrin ag unrhyw broblemau a nodwyd, fel ymdrin ag effeithiau negyddol, lle bo hynny'n bosib. Nid yw'r ffaith fod asesiad yn dangos effaith felly'n eich atal rhag torri lefel gwasanaeth, ond mae'n angenrheidiol i'r Cyngor feddwl am bob ffordd posib i atal neu leddfu unrhyw effeithiau negyddol.

### **Asesu effaith yr arbedion**

Mae'r Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb i'w cael wrth glicio ar linc wrth ymyl y cynnig ar y tabl. Mi wnewch chi sylwi nad oes asesiad effaith cydraddoldeb wedi ei wneud ar bob cynnig. Roedd cyfrifoldeb ar bob un o'r gwasanaethau, wrth gwrs, i edrych a oedd effaith wrth baratoi i gynnig eu cynigion. Os nad oes effaith ar bobl hefo nodweddion gwarchoddedig yn cael ei amlygu nid oes angen gwneud asesiad effaith cydraddoldeb. Weithiau roedd yn dod yn glir nad oedd effaith wrth wneud yr asesiad ac mae rhai aseidiadau yma wedi eu cyflwyno mewn ffurf gryno. Er bod y Swyddog Cydraddoldeb a Pholisi wedi rhoi mewnbyn, cyfrifoldeb yr Adran oedd penderfynu os oedd angen gwneud asesiad effaith cydraddoldeb. Mae crynodeb ar gael ar yr tabl hefyd ond

mae'n hynod bwysig fod pawb yn darllen yr asesiadau llawn er mwyn cael darlun cyflawn o'r effaith ar wahanol garfannau o bobl.

### **Canlyniadau'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb**

O edrych ar yr asesiadau effaith cydraddoldeb mi fyddwch chi'n sylwi fod y cynigion yn cael mwy o effaith ar rai nodweddion gwarchoddedig na'i gilydd. Rhaid pob tro ystyried yr effaith gronnu ar bobl mewn sefyllfa o'r fath. Mae rhai o'r asesiadau'n dangos mai ar bobl anabl, pobl hŷn a phlant mae'r effaith fwyaf, boed hwnnw'n negyddol neu bositif. O gofio fod pobl hefo perthynas hefo person â nodwedd warchoddedig hefyd yn cael eu diogelu, dylid nodi'r effaith felly ar ofalwyr a rhieni yn ogystal. Wedi dweud hyn, mae angen cofio fod y Cyngor wedi ystyried nifer fawr o arbedion eraill ac wedi ceisio dewis y rhai oedd a lleiaf o effaith ar y boblogaeth yn gyffredinol ynghyd a pobl hefo nodweddion cydraddoldeb. Mae'r asesiadau hefyd yn dangos y mesurau fydd yn cael eu cymryd, os yn bosib, i leddfu unrhyw effaith negyddol a amlygir.

Ffactor arall i'w ystyried yw tlodi. Er nad yw'n nodwedd warchoddedig mae ystadegau'n dangos fod pobl hefo rhai nodweddion cydraddoldeb yn fwy tebygol o fod yn dlawd na gweddill y gymdeithas. Mae hyn yn cynnwys teuluoedd hefo person anabl ynddynt, rhai pobl o leiafrifoedd ethnig a theuluoedd hefo plant. Bydd rhai o'r cynigion yn cael effaith anghymesur ar rai o'r bobl hyn.

Rhaid hefyd ystyried lleoliad wrth edrych ar yr effaith. Mae rhai o'r cynigion yn effeithio ardaloedd penodol ond nid oes unrhyw effaith cronnu amlwg wedi ei adnabod ar hyn o bryd. Bydd angen asesu hyn ymhellach wrth ddatblygu'r asesiadau fel mae'r cynigion yn aeddfedu.

Mae'n bwysig hefyd ystyried yr effaith mae'r arbedion yma'n eu cael ar aelodau staff. Bydd rhai aelodau staff yn colli eu swyddi neu'n gorfod newid eu gwaith. Gan fod oddeutu 70% o weithlu'r Cyngor yn ferched mae'n anorfod y bydd yr arbedion yn cael mwy o effaith ar ferched.

## ATODIAD 10

### DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

1. Mae'r gwaith o gynllunio a pharatoi'r argymhellion wedi digwydd o fewn cyd-destun gofynion y Ddeddf. Er bod yr argymhellion yn deillio o sefyllfa ariannol anodd, mae'r Cyngor wedi gweithredu ar seiliau'r egwyddor o weithredu mewn modd sydd yn cyfarch y ddyletswydd statudol yn Adran 3 i ymgymryd â datblygu cynaliadwy a chyflawni Amcanion Llesiant y Cyngor. Mae hyn yn cael ei gyfarch wrth adnabod a chloriannu'r dewisiadau o ran arbedion, ond hefyd wrth benderfyniadau a dewisiadau o safbwynt cynnal buddsoddi mewn gwasanaethau.
2. Prif gasgliadau am gyllideb 2019/20 ynglŷn â'r 7 nod llesiant:
  - Llewyrchus – Niwtral
  - Cydnerth - Positif (agwedd darbodus, hir-dymor at ariannu gwasanaethau)
  - Iachach – Positif (ariannu Unedau Dementia, a gofynion eraill 'Gofal')
  - Mwy Cyfartal – Positif (trethu er mwyn ariannu gwasanaethau 'lles')
  - Cymunedau Cydlynus – Niwtral
  - Diwylliant a'r Gymraeg – Positif (drwy ariannu gwasanaethau dwy-ieithog)
  - Byd-eang Gyfrifol – Niwtral
3. Mae'r gyllideb hon yn adlewyrchu'r pum ffordd o weithio canlynol y mae'r Cyngor yn ystyried wrth gymhwyso datblygu cynaliadwy.
  - Edrych i'r tymor hir – Mae gyllideb yn cynllunio ar gyfer y dyfodol, gan adnabod anghenion a galw am wasanaethau yn y dyfodol, a chymryd agwedd strategol i sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy.
  - Cymryd agwedd integredig - Mae'r cynigion cyllideb yn annog ffyrdd o weithio gyda phartneriaid, lle mae hynny'n fwy cynaliadwy.
  - Cynnwys y boblogaeth mewn penderfyniadau - Mae rhan o'r broses gyllidebu a'r strategaeth arbedion wedi cynnwys ymgysylltu â thrigolion, cwsmeriaid a phartneriaid.
  - Gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol - Lle gellir darparu gwasanaethau gwell trwy gydweithredu, mae'r broses gyllidebol a'r strategaeth arbedion yn annog hyn.
  - Deall problemau a'u hatal - Mae'r broses gyllidebu yn hwyluso dealltwriaeth o'r sefyllfa ariannol, fel y gellir mynd i'r afael â gwreiddiau materion. Hefyd, mae'r ymgynghoriad cyhoeddus a'r 2 gyfres o Weithdai Aelodau wedi hwyluso dealltwriaeth o'r strategaeth arbedion ariannol.
4. Ynglŷn â chynlluniau arbedion ariannol penodol, fel rhan o'r gyfundrefn arbedion gorfforaethol ac adrannol, lle'n briodol bu asesiad llesiant penodol fesul cynllun unigol, ac ystyriaeth o hynny yn y gweithdai trefnwyd i'w craffu ac i flaenoriaethu arbedion i'w gweithredu.
5. Yn gyffredinol, wedi'i gyplysu gyda Chynllun y Cyngor a'r Amcanion Llesiant, mae'r gyllideb yma'n cefnogi'r Cyngor i wireddu amcanion strategol.



# **Canlyniadau ymgynghoriad cyhoeddus Strategaeth Ariannol Cyngor Gwynedd**

**Ionawr 2019**

**[www.gwynedd.llyw.cymru/strategaethariannol](http://www.gwynedd.llyw.cymru/strategaethariannol)**

## Tudalen Gynnwys

1. Cefndir	3
2. Cynnal yr arolwg	5
3. Trosolwg o'r ymatebwyr i'r arolwg	6
4. Methodoleg dadansoddi'r canlyniadau	10
5. Prif negeseuon	11
6. Canlyniadau'r arolwg yn ei gyfanrwydd	12
7. Cwestiwn Treth Cyngor: Cymhariaeth o ganlyniadau'r gwahanol grwpiau (oedran, rhyw ayyb.)	16
8. Ymatebion gan sefydliadau / busnesau	21
<b>Atodiad A:</b> Sylwadau ar y cynigion gan ymatebwyr oedd am godi'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5%	22
<b>Atodiad B:</b> Sylwadau ar <u>gynigion penodol</u> gan yr holl ymatebwyr	33
<b>Atodiad C:</b> <u>Sylwadau cyffredinol</u> gan yr holl ymatebwyr	40
<b>Atodiad Ch:</b> Sylwadau gan fusnesau / sefydliadau	44
<b>Atodiad D:</b> Gohebiaeth Cyngor Cymuned Arthog	50

## 1. Cefndir

1.1 Mae'r sefyllfa ariannol fydd yn wynebu Cyngor Gwynedd dros y blynyddoedd nesaf yn fwy heriol nag erioed.

1.2 Yn ystod 2019/20 yn unig, bydd y Cyngor yn wynebu bwlch ariannol o bron i **£13 miliwn**. Mae hyn oherwydd:

	£m
Chwyddiant	9.5
Mwy o blant a phobl hŷn angen help	3.0
Gostyngiad eto yn yr arian yr ydym yn ei gael gan y Llywodraeth	0.5
<b>Cyfanswm</b>	<b>13.0</b>

1.3 Gan fod Gwynedd wedi bod yn torri ar wariant ers dros ddegawd, mae'r Cyngor bellach yn cyrraedd pendraw'r hyn sy'n bosib heb orfod gweithredu toriadau dwfn. Er mwyn ymdopi â'r sefyllfa heriol, mae adrannau'r Cyngor wedi bod yn chwilio am ffyrdd o leihau eu gwariant neu greu incwm ychwanegol.

1.4 Mae Cyngor Gwynedd eisoes wedi holi barn pobl Gwynedd ynglŷn â pha wasanaethau lleol sydd bwysicaf iddyn nhw yn ystod ymarferiad **'Pa wasanaethau sy'n bwysig i chi?'** a gynhaliwyd rhwng **Medi - Tachwedd 2018**.

1.5 Mae canlyniadau'r ymarferiad **'Pa wasanaethau sy'n bwysig i chi?'** yn dangos yn glir fod y gwasanaethau mae'r Cyngor yn ei ddarparu yn bwysig neu'n hanfodol bwysig i bobl Gwynedd neu i garfan neu gymuned benodol o fewn y sir. Mewn ymateb i'r hyn mae pobl Gwynedd wedi ei ddweud, mae'r Cyngor yn bwriadu:

- **gwarchod gwasanaethau rheng flaen** drwy arbed £2 miliwn pellach o wariant ar wasanaethau canolog a gwasanaethau "swyddfa gefn" a drwy ddarganfod ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau fydd ddim yn effeithio ar y cyhoedd;
- **gwarchod Gofal ac Addysg** (y ddau faes sy'n gyfrifol am bron i 2/3 o wariant y Cyngor) yn benodol drwy beidio gofyn i ysgolion gyfrannu at arbedion pellach yn 2019/2020 a drwy gyfyngu cyfraniad y ddau faes yma i arbedion effeithlonrwydd neu arbedion fydd yn cael effaith ymylol yn unig;
- **gwarchod y gyllideb Trafnidiaeth Gyhoeddus** fel maes sy'n flaenoriaeth i grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig (pobl dan 25 oed, pobl dros 65 oed a phobl anabl yn benodol);
- **cyfyngu'r toriadau sy'n effeithio ar y Sector Busnes** i'r lleiafswm posib.

1.6 Mae'r Cyngor eisoes wedi bod yn cynllunio arbedion dros y blynyddoedd a fu, a drwy fynd ar ôl grantiau pellach mae modd lleihau'r bwlch o **£13 miliwn** i **£6.8 miliwn**.



1.7 Mae'r Cyngor hefyd wedi adnabod cyfleoedd ar gyfer lleihau costau swyddfa gefn ymhellach ac yn obeithiol y bydd modd darganfod arbedion eraill fydd yn arbed swm o **£2 miliwn**.

1.8 Dim ond dwy ffordd sy'n agored wedyn i'r Cyngor gwrdd â'r bwlch o **£4.8 miliwn** sy'n weddill ar gyfer 2019/20 – **sef arbed mwy a/neu gynyddu'r Dreth Gyngor**:

- **Arbed mwy** – mae'r Cyngor o'r farn bod modd cyflawni arbedion pellach fyddai'n cynhyrchu £1 miliwn yn 2019/20.
- **Cynyddu'r Dreth Gyngor** – byddai arbed £1 miliwn yn fwy drwy wireddu'r cynigion yn gadael £3.8 miliwn i'w ddarganfod o Dreth Gyngor. Byddai hyn yn golygu cynnydd o **5.5%** yn y Dreth Gyngor.

1.9 Pwrpas ymgynghoriad **Strategaeth Ariannol Cyngor Gwynedd** oedd:

- egluro'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cyngor i bobl a sefydliadau Gwynedd;
- cyflwyno'r ddau opsiwn oedd ar gael i'r Cyngor – sef cyflawni mwy o arbedion a/neu gynyddu'r Dreth Gyngor;
- cynnig cyfle i bobl a sefydliadau Gwynedd ddweud eu dweud ar y 65 o gynigion sy'n cael eu hystyried gan y Cyngor;
- darparu cyfleoedd priodol i unigolion, grwpiau cymunedol, grwpiau diddordeb a sefydliadau nodi unrhyw effaith bosib ar un o'r grwpiau nodweddedig.

1.10 Fel cyflwyniad i'r holiadur eglurwyd:

- y bydd y Cyngor yn wynebu sefyllfa ariannol hynod heriol dros y blynyddoedd nesaf;
- y bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu cyflwyno i gynghorwyr Gwynedd fel gwybodaeth fydd yn ddefnyddiol iddynt wrth ystyried sut orau i ddyrannu'r symiau annigonol o arian fydd ar gael i gyllido gwasanaethau lleol rhwng 2019/20 a 2022/23;
- mai cyfrifoldeb cynghorwyr Gwynedd fydd pwysu a mesur yr holl wybodaeth a thystiolaeth a ddaw i law.

## 2. Cynnal yr arolwg

2.1 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad dros gyfnod o **4 wythnos** rhwng 4 - 31 Ionawr, 2019.

2.2 Roedd cyfle i drigolion a sefydliadau gymryd rhan **mewn dwy ffordd**:

i) Cwblhau holiadur '**Strategaeth Ariannol Cyngor Gwynedd**' mewn un o ddwy ffordd:

- Ar-lein drwy ymweld â gwefan **www.gwynedd.llyw.cymru/strategaethariannol**;
- Llyfryn a **holiadur papur** a oedd ar gael drwy Siop Gwynedd, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden y Cyngor.

ii) Anfon llythyr neu e-bost gydag unrhyw adborth neu sylwadau.

2.3 Defnyddiwyd ystod eang o ddulliau i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd i gymryd rhan yn yr arolwg gan gynnwys:

- cyhoeddi cyfres o **ddatganiadau i'r wasg** a ddefnyddiwyd fel sail i erthyglau yn y papurau newydd lleol a rhanbarthol (Daily Post, Cambrian News, North Wales Chronicle);
- ymgyrch ragweithiol ar y **cyfryngau cymdeithasol** a oedd yn cynnwys cyfres gyson o negeseuon a chlipiau fideo a hyrwyddwyd drwy gyfrifon **Twitter, Facebook a Instagram** y Cyngor a drwy sawl partner;
- cylchredeg manylion yr ymgynghoriad i Gynghorau Cymuned;
- cylchredeg neges sy'n codi ymwybyddiaeth o'r ymarferiad i sawl corff ei raeadru i'w haelodau gan gynnwys aelodau:
  - **Grŵp Cyswllt y Trydydd Sector yng Ngwynedd**;
  - **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn**;
  - **Rhwydwaith Busnes Gwynedd**;
  - **Ffermwyr Ifanc Eryri a Meirionnydd**;
  - **Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor**;
  - **Yr Urdd**;
  - **Age Cymru Gwynedd a Môn**;
  - **sefydliadau celfyddydol**;
  - **grwpiau amgylcheddol** ayyb);
- cysylltu'n uniongyrchol â grwpiau a sefydliadau oedd yn cael eu heffeithio gan un neu fwy o'r 65 cynnig.

### 3. Trosolwg o'r ymatebwyr i'r arolwg


3.1 Dros gyfnod yr ymarferiad fe wnaeth **588** o bobl Gwynedd a **21** o sefydliadau / busnesau lleol fanteisio ar y cyfle i lenwi holiadur.

#### 3.2 Rhyw

3.2.1 O'r unigolion wnaeth lenwi'r holiadur roedd:


- **279** yn ferched;
- **259** yn ddynion;
- **2** yn nodi 'Arall';

3.2.2 Yn ychwanegol i hyn, fe wnaeth **48** o unigolion ddatgan **fod well gennynt beidio dweud neu ddewis peidio ateb y cwestiwn**.



### 3.3 Oedran

3.3.1 Mae'r graff isod yn dangos nifer a chanran yr ymatebwyr fesul grŵp oedran. Dewisodd **33** unigolyn i **beidio ateb y cwestiwn**.




### 3.4 Iaith

3.4.1 O'r unigolion wnaeth ymateb, nododd:

- **310** (52.7%) mai'r **Gymraeg** yw eu hiaith gyntaf;
- **206** (35.0%) mai **Saesneg** yw eu hiaith gyntaf;
- **6** (1.0%) eu bod yn **ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg**;
- **5** (0.9%) eu bod yn siarad iaith gyntaf '**Arall**';
- **61** (10.4%) bod gwell **ganddynt beidio â dweud / heb ateb y cwestiwn**.


3.4.2 Mae'r graffiau isod yn dangos nifer a chanran yr ymatebwyr yn ôl iaith gyntaf a chanran cefndir ieithyddol pobl Gwynedd.

Graff 4: Iaith gyntaf yr ymatebwyr\*



\*Nid yw'r graff uchod yn cymryd i ystyriaeth y nifer wnaeth ateb 'gwell gennyf beidio â dweud' na'r rhai a ddewisiodd i beidio ateb y cwestiwn.

Graff 5: Canran o boblogaeth Gwynedd 3 oed a throsodd sydd wedi nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg\*\*




\*\*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

### 3.5 Anabledd


3.5.1 Mae **graff 6** yn dangos nifer a chanran o ymatebwyr a nododd eu bod yn ystyried eu hunain yn anabl. Dewisodd **83** o unigolion beidio ateb y cwestiwn neu ddewis yr opsiwn 'gwell gennyf beidio â dweud'. Er nad oes modd gwneud cymhariaeth uniongyrchol, mae **graff 7** yn dangos fod **9.7%** o bobl Gwynedd wedi datgan fod ganddynt gyflwr sy'n "cyfyngu'n sylweddol ar eu gweithgareddau dydd i ddydd" sy'n cymharu gyda **9.5%** o ymatebwyr yr arolwg a nododd eu bod yn ystyried eu hunain yn anabl.

Graff 6: Nifer a chanran o ymatebwyr a nododd eu bod yn ystyried eu hunain yn anabl\*



\*Nid yw'r graff uchod yn cymryd i ystyriaeth y nifer wnaeth ateb 'gwell gennyf beidio â dweud' na'r rhai a ddewisiodd i beidio ateb y cwestiwn.

Graff 7: Canran o bobl Gwynedd wnaeth ddatgan fod ganddynt gyflwr sy'n "cyfyngu'n sylweddol ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd" \*\*




\*\*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

### 3.6 Ardal Leol

3.6.1 Mae'r tabl a'r graff isod yn dangos nifer a chanran yr ymatebwyr yn ôl ardal leol. Dewisodd **138** unigolyn i beidio rhoi cod post a rhoddodd **11** unigolyn god post oedd tu allan i Wynedd .

**Graff 8: Ymatebwyr yn ôl y 10 Ardal Leol**



Ardal Lleol	Nifer wedi ateb	Canran o'r holl ymatebwyr	Canran poblogaeth 11+ Gwynedd sy'n byw yn yr ardal
Bangor	40	9.1%	17.9%
Caernarfon	105	23.8%	20.0%
Dolgellau	60	13.7%	8.6%
Dyffryn Nantlle	30	6.8%	6.2%
Dyffryn Ogwen	20	4.6%	6.7%
Ffestiniog	20	4.6%	5.2%
Llŷn	56	12.8%	15.7%
Penllyn	14	3.2%	3.7%
Porthmadog	52	11.8%	10.0%
Tywyn	42	9.6%	6.1%
Heb roi cod post	138	N/A	N/A
<b>Cyfanswm</b>	<b>577*</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>

\* Nid yw'r cyfanswm yma yn cynnwys y 11 unigolyn oedd wedi rhoi cod post tu allan i Wynedd.

## 4. Methodoleg dadansoddi'r canlyniadau

### 4.1 Cwestiwn Treth Cyngor

4.2 Roedd yr ymatebwyr a oedd wedi dewis yr opsiwn “**Dylai Cyngor Gwynedd godi'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5% ar gyfer 2019/20 er mwyn lleihau nifer y 65 o gynigion a nodir yn Nhabl 1**” yn cael eu hannog i nodi'r cynnig/ion yr oeddent yn teimlo y dylai'r Cyngor **beidio** gweithredu arnynt.

4.3 Roedd cyfle i'r ymatebwyr a ddewisodd un o'r opsiynau isod nodi unrhyw sylwadau am y Strategaeth Ariannol neu nodi'r effaith posib ar un neu fwy o'r grwpiau nodwedd cydraddoldeb:

- “*Dwi'n cytuno fod y cynigion a nodir yn Nhabl 1 yn rhai rhesymol i'r Cyngor gyflawni a bod **cynnydd yn y Dreth Cyngor o 5.5% ar gyfer 2019/20 yn taro'r balans priodol** rhwng yr angen i warchod gwasanaethau a lefel y Dreth Cyngor*”
- “*Dylai Cyngor Gwynedd **gynyddu'r Dreth Cyngor o lai na 5.5% ar gyfer 2019/20 a gweithredu mwy o doriadau i wasanaethau** na'r 65 o gynigion a nodir yn Nhabl 1 gan dderbyn y gallasai olygu lleihad mewn gwasanaethau sy'n hollol bwysig i mi*”
- “***Nid wyf eisiau datgan barn am y Dreth Cyngor, ond rwyf eisiau rhoi sylw ar y cynigion a nodir yn Nhabl 1***”

## 5. Prif negeseuon

- 5.1 Roedd tua hanner (48.6%) o'r ymatebwyr o'r farn y dylai'r Cyngor godi'r Dreth Cyngor o **lai na 5.5%** yn 2019/20 **a gweithredu mwy o doriadau i wasanaethau** na'r rhai a nodwyd ymhlith y 65 cynnig a gyflwynwyd iddynt er gwaetha'r posibilrwydd y gallai hynny olygu lleihad mewn gwasanaethau sy'n holl bwysig iddynt.
- 5.2 Roedd yr hanner arall (51.4%) naill ai o blaid cynnig y Cabinet i godi 5.5% ar y Dreth Gyngor (34.3% o'r ymatebwyr yn cefnogi hyn), neu o blaid yr opsiwn i gynyddu'r dreth fwy na hynny er mwyn peidio gorfod gwneud cymaint o arbedion.
- 5.3 Lleiafrif bychan (17.1%) oedd o'r farn y dylai'r Cyngor godi'r Dreth Cyngor **o fwy na 5.5%** yn 2019/20 er **mwyn lleihau nifer y 65 o gynigion** a gyflwynwyd iddynt. Nid oedd unrhyw gynnig yn sefyll allan fel un y dylid ei warchod gan y garfan yma gyda 43 o'r 65 cynnig yn derbyn rhwng 1 a 11 sylwad a dim un cynnig yn derbyn mwy na hynny.
- 5.4 Roedd canran uwch o ymatebwyr anabl (30%) yn nodi y dylai Cyngor Gwynedd godi'r Dreth Cyngor **o fwy na 5.5%**, o'i gymharu â'r ymatebion yn eu cyfanrwydd ond dylid cofio mai dim ond 48 o bobl anabl wnaeth ymateb.
- 5.5 Derbyniwyd 149 o sylwadau penodol am y cynigion gan y 79 unigolyn oedd yn dymuno codi'r Dreth Cyngor **o fwy na 5.5%**. Gweler **Atodiad A**.
- 5.6 Roedd cyfle ar ddiwedd yr holiadur i bawb wnaeth ymateb gynnis sylwadau. Mae'r sylwadau oedd yn cyfeirio at gynigion penodol yn **Atodiad B** a rhai cyffredinol yn **Atodiad C**.



## 6. Canlyniadau'r arolwg yn ei gyfanrwydd

6.1 Mae **Graff 9** yn dangos canlyniadau'r cwestiwn Treth Cyngor. Dewisodd **461** o unigolion roi eu barn ar y Dreth Cyngor.

6.2 Mae **Graff 10** yn dangos y cynigion oedd yr ymatebwyr oedd wedi dewis "*Dylai Cyngor Gwynedd godi'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5% ar gyfer 2019/20 er mwyn lleihau nifer y 65 o gynigion a nodir yn Nhabl 1*" yn teimlo y dylai'r Cyngor **beidio** gweithredu arnynt mewn trefn poblogrwydd. Mae'r tabl yma hefyd yn nodi unrhyw sylwadau a'r effaith posib ar un neu fwy o'r grwpiau â nodweddion cydraddoldeb. Mae'r sylwadau yma i'w gweld yn llawn yn **Atodiad A**.

6.3 Roedd cyfle i bob ymatebwr gynnig sylwadau ychwanegol ar y Strategaeth Ariannol gan nodi unrhyw effaith posib ar un neu fwy o'r grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010:

- pobl anabl;
- pobl o wahanol oedran;
- pobl o wahanol ryw;
- pobl o unrhyw hil;
- pobl hefo / heb ddaliad crefyddol neu gred;
- pobl sydd ag unrhyw gyfeiriadedd rhywiol;
- pobl sy'n drawsrywiol;
- merched beichiog neu newydd roi genedigaeth.

6.4 Derbyniwyd **134** o sylwadau ar **gynigion penodol** a **248** o **sylwadau cyffredinol** am y Strategaeth Ariannol.


6.5 Mae unrhyw **gynnig penodol** sydd wedi cael derbyn sylwad i'w gweld mewn trefn poblogrwydd yn **Atodiad B**. Mae'n bwysig nodi yma nad yw'r sylwadau o reidrwydd yn rai sy'n cefnogi arbed y cynnig, maent yn amrywio o sylwadau yn cefnogi, gwrthwynebu torri a rhai niwtral hefyd.

6.6 Mae'r **sylwadau cyffredinol** wedi cael eu categoreiddio yn ôl thema ac mae unrhyw thema sydd wedi derbyn 5 sylwad neu fwy i'w gweld yn **graff 11**. I weld rhestr lawn o'r sylwadau cyffredinol ewch i **Atodiad C**.

Graff 9: Canlyniadau'r cwestiwn Treth Cyngor\*

1 ud. 359

“Dylai Cyngor Gwynedd gynyddu'r Dreth Cyngor o lai na 5.5% ar gyfer 2019/20 a gweithredu mwy o doriadau i wasanaethau na'r 65 o gynigion a nodir yn Nhabl 1 gan dderbyn y gallasai olygu lleihad mewn gwasanaethau sy'n hollol bwysig i mi.”




“Dwi'n cytuno fod y cynigion a nodir yn Nhabl 1 yn rhai rhesymol i'r Cyngor gyflawni a bod cynnydd yn y Dreth Cyngor o 5.5% ar gyfer 2019/20 yn taro'r balans priodol rhwng yr angen i warchod gwasanaethau a lefel y Dreth Cyngor.”

“Dylai Cyngor Gwynedd godi'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5% ar gyfer 2019/20 er mwyn lleihau nifer y 65 o gynigion a nodir yn Nhabl 1.”


\* Roedd 127 o ymatebwyr wedi ticio'r blwch "Nid wyf eisiau datgan barn am y Dreth Cyngor, ond rwyf eisiau rhoi sylw ar y cynigion a nodir yn Nhabl 1" neu heb ateb y cwestiwn.

**Graff 10: Nifer yr ymatebwyr oedd eisiau peidio â gweithredu cynigion penodol**

Tud. 360




**Graff 11: Y sylwadau cyffredinol ble mae 5 neu fwy o ymatebwyr wedi nodi'r sylw**



## 7. Cwestiwn Treth Cyngor: Cymhariaeth o ganlyniadau'r gwahanol grwpiau (oedran, rhyw ayyb.)

### 7.1 Canlyniadau yn ôl rhyw


7.1.1 Mae **graiff 12** a **graiff 13** yn dangos canlyniadau'r cwestiwn Treth yn ôl rhyw. Roedd canran uwch o ddyinion (22.5%) yn nodi y dylai'r Cyngor **godi'r dreth o fwy na 5.5%** er mwyn lleihau'r nifer o gynigion, o'i gymharu â merched (12.2%).



### 7.2 Canlyniadau yn ôl oedran


7.2.1 Mae **graffiau 14-17** yn dangos canlyniadau yn ôl grŵp oedran. Er bod canran uwch o bobl ifanc wedi nodi bod **cynnydd yn y Dreth Cyngor o 5.5% ar gyfer 2019/20 yn taro'r balans priodol**, dylid cofio mai dim ond 20 o unigolion o dan 25 oed wnaeth ymateb.

**Graff 14: Ymatebwyr o dan 25  
(20 o ymatebwyr)**




\* 9 ddim eisiau datgan barn.

**Graff 15: Ymatebwyr 25-44 oed  
(192 o ymatebwyr)**




\* 35 ddim eisiau datgan barn.

**Graff 16: Ymatebwyr 45-64 oed  
(221 o ymatebwyr)**



\* 39 ddim eisiau datgan barn.

**Graff 17: Ymatebwyr 65+ oed  
(122 o ymatebwyr)**




\* 29 ddim eisiau datgan barn.

- "Dwi'n cytuno fod y cynigion a nodir yn Nhabl 1 yn rhai rhesymol i'r Cyngor gyflawni a bod **cynnydd yn y Dreth Cyngor o 5.5% ar gyfer 2019/20 yn taro'r balans priodol** rhwng yr angen i warchod gwasanaethau a lefel y Dreth Gyngor."
- "Dylai Cyngor Gwynedd **gynyddu'r Dreth Cyngor o lai na 5.5% ar gyfer 2019/20 a gweithredu mwy o doriadau i wasanaethau** na'r 65 o gynigion a nodir yn Nhabl 1 gan dderbyn y gallasai olygu lleihad mewn gwasanaethau sy'n hollol bwysig i mi."
- "Dylai Cyngor Gwynedd **godi'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5% ar gyfer 2019/20** er mwyn lleihau nifer y 65 o gynigion a nodir yn Nhabl 1."

### 7.3 Canlyniadau ymatebwyr anabl


7.3.1 Mae **graff 18** yn dangos y canlyniadau'r unigolion sydd wedi nodi fod ganddynt anabledd. Er bod y sampl yn fach, roedd canran uwch o bobl anabl (30%) yn nodi y dylai Cyngor Gwynedd **godi'r dreth o fwy na 5.5%**, o'i gymharu â'r ymatebion yn eu cyfanrwydd.



### 7.4 Canlyniadau yn ôl iaith gyntaf


7.4.1 Mae **graff 19 a graff 20** yn dangos y canlyniadau yn ôl iaith gyntaf. Nid oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng yr ymatebwyr oedd wedi nodi eu bod yn Gymraeg / dwyieithog a'r rhai oedd wedi nodi Saesneg fel iaith gyntaf.

**Graff 19: Cymraeg / dwyieithog  
iaith gyntaf  
(316 o ymatebwyr)**



\* 52 ddim eisiau datgan barn.

**Graff 20: Saesneg  
iaith gyntaf  
(206 o ymatebwyr)**



\* 52 ddim eisiau datgan barn.



“Dwi'n cytuno fod y cynigion a nodir yn Nhabl 1 yn rhai rhesymol i'r Cyngor gyflawni a bod **cynnydd yn y Dreth Cyngor o 5.5% ar gyfer 2019/20 yn taro'r balans priodol** rhwng yr angen i warchod gwasanaethau a lefel y Dreth Gyngor.”



“Dylai Cyngor Gwynedd **gynyddu'r Dreth Cyngor o lai na 5.5% ar gyfer 2019/20 a gweithredu mwy o doriadau i wasanaethau** na'r 65 o gynigion a nodir yn Nhabl 1 gan dderbyn y gallasai olygu lleihad mewn gwasanaethau sy'n hollol bwysig i mi.”



“Dylai Cyngor Gwynedd **godi'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5% ar gyfer 2019/20** er mwyn lleihau nifer y 65 o gynigion a nodir yn Nhabl 1.”

## 7.5 Canlyniadau yn ôl 10 Ardal Leol

7.5.1 Mae **Tabl 1** yn dangos y canlyniadau yn ôl y 10 Ardal Leol.



**Tabl 1: Canlyniadau yn ôl 10 Ardal Leol**

Ticiwch y frawddeg sy'n adlewyrchu eich barn orau	Ymatebwyr yn eu cyfanrwydd	Bangor	Caernarfon	Dolgellau	Dyffryn Nantlle	Dyffryn Ogwen	Ffestiniog	Llŷn	Penllyn	Porthmadog	Tywyn
"Dwi'n cytuno fod y cynigion a nodir yn Nhabl 1 yn rhai rhesymol i'r Cyngor gyflawni a bod cynnydd yn y Dreth Cyngor o 5.5% ar gyfer 2019/20 yn taro'r balans priodol rhwng yr angen i warchod gwasanaethau a lefel y Dreth Cyngor."	158 (34.3%)	10 (32.3%)	31 (34.0%)	16 (33.3%)	11 (42.3%)	5 (27.8%)	8 (47.1%)	18 (38.3%)	4 (33.4%)	16 (38.1%)	15 (45.5%)
"Dylai Cyngor Gwynedd godi'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5% ar gyfer 2019/20 er mwyn lleihau nifer y 65 o gynigion a nodir yn Nhabl 1."	79 (17.1%)	7 (22.6%)	16 (17.6%)	6 (12.5%)	4 (15.4%)	6 (33.3%)	4 (23.5%)	3 (6.4%)	4 (33.3%)	9 (19.0%)	6 (18.1%)
"Dylai Cyngor Gwynedd gynyddu'r Dreth Cyngor o lai na 5.5% ar gyfer 2019/20 a gweithredu mwy o doriadau i wasanaethau na'r 65 o gynigion a nodir yn Nhabl 1 gan dderbyn y gallasai olygu lleihad mewn gwasanaethau sy'n hollol bwysig i mi."	224 (48.6%)	14 (45.1%)	44 (48.4%)	26 (54.2%)	11 (42.3%)	7 (38.9%)	5 (29.4%)	26 (55.3%)	4 (33.3%)	18 (42.9%)	12 (36.4%)
	461	31	91	48	26	18	17	47	12	42	33
"Nid wyf eisiau datgan barn am y Dreth Cyngor, ond rwyf eisiau rhoi sylw ar y cynigion a nodir yn Nhabl 1."	127	9	14	12	4	2	3	9	2	10	9
<b>Cyfanswm</b>	<b>588</b>	<b>40</b>	<b>105</b>	<b>60</b>	<b>30</b>	<b>20</b>	<b>20</b>	<b>56</b>	<b>14</b>	<b>52</b>	<b>42</b>

Lud. 366

## 8. Ymatebion gan sefydliadau / busnesau

8.1 Cafwyd **21** ymateb ar ran sefydliad neu fusnes i'r arolwg.

8.2 Nid oeddem yn gofyn i fusnesau / sefydliadau i ateb y cwestiwn Treth Cyngor ond roedd cyfle iddyn nhw roi sylwad ar unrhyw un o'r 65 cynigion gan nodi unrhyw effaith ar un neu fwy o'r grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

8.3 Mae rhestr lawn o enwau'r sefydliadau / fusnesau a gymrodd a'u sylwadau i'w gweld yn **Atodiad Ch.**

8.4 Derbyniwyd gohebiaeth gan 1 cyngor cymuned (gweler **Atodiad D**)

## Atodiad A: Sylwadau ar y cynnigion gan ymatebwyr oedd am godi'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5%

Cyfeirnod y cynnig arbediad	Nifer o ymatebwyr oedd eisiau peidio â gweithredu'r cynnig	Rhesymau roddwyd dros beidio gweithredu'r cynnig	Sylwad am effaith ar grwpiau nodwedd
54 - Lleihau cyllideb y grantiau strategol i'r celfyddydau o 20%.	11	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r celfyddydau wedi derbyn digon o doriadau yn barod. (2)</li> <li>• Byddai cwtogi'r Grantiau Strategol hyn yn cael effaith andwyol ar ystod o'r Celfyddydau o fewn y Sir i'r dyfodol.</li> <li>• Byddai'r golled ddiwylliannol yn llawer mwy na'r swm pitw a arbedir</li> <li>• Ni ddylid dorri'r gyllideb.</li> <li>• Mentrau bach lleol fydd yn dioddef - y rhai sy'n ceisio bod yn gynhwysol o bawb megis Cofis Bach a Dawns i Bawb.</li> <li>• Mae grantiau strategol yn hollbwysig i gynnal sefydliadau celfyddydol.</li> <li>• Mae buddsoddiad yn y celfyddydau yn sicr yn fuddsoddiad i'r dyfodol.</li> <li>• Mae'r celfyddydau yn sector holl bwysig yng Ngwynedd ac yn un sydd yn cyflogi unigolion ifanc na fyddai yn gallu aros yn y gymuned leol fel arall.</li> <li>• Daw'r arian gan y Cyngor â chyllid ychwanegol i'r ardal yn ogystal a grantiau.</li> <li>• Dylai fod gan bawb yr hawl i brofi gweithgarwch celfyddydol a byddai'n anodd, os nad amhosib, gwneud hynny heb gyllid gan y Cyngor.</li> <li>• Mae'r celfyddydau yng Ngwynedd yn gwneud gwaith gwych o ran llesiant plant a phobl ifanc. (2)</li> <li>• Mae'r ffaith fod yna alwad mawr am waith y cwmnïau theatr sydd a'u cartref yng Ngwynedd yn profi fod gwaith arbennig yn cael ei wneud gan y cwmnïau rheiny - ac mae hyn yn codi proffil y sir Gymru gyfan.</li> <li>• Mae gen i ofnau ehangach am y cynnig.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Pobl anabl.</li> <li>- Pobl ifanc.</li> <li>- Byddai effaith ar pob grŵp nodwedd.</li> </ul>

Tud. 368

**Atodiad A: Sylwadau ar y cynigion gan ymatebwyr oedd am godi'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5%**

Cyfeirnod y cynnig arbediad	Nifer o ymatebwyr oedd eisiau peidio â gweithredu'r cynnig	Rhesymau roddwyd dros beidio gweithredu'r cynnig	Sylwad am effaith ar grwpiau nodwedd
<p><b>49 - Lleihau'r gwasanaeth llyfrgell deithiol - ymweld â llai o aros fannau ac yn llai aml.</b></p>	<p>9</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Lleihau'r amlder yn unig ac nid y lleoliadau mae'r llyfrgell deithiol yn ymweld â hwy.</li> <li>Y gwasanaeth yma yn hanfodol i bobl hŷn er mwyn cymdeithasu, lleihau unigrwydd sydd yn ei dro yn atal cost i'r Gwasanaeth Iechyd. (3)</li> <li>Ni ddylid gael ei dorri os ydyw yn cael defnydd da.</li> <li>Effaith negyddol ar ddefnyddwyr yn llawer uwch na gwerth yr arbediad.</li> <li>Llyfrau yn helpu pobl gyda'u lles meddyliol.</li> <li>Trwy ddarllen mae plant yn dysgu.</li> <li>Byddai lleihau y gwasanaeth hwn yn gam arall yn y tuedd o leihau ansawdd bywyd yng nghefn gwlad - dim trafnidiaeth gyhoeddus i gyrraedd llyfrgelloedd. (2)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Pobl Hŷn.</li> <li>- Pobl Anabl.</li> <li>- Byddai effaith ar pob grŵp nodwedd.</li> </ul>
<p><b>55 - Lleihau cyllideb cronfa lyfrau'r llyfrgelloedd o 10%</b></p>	<p>9</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd poblogaeth wedi'i haddysgu yn arwain at dwf economaidd.</li> <li>Ni ddylai llyfrgelloedd gael eu rhedeg gan wirfoddolwyr - mae'n broffesiwn.</li> <li>Mae'r celfyddydau wedi derbyn digon o doriadau yn barod.</li> <li>Byddai toriad arall i'r gwasanaeth yma yn annheg ac anghyfiawndwy.</li> <li>Dylid sicrhau dewis eang a chyfredol o lyfrau yn enwedig i'r plant ieuengaf.</li> <li>Dibynnu ar y llyfrgell i gael llyfrau i helpu fi ddysgu ac ennill sgiliau.</li> <li>Byddai lleihau dewis o lyfrau yn cael effaith negyddol ar y llyfrgelloedd - llai o ddefnydd yn y pen draw.</li> <li>Dylai'r Cyngor sicrhau gwariant ar lyfrau sydd yn cyfateb i ddisgwyliadau y Safonau Llyfrgell Cenedlaethol sydd yn diffinio oblygiadau statudol yr awdurdod i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr ac effeithiol.</li> <li>Mae safon y gwasanaeth eisoes wedi dirywio a thrist byddai ei weld yn dirywio'n mhellach, mae'r toriad wedi bod yn sylweddol yn barod.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Plant – llai o gyfleon addysgiadol.</li> <li>- Pobl anabl -methu derbyn gwybodaeth.</li> <li>- Byddai effaith ar pob grŵp nodwedd.</li> <li>- Pobl anabl, plant a phobl hŷn yn arbennig y rhai hynny mewn grwpiau incwm isel nad ydynt yn gallu prynu eu llyfrau eu hunain.</li> </ul>

Tud. 369

**Atodiad A: Sylwadau ar y cynigion gan ymatebwyr oedd am godi'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5%**

Cyfeirnod y cynnig arbediad	Nifer o ymatebwyr oedd eisiau peidio â gweithredu'r cynnig	Rhesymau roddwyd dros beidio gweithredu'r cynnig	Sylwad am effaith ar grwpiau nodwedd
59 - Pont Abermaw – peidio talu Network Rail am yr hawl tramwy dros y bont	8	<ul style="list-style-type: none"> <li>Oes modd codi toll yn hytrach na chymryd y risg gall y Bont gau.</li> <li>Gwerth hwn yn fwy i'r gymuned na gwerth y toriad.</li> <li>Bydd llai o dwristiaid yn ymweld â'r ardal. (4)</li> <li>Effaith ar llwybr yr arfordir a Llwybr Beicio Cenedlaethol. (2)</li> <li>Mae'n anghyfrifol o'r Cyngor ddibynnu ar Network Rail i gadw'r llwybr yn agored os bydd y toriad yn cael ei wneud.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Pobl Anabl.</li> <li>- Pobl hŷn.</li> <li>- Plant.</li> </ul>
60 - Lleihau cyllideb Cymorth i Ferched o 20%	7	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ni ddylid torri ar wasanaeth mor bwysig i blant sydd â phlentyndod anodd.</li> <li>Oes unrhyw drafodaeth wedi bod gyda'r mudiad i weld faint o effaith fyddai'r toriad yma yn gael arnynt?</li> <li>Gwasanaeth yma yn amhrisiadwy - helpu gyda problemau trais yn y cartref yn erbyn plant, lleihau baich ar y gwasanaeth iechyd a'r heddlu.</li> <li>Mae'r gwasanaeth yna wir yn achub bywydau.</li> <li>Ddim yr amser i dorri ar y gwasanaeth gan fod achosion cam-drin yn y cartref yn codi.</li> <li>Dwi'n gwybod am y budd mae gwasanaeth Cymorth i Ferched yn ei roi.</li> <li>Toriad hollol greulon a di-deimlad.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Merched beichiog.</li> <li>- Mamau newydd.</li> <li>- Pobl Anabl.</li> <li>- Pobl o unrhyw hil, rhyw, oedran.</li> <li>- Effaith ar ferched, plant ac ar rai crefyddau.</li> </ul>
1 - Darparu pwyntiau gwefru ceir trydan mewn meysydd parcio	6	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dim digon o geir trydan mewn defnydd eto - dylid aros i weld beth fydd yr angen ymhellach ymlaen. (4)</li> <li>Angen denu grantiau allanol i wireddu hyn.</li> <li>Ni ddylai hwn fod yn gyfrifoldeb y Cyngor.</li> <li>Cynllun yma ddim ond yn mynd i elwa'r rhai sydd gyda digon o arian i brynu ceir trydan.</li> </ul>	
10 - Dileu parcio am ddim dros gyfnod y Nadolig o 2019 a cynyddu ffioedd parcio	6	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'n helpu i gynnal busnesau dros fisoedd y gaeaf. (4)</li> <li>Ffioedd parcio yn rhy uchel yn barod i bobl leol.</li> <li>Rhain y dri cynllun gwahanol – dylent gael eu cysidro ar wahân.</li> </ul>	

Tud. 370

**Atodiad A: Sylwadau ar y cynigion gan ymatebwyr oedd am godi'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5%**

Cyfeirnod y cynnig arbediad	Nifer o ymatebwyr oedd eisiau peidio â gweithredu'r cynnig	Rhesymau roddwyd dros beidio gweithredu'r cynnig	Sylwad am effaith ar grwpiau nodwedd
<b>40 - Dileu elfen Gwasanaeth Cefnogi Athrawon y Gwasanaeth Llyfrgelloedd i Ysgolion</b>	6	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwasanaeth yma yn bwysig i addysg plant.</li> <li>• Effaith negyddol ar lythrennedd plant.</li> <li>• Effaith negyddol ar blant ddi-freintiedig.</li> <li>• Gwerth y gwasanaeth yma yn llawer mwy gwerthfawr i'r ysgolion na gwerth yr arbediad.</li> <li>• Llyfrau'n helpu pobl gyda'u lles meddyliol.</li> <li>• Toriad deublyg i ysgolion.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Effaith ar blant.</li> <li>- Byddai effaith ar pob grŵp nodwedd.</li> </ul>
<b>50 - Dileu 1 swydd o'r Gwasanaeth Datblygu'r Economi (Ileihau staffio o 33%)</b>	6	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid oes angen torri'r swydd yma gan bod modd ychwanegu costau'r swyddog i geisiadau grant allanol.</li> <li>• Effaith negyddol ar economi'r sir.</li> <li>• Ni ddylid cael gwared ar y swydd - dod a budd i'r economi leol. (2)</li> <li>• Achub y swydd ond peidio â pharhau gyda gwario ar faes awyr Llanbedr.</li> <li>• Mae'r gwasanaeth yn hanfodol i ddatblygu prosiectau strategol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Byddai effaith ar pob grŵp nodwedd.</li> </ul>
<b>51 - Dileu swydd a newid trefniadau rheoli y Gwasanaeth Adfywio Cymunedol (Ileihad o 20%)</b>	6	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylid chwilio am ffordd amgen o gynnal y swydd yma drwy drafodaethau gyda Mantell Gwynedd.</li> <li>• Yn y cyfnod ansicr yma gyda Brexit byddai'n annoeth iawn dileu'r swydd gan ei bod yn hanfodol i ddatblygu grwpiau cymunedol ac i gysylltu adrannau gwahanol y Cyngor i gydweithio fyddai yn y pen draw yn lleihau costau i'r Cyngor.</li> <li>• Effaith negyddol ar economi'r sir.</li> <li>• Criw y gellid dibynnu arnynt i roi cymorth beth bynnag yw'r her ac yn cyfrannu at yr economi leol drwy ddenu grantiau sydd yn eu tro yn cael eu gwario yn lleol.</li> <li>• Ni fyddai cael gwared ar y swydd yma yn gwneud dim synnwyr os ydi'r Cyngor am i gymunedau gymryd mwy o rôl mewn cynnal gwasanaethau yn y gymuned. (2)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Llai o gefnogaeth i gymunedau/gwirfoddolwyr.</li> </ul>

Tud. 371

**Atodiad A: Sylwadau ar y cynigion gan ymatebwyr oedd am godi'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5%**

Cyfeirnod y cynnig arbediad	Nifer o ymatebwyr oedd eisiau peidio â gweithredu'r cynnig	Rhesymau roddwyd dros beidio gweithredu'r cynnig	Sylwad am effaith ar grwpiau nodwedd
<p><b>63 - Lleihau cyfraniad y Cyngor o 7% Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid</b></p>	6	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylid edrych ar ffyrdd i osgoi plant ddod mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid i gychwyn - byddai hyn yn arbed arian yn yr hir dymor.</li> <li>• Dylid gwarchod y gwasanaeth hwn i gefnogi pobl ifanc bregus. (2)</li> <li>• Mae lleihau yr oriau cyswllt a llai o brosiectau cymunedol yn bryder - pobl ifanc bregus fydd yn dioddef.</li> <li>• Wrth dorri'r gyllideb bydd mwy o blant yn ail droseddu - felly costau ychwanegol yn y pen draw i'r heddlu, addysg a gwasanaeth iechyd.</li> <li>• Toriad hollol greulon a di-deimlad.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Byddai effaith ar pob grŵp nodwedd.</li> <li>- Pobl ifanc a phlant.</li> </ul>
<p><b>39 - Dileu elfen o'r Gwasanaeth Teithiol i Blant y Gwasanaeth Llyfrgelloedd i Ysgolion</b></p>	5	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwasanaeth yma yn bwysig i addysg plant.</li> <li>• Effaith negyddol ar lythrennedd plant.</li> <li>• Effaith negyddol ar blant ddi-freintiedig.</li> <li>• Mae cytundeb mewn lle i gadw hwn tan Mawrth 2020.</li> <li>• Mae ymweld â'r llyfrgell deithiol yn gyfle na fydd rhai yn gael fel arall ac yn ddi-os yn cyfrannu at addysg a datblygiad plant.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Effaith ar blant.</li> <li>- Plant Anabl.</li> </ul>
<p><b>21 - Cynyddu'r ffi i ysgolion am y gwasanaeth archifau</b></p>	4	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno gyda'r toriad ond dylid ei weithredu mewn ffordd fwy effeithiol.</li> <li>• Ni ddylid torri cyllidebau ysgolion.</li> <li>• Arbediad bychan ydi o o ran cyllideb ond bydd y golled yn fawr i'r ysgolion. (2)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Effaith ar blant mewn ysgolion sydd heb lawer o arian i'w wario.</li> </ul>

Tud. 372

**Atodiad A: Sylwadau ar y cynigion gan ymatebwyr oedd am godi'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5%**

Cyfeirnod y cynnig arbediad	Nifer o ymatebwyr oedd eisiau peidio â gweithredu'r cynnig	Rhesymau roddwyd dros beidio gweithredu'r cynnig	Sylwad am effaith ar grwpiau nodwedd
29 - Codi ffi ar waredu deunyddiau DIY (e.e. rwbet £3 y bag neu £30 lond trelar)	4	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd hyn yn arwain at "dipio slei bach" a'r Cyngor yn gwario mwy ar glirio'r llanast. (4)</li> <li>• Rhaid gwneud yn siŵr bod troseddwy'r yn cael eu erlyn a'u haddysgu.</li> <li>• Angen sicrhau mai pobl Gwynedd yn unig sy'n defnyddio'r canolfannau ailgylchu.</li> <li>• Anodd credu byddai'r incwm yn uwch na chost o weinyddu'r ffi.</li> <li>• Dylid yn hytrach gael ffordd o drwyddedu masnachwyr i allu defnyddio'r safleoedd a chodi incwm fel yma.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Byddai effaith ar pob grŵp nodwedd.</li> <li>- Yn gyffredinol mae gan bobl anabl lai o incwm – felly bydd ffi ychwanegol yn mynd i gael effaith arnynt yn ariannol.</li> </ul>
36 - Trosglwyddo rhai toiledau cyhoeddus i eraill.	4	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Diwydiant twristiaeth yn dibynnu ar doiledau cyhoeddus (2)</li> <li>• Effaith negyddol ar blant, pobl hŷn a'r anabl os ydyn nhw yn cau.</li> <li>• Nid oes gan gyrff eraill yr adnoddau i gymryd cyfrifoldeb am y toiledau cyhoeddus.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Effaith ar bobl/plant gyda problemau iechyd sy'n dibynnu ar y cyfleusterau</li> <li>- Gallai olygu rhoi plant mewn clytiau pan nad oes angen er mwyn cael mynd "allan".</li> </ul>
43 - Lleihau'r gyllideb ar gyfer cynnal llwybrau cyhoeddus	4	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Risg o her gyfreithiol fyddai o bosib yn uwch na unrhyw arbediad.</li> <li>• Mae llwybrau cyhoeddus eisoes mewn cyflwr truenus a'r diffyg arwyddion yn anghyfreithlon.</li> <li>• Pwysig cadw ardaloedd cyhoeddus yn daclus a glân.</li> <li>• Llwybrau cerdded yn hanfodol i dwristiaeth.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Ddim yn hygyrch i bobl gyda anabledau, plant a merched.</li> </ul>
19 - Sefydlu ffioedd parcio ar draeth Dinas Dinlle	3	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cosbi trigolion Gwynedd i ddefnyddio atyniad lleol. (2)</li> <li>• Difetha atyniad poblogaidd ac yn y pen draw denu llai o ymwelwyr.</li> <li>• Peryg i bobl barcio ar hyd y ffordd - peryglus.</li> <li>• Wedi ei gofrestru fel tir comin.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Pobl anabl a phobl hŷn yn llai tebygol o fod isio ymweld oherwydd y gost parcio.</li> </ul>

Tud. 373



**Atodiad A: Sylwadau ar y cynigion gan ymatebwyr oedd am godi'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5%**

Cyfeirnod y cynnig arbediad	Nifer o ymatebwyr oedd eisiau peidio â gweithredu'r cynnig	Rhesymau roddwyd dros beidio gweithredu'r cynnig	Sylwad am effaith ar grwpiau nodweddd
25 - Codi ffi am ailgyflenwi biniau sydd wedi'u difrodi gan drigolion	3	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mynd i fod yn anodd iawn profi pwy fyddai wedi difrodi'r biniau. (3)</li> <li>• Bydd rhai yn cael hi yn anodd talu ac felly cyfraddau ailgylchu yn lleihau.</li> </ul>	
42 - Lleihau'r adnodd o fewn yr Uned Diogelwch Ffyrdd.	3	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Effaith negyddol ar blant ddi-freintiedig.</li> <li>• Mae'r tîm yn rhy fach yn barod – methu dygymod a toriad pellach.</li> <li>• Risg i ddiogelwch plant wrth iddynt groesi'r ffordd.</li> </ul>	- Effaith ar blant anabl yn benodol.
52 - Dileu 1 swydd o'r Gwasanaeth Twristiaeth a Marchnata (Ileihau staffio o 25%).	3	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Effaith negyddol ar economi'r sir.</li> <li>• Byddai torri'r gwasanaeth yn enwedig efo ansicrwydd Brexit yn beth annoeth i wneud.</li> <li>• Mewn cyfnod ble mae twristiaeth yn cynyddu yng Ngwynedd mae'n ffol i dorri ar y gyllideb. Angen sicrhau ein bod yn cefnogi'r tŵf yma er budd ein economi a chymunedau.</li> </ul>	- Byddai effaith ar pob grŵp nodweddd.
56 - Adolygu pecynnau gofal anabledau corfforol gan gwrdd ag amcanion mewn ffordd amgen.	3	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai gofynion mwy dwys yn golygu costau uwch yn y pen draw.</li> <li>• Angen asesiad effaith llawn cyn cysidro'r toriad yma.</li> <li>• Y peryg wrth dorri ac addasu bod tro, yn enwedig gyda mater mor gymhleth a hwn, ydi y gallai unigolion ddiodef.</li> </ul>	- Pobl anabl- byddai torri ar y gwasanaeth yn gallu cael effaith ar safon eu bywydau.
57 - Adolygiad pecynnau Gofal lechyd Parhaus	3	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai gofynion mwy dwys yn golygu costau uwch yn y pen draw.</li> <li>• Effaith ormodol ar oedolion bregus am arbediad o'r swm yma.</li> <li>• Toriad hollol greulon a di-deimlad.</li> </ul>	- Effaith enfawr ar rhai o'r grwpiau.

Tud. 374

**Atodiad A: Sylwadau ar y cynigion gan ymatebwyr oedd am godi'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5%**

Cyfeirnod y cynnig arbediad	Nifer o ymatebwyr oedd eisiau peidio â gweithredu'r cynnig	Rhesymau roddwyd dros beidio gweithredu'r cynnig	Sylwad am effaith ar grwpiau nodwedd
61 - Lleihau 6% ar y gyllideb eiriolaeth	3	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mi fydd Deddf Llesiant Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynyddu'r niferoedd fydd yn gymwys am y gwasanaeth eiriolaeth ac felly mae'n gynamserol i dorri'r gyllideb yma a chael effaith negyddol ar brofiadau plant a phobl ifanc.</li> <li>Byddai gofynion mwy dwys yn golygu costau uwch yn y pen draw.</li> <li>Gwerth y toriad yma rhy fach i gyfiawnhau.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Byddai effaith ar pob grŵp nodwedd.</li> <li>Effaith ar blant / pobl ifanc anabl.</li> </ul>
62 - Haneru cyllideb recriwtio a hyfforddi rhieni maeth	3	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae diffyg rhieni maeth yn barod yng Ngwynedd - hyn am wneud y sefyllfa yn waeth. (2)</li> <li>Hynod o bwysig recriwtio gofalmwyr maeth da, ond bod angen 'pŵlio' yr adnoddau cyfathrebu sydd gan y Cyngor yn barod.</li> <li>Byddai lleihau'r gyllideb yma'n golygu llai o recriwtio ac felly costau uwch o leoli tu allan i'r sir neu mewn llefydd preswyl, ynghyd ag effaith niweidiol ar y plant yn cael eu symud yn fwy aml.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Byddai effaith ar pob grŵp nodwedd.</li> </ul>
2 - Buddsoddi mewn gwelliannau a fyddai'n gwneud Neuadd Dwyfor ym Mhwlheli yn fwy effeithlon gan baratoi i edrych am fodel amgen i reoli'r neuadd yn y dyfodol	2	<ul style="list-style-type: none"> <li>Hwn ydi'r unig fenter gelfyddydol gan y Cyngor - dylid ei warchod a'i ehangu.</li> <li>Cynllun yma yn gwneud dim synnwyr ariannol – peidiwch a buddsoddi.</li> </ul>	
26 - Codi ffi ychwanegol am amlosgi ar yr un diwrnod a'r gwasanaeth.	2	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnig ansensitif iawn - all beri pryder i'r teulu.</li> <li>Dylai'r Cyngor ystyried gofynion gwahanol grefyddau cyn mynd ymlaen i godi ffioedd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Byddai effaith ar pob grŵp nodwedd.</li> <li>Grwpiau crefyddol.</li> </ul>

Tud. 375

**Atodiad A: Sylwadau ar y cynigion gan ymatebwyr oedd am godi'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5%**

Cyfeirnod y cynnig arbediad	Nifer o ymatebwyr oedd eisiau peidio â gweithredu'r cynnig	Rhesymau roddwyd dros beidio gweithredu'r cynnig	Sylwad am effaith ar grwpiau nodwedd
34 – Cynyddu incwm drwy gynnig cefnogaeth dechnegol, wyddonol a pheirianyddol i gynlluniau lliniaru risg llifogydd i Gynghorau ledled Cymru	2	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylid ail asesu'r cynllun yma mewn 3 mlynedd.</li> <li>• Mae rhagdybiaethau Cyfoeth Naturiol Cymru ar leoliadau llifogydd yn ddiwerth</li> </ul>	
37 - Trosglwyddo meysydd chwarae i eraill.	2	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwerth y meysydd chwarae i'r gymuned yn fwy na gwerth toriad.</li> <li>• Byddai safonau lechyd a Diogelwch yn dirywio dros amser os fydd y meysydd chwarae yn cael eu trosglwyddo o ofal y Cyngor.</li> </ul>	- Effeithio ar bobl o bob oedran.
53 - Yn yr hir dymor, anelu i leihau'r sybsidi o 20% i'r Cwmni Hamdden newydd fydd yn cael ei sefydlu	2	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ni ddylid gweithredu'r toriad nes bydd y cwmni newydd wedi cael ei sefydlu ac yn rhedeg yn llwyddiannus.</li> <li>• Hwn ddim yn syniad wnaiff weithio.</li> </ul>	
16 - Cynhyrchu incwm drwy atal twyll	1	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sut ydych yn gwybod faint o incwm fyddwch yn gallu godi?</li> </ul>	
24 - Gwastraff Gardd: cynhyrchu mwy o incwm neu leihau costau	1	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai lleihau y casgliadau dros y gaeaf yn gwneud synnwyr, ond dim i stopio yn gyfan gwbl.</li> </ul>	

Tud. 376

**Atodiad A: Sylwadau ar y cynigion gan ymatebwyr oedd am godi'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5%**

Cyfeirnod y cynnig arbediad	Nifer o ymatebwyr oedd eisiau peidio â gweithredu'r cynnig	Rhesymau roddwyd dros beidio gweithredu'r cynnig	Sylwad am effaith ar grwpiau nodwedd
41 - Lleihau amlder glanhau rhai ardaloedd mewn ysgolion drwy gwtogi oriau o 1.7%.	1	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ni ddylid rhoi iechyd plant mewn perygl drwy dorri ar y gyllideb glanhau.</li> </ul>	
45 - Lleihau'r gyllideb ar gyfer yr Uned Gorchmynion Traffig o 33%.	1	<ul style="list-style-type: none"> <li>Byddai unrhyw doriad i gyllideb yr uned yn cael effaith ar reoli traffig.</li> </ul>	
46 - Lleihau adnodd Cyflogaeth dymhorol o 50% o fewn y Gwasanaeth Trethi a Budd-daliadau	1	<ul style="list-style-type: none"> <li>Toriad yma yn mynd i olygu bydd oedi cyn rhoi cymorth i bobl Gwynedd i dalu eu rhent, neu wneud addasiad angenrheidiol i'w cyfrifon Treth Cyngor.</li> </ul>	
47 - Dileu swydd wag o fewn y Gwasanaeth Cefnogi Busnes (Lleihad o 25% yn y nifer o staff)	1	<ul style="list-style-type: none"> <li>Angen mwy o gefnogaeth ar fusnesau ac i ddenu busnesau newydd nid llai er mwyn cryfhau'r economi.</li> </ul>	

Tud. 377

**Atodiad A: Sylwadau ar y cynigion gan ymatebwyr oedd am godi'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5%**

Cyfeirnod y cynnig arbediad	Nifer o ymatebwyr oedd eisiau peidio â gweithredu'r cynnig	Rhesymau roddwyd dros beidio gweithredu'r cynnig	Sylwad am effaith ar grwpiau nodwedd
48 - Adolygu ffioedd parcio a threfniadau gweithredu Storiel	1	<ul style="list-style-type: none"> <li>Arbediad rhy fychan i'w gyfiawnhau yng nghyd-destun y golled i'r cyhoedd.</li> </ul>	
58 - Calendrau casglu gwastraff electronig yn unig	1	<ul style="list-style-type: none"> <li>Nid pawb sydd gan/isio mynediad at y we - yn enwedig pobl hŷn.</li> </ul>	
64 - Lleihau adnodd o fewn yr Uned Gyfreithiol i gefnogi gwaith adrannau eraill	1	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae hyn siŵr o fod ar draul gwaith cyfreithiol y Cyngor.</li> </ul>	

Tud. 378

## Atodiad B: Sylwadau ar gynigion penodol gan yr holl ymatebwyr

Cyfeirnod y cynnig arbediad	Sylwadau am y cynnig	Nifer o sylwadau ar y cynnig
<b>Cynnig 10 : Dileu parcio am ddim dros gyfnod y Nadolig o 2019 a cynyddu ffioedd parcio</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ni ddylid stopio cynnig parcio am ddim dros y Nadolig - denu pobl i'r strydoedd. (8)</li> <li>Ni ddylid codi ffioedd parcio o gwbl. (5)</li> <li>Angen ail edrych ar ffioedd parcio e.e. Codi £1 hyd at barcio am ddwy awr. (3)</li> </ul>	19
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cytuno na ddylid cynnig parcio am ddim dros y Nadolig. (3)</li> </ul>	
<b>Cynnig 59 : Pont Abermaw – peidio talu Network Rail am yr hawl tramwy dros y bont</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ni ddylid ystyried peidio talu Network Rail am yr hawl tramwy dros bont Abermaw - hanfodol ar gyfer twristiaeth a llesiant pobl leol. (9)</li> <li>Byddai codi toll i groesi Pont Abermaw yn gwneud mwy o synnwyr. (1)</li> </ul>	11
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ni ddylid gwrando ar leiafrif - ni ddylid talu Network Rail. (1)</li> </ul>	
<b>Cynnig 25 : Codi ffi am ail gyflenwi biniau sydd wedi'u difrodi gan drigolion</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sut fyddwch chi'n gallu profi pwy sydd wedi difrodi'r biniau brown. Mae'r biniau o wneuthuriad gwael ac yn torri yn hawdd. (10)</li> </ul>	10
<b>Cynnig 24 : Gwastraff Gardd: cynhyrchu mwy o incwm neu leihau costau</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ni ddylid gweithredu toriad yn y gwasanaeth gwastraff gardd gan all godi problemau megis- llosgi'r gwastraff, y Cyngor i fethu targedau ailgylchu. (5)</li> </ul>	9
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Byddai lleihau casglu gwastraff bin brown i 9 mis yn syniad da. (4)</li> </ul>	

Tud. 379

## Atodiad B: Sylwadau ar gynigion penodol gan yr holl ymatebwyr

Cyfeirnod y cynnig arbediad	Sylwadau am y cynnig	Nifer o sylwadau ar y cynnig
<b>Cynnig 54 : Lleihau cyllideb y grantiau strategol i'r celfyddydau o 20%</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Maes celfyddydau wedi cael digon o doriadau yn barod - effaith negyddol ar ddatblygiad plant a phobl ifanc a busnesau lleol. (8)</li> </ul>	8
<b>Cynnig 1 : Darparu pwyntiau gwefru ceir trydan mewn meysydd parcio</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Angen edrych fwy hirdymor ar bwyntiau gwefru fel ffordd o gynhyrchu incwm. (2)</li> <li>• Nid oes angen darparu pwyntiau gwefru ceir trydan - dim digon o ofyn amdano yng Ngwynedd. (2)</li> <li>• Cytuno bod angen pwyntiau gwefru - ond ddim yn credu mai lle'r Cyngor ydy eu darparu. (1)</li> <li>• Fydd y pwyntiau gwefru ar gael ar draws y sir? (1)</li> </ul>	7
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Buddion i bobl wrth i geir trydan ddod yn fwy poblogaidd - y rhai sydd ddim yn medru gyrru car heb fod yn awtomatig / llai o allyriadau carbon. (1)</li> </ul>	
<b>Cynnig 36 : Trosglwyddo rhai toiledau cyhoeddus i eraill</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd lleihau toiledau cyhoeddus yn cael effaith ar y genhedlaeth hŷn sy'n dibynnu arnynt i gael mynd allan. (6)</li> </ul>	7
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno bod trosglwyddo toiledau i'r rhai sydd yn barod ac yn gallu yn syniad da. (1)</li> </ul>	
<b>Cynnig 2: Buddsoddi mewn gwelliannau a fyddai'n gwneud Neuadd Dwyfor ym Mhwllheli yn fwy effeithlon gan baratoi i edrych am fodel amgen i reoli'r neuadd yn y dyfodol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ni ddylid parhau i redeg Neuadd Dwyfor gan nad ydynt yn rhedeg neuadd yn unman arall yn y sir. (4)</li> <li>• Hoffi mynd i Neuadd Dwyfor ond does dim digon o ddefnydd o'r lle. (1)</li> </ul>	6
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai cau Neuadd Dwyfor yn golygu llai o gyfleon i ysgolion/colegau lleol berfformio. (1)</li> </ul>	
<b>Cynnig 7 : Cynyddu'r ffi am y clwb gofal cyn ysgol o £.8 i £1</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ni ddylid cynnig brechwast am ddim yn yr ysgolion. (3)</li> <li>• Dylid codi mwy byth o ffi am y gwasanaeth brechwast am ddim yn yr ysgolion. (3)</li> </ul>	6

Tud. 380

## Atodiad B: Sylwadau ar gynigion penodol gan yr holl ymatebwyr

Cyfeirnod y cynnig arbediad	Sylwadau am y cynnig	Nifer o sylwad ar y cynnig
<b>Cynnig 43 : Lleihau'r gyllideb ar gyfer cynnal llwybrau cyhoeddus</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd llai o bobl hŷn yn defnyddio'r llwybrau cyhoeddus os na fyddant yn cael eu cynnal mor aml. (5)</li> <li>• Llwybrau Cyhoeddus - cwestiynu gwerth yr arbediad o'i gymharu â gwerth i'r economi. (1)</li> </ul>	6
<b>Cynnig 49 : Lleihau'r gwasanaeth llyfrgell deithiol - ymweld â llai o aros fannau ac yn llai aml</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Poeni am effaith negyddol ar blant/pobl anabl neu fregus os bydd y gwasanaeth llyfrgell teithiol yn stopio. (5)</li> </ul>	6
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylid cael gwared ar y gwasanaeth llyfrgell deithiol. (1)</li> </ul>	
<b>Cynnig 21 : Cynyddu'r ffi i ysgolion am y gwasanaeth archifau</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ni ddylid codi ffioedd ar ysgolion - effeithio ar addysg y plant yn y pen draw. (3)</li> </ul>	3
<b>Cynnig 37 : Trosglwyddo meysydd chwarae i eraill</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Poeni am feysydd chwarae i blant yn cau - ydi hyn yn groes i'r Strategaeth Chwarae? (3)</li> </ul>	3
<b>Cynnig 41 : Lleihau amllder glanhau rhai ardaloedd mewn ysgolion drwy gwtogi oriau o 1.7%</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ddim yn cytuno gyda'r toriad i oriau glanhawyr yn yr ysgolion - dylai plant gael eu haddysgu mewn awyrgylch lân. (3)</li> </ul>	3
<b>Cynnig 58 : Calendrau casglu gwastraff electronig yn unig</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dim pawb sydd efo mynediad at gyfrifiadur/y we er mwyn derbyn calendr casglu gwastraff yn electronig. (3)</li> </ul>	3

Tud. 381



**Atodiad B: Sylwadau ar gynigion penodol gan yr holl ymatebwyr**

Cyfeirnod y cynnig arbediad	Sylwadau am y cynnig	Nifer o sylwadau ar y cynnig
<b>Cynnig 6 : Gosod lampau LED i weddill goleuadau stryd y Sir</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Nid oes digon o olau gan oleuadau stryd LED - methu gweld yn y nos gyda nhw. (2)</li> </ul>	2
<b>Cynnig 19 : Sefydlu ffioedd parcio ar draeth Dinas Dinlle</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd codi tâl am barcio yn Ninas Dinlle a Llanberis yn cael effaith ar nifer ymwelwyr i'r ardal. (2)</li> </ul>	2
<b>Cynnig 20 : Cynyddu ffioedd lansio ar draws traethau Gwynedd o £1 i £15</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynyddu ffioedd lansio ar draethau - ella byddai modd codi mwy o ffi hyd yn oed. (2)</li> </ul>	2
<b>Cynnig 23 : Cynyddu incwm gorfodaeth stryd drwy ddirwyo mwy o unigolion sy'n gollwng sbwriel</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cytuno bod angen rhoi dirwy i unigolion sy'n gollwng sbwriel - ond angen hyn yn gyson ar draws y sir. (2)</li> </ul>	2
<b>Cynnig 29 : Codi ffi ar waredu deunyddiau DIY (e.e. rwbel £3 y bag neu £3 lond trelar)</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae codi am fynd a gwastraff i ganolfannau ailgylchu yn syniad gwirion - bydd yn golygu mwy o dipio "slei bach". (1)</li> </ul>	2
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cytuno bod angen codi ffi ar waredu deunyddiau yn y Canolfannau Ailgylchu. (1)</li> </ul>	

Tud. 382

## Atodiad B: Sylwadau ar gynigion penodol gan yr holl ymatebwyr

Cyfeirnod y cynnig arbediad	Sylwadau am y cynnig	Nifer o sylwadau ar y cynnig
<b>Cynnig 56 : Adolygu pecynnau gofal anableddau corfforol gan gwrdd ag amcanion mewn ffordd amgen</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Pecynnau gofal anableddau corfforol - yr elfen cydweithio yn bwysig iawn ond anodd amcan toriad neu arbediad heb wneud y gwaith ymchwil yn gyntaf. (2)</li> </ul>	2
<b>Cynnig 61 : Lleihau 6% ar y gyllideb eiriolaeth</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mi fydd Deddf Llesiant Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynyddu'r niferoedd fydd yn gymwys am y gwasanaeth eiriolaeth ac felly mae'n gynamserol i dorri'r gyllideb yma a chael effaith negyddol ar brofiadau plant a phobl ifanc. (2)</li> </ul>	2
<b>Cynnig 63 : Lleihau cyfraniad y Cyngor o 7% Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Byddai lleihau y gyllideb Cyfiawnder Ieuenctid yn cael effaith ar grŵp bregus o blant. (2)</li> </ul>	2
<b>Cynnig 3 : Creu Uned Gofal Ysbaid newydd yn Tan Y Marian, Pwllheli a fydd yn lleihau costau talu am leoliadau allanol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Angen cynnal ymgynghoriad ar yr Uned Gofal Ysbaid newydd - sicrhau bod y gofal o'r un safon neu well nac yn bresennol. (1)</li> </ul>	1
<b>Cynnig 4 : Datblygu 3 prosiect Tai Gofal Ychwanegol arall yn Ardaloedd Pwllheli, Ffestiniog a De Meirionnydd</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Llawer o bobl hŷn ddim yn gallu fforddio unedau gofal ychwanegol. (1)</li> </ul>	1

## Atodiad B: Sylwadau ar gynigion penodol gan yr holl ymatebwyr

Cyfeirnod y cynnig arbediad	Sylwadau am y cynnig	Nifer o sylwadau ar y cynnig
Cynnig 8 : Cynyddu'r ffi ar gyfer asesu ansawdd dŵr yfed preifat er mwyn adlewyrchu'r gost o ddarparu'r gwasanaeth	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dylai samplu dŵr gael ei drosglwyddo i Cyfoeth Naturiol Cymru. (1)</li> </ul>	1
Cynnig 18 : Cysoni trefniadau parcio drwy gyflwyno ffioedd parcio i safleoedd (e.e. ardal Y Glyn, Llanberis)	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd codi tâl am barcio yn Llanberis yn cael effaith ar nifer ymwelwyr i'r ardal. (1)</li> </ul>	1
Cynnig 40 : Dileu elfen Gwasanaeth Cefnogi Athrawon y Gwasanaeth Llyfrgelloedd i Ysgolion	<ul style="list-style-type: none"> <li>Peidiwch a lleihau'r gefnogaeth i athrawon addysgu ein plant. (1)</li> </ul>	1
Cynnig 44 : Lleihau'r adnodd o fewn y Gwasanaeth Polisi Cynllunio	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd mwy o adeiladau concriid hyll yn cael eu hadeiladu os na fydd digon o swyddogion cynllunio - difetha ein hardal naturiol brydferth. (1)</li> </ul>	1
Cynnig 45 : Lleihau'r gyllideb ar gyfer yr Uned Gorchmynion Traffig o 33%	<ul style="list-style-type: none"> <li>Pryderu am y toriad i gyllideb Uned Gorchmynion Traffig. (1)</li> </ul>	1

Tud. 384

**Atodiad B: Sylwadau ar gynigion penodol gan yr holl ymatebwyr**

Cyfeirnod y cynnig arbediad	Sylwadau am y cynnig	Nifer o sylwadau ar y cynnig
<b>Cynnig 51 : Dileu swydd a newid trefniadau rheoli y Gwasanaeth Adfywio Cymunedol (Lleihad o 2%)</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai lleihau cyllideb Adfywio Cymunedol yn groes i fwriad y Cyngor i hybu mentrau cymunedol lleol. (1)</li> </ul>	1
<b>Cynnig 57 : Adolygiad pecynnau Gofal Iechyd Parhaus</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Pecynnau gofal lechyd parhaus - anodd amcan toriad o'r fath cyn cario allan y gwaith o ail asesu a negydu gyda'r Bwrdd Iechyd. (1)</li> </ul>	1
<b>Cynnig 60 : Lleihau cyllideb Cymorth i Ferched o 20%</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ni ddylid lleihau cyllideb Cymorth i Ferched - pasio problem ymlaen i rhywun arall ydi hyn. (1)</li> </ul>	1
<b>Cynnig 62 : Haneru cyllideb recriwtio a hyfforddi rhieni maeth</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae diffyg rhieni maeth yn barod yng Ngwynedd - byddai lleihau'r gyllideb recriwtio a hyfforddi yn gwneud y sefyllfa yn waeth. (1)</li> </ul>	1

Tud. 385

## Atodiad C: Sylwadau cyffredinol gan yr holl ymatebwyr

Sylwad	Nifer o ymatebwyr i nodi hyn
Ni ddylid cynyddu'r Dreth Cyngor	19
Angen lleihau cyflogau prif swyddogion y Cyngor	19
Ni ddylid torri gwasanaethau i bobl hŷn fregus	15
Treth Cyngor uchel yn anodd i'w dalu i bobl ar incwm isel	14
Angen lleihau y nifer o gynghorwyr / lwfansau cynghorwyr	13
Gormod o staff gan y Cyngor / Angen cael gwared o staff aneffeithiol	12
Angen edrych ar fwy o arbedion effeithlonrwydd cyn dechrau torri	11
Staff Cyngor yn cael telerau gwaith rhy dda - gormod o fuddion	8
Mae'r 50% ychwanegol o dreth ar berchnogion ail dai wedi golygu eu bod rwan yn talu llai o dreth drwy gofrestru fel busnes	7
Angen codi mwy o dreth ar berchnogion ail dai	7
Dim digon o wybodaeth wedi ei gyflwyno am y toriadau a'r effaith posib y gallent gael ar grwpiau gwahanol	7
Angen cwblhau asesiadau effaith trylwyr ar y cynigion yma i gyd	6
Dylai'r Cynghorau gydweithio mwy i greu arbedion	6
Angen gwneud gwell defnydd o wirfoddolwyr i ymgymryd â rhai dyletswyddau	5
Holiadur gwastraffus - Cyngor ddim yn mynd i wrando ar barn trigolion	5
Cyflogau yn yr ardal yn rhy isel	4
Cyngor Gwynedd yn rhoi gormod o bwyslais ar yr iaith Gymraeg - costau ychwanegol o fod yn ddwyieithog	4
Dylid newid casgliadau bin gwyrdd i bob 4 wythnos	3
Falch iawn o weld cynigion i godi incwm yn hytrach na thorri gwasanaethau	3
Angen cynyddu'r dreth Cyngor er mwyn arbed gwasanaethau	3
Dylid edrych ar faint sydd yn cael ei wario ar gynnal ffyrdd	3

Tud. 386

## Atodiad C: Sylwadau cyffredinol gan yr holl ymatebwyr

Sylwad	Nifer o ymatebwyr i nodi hyn
Angen edrych ar dreth cyngor lleol sy'n adlewyrchu modd pobl i dalu e.e. incwm y cartref	3
Dylai'r dreth adlewyrchu safon y gwasanaethau rydym yn derbyn	3
Ni fydd canlyniadau'r holiadur yn adlewyrchu barn pobl go iawn gan nad oedd opsiwn i wrthod y toriadau a dewis peidio codi'r dreth cyngor	3
Angen ymdrechu i gael mwy o arian i Lywodraeth Leol	2
Angen diffodd goleuadau stryd rhwng 1am a 5am	2
Ni ddylid torri'r gwasanaeth hamdden	2
Dylid gwneud swyddfeydd y Cyngor yn fwy ynni effeithiol	2
Dylid cau swyddfeydd y Cyngor dros gyfnod y Nadolig	2
Cytuno bod codi ffioedd yn ffordd deg i leihau effaith y toriadau	2
Llawer gormod o arian yn cael ei wastraffu ar ymgynghorwyr allanol	2
Mae'r toriadau yma yn mynd i gael effaith negyddol ar bobl anabl	2
Mae'r toriadau yma yn mynd i gael effaith andwyol ar y cymunedau gwledig	2
Llawer gormod o gymorth i'r rhai nad ydynt yn gweithio	2
Angen codi treth ar garafanau statig	2
Sylw amherthnasol	2
Dylid ymdrechu i lenwi tai cymdeithasol sy'n dod yn wag yn gynt o lawer	1
Angen dysgu gwersi o Her Gwynedd - rhoi cyhoeddusrwydd nid yn unig i ba benderfyniadau a wnaed ond hefyd pryd fyddan nhw'n digwydd	1
Ni ddylai'r Cyngor redeg Doc Fictoria na Marina Pwllheli	1
Falch bod maes Gofal ac Addysg yn cael ei warchod	1

## Atodiad C: Sylwadau cyffredinol gan yr holl ymatebwyr

Sylwad	Nifer o ymatebwyr i nodi hyn
Mae'n gywilyddus nad oes raid i chi allu siarad Cymraeg yn rhugl i fod yn heddwas yng Ngogledd Cymru - denu pobl ddi-gymraeg i'r ardal	1
Angen sicrhau bod arwyddion/gwybodaeth ar gael i dwristiaid	1
Croesawu bod y Cyngor yn buddsoddi er mwyn creu arbedion	1
Angen stopio gwario ar addysg ddewisol a cludiant ysgolion	1
Dylid sicrhau bod pob dirwy parcio yn cael ei gasglu	1
Angen lleihau nifer yr arolygwyr ffyrdd	1
Dylai perchnogion Tai Amlfeddiannaeth dalu treth o ryw fath	1
Hoffwn weld cartrefi gofal preifat yn cael eu rheoli gan y Cyngor	1
Mae angen llai o gynghorau yng Nghymru	1
Bydd toriadau rhy llym yn creu problemau yn y dyfodol	1
Dylid ystyried codi treth ar ymwelwyr	1
Gweithwyr sbwriel sy'n gollwng sbwriel ar hyd y ffyrdd wrth gasglu gwastraff	1
Dwi erioed wedi cytuno i dalu treth ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu	1
Mae angen ail fandio tai y sir er mwyn diben treth cyngor	1
Dylai athrawon fynd ar gyrsiau yn ystod gwyliau'r ysgol - byddai hyn yn arbed talu am athrawon llanw costus	1
Does dim angen cefnogi maes celfyddydau i'r fath raddau.	1
Dylid codi ffi ychwanegol am barcio cerbydau sydd yn cymryd mwy nac un bae parcio e.e. carafanau	1
Dylid rhoi cosb ariannol i'r rhai sydd yn cael eu dal yn bwydo gwylanod / peidio clirio ar ol eu cŵn	1
Gormod o staff addysg yn cael eu denu gan GWE	1
Gormod o staff mewn ysgolion bach	1
Dylid lleihau'r Dreth Cyngor presennol	1

Tud. 388

## Atodiad C: Sylwadau cyffredinol gan yr holl ymatebwyr

Sylwad	Nifer o ymatebwyr i nodi hyn
Dylai pobl ar incwm isel dderbyn cerdyn teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus	1
Dylid mynd ar ôl y rhai sydd ddim yn talu eu treth Cyngor	1
Ni ddylid cau'r Canolfannau Iaith ar unrhyw gyfrif	1
Poeni am fynediad i fynwentydd i bobl anabl/pramiau os na fyddant yn cael eu cynnal mor aml	1
Gwneud mwy o doriadau i wasanaethau "ring fenced" megis Addysg a Gofal	1
Croesawu gonestrwydd y Cyngor am y toriadau	1
Mae gennyf bob ffydd yn noethineb ein Cyngor i wneud penderfyniadau ynglŷn â gwariant y flwyddyn sydd i ddod.	1
Pam fod angen gofyn y cwestiynau cydraddoldeb?	1
Dylid codi tâl aelodaeth ar blant mewn canolfannau hamdden	1
Mae'r 50% ychwanegol o dreth ar ail dai yn anheg iawn - talu mwy am lai o wasanaeth gan nad ydym yn byw yma am ran helaeth o'r flwyddyn	1
Byddai cael gwared ar Newyddion Gwynedd yn creu arbediad	1
Dylai mwy o ohebiaeth / ffurflenni fod ar gael yn electroneg	1
Dylid ystyried yr effaith fydd y toriadau yma yn gael ar yr Iaith Gymraeg	1
Gall toriadau gael effaith negyddol ar bobl drawsrywiol	1
Gall toriadau gael effaith negyddol ar ferched beichiog	1

Tud. 389



## Atodiad Ch: Sylwadau gan fusnesau / sefydliadau

Enw'r busnes / sefydliad	Sylwadau ar y Strategaeth Ariannol	Effaith ar un neu fwy o'r nodweddion cydraddoldeb
<b>Derwen Children's Integrated Services for Children with Disabilities</b>	The advocacy service for Children -especially those with disabilities are depleted enough as it is. It is imperative that the voice of the child is heard as reiterated in the Social service Well being ACT 2014 and the Unite Nations 'Every Child's right to be heard'	A reduced advocacy service would mean that Children with disabilities wouldn't have the opportunity to have their voice heard!
<b>Pontio, Prifysgol Bangor</b>	Byddai gostwng neu ddileu arian strategol celfyddydol yn effeithio ar ansawdd bywyd a llesiant pobl anabl, o wahanol oedran ac o wahanol ryw	
<b>Plas Glyn y Weddw</b>	Mae torri y gyllideb celf ymhellach yn mynd i gael effaith negyddol ar y nifer o brosiectau celf yn y sir ac o ganlyniad yn mynd i effeithio ar ansawdd y gweithgareddau celf yn y dyfodol.	Pob sector o gymdeithas yn mynd i gael ei effeithio
<b>Sustrans Cymru</b>	Item 59 - Barmouth Bridge – stopping payment to Network Rail for the right of way over the bridge. The right of way across the bridge is an important link for local communities, the National Cycle Network (NCN) and for the Wales Coast Path. The removal of this link would effect a large number of people (over 100,000 people use the Mawddach Trail / NCN 8 each year) in terms of their accessibility, their health and well-being and also the local economy. Every effort should be made to keep this vital link open and accessible all year round.	Any closure would effect the community as a whole but could have an extra negative effect on disabled people and / or people of different age groups
<b>BCUHB</b>	Cyfuniad o'r ddau yn gwneud synnwyr	Effeithio pob grŵp nodwedd

Tud. 390

<p><b>Dawns i Bawb</b></p>	<p>Rydym yn deall y penderfyniadau anodd sydd yn gorfod cael eu gwneud. Mae popeth yn mynd i gael rhyw fath o effaith ar drigolion, gwasanaethau a busnesau lleol fel ein cwmni ni. Dydy Dawns i Bawb, na'r sector celfyddydau, ddim yn derbyn llawer iawn o bres gan y Cyngor. Roeddwn wedi colli 50% o'n grant blwyddyn diwethaf ac oedd rhaid gwneud tipyn o newidiadau i'n darpariaeth Gwynedd mewn ymateb i hyn. Roedd yr effaith yn heriol ond llwyddwyd i gadw'n rhaglen yn mynd. Mae 20% ar ben hwn bron yn amhosib i gynllunio. Mae DiB yn darparu rhaglen ddawns i bobl o bob oedran a gallu dros y Sir cyfan ac yn llwyddo darparu gweithgareddau dawns i dros 13,000 o bobl yng Ngwynedd pob blwyddyn. Mae'ch cyfraniad chi yn hanfodol i ni gallu gwneud hyn. A da ni'n ddim ond un esiampl. Mae na llwyth o sefydliadau a chwmnïau eraill sy'n gwneud gwaith debyg gyda'ch cefnogaeth ariannol. Rydym yn rhwydwaith cryf gydag arweiniad gan Gwynedd Greadigol ac yn y sector celfyddydol dros Gymru, mae Gwynedd yn un o'r rhai mwyaf addawol achos y ffordd mae Gwynedd Greadigol yn cyd-weithio gyda'r cwmnïau a theatrau. Mae Gwynedd Greadigol wedi derbyn llythyron gan bobl lleol ac ysgolion sy'n sôn am bwysigrwydd cwmnïau fel Dawns i Bawb a sut mae'r celfyddydau yn ymateb mewn ffordd positif i iechyd a lles pobl o bob oedran, i addysg ein plant, i'r iaith Cymraeg ac i'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae gan y celfyddydau lle pwysig yn ein byd a mae partneriaeth sydd newydd cael ei datblygu rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a'r NHS yn tystiolaeth o hwn. Mae'r wlad yn wynebu amser caled iawn. Mae celfyddydau'n rhoi cyfle i bobl gael llais, dweud eu dweud, teimlo'n grymus fel unigolyn a chymunedau, rhannu, cymdeithasu a theimlo'n positif. Yn yr amser ansicr hwn, da ni'n angen y celfyddydau mwy nag erioed.</p>	
<p><b>Ysgol Pendalar</b></p>	<p>Fe hanerwyd y gyllideb yma yn ystod proses arbedion Her Gwynedd.</p> <p>Byddai gweithredu'r cynllun yma yn golygu y byddai'r Cyngor yn gorfod ystyried lefel y cymorth y gellid ei roi i'r 11 prif gwmni celfyddydol yng Ngwynedd.</p> <p>Mae cyd-weithio gyda'r cwmnïau celfyddydol rhain yn cynnig gwerth aruthrol i ddisgyblion yn yr ysgol arbennig. Mae'r cyfle i weithio gyda artistiaid proffesiynol ar brosiectau arloesol yn codi dyheadau, hunan hyder a hunan ddelwedd disgyblion ac yn ennyn diddordeb a mwynhad y celfyddydau ynddynt.</p>	
<p><b>Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri</b></p>	<p>Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn dymuno nodi'r angen am ystyriaeth i flaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.</p>	

<b>Theatr y Ddraig</b>	<p>We depend on the small amount of money (just £3,000) we receive from the Gwynedd Arts Fund to attract more funding and to generate further business. Although we are an arts organisation we are also a business and we contribute to the economy - employing people, using local contractors and buying local produce. I think it's unfair to shave 20% off our funding - we have already been cut by 50% and have been hit hard by this. Also it is unfair that people who live near Pwllheli have £100,000 spent on their theatre/cinema but the people who live in Barmouth have nothing spent on theirs. People from remote geographical communities are being discriminated against by these cuts.</p>	
<b>Cwmni'r Tebot</b>	<p>Fel cwmni theatr sydd yn dechrau arni ac yn cynnig cyfleoedd i unigolion ifanc, lleol, bydd torri'r arian sydd ar gael i'r celfyddydau yn drychinebus i ni. Nid yn unig gan ein bod yn gobeithio elwa o'r gronfa ond hefyd am ein bod yn cyd-weithio gyda chwmnïau eraill yng Ngwynedd ac yn elwa o'u profiad a'u harbenigedd ac y byddant hwythau yn dioddef o dan law y toriadau hyn. Cwmni theatr cymunedol sydd a'n bryd ar wasanaethu cymunedau bychain sydd yn aml yn cael eu anghofio ydym ni a byddai toriad fel hyn, wrth i ni ddatblygu yn gnoc. Mae cyfraniad celfyddydol Gwynedd yn un sydd i'w deimlo drwy Gymru a thu hwnt ac mae o'n 'fffenest siop' dda i'r Cyngor am eu bod yn galluogi cwmnïau a mudiadau i wneud gwaith da.</p>	
<b>Inigo Jones</b>	<p>Mae'r cynnig i dorri un swydd yn yr adran twristiaeth yn annoeth ac yn ein arwain i fethu yn ein ymdrechion i gryfhau'r diwydiant.</p> <p>Os caiff ei weithredu ni fydd y lefelau staffio yn ddigonol i roi cynigion ymlaen i ennill cyllid o ffynonellau allanol sydd wedi bod yn y gorffennol, ag all fod eto yn y dyfodol, yn fuddiol i sicrhau incwm sydd gymaint ei angen ag all ddarparu enillion sylweddol ar fuddsoddiad.</p> <p>Byddai swyddogaethau pwysig eraill yr adran Dwristiaeth hefyd yn cael eu heffeithio yn ddifrifol.</p> <p>Mae Twristiaeth yng Ngwynedd yn gwbl bwysig i'r economi leol, ac mae gwneud toriadau mewn adran dwristiaeth sydd yn barod ar ei gliniau yn gyrru'r neges gwbl anghywir, yn enwedig pan mae'r cyngor yn gofyn i'r diwydiant dwristiaeth am gefnogaeth i ddarganfod ffyrdd gwahanol o godi cyllid ar gyfer y ddiwydiant yn y dyfodol</p>	

**Canolfan Gerdd William Mathias, Galeri, Caernarfon**

Mae'n destun pryder i ni bod awgrym i dorri y grantiau strategol i'r celfyddydau o 20% yn arbennig gan bod y gronfa eisoes wedi cael ei thorri yn ei hanner yn dilyn ymgynhorïad Her Gwynedd. Carwn gynnig ychydig sylwadau ar bwysigrwydd y gronfa hon :

Ers cael ein derbyn fel aelod newydd o'r portffolio grantiau strategol yn 2011, rydym ni (Canolfan Gerdd William Mathias) wedi gallu sicrhau parhad a datblygiad nifer o brosiectau pwysig megis Doniau Cudd (ein prosiect cerdd creadigol i oedolion sydd ag anableddau dysgu), Camau Cerdd (sesiynau cerdd i blant o 6mis i 7oed), cyngherddau cymunedol, gwaith gyda phobl hŷn a threfnu Gwyliau cerdd o statws rhyngwladol. Mae'r gweithgareddau rhain yn dod a budd sylweddol i Wynedd ar sawl lefel :

- Darparu profiadau celfyddydol safonol i drigolion Gwynedd o 0 – 100+ oed yn cynnwys henoed, yr anabl, plant a theluoedd gan hybu iechyd a lles.
  - Darparu gwaith i gerddorion hunan-gyflogedig sy'n ymdrechu i gynnal bywoliaeth ym maes y Celfyddydau yng Ngwynedd.
  - Denu pobl o'r tu allan i'r Sir a Chymru i Gaernarfon gan gyfrannu at yr economi leol.
- Creu partneriaethau gyda chwmnïau eraill ac adrannau eraill o fewn y Cyngor megis y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae gallu dangos cefnogaeth gan y Cyngor Sir hefyd yn gymorth mawr wrth ymgeisio am grantiau o ffynnonellau eraill o Gymru a'r tu hwnt. Enghraifft ddiweddar o hynny yw ein llwyddiant i sicrhau grant o £198,189 o Gronfa Spirit of 2012 fel rhan o'u Music Challenge Fund. Nód y Gronfa hon yw cefnogi prosiectau sy'n dod a phobl abl ac anabl ynghyd i gymryd rhan mewn cerddoriaeth gan wella iechyd meddwl a lles. Heb os roedd ein 'track record' o gynnal Doniau Cudd gan gydweithio gyda Tim Anableddau Dysgu Cyngor Gwynedd a gyda chefnogaeth ariannol y Gronfa Strategol yn gryfder mawr yn y cais ac yn gymorth i sicrhau'r buddsoddiad sylweddol yma. Bydd y prosiect yn dod a budd i drigolion Gwynedd trwy'r sesiynau rheolaidd fydd yn cael eu cynnal yn Harlech, Caernarfon a Phwllheli dros y 3 mlynedd nesaf. Bydd hefyd yn darparu gwaith i nifer o gerddorion llawrydd o'r Sir, yn cynnwys sawl un sydd wedi datblygu sgiliau ym maes iechyd a lles trwy weithio ar rai o'r prosiectau a arianwyd trwy'r grant strategol yn y blynyddoedd diwethaf. Yn ogystal mae un swydd ran amser Rheolwr Prosiect yn cael ei chreu.

Yn yr un modd mae Gwyliau Rhyngwladol a drefnir gennym yn dod a budd economaidd sylweddol i'r ardal. Daeth Gŵyl 2018 á thelynorion a'u teuluoedd o 24 gwlad i Gaernarfon am wythnos lawn o weithgareddau gan ddod a budd sylweddol i westai, bwytai, siopau ac atyniadau twristiaid lleol. Mae rhai prosiectau y bu i ni eu sefydlu gyda chymorth y gronfa bellach yn cynhyrchu incwm digonol a ddim yn dibynnu ar gyfraniad o'r gronfa strategol felly mae'r elfen o 'seed funding' yn holl bwysig hefyd.

Mae'r gronfa hefyd yn helpu i ddenu buddsoddiad pellach yn y celfyddydau gan drigolion y Sir e.e. yn ddiweddar trwy ein grant bu i ni gynnig gwers flasu un i un am ddim i hyd at 15 o bobl dros 55oed. Mae 13 wedi mynychu gwers flasu hyd yma a 8 ohonynt wedi penderfynu parhau i dderbyn gwersi ar eu costau eu hunain gan gyfrannu at gyflogaeth tiwtoriaid cerdd lleol a'n incwm ninnau.

Dim ond ambell enghraifft yw'r rhai uchod o sut mae'r gronfa nid yn unig yn cyfrannu at sicrhau profiadau celfyddydol o safon i drigolion Gwynedd ond yn cyfrannu at economi a chyflogaeth y Sir, iechyd a lles ei thrigolion ac yn hyrwyddo'r Sir i bob cwr o'r byd. Mae sawl enghraifft arall ymhlith y cwmnïau eraill sy'n elwa o'r gronfa strategol yn sicr.

Mawr obeithiwn yn dilyn y toriad sylweddol o 50% a wnaethpwyd eisoes y bydd y Cynghorwyr yn penderfynu yn erbyn gwneud unrhyw doriadau pellach.

O'n safbwynt ni fel cwmni mae'r prosiectau rydym yn gofyn am gefnogaeth ar eu cyfer yn cynnwys prosiectau sy'n darparu cyfleoedd i grwpiau sy'n amal wedi eu tangynrychioli yn cynnwys:

Doniau Cudd - sy'n darparu sesiynau cerdd i oedolion sydd ag anableddau dysgu.

Camau Cerdd sy'n darparu profiadau cerddorol i deuluoedd ifanc yn cynnwys mamau sydd ar gyfnod mamoaeth.

Cyngherddau cymunedol rhad ac am ddim mewn ardaloedd gwledig o'r Sir.

Ein cynllun Atgofion ar Gân mewn partneriaeth gyda Adran Celfyddydau Cymunedol Cyngor Gwynedd sy'n anelu at daclo unigrwydd ymhlith bobl hŷn Gwynedd.

Mae'r sefydliadau eraill sy'n elwa o'r gronfa hefyd yn darparu ar gyfer sawl un o'r grwpiau a nodir.

Er bod cwmnïau yn ymdrechu i fwyafu incwm lle bo'n bosibl o werthiant tocynnau / ffioedd cofrestru ag ati, mae'n hanfodol os am ddarparu yn eang a cheisio cyrraedd pawb bod rhai gweithgareddau yn cael eu sybsideiddio. Un o effeithiau posibl toriadau yw y bydd costau cymryd rhan yn y celfyddydau yn cynyddu gyda'r peryg o fod allan o gyrraedd rhai o'r trigolion mwyaf bregus sy'n elwa gymaint o'r ddarpariaeth. Sgil effaith posibl hynny wedyn yw dirywiad mewn lles.

<b>Cyngor Cymdeithas Botwnnog</b>	Cynlluniau i fuddsoddi er mwyn creu arbediad: 25 - Ni chytunwn â hyn gan fod llawer o'r biniau sydd yn cael eu difrodi yn malu wrth gael eu gwagio gan weithwyr y lorïau sbwriel 36 a 37 - yn anffodus nid yw cyfanswm yr arian sydd gennym yn ein Cyngor Cymuned yn ddigon i ni gymeryd drosodd a'u rhedeg. 51 - Byddai'n golled fawr iawn i drigolion Llyn pe byddai Cyngor Gwynedd yn methu cefnogi 'O Ddrws i Ddrws' - colled i bobl hyn a phobl anabl sy'n methu gyrru ac heb fod yn berchen ar fodur i'w cludo i'r feddygfa, i'r ysbyty ayyb.	
<b>Cyngor Cymuned Brynchrug</b>	Pryder ynglŷn ag effaith y toriadau ar drigolion. Dylid ceisio sicrhau nad yw'r gwasanaethau y mae'r cyhoedd yn eu defnyddio o ddydd i ddydd yn cael eu colli e.e. torri gwair, ysgubo ffyrdd	
<b>Cyngor Cymuned Arthog</b>	Gweler gohebiaeth yn <b>Atodiad D.</b>	
<b>Heb nodi pa sefydliad – “Classified”</b>	Having just read it, think you need to consult with local businesses first. Most proposals would lead to people (source funding) avoiding Pwllheli and local areas. Cutting down on services should be a no go. Stopping free parking at Christmas: that hasn't been thought through has it.	
<b>Môr Wyn Guest House, Abermaw</b>	Dim sylwad	
<b>First Light, Abersoch</b>	Dim sylwad	
<b>Ysgol Bro Hedd Wyn, Trawsfynydd</b>	Dim sylwad	
<b>Cwmni Fran Wen</b>	Dim sylwad	
<b>Cimera C.B.C</b>	Dim sylwad	

ARTHOG

CYNGOR  
CYMUNED

COMMUNITY  
COUNCIL

Clerc/Clerk - ANGELA THOMAS  
TAIR TREM, PENRHYN DRIVE NORTH, FAIRBOURNE LL38 2DJ  
Ffon/Phone 07831 697611  
Email: [cyngorarthogcouncil@gmail.com/angelathomas000@gmail.com](mailto:cyngorarthogcouncil@gmail.com/angelathomas000@gmail.com)

14<sup>th</sup> January 2019

Dilwyn Williams  
Chief Executive  
Gwynedd Council  
Council Offices  
Shirehall Street  
Caernarfon  
LL55 1SH

Dear Sir

**COMMENTS REGARDING THE PROPOSED 5.5% RISE IN COUNCIL TAX AND OTHER MEASURES PROPOSED TO INCREASE REVENUE**

Reference to Gwynedd Council increase in 2019 rates and cut in general services

Arthog Community Council, while understanding that Government funding has been cut to the local authority, feel honour bound on behalf of the residents within the Community Council area, to voice major concerns at proposals yet again to increase council rates to local residents.

Gwynedd Council quote that their funding has been cut repeatedly from the national government for over a decade which has put severe strain on the authority's finances with regards to future services. It has to be pointed out, that this exact same problem is being endured by local residents who repeatedly see their annual council tax rise for less and less service, but often well above national inflation.

Gwynedd has one of the lowest overall incomes per person in the UK, said to be in the bottom ten of the national UK league table. Yet, persistently, Gwynedd Council seem to think that ordinary people struggling to make ends meet on these low and often static wages, can repeatedly find more money for this declining service. This is not the case and we, as councillors, are finding local people telling us they are suffering extreme hardship as a result of this continual annual rate rise. These are often people who are in the divide line of working full-time, but not being in a position to claim benefits. Old age pensioners are also often in the same position with a negligible increase in their yearly income not proportionable to the council rate increases. Clearly, Gwynedd Council must acknowledge that pushing the problem on to the residents of Gwynedd is not a solution, in either short or long term. It might be the easy solution from the Council's viewpoint, but it is not acceptable, nor practical, to the Gwynedd residents who have to fund this and see a continual decline in their living standards.

The UK inflation rate at the time of writing falls somewhere between 2.4% and 3%, yet Gwynedd Council are quoting a possible Council Rates increase of 5.5%. With low wages and high inflation, it is clear to see that Gwynedd families will fall yet further behind financially as a result of this out of proportion increase.

Arthog Community Council sympathise with Gwynedd Council's predicament, but at the same time it is clear that the cash cow that is the public are now bled dry and alternative funding must be found, whatever that may be, to make up the shortfall of council funds. We, Arthog Community Council, would be grateful of an explanation from Gwynedd Council as to how said council expects the low earning public of Gwynedd to keep funding these extra fees?

We would also like to raise the issue of Gwynedd Council looking to charge for the repair or replacement of waste bins. It has come to our attention that the green waste bins provided, and the brown garden waste bins, have been fitted with type of wheel axle which, over time, especially in coastal communities where salt air is evident, rusts, rots and breaks down. This then requires the resident to contact the council to initiate a replacement axle. Would it not have been more financially prudent to have fitted axles that don't rot (stainless steel) to avoid this unnecessary expense in the first place? It seems whomever initiated these receptacles did not think the problem through sufficiently, thus incurring additional cost that could be put to better use.

What's more, a majority of damage to bins is caused by the bin collectors themselves who have repeatedly smashed the cantilever access lids on the recycling bins, smashed bin lids on the large waste bins, and snapped the handles off the small brown food bins used for waste food collection. It also brings in to question whether the bins are actually fit for purpose? This suggests to us that Gwynedd Council are not actually in tune with the reality of the actual situation and need to do some research before trying to apply costs to residents who probably have not damaged the bin themselves in the first place. In the majority of cases, the only contact a resident has with their bins is when filling them and taking them to the roadside pick-up point, hardly heavy-duty abuse. It's obvious, at least it is to our councillors, that the greater likelihood of damage is when the bins are being man-handled by the refuse collectors themselves and vehicle hydraulics. Our local residents often complain to us that their bins are literally thrown on the floor and often scattered loosely and are often left encroaching in to the road after the refuse collectors have been. Working people cannot be expected to be home after bin pick-up to retrieve their bins, so some common sense by both Gwynedd Council and the refuse collectors on this point is needed.

Another issue with bins is that in many areas high winds will blow even full bins over. Many residents put a weight on the bin lid to keep the bins in place. The refuse collectors do not put the weights back and the empty bins then blow off down the street. Alternatively, you would expect the refuse collectors to apply common sense and lay the bins on the floor to avoid them blowing away. It needs to be pointed out here, that residents have done what is expected of them and applied common sense to keep their bins in situ, yet the council representatives do not, and it is they that cause many of the issues associated with broken and lost bins. It appears to many residents, and rightly so, that Gwynedd Council are somewhat detached from the reality of this situation regards bin damage and this needs to be addressed.

Again, Arthog Community Council would be grateful to hear Gwynedd Councils response to the above issues regards bin and refuse collection and as to how it aims to alleviate these issues instead of simply assuming the general public are to blame.



It also has to be said that when major businesses suffer hardship, jobs are lost. It is a hard fact of life, but maybe Gwynedd Council needs to look closer to home when it comes to raising rates etc and see if cuts to office premises and even staff might be more appropriate to generate new funds.

We hope that Gwynedd Council will take these constructive comments in the spirit that they are intended. Gwynedd Council asked for comment and Arthog Community Council has replied.

Yours sincerely

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Angela Thomas', with a stylized flourish at the end.

ANGELA THOMAS - CLERK  
For and on behalf of Arthog Community Council

Cc: Dafydd Edwards  
Liz Saville-Roberts

## ATODIAD 12

### PENDERFYNIADAU AMGEN

O'r opsiynau a godwyd yn y gweithdai bach arbedion i'r Aelodau (18 – 28 Ionawr 2019), neu a godwyd gan nifer go sylweddol o'r cyhoedd mewn ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus, dyma'r pump cynllun arbediad sydd wedi eu hadnabod yn y gweithdy mawr arbedion i'r Aelodau ar 5 Chwefror 2019 am ystyriaeth bellach.

Cynllun	% Treth Cyngor	2019/20	2020/21 ymlaen	Cyfanswm Cynllun
<b>Mwyafrif o'r Aelodau o blaid cynnyddu'r dreth er mwyn peidio gweithredu'r arbediad</b>				
<b>Cyf. 6.22</b> Lleihau cyllideb Cymorth i Ferched o 20%	0.01%	£8,080	£2,690	£10,770
<b>Cyf. 6.25</b> Lleihau cyfraniad y Cyngor o 7% i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid	0.02%	£12,390	£1,770	£14,160
<b>Cyfran sylweddol o'r Aelodau o blaid cynnyddu'r dreth er mwyn peidio gweithredu'r arbediad neu wedi ymatal rhag pleidleisio</b>				
<b>Cyf. 4.19</b> Codi ffi am gyflenwi biniau sydd wedi'u difrodi gan drigolion	0.01%	£6,250	£18,750	£25,000
<b>Cyf. 4.4</b> Parcio am ddim dros y Nadolig	0.07%	£45,000	£0	£45,000
<b>Cyf. 6.16</b> Lleihau y grantiau strategol i'r celfyddydau 20%	0.00%	£0	£18,000	£18,000
<b>Cyfanswm y 5 Cynllun</b>	<b>0.11%</b>	<b>£71,720</b>	<b>£41,210</b>	<b>£112,930</b>

## ATODIAD 13

### CADERNID YR AMCANGYFRIFON

1. Yn unol ag Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid adrodd ar gadernid yr amcangyfrifon cyllidebol a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn arfaethedig. Mae Atodiad 7 yn amlinellu sefyllfa'r balansau a chronfeydd wrth gefn, tra mae'r atodiad yma'n cadarnhau cadernid yr amcangyfrifon cyllidebol sy'n sail i'r gyllideb.
2. Mae amcangyfrifon y gyllideb yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch gwariant ac incwm yn y dyfodol ac mae'n anochel eu bod yn cynnwys elfen o risg yn sgil rhagdybio. Gall effaith y risg hon gael ei lliniaru drwy gynlluniau wrth gefn, cyllidebau wrth gefn a chronfeydd ariannol wrth gefn.
3. Nid yw cadernid yr amcangyfrifon cyllidebol yn gwestiwn syml os ydynt wedi'u cyfrifo yn gywir. Yn ymarferol, mae llawer o gyllidebau wedi'u seilio ar amcangyfrif neu ragolygon, a bydd elfen o risg ynghylch gwireddu cynlluniau a chyflawni targedau. Ystyrir gwahanol risgiau i'r gyllideb isod:
4. **Risg Chwyddiant** - Mae risg gall chwyddiant droi allan yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaeth a wnaed yn y gyllideb. Ar gyfer 2019/20, caniatawyd chwyddiant ar sail y wybodaeth ddiweddaraf am tâl a phrisiau, ond mae risg y bydd chwyddiant yn codi eto yn ystod 2019/20 ac ansicrwydd ynghylch y lefel tebygol (heblaw chwyddiant tâl a phensiynau sydd eisoes wedi'i gytuno). Gall cynnydd mewn chwyddiant ychwanegu at gostau'r Cyngor, ond gellir ei gyllido drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn fel bo'r angen.
5. **Risg Cyfraddau Llog** - Gall cyfraddau llog effeithio'r gyllideb refeniw drwy'r llog a enillir - h.y. byddai cynnydd yn y gyfradd log yn golygu mwy o incwm. Yn unol â Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor, nid yw'r gyllideb yn dibynnu ar enillion uchel am fuddsoddi. Mae cyfraddau llog yn parhau i fod ar eu hisaf erioed ac nid ydynt yn debygol o godi cyn o leiaf 2020/21. Felly, ystyrir bod y risg o ran cyfraddau llog yn isel ac mae'n digolledu'r risg chwyddiant, oherwydd bod un yn debygol o gynyddu gyda'r llall.
6. **Risgiau Grantiau Penodol** - Mae'r risgiau ynghlwm â'r nifer fawr o grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru, Ewrop, neu gyrff eraill sy'n cefnogi cyfran o wariant y Cyngor. Gall rhai o'r rhain ostwng, neu cael eu torri, ac nid oes gennym ddarlun cyflawn wrth i'r flwyddyn ariannol gychwyn. Bydd rhaid i'r gwariant cysylltiedig orffen pan daw grant i ben, ond mae'n bosibl fydd telerau contract yn golygu na all gwariant gael ei dorri mor gyflym â'r grant, neu bod costau diswyddo i'w hariannu. Ymhellach, efallai bydd gweithgaredd a ariennir mor bwysig i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor ei hun, a'r Cyngor yn penderfynu parhau â'r gwariant. Byddwn yn lliniaru'r risg hon drwy sicrhau bod gennym yr wybodaeth orau sydd ar gael ar grantiau, ond mae'r cyrff ariannu (Llywodraeth, ayb) yn rheoli'r sefyllfa hyn.
7. **Risgiau Incwm** - Mae'r gyllideb yn seiliedig ar sicrhau cynnydd penodol mewn incwm ffioedd sydd cyfwerth â'r cynnydd mewn costau perthnasol. Os bydd galw am wasanaethau'r Cyngor yn disgyn, ac nad yw targedau incwm yn cael eu cyflawni, gall hynny arwain at orwario ar gyllidebau adrannol. Bydd angen monitro gwir sefyllfa'r gyllideb yn ofalus yn ystod y flwyddyn ac, os oes angen, torri yn ôl ar wariant i gyfateb i'r gostyngiad mewn incwm. Bydd hynny ddim yn bosib gyda rhai cyllidebau mawr corfforaethol, lle rhaid gosod amcangyfrifon incwm ar lefel darbodus.

8. **Risg ag Arbedion** - Un risg sylweddol yn yr amgylchiadau presennol yw bod y Cyngor yn or-optimistaidd o ran gwireddu cynlluniau arbedion. Petai'r prosiectau hyn yn rhedeg i drafferthion ac yn methu cyflawni'r arbedion a gymerwyd allan o'r gyllideb, gallai hynny arwain at orwario sylweddol. Byddwn yn lliniaru'r risg drwy sicrhau fod cynlluniau arbedion ym mherchnogaeth adrannau ac aelodau'r Cabinet, a monitro'r cynnydd perthnasol yn rheolaidd.
9. **Costau Diswyddo Staff** - Mae rhai gwasanaethau yn ailstrwythuro eu staff er mwyn cyflawni arbedion, a staff yn cael eu rhyddhau drwy ddiswyddiad. Lle'n briodol, caiff costau diswyddo eu cyllido o gronfa wrth gefn ganolog, ac mae swm addas wedi cael ei neilltuo i'r perwyl hyn, sy'n lliniaru'r risg.
10. **Premiwm y Dreth Cyngor** - Wrth benderfynu ar y Sylfaen Drethiannol, aseswyd nifer yr ail gartrefi a thai gwag i'w cynnwys yn y ffigyrau yn ddarbodus. Mae risg bod nifer yr eiddo fydd yn talu wedi'i or-amcan a'r incwm a gesglir yn is na'r swm amcangyfrifwyd (oherwydd eiddo'n trosglwyddo i'r rhestr treth fusnes). Rydym yn rheoli'r risg drwy gyflogi arolygwyr sy'n gwirio'r ffeithiau, a thrwy beidio ymrwymo'r holl gynnyrch treth o'r Premiwm cyn daw'r sefyllfa'n fwy eglur.
11. **Barn y Swyddog Cyllid Statudol** - Wedi ystyried yr holl risgiau a nodir uchod a'r camau lliniaru, mae'r Pennaeth Cyllid (Swyddog Adran 151) o'r farn bod y cyllidebau yn gadarn, yn ddigonol, ac yn gyraeddadwy.

# Eitem 9

## CABINET CYNGOR GWYNEDD



### Adroddiad i gyfarfod y Cabinet

Dyddiad y cyfarfod:	19 Chwefror 2019
Aelod Cabinet	Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Cyllid
Swyddog Cyswllt:	Dilwyn Williams, Prif Weithredwr
Teitl yr Eitem:	Cynllun Asedau 2019-29

#### Penderfyniad a geisir

- a) Er mwyn osgoi creu ôl groniat cynnal a chadw pellach yn ein hadeiladau, ein bod yn trosglwyddo'r gyllideb o £1.1m a roddwyd o'r neilltu ar gyfer ariannu benthyciadau yn y cynllun asedau blaenorol i atgyfnerthu'r gyllideb referniw cynnal a chadw adeiladau;
- b) Bod y Cabinet yn derbyn yr argymhellion a wneir yng nghymalau 28; 30; 32 ; 35; 40; 43 a 44 isod; ac
- c) Yn argymhell i'r Cyngor ei fod yn mabwysiadu'r Cynllun Asedau sydd ynghlwm i'r adroddiad hwn sy'n ymgorffori'r holl ganlyniadau a nodir yn (b) uchod.

#### Cefndir

1. Mae'r Cynllun Asedau presennol wedi dod i ddiwedd ei oes ac mae angen datblygu un newydd ar gyfer y cyfnod 2019/20 - 2029.
2. Fel man cychwyn ar gyfer y fath gynllun, gofynnwyd i adrannau nodi beth oedd eu hanghenion tebygol dros y 10 mlynedd nesaf. Yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae nifer o'r cynlluniau yn ymwneud a gwaith ataliol ac yn edrych i'r hirdymor gan geisio sicrhau gwasanaethau cynaliadwy i'r dyfodol.
3. Ar ôl derbyn y gofynion hynny fe ofynnwyd i aelodau flaenoriaethu'r cynlluniau a roddwyd ymlaen gan adrannau. Bu i 38 aelod gwblhau'r dasg ac fe ddangosir y drefn y rhoddwyd y cynlluniau ynddynt yn atodiad 1.
4. Wrth i aelodau ystyried y flaenoriaeth gymharol i'w roi i'r gwahanol gynigion, rhoddwyd manylion iddynt o'r hyn yr oedd pob cynllun yn ei olygu gan ofyn

iddynt flaenoriaethu yn ôl y budd cymharol yr oeddent yn ei ystyried y byddai'r cynllun yn ei gynnig i drigolion Gwynedd.

5. Yn amlwg, 'roedd hyn yng nghyd-destun yr amcanion llesiant sy'n cael eu cynnwys yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor.

### Y rhestr cynlluniau

6. Mae yna dri sector **Ile na** roddwyd dewis i'r aelodau oherwydd nad oedd yna ddewis iddynt beidio â'u cyflawni sef -
  - Cynnal a chadw adeiladau
  - Adnewyddu Fflyd
  - Adnewyddu Technoleg Gwybodaeth

### Cynnal a Chadw Adeiladau

7. Ar ddechrau'r cynllun diwethaf 'roeddem yn gwybod nad oeddem yn gwario digon ar gynnal a chadw adeiladau. 'Roedd hyn yn golygu fod yna ôl groniad cynnal a chadw wedi datblygu dros y blynyddoedd oherwydd hynny.
8. Ar ddechrau'r cynllun diwethaf amcangyfrifwyd fod yr ôl groniad ei hun yn £27m a gwnaed asesiad ar sail y wybodaeth gyfyngedig oedd ar gael i ni bryd hynny bod angen gwario £1.5m y flwyddyn yn ychwanegol i osgoi i'r bwlch waethygu. [Amcangyfrif oedd hwn yn seiliedig ar asesiad mathemategol gan nad oedd y wybodaeth angenrheidiol gennym i ddod i gasgliad ar sail gwybodaeth gadarn].
9. Yn y cynllun diwethaf felly fe ychwanegwyd swm cyfalaf blynyddol o £1.5m at y gyllideb cynnal a chadw er mwyn ceisio osgoi i'r broblem waethygu ac fe roddwyd swm o £20m arall i mewn i'r cynllun er mwyn ymosod ar yr ôl groniad.
10. Erbyn hyn felly byddem yn disgwyl i'r ôl groniad fod wedi disgyn i £7m ond dengys astudiaeth ddiweddar ei fod yn £14m o hyd. Yn amlwg 'roedd hynny oherwydd nad oedd y £1.5m ychwanegol y flwyddyn yn ddigonol i osgoi iddo waethygu.
11. Dengys y wybodaeth ddiweddaraf yma fod angen gwario tua £2m yn fwy ar y gyllideb cynnal a chadw na'r gyllideb sylfaenol os am osgoi i'r ôl groniad gynyddu.
12. Adroddwyd ar hyn eisoes i'r Cabinet wrth adrodd ar y Cynllun presennol ym Mawrth 2017 a bryd hynny fe gymerwyd y cyfle gan y Cabinet i gynyddu'r swm oedd ar gael ar gyfer cynnal a chadw o £800,000 fyddai'n golygu bod angen darparu £1.2m pellach y flwyddyn i osgoi ôl groniad.

13. Fodd bynnag, y gwir ateb i hyn yw sicrhau fod y gyllideb referniw yn ddigonol i gyfarch yr angen yn hytrach na cheisio defnyddio'r gyllideb gyfalaf i'w atgyfnerthu gan mai gwariant referniw yw cynnal a chadw mewn gwirionedd ac nid gwariant cyfalaf. [O ddefnyddio'r gyllideb gyfalaf, er nad ydym wedi bod yn gwneud hynny hyd yma, pe byddai angen i ni fenthyca i wneud hynny byddem yn talu costau llog ar fenthyciadau o'r fath sydd ddim yn gwneud synnwyr o gwbl].
14. Fel mae'n digwydd bod, mae yna £1.1m o gyllideb referniw blynyddol a roddwyd o'r neilltu er mwyn ariannu benthyciadau cyfalaf yn yr hen gynllun sydd heb ei ymrwymo ac **argymhellaf felly** fod hwn yn cael ei neilltuo ar gyfer cynnal a chadw fel bod y gyllideb honno yn ddigonol (neu'n ddigon agos) i osgoi creu unrhyw ôl groniad pellach.
15. Drwy wneud hyn byddwn yn cael gwared ag un broblem fyddai fel arall angen ei ddatrys drwy'r Cynllun Asedau.
16. Wedi dweud hynny, dim ond drwy'r Cynllun Asedau mae modd gwneud unrhyw beth am yr ôl groniad £14m sy'n parhau i fodoli (gyda rhai elfennau o'r ôl groniad yma yn gallu golygu cau adeilad yn y pen draw oni bai ein bod yn ei gyfarch).

### **Cerbydau'r Fflyd a Thechnoleg Gwybodaeth**

17. Dengys y gofynion trawsadrannol fod angen darparu cyfanswm o £9.2m dros y 10 mlynedd nesaf i adnewyddu ein cerbydau a'r cyfarpar technoleg gwybodaeth a ddefnyddir gennym ac mae'n rhaid i hwn fod yn alwad cyntaf ar y Cynllun Asedau neu fe fydd gwasanaethau yn dod i ben.

### **Adnoddau Tebygol**

18. Cyd-destun allweddol i hyn oll wrth gwrs yw'r adnodd sy'n debygol o fod ar gael a chyn symud i ystyried y rhestr ei hun fe sonnir ychydig am hynny yn gyntaf.
19. Dengys lefel ein setliad cyfalaf presennol ein bod yn derbyn £6.6m o adnodd cyfalaf bob blwyddyn. Dros gyfnod o 10 mlynedd felly rhagwelir y bydd gennym £66m.
20. Ar ben hynny, mewn datganiad cyllidebol diweddar mae Prif Weinidog Cymru wedi datgan y bydd yn darparu £100m ychwanegol i awdurdodau lleol i wario ar gyfalaf dros gyfnod o 3 blynedd. Mae'r ddwy elfen gyntaf eisoes yn cael eu talu i ni yn 2018/19 a 2019/20 ac amcangyfrifir mai tua £4.5m fydd ein siâr ni o'r adnodd yma. Mae yna hefyd £1.4m o gronfa yr hen Gynllun Asedau ar gael o hyd yn gwneud cyfanswm adnoddau ar gael dros y cyfnod 10 mlynedd o **£72m**.

21. Mae'n bosibl dros y 10 mlynedd nesaf y byddwn yn gweld mwy o adnoddau yn dod i'n rhan drwy grantiau penodol at ddibenion penodol a dylem fod yn fyw i hyn oll er mwyn ceisio uchafu'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer ein hanghenion craidd.
22. Gan gymryd fod yna faterion sy'n debygol o godi o flwyddyn i flwyddyn lle bydd angen gwariant cyfalaf mae'n arferiad i gadw swm yn ôl er mwyn cwrdd â'r achlysuron hynny.
23. Goblygiadau hynny yw bod y swm hwnnw ar gael os cyfyd anghenion sydd heb eu cyfarch yn y Cynllun, ond hefyd, os nad oes galwadau eraill yn codi, gellir ei ryddhau wedyn bob blwyddyn wrth fynd ymlaen i gyflawni'r cynllun nesaf ar y rhestr.
24. Yn y cynllun diwethaf bu i ni gadw £0.5m y flwyddyn yn ôl at y diben hwn ac awgrymir ein bod yn gwneud hynny eto.
25. Golyga hynny fod angen cadw £5m yn ôl (10 mlynedd x £0.5m).
26. Gyda'r £9.2m sydd angen ei glustnodi ar gyfer adnewyddu fflyd a thechnoleg gwybodaeth, golyga hyn oll mai **£57.8m** sydd ar gael **ar hyn o bryd** i'w wario ar gynlluniau (gan dderbyn efallai y daw adnodd ychwanegol i'r amlwg yn y dyfodol).

#### **Blaenoriaethu'r rhestr cynlluniau**

27. O ystyried mai ein hasesiad presennol yw mai dim ond £57.8m fydd gennym i ariannu'r Cynllun Asedau dros y 10 mlynedd nesaf, o gadw'n hollol at y drefn y rhoddodd yr aelodau i'r cynlluniau yn yr ymarferiad ymgynghori, byddai hynny yn golygu y byddai cynlluniau uwchben rhif 32 yn debygol o gael eu cyflawni a rhai o dan hynny yn annhebygol o weld golau dydd oni bai fod mwy o adnoddau yn dod i law.
28. Y peth cyntaf y mae angen i'r Cabinet ei ystyried yw bod yna nifer o gynlluniau sy'n cynrychioli risgiau coch Iechyd a Diogelwch sydd yn y categori o beidio bod yn debygol o weld golau dydd sef -
  - Cynllun Rhif 40 - Canolfan Hamdden / Tennis Arfon
  - Cynllun Rhif 45 - Parc Padarn ; a
  - Cynllun Rhif 52 - Canolfan Hamdden Plas Silyn

Yn wyneb y risg sylweddol i fywyd ac i'r Cyngor, ni allwn beidio a chyfarch rhain ac **argymhellaf** eu bod yn cael eu dyrchafu i'r rhestr y bwriedir eu cyflawni.



29. Mae yna gynlluniau eraill sydd wedi eu hadnabod yn gategori risg oren unai oherwydd fod y goblygiadau o beidio a'u cyflawni yn eithriadol o ddifrifol yn nhermau cynaliadwyedd i'r dyfodol; materion cydraddoldeb neu ei fod yn golygu na fyddai modd i'r Cyngor wireddu ei amcanion llesiant yn y Cynllun Corfforaethol. Yn cynlluniau yma yw -

- Cynllun 33 - Hwb Iechyd a Gofal Penygroes
- Cynllun 35 - Cei Aberdyfi
- Cynllun 39 - Adnewyddu rhan o adeiladwaith Pont Ffordd Cadfan, Tywyn
- Cynllun 44 - Adnewyddu Pont Llanystumdwy
- Cynllun 46 - Canolfan Maesgeirchen
- Cynllun 47 - Adnewyddu Pont y Mwnwgl. Y Bala
- Cynllun 48 - Pont Penllyn ger Brynrefail
- Cynllun 49 - Adnewyddu systemau puro dŵr manddaliadau
- Cynllun 50 - Adnewyddu caeau chwarae pob tywydd
- Cynllun 54 - Cynnal a chadw lonydd glas

30. Gan gymryd nad yw'r Cyngor yn dymuno gweld ni'n cau lonydd neu gyfleusterau i drigolion ac yn dymuno gweld ni'n gallu cwrdd â'r gofynion buddsoddi i gyfarch anghenion ein poblogaeth fwyaf bregus, **argymhellaf** ein bod yn ceisio dod a'r cynlluniau yma i gyd i mewn i'r rhaglen hefyd.

31. Gyda'i gilydd felly byddai'r £57.8m sydd gennym £7.15m yn brin o'r hyn sydd ei angen i gyflawni hynny.

32. Gan ystyried ein bod ar hyn o bryd yn datblygu Strategaeth Tai ac y bydd hwnnw yn gwario symiau sylweddol yn y maes tai dros y 10 mlynedd nesaf, mae yna gwestiwn yn codi a ddylid gadael i rai o'r cynlluniau tai sydd uwchben cynllun rhif 32 gael eu hariannu o'r adnodd fydd ar gael ar gyfer y strategaeth honno. Wedi dweud hynny, ni fyddai'n briodol i ni drosglwyddo'r holl alwadau tai i'r Gronfa honno ac felly **argymhellaf** fod cynlluniau rhif 28 a 32 (Darparu Grantiau er mwyn cyllido Cynllun Tai Gwag y Cyngor ac Ariannu Pedwerydd Cynllun Tai Gofal Estynedig) yn cael eu trosglwyddo i'w hystyried o'r arian fydd ar gael ar gyfer y Strategaeth Tai.

33. Byddai hyn yn dal i adael Cynlluniau rhif 4 (Grantiau Tai) Cynllun Rif 19 (Hostel i'r Digartref) a chynllun rhif 30 (Ariannu trydydd cynllun tai gofal estynedig) yn cael ei ariannu o'r Cynllun Asedau.

34. Byddai hyn yn darganfod £5.5m o'r £7.15m yr ydym yn brin ohono.

35. Ers i adrannau gyflwyno eu hachosion am wariant cyfalaf mae Llywodraeth Cymru wedi nodi eu bod am ddarparu £1.3m y flwyddyn i ni am y tair blynedd

yn dechrau eleni ar gyfer gwella cyflwr ffyrdd ac felly, gan ystyried fod yr Adan wedi nodi eu bod angen £1m y flwyddyn yn ychwanegol i wella cyflwr ein ffyrdd o'r flwyddyn nesaf ymlaen mae modd cymryd fod y tair blynedd gyntaf am ddod felly gan Lywodraeth Cymru gan gynllunio i ariannu cynnydd o'r pedwerydd blwyddyn ymlaen os na fyddwn yn derbyn adnoddau pellach. Byddai hyn yn lleihau'r gofyn o £3.0m pellach ac **argymhellaf** ein bod yn gwneud hynny felly.

36. Byddai hynny yn gadael £1.35m heb ei ddyrannu.
37. Fodd bynnag mae yna ddau gynllun sydd wedi eu nodi yn risg oren fyddai'n parhau i fod o dan y lein, ac felly sydd angen sylw.
38. Byddai Cynllun 33 **Cael gwared ag ôl groniad cynnal a chadw** yn golygu y byddai'r ôl groniad hwnnw yn parhau a'r perygl yw y byddai'n golygu y byddai angen cau adeilad maes o law.
39. Gan mai hwn yw'r cynllun nesaf fyddai'n derbyn adnodd pe byddem yn darganfod mwy o adnoddau cyfalaf yna fe ddylem weld rhywfaint o adnodd yn dod i wneud y gwaith yma dros y cyfnod. Yn y cyfamser, gan ein bod wedi sicrhau fod yna gyllideb cynnal a chadw i sicrhau nad yw yn gwaethygu, os oes unrhyw elfen o'r ôl groniad yn golygu y byddai'n rhaid cau adeilad yna gellir gwyro rhywfaint o'r gyllideb cynnal a chadw arferol er mwyn gwneud y gwaith hwnnw ar sail achos wrth achos.
40. Gan fod y Cynllun diwethaf wedi adnabod yr asedau hynny oedd ar gael i'w gwerthu, ac wedi gwneud hynny er mwyn ariannu'r cynllun hwnnw, nid yw'r asesiad o adnodd fydd ar gael yn cymryd unrhyw dderbyniadau cyfalaf i ystyriaeth. **Argymhellaf** felly ein bod hefyd yn ymdrin â'r ôl-groniad cynnal a chadw drwy nodi y bydd unrhyw dderbyniad cyfalaf a ddaw i'n rhan yn mynd tuag at glirio'r ôl groniad hwnnw ac ein bod hefyd yn dyrannu £600,000 o'r £1.35m a nodir uchod er mwyn cychwyn ar y gwaith.
41. Yr ail gynllun yw Cynllun 41 **Cwblhau adolygiad o drefniadaeth addysg ym Mangor**.
42. Mae yna ddau ateb posibl yma. Yn gyntaf oll mae yna bosibilrwydd na fydd y Cynllun Ôl-16 sydd yn ymddangos yn rhif 29 yn y rhestr angen yr holl fuddsoddiad a glustnodwyd ar ei gyfer ac os felly, galwad cyntaf ar gyfer unrhyw ryddhad adnodd fydd y cynllun yma.
43. Fel arall, yr unig ateb wedyn yw y bydd yn rhaid i'r Adran ddarganfod yr arbedion refeniw i dalu am y benthyciad ychwanegol y byddai'n rhaid ei gymryd i ariannu'r

cynllun. O gofio nad ydym wedi gofyn i ysgolion gyfrannu at arbedion yn 2019/20 nid yw hynny yn afresymol ac **argymhellaf** ein bod yn dilyn y trywydd yma.

44. Mae yna hefyd un cynllun arall sy'n haeddu sylw sef cynllun rhif 42 Astudiaethau Dichonoldeb yr Adran Amgylchedd. Mae'r gyllideb yma yn cael ei defnyddio i lunio cynlluniau sydd wedyn yn gymwys i dderbyn grantiau i'w hariannu gan fod gennym gynlluniau yn barod ar y silff i fanteisio ar grantiau pan fyddant ar gael. Byddai methu a darparu unrhyw gyllid ar gyfer y maes yma yn gallu bod yn wrthgynhyrchiol i ni gan y byddem wedyn mewn lle lawer llai cymwys i fanteisio ar grantiau o'r fath. **Argymhellaf felly** ein bod yn darparu £750,000 sydd dros ben ar gyfer y maes yma dros oes y cynllun.
45. Yn y cynllun asedau diwethaf fe gymerwyd yr amcangyfrif o'r adnoddau oedd gennym ac fe gyfyngwyd y rhestr cynlluniau i'r adnoddau oedd ar gael.
46. Yn y cynllun newydd y bwriad yw cadw'r holl restr gan nodi lle bydd y lefel adnoddau a ragwelir yn debygol o fynd a ni (yn unol â'r hyn a nodir uchod) gan gadw gweddill y cynlluniau fel rhestr wrth gefn os cyfyd mwy o adnoddau dros gyfnod y cynllun.
47. **Argymhellir** felly bod y Cabinet yn derbyn yr argymhellion a wneir yng nghymalau 28; 30; 32 ; 35; 40; 43 a 44 uchod ac yn argymhell i'r Cyngor ei fod yn mabwysiadu'r Cynllun Asedau sydd ynghlwm i'r adroddiad hwn sy'n ymgorffori'r holl argymhellion hynny.

#### **Deddf Cydraddoldeb 2010 - Effaith ar rai gyda nodweddion gwarchoddedig**

48. Nid yw'r adroddiad yma yn argymhell unrhyw weithred sy'n mynd i amharu ar y gwasanaeth a ddarperir i unrhyw un sydd â nodweddion gwarchoddedig,. Yn wir, bwriad y Cynllun Asedau yw sicrhau ein bod yn cyfeirio unrhyw adnoddau cyfalaf sydd ar gael i'r manau hynny sydd am gael ardrawiad positif ar ein holl drigolion gan gynnwys y rhai hynny sydd â nodweddion gwarchoddedig.
49. Mae rhai cynlluniau, yn enwedig yn y maes gofal cymdeithasol, yn anelu i wella ansawdd y gwasanaeth i rai gyda nodweddion gwarchoddedig, ac mae'r cynlluniau hynny yn amlwg o'r rhestr. Lle 'roedd yna fudd anuniongyrchol ar rai gyda nodweddion gwarchoddedig, roedd y manylion am y cynlluniau a roddwyd i aelodau yn amlygu hynny.
50. Mae nifer o'r cynlluniau y byddwn yn blaenoriaethu ar y cychwyn yn disgyn i'r categori lle byddant yn gwella'r adnoddau sydd ar gael i rai gyda nodweddion gwarchoddedig.

51. Y gobaith yw y byddwn hefyd yn gallu cyflawni gweddill y cynlluniau os cyfyd adnoddau ar eu cyfer yn y cyfnod 10 mlynedd ond os cyfyd asesiad cydraddoldeb manylach fod yna ardrawiad nad oedd yn amlwg ar adeg ystyried y cynllun yma, bydd angen ail ymweld â'r drefn flaenoriaeth a osodir yn y cynllun hwn.

---

## **Sylwadau'r Swyddogion Statudol**

### **Swyddog Monitro**

Mae cyfrifoldeb sefydlu Cynllun Asedau i'w argymhell i'r Cyngor gan y Cabinet. Mae hynny yn golygu fod y Cabinet yn cloriannu a dod i safbwynt ar ystod o faterion gan gynnwys gofynion statudol a chyfreithiol, blaenoriaethau a chyfarch anghenion o fewn yr adnoddau a ragwelir. Darperir y wybodaeth ar gyfer dod i'r casgliad yma yn yr adroddiad a'r Cynllun Asedau Drafft.

### **Pennaeth Cyllid**

Cadarnhaf fod cyfrifwyr o'r Adran Gyllid wedi cydweithio gyda'r awdur i baratoi agweddau ariannol o'r cynllun yma ac rwy'n cefnogi'r penderfyniad a geisir.

## Atodiad 1

### Rhestr Blaenoriaethau'r aelodau

Ystyr y lliwiau = asesiad risg gan y Prif Weithredwr o'i farn ef o'r risg gymharol i bobl Gwynedd o beidio cwrdd â'r gofyn

Risg Sylweddol		Risg Cymhedrol	
Risg Uchel		Risg Isaf	

Rhif	Adran	Teitl	Disgrifiad	Cost dros y 10 mlynedd
1	Priffyrdd & Bwrdeistrefol	Caergylchu	Gwaith datblygu ac adnewyddu safle Caergylchu er mwyn cydymffurfio a safonau am y 10 mlynedd nesaf	£718,000
2	Amgylchedd	Gwaredu asbestos	Rhaglen i reoli cyflwr a gwaredu asbestos sydd yn cyrraedd cyflwr peryglus yn ein heiddo	£1,708,000
3	Priffyrdd & Bwrdeistrefol	Adnewyddu Pibelli Dwr Stadau Tai	Rhaglen adnewyddi pibellau dwr gyda CCG (wedi cychwyn 2016)	£2,400,000
4	Oedolion, Iechyd & Llesiant	Grantiau Tai	Darparu'r £1.3M y flwyddyn ar gyfer cyfarch gofynion statudol grantiau tai	£13,000,000
5	Oedolion, Iechyd & Llesiant	Canolfan Dolfeurig	Adeilad newydd ar gyfer gwella darpariaeth gofal dydd i oedolion gydag anableddau dysgu i ddisodli adeilad anaddas sydd yn aneffeithlon ei gynnal yn y dyfodol	£1,200,000
6	Priffyrdd & Bwrdeistrefol	Atal Dirywiad Ffyrdd	Gwneud mwy o waith cynnal ffyrdd i atal dirywiad cyflwr ffyrdd Dosbarth 1,2, a 3	£10,000,000
7	Oedolion, Iechyd & Llesiant	Cartref Preswyl Tanymarian	Addasu rhan o'r Cartref er mwyn gallu cynnig gofal ysbaid arbenigol yn bennaf i oedolion gydag anableddau corfforol dwys.	£200,000
8	Priffyrdd & Bwrdeistrefol	Tir claddu	Sicrhau tir claddu digonol ar gyfer y 10 mlynedd nesa	£682,000
9	Addysg	Ysgol Trefertyr	Ysgol newydd i ddisodli adeilad mewn cyflwr difrifol na ellir ei gynnal yn y dyfodol.	£1,750,000
10	Ymgynghoriaeth	Promenâd y Gogledd, Bermo - Atal Llifogydd	Gwaith atgyweirio wal sydd wedi dirywio sy'n amddiffyn rhag llifogydd o'r mor a hefyd uwchraddio system traenio bresennol i leihau risg llifogydd i 200 eiddo.	£347,500
11	Oedolion, Iechyd & Llesiant	Cartref Preswyl Plas Pengwaith	Addasu'r Cartref Preswyl i sicrhau fod posib ymateb i anghenion mwy dwys a chefnogi cyfnod diwedd oes / anghenion iechyd.	£400,000

12	Ymgynghoriaeth	Hirael, Bangor - Atal Llifogydd	Gwaith atgyweirio wal syn amddiffyn rhag llifogydd o'r mor a hefyd uwchraddio system traenio bresennol i leihau risg llifogydd i 120 eiddo.	£312,000
13	Ymgynghoriaeth	Pwllheli - Atal Llifogydd	Gwaith amddiffynnol ar draeth Crugan i leihau risg yn y tymor byr i 200 o dai yn Bwllheli tra'n cynllunio at ddatrysiad mwy cynhwysfawr.	£500,000
14	Priffyrdd & Bwrdeistrefol	Adnewyddu rhannau o adeiladwaith Pont Capel Horeb, Arthog	Pont Newydd gan nad yw'n hyfyw i barhau i gynnal y bont bresennol.	£632,700
15	Priffyrdd & Bwrdeistrefol	Adnewyddu ffensys diogelwch ffyrdd	Adnewyddu ffensys is-safonol	£1,000,000
16	Oedolion, Iechyd & Llesiant	Cartref Preswyl Plas Hafan	Ymhellach i'r datblygiad sy'n cymryd lle ar hyn o bryd, datblygu uned Dementia arbenigol i gynnig gwasanaeth dydd, preswyl ac ysbaid.	£300,000
17	Oedolion, Iechyd & Llesiant	Cartref Preswyl Plas Hedd	Ymhellach i'r Uned Dementia sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, byddai'r cynllun hwn yn golygu datblygu Uned Dementia arbenigol ar gyfer pobl ifanc sydd â Dementia.	£125,000
18	Priffyrdd & Bwrdeistrefol	Adnewyddu rhannau o adeiladwaith Pont Dysynni, Tywyn	Ail osod parapet a pheintio Pont Dysynni, Tywyn	£401,000
19	Oedolion, Iechyd & Llesiant	Hosteli Digartrefedd	Darparu hosteli newydd ar gyfer y digartref.	£500,000
20	Oedolion, Iechyd & Llesiant	Cartref Preswyl Cefn Rodyn	Addasu'r Cartref Preswyl i sicrhau fod posib ymateb i anghenion mwy dwys a chefnogi cyfnod diwedd oes / anghenion iechyd.	£400,000
21	Oedolion, Iechyd & Llesiant	Cartref Preswyl Bryn Blodau	Newid balans y defnydd o fewn y cartref i gynnig amrediad ehangach o wasanaethau ar y cyd gyda datblygiad newydd yr ysbyty.	£300,000
22	Priffyrdd & Bwrdeistrefol	Llifogydd ar y Briffordd	Rhaglen o gynlluniau bychain i osgoi difrod i dai pan fydd gorlifant dwr wyneb o'r briffordd.	£1,000,000
23	Priffyrdd & Bwrdeistrefol	Adnewyddu goleuadau traffig	Adnewyddu colofnau a goleuadau traffig ar ddiwedd eu hoes	£650,000
24	Oedolion, Iechyd & Llesiant	Cartref Preswyl Hafod Mawddach	Datblygu uned dementia arbenigol, i gynnig gwasanaeth dydd, preswyl ac ysbaid.	£400,000

25	Addysg	Uwchraddio cyflwr ac addasrwydd ysgolion	Uwchraddio cyflwr ac addasrwydd oddeutu 30 o ysgolion na fyddant yn debygol o fod yn gymwys ar ben eu hunain ar gyfer cynllun i'w gwneud yn addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.	£3,570,000
26	Ymgynghoriaeth	Ffordd y Traeth, Y Felinheli - Atal Llifogydd	Gwaith i godi wal i atal llifogydd o'r mor a lleihau risg llifogydd i 33 o dai.	£138,800
27	Priffyrdd & Bwrdeistrefol	Coed Ffridd Arw	Gwaith datblygu er mwyn cydymffurfio i gael trwydded lawn i'r safle trosglwyddo	£210,000
28	Oedolion, Iechyd & Llesiant	Grantiau Tai ar gyfer y Cynllun Tai gwag	Darparu Grantiau er mwyn cyllido Cynllun Tai Gwag y Cyngor	£3,000,000
29	Addysg	Darpariaeth ar gyfer addysg ôl 16	Cynllun posibl er mwyn sicrhau darpariaeth addysg ôl 16 addas yn Arfon.	£6,300,000
30	Oedolion, Iechyd & Llesiant	Tai Gofal Estynedig	Ariannu <b>trydydd</b> cynllun Tai Gofal Estynedig yn ychwanegol i'r ddau fydd yn cael eu hariannu drwy Grant Tai Cymdeithasol.	£2,500,000
31	Ymgynghoriaeth	Gerddi Traphont, Bermo - Atal Llifogydd	Gwaith atgyweirio wal syn amddiffyn rhag llifogydd o'r mor a hefyd uwchraddio system traenio bresennol i leihau risg llifogydd i 50 eiddo.	£312,000
32	Oedolion, Iechyd & Llesiant	Tai Gofal Estynedig	Ariannu <b>pedwerydd</b> cynllun Tai Gofal Estynedig yn ychwanegol i'r ddau fydd yn cael eu hariannu drwy Grant Tai Cymdeithasol.	£2,500,000

33	Oedolion, Iechyd & Llesiant	Hwb Iechyd a Gofal Penygroes	Cynllun i ddarparu 'Hwb' gofal iechyd i gynnwys meddygfa leol, deintyddfa, clinigau Iechyd, Canolfan Cefnogi Plant a Theuluoedd a siop, ymestyn a gwella Plas Gwilym, Smarthouse (offer OT/Teleofal), Cyfleusterau gofal wrth deithio, Tai/Unedau byw ar gyfer pobl hyn ac unigolion gyda gofynion penodol ac o bosib pobl ifanc.	£3,500,000
34	Amgylchedd	Cynnal a Chadw Adeiladau - cael gwared a'r ôl-groniad cynnal a chadw	Delio gyda'r diffygion sydd wedi eu hadnabod mewn arolygon o gyflwr ein adeiladau gweithredol e.e. Ail weirio, ail doi, bwyleri newydd, ffenestri newydd, ceginau a thoiledau newydd ayb	£14,000,000
35	Ymgynghoriaeth	Cei Aberdyfi	Ail adeiladu cei sydd bellach mewn cyflwr bregus ac yn annigonol i warchod rhag y llanw.	£437,500
36	Oedolion, Iechyd & Llesiant	Grantiau Tai ar gyfer gwella cyflwr a diogelwch tai is safonol	Darparu Grantiau er mwyn gwella cyflwr a diogelwch tai is safonol	£4,000,000
37	Priffyrdd & Bwrdeistrefol	Meysydd Chwarae	Adnewyddu offer chwarae a mesurau diogelwch mewn meysydd chwarae	£516,000
38	Priffyrdd & Bwrdeistrefol	Gosod offer talu am ddefnyddio doiledau cyhoeddus	Gosod offer codi ffi ar doiledau sydd i'w trosglwyddo i'r gymuned	£165,000
39	Priffyrdd & Bwrdeistrefol	Adnewyddu rhannau o adeiladwaith Pont Cadfan Road, Tywyn	Gwaith adnewyddu er mwyn gallu parhau i ddefnyddio'r bont - adnewyddu'r system gwarchodaeth paent.	£101,500
40	Economi a Chymuned	Canolfan Hamdden Arfon / Tennis	Ehangu'r maes parcio i gwsmeriaid a staff oherwydd risgiau iechyd a diogelwch yn deillio o fethu gwahanu cerddwyr a cherbydau (angen o leiaf 50 manau parcio ychwanegol)	£150,000
41	Addysg	Cwblhau adolygiad o drefniadaeth addysg ym Mangor.	Buddsoddiad yn adeiladau ysgolion uwchradd Bangor er mwyn darparu adnoddau addysg o'r safon disgwylidig ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain i'n plant a'n pobl ifanc, fyddai'n ddilyniant i'r buddsoddiad a welwyd yn ysgolion cynradd y ddinas.	£6,340,000
42	Amgylchedd	Astudiaethau Dichonoldeb y Gwasanaeth Trafnidiaeth	Cynnal astudiaethau dichonoldeb a cwblhau gwaith rhagbaratoi i'n galluogi i ymgeisio am arian grant sylweddol tuag at gynlluniau hanfodol i ddelio gyda materion diogelwch priffyrdd neu waith atgyweirio sylweddol.	£1,000,000



43	Ymgynghoriaeth	Tremadog - Atal Llifogydd	Gwaith i uwchraddio system traenio diffygiol presennol i leihau risg llifogydd i 20 o dai.	£75,000
44	Priffyrdd & Bwrdeistrefol	Adnewyddu rhannau o adeiladwaith Pont Llanystumdwy	Gwaith adnewyddu er mwyn gallu parhau i ddefnyddio'r bont - gwaith i gryfhau bwa	£154,800
45	Economi a Chymuned	Parc Padarn	Buddsoddi mewn llwybrau a henebion er mwyn delio gyda risgiau iechyd a diogelwch	£175,000
46	Plant	Canolfan Maesgeirchen / Ty Cegin	Datblygu darpariaeth i gefnogi teuluoedd yn ardal Maesgeirchen Bangor	£500,000
47	Priffyrdd & Bwrdeistrefol	Adnewyddu rhannau o adeiladwaith Pont Mwnwgl y Llyn, Y Bala	Gwaith adnewyddu er mwyn gallu parhau i ddefnyddio'r bont - 'bearings' newydd ac atgyweirio strwythurwaith concriid i Bont Mwnwgl y Llyn, Bala	£380,500
48	Priffyrdd & Bwrdeistrefol	Adnewyddu rhannau o adeiladwaith Pont Penllyn, ger Brynrefail	Gwaith adnewyddu er mwyn gallu parhau i ddefnyddio'r bont - atgyweirio 'expansion joint'	£108,000
49	Amgylchedd	Manddaliadau	Adnewyddu systemau puro dwr yfed mewn 12 o fanddaliadau	£400,000
50	Economi a Chymuned /Addysg	Caeau Chwarae Aml Bwrpas	Adnewyddu caeau "astroturf" sydd yn dod i ddiwedd eu hoes mewn ysgolion uwchradd neu ganolfannau hamdden mewn 10 lleoliad yng Ngwynedd	£1,300,000
51	Ymgynghoriaeth	Waterloo Port, Caernarfon - Amddiffyn yr arfordir	Gwaith amddiffyn yr arfordir i warchod 8 tŷ a llwybr beicio	£55,000
52	Economi a Chymuned	Canolfan Hamdden Plas Silyn	Ail-ddylunio'r maes parcio i gael system un ffordd, creu manau gollwng a phigo fyny a chreu manau parcio ychwanegol ar y safle	£100,000
53	Ymgynghoriaeth	Penpaled, Criccieth - Amddiffyn yr arfordir	Gwaith uwchraddio asedau presennol i leihau risg llifogydd i 4 o dai.	£45,000
54	Amgylchedd	Cynnal y rhwydwaith lonydd glas	Gwaith cynnal ar y lonydd glas er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n agored ac ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio.	£140,000
55	Economi a Chymuned	Pwll Nofio Bangor	Adnewyddu ac addasiadau mewnol er mwyn gwneud defnydd gwell o'r gofod	£500,000
56	Economi a Chymuned	Hafan Pwllheli	Adnewyddu'r pontwŷns a stanciau.	£700,000
57	Economi a Chymuned	Neuadd Dwyfor	Buddsoddi yn yr adeilad er mwyn gwella'r cyfleusterau a'r posibilrwydd o ganoli gwasanaethau Pwllheli	£350,000

58	Economi a Chymuned	Canolfan Hamdden Plas Ffrancon, Ogwen	Gwaith i newid y gofod nol i ofynion hamdden pe byddai cytundeb Dechrau'n Deg yn dod i ben, bydd angen	£100,000
59	Amgylchedd	Gwella'r rhwydwaith lonydd glas	Gwella'r lonydd glas presennol.	£60,000
60	Economi a Chymuned	Gwasanaeth Llyfrgelloedd	Addasiadau mewnol i Lyfrgell Pwllheli er mwyn darparu gofod i gyflawni amcanion Strategaeth Llyfrgelloedd Gwynedd – Mwy na Llyfrau	£120,000
61	Economi a Chymuned	Canolfan Hamdden Dwyfor	Ehangu'r maes parcio gan ddefnyddio ardal y cyrtiau tenis o flaen yr adeilad (angen o leiaf 25 man parcio ychwanegol)	£75,000
62	Economi a Chymuned	Llyfrgell Bangor	Addasu adeilad Llyfrgell Bangor presennol, neu ail-leoli, er mwyn cynnig gwell ddarpariaeth.	£300,000



# Cynllun Asedau Cyngor Gwynedd 2019/20 – 2028/29

## Rhagarweiniad

1. Hwn yw Cynllun Asedau Cyngor Gwynedd ar gyfer y cyfnod 10 mlynedd sy'n cychwyn yn 2019/20.
2. Cynllun Corfforaethol y Cyngor sy'n gosod allan beth yw amcanion a blaenoriaethau gwella'r Cyngor ynghyd a'i amcanion llesiant yn unol â gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
3. Er mwyn cyflawni'r amcanion yma, mae gwasanaethau yn gorfod defnyddio nifer o amrywiol asedau.
4. Cam cyntaf creu'r Cynllun yma oedd gofyn i adrannau'r Cyngor nodi pa gynlluniau cyfalaf yr oeddent angen eu gwireddu dros y 10 mlynedd nesaf er mwyn cyflawni'r amcanion hynny.
5. Cafodd pob aelod o'r Cyngor gyfle i chwarae rhan yn y broses o flaenoriaethu'r cynlluniau hynny drwy adnabod y flaenoriaeth yr oedd ef neu hi yn ystyried y dylid ei roi i gynllun unigol ac fe ystyriodd y Cabinet yr hyn ddaeth allan o'r broses honno wrth lunio'r Cynllun yma.
6. Heblaw am rai cynlluniau penodol lle 'roedd angen rhoi pwyslais priodol i'r risg oedd ynghlwm a pheidio â chyflawni cynllun penodol, yn gyffredinol, bu i'r Cabinet ddilyn y rhestr flaenoriaeth a nodwyd gan yr aelodau yn ystod y drefn ymgynghori
7. Mae'r Cynllun Asedau yma felly yn cymryd yr holl anghenion gwariant cyfalaf y mae'r adrannau wedi nodi y maent eu hangen er mwyn cyflawni'r hyn sydd yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor ac yn pwysu a mesur y flaenoriaeth gymharol.
8. Yn amlwg, byddai'r Cyngor yn dymuno cyflawni pob cynllun yr oedd yr Adrannau wedi eu hadnabod ond o ystyried yr hyn a wyddom ar hyn o bryd am yr adnoddau fydd ar gael i'r Cyngor dros y cyfnod 10 mlynedd nesaf, ni fydd yr adnoddau hynny yn caniatáu i ni wneud pob un cynllun.
9. Wedi dweud hynny, fe all y sefyllfa newid dros y cyfnod hwnnw a byddwn yn adolygu'r cynllun hwn yng ngoleuni unrhyw adnoddau pellach a ddaw neu unrhyw newid mewn amgylchiadau.
10. Bydd y Cynllun yma yn gosod strategaeth ar gyfer gwariant gyfalaf ar gyfer y 10 mlynedd i ddod a hwn felly fydd yn gyrru ein cyllidebau cyfalaf blynyddol.

## ADNODDAU

11. Cyd-destun allweddol i hyn oll wrth gwrs yw'r adnodd sy'n debygol o fod ar gael i ariannu'r Cynllun.
12. Dengys lefel ein setliad cyfalaf presennol ein bod yn derbyn £6.6m o adnodd cyfalaf bob blwyddyn. Dros gyfnod o 10 mlynedd felly rhagwelir y bydd gennym £66m.
13. Ar ben hynny, mewn datganiad cyllidebol diweddar mae Prif Weinidog Cymru wedi datgan y bydd yn darparu £100m ychwanegol i awdurdodau lleol i wario ar gyfalaf dros gyfnod o 3 blynedd. Mae'r ddwy elfen gyntaf eisoes yn cael eu talu i ni yn 2018/19 a 2019/20 ac amcangyfrifir mai tua £4.5m fydd ein siâr ni o'r adnodd yma. Mae yna hefyd £1.4m o gronfa'r hen Gynllun Asedau ar gael o hyd yn gwneud cyfanswm adnoddau ar gael dros y cyfnod 10 mlynedd o **£72m**.
14. Mae'n bosibl dros y 10 mlynedd nesaf y byddwn yn gweld mwy o adnoddau yn dod i'n rhan drwy grantiau penodol at ddibenion penodol a dylem fod yn fyw i hyn oll er mwyn ceisio uchafu'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer ein hanghenion craidd.
15. Dros gyfnod o 10 mlynedd mae yna debygolrwydd cryf hefyd y byddwn yn gwaredu rhai asedau fydd yn ychwanegu at yr adnodd sydd ar gael ond gan fod Cynllun Cyfalaf y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2009-2018 eisoes wedi ei seilio ar werthu nifer fawr o asedau nad oedd eu hangen arnom, ni welir cyfleoedd amlwg ar hyn o bryd i ychwanegu gydag unrhyw sicrwydd at yr adnodd sydd gennym.
16. Nodir isod yr anghenion gwario sydd wedi cael eu hadnabod gan y gwahanol adrannau. Nodir y cynlluniau mewn 3 grŵp -
  - Cynlluniau y mae modd eu cyflawni o fewn yr amlen adnoddau sydd gennym;
  - Cynlluniau lle bydd yn rhaid eu cyfarch drwy ddull arall;
  - Cynlluniau lle bydd angen aros i weld a allwn ychwanegu at yr adnodd fydd gennym cyn y gellir eu cyflawni.
17. Os daw adnoddau pellach i'n rhan unai drwy grantiau penodol i gynlluniau sydd yn derbyn cymeradwyaeth neu fel arall byddwn yn blaenoriaethu'r cynlluniau na ellir eu cymeradwyo ar hyn o bryd yn y drefn a nodir yn rhan C isod sy'n cynrychioli'r drefn flaenoriaeth a roddwyd iddynt gan y Cyngor.

### **Adran Addysg**

- 18. Cynllun posibl ar gyfer sicrhau darpariaeth ôl-16 addas ar gyfer Arfon. (£6,300,000)** Mae yna adolygiad o'r ddarpariaeth ôl-16 yng Ngwynedd yn mynd rhagddo, gyda ffocws amlwg ar ysgolion Arfon, ble mae disgyblion ôl-16 yn derbyn eu haddysg yn yr ysgolion uwchradd yn hytrach na mewn darpariaeth Coleg trydyddol fel sy'n digwydd yng ngweddill y sir. Bydd Cyngor Môn yn edrych ar y ddarpariaeth hon ar yr un pryd. Er na wyddom eto beth yn union fydd casgliad yr ymchwil, gan dderbyn y bydd yna bosibilrwydd cryf y bydd yna angen gwariant cyfalaf er mwyn cyflawni unrhyw ateb boed drwy'r ysgolion neu unrhyw ateb arall, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cytuno mewn egwyddor i gynnwys yr arian cyfatebol fel rhan o'r buddsoddiad ym Mand B y Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif sy'n golygu y byddwn yn derbyn 65% o gost posibl y cynllun (£18m) drwy grant. Mae'n bosibl y bydd y gost yn llai yn ddibynnol ar yr ateb a ddaw i'r amlwg yn yr adolygiad.
- 19. Ysgol newydd i ddisodli adeilad Ysgol Treferthyr, Criccieth sydd mewn cyflwr difrifol. (£1,750,000)** Mae adeilad presennol Ysgol Treferthyr mewn cyflwr difrifol (yr unig ysgol yng Ngwynedd sydd yng Nghategori C neu is). Mae'r arian cyfatebol ar gyfer ysgol newydd wedi'i gytuno mewn egwyddor yng nghynlluniau Band B Llywodraeth Cymru sy'n golygu y bydd 65% o gyfanswm cost y cynllun (£5m) yn dod drwy grant .
- 20. Uwchraddio cyflwr ac addasrwydd ysgolion. (£3,570,000)** Mae'r Cyngor wedi buddsoddi eisoes yn y maes ysgolion er mwyn codi ansawdd ein hysgolion ac mae Llywodraeth Cymru wedi adnabod hynny drwy gytuno mewn egwyddor i neilltuo swm cyfatebol o arian ym Mand B er mwyn cynorthwyo'r Cyngor i wireddu'r rhaglen ymhellach sy'n golygu y bydd 65% o gyfanswm cost y cynllun (£10.2m) yn dod drwy grant.

### **Adran Amgylchedd**

- 21. Cynnal astudiaethau dichonoldeb a gwaith rhagbaratoi er mwyn denu grantiau tuag at gynlluniau ffyrdd ac amgylcheddol. (£750,000).** Mae cyflawni astudiaethau dichonoldeb a gwneud gwaith rhagbaratoi yn caniatáu i ni ddwyn perswâd ar ystod o gyrff cyhoeddus a thirfeddianwyr i ariannu cynlluniau o fewn y sir ac yn ei galluogi i ymateb yn sydyn pan ddaw grantiau ar gael. Ers 2005, mae'r Cyngor wedi gallu cyflawni gwerth oddeutu £75 miliwn o brosiectau cyfalaf i wella isadeiledd priffyrdd ac mae rhan helaeth o'r rhain (89%) wedi eu hariannu gyda grantiau neu gyfuniad o grantiau, gyda 70% wedi eu cefnogi gydag astudiaeth dichonoldeb. Byddai

methu gallu cyflawni astudiaethau dichonoldeb yn lleihau'r gallu i wneud hyn. Roedd yr Adran wedi nodi fod angen £1m dros oes y Cynllun ond nid yw'r adnodd gennym i fedru cwrdd â'r swm hwnnw yn gyfangwbl ac felly byddwn yn darparu £750,000 ar gyfer y maes yma.

22. **Cynnal y rhwydwaith lonydd glas. (£140,000)** Mae'r rhwydwaith lonydd glas yn denu dros 300,000 o siwrneiau yn flynyddol ac mae wedi'i ddatblygu dros yr 20 mlynedd ddiwethaf ar gost o oddeutu £5 miliwn (drwy grantiau allanol yn bennaf). Fodd bynnag mae angen eu cynnal ac oni bai ein bod yn gwneud y gwaith cynnal angenrheidiol yma mae yna berygl y byddai'n rhaid cau rhai rhannau.
23. **Gwaredu asbestos yn ein hadeiladau. (£1,708,000)** Mae'r Cyngor yn flynyddol yn archwilio pob darn o asbestos sydd yn ein hadeiladau, yn unol â'r gofynion statudol. Os bydd yr asbestos mewn cyflwr peryglus, mae'n rhaid ei waredu neu fel arall bydd yr adeilad yn gorfod cau. Mae oblygiadau difrifol i iechyd defnyddwyr adeiladau os na reolir asbestos yn ofalus iawn. Hwn yw'r swm yr amcangyfrifir y bydd ei angen dros y blynyddoedd er mwyn cwrdd â'r angen.
24. **Adnewyddu ein systemau puro dŵr yfed o fewn y manddaliadau (£400,000).** Mae rhai manddaliadau wedi eu lleoli mewn llefydd anghysbell sydd heb fynediad at gyflenwad dŵr cyhoeddus. Mae'r teuluoedd sy'n byw yno yn ddibynnol ar allu defnyddio dŵr o fynnon neu gronfeydd naturiol. Nid yw'r dŵr hwn yn addas i'w yfed heb ei buro ac mae'r systemau puro bellach yn hen ac yn dirwyn i ben eu hoes.

#### **Adran Economi a Chymuned.**

25. **Materion Iechyd a Diogelwch mewn canolfannau hamdden (£250,000)** – mae asesiadau iechyd a diogelwch wedi dangos fod yna risgiau oherwydd nad ydym wedi gwahanu traffig a phobl yn ddigonol yng Nghanolfannau Hamdden Plas Silyn, Penygroes a Chanolfan Denis Arfon, Caernarfon. Mae angen cyfarch hynny drwy gyflawni gweithfeydd i wella'r sefyllfa.
26. **Parc Padarn, Llanberis (£175,000)** - Mae'r safle yma yn amlwg yn llawn risgiau gan mai chwarel ydyw. Mae'n cynnwys rhwydwaith o lwybrau sydd yn agored i'r cyhoedd - a hynny drwy hen chwareli a choedwig hynafol. Mae'r ardal chwareli yn cynnwys nifer o hen adeiladau sydd bellach yn dirywio ac yn disgyn (toeau, waliau ac ati). Yn ogystal, mae nifer sylweddol o goed (dros 100 o goed derw) wedi disgyn mewn stormydd diweddar. Ystyrir fod angen cyflawni gwaith er mwyn gwarchod diogelwch ymwelwyr i'r Parc a defnyddwyr llwybrau cyhoeddus perthnasol.

27. **Caeau Chwarae Amlbwrpas (£1,300,000)** - Datblygwyd nifer o gaeau astroturf yn y 90au sy'n cael eu defnyddio'n helaeth gan ysgolion a'r gymuned ehangach. Bellach mae oes y caeau yn dirwyn i ben ac os na ellir eu hadnewyddu yna byddant yn beryglus i'w defnyddio a bydd rhaid eu cau. Bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar allu ysgolion i gwrdd â'r cwricwlwm ymarfer corff ac ar nifer sylweddol o glybiau) pêl droed, hoci, rygbi ayb (rhai plant ac oedolion).

### **Adran Blant a Theuluoedd**

28. **Canolfan Maesgeirchen/Ty Cegin (£500,000)** - Mae ein strategaeth ar gyfer cefnogi teuluoedd yn ei ddyddiau cynnar ond un sicrwydd yw bod ardal Maesgeirchen Bangor yn haeddu sylw penodol o ran darparu cymorth. Er bod gan y Cyngor bresenoldeb yno ar hyn o bryd mae yna ddadl fod angen darpariaeth wahanol os ydym am wireddu ein gweledigaeth yn ein strategaeth cefnogi teuluoedd. Er nad ydym hyd yma wedi diffinio yn union beth sydd angen ei wneud, yn amlwg fe fydd angen buddsoddi os am gyflawni'r amcan o weld yr egwyddor o "un gwasanaeth" yn cael ei wireddu a thra bydd modd targedu rhywfaint o grantiau efallai bydd yn rhaid i'r Cyngor gyfrannu hefyd.

### **Oedolion Iechyd a Llesiant**

29. **Grantiau Addasiadau Tai (£13,000,000)** - Mae cyfran sylweddol o'r swm grantiau tai yn wariant statudol ar addasiadau (tua £1.3m y flwyddyn) i alluogi pobl anabl allu parhau yn eu cartrefi neu i hwyluso gadael yr ysbyty. Y cyllid yma sy'n talu am Grant Addasiadau Anabl - DFG a'r cynllun man addasiadau i eiddo. Mae yna ddyletswydd arnom i ddarparu addasiadau os yw asesiad wedi nodi ei bod yn hanfodol ac angenrheidiol. Mae addasiadau yn bwysig i hyrwyddo annibyniaeth ac i gefnogi gofawyr gan osgoi heriau.

30. **Hosteli i'r Digartref (£500,000)** - Mae natur yr adnoddau presennol wedi dyddio ac mae angen buddsoddi ac addasu er mwyn gallu darparu gwasanaeth o safon a chydymffurfio a disgwyliadau o ran ansawdd. Heb uwchraddio, bydd heriau at y dyfodol, o ran gwarchod buddiannau a phreifatrwydd unigolion yn cynyddu, yn enwedig o ran y gofyn presennol i rannu rhai adnoddau fel ystafelloedd ymolchi a cheginau.

31. **Tai Gofal Estynedig (£2,500,000)** - Mae Tai Gofal estynedig yn caniatáu i ni gwrdd â gwir anghenion bobl hyn drwy gynnig eiddo iddynt sy'n caniatáu iddynt fyw bywydau annibynnol tra'n derbyn cefnogaeth briodol o gefnogaeth. Mae'r galw yn cynyddu a thra rydym yn debygol o fedru datblygu 2 safle o'r fath drwy fanteisio ar grantiau ayb mae yna gyfle i ehangu'r ddarpariaeth i unigolion ac anabledau dysgu, anabledau corff a chyflyrau iechyd meddwl yn ogystal â darpariaeth i bobl hyn yn unig.



Byddai'r ddarpariaeth yn golygu fod unigolion yn cael eu tenantiaeth eu hunain ac yn gallu derbyn cefnogaeth amserol petai angen i'w galluogi i barhau yn annibynnol am gyhyd ag sy'n bosib yn eu cymunedau lleol. Mae yna dystiolaeth fod yn bosib darparu gofal i unigolion ac anghenion gofal dwys iawn o fewn y cynlluniau. Maent hefyd yn galluogi i gyplau allu aros gyda'i gilydd a derbyn cefnogaeth ac yn galluogi teuluoedd i barhau i ddarparu elfennau o gefnogaeth petaent yn dymuno.

32. Roedd yr Adran wedi gofyn am adnodd i gyflawni dau gynllun arall ar gost o £5m. Mae'r Cynllun yn darparu adnodd ar gyfer un gan drosglwyddo'r ystyriaeth o ail gynllun i'w ystyried o ran blaenoriaethau'r Strategaeth Tai.
33. **Hwb Iechyd a Gofal Penygroes (£3,500,000)** - Cynllun blaengar fyddai hwn i ddarparu hwb iechyd a gofal integredig gyda'r cyfle i ddefnyddio'r datblygiad fel catalydd ar gyfer adferiad cymunedol ac economaidd ar yr un pryd. Byddai'r cynllun yn sicrhau ymateb amserol, gan y person mwyaf addas i drigolion yn lleol. Byddai'n datblygu cydweithio ac integreiddio rhwng y gymuned leol, trydydd sector a chyrff statudol i wneud y defnydd gorau o adnoddau er mwyn cwrdd â'r hyn sy'n bwysig i'r gymuned. Mae lleoliad daearyddol Penygroes yn golygu y byddai'r datblygiad o fudd i'r gymuned leol ac i drigolion y Sir yn ehangach. Byddai'r cynllun yn cynnwys darpariaeth tai ar gyfer pobl hyn ac unigolion gyda gofynion penodol ac yn creu cyfle i addasu'r ddarpariaeth gofal a gynigir o gartref preswyl Plas Gwilym. Byddai datblygu cyfleuster offer sy'n galluogi treialu offer arbenigol i sicrhau addasrwydd cyn darparu neu brynu offer eu hunain yn sicrhau gwasanaeth lleol sy'n gallu ymateb yn amserol. Yn yr un modd, mae cyfle yma i gryfhau darpariaeth sirol ar gyfer cefnogi plant a theuluoedd yn enwedig trwy bartneriaethu ar waith ataliol.
34. **Canolfan Dolfeurig, Dolgellau (£1,200,000)** - Yn ein hymgais i sicrhau fod pobl gydag Anabledau Dysgu yn cael byw bywydau cyflawn a chwarae rhan o fewn cymdeithas, rydym yn darparu cyfleoedd iddynt yn ystod y dydd ym Meirionnydd yng Nghanolfan Dolfeurig. Mae'r adeilad mewn cyflwr gwael ofnadwy ac yn anaddas at ei bwrpas. Mae'n codi sawl pryder o ran materion iechyd a diogelwch. Mae adroddiad yr Adran Eiddo yn nodi y byddai'r gost o drwsio'r adeilad yn iawn i gynnal gwasanaeth am 20-25 mlynedd yn gwneud llai o synnwyr nag adeiladu adnodd llai gyda gofod pwrpasol. Byddai hyn hefyd yn lleihau costau rhedeg a chynnal. Y nod fyddai datblygu hwb cymunedol yn yr adeilad yma er mwyn parhau gwasanaethau presennol ar y safle a datblygu ystod eang o gyfleon dydd a gwaith i oedolion gydag anabledau dysgu yn ne'r Sir. Yn ogystal, bydd modd datblygu ystod o wasanaethau a gwaith grŵp i'w gynnal o'r Hwb.
35. **Cartrefi Henoed (£2,125,000)** - Mae gennym nifer o gartrefi preswyl sydd angen eu haddasu fel bod mod di ni ddarparu gwasanaeth sy'n cyfarch gwir

anghenion ein trigolion i'r dyfodol. Byddai hynny yn golygu datblygu mwy o ddarpariaeth dementia arbenigol; a medru cyfarch anghenion mwy dwys fel anghenion iechyd a chefnogi cyfnod diwedd oes, ynghyd a medru darparu gofal ysbaid ar gyfer anabledau corfforol. Y cartrefi dan sylw yw -

- Cartref Preswyl Hafod Mawddach, Abermaw
- Cartref Preswyl Bryn Blodau, Blaenau Ffestiniog
- Cartref Preswyl Cefn Rodyn, Dolgellau
- Cartref Preswyl Plas Hafan, Pwllheli
- Cartref Preswyl Plas Hedd, Bangor
- Cartref Preswyl Plas Pengwaith, Llanberis
- Cartref Preswyl Tany Marian, Pwllheli

### **Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol**

36. **Atal Dirywiad Cyflwr Ffyrdd (£7,000,000)** - Tra bod cyflwr cymharol ein ffyrdd dosbarth A a B yn ein gwneud yn "ganolig" yn y tablau cenedlaethol, mae cyflwr ein ffyrdd Dosbarth C - sef yr hyd fwyaf sydd gennym yn y 18fed safle drwy Gymru. Nid yw'r gwariant cyfredol ar gynnal ffyrdd (sef cyllideb referniw o £6.961m) yn ddigon i osgoi dirywiad ac ar y lefel presennol o wariant rhagwelir dirywiad o tua 1% y flwyddyn. I gadw'r ffyrdd ar eu cyflwr presennol, amcangyfrifir y byddai angen buddsoddiad ychwanegol o tua £1m y flwyddyn. Yn naturiol, os am weld gwellhad byddai angen gwario mwy.
37. Byddwn yn derbyn £3.9m o adnoddau ychwanegol ar gyfer ein ffyrdd gan Lywodraeth Cymru fydd yn ddigonol i gyfarch yr angen am dair blynedd gyntaf y cynllun a byddwn yn ystyried darparu £1m y flwyddyn ar ôl hynny os na fydd yna adnoddau pellach yn dod oddi wrth Lywodraeth Cymru tuag at y maes yma.
38. **Adnewyddu Goleuadau Traffig (£650,000)** - Mae angen darparu ar gyfer colofnau a goleuadau traffig sy'n dod i ddiwedd eu hoes. Yn y gorffennol bu modd dygymod gyda'r niferoedd bychan oedd yn codi o'r gyllideb cynnal ffyrdd ond bellach mae'r niferoedd yn cynyddu wrth i fwy ddod i ddiwedd eu hoes.
39. **Adnewyddu Ffensys Diogelwch Ffyrdd Is safonol (£1,000,000)**- Yn y 10 mlynedd gyntaf o'r Cynllun Asedau blaenorol cafodd hanner y Ffensys Diogelwch is-safonol (pyst pren) eu hadnewyddu (34 lleoliad). Mae 34 lleoliad yn weddill i'w hadnewyddu.
40. **Pontydd Diffygiol (£1,778,500)** - Yn dilyn adolygiad o drefniadau cynnal ffyrdd y Cyngor a gyhoeddwyd yn 2016 fe benderfynwyd ymdrin â phontydd drwy symud i drefn archwilio ac asesu pontydd a waliau cynnal

yn seiliedig ar risg (hynny yw, sicrhau fod trefniadau clir a phendant yn eu lle er mwyn sefydlu a thargedu ein prif risgiau). Mae ein hasesiadau yn dangos fod yna nifer o bontydd sydd angen sylw os ydym am barhau i fedru eu defnyddio. Byddai peidio â gwneud hynny yn gallu golygu gosod cyfyngder ar y bont fyddai'n golygu gwyriad neu hyd yn oed cau'r bont yn gyfangwbl. Y pontydd dan sylw yw -

- Pont Mwnwgl y Llyn, Y Bala
- Pont Ffordd Cadfan Tywyn
- Pont Penllyn ger Brynrefail
- Pont Llanystumdwy
- Pont Capel Horeb, Arthog
- Pont Dysynni Tywyn

41. **Llifogydd ar y Briffordd (£1,000,000)** - Ar hyn o bryd nid oes gennym gyllideb benodol ar gyfer cyflawni man gynlluniau er mwyn osgoi i ddŵr lifo oddi ar y ffyrdd a chreu niwed i eiddo trigiannol. Gwelwyd achosion yn ddiweddar o hynny yn digwydd ac felly bu'n rhaid ystyried defnyddio cyllideb cynnal a chadw ffyrdd i ddelio a'r enghreifftiau gwaethaf. Yn amlwg mae yna oblygiadau i drigolion yn y lleoedd hynny sy'n dioddef yn ogystal ag i enw da'r Cyngor. Fe all fod yna oblygiadau cyfreithiol hefyd. Mae angen darparu cyllideb ar gyfer y fath waith felly.
42. **Darparu Tir Claddu (£682,000)** - Byddai methu a chyflawni'r cynllun yma yn golygu na fyddai gennym ddarpariaeth tir claddu digonol mewn 3 ardal drefol o fewn y sir.
43. **Adnewyddu Pibellau Dwr Stadau Tai (£2,400,000)** - Cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet ar 7/6/16 yn nodi fod yna gyfrifoldeb yn disgyn ar y Cyngor i gynnal a chadw pibellau dwr oedd heb eu mabwysiadu oedd yn gwasanaethu tai Cyngor. Bydd y gwaith adnewyddu yma (sy'n cael gwared a phibelli dwr is safonol) yn parhau i'r hir dymor ac amcangyfrifir bod angen y swm yma i wneud hynny dros gyfnod y cynllun. Byddai peidio â'i wneud yn creu risg o achos cyfreithiol yn erbyn y Cyngor ac yn golygu fod tenantiaid CCG yn derbyn cyflenwadau dwr is safonol.
44. **Datblygu ac Adnewyddu Safle Caeryglchu (£718,000)** - Mae angen adnewyddu to'r adeilad a chyrraedd gofynion tân er mwyn sicrhau bod gweithgareddau ailgylchu a throsglwyddo yn parhau.
45. **Datblygu Safle Trosglwyddo Coed Ffridd Arw (£210,000)** - Ar hyn o bryd, dim ond rhan o'r safle gellir defnyddio dan y drwydded i ymdrin â gwastraff a deunyddiau ailgylchu. Bydd yr eithriad i weddill y safle dan y drwydded yn dod i ben ymhen blwyddyn os na fydd system rheoli dŵr wyneb yn cael ei ddarparu yn y safle.

## Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd

46. **Gweithfeydd Atal Llifogydd (£2,047,800)** - Mae gan yr Adran Ymgynghoriaeth gyfrifoldeb am asesu'r risg o lifogydd o fewn y sir ac yn edrych am ffyrdd o feirioli'r risg hwnnw. Mae yna nifer o gynlluniau lle gellir gwneud cais am grantiau i gwblhau gweithfeydd ond byddai hynny yn ddibynnol ar gyllid cyfatebol gan y Cyngor. Y cynlluniau dan sylw a'r risg sy'n cael ei warchod yw -

- **Cei Aberdyfi** - strwythur sy'n gwarchod yr ardal tu cefn iddo rhag erydiad ac yn cynnal nifer o wasanaethau allweddol yn Aberdyfi;
- **Promenâd y Gogledd Abermaw** - Mae hyn i ddatgloi buddsoddiad o £ 1.6m i amddiffyn 200 eiddo rhag llifogydd.
- **Gerddi Traphont, Abermaw** - Mae hyn i ddatgloi buddsoddiad o £ 1.6m i amddiffyn 50 eiddo rhag llifogydd a fydd hefyd yn cynorthwyo gyda'r broblem tywod yn y dref;
- **Traeth Crugan Pwllheli** - Mae'r pres yma i ddatgloi £2m o fuddsoddiad i amddiffyn 200 o dai ym Mhwllheli.
- **Atgyweirio wal a gwaith traenio yn Hirael Bangor** - Cynorthwyo strategaeth hirdymor a diogelu rhag llifogydd ar gyfer ardal Hirael ym Mangor. Amddiffyn hyd at 120 o gartrefi a seilwaith allweddol.
- **Ffordd y Traeth , Y Felinheli** - Mae hyn i ddatgloi buddsoddiad o £800k i amddiffyn 33 eiddo rhag llifogydd.

## Cynlluniau Adnewyddu

47. **Fflyd Cerbydau (£2,037,000)** - Mae nifer o wasanaethau'r Cyngor yn defnyddio cerbydau er mwyn cyflawni gwasanaethau, a thra bod rhai adrannau yn adnewyddu'r cerbydau hynny drwy sefydlu Cronfa Adnewyddu ar eu cyfer, mae eraill yn ddibynnol ar y rhaglen gyfalaf i'w hadnewyddu. Y swm dan sylw yma sydd ei angen i adnewyddu'r cerbydau dan sylw dros y cyfnod 10 mlynedd.

48. **Offer Technoleg Gwybodaeth (£7,215,360)** - Yn yr un modd, mae defnydd technoleg gwybodaeth yn allweddol bellach i holl wasanaethau'r Cyngor ac mae angen adnodd i adnewyddu'r offer hwnnw wrth iddo ddod i ddiwedd ei oes. Y swm yma yw'r swm sydd ei angen i wneud hynny dros gyfnod 10 mlynedd y Cynllun.

49. **Adran Addysg - Cwblhau'r adolygiad o drefniadaeth ysgolion ym Mangor. (£6,370,000)**
50. Mae'r Cyngor a Llywodraeth Cymru eisoes yn buddsoddi £12miliwn ym Mand A Rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif Llywodraeth Cymru yn y sector gynradd ym Mangor. Mae'r buddsoddiad pellach hwn ym Mand B fyddai'n gweld Llywodraeth Cymru yn ariannu 65% o gyfanswm cost y cynllun o £18.2m yn allweddol er mwyn adeiladu ar, a chwblhau'r gwaith, o fuddsoddi yn addysg yn ardal Bangor.
51. Fodd bynnag yn wyneb y cyfyngiadau ariannol sydd arnom; y buddsoddiad sydd ei angen er mwyn cyflawni cynlluniau Addysg a nodir ym mharagraffau 18 i 20 o'r cynllun hwn, a'r flaenoriaeth gymharol a roddwyd i'r cynllun yma, mae angen ystyried dull arall o'i gyflawni.
52. Mae yna bosibilrwydd y gallasai cost y cynllun ol-16 a nodir ym mharagraff 18 y Cynllun fod yn llai na'r hyn a glustnodwyd ar ei gyfer, ac os felly, byddwn yn gwyro unrhyw adnodd fyddai'n cael ei ryddhau tuag at y cynllun yma.
53. Os nad oes lleihad yng nghost y cynllun hwnnw neu os nad yw'n ddigonol, os yw'n parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Adran Addysg, mae modd cyflawni'r cynllun drwy fenthycia arian ychwanegol i wneud hynny ond byddai angen i'r Adran Addysg ddarganfod yr adnoddau refeniw i dalu cost y benthyciad hwnnw.
54. **Adran Amgylchedd - Delio gydag ol groniad cynnal a chadw. (£14,000,000).**
55. Ar ddechrau'r Cynllun asedau diwethaf roedd gennym £27m o ol groniad cynnal a chadw oherwydd nad oeddem wedi bod yn buddsoddi digon yng nghynnal a chadw ein hadeiladau. Yn sgil y gwariant a roddwyd o'r neilltu yn y cynllun diwethaf mae'r swm yma bellach lawr i £14m. Os am allu delio gyda'r holl broblemau cyflwr sydd wedi eu hadnabod yn ein hadeiladau ar hyn o bryd e.e. Toeau'n gollwng, ffenestri wedi dod i ddiwedd eu hoes, tamprwydd, ceginau a thoiledau mewn cyflwr gwael ayb. Mae angen buddsoddiad uwchben y gyllideb cynnal a chadw refeniw sydd yn cael ei wario i geisio osgoi i'r broblem fynd yn waeth.
56. Byddai'r buddsoddiad yma yn cwrdd â'r holl ddiffygion ac yn osgoi'r risg o orfod cau adeilad oherwydd nam allasai amlygu ei hun oherwydd y diffyg hanesyddol. Fodd bynnag mae'r swm mor enfawr fel na ellir cwrdd â'r gwariant os am gyflawni elfennau eraill allweddol o'r cynllun hwn.

57. Ar sail hynny felly ni fyddwn yn blaenoriaethu'r maes yma gan ddisgwyl i'r adran wyro adnoddau o faes cynnal a chadw refeniw os cyfyd sefyllfa lle bydd angen i adeilad gau o'r herwydd.
58. Ar ben hynny fodd bynnag os cyfyd unrhyw dderbyniadau cyfalaf yn ystod cyfnod y cynllun hwn sydd heb eu hymrwymo yn barod ar gyfer unrhyw gynllun arall, byddwn yn cyfeirio'r derbyniadau cyfalaf hynny tuag at gael gwared a'r ol groniat cynnal a chadw yma. Byddwn hefyd yn dechrau ar y gwaith drwy ddarparu **£600,000** o adnoddau'r Cynllun Asedau.
59. **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant - Grantiau ar gyfer Tai Gwag (£3,000,000)** - Byddai'r buddsoddiad yma yn cyllido Cynllun Tai Gwag y Cyngor sy'n dod a 60+ o dai gwag yn ol i ddefnydd yn flynyddol. Heb yr adnodd ni ellir parhau gyda'r cynllun. Mae Cyngor Gwynedd wedi arloesi yn y maes a'r unedau tai sy'n cael eu hadfer ac yn cael ei hailgylchu ar gyfer darparu llety i bobl ar y gofrestr tai a'r digartref. Rhagwelir y byddai lleihau'r buddsoddiad yn cynyddu'r galw ar y gofrestr a'r cyfnod i gael llety parhaol.
60. Mae'r cynllun tai gwag hefyd yn cefnogi'r cynllun prynwyr tro cyntaf, drwy gynnig cymorth iddynt ddod a thai gwag yn ol i ddefnydd. Mae gwariant tai gwag wrth gwrs yn denu buddsoddiad preifat ychwanegol o fewn ffiniau'r Sir. Amcangyfrifir rhwng 2008 a 2017 y gwariwyd £3.9m o arian y Cyngor ar dai gwag a arweiniodd at fuddsoddiad preifat pellach o £10.5m.
61. Fodd bynnag, gan ystyried y symiau sydd eisoes yn cael eu darparu yn y Cynllun yma ar gyfer maes tai, a'r adnodd sydd ar gael, a chan wybod fod yna symiau sylweddol am fod ar gael dros y 10 mlynedd nesaf i gyflawni Strategaeth Tai'r Cyngor byddwn yn trosglwyddo'r cynllun yma i gael ei asesu fel rhan o'r drefn blaenoriaethu ar gyfer yr adnoddau fydd ar gael ar gyfer y Strategaeth Tai.
62. **Tai Gofal Estynedig (£2,500,000)** – Fel y nodir yng nghymal 31 o'r Cynllun hwn bwriedir darparu adnodd ar gyfer un cynllun tai gofal estynedig ychwanegol ond bydd yn rhaid trosglwyddo'r ystyriaeth o ail gynllun ychwanegol i'w ystyried o ran blaenoriaethau'r Strategaeth Tai.

**Rhan C - CYNLLUNIAU LLE BYDD ANGEN AROS I WELD A ALLWN YCHWANEGU AT YR ADNODD FYDD GENNYM CYN Y GELLIR CYFLAWN.**

63. **Grantiau er mwyn gwella cyflwr a diogelwch tai is safonol (£4,000,000)** - Byddai'r buddsoddiad yma yn ariannu cynlluniau sy'n gwella cyflwr a diogelwch tai is-safonol. Defnyddir arian fel cyfraniad Gwynedd i ddenu arian cyfatebol o ffynonellau allanol ac i ysgogi gwelliannau pellach. Mae nifer o gynlluniau sy'n cael eu gweinyddu ar ran Cynulliad Cymru yn ddibynnol ar gyfraniad cyfatebol y Cyngor. Byddai yn anodd i'r Cyngor

ddenu arian gan y Llywodraeth a gweithredu a chymhell gwaith adferol heb ymyrraeth a gwneud cyfraniad ariannol. Rydym yn estyn cymorth i unigolion bregus fyddai ddim yn gallu goruchwyllo gwelliannau angenrheidiol eu hunain. Mae'r arian yn galluogi'r Cyngor roi benthyciadau llog isel i ymgeiswyr na fyddai yn cael cymorth fel arall, ac yn galluogi pobl i barhau yn eu cartrefi. Mae'r arian hefyd yn topio fyny DFG's, sy'n osgoi pobl hyn a bregus fod angen gofal parhaol.

64. **Adnewyddu Offer Meysydd Chwarae (£516,000)** - Heb y buddsoddiad yma ni fyddai yna adnewyddu offer chwarae ar ddiwedd eu hoes gweithredol. Yn y 10 mlynedd, rhagwelir y bydd angen adnewyddu'r offer chwarae a gwella'r mesurau diogelwch mewn 42 allan o'r 131 o feysydd chwarae sydd gan y Cyngor.
65. **Gosod offer talu am ddefnyddio toiledau cyhoeddus (£165,000)** - Er mwyn hwyluso gallu trosglwyddo rhai o'r toiledau cyhoeddus i eraill byddai'n ddymunol gosod offer codi tal ar gyfer y toiledau hynny fel bod y sawl fyddai'n eu cymryd drosodd yn cael elfen o incwm allan ohonynt. O beidio â gwneud hynny mae yna gwestiwn a fydd sefydliadau eraill mor barod i gymryd cyfrifoldeb drostynt.
66. **Uwchraddio system traenio diffygiol yn Nhremadog (£75,000)** - Cynllun i ddatgloi £500k o fuddsoddiad i amddiffyn 20 o dai yn Nhremadog.
67. **Porth Waterloo Caernarfon (£55,000)**- Cynllun i amddiffyn mynediad i'r traeth islaw Porth Waterloo yng Nghaernarfon. Mae'r gwaith yn gysylltiedig â wal môr sy'n methu sy'n dal y tir yn ôl i'r llwybr beicio a gwarchod 8 tŷ rhag problemau llifogydd.
68. **Penpaled Criccieth (£45,000)**- Cynllun amddiffyn yr arfordir i warchod 4 o dai
69. **Pwll Nofio Bangor. (£500,000)** Ar hyn o bryd mae ein cynnig ffitrwydd a chwaraeon "sych" yn gyfyngedig iawn i drigolion Bangor oherwydd diffyg gofod addas yn yr adeilad presennol. Yn ychwanegol, mae dyluniad presennol yr ystafelloedd newid yn cyfyngu ar faint o wersi nofio rydym yn gallu eu cynnig sydd yn achosi rhestrau aros. Rydym hefyd yn agored i her posibl gan grwpiau sydd wedi'i gwarchod trwy ddeddfwriaeth cydraddoldeb e.e. diffyg gofod newid merched yn unig a gofod cyfyng ar gyfer pobl anabl. Mae hefyd yn anaddas i ddefnyddwyr yr ystafell ffitrwydd e.e. cawodydd agored/ochr pwll yn unig.
70. **Hafan Pwllheli (£700,000)** - Mae incwm yr Hafan Pwllheli yn deillio o'r lleoedd sydd yna i gychod yno. Mae'r pontwns a'r stanciau sydd yno yn

mynd yn ol i'r 90au ac mae angen eu hadnewyddu. Byddai peidio â gwneud hynny yn golygu dirywiad mewn cyflwr yn arwain at yr angen i dynnu pontŵns o'r Hafan, gan leihau'r incwm (ac felly'r elw) sy'n cael ei greu. Byddai lleihad yn niferoedd cwsmeriaid hefyd yn debygol o gael effaith ar fusnesau o gwmpas yr Hafan. Rhagwelir angen am fuddsoddiad pellach yn 2030.

71. **Neuadd Dwyfor, Pwllheli. (£350,000)** Cyflwynwyd cynllun gwerth £340,000 i Lywodraeth Cymru ar gyfer gwneud welliannau i'r Neuadd - ailwampio'r llyfrgell (prosiect uchod), creu derbynfa ar y cyd, ailwampio'r cyntedd a datblygu gofod paned / mynediad diwifr a phapurau newydd yno a chreu ystafell weithgaredd. Ni fu'r cais yn llwyddiannus oherwydd pwysau ar y gronfa genedlaethol. Heb fuddsoddi ni fydd yr adeilad yn gallu cynnig y profiad fyddai cwsmeriaid yn ei ddisgwyl a gall arwain at leihad yn yr incwm. Byddai buddsoddi yn yr adeilad yn creu sail llawer cryfach i'r Cyngor drafod trosglwyddo'r gwasanaeth gyda phartneriaid. Pe na fydd buddsoddiad, na throsglwyddiad yn y tymor byr / canolig, yna bydd risg i hyfywdra'r Theatr/Sinema yn y Neuadd ac oblygiadau wedyn i'r Llyfrgell a mannau cyfarfod Cyngor/cymunedol sydd ar y safle. Byddai oblygiadau hefyd i'r Cyngor gan fod gofod y Theatr o fewn y Neuadd wedi ei restru a byddai cyfrifoldeb ar y Cyngor i'w warchod. Petai'r Neuadd yn cau byddai'n cael effaith nid yn unig ar ddefnyddwyr y gwasanaeth, ond hefyd ar fusnesau canol tref Pwllheli a'r ardal ehangach (adnodd tywydd gwlyb i ymwelwyr).
72. **Canolfan Hamdden Plas Ffrancon, Bethesda. (£100,000)** Ar hyn o bryd, mae yna ran o'r Ganolfan Hamdden yn cael ei ddefnyddio gan Dechrau'n Deg ac incwm yn deillio o hynny. Pe byddai'r cynllun hwnnw yn dod i ben ni fyddai'r gofod yn addas i ar gyfer sicrhau gallu creu incwm ohono a byddai angen gwrio i ddod ag ef yn ol i ddefnydd fel y gellid creu incwm. Mae hyn yn ddibynol ar Dechrau'n Deg yn dod i ben wrth gwrs.
73. **Gwella'r rhwydwaith lonydd glas. (£60,000)** Rhaglen fyddai hon i ddiweddarau a gwella arwyddion a gwybodaeth i ddefnyddwyr yn y llefydd prysuraf ar hyd y lonydd glas. Byddai hefyd yn darparu rhaglen o welliannau i fynedfeydd ar hyd y rhwydwaith er mwyn hwyluso defnydd gan fwy o bobl a gwella diogelwch defnyddwyr ger cyffyrdd priffyrdd ynghyd a darparu rhaglen o waith ffensio a gwarchod waliau terfyn lle mae'r cyfrifoldeb yn disgyn ar y Cyngor.
74. **Addasu Llyfrgell Pwllheli. (£120,000)** Mae gwaith wedi ei gwblhau i gyflwyno system hunan wasanaeth i rwydwaith llyfrgelloedd Gwynedd yn 2017/18. Ond 'roedd gofod Llyfrgell Pwllheli yn cyfyngu ar allu'r gwasanaeth i fanteisio ar gyfleoedd i wella effeithlonrwydd yn sgil y system



newydd. Mae angen buddsoddiad i addasu'r adeilad a manteisio yn llawn ar gyfleoedd cyd-leoli gyda derbynfa'r Theatr/Sinema sydd yn yr adeilad.

75. **Canolfan Hamdden Dwyfor (£75,000)** - Nid oes digon o leoedd parcio bellach ar y safle i ddygymod gyda'r nifer defnyddwyr ac maent yn gorfod parcio ar y stryd neu strydoedd cyfagos. Budd y cynlyn fyddai gwella profiad defnyddwyr y ganolfan a lleihau problemau parcio stryd i drigolion cyfagos.
76. **Addasiadau i Lyfrgell Bangor. (£300,000)** Mae Llyfrgell Bangor yn cynnig darpariaeth gofod cyfyng iawn i ddefnyddwyr o ystyried ei bod yn un o brif lyfrgelloedd Gwynedd, yn un o'n cymunedau mwyaf, sydd hefyd yn ddinas Prifysgol. Nid oes digon o ofod yn yr adeilad presennol i wneud unrhyw fath o waith ymestynnol a gwaith partneriaethol gydag asiantaethau allanol. Mae ein gallu felly i ddarparu gwasanaeth llyfrgell gyflawn megis gweithgareddau darllen (Clybiau Darllen) gweithgareddau iechyd a lles (sesiynau gwybodaeth, sesiynau codi ymwybyddiaeth ofalgar) gweithgareddau plant (sesiynau stori a rhigwm i fabanod, gweithgareddau llythrennedd teulu) yn isel iawn o'i gymharu â threfi eraill y sir. Nid oes cyfleoedd i hyrwyddo'r llyfrgell fel hwb gwybodaeth gymunedol ychwaith fel sydd wedi digwydd yn llwyddiannus mewn rhai o'r llyfrgelloedd eraill.
77. Os bydd adnoddau pellach yn dod i'n rhan yn ystod cyfnod y Cynllun, byddwn yn eisio cyflawni'r cynlluniau a nodir yn rhan C yn y drefn y maent yn ymddangos uchod, sy'n cyd-fynd a'r drefn y rhoddwyd yr aelodau iddynt yn ystod y broses ymgynghori.

## CASGLIADAU

78. Cyfanswm cost y cynlluniau a nodir yn Rhan A ac yng nghymal 57 Rhan B yw £67m sydd £5m islaw'r swm damcaniaethol o £72m sydd yn debygol o fod ar gael i ni dros y cyfnod.
79. Fodd bynnag, rhaid bod yn fyw i'r ffaith fod yna ofynion eraill am godi yn ystod y cyfnod 10 mlynedd ac nid fyddai'n briodol i ni adael ein hunain mewn sefyllfa lle na fyddem yn gallu cwrdd â'r gofynion hynny.
80. Bwriedir cadw'r £5m a nodir uchod yn ol felly er mwyn cael £0.5m y flwyddyn i fedru ymateb i unrhyw ofynion sy'n codi.
81. Bydd angen ystyried blaenoriaeth unrhyw fater sy'n codi yn erbyn y blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun hwn. Os na fydd yna ofyn yn dod i'r amlwg mewn unrhyw flwyddyn, yna gellir rhyddhau'r adnodd i wireddu'r cynlluniau a nodir yn Rhan C.

82. Mae'n bosibl hefyd y bydd yna wybodaeth bellach yn dod i law, boed yn ofynion sylweddol pellach; addasiad sylweddol yn yr adnodd sydd ar gael neu asesiad cydraddoldeb manylach fydd yn effeithio ar y gwaith blaenoriaethau a roddwyd yn y Cynllun a bydd angen adolygu'r Cynllun hwn felly o bryd i'w gilydd.